



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Swansea University E-Theses

'Cweryl y Bydysawd': Agweddau Athronyddol ar Waith T. H. Parry-Williams.

Lane, Maureen

How to cite:

Lane, Maureen (2005) '*Cweryl y Bydysawd*': *Agweddau Athronyddol ar Waith T. H. Parry-Williams..* thesis, Swansea University.

<http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa42840>

Use policy:

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence: copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder. Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

Please link to the metadata record in the Swansea University repository, Cronfa (link given in the citation reference above.)

<http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/>

'Cweryl y Bydysawd'

**Agweddau Athronyddol ar Waith
T. H. Parry-Williams**

Maureen Lane

**Cyflwynwyd i Brifysgol Cymru
gan ateb gofynion gradd Ph.D.**

Prifysgol Cymru Abertawe

2005



ProQuest Number: 10821230

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS

The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed, a note will indicate the deletion.



ProQuest 10821230

Published by ProQuest LLC (2018). Copyright of the Dissertation is held by the Author.

All rights reserved.

This work is protected against unauthorized copying under Title 17, United States Code
Microform Edition © ProQuest LLC.

ProQuest LLC.
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106 – 1346

CYFLWYNIAD

Yn y bennod gyntaf, ceisir dangos paham y ceir anhawster wrth geisio deall gwaith y bardd-lenor, T. H. Parry-Williams, ac wrth ymdrechu i adnabod y dyn ei hun yn well. Cynigir sawl ateb i'r broblem hon. Yr un pennaf yw ei gred mai cymuno'n hanner gyfrinachol â'i ddarllenwyr y dylai ysgrifwr ei wneud, gan ei led-guddio ei hun yn ei waith. Ymhellach, synia y gellid dweud pob math o bethau mewn barddoniaeth heb eu derbyn yn hollwir. Gwelir, felly, ei fod yn chwarae mig ag ef ei hun, fel y gwna â'i ddarllenwyr.

Yn yr ail bennod, treiddir i anwadalwch meddwl Parry-Williams, gan ddilyn canllawiau ei fanifesto personol ar lenydd. Trafodir y broblem o geisio adnabod y bardd-lenor fel dyn ond darganfyddir ei fod yn amddiffyn ei anwadalwch drwy gyfrwng ei ymlyniad diysgog wrth 'brofiadau munud awr' a rheidrwydd diffuantrwydd ar ran llenorion.

Darlunnir anwadalwch meddwl Parry-Williams ymhellach ym mhennod tri, drwy daflu golwg ar y modd y ceisia wadu ei wir deimladau ar ei fordeithiau pell i America yn 1925 ac yn 1935. Ymdrinnir, hefyd, â rhai agweddau a oedd i liwio ei natur bruddglwyfus.

Yn y bedwaredd bennod, ymdrinnir â datblygiadau chwyldroadol ym myd ffiseg a danseiliodd yr hen feddylfryd am y bydysawd ac a ychwanegodd at ansicrwydd ac anwadalwch meddwl Parry-Williams.

Ceir ymdriniaeth ar ei olygwedd ansicr ar grefydd yn y bumed bennod, lle y gosodir ei waith yn erbyn cefndir diwinyddol, newidiol ei oes.

Yn olaf, yn y chweched bennod, ceisir mynd i'r afael â pherthynas y bardd-lenor â'r byd ysbrydol, gan ddefnyddio syniadau hen a chyfoes am y pwnc, gan gynnwys seicoleg, fel cefndir yr astudiaeth.

DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisioes o ran sylwedd am unrhyw radd ac ni chyflwynwyd ef ar hyn o bryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnodwyd.....(ymgeisydd)

Dyddiad.....04.01.05.....

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ymchwiliadau i fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol. Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau manwl. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnodwyd.....(ymgeisydd)

Dyddiad.....04.01.05.....

GOSODIAD 2

Rhoddaf yma gydsyniad i'm traethawd, os derbynnir ef, fod ar gael i'w lungopio ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnodwyd.....(ymgeisydd)

Dyddiad.....04.01.05.....

Cynnwys

Cyflwyniad		ii
Datganiad a Gosodiadau		iii
Cynnwys		iv
Byrfoddau		v
Pennod 1	'Treiddio i'r Adnabyddiaeth?'	1
	Nodiadau	76
Pennod 2	Malu a Chwalu	84
	Nodiadau	137
Pennod 3	'Gweld y Byd?'	143
	Nodiadau	212
Pennod 4	Mawr a Bach	219
	Nodiadau	319
Pennod 5	Du a Gwyn	328
	Nodiadau	394
Pennod 6	'Rhwng Nef a Llawr'	399
	Nodiadau	458
Diwedd glo		464
Llyfryddiaeth		467

BYRFODDAU

arg.	argraffiad
B. O.	Bob Owen
BBC	British Broadcasting Corporation
C. C.	Cyn Crist
c.	tua
Co.	Company
Corpl.	Corporal
Cyf.	Cyfyngedig neu Cyfrol
Dr.	Doctor
e.e.	er enghraifft
e.g.	er enghraifft
ed.	editor/editors
et al.	ac eraill
etc.	ac yn y blaen
gen. ed.	general editor
gol.	golygydd/golygyddion
ibid.	o'r un tarddiad
Inc.	Incorporated
LIGC	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
LIGC, THPW	casgliad T. H. Parry-Williams yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Ltd.	Limited
M. C.	Methodistiaid Calфинаidd
M.A.	Master of Arts
N. York	New York
No	Number
O. C.	Ôl Crist
Ph.D.	Doctor of Philosophy
Preg.	Llyfr y Pregethwr
pt.	part
Pte.	Private
R. A. M. C.	Royal Army Medical Corps
Rev.	Reverend
Sect.	Section
sic	ysgrifennwyd fel yn y gwreiddiol
St.	Saint
THPW	Thomas Herbert Parry-Williams
Vol.	Volume
Wms	Williams

PENNOD 1

'TREIDDIO I'R ADNABYDDIAETH'?

Wrth drafod gwaith T. H. Parry-Williams, awgrymodd Meredydd Evans fod 'mwy i'r person hwn nag a fynegwyd ganddo amdano'i hun mewn cerdd ac ysgrif.'¹ Meddai Dyfnallt Morgan: 'One is left with the strong impression that T. H. Parry-Williams has chosen not to parade whatever beliefs he cherished and not to be in any way didactic.'² A datganodd R. Gerallt Jones i'r un perwyl:

Although often moved to admiration and even a sense of awe by the skill of many individual poems, one is at first left with a feeling of uncertainty and sometimes of bafflement when looking at his work in its totality ... In direct contrast to his cousin, Robert Williams Parry, one does not feel immediately that here is an undiluted revelation of a poet's personality; there is a caution, a sense of the deliberate balancing of contrary forces, possibly even an unwillingness to accept the real implications of the poet's own most penetrating vision, that, in the final analysis, clouds the issue.³

Dywedodd D. Islwyn Edwards yntau i T. Gwynn Jones a Parry-Williams ddefnyddio 'Cwlt y Masg' yn bur ddeheuig yn eu gwaith gan ei gwneud yn amhosibl bron i ddarganfod yr wyneb-go-iawn sydd yn llechu y tu ôl i'r *personae*.⁴ Ac mewn adolygiad cyfoes o'r gyfrol, *Cerddi* (1931),

syniodd J. Gwyn Jones nad barddoniaeth ysgafn a geid ynnddi, gan esbonio ei bod yn rhaid aros yn hir uwchben y meddyliau, a dychwelyd eilwaith atynt, gan gilio'n bryderus yn y diwedd rhag ofn na chafwyd gafael ar wreiddyn y mater. Beiai ef anwadalwch meddwl Parry-Williams yn hyn o beth ac meddai: 'O bosibl, mai'r anwadalwch yw'r unig beth sefydlog a berthyn iddo',⁵ gan ychwanegu y gallai olygu ymgais onest gywir i ddehongli bywyd yn ôl yr argraffiadau a dderbyniodd y bardd o ffeithiau mawr bywyd, megis marw a byw, casineb a serch. Felly, pwysleisiodd nad oedd gan Parry-Williams weledigaeth glir o ystyr bodolaeth ac ategwyd hynny gan 'Y Brawd Llwyd' hefyd, wrth drafod yr un gyfrol yn 1931. Yn ôl hwnnw, nid oedd athroniaeth bywyd Parry-Williams wedi crisialu digon ar y pryd iddo allu rhoi nodyn clir a phendant ynnddi.⁶ Cafwyd sylw digon perthnasol gan Hywel Teifi Edwards yn ei adolygiad o *Gyfrol Deyrnged Syr Thomas Parry-Williams* pan esboniodd nad oedd hi yn ein tywys gam yn nes at y dyn ei hun, er cymaint yr oedd wedi mwynhau ei darllen. Tybiai ef mai trwy ddarllen y cerddi a'r ysgrifau y deuid i adnabod Parry-Williams yn well.⁷

Y mae hyn yn wir o bosibl, ond yn anffodus i ddarllenwyr y gweithiau hynny, credai Parry-Williams yn gadarn na ddylai awduron ddinoethi eu

henaid mewn rhai mathau o weithiau creadigol. Enghraifft dra chadarnhaol o hyn, a welir yn ei bapurau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yw ei llawysgrif fras iawn ar gyfer darlith i'w thraddodi yn ystod 'Wythnos Gymraeg Coleg Harlech' ar y 14eg o Awst, 1953.⁸ Fe'i gelwir 'Yr Eifen Bersonol ?mewn Barddoniaeth ?mewn Rhyddiaith' (eiddo'r awdur yw'r marciau cwestiwn). Y mae'r llawysgrif hon yn bwysig dros ben ac fe'i defnyddir yma i ddadlennu'r modd y cyfiawnha Parry-Williams angen llenor i'w led-guddio ei hun yn ei waith o dan rai amgylchiadau.

Ynnddi ceisia argyhoeddi ei ddarpar wrandawyr nad cyfrwng i ddatgelu rhywbeth am yr ysgrifwr ei hun yw ysgrif ond yn hytrach ddarn o ryddiaith sydd yn cyffwrdd â'r cyffredinol mewn llenyddiaeth – hynny yw, yr hen syniad clasurol Groegaidd mai trafod bywyd yn gyffredinol drwy'r oesau y dylai barddoniaeth ei wneud ac ymatal rhag ymdrin â'r neilltuol hanesyddol. Pwysleisiodd Parry-Williams y pwynt hwn yn gryf mewn llythyr yn 1951 at J. W. Jones, Blaenau Ffestiniog, a oedd am weld cyhoeddi barddoniaeth ewythr y bardd-lenor o Ryd-ddu, sef R. R. Morris, a oedd bellach wedi marw:

Wel, fy nheimlad i yw hyn – fod rhan fawr o'r cerddi hyn

wedi gwneud eu gwaith pan ymddangosasant y tro cyntaf. Y mae'n bosibl y byddai rhai o'r cerddi personol a lleol hyn yn apelio at rywrai sy'n gyfarwydd â'r lleoedd a'r personau. Ond mewn casgliad heddiw, i gyhoedd yn gyffredinol, ofnaf mai fflat hollol fyddent. Gwaetha'r modd, cerddi topical fel hyn yw llu mawr iawn o'r rhai sy'n y casgliad. Mi geisiais farcio'r rhai a allai feddu apêl fwy cyffredinol – hynny yw, o safbwynt blas ar lenyddiaeth yn unig ... Dewis ar sail gwerth llenyddol ac apêl weddol gyffredinol a wneuthum i, – fel petai'r casgliad yn mynd i gael ei gynnig i ryw gyhoeddwr a fentrai ymgymryd ag ef. Nid wyf i'n gallu dewis rhwng y cerddi personol a thopical yma. Yn eu testunau a'u cyfeiriadau y mae eu hapêl fwyaf. Pethau achlysurol ac amgylchiadol ydynt, ac, fel y dywedais, wedi i'r achlysur neu'r amgylchiad basio, y maent yn tueddu i gollu eu grym a'u pwynt. Ergydion wedi eu tanio, fel petai, ydynt ... fel y dywedais, nid wyf yn meddwl y mentrai unrhyw gyhoeddwr ar gyhoeddi cerddi personol etc. fel hyn yn awr.⁹

Ailadroddiad o ddatganiad John Morris-Jones ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yw'r syniad hwn, lle y dywed yn ei erthygl ddylanwadol, 'Swydd y Bardd', yn *Y Traethodydd* yn 1902, mai'r cyffredinol, yn hytrach na'r neilltuol, y dylai beirdd ei adlewyrchu yn eu gwaith. Dilyn troed Aristoteles yr oedd yntau yn hyn o beth gan i hwnnw gredu mai barddoniaeth oedd yr unig gelfyddyd a oedd yn ymwneud â gwirioneddau cyffredinol ac athronyddol. Dyfynna eiriau'r Groegwr i gyferbynnu hanes â barddoniaeth:

Nid adrodd yr hyn a ddigwyddodd ...ydyw gwaith y bardd,

ond yr hyn a all ddigwydd, a'r hyn sydd bosibl yn ol tebygolrwydd neu anghenrhaidd. Nid mewn adrodd pethau ar fydr neu heb fydr y gwahaniaetha'r hanesydd a'r bardd, canys gellid rhoi gwaith Herodotos ar fydr, ac nid llai o hanes a fyddai gyda mydr nag heb fydr; eithr yn hyn y mae'r gwahaniaeth, fod y naill yn adrodd yr hyn a ddigwyddodd, a'r llall yr hyn a all ddigwydd. Am hynny y mae barddoniaeth yn beth mwy athronyddol a godidog na hanes; canys sonia barddoniaeth yn hytrach am y Cyffredinol, hanes am y Neilltuol (*Poet.* ix. 1–3).¹⁰

Yn ei lawysgrif fras ar yr elfen bersonol, dywed Parry–Williams fod yn rhaid i lenor osgoi pob arlliw o fyfiaeth foel, falch wrth sôn am ei brofiadau mewn ysgrif, gan wrthgyferbynnu hyn â chorff barddoniaeth, lle y gellir, meddai, wrth gyfeirio at sylw ei gefnder, Robert Williams Parry, ddweud rhywbeth na ellir ei gynnwys mewn rhyddiaith. Tybia fod rhywun yn arfer â chlywed sôn ar gân am bob math o bethau heb eu derbyn yn hollwir. Wele brawf cyfleus o hyn ganddo mewn ateb bras i ymholiad ynghylch ei rigwm, 'Cŵn Ebrill':

gweler G. P. Cymru o dan y gair 'ci' 'cŵn Ebrill' – curlews – heard at night during spring. Ar lafar yn Arfon. Gynt yn Arfon, yr oedd gwyddau gwylltion, a glywid uwchben yn y nos tua'r Gwanwyn, yn 'gŵn Ebrill' hefyd. Felly, adar yw 'Cŵn Ebrill' am fod eu sŵn yn debyg i gyfarth cŵn. Dyma ? yn dweud yn y rhigwm mai 'Adar ydynt ... yn cyfarth' neu 'gŵn ... yn clochdar' a'r cyfeiriad at y gwanwyn. Fe all bardd ddweud peth od felly, oni all?! Am fod yr adar hyn yn 'cyfarth' a'r cŵn hyn yn 'clochdar', a hefyd am fod hyn yn digwydd yn y gwanwyn pan fydd y

tymor yn newid, yna digon naturiol yw dychmygu – yn awenyddol! – fod y ‘cŵn’ a’r ‘adar’ fel dau dymor yn ‘llaesu llef’ yn yr awyr wrth gwrdd a gorgyffwrdd (gorgyffwrdd, am nad oes ffin bendant i’r tymhorau – ond mewn almanac!) Ac yna, ar y diwedd, ar ôl cyfeirio ar y cychwyn at yr ‘hunllef gôr’, dyma ddod yn ôl at ofnadwyaeth y cyfan – a chyfuno’r tri pheth pendant sydd wedi dod i mewn i’r gân, sef adar, cŵn a thymhorau a’r tri’n ‘cadw sŵn’ ... yn rhyw fath o ddrindod (sic) sy’n cadw sŵn.¹¹

Yn amlach na pheidio, yr un themâu a wyntyllir yn ysgrifau Parry-Williams ag a geir yn ei gerddi. Ymhelaetha ar y syniad o orgyffwrdd y tymhorau yn ei ysgrif, ‘Ar Chwâl’,¹² ac y mae’n bur debyg mai’r hyn sydd ganddo o dan sylw yw’r endid gofod-amser lle yr ystyrir amser fel y pedwerydd dimensiwn ar ongl sgwâr i’r tri dimensiwn gofod, gan greu yr hyn a elwir bydysawd bloc. O ganlyniad, trefn pethau yn unig sydd yn taro dyn oherwydd bod popeth yn digwydd ar unwaith neu wedi digwydd unwaith ac am byth. Awgrymwyd y syniad hwn gan Hermann Minkowski o ganlyniad i Ddamcaniaeth Arbennig Perthynoledd Albert Einstein, 1905, er nad peth hollol newydd ydoedd. Ystyriwyd amser eisoes fel pedwerydd dimensiwn gan d’Alembert mewn gwyddoniadur yn 1754. Hefyd, gofynnwyd ‘Beth yw’r pedwerydd dimensiwn?’ mewn traethawd gan y gwyddonydd Charles Hinton yn 1880. Cydiodd H. G. Wells yn y syniad yn 1895 gan ysgrifennu ei nofel, *The Time Machine*, ac yn

ychwanegol, y mae'r rhan fwyaf o Gristnogion, ar hyd yr oesau, wedi synied am Dduw fel un sydd yn gweld, o safbwynt y presennol tragwyddol, yr hyn a fu, yr hyn sydd a'r hyn a fydd. Trafodir y pwnc cymhleth hwn a'i oblygiadau yn fanylach maes o law, yn y bedwaredd bennod, ond fe'i cynhwysir yma i ddangos dyfnder meddwl y bardd a'r modd deheuig y defnyddia ei ddychymyg i ennyn diddordeb y darllynydd. Hefyd, dengys ddylanwad darganfyddiadau newydd ei oes ar ei waith.

Yn wir, yn hyn o beth, gellir ei gymharu â beirdd metaffisegol Lloegr yr ail ganrif ar bymtheg a ysgrifennai o dan ddylanwad John Donne wrth iddynt adlewyrchu yn eu gwaith ddiffyg cysondeb a sicrwydd eu hoes yn sgîl dyfodiad gwyddoniaeth empiraidd fodern a gynhwysai ddarganfyddiadau fel rhai Copernicus a chwyldrodd gosmoleg drwy ddatgan mai'r haul, yn hytrach na'r ddaear, oedd canol y bydysawd, a Galileo a gefnogai'r ddamcaniaeth fod y ddaear yn troi o gwmpas yr haul. Fel y bardd o Ryd-ddu, cymerai'r beirdd hyn ddiddordeb mawr yn eu profiadau eu hunain a chan fod eu diddordebau o natur ddadansoddol, datblygent yn eu cerddi ddadl mewn modd analytig gan blethu deallusrwydd a theimlad at ei gilydd yr un pryd yn eu gwaith; fel

y dywedodd y bardd, T. S. Eliot: 'A thought to Donne was an experience: it modified his sensibility.'¹³ Yn ôl ei bapurau personol, ymddengys i Parry-Williams astudio gweithiau llenorion Saesneg yr ail ganrif ar bymtheg trwy gyfrwng yr Almaeneg ym Mhrifysgol Freiburg rhwng 1911 a 1913 ac y mae wedi ysgrifennu enw Donne yn fawr ar un dudalen o lyfr nodiadau.¹⁴ Disgrifiodd y bardd hwnnw benbleth ei oes yn 'The First Anniversary':

And new Philosophy calls all in doubt,
The Element of fire is quite put out;
The Sun is lost, and th'earth, and no mans wit
Can well direct him where to looke for it.
And freely men confesse that this world's spent,
When in the Planets, and the Firmament
They seek so many new; they see that this
Is crumbled out againe to his Atomies.
'Tis all in peeces, all cohaerence gone ...¹⁵

Mewn llwyr gyferbyniad â 'Cŵn Ebrill', ymddengys rhai o gerddi Parry-Williams yn weddol syml, ond ni cheir yr hollwir ganddo yn rhai ohonynt, megis y rhigwm 'Ogof Owain Glyndŵr':

Ymlâdd am oriau ym mherfedd Awst,
A'r wyneb fel wyneb Cythraul *Ffawst*,

I gyrraedd lloches arwr y Ddraig,
Yn chwŷs ac yn llafur, dros wefl o graig,

A Moel Ehedog yn gorffwys yn braf,

Heb falio dim, ym medd–dod yr haf;

Mynd i weld lle bu gogoniant coll
Yng ngheudod y clogwyn, – dyna oll.¹⁶

Er iddo ddisgrifio'r ymlwybro beichus a'r dadrithiad disymwth yn dra eglur, sylweddolir, o wybod mwy am yr achlysur, fod yma ddadrithiad dwbl, fel y gwelir yn y man. Cadarnhaodd yn ei ysgrif, 'Dewis',¹⁷ wrth drafod teithiau bywyd dyn, mai'r llwybro sydd o bwys ac nid pen y daith; nid cyrraedd ond yr ymegnio, ac na cheir ond dim ar ben y daith. Nid yw cyrraedd ond pen draw'r trafaelu ac ennill yn ddim ond diwedd yr ymdrechu. A dyna'r hyn a ddarlunnir yn arwynebol yn y rhigwm. Mae'r agwedd hon yn gryf yn ei athroniaeth bywyd a gellir ei chysylltu â'r ffaith iddo gredu nad oes dim yn werth ei gael ar ôl ei gael: 'Hiraethir cael a chaseir y cael';¹⁸ 'Wedi llafurio'n ddiorffwys am y wobr, nid yw'n werth ei chael wedi ei chael (" Efe a roddes iddynt eu dymuniad, – ac a ddanfonodd gulni i'w heneidiau")';¹⁹ 'Your heart no longer quickens for the game,/ When your poor quarry's caught. Love – Life's the same.'²⁰ Wrth edrych yn ôl ar ei fywyd unwaith, dywedodd i rywun (ef ei hun, ynteu Blaise Pascal, tybed?) fynegi yn orffwyllog–feiddgar nad oedd dim yn werth ei gael ar ôl ei gael, ac mai dywediad tebyg ond llai herfeiddiol

yw bod teithio'n obeithiol yn well na chyrraedd.²¹ Efallai fod a wnelo hyn â'r mynych gyfeiriadau a geir yng ngwaith Parry-Williams at lonyddwch, lle yr awgrymir marwolaeth neu farweidd-dra gan y gair hwnnw, a'r ystyr, 'byw', gan y gair, 'symud'. Yn ei ysgrif, 'Aros'²², sonia am un fath o aros sydd yn gyfystyr bron â thrigo; y mae'n elfen dyngedfennol, derfynol. Math arall o aros yw'r 'sefyll sydyn, disymwth sy'n beidio â mynd.', sef marwolaeth. Dangosir dylanwad y syniad hwn yn eglur yn ei soned, 'Gorffwys'²³. Yn ei waith mawr, *Pensées*, myfyria Pascal ar oferedd bywyd, gan ddweud bod pobl yn creu adloniant iddynt eu hunain er mwyn osgoi meddwl am eu cyflwr truenus yn y byd hwn yn lle ei wynebu, gan dderbyn pen y daith, sef marwolaeth. Y mae'r syniad yn debyg i ddaliadau Jean Paul Sartre a Martin Heidegger a gredai fod unigolion yn byw bywyd annilys am nad ydynt yn wynebu'r argyfwng gwacter ystyr. '*Mauvais foi*' oedd term y dirfodwr, Sartre, am y cyflwr annilys hwn. Fel hyn y trafoda Pascal y sefyllfa:

116. Those who make it an excuse to play the philosopher, and to think it unreasonable that men spend a whole day in hunting a hare which they would never have taken the trouble to buy, know very little about our human nature. The hare would not protect us from the spectacle of death or against the unhappiness we have yet to encounter before we meet it, whereas the hunt does provide us with

necessary distraction, and therefore gives us a certain protection...It is the chase they enjoy, rather than the capture.

117. Men divert themselves by running after a ball or a hare;...

125: The only thing that consoles us in our wretchedness is diversion;...Without our diversions we should fall into a state of boredom, and this condition would drive us to seek a more reliable way of escape. But our diversions entertain us and lead us imperceptibly toward death.²⁴

Darlunnir y sefyllfa hon yn yr ysgrif, 'Pen yr Yrfa',²⁵ hefyd, gan Parry-Williams. Yr oedd yr athroniaeth hon yn amlwg yn pwyso ar ei feddwl yn Freiburg pan oedd yn fyfyrwr yno, oherwydd ar ddarn o bapur yn ei lyfr nodiadau ar Hen Fwlgareg, dyddiedig 1912, y mae wedi sgriblo 'Bu arnaf arswyd rhagddo erioed. Cas gennyf yr ysfa codi'r llen.'²⁶ Y mae'n amlwg mai geiriau agoriadol ei erthygl, 'Noethlymun (Profiad Munud Awr)',²⁷ a ymddangosodd yn *Y Brython* ym mis Mai, 1913, yw'r rhain, gydag un gair wedi ei newid. Swm a sylwedd yr erthygl yw bod gwybod yn boen; ar ôl crwydro i wybod, hoffai gymdeithas y syml yn well. Teimlai'n ofidus wrth weld noethni pob math o bethau gan gynnwys cerfluniau a welsai ym Mharis a phob math o lenyddiaeth yr oedd newydd ei darllen, gan gynnwys gwaith Ibsen. Cyfeddyf ei fod yn

teimlo'n hapusach pan fo llen dros bethau: 'Sylwedd yw'm bwgan, ac
ysbryd yw'm hanwilyd.' Canlyniad hyn oll yw bod y swyn a berthynai i
synnu a rhyfeddu yn prysur ddiflannu. Ar y darn o bapur yn ei lyfr
nodiadau, mewn inc gwahanol, ymddengys '*après avoir*' (ar ôl cael).
Tybed a ellir cysylltu hyn â'r ffaith iddo ddweud, yn ei ysgrif,
'Congrinero', bod digwyddiadau wythnos Eisteddfod Genedlaethol
Wrecsam, 1912, pan enillodd y Gadair a'r Goron, wedi ei sobri hyd
dristwch. Teimlai'n ddigon anffuddugoliaethus: 'Adwaith, medd rhywun.
Na, nid yn hollol. Ond dyna fe. Nid oes angen mynd i athronyddu
ynghylch y peth.'²⁸ Efallai mai beirniadaeth anffafriol Pedrog ar yr awdl
fuddugol, 'Y Mynydd', oedd y rheswm, pan geryddodd hwnnw yr awdur
am drafod cydymdreiddiad â'r mynydd yn ei waith, pan oedd y gred yn
un mor fyw i Parry-Williams. Hefyd, honnodd y beirniad fod y
farddoniaeth yn cuddio ffaeleddau yn yr awdl. Ond digwyddodd
rhywbeth arall i Parry-Williams yn ystod y cyfnod hwn. Dengys rhai o'i
gerddi a gyhoeddwyd yn 1912 iddo ef a'i gariad wahanu cyn iddo
ddychwelyd i Brifysgol Freiburg, a'r profiad yn un dirdynnol. Ceir hanes
y ffarwelio yn ei gerdd, 'Yr Oed Olaf', a gyhoeddwyd ar yr 11eg o
Dachwedd:

Cysgod y 'Castell' uwchben Llyn Cwellyn
Lonyddai'r awel yn eddi'r ewyn.
Doi acen o gwmwd, cân ac emyn
Dedwyddyd y dyddiau. Oedai deuddyn
Law yn llaw ar lan y llyn: ymgarent,
Mud orfoleddent ym Medi'r flwyddyn.

Ond wele wêg, – canfyddwn dy lygad
Yn llaith, fe gynnai'th wefus bomgranad.
Dywedit mai anwar oedd fy nghariad,
A dall ac anniwall fy nyhead.
Feinir, ys dir y tristad anaele
Fu'n y dioddef, – ein Duw a wyddiad.

Mi grwydrais ymhell o lan Llyn Cwellyn,
Tachwedd, f'anwylwedd, oedd yn fy nilyn
I erddi gwin o ddadwrdd y gwenyn:
Ond daeth pen i'r daith hirfaith, a therfyn
I raib y nwyd erbyn hyn. Breuddwyd fu,
Mud orfoleddu yn Medi'r flwyddyn.²⁹

Yn ei ddyddlyfr, o dan y dyddiad Medi 26 1912, ceir cofnod iddo fynd yn hwyr i lan Llyn Cwellyn i gyfarfod 'mewn oed' â rhyw ferch am saith o'r gloch yr hwyr. Aeth ymlaen i'r Betws gan ddychwelyd adref am chwarter wedi un ar ddeg yr hwyr. Y diwrnod blaenorol, yr oedd wedi derbyn llythyr ganddi ac wedi anfon un yn ôl. Ysgrifennodd un drachefn iddi ar Fedi 29.³⁰ Tybed ai at y garwriaeth hon y mae ei gerdd, 'Dwy Gerdd',³¹ yn cyfeirio? Yr oedd yr amgylchiadau yn amlwg yn torri ei galon oherwydd cyhoeddwyd y gerdd deimladwy, 'Dyhead', ar y 1 Tachwedd,

yn dangos sut yr oedd yn ceisio ymdopi:

Trist fûm i'n fy nyddiau cynnar,
Tristach heddiw nag erioed,
Fel aderyn llwyd di-gymar
Dyrr ei galon yn y coed.

Bûm yn chwerthin dan ragrithio
Canu, dan ragrithio mwy;
Llawen fûm a 'mron yn wylo,
Taenwn wenau dros fy nghlwy.

Mae rhyw wagle yn fy mywyd,
Nid oes llawnder yn ei fri,
Dywed – Pwy fydd yr anwlyd
Foddia wanc fy nghalon i?³²

Fel yr awgrymwyd eisoes, dadrithiad oedd canlyniad holl lafur Parry-Williams i gyrraedd ceg ogof Owain Glyndŵr. Ond yr agwedd ryfeddaf oll ynglŷn â'r rhigwm, sydd yn creu dadrithiad dwbl, yw'r ffaith i'r bardd lwyr ddiystyru un rheswm a oedd ynghlwm wrth ei atgof o'r digwyddiad a'i cymhellodd i'w gyfansoddi, sef ofn, yr hen fwgan cyson a chyfarwydd sydd yn ymddangos mor aml yn ei waith. Wele'r hanesyn yn ei eiriau ei hun; 'Moelhegawd' oedd enw gwreiddiol Moel Ehedog, neu Moel Hebog fel y'i gelwir heddiw:

Yr oedd mynyddoedd eraill yn yr hen ardal y byddai'n rhaid eu dringo o dro i dro – Y Garn, Yr Aran, Y Mynyddfawr a Moel Ehedog. Yng nghesail Moel Ehedog, ger Beddgelert, y mae hen Ogof Owain Glyndwr, ac mi fentrais unwaith lamu

neu neidio dros hafn ddofn at riniog yr ogof hon i fynd i
mewn i'w genau. Antur enbyd fel i'r twnnel yn y glasier
hwnnw – y cyfan yn creu arswyd yn y fron. Unwaith yn
ddigon.³³

Gwelir, felly, mai chwarae mig ag ef ei hun a'i ddarllenwyr a wna yn y
rhigwm hwn, drwy guddio ei wir feddyliau. Gellir tybio bod hyn yn
ymarfer weddol gyson yn ei waith, gan atal ei ddarllenwyr rhag dod i
adnabod y dyn ei hun. Yn y rhigwm, nid oes arlliw o ddyfalu ynghylch
amgylchiadau cyfoes yr arwr Cymraeg, fel y byddid yn ei ddisgwyl,
heblaw yn anuniongyrchol drwy brofiadau'r bardd ei hun. Ni waeth pa
mor ddiniwed a difater yr ymddengys Parry-Williams yn rhai o'i weithiau,
gellir bod yn weddol sicr ei fod yn cuddio rhywbeth mewn un modd
neu'i gilydd ynddynt. Cymharer y pennill grymus canlynol sydd yn sôn
am Ogof Arthur, allan o'i awdl fuddugol, 'Eryri', a ddiarddelodd yn
ddiweddarach, fel y gwelir maes o law:

Er ysu â thân bob cors a thyno
Ni ddaeth un lleng ddreng a allai ddringo
I'r creigle cadarn, nac estron arno:
Nid edwyn hydd y mynydd mohono.
Onid yw Arthur yno, a'i ddistaw
Gewri llurigawg ar wyll yr ogo?³⁴

Y mae arddull swta rhai o'i gerddi yn creu'r argraff iddo lunio'r rheini
yn y fan a'r lle a gadael iddi, ond croes yw'r gwir. Dengys drafft ei

rhigwm, 'Nant y Benglog',³⁵ i'r gwaith gorffenedig gael ei dymheru rhywfaint. Troes ' Benyw'n ei byw-hi mewn twlc o le/ Ac yn golchi'n wyllt wedi amser te'³⁶ a 'Dynes mewn cwt yn ei byw hi'n ffein/ Ac yn sychu dillad ar bwt o lein'³⁷ yn 'Gwraig mewn cwt yn tenantu heb rent/ Ac yn gweld ei gwyn ar ei stomp o stent' yn y fersiwn cyhoeddedig. 'Dyna'r cyfan, am a wn i.' yw casgliad Parry-Williams ar ddiwedd y rhigwm. Codwyd y 'Pwt o gapel gan Sentars y fro,/ Ac ynddo sêt-fawr ar ryw hanner tro;' y sonnir amdano yn y rhigwm, gan Sidi Owen o Fodesi ac eraill, sef chwaer i hen, hen, hen daid awdur y traethawd hwn ac yr oedd rhai o'r diaconiaid hefyd yn berthnasau. Fel hyn y disgrifia Margaret Roberts y gorchwyl yn *Oes o Fyw ar y Mynydd*:

Penderfynodd y ddiadell fach gael eu haddoldy eu hunain ac aeth tair chwaer dduwiol ynghyd â'r dynion i godi cerrig o'r caeau yng ngolau'r lleuad er mwyn codi'r capel presennol, a chawsant brydles ar y tir gan Arglwydd Penrhyn. Y tair chwaer oedd Elizabeth Evans, Glan Llugwy; Sidi Owen, Bodesi a Beti Thomas, Gwern Gof Isaf, ... Agorwyd ei ddrysau yn 1853 ...Fe'i hatgyweiriwyd yn 1929 ac yn 1953 dathlwyd ei ganmlwyddiant i ddiolch am galon a dwylo ymroddgar y gwŷr a'r gwagedd hynny a weithiodd mor ddygn ac a lafuriodd mor galed yng ngolau'r lleuad olau i roi iddynt eu hunain ac i ninnau y cyfle i addoli Duw.³⁸

Capel Bryn Gogwydd oedd ei enw blaenorol oherwydd bod y bryn y tu ôl

iddo yn gogwyddo i ochr Bethesda a Chapel Curig ac y mae'n debyg mai ef yw capel lleiaf enwad yr Annibynwyr trwy Gymru gan gynnwys naw sêd i'r aelodau a sêd fawr sydd â lle i dri blaenor a hefyd bulpud i weinidog.

Ni wyddys beth oedd barn Parry-Williams am y rhan fwyaf o'i rigymau, ond y mae'n ddiddorol darganfod nad oedd rhai ohonynt wrth ei fodd. Y mae dau lythyr a anfonodd at W. J. Gruffydd, golygydd *Y Llenor*, yn dangos ei ansicrwydd ynglŷn â'r rhigymau a gyfansoddodd ar ei daith i Ogledd America yn 1935. Dywed na wŷr a ydynt yn waeth neu'n well na'r rhai a gyfansoddodd yn Ne America yn 1925. Yn yr ail lythyr, cyfeddyf fod cywilydd arno ohonynt a'i fod yn eu hofni oherwydd eu plaendra diaddurn.³⁹

Dadlennu er mwyn celfyddyd

Yn 'Yr Efen Bersonol ?mewn Barddoniaeth ?mewn Rhyddiaith', ceir sylw tra arwyddocaol pan ddywed Parry-Williams nad dadlennu neu ddatguddio er mwyn hynny ei hun a wna ysgrifwyr ond yn hytrach er mwyn creu darn o gelfyddyd. Datgan nad ysgrifennant fel petaent yn rhoi tystiolaeth mewn llys barn neu mewn cyffesgell, er na wyddai ef, drwy drugaredd, meddai, ddim am y naill brofiad na'r llall. Cadarnha mai i greu effaith, i roddi boddhad, i ddiddanu a goglais ac i ddyrchafu

ysbryd dyn a 'llawenhau'r galon – a goleuo'r llygaid' a'i godi i dir gorawenus, y creir ysgrif. Y mae'r syniad hwn wedi bod yn un tra chyffredin ar hyd yr oesoedd mewn llenyddiaeth ac yr oedd yn ddaliad cryf gan William Wordsworth a Walter Pater. Dywedodd Walter Pater y dylid ystyried pob math o gelfyddyd fel pwerau neu rymoedd a gynhyrchai deimladau pleserus, oherwydd 'art comes to you proposing frankly to give nothing but the highest quality to your moments as they pass, and simply for those moments' sake.'⁴⁰ Sylwir mai'r un yw argyhoeddiad Parry-Williams yn *Elfennau Barddoniaeth*,⁴¹ lle yr esbonia mai gorchwyl y bardd, trwy drosglwyddo ei brofiad, yw peri rhywbeth tebyg i orfoledd a gorawen mewn dyn. Ac unwaith eto, pan yw'n trafod goblygiadau llenor yn ei ddarlith radio, *Ymhél â Phrydyddu*, dywed na all

hwnnw:

fforddio gadael i unrhyw angel na chythraul ei yrru â ffrwyn rhyw 'thema' neu greddo neu genadwri ar ei war, i ddangos ffordd gwaredigaeth ac achubiaeth, neu ddangos 'y pryf yn y pren a'r crac yn y cread' (cyfeiriad at y gerdd, 'Propaganda'r Prydydd', gan R. Williams Parry), ond gydag eithriad.⁴²

Credai Parry-Williams yn ddiysgog yn hyn ac yr oedd yn llawn mor bendant ynglŷn â'r hyn a weddai i lenyddiaeth, gan osod ffiniau

pendant. Yn ei erthygl, 'Antur Llen' (sic),⁴³ yr oedd eisoes wedi datgan bod yn rhaid wrth ysbrydoliaeth i ysgrifennu rhyddiaith a barddoniaeth ac nad pamffled gwleidyddol ac annerch priodasol a olygai wrth enwi'r cyfryngau hynny. Ymhellach, esbonia nad oes berthynas rhwng llenyddiaeth a moesau, nac a diwinyddiaeth, nac ychwaith a chrefydd bob amser a gofynna pa bryd y dysgir nad oes raid i Gristion gondemnio cynnyrch llenyddol anffyddiwr, os bydd gan hwnnw weledigaeth werth ei datgan. Yn wir, ymosodiad cryf ar feirniaid cibddall yr oes yw'r erthygl hon, a ymddangosodd yn *Y Traethodydd* ym mis Medi 1915, sef mis ar ôl i Parry-Williams ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Mangor gyda 'Y Ddinas', pan y'i cystwywyd am naws aflednais y bryddest ym meirniadaeth Eifion Wyn. Dywedodd i Parry-Williams amau unionder Duw yn wyneb dirgelwch bywyd ac iddo ddewis marwolaeth drwy hunanladdiad yn hytrach na chaethiwed bywyd. Mynegodd y beirniad ffeidd-dod y darnau a oedd yn trafod 'hudoles y cwterydd' a'r amarch a ddangoswyd at Dduw. Flynyddoedd yn ddiweddarach, dirmygodd Bobi Jones feddylfryd T. Gwynn Jones a T. H. Parry-Williams yn fawr yn ei lyfryn, *Beth yw Pwrpas Llenyddda?* (1974),⁴⁴ oherwydd eu hymlyniad wrth argyfwng gwacter ystyr eu hoes, gan gynnig

gwaredigaeth drwy arwain llenorion i ddychwelyd at yr hen draddodiad Cristnogol Cymraeg o foli. Yn 'Antur Llen' (sic), ystyria Parry-Williams nad oes yr un gerdd, ysgrif na llyfr da ac ysbrydoledig yn anfoesol ac na ddylid sôn am foesau wrth ymdrin â hwy. Adlais o ddyfyniad enwog Oscar Wilde yn *The Picture of Dorian Gray* sydd yma, bid siŵr.

Datganodd hwnnw nad oedd y fath beth â llyfr moesol nac anfoesol; yr oedd llyfrau un ai wedi eu hysgrifennu'n dda neu'n wael. Fodd bynnag, cred Parry-Williams yn bendant y gall fod, ac yn wir bod cysylltiad rhwng llenyddiaeth ac athroniaeth. Yr un yw barn Parry-Williams yn ei erthygl, 'Y Fran, yr Eos, a'r Niwl' (sic),⁴⁵ pan ddywed nad bardd yw pob propagandydd rhigymllyd, ac nad cenadwri pregethwr yw neges bardd; yr un yw'r bardd i wreg a bonedd, i oes y democrat a'r aristocrat.

Cofleidiai Wordsworth yr un meddylfryd pan ddywedodd, yn sgîl ei gred mai drwy apelio at ddychymyg ei ddarllenwyr y gallai roi pleser iddynt, mai un peth yn unig a gyfyngai ar fardd wrth iddo ysgrifennu. Yr hyn a olygai oedd bod yn rhaid i'r bardd drosglwyddo pleser yn syth i'w gynulleidfa, nid fel twrnai, meddyg, llongwr, seryddwr neu wyddonydd, ond yn hytrach, fel dyn. Mewn man arall, sonia Parry-Williams fod y delyneg, y soned, yr ysgrif fer, a'r stori fer yn gallu dweud eu neges yn

gyflawn ac effeithiol.⁴⁶ Yn *Ymhél â Phrydyddu*,⁴⁷ esbonia mai prif amcan y llenor, yn anad dim, yw ennyn rhyw fath o 'gydymdeimlad' a chael gwrandawriad a gwerthfawrogiad, dwysddiddanu yn hytrach na diwygio, swyno a hud-ddenu yn hytrach na symbylu, wrth geisio cael gafael, drwy rym 'crebwyll a darfelydd' (chwedl yr hen feirniaid), ar y 'dyn oddi mewn'. Ac efallai, meddai, mai'r un y gall ef gael gafael orau arno yw ei 'ddyn oddi mewn' ef ei hun a chymhlethdodau hwnnw. Yr un oedd ei sylw ynglŷn â hudoliaeth barddoniaeth yn 1911, yn ei erthygl, 'Y Critig Newydd', yn *Y Brython* o dan y ffugenw 'Oxoniensis', lle y cerydda feirniaid eisteddfodol yr oes oherwydd iddynt fynnu eglurder yng ngwaith y beirdd:

Gelwid cyfaredd gan amlaf yn dywyllwch. Hwyrach mai cywir hyn, ond nid yw'n fai, serch hynny. Gellir mwynhau cyfaredd barddoniaeth heb ei deall. Onid oedd rhai ohonom yn cofio darllen peth wmbredd o farddoniaeth pan yn fechgynnos, a chael mwynhad diderfyn wrth hynny, er heb ddeall traian (sic) a ddarllennem (sic)? Beth oedd y rheswm? Cyfaredd yn goglais bachgendod. Yn dipyn hŷn, mwynhawn yr un peth, – cyfaredd y tu-hwnt-i'r-llen ...daw synnu a rhyfeddu eto'n rhinwedd.⁴⁸

Ac unwaith eto yn 'Y Fran, yr Eos, a'r Niwl' (sic):

Ond soniwyd am 'niwl'. Y mae mwy o farddoniaeth mewn niwl nag mewn llawer peth. Darllener rhai o gerddi godidog rhai o feirdd diweddar y Saeson os am niwl. Ac

eto gellir eu mwynhau a'u deall er gwaethaf hwnnw. Nid oes eisiau eglurder noeth i wneud i'r galon deimlo, – a'r galon sy'n teimlo barddoniaeth ... Camp ac nid coll ydyw cyfansoddi 'barddoniaeth y niwl' fel y gallo'r galon ei deall, heb chwenychu ychwaneg o oleuni ac eglurder.

Chwarddodd y gwybodusion lawer am ben y syniad o awgrymu, ond beth sydd fel awgrym i gynhyrfu'r galon?⁴⁹

Yn wir, brithir llawer iawn o'i erthyglau papur newydd cynnar â'r

eglhurhad rhamantus mai amcan celfyddyd yw swyno: 'Creu i swyno y

mae hi, ac y mae pob creadigaeth yn swynol, er hacred fo.'⁵⁰ Yr oedd

hyn yn wir i Aristoteles hefyd, gan iddo esbonio bod pobl yn hoffi gweld

cynrychiolaeth o bethau sydd ynddynt eu hunain yn boenus i'w gweld,

fel ffurfiau o'r anifeiliaid isaf a chelanedd. Dywed nad y gynrychiolaeth

ei hunan sydd yn rhoi'r pleser, ond y lliwio neu rywbeth arall yn y

gwaith.⁵¹ O ddarllen yr uchod, sylweddolir mai prif athrawiaeth Parry-

Williams parthed llenyddia yw atal rhag dweud y cyfan gan mai swyno

drwy awgrymu yw nod celfyddyd. Dyma, felly, enghraifft arall o

gyfiawnhad y bardd a'r llenor o Ryd-ddu i led-guddio ei feddyliau yn ei

waith.

Yn 'Yr Elfen Bersonol ?mewn Barddoniaeth ?mewn Rhyddiaith',

cyfeddyf Parry-Williams mai gorchwyl anodd yw tynnu llinell rhwng

egotistiaeth ymhongar, falch a diniweidrwydd elfennol, plentynnaidd

ond atega fod yn rhaid i unrhyw ysgrifwr, wrth sôn amdano'i hun, rywsut ymddangos neu swnio fel petai yn dweud profiad pawb arall, a gwneud hynny yn naturiol a heb gyffrogarwch. Eithr teimla fod yn rhaid cymryd rhai telynegwyr, sonedwyr neu emynwyr ar eu gair er na chymerir yr elfen bersonol yn hollol o ddifrif bob amser yn eu gwaith gan fod cymaint o ffug brofiadau a chynryfiadau anniffuant wedi bod yn hen arferiad. Pwysleisia y byddai gwaith rhai o'r llenorion hyn yn hollol aneffeithiol pe na byddent yn gallu argyhoeddi'r darllenwyr â'u crefft prydyddu. Y mae'n rhaid i lenorion greu â'r dychymyg o'u deunydd profiad. Felly, mewn rhyddiaith greadigol a barddoniaeth, rhaid meistrolï'r cyfrwng, dysgu'r grefft ac ymarfer â'r gelfyddyd er mwyn ymgynraedd at ymadroddi deheuig a mynegiant awenyddol. Ac er bod hyn yn fwy greddfoll a chynhenid mewn ambell un na'i gilydd, fe all dyn go ddeallus a sgilgar efelychu diffuantrwydd ac awen. Er bod Parry-Williams yn credu mai ychydig yw'r gwahaniaeth ar yr wyneb rhwng bod yn ystrydebol gelfyddydol a bod yn wreiddiol gelfydd, y mae'n argyhoeddedig fod yr ychydig hwnnw yn anfeidrol.

Rhy enghreifftiau o'r profiadau neu'r cyffesiadau mwyaf pendant ac eithafol bersonol a geir ar gân, gan ddechrau â'r hen bennill, ' 'R wyf yn

ofer, 'r wyf yn yfed.' Haera nad yw'r darllenydd yn malio dim fod y gŵr hwn wedi bod yn ofera ac yn diota, a hynny oherwydd bod yr awdur wedi ennyn cydymdeimlad ei gynulleidfa wrth adrodd ei hanes gyffesol mor naturiol ddiniwed a heb hel dail. Cyflawnodd y gamp o greu agosrwydd drwy swyno'r darllenydd wrth sôn am ei bechu. Ac ar ôl cyfeirio at emyn Thomas Williams, Bethesda'r Fro, sef 'Pechadur wyf, mi welaf', cadarnha Parry-Williams nad y deunydd, yn gymaint â'r dweud, sydd yn cyfrif o safbwynt celfyddyd, er nad creu darn o gelfyddyd, o bosibl, oedd amcan gwreiddiol yr emynydd. Gan ei fod wedi canu mor gywir, addas a diffuant, a hynny gydag arddeliad, y mae wedi gwneud ei gyffes ef, bron heb i'w gynulleidfa sylweddoli, yn un gydymdeimladol iddynt hwythau. Ceir rhywfaint o amwysedd yn ei nodiadau wrth drafod 'Gair o Brofiad', soned R. Williams Parry, ond ystyria'r delyneg-un-adnod o'r Beibl, 'Myfi sydd yn cysgu, a'm calon yn effro' (Caniad Solomon 5:2), yn enghraifft o fynegiant perffaith oherwydd bod yr adnod yn cyfleu mor gryno yr hyn a allai o leiaf fod yn brofiad i lawer o bobl. Yma, nid oes wahaniaeth gan y darllenwyr fod yr awdur yn sôn amdano'i hun oherwydd gallent hwythau ddwyn neu fenthyca ei eiriau a'u cymhwyso atynt eu hunain yn aml. Ac wrth drafod y penillion sydd yn dechrau 'Nid wyf am fynd i yfed - i

dafarn' a 'Rhyw yrru ar i waered – mae 'nyddiau' (dyfynnir yr olaf ganddo, hefyd, yn ei ysgrif, 'Dyddiau Ein Blynnyddoedd' ⁵²), penderfyna na byddai'n wiw bod mor blwmp a phlaen gyda chyffesion personol o'r fath mewn ysgrif nac i'r ysgrifwr sôn amdano'i hun mor gyffesgar a phreifat a dadlennol; y mae'n rhaid wrth fwy o gynildeb a chyfrwyster wrth fod yn bersonol mewn rhyddiaith greadigol, ysgrifol. Defnyddia'r ysgrifwr yr elfen bersonol at bwrpas arbennig yn hytrach nag i roddi gwybodaeth i neb amdano'i hun, fel y cyfryw. Cyferbynna Parry-Williams natur rhyddiaith greadigol, ysgrifol â'r ffurf hunangofiannol yn hyn o beth gan ategu, unwaith yn rhagor, nad i fwrw ei berfedd ar y darllenwyr y defnyddir yr elfen bersonol mewn ysgrif. Gwelir bod y daliad hwn yn rhedeg yn gryf drwy'r llawysgrif fras a'r hyn sydd yn llawn eironi yw i Parry-Williams amau na fyddai dweud y cwbl, ynddo'i hun, o fawr ddiddordeb i neb oni byddai'r ysgrifwr yn unigolyn anghyffredin neu chwyldroadol. Onid yw rhywun, felly, o ystyried ei sylw, yn digalonni iddo ef ei hun ddewis yr ysgrif fel ei brif gyfrwng rhyddieithol, gan gymaint o faen tramgwydd yw hynny i'w ddarllenwyr wrth geisio darganfod cysegr sancteiddiolaf ei fron?

Awgryma mai'r elfen bersonoliaethol fyddai'r disgrifiad gorau o'r math

o sôn a wna'r ysgrifwr amdano'i hun. Nid rhaid siarad yn y person cyntaf bob tro, ond, er hynny, fe fydd arddull yr ysgrifwr yn ei fradychu i eraill, a dyna'r amcan, meddai. Y mae modd i'r arddull a ddefnyddir greu agosrwydd a chynhesrwydd, gan fagu rhyw fath o gymundeb rhwng yr ysgrifwr a'i gynulleidfa er bod y llenor yn ymddangos yn ddeoledig, yn wrthrychol ac amhersonol. Ychwanega fod amodau sgwrs radio yn gweddu yn wych i ysgrif yn hyn o beth. Hefyd, y mae'n werth nodi iddo ddatgan nad sôn am gyffroadau mawr ysgytwol na chyffesu'n ddifrifol ddwys a wneir wrth gymuno yn hanner cyfrinachol â darllenwyr ysgrifau; gan amlaf, dadlennu pethau bach, yn argraffiadau, mympwyon ac arferion bychain, sydd yn ymddangos yn ddiniwed a hollol ddibwys, a wneir. I'r perwyl hwn, crybwylla Parry-Williams goelion, ofergoelion, syniadau, a hefyd ragfarnau, sydd yn ei dyb ef yn dangos personoliaeth yn well na barnau. Ceir adlais o'r awgrym hwn yn ei ysgrif, 'Y Llyfr-Lòg':⁵³ 'Onid yw rhagfarn mor naturiol a chyfiawn â "barn," heb sôn am y posibilrwydd mai rhagfarn yw sail pob barn o bwys?' Dywedodd Aristoteles rywbeth tebyg yn *Y Farddoneg* wrth honni bod cymeriad yn rhywbeth sydd yn datgelu dewis personol, y mathau o beth y mae dyn yn eu dewis neu'n eu diarddel pan nad yw hynny'n amlwg. Dywed nad

oes ddatguddiad o gymeriad siaradwr mewn areithiau lle nad yw'n dangos hoffter nac atgasedd o gwbl.⁵⁴ Yn ei lawysgrif fras, yn ogystal, awgryma Parry-Williams ystrywiau fel hanesyn, epigram a pharadocs fel cyfryngau i lunio creadigaeth gelfydd a rydd foddhad a diddanwch a dyrchafiad ysbryd. Cadarnha mai un elfen yn unig yn y cyfansoddiad yw'r elfen bersonol bur gan ychwanegu bod lleferydd, ystumiau, ymagwedd yr ysgrifwr a llu o bethau eraill yn gallu cyfleu ffasedau o'r bersonoliaeth.

Yn y fan hon, felly, byddai'n dda cadw ar gof dri phwynt pwysig o'i eiddo wrth astudio ei holl waith. Y cyntaf yw ei argyhoeddiad y gall dyn go ddeallus a sgilgar efelychu diffuantrwydd ac awen. Yn ail, cred fod ysgrifwr yn dadlennu pethau bychain sydd yn ymddangos yn ddiniwed a hollol ddibwys. Ac yn drydydd, tystia mai swyno a hud-ddenu yw un o brif amcanion llenor. Yn ddiau, dadansoddi goblygiadau'r ystyriaethau hyn sydd yn rhannol gyfrifol am gymhlethu'r hir ymdrech i ddarganfod y dyn ei hun yn ei waith.

Er iddo ddatgan y credir yn aml mai mynegi personoliaeth yw un o amcanion llenyddiaeth greadigol, mae'n gofyn personoliaeth pwy sydd yn werth ei mynegi ac a oes angen i rywun fod yn eithriadol ac

anghyffredin er mwyn i'w bersonoliaeth fod yn gelfydd fynegadwy.

Ystyriaeth arall ganddo yw pa un ai personoliaeth annibynnol, hyderus ynteu un betrus, encilgar yw eiddo'r ysgrifwr. Ond, yn hytrach na sôn am ddadlennu neu fynegi personoliaeth, teimla mai efallai mwy gwir fyddai dweud mai dyn yn ceisio ei ddarganfod ei hun neu ei ddadansoddi ei hun a geir mewn ysgrif yn aml, gan mai, yng ngeiriau'r emyn, 'treiddio i'r adnabyddiaeth' ohono'i hun y mae hwnnw; rhyw fath o ymchwil a ddisgrifir.

Eithr, wrth ddarganfod a datguddio pethau amdano'i hun, dywed ei fod hefyd yn darganfod rhywbeth am Enaid Dyn neu Ysbryd Dynoliaeth yn gyffredinol (yr 'Ysbryd Cyffredinol' yw'r disgrifiad cyferbyniol ganddo yn *Elfennau Barddoniaeth*),⁵⁵ gan ychwanegu mai dyma'r pryd y digwydd y gyfrinach wrth i neilltuolion droi yn gyffredinolion. Gwelir unwaith eto mai adlewyrchu cred Aristoteles a wna yn y fan hon gan i hwnnw ddatgan bod barddoniaeth yn rhywbeth mwy athronyddol na hanes a'i bod yn haeddu mwy o sylw dwys oherwydd ei bod yn ymwneud â gwirioneddau cyffredinol tra bod hanes yn trafod ffeithiau neilltuol. Yr hyn a olygai Aristoteles wrth wirioneddau cyffredinol oedd y mathau o beth y byddai rhyw fath o unigolyn, mwy na thebyg neu o anghenraid,

yn ei ddweud neu'n ei wneud mewn sefyllfa benodol, ac yn ei dyb ef, portreadu hynny oedd amcan barddoniaeth. Nid yw'n rhyfedd darganfod yr un sylw gan Parry-Williams yn ei ysgrif, 'Llenyddu', a gyfansoddwyd yn 1935, sef yr un flwyddyn ag yr ymddangosodd

Elfennau Barddoniaeth:

Y mae ateb arall yn bosibl i beth yw effaith y myfyrdod, – sef bod dyn yn ei deimlo'i hun yn rhan integrol o ddynoliaeth yn gyffredinol, a thrwy hynny ag ysbryd dynolryw; yn sylweddoli na all fod yn unigolydd, ond bod yn rhaid iddo fod, yn y gwaelod, yn aelod o ddynoliaeth, mewn cytgord a chyswllt a chymundeb di-ffael â'i gyd-ddyn ...Y mae diddordeb hiwmanistig fel rheol yn treiddio trwy'r cyfansoddiadau llenyddol a gynhyrchir gan y sylweddoliad hwn.⁵⁶

Cyflwynodd hanner arall y weledigaeth hon yn ei rigwm, 'Geiriau':

Ni wn, yn wir, pa hawl a roed i mi
I chware campau â'ch hanfodau chwi,

A'ch trin a'ch trafod fel y deuai'r chwiw,
A throi a throsi'ch gogoniannau gwiw;

Ond wrth ymyrraeth â chwi oll ac un
Mi gefais gip ar f'anian i fy hun.⁵⁷

Flynyddoedd ynghynt, pwysleisiai ei dad yntau, sef Henry Parry-Williams, werth yr elfen hiwmanistaidd ym mywyd dyn gan ei chysylltu â hunanadnabyddiaeth fel y gwnaeth unwaith wrth drafod cyd-destun

'Moesgarwch' mewn drafft anerchiad lle y'i ceir yn darbwyllo ei ddarpar

gynulleidfa fod 'dyn duwiol anfoesgar' yn wrthddywediad:

... Fel y gwyddom creadur ucheldybiol, trahaus a gorthrymus ydyw dyn wrth natur. 'Na ryfeddwn' gan hyny, 'fod yn rhaid ein geni ni drachefn' i fod yn wir Foesgar. Yn y weithred fawr yma daw dyn i afael a'r wybodaeth fwyaf a phwysicaf o bob gwybodaeth sef Hunanadnabyddiaeth. O adnabod ei hun daw i adnabod ei gyd-ddyn a'i berthynas gymdeithasol ag ef, ac fe dreiddia Moesgarwch yn wyleidra ar y naill law, ac yn barchedigaeth ar y llaw arall trwy ei holl fywyd.⁵⁸

Yn 'Yr Efen Bersonol' mewn Barddoniaeth' mewn Rhyddiaith', esbonia T. H. Parry-Williams y broses o uniaethu â geiriau trwy ddweud bod rhin deffroadol mewn geiriau, ymadroddion ac mewn cystrawennu hefyd, gan ddyfynnu llinell o'i rigwm 'Geiriau'.⁵⁹ Wrth ymyrryd â geiriau y daw'r profiad hwn yn hytrach nag wrth ddarllen geiriadur neu ramadeg. Rhaid iddynt ymgartrefu yng nghyfansoddiad yr unigolyn a dod yn rhan o gymdeithas y cyfansoddiad hwnnw (enghraifft dda o air a ddefnyddir droeon yn ei waith yw'r gair, 'hen'). Gall unrhyw beth pwysig neu ddibwys, i'r gwir lenor synhwyrus, fod yn symbyliad sydd yn arwain i synfyfyrdod, sef ei roddi ei hun yn 'ffordd cael', neu ysbrydoliaeth.

Yn y fan hon, gwell aros i drafod y cysylltiad rhwng 'y cyffredinol' mewn llenyddiaeth a dynoliaeth, gan drafod elfennau metaffisegol.

Oherwydd, gogwydda trafodaeth Parry-Williams at rywfaint o athronyddu pan geisia ystyried o ba le y ceir y defnydd – ai o'r tu mewn i'r unigolyn ai ynteu o'r stff cosmig sydd o'n cwmpas. Efallai mai'r hyn a olyga wrth y stff cosmig hwn yw'r 'Ysbryd Cyffredinol', 'Ysbryd Dynoliaeth' ac 'Enaid Dyn' y soniwyd amdanynt yn gynharach. Mae hyn yn hen syniad metaffisegol sydd yn cynnwys llawer o enwau ac agweddau, gan gynnwys *anima mundi*, *spiritus mundi*, ymwybyddiaeth gosmig, ysbryd cyffredinol, *Atman*, *Buddha* a meddwl cyffredinol. Y gred yw bod meddwl, ysbryd, enaid neu ymwybyddiaeth dyn yn rhan o ysbryd y bydysawd lle y mae popeth yn meddu ar ryw fath o ymwybyddiaeth. Meddai James Logan, wrth drafod gwaith William

Wordsworth:

Pater touches on Wordsworth's conception of nature as inspirited by a universal soul.

'At other times, again, in those periods of intense susceptibility, in which he appeared to himself as but the passive recipient of external influences, he was attracted by the thought of a spirit of life in outward things, a single, all-pervading mind in them, of which man, and even the poet's imaginative energy, are but moments – the old dream of the *anima mundi*, the mother of all things and their grave, in which some had desired to lose themselves, and others had become indifferent to the distinction of good and evil. It would come sometimes, like the sign of the *macrocosm* to Faust in his cell: the network of man and

nature was seen to be pervaded by a common, universal
life...'⁶⁰

Ceir un enghraifft o hyn gan Wordsworth yn ei gerdd hir, 'The Prelude':

'Wisdom and Spirit of the universe!/ Thou Soul that art the eternity of
thought'/ That givest to forms and images a breath/ And everlasting
motion,'⁶¹ a cheir enghraifft arall yn 'Tintern Abbey':

...And I have felt
A presence that disturbs me with the joy
Of elevated thoughts; a sense sublime
Of something far more deeply interfused,
Whose dwelling is the light of setting suns,
And the round ocean and the living air,
And the blue sky, and in the mind of man:
A motion and a spirit, that impels
All thinking things, all objects of all thought,
And rolls through all things.⁶²

Mae llawer iawn o ddadlau wedi bod ynglŷn â safle Duw a Natur yng
ngwaith Wordsworth, ond gellir bod yn hollol bendant mai dwyfol oedd
Natur i'r bardd-bregethwr, William Thomas (Islwyn). Iddo ef, teml Duw
yw'r holl greadigaeth ac 'mae'r oll yn gysegredig'; mae barddoniaeth
nefolaidd ar y mynyddoedd a adawyd gan y Dilyw; 'Pan y myn' y daw
ysbrydoliaeth, yn llwyr annibynnol ar amser, 'heb orfodaeth na dyled i'r
byd.' Fel hyn y disgrifia Islwyn y berthynas rhwng ysbrydoliaeth neu'r
awen, a Duw:

Fel yr enfys y daw,
Fel arwydd cyfamod tragwyddol wnaed draw
Rhwng Meddwl â Duwdod, pan araf ddychwelai
Môr mawr tragwyddoldeb hyd nes ymddanghosai
Mynyddoedd pell amser, ac Arch y Meddyliau
Tragwyddol yn disgyn yn iach ar eu bannau.⁶³

Pan oedd Parry–Williams yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol

Aberystwyth, yr oedd wedi meddwi ar farddoniaeth Ramantaidd ac yn ei

erthygl, ‘Snowdonia’, y mae’n canu clodydd Eryri gan ei chymharu â’r

mynydd Groegaidd, Parnassus, lle y trigai’r Awen yn yr oes a fu:

Parnassus, of old, was the home of the Muses, and Helicon could boast its ‘harmonious springs’, but the Arvonian bard tunes his lyre to the echoes of his native Snowdonia. For many a long century it has been the inexhaustible source of inspiration for the poetic Sons of Arvon, and their associations with it form a throbbing vein in their poetry. This poetry possesses the firmness of the aged mountain’s foundation, the music of its meandering rivulets and the wild beauty of its craggy slopes. These were veritable mountain bards, and the spirit of mountain solitude is the soul of their lays, for ever re–echoing: ‘Eryri fynyddig i mi!’⁶⁴

Daw’r dyfyniad o nofel Theodore Watts–Dunton, *Aylwin*,⁶⁵ y sonia Parry–

Williams amdani yn ei ysgrif, ‘Eiconoclastes’.⁶⁶ Dywed i’w hiraeth

angerddol am Ryd–ddu ei wneud yn gyfriniwr a sentimentalydd ar

unwaith pan aeth i’r ysgol ganolradd ym Mhorthmadog. Yno, darllenai’r

farddoniaeth fwyaf ffugdeimladol a’r fwyaf cyfriniol y gallai gael gafael

arni, fel y gerdd hir, 'Maud', gan Alfred Tennyson a nofel fel *Aylwin*.

Cyffesa iddo ddarllen y ddau waith hyn sawl gwaith ac iddo wybod yr holl gerdd ar dafod leferydd. Hefyd, atgoffai'r eneth ifanc yn y nofel ef am rywun a garai yn ei blentyndod. Yn y llyfr, ceir darlun rhamantus o Eryri a dyfynnir sawl pennill o farddoniaeth Gymraeg. Dyma'r gerdd a grybwyllwyd yn erthygl Parry-Williams, 'Snowdonia':

Eryri fynyddig i mi
Bro dawel y delyn yw,
Lle mae'r defaid a'r wyn,
Yn y mwswg a'r brwyn,
Am cân inau'n esgyn i fyny,
A'r gareg yn ateb i fyny, i fyny,
O'r lle bu'r eryrod yn byw.⁶⁷

Mae dylanwad Wordsworth yn gryf ar yr erthygl hon, lle y disgrifia'r

awdur nodweddion daearyddol fel rhai byw:

The dead stillness that broods over its rugged ridges has to him who deigns to lend a willing ear eloquent tales unknown to written annals. Though modern science, listening with its fine, materialistic ear to the throbbing heart of Mother Earth, has proudly declared that Snowdon some countless aeons back was no more a mountain than the Vale of Clwyd is today, yet we, with eyes and ears less material, can see a mountain as old as the Ancient Mother herself, and hear its own tales to us, carrying us back to her younger days.⁶⁸

Yn y cyd-destun hwn, y mae'n rhaid dyfynnu esboniad dilornus S. T.

Coleridge wrth iddo drafod syniad Wordsworth ynglŷn â dyn cyffredin:

On the contrary the mountaineers, whose manners have been so often eulogized, are in general better educated and greater readers than men of equal rank elsewhere. But where this is not the case, as among the peasantry of North Wales, the ancient mountains, with all their terrors and all their glories, are pictures to the blind, and music to the deaf.⁶⁹

Creodd Eryri argraff ddofn ar Wordsworth ar sawl ymweliad i ogledd Cymru gyda'i gyd-fyfyriwr o Brifysgol Caergrawnt, sef Robert Jones, o Blas-yn-Llan yn yr hen Sir Ddinbych. Er ei fod wedi bwriadu ysgrifennu barddoniaeth ar wahanol agweddau o'i ymweliad cyntaf yn 1791, yr unig ddarn a gafwyd ganddo oedd ei daith ogoneddus i ben yr Wyddfa ar noson olau leuad i weld yr haul yn codi, ac fe'i cynhwysir yn ei gerdd hir, 'The Prelude':

In one of those excursions (may they ne'er
Fade from remembrance!) through the Northern tracts
Of Cambria ranging with a youthful friend,
I left Bethgelert's huts at couching-time,
And westward took my way, to see the sun
Rise, from the top of Snowdon.⁷⁰

Wrth weld fflach o olau'r lleuad ar ddarn bach o dir, ac wrth i bethau ddod yn fwy amlwg o'i gwmpas, y mae'n synio bod rhyw fath o ddeall mawreddog wedi bod ar waith ac y mae'n canfod arwyddlun o feddwl

sydd yn porthi ar dragwyddoldeb. Swm a sylwedd y darganfyddiad yw bod y profiad yn fodd i alluogi'r dynion lleiaf sensitif i weld, clywed a chanfod, heb ddewis ond i deimlo, fel y gallant gymuno â'r byd ysbrydol a chenedlaethau o'r ddynoliaeth: 'But by their quickening impulse made more prompt/ To hold fit converse with the spiritual world'/ And with the generations of mankind/ Spread over time, past, present, and to come,/ Age after age, till Time shall be no more./ Such minds are truly from the Deity,'.⁷¹ Â Wordsworth yn ei flaen i ddweud mai Pwerau yw'r meddyliau hyn. Dyma ychydig o'r un meddylfryd gan Parry-Williams yn yr erthygl o dan sylw:

Above the clouds on the summit of this noble mount, cut off, as it were from all mundane connections, the heart nurses a feeling of blissful solitude; and as the sun weaves its golden rays into the ravelled tissue of the clouds, one feels as if transposed to a brighter world. Loftier thoughts and nobler dreams sway the mind...What grander spectacle can be imagined than sunrise from this exalted eminence? ⁷²

Yr un syniad, yn sicr, a ddisgrifir yn ei ysgrif, 'Oerddwr'⁷³, pan ddywed y byddai pob math o feddyliau araul a dychmygion clir yn ymddeor yn ei ben wrth ddringo tuag at y fferm. Yr oedd y gweithgareddau ymenyddol hynny yn anghyffredin, yn annaearol o glir, yn ddieithr ac yn newydd

iddo. Yn ychwanegol, awgryma y gallasai ef gredu, o dan gyfaredd
Oerddwr, mai rhyw bŵer heb fod o'r ddaear hon, ac nid meidrolion, a
fu'n llunio enw Oerddwr ar y Llechen Ddu ychydig flynyddoedd ynghynt.

Datblyga Islwyn y syniad o brofiadau a meddyliau unigolion yn aros yn
dragwyddol ar y bryniau ar ôl i'w cyrff ymadael â'r lle:

Bu llawer brawd a chyndad hoff i mi,
Na edwyn neb eu henwau mwy na'u clod,
Ond taweledig rith yr oes a'u dug,—
Ar hyd y bryniau hyn ar lawer nawn
Yn canu neu yn wylo fel y caed
Profiadau bywyd. Ninnau gyda hwynt
Adawn gymunrodd o adgofion per,
Rhyw anadliadau a myfyrion syn,
I'r awel dyner eu mynwesu fyth,
Neu fyth i wywo ar y niwl uwchben.⁷⁴

Tebyg iawn yw profiad Parry-Williams yn ei ysgrif, 'Pagan Glân', lle y
disgrifia'r arfer o adael rhywbeth ar ôl mewn manau wrth grwydro
llethrau mynyddoedd Eryri ar ei ben ei hun. Byddai'n gadael ei enw a'r
dyddiad ar ddarn o bapur neu gerdyn post a'i osod o'r golwg rhwng dwy
garreg, postyn llidiart neu agen mewn craig. Esbonia nad ceisio cymuno
ag unrhyw ddyn a ddigwyddai ddod ar draws y papur yr oedd, eithr
teimlai fod cyfrinach fawr ynghlwm wrth y weithred. Sylwir mai *anima*
mundi sydd o dan sylw:

Buan iawn y byddwn yn anghofio'r manau a'r lleoedd; ond fe fyddai'r peth sacramentaidd wedi ei wneud, a minnau wedi ymgysylltu'n ddirgel â rhyw hanfod yn y greadigaeth. Peth ysbrydol a oedd wrth ei wraidd, yn sicr. Ac nid dod â rhywbeth yn ôl o ryw fan arbennig ydoedd, na mynegi'ch hunaniaeth yn herfeiddiol drwy dorri'ch enw, fel y cyfeiriais gynnau wrth sôn am yr ysfeydd eraill, ond gadael rhyw ran o'ch ysbryd neu'ch enaid, rhyw ebychiad ohonoch chwi eich hun, mewn lle yr oeddech wedi cyrchu ato. A gwneud hynny drwy ddodi ychydig arwyddion ar damaid o bapur, heb neb yno ond chwyhwi eich hun na dim yn cyfrif ar y pryd ond allor o garreg neu binacl o bostyn rhwng daear a nef...Mi awgrymais uchod nad yw'r tameidiau papur a adewais i hyd y Rhos Boeth yn debyg o fod yno bellach wedi'r holl flynyddoedd: y mae'r cyfan wedi madru erbyn hyn, ddaliaf i. Petawn i'n mynd yno i grwydro eto, y cwbl a ddeuai i'm rhan fyddai teimlo ambell anadliad awelog o rywle wrth fynd heibio i glwt o garreg, neu glywed cyffro cynnil wrth roi fy llaw ar ambell bostyn – argoelion ac adalwadau o'r hen gymundeb a fu gynt rhyngof a rhyw anian ysbrydol sy'n mewnfodoli yn naear a cherrig y fangre honno.⁷⁵

Yr un syniad trosgynnol sydd gan Parry-Williams yn nwy bennill olaf ei gerdd, 'Dwy Gerdd', lle yr erys ysbryd y ddau gymeriad ymysg creigiau

Arfon ar ôl eu hymadawiad corfforol â'r lle:

Mae'n chwerthin eto'n aros ar y ffordd,
A'n prudd-der eto 'nghadw ar y rhiw,
Ac mae'n distawrwydd o'r naill du dan glo
Yng nghoffrau creigiau Arfon heb na siw na miw.

Ac yno'r ydwyd tithau – a myfi,
Am byth yn chwerthin, tewi, a thristáu,
Ac yno mae'r clogwyni, a'r niwl yn niwl,

A Medi'n Fedi o hyd, ac un a un yn ddau.⁷⁶

Yn ei sgwrs, 'Dylanwadau',⁷⁷ ag Aneirin Talfan Davies, ceisia Parry-Williams esbonio'r gwahaniaeth rhwng 'cyfriniaeth y mynyddoedd', 'crefydd y mynyddoedd', neu 'greigiau dan eich traed' a'r agwedd ysbrydol grefyddol Gristnogol y'i magwyd ef ynddi. Nid yw'n credu bod hyn yn gyferbyniad teg. Yr oedd yr ail yn aros, meddai, ond mynna fod yna fater ac ysbryd o hyd a bod y mater yn un ysbrydol. Ymhelaetha trwy ddweud ei fod yn meddwl bod y fath beth â rhyw fath o gyfriniaeth. Yn gynharach yn y sgwrs, wrth drafod ei ysgrif, 'Drws-y-Coed',⁷⁸ a choelion arall-fydedd a phwerau goruwchnaturiol ei fro enedigol, cyfaddefodd nad oedd wedi profi cyfriniaeth ddaearol neu ryw gyffyrddiad â'r ddaear pan aethai am dro gyda'i dad ac awgryma mai'r rheswm am hynny oedd nad oedd wedi clywed llawer o chwedlau tylwyth teg oherwydd iddo fynd oddi cartref yn ifanc. Wrth drafod y byd ysbrydol, y mae'n synied mai wrth dreiddio yn ôl at ei brofiadau ysbrydol y llwyr sylweddola iddynt fod, er nad oedd yn ymwybodol ohonynt ar y pryd. Wrth gael ei holi gan Aneirin Talfan Davies, rhy Parry-Williams fwy o bwyslais ar brofiadau cyfriniol na phrofiadau crefyddol yn ei hanes gan ddweud bod profiad cyfriniol yn rhywbeth byw

iawn iddo, er na wyddai beth ydoedd. Nid drwy grefydd gyfundrefnol na dim byd felly y daw hynny iddo. Cred fod yna elfen gyfriniol ddaearol ac elfen gyfriniol ysbrydol ac iddo gael rhyw ymdeimlad o fod yn un â'r ddaear ryw ddwywaith yn ei fywyd. Hefyd, cyfeiria at brofiad o gyfriniaeth ysbrydol drwy sôn am ei ysgrif, 'Y Gri'.⁷⁹ Trafoda ei brofiad o gyfriniaeth daear yn ei ysgrif, 'Pen Bwlch',⁸⁰ er na sonia amdani yn y sgwrs.

Defnyddiwyd y term *spiritus mundi* gan y bardd o Wyddel, W. B. Yeats, yn ei gerdd, 'The Second Coming': 'The Second Coming! Hardly are those words out/When a vast image out of *Spiritus Mundi* /Troubles my sight:...' ⁸¹ Esbonia William S. Bunnell y term fel hyn: 'This is an adaptation of a phrase from the seventeenth-century philosopher, Henry More. *Spiritus Mundi* is the spiritual consciousness of mankind'.⁸² Y mae'n ddiddorol sylwi bod Parry-Williams, yn ei erthygl ar Yeats, yn cystwyo hwnnw oherwydd ei farddoniaeth esoterig, gan gyfeirio at ei gysyniad o'i 'Great Memory', y mae'n debyg:

He does not interest himself in life, but in what is beyond, the belief in one universal mind and memory, in which intuition seems to count for more than inspiration, and madness for more than recognised sanity. His concern is with the abnormal, the supernatural, the transcendental;

he has a passion for the mysterious, the unreal (which is his reality) and the evanescent.⁸³

Yn Hindwâeth, Brahman yw'r bydysawd sydd y tu allan i'r unigolyn ac Atman yw'r bydysawd yn ei gyfanrwydd fel y mae'n bresennol y tu mewn i'r unigolyn fel yr ysbryd cyffredinol. Wrth drafod ymwybyddiaeth gosmig neu gyfriniol yng nghrefyddau gwahanol yr India yn *The Varieties of Religious Experience*, dyfynna William James o lyfr sydd yn trafod yoga lle y mae'r disgybl yn darganfod:

That the mind itself has a higher state of existence, beyond reason, a superconscious state, and that when the mind gets to that higher state, then this knowledge beyond reasoning comes...All the different steps in yoga are intended to bring us scientifically to the superconscious state or samâdhi...Just as unconscious work is beneath consciousness, so there is another work which is above consciousness, and which, also, is not accompanied with the feeling of egoism...There is no feeling of I, and yet the mind works, desireless, free from restlessness, objectionless, bodiless. Then the Truth shines in its full effulgence, and we know ourselves – for Samâdhi lies potential in us all – for what we truly are, free, immortal, omnipotent, loosed from the finite, and its contrasts of good and evil altogether, and identical with the Atman or Universal Soul.⁸⁴

Gellir sôn yma am Plato, y cyntaf i roi disgrifiad llawn o'r syniad *Anima Mundi*, a drosglwyddwyd o hen fytholeg. Yn *Timaeus*, dywed fod y byd hwn, yn wir, yn fod byw gydag enaid a deallusrwydd, endid unigol byw,

gweladwy yn cynnwys pob endid byw arall, sydd, wrth eu natur, i gyd yn perthyn i'w gilydd. Buasai Parry-Williams yn gyfarwydd â'r holl syniadau uchod oherwydd, yma ac acw, ymhlith ei bapurau yn y Llyfrgell Genedlaethol, ceir nodiadau ganddo am *anima mundi* a'r geiriau Zen a Brahma wedi eu hysgrifennu mewn lleoedd gwahanol ac y mae'n rhaid cofio hefyd iddo astudio'r Sansgrit ym Mhrifysgol Freiburg. Yn ogystal, yn ei ysgrif, 'Samarkand',⁸⁵ crybwylla 'Ffordd Wythblyg' Bwda, sef agweddau gwahanol o ymddygiad er mwyn gorchfygu poen.

A dychwelyd at 'Yr Elfen Bersonol ?mewn Barddoniaeth ?mewn Rhyddiaith', sylweddola'r bardd-lenor o Ryd-ddu fod croesddweud pan ofynna ai o'r tu mewn i'r unigolyn ai ynteu o'r stwff cosmig sydd o'n cwmpas y daw'r defnydd, gan nad yw'r stwff yn dyfod i fod nes i rywun ei ddarganfod a'i ddal neu gael gweledigaeth arno. Gyda llaw, dylid sylwi nad enwir Duw yn benodol fel ffynhonnell uniongyrchol ysbrydoliaeth yn y fan hon, ond yn ddiweddarach yn yr ysgrif, ychwanega i rywun ddweud mai'r Nefoedd sydd yn rhoi llinell gyntaf neu ddechrau cân neu delyneg i unigolyn a hwnnw, yn ei dro, yn gofalu am y gweddill. Fodd bynnag, cred Parry-Williams i'r gwrthwyneb gan honni mai'r Nefoedd sydd yn rhoddi diweddeb neu baragraff olaf ysgrif, a'r

llenor yn gofalu ceisio cyrraedd ato. Dywed fod y deunydd crai cyfan oddi mewn i'r unigolyn yn barod ac yn perthyn yn agos i'r hyn sydd ym mhob Dyn, i raddau, a darganfod hwnnw a wneir. Dyna'r apêl sydd mewn sôn amdano, os gellir gwneud hynny'n gyfrwys gelfydd.

Dadlennu peth o gyfrinach Enaid Dyn a 'threiddio i'r adnabyddiaeth' a wneir bryd hynny. Yn 'Hunangofiant Syr T. H. Parry Wms' (sic), sef casgliad o nodiadau gan y Dr. Llewelyn Wyn Griffith, yr isymwybod yw cartref y stwff oddi mewn i unigolyn:

Hwyrach fod y 'peth' cynhyrfus wedi bod yn yr isymwybod (ple bynnag y mae hwnnw) ers amser, ond yn dod i'r wyneb neu i'r amlwg, gan ddal ar ei gyfle i ymgodi, ar ôl ymhel â phethau ysgolheigaidd, academig cyn hynny.⁸⁶

Yn y llawysgrif fras, ymhelaetha ar y proses hwn drwy gynnig cyffelybiaeth o'r byd cemegol gan esbonio pe gollyngid llwchyn i doddiant gorddirlawn (*supersaturated solution*), fe grisialai hwnnw yn sydyn. A siarad yn drosiadol, trwy ollwng y peth, sef y testun, i eigion yr ymwybod, y grisial fyddai'r ysgrif. Disgrifia, hefyd, yr hyn sydd yn digwydd i sbring ar ôl ei wasgu a'i ollwng. Pan laesir y tyndra, daw llawer o hen argraffiadau wrth i bob math o ysmudiadau gael gollyngdod. Y mae'n debyg fod y gyffelybiaeth rhwng grisial ac ysgrif

yn dra arwyddocaol i Parry–Williams parthed y syniad o berffeithrwydd ffurf. Oherwydd, mewn darn arall o'r llawysgrif fras, cyferbynna Fod yr unigolyn, neu ei Bersonoliaeth, ei Psyche neu ei Ysbryd (sylwer ar y priflythrennau) i fagned yn tynnu sglodion haearn ato ond mewn rhyw fath o drefn neu batrwm. Diau fod yn rhaid ymwrthod â llawer ohonynt, meddai, gan synio mai gwendid rhai ysgrifau oedd nad oeddynt ond sglodion haearn unffurf. Wedi i'r ysfa ysgrifennu ddyfod, y mae'r cyfan wedi ei 'greu' ymlaen llaw, ond bod yn rhaid cael gafael arno. Gŵyr yr ysgrifwr fod rhywbeth i ddyfod cyn ei ddyfod, a'r annelwig ddefnydd yn prysur ymffurfio – defnydd sydd yn perthyn i'r ysgrifwr yn bersonol ac i Ddyn sensitif yn gyffredinol. Y mae'n amlwg mai'r un syniad a goleddai yma a thraw yn ei ysgrif, 'Ar Chwâl':

Gellid tybied am gynganeddion, er enghraifft, eu bod erioed: y mae gwedd felly arnynt, yn sicr, yn enwedig y rhai 'naturiol'. Gall ambell un gynganeddu ar ôl meddwl, un arall wrth feddwl, a'r trydydd cyn meddwl. Gŵyr yr olaf fod y meddwl yn sicr o fod yno, yn ei fold er erioed. Ac y mae'r cynganeddion di-rif sydd eto, fel petai, heb eu cynganeddu, yn dal meddyliau a syniadau, – ac fe ddaw rhywun a'u cael rywdro.⁸⁷

Yma, unwaith yn rhagor, dengys yr awdur ei ogwydd at y gwyddonol wrth drafod 'y pedwerydd dimensiwn' neu 'fydysawd bloc', pan ddywed

fod mathemategwyr wedi unoli gofod ac amser, sef prif achos y tryblith.

Er hynny, rhaid cydnabod fod awgrym cryf o 'anymwybod cyffredinol' a

'chynddelwau' Carl Gustav Jung ganddo yn yr un ysgrif gan iddo ddweud

y ceisia rhai esbonio mai profiad hynafiaid gynt sydd yn gyfrifol am y

ffaith i rywun weithiau ymwybod â bod rhywbeth, rhyw brofiad neu

amgylchiad, wedi digwydd o'r blaen, er bod yr unigolyn hwnnw yn

'gwybod' na bu. Saith mlynedd cyn cyhoeddi'r gyfrol, *Olion*, yn 1935,

sydd yn cynnwys yr ysgrif, 'Ar Chwâl', ymddangosodd *Contributions to*

Analytical Psychology Jung. Fel hyn y traetha Frieda Fordham wrth

ddehongli gwaith y seicolegydd hwnnw:

The collective unconscious is a deeper stratum of the unconscious than the personal unconscious; it is the unknown material from which our consciousness emerges. We can deduce its existence in part from observation of instinctive behaviour – instincts being defined as impulses to action without conscious motivation, or more precisely – since there are many unconsciously motivated actions which are entirely personal and scarcely merit the term instinctive – an instinctive action is 'inherited and unconscious' and it is 'uniformly and regularly occurring everywhere'. Instincts are generally recognized; but not so the fact that, just as we are compelled to certain broad lines of action in specific circumstances, so also we apprehend and experience life in a way that has been determined by our history. Jung does not mean to imply by this that experience as such is inherited, but rather that the brain itself has been shaped and influenced by the

remote experiences of mankind. But 'although our inheritance consists in physiological paths, still it was mental processes in our ancestors that created the paths. If these traces come to consciousness again in the individual, they can do so only in the form of mental processes; and if these processes can become conscious only through individual experience and thus appear as individual acquisitions, they are none the less pre-existing traces, which are merely "filled-out" by the individual experience. Every "impressive" experience is such an impression, in an ancient but previously unconscious stream-bed'.⁸⁸

Geilw Jung y duedd i ddeall a phrofi bywyd mewn modd a gyflyrwyd gan hanes gorffennol y ddynoliaeth yn un gynddelwaidd. Ffurfiâu o ddealltwriaeth cyn dyfodiad ymwybyddiaeth yw'r cynddelwau. Ystyriai iddynt gael eu ffurfio yn ystod y miloedd o flynyddoedd pan oedd ymennydd ac ymwybyddiaeth dyn yn datblygu o gyflwr anifeilaidd. Fe'u profir fel emosiynau yn ogystal ag fel delweddau ac y mae eu heffeithiau yn arbennig o amlwg mewn sefyllfaoedd dynol nodweddiadol a phwysig fel geni a marw, buddugoliaeth dros anawsterau cyffredin, camau newidiol bywyd fel llencyndod, perygl eithafol, neu brofiad arswydus. Cymharer y brawddegau perthnasol canlynol gan Parry-Williams yn yr ysgrif o dan sylw, ynghyd â chysyniad y 'pedwerydd dimensiwn':

Y peth tebycaf yw mai un profiad neu amgylchiad felly sydd. Un serch sydd, un ofn, un angau. Unwaith y maent

erioed. I ni y mae hyn yn bod yn ei ddyfod am ei fod yn bod o hyd ac wedi bod erioed. Felly gyda phob meddwl a syniad.⁸⁹

Cysyniad diddorol arall yn y cyd-destun hwn yw'r hyn a alwodd yr athronydd, Friedrich Nietzsche, yn 'Dychweliad Tragwyddol' ('*Eternal Recurrence*'). Ei gred oedd bod unigolion yn ail-fyw eu bywyd yn union fel y maent wedi ei fyw o'r blaen ac yn yr un drefn; yr un unigolyn yn yr un amgylchiadau fydd ef yn dragwyddol ar ôl iddo farw. Dyma a ddywed *The Oxford Companion to Philosophy* am y syniad:

An ancient cosmological idea, seized by Nietzsche, to the effect that everything that happens is part of an endlessly repeating cycle or sequence of events. While Nietzsche entertained this idea as an actual cosmological hypothesis, he first introduced it and chiefly employed it hypothetically as a kind of test. One who is able to affirm life even on this firm supposition will have what it takes to endure and flourish in the aftermath of all disillusionment. (See e.g. *The Gay Science*, sect.341; *Thus Spoke Zarathustra*, pt.3; *The Will to Power*, sect. 1066.)⁹⁰

Y mae'n rhaid sôn yma, hefyd, am 'Ddamcaniaeth "Ffurfiâu" (neu "Syniadau")' Plato. Credai fod gan ffurfiâu pethau fodolaeth annibynnol a oedd yn bur, dwyfol, cyflawn, sefydlog a thragwyddol. Yr oedd gan bob ffurf ei 'henw' unigol. Syniai fod byd digyfnawid ar wahân i'r byd hwn, y gwirionedd eithaf, a bod modd sylweddoli'r ffaith drwy

ddwysfyfyrion ar y pethau sydd yn newid yn y byd hwn. Gan iddo gredu yn anfarwoldeb, cynfodolaeth a thrawsfudiad yr enaid, honnai fod baban yn cael ei eni gyda gwybodaeth flaenorol y gallai ei dysgu neu ei chofio. Dim ond yr enaid a allai ddeall y 'Ffurfiâu' annibynnol, ac yn y baban, yr oedd yr atgofion yn rhai cryf a dwyfol. *Anamnēsis* oedd y gair a ddefnyddiodd Plato i ddisgrifio'r dysgu a'r cofio a wneid yn y byd materol. Fodd bynnag, credai fod y wybodaeth hon yn cael ei herydu wrth i unigolion heneiddio. Y mae'n eithaf tebyg, felly, mai sôn am 'Ffurfiâu' Plato y mae Parry-Williams wrth ddweud mai 'Un serch sydd, un ofn, un angau. Unwaith y maent erioed ... Felly gyda phob meddwl a syniad.' Cydiodd Wordsworth yn namcaniaeth Plato yn ei awdl, 'Intimations of Immortality from Recollections of Early Childhood':

Our birth is but a sleep and a forgetting:
The Soul that rises with us, our life's Star,
Hath had elsewhere its setting,
And cometh from afar:
Not in entire forgetfulness,
And not in utter nakedness,
But trailing clouds of glory do we come
From God, who is our home:
Heaven lies about us in our infancy!
Shades of the prison-house begin to close
Upon the growing Boy,
But He beholds the light, and whence it flows,
He sees it in his joy;

The Youth, who daily farther from the east
Must travel, still is Nature's Priest,
And by the vision splendid
Is on his way attended;
At length the Man perceives it die away,
And fade into the light of common day.⁹¹

Ac Islwyn yntau:

A phwy a ddywed fod yr enaid fyth
Yn cyfeiliorni pan ymgwyd uwchlaw
Holl brofiad dyn, o'r cawell hyd y bedd,
Gan sisial pethau anrhaethadwy, ymbellhau
Fel seren i'r tragwyddol? Onid oes
Gan enaid hanes ynddo'i hun, rhyw drai
O dywyll bethau'n murmur o'r tu ol
Ar draethydd pellaf adgof, traethydd lle
Y collwyd adgof gydag engyrth ddrylliau
Rhyw fyd neu fydoedd?

A yw'r ser uwchben
Mor ddwyfol ac ardderchog ag y myn
Barddoniaeth ganu? Onid mewdol swyn,
Adgofion am ddwyfoldeb golygfeydd,
A phethau yn disgleirio oll gan Dduw,
Sy'n rhoddi iddynt hwy eu hysbryd-nerth
A'u harucheledd?

Yn nom mae y ser
A phob barddoniaeth. Onid adgof yw
O rywbeth mwy a fu, neu ragwelediad
O rywbeth mwy i ddyfod? Pwy nad yw
Yn teimlo weithiau fel pe byddai byd,
Hir anghofiedig, trwy ryw ongl bell
O'i dynghed yn ehedeg, neu yn taro
Rhyw benrhyn o atgofion?

Dychymygion, –
Pwy ddywed nad gweddillion bywyd uwch,
Mil ardderchocach ynt, yn nyfnaf for
Yr enaid mawr yn gorwedd nes y dêl
Holl-chwiliol anadl barddoniaeth heibio?⁹²

‘Yr enaid mawr yn gorwedd nes y dêl/ Holl-chwiliol anadl barddoniaeth
heibio’, meddai Islwyn; hwedl Parry-Williams, ‘Ac y mae’r cynganeddion
di-rif sydd eto, fel petai, heb eu cynganeddu, yn dal meddyliau a
syniadau, – ac fe ddaw rhywun a’u cael rywdro.’

Gollyngdod

Ychwanega Parry-Williams un pwynt arall tra arwyddocaol yn ‘Yr Efen
Bersonol ?mewn Barddoniaeth ?mewn Rhyddiaith’, drwy ddatgan bod
llunio ysgrif bersonol, a’i darllen i rai, yn rhoddi gollyngdod hyfryd i’r
awdur wrth ‘agor dorau hen garcharau.’ Ar y llaw arall, wele grefft
seicolegol wahanol a feistrolodd i sicrhau na châi rhai darpar
garcharorion hyll, di-drefn fyth fynediad i gysegr sancteiddiolaf ei fron:

Yn ystod y blynyddoedd, mi ni wn
A ddysgais un amgenach crefft na hon,–
Sef rhwystro i boenau’r byd a’r bywyd hwn
Oresgyn cysegr sancteiddiola’r fron;
Eu cadw rhag gormesu unrhyw bryd
Ar fynwes daclus â’u cybôl di-drefn,
Eu siwio ymaith o’r ffenestri clyd,
A bario drws y ffrynt a drws y cefn.
Maent yno’n y cynteddoedd, gant a mil,

Yn ysgyrnygu fel pŵerau'r Fall,
Ac ym mhob twll a chornel fel rhai chwil
Yn ymdrybaeddu a gwthio'r naill y llall;
Ond nid oes rhith o siawns i'w giwed hyll
Gael dim o'u pig i mewn o'r hanner gwyll.⁹³

Efallai mai ymdrech gref yw'r her uchod, yn ei soned, 'Crefft', i
amddiffyn ei argyhoeddiad na thynnir byth mo glefydau eneidol o'r tu
mewn allan yn llwyr, fel y darbwylla yn ei ysgrif, 'Y Tu Mewn',⁹⁴ –
cyfeiriad at yr ymarfer o seicdreiddio a boblogeiddiwyd gan Sigmund
Freud ar droad yr ugeinfed ganrif. Dyma a ddywed Parry-Williams am
rai agweddau ar hynny yn ei ragymadrodd i *Criafol*, cyfrol o ganeuon

Gwilly Davies a David Jones:

Fe awgrymwyd hefyd, a hynny'n wamal a sbeitlyd, mai dyn
mewn angen am ddwy neu dair o dabledau aspirin ydyw
bardd; dywedwyd amdano ei fod yn ddyd synhwyrsgall yn y
rhan fwyaf o bethau ond yn colli mewn un pwnc, am fod
'Byd-Ofid' yn pwysu'n drwm ar ei enaid; dyn a synnwyr
anghyffredin ganddo weithiau. Pe ceffid eglurhâd golau ar
hyn, gellid esbonio llawer o bethau dyrys ynglŷn â 'dyn fel
bardd' a 'bardd fel dyn.' Fe anfonwyd y cwestiwn – paham
yr ysgrifennir prydyddiaeth? – gan athro o Vienna i amryw
brydyddion yn ddiweddar, a chafwyd atebion diddorol. –
'Am fod y Gŵr Drwg yn gyrru'; 'Er mwyn anghofio
rhywbeth'; 'Er mwyn symud profiad o stad neu gyflwr lle'r
oedd yn poeni'r meddwl i un lle nad yw felly'; 'I laesu
tyndra teimlad'; 'I gael ffordd ddihangfa rhag stormydd yr
enaid'. Pwy a wŷr? A pha waeth?⁹⁵

Sylweddolir mai ymgais ymwybodol i gladdu pethau o'r golwg a geir yn ei soned uchod, drwy siwio ymaith a bario drws y ffrynt a drws y cefn, yn hytrach na'r syniad o ailgodi dirgelion o ddyfnder yr isymwybod, fel y trafoda yn 'Y Tu Mewn'. Gellid dadlau ei fod yn gyfarwydd â'r 'sensor' (neu'r 'atalnwyd', fel y'i gelwir gan Saunders Lewis yn ei lyfr ar William Williams Pantycelyn⁹⁶), term Freudaidd am y gweithrediad seicig sydd yn arbed ysgogiadau yr anymwybod rhag cyrraedd yr ymwybod, gan fychu teimladau ac atgofion annioddefol.

Eithr, gwelwyd mai'r awdur ei hun a ryddheir o'r carchar, gan brofi gollyngdod hyfryd, wrth lunio ysgrif a'i darllen i eraill, yn ôl sylwadau Parry-Williams yn ei lawysgrif fras – syniad tebyg i argyhoeddiad y Groegwr, Aristoteles, parthed ei gred ynglŷn â defnyddioldeb tosturi ac ofn, ym marddoniaeth trasiédiau Groegaid, fel cyfrwng i buro a thymheru'r nwydau ('*catharsis*'). Tra oedd Plato yn gwrthwynebu barddoniaeth oherwydd ei bod yn cyffroi'r teimladau y dylid eu cadw o dan reolaeth, dadleuai Aristoteles fod barddoniaeth yn rhyddhau'r teimladau, a chan hynny, yn eu tymheru. Cred T. S. Dorsch mai'r hyn a olygai Aristoteles oedd bod y catharsis yn adfer y teimladau i'w cymesuredd cywir, i'r 'cymedr' ('*mean*') dymunadwy a oedd yn sylfaen

i'w drafodaeth ar rinweddau dynol yn ei lyfr ar foeseq.⁹⁷ Darlunia Parry-Williams y *catharsis* hwn drwy esbonio bod rhyw ddrws, ffenestr neu len yn araf neu'n sydyn agor am eiliad yn unig, efallai, ar orwel fawr o "fyd yr Ysbryd" Dyn a dynion' a'r ysgrifwr yn aros yn syn a'i enau a'i lygaid yn agored. Y mae'n rhaid i'r darlennydd ddisgwyl hyn, meddai, neu fe gyll yr ysgrif ei grym a'i gwerth; nid gostwng llen a wneir ond ei chodi. Y fflach, neu'r gweld disymwth, sydd weithiau yn cynnwys golygon dychymyg, sydd yn rhoddi gwerth eneidol i'r ysgrifwr ei hun a'i ddarllenwyr. Y mae'n amlwg mai trafod y syniad rhamantaidd o lenor neu fardd fel gweledydd a wna yn y fan hon, o gofio am ei fynych ddefnydd o briod-ddulliau fel 'fflach o'r gwir', 'profiad munud awr' a 'gwirionedd y funud' yn ei waith. Dyma ddarn arall o deithiau meddwl Parry-Williams o wahanol ffynhonnell, wrth iddo 'wag athronyddu', yn ôl ei gyfaddefiad ei hun. Ond eto, ceir canlyniad eithaf cadarnhaol a thra chyfarwydd ar ôl yr holl gybôl:

Wel, petawn i'n honni fod fy mywyd i wedi bod yn werth ei fyw, i mi neu i rywrai eraill, mi gytunwn gan amlaf. Ond y mae'r ateb yn dibynnu ar y mŵd ar y pryd. Mae'r hen gwestiwn yn codi ei ben – Beth yw gwirionedd? A'r cwestiynau eraill yn sgîl hyn – A oes hanner gwir? A oes gwirionedd dros dro? A oes y fath beth â gwirionedd llenyddol, ar wahân i unrhyw fath arall o wirionedd? A pha

faint o wir sydd mewn celwydd neu anwiredd, yn llenyddol neu unrhyw fel arall? Rhaid i mi beidio ag ymroi i wag-athronyddu a chyboli fel yna. Pa ateb bynnag a rydd athronwyr disgybledig a chydabyddedig i gwestiynau fel yna, – os oes unrhyw bwynt ynddynt hefyd – 'rwy'n tueddu i gredu fod dyn yn cael peth gafael ar wirionedd amdano'i hun, ar ei hanfod, wrth geisio mynegi, yn onest a didwyll (os gellir yn bendant bendifaddau wneud hynny'n groyw), ei symudiadau a'i gyffroadau eneidol, boed y rhai hynny'n sefydlog neu'n bethau-dros-dro. Gan hynny, os geiriau yw'r cyfrwng i wneud hynny – geiriau gyda'u sain a'u hystyr, eu rhin a'u hansawdd, y mae'r un sy'n defnyddio offer geiriau i geisio 'creu' a hwynt, yn cael cyfle i'w adnabod ei hun wrth draethu'n greadigol onest amdano'i hun, ac am y byd a'i bethau hefyd.⁹⁸

Elfen boblogaidd arall o ddawn y gweledydd a gaiff sylw ganddo yn y llawysgrif fras o dan sylw yw cynneddf yr unigolyn hwnnw i weld pethau cyffredin yn anghyffredin, pan ddarganfyddir pethau a lleoedd cyfarwydd o'r newydd. Enghreifftiau da o hyn yn ei waith, ar antur, yw: 'I ganfod gogoniant peth cynefin rhaid ymddangos o'r peth hwnnw weithiau yn ddieithr ac anghyffredin'; '... ond bûm lawer gwaith yn synnu at yr hen arweddau sefydlog wedi eu gweld, fel petawn yn agor llygad am y tro cyntaf ar randir anhysbys.'⁹⁹ 'Bydd, bydd raid imi fynd i Soar-y-Mynydd y tro cyntaf eto, pan fwyf yn fyfi fy hun iawn ...'¹⁰⁰ a'r darn hwn o'i ysgrif, 'Llenyddda':

Pan fo'r dyn sy'n meddu ar y gynneddf y soniwyd amdani – pan fo'r dyn hwnnw yn gallu myfyrio'n ddigon dwys, ac yn ymgolli yn ei fyfyr, y mae o angenrheidrwydd yn gweld pethau mewn golau anghyffredin ac yn ymdeimlo â phethau mewn modd anghynefin; hynny yw, y maent yn mynd yn ddiethr iddo, o safbwynt pob-dydd o edrych ar bethau.¹⁰¹

Ceisiodd argymell yr arferiad hwn i ddarllenwyr *Y Winllan* yn ei erthygl, 'Rhyfeddodau':

Arfer gwerth ei feithrin ydyw sylwi ar bethau di-sylw. Ymysg y rhai hyn ceir bron bob amser rywbeth cyffredin sydd, o edrych arno, yn tyfu'n anghyffredin. Yn y conglau mwyaf digynnwrf, ac yn y llecynnau tawelaf a mwyaf undonog, y mae llu o bethau sy'n gymaint o destunau synnu a rhyfeddu â'r pethau mawr gogoneddus hynny mewn natur a bywyd sydd, er yn anghyffredin, wedi dyfod, ysywaeth, yn gyffredin. Y mae machlud haul a storm o fellt ymysg rhyfeddodau'r ddaear, ond, gan mor gyffredin ydynt fel rhyfeddodau (am fod pawb yn sôn amdanynt, ac wedi dysgu synnu a rhyfeddu wrth eu gweled), y mae angen dyn o allu sylwi, ac o welediad a threiddgarwch anarferol, i weld rywbeth newydd ynddynt, ac i gael cyffro teimlad prin wrth ddyfod wyneb yn wyneb â hwynt. Ond ym myd y pethau bychain di-sylw, yma y ceir rhyfeddodau a gyffry gynnwrf syndod yng nghalon pob un a ddysgo arfer cadw llygad yn agored, – nid canfod pethau neu wrthrychau newydd, ond gweld godidowgrwydd a swynion difrif a digrif ynddynt nad yw pawb yn ei brofi am nad ydynt yn sylwi. Odid na bydd pawb bron wedi gweld y gwrthrychau eu hunain, ond heb sylwi ar eu nodweddion syn, na phrofi'r hyfrydwch dwys sydd i'w gael o sylu 'â llygad o'r newydd'.¹⁰²

Nid oedd y cyfarwyddyd i geisio gosod gwrthrych testun mewn golau newydd yn ddieithr i lenorion y dydd. Meddyliai Caledfryn, yn y ganrif flaenorol, mai da o beth fyddai dyfynnu geiriau Walter Scott ynglŷn â'r syniad yn *Caniadau Caledfryn*. Swm a sylwedd y genadwri yw bod barddoniaeth yn gelfyddyd a all egluro meddylddrychau, rhesymau ac ati mewn iaith glir, gan osod y gwrthrych mewn golau newydd.¹⁰³ Trafoda Parry-Williams yr agwedd hon ar lenyddiaeth yn 'Antur Llen'¹⁰⁴ (sic) drwy bwysleisio pwysigrwydd synnwyr anghyffredin ac ysbrydoliaeth y gweledydd wrth ei waith. Yr oedd y syniad o weld rhywbeth mewn golau newydd yn rhan hanfodol o athrawiaeth William Wordsworth, fel yr esbonia S. T. Coleridge yn *Biographia Literaria*, wrth i'r ddau ohonynt fynd i'r afael â chyfansoddi cerddi ar gyfer y gyfrol, *Lyrical Ballads*. Dau bwynt a ystyrient yn allweddol i farddoniaeth oedd cynhyrfu cydymdeimlad y darlennydd drwy lynu'n ffyddlon wrth wirionedd natur, a'r grym o roi syniad o newydd-deb wrth addasu lliwiau'r dychymyg. Tra oedd Coleridge am i ddarllenwyr ei gerddi ef atal anghrediniaeth yn y goruwchnaturiol, yr oedd gan Wordsworth fformiwla arall:

Mr. Wordsworth, on the other hand, was to propose to himself as his object, to give the charm of novelty to things of every day, and to excite a feeling analogous to the

supernatural, by awakening the mind's attention from the lethargy of custom, and directing it to the loveliness and the wonders of the world before us; an inexhaustible treasure, but for which, in consequence of the film of familiarity and selfish solicitude we have eyes, yet see not, ears that hear not, and hearts that neither feel nor understand.¹⁰⁵

Yn y llawysgrif fras ynglŷn â'r elfen bersonol, edrydd Parry-Williams hanesyn am ryw hen wladwr bloesg yn hanner sylweddoli, yn ddigon diniwed, ar ôl i rywun adrodd profiadau anghyffredin-gyffredin wrtho, 'fod yna bethau.' Y mae'r awdur yn cloi ei ysgrif â darlun o fychander dyn, a ddisgrifir fel darn o ddynoliaeth yn unig, o'i gyferbynnu ag ehangder diderfyn ysbryd neu ddychymyg, (gwelir bod hyn yn cyd-fynd â'r syniad, *Anima Mundi*, a drafodwyd eisoes) a chyfeddyf fod y sylweddoliad hwn yn gyrru rhyw ias o gryndod hiraethus drosto. Wele damaid bach trawiadol fel diweddglo i'r gwaith dadlennol hwn: 'Yr elfen bersonol yn wir! "Whatever I am, I am not myself".' G. K. Chesterton biau'r geiriau Saesneg, yn ôl pob golwg, ond hawdd iawn yw darganfod adlais digamsyniol ohonynt gan Parry-Williams ei hun yn ei rigwm 'Dryswch':

Mae amryw byd ohonom yn fy nghlai,
Blithdraplith oddi mewn, pob un â'i gri,
Pob un a'i rinwedd a phob un â'i fai.

Dieithriaid ydym oll, – eto myfi.

Rhagor nid oes rhwng rhinwedd un a'i fai.

Ymysg y tryblith nid adweinir cri.

Mae amryw byd ohonom yn fy nghlai.

Myfi ŷnt oll, – ac eto nid myfi.¹⁰⁶

Un arall a boenwyd yn ddirfawr gan anwadalwch ei ymwybyddiaeth oedd

W. B. Yeats, a chan gymaint y gwerthfawrogai ddidwylledd mewn

barddoniaeth, datblygodd ddamcaniaethau astrus o hunaniaeth

bersonol a ganiatâi iddo gyfansoddi heb iddo orfod ymboeni am

ddidwylledd. Dadleuai fod y gwrth-hunan wastad ynghlwm wrth yr

hunan, gan wneud gwrthddywediadau yr un mor ddidwyll â'i gilydd.

Tybed a ydys bellach wedi 'treiddio i'r adnabyddiaeth' o'r bardd a'r

llenor o Ryd-ddu o gwbl? Rhywfaint, efallai.

Cyferbynnodd Dafydd Glyn Jones ymateb beirniaid i themâu preifat

Parry-Williams â themâu mwy cyffredinol yn ei waith gan ddweud bod

rhai ohonynt mor bersonol bron nes bod y beirniaid yn ymgroesi rhag

eu trafod o gwbl.¹⁰⁷ Yn y cyd-destun hwn, ceir hanesyn perthnasol pan

ddywedodd Parry-Williams iddo geisio mynegi, yn rhai o'r sonedau

Saesneg a anfonai o bryd i'w gilydd i'r *Western Mail* a'r *Dragon* yn y

flwyddyn 1919, rai o brofiadau ac ysgogiadau dyfnaf gwaelod ei galon –

rhyw gyffroadau a oedd yn dod i'r golwg ac yn ei lethu weithiau, er gwaethaf yr ysgafnder a'r rhyddhad a deimlai wedi iddo droi ei gefn ar ei yrfa yn Adran y Gymraeg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Ymddiheurodd am y cyfansoddiadau Saesneg hyn gan esbonio y teimlid bod y Gymraeg mewn safle digon cadarn ar y pryd a bod angen arian arno oherwydd ei sefyllfa arbennig.¹⁰⁸ Fe'u cyhoeddwyd yn breifat yn 1932 o dan y teitl *Sonnets*.¹⁰⁹ Yn wir, yr oedd ei farn amdanynt yn llawn mor sensitif ar ddiwedd ei oes oherwydd, ar ôl hanner gwrthod ei ganiatâd dros yr ychydig fisoedd blaenorol i'w hailgyhoeddi yn rhifyn teyrnged arfaethedig iddo o *Poetry Wales*, dyma oedd ei sylw terfynol mewn llythyr at Gwilym Rees Hughes:

Drwg gennyf am yr oedi ynglŷn â dewis rhai o'r sonedau Saesneg. Erbyn hyn, ar ôl pendroni a physlo, teimlo'r ydwyf mai'r peth doethaf yw peidio â chyhoeddi'r un ohonynt yn y rhifyn. Y mae'r 'goreuon' yn adlewyrchu profiadau personol go ingol mewn cyfnod argyfyngus.¹¹⁰

Un thema yn y gyfrol yw'r teimlad o seithugrwydd oherwydd iddo adael ei hen gynefin er mwyn dilyn ei yrfa academiaidd:

Steadfast and stern, as in those days of gold
When they befriended an unwandered lad
With lonely lovingness, before he sold
For worldly lore the treasure that he had;
Steadfast and stern, the mountains wait for him,

Their summer bareness of ridge and range
Buried in wintry softness, and their grim
 Beauty of outline heightened by the change.
And I shall feel again, as I draw nigh,
 A burning throb within my empty heart,
And know the utter meanness of the lie
 That came from learning's lip and made us part.
Ashamed, yet wild for welcome, I shall throw
My faithless self upon their warmth of snow.¹¹¹

Hefyd, y mae'n teimlo ei fod wedi siomi ei rieni a bod rhyw fath o rwyg
wedi digwydd: 'Regret not that you bare a gloomy boy/Whose fond
success brought failure in its train.'¹¹²; 'As we climbed higher,
higher,suddenly/Night came upon us. Yet shall we remain/Upon our
peak till daylight dawn again.'¹¹³ Enghreifftiau eraill o seithugrwydd,
siom a dieithrwch yw: 'Your heart no longer quickens for the
game,/When your poor quarry's caught. Love – Life's the same.'¹¹⁴;
'Till, as I drew towards my journey's end/Where sorrow was awaiting my
return,/I feel that things inhuman could befriend/A human thing whose
lot is but to yearn.'¹¹⁵; 'To stand the storm and brave the batterings/Of
every thwarting chance, to face alone/The fateful forms of unawaited
things; ...then, what regrets/Will dare to taunt me with a vanished
fame,/If, for all outward change, I rest the same?'¹¹⁶; '...because the
day/That was, is done, and never will come back./Rather I stumble

where the shadows are,/And seek the solace of the evening star.’¹¹⁷;
‘And still doth tinge these days of scanty joy/And plenteous grief, scarce
smiles and frequent tears./To-day I know how well this setting hue/Of
life’s young hopes portrays the fate in store/For one who feels that only
death is true,/And red the only colour. I abhor/The thought that I may
feel the crimson pain/Of living twenty – thirty years again.’¹¹⁸; ‘I seem
to sink, until, past all relief,/I touch the bedrock of some primal
grief.’¹¹⁹; ‘The very turnings of the road were new,/And made me feel a
hateful Philistine;/ The very doorstep rang no longer true,/And my own
home appeared no longer mine./And yet I was myself, the self-same
one/That but a while ago had seen them all/Still friends:’¹²⁰; ‘I fool had
thought that rolling road/Led on, unchecked, nowhere and
everywhere,/That every hopeful turning helped to goad/The footworn
pilgrim to outrun despair;/...and in front of me/There stood a gate, bold
and rectangular,/Gaunt, metal-toothed, and fastened with a bar.’¹²¹ Y
mae rhai o’i weithiau Cymraeg yn trafod yr un emosiynau, fel ei ysgrif,
‘Dieithrwch’(1927),¹²² lle y mae’n disgrifio pethau cyfarwydd fel mynydd,
gwal, craig, cae, carreg y drws, ei bobl ei hun a’r Wyddfa o amgylch ei
hen gartref fel pethau dieithr gyda phellter rhyngddo ef a hwy. Tybia

mai ef sydd wedi newid a bod rhywbeth o'i le arno. Y mae'n ddiddorol sylwi yn 'Change' ac 'Estrangement' ei fod yn argyhoeddedig nad ef sydd wedi newid ond y pethau allanol ac y mae awgrym yma iddo deimlo ei fod yn cael cam. Yn yr ysgrif, 'Dieithrwch', esbonia ei deimlad wrth nesáu at garreg y drws wrth ddychwelyd adref am wyliau o Ysgol

Ganolradd Porthmadog:

Wrth frysio o'r ffordd fawr i fyny'r grisiau ac at garreg y drws, bûm fwy nag unwaith yn teimlo fel adyn wedi ei ddiarddel – yno o bobman ar wyneb y ddaear. Dieithrwch iasol, gwallgofus. Yr oedd sŵn fy nhroed ar y cerrig yn rhyfedd ac anarferol a lleisiau f'anwyliaid yn chwith annaturiol i'm clyw. Byr, drwy drugaredd, fyddai ei barhad. Pa ryfedd, felly, imi dybied mai drygargoel oedd y dieithrwch hwn, cyn imi deimlo mai'r agos-atrwydd eithaf a'r anwyldeb tyneraf oedd yn cyfrif amdano, ac mai hwn sydd yn rhwystro i'r ddihareb am gynefindra'n magu dirmyg fod yn wir bob amser.¹²³

Yr un profiad ingol o ddieithrwch a deimlai Franz Kafka oherwydd iddo gredu ei fod wedi ymbellhau oddi wrth ei wreiddiau, ei deulu, a'i gyffiniau, ac yn wir, oddi wrtho ef ei hun. Yn ei waith, gwelir llawer iawn o'r ing a nodwedddai weithiau dirfodwyr yr oes – elfennau fel unigrwydd, dryswch, ofn ac euogrwydd. Wele ei fersiwn ef o'i ansicrwydd wrth ddychwelyd adref yn ei stori fer, 'Homecoming':

I have returned, I have passed under the arch and am looking round. It's my father's old yard. The puddle in the middle. Old, useless tools, jumbled together, block the way to the attic stairs. The cat lurks on the banister. A torn piece of cloth, one wound round a stick in a game, flutters in the breeze. I have arrived. Who is going to receive me? Who is waiting behind the kitchen door? Smoke is rising from the chimney, coffee is being made for supper. Do you feel you belong, do you feel at home? I don't know, I feel most uncertain. My father's house it is, but each object stands cold beside the next, as though preoccupied with its own affairs, which I have partly forgotten, partly never known. What use can I be to them, what do I mean to them, even though I am the son of my father, the old farmer? And I don't dare knock at the kitchen door, I only listen from a distance, I only listen from a distance (sic), standing up, in such a way that I cannot be taken by surprise as an eavesdropper. And since I am listening from a distance, I hear nothing but a faint striking of the clock passing over from childhood days, but perhaps I only think I hear it. Whatever else is going on in the kitchen is the secret of those sitting there, a secret they are keeping from me. The longer one hesitates before the door, the more estranged one becomes. What would happen if someone were to open the door now and ask me a question? Would not I myself then behave like one who wants to keep his secret? ¹²⁴

Byddid yn meddwl y gallai Parry-Williams uniaethu â Kafka, o ystyried naws gyffredinol eu gwaith ond y mae'n hollol amlwg na hoffai gynnyrch y 'dirfodwr' hwn o gwbl! Ar ei ffordd i Abbington gyda'i wraig, Amy, ar 10 Mawrth 1953, prynodd un o lyfrau Kafka yng ngorsaf drên Amwythig. Enw'r llyfr oedd *The Trial*,¹²⁵ llyfr enwocaf yr Iddew o Prague, lle y mae'r

prif gymeriad, Joseph K., mewn cyfyng-gyngor ar ôl cael ei arestio heb esboniad a'i ladd heb hyd yn oed weld yr Uchel Lys na'r Barnwr. Y brif thema yng ngwaith Kafka yw ofn yn wyneb unrhyw fath o awdurdod a hefyd ofn yr anhysbys, a thema gyson arall yw cyrraedd yn aflwyddiannus neu fethu cyrraedd y nod oherwydd ei unigrwydd. Yma ac acw yn y llyfr o dan sylw, y mae Parry-Williams wedi datgan ei farn amdano â'r geiriau canlynol: 'diflastod uffernol'; 'pointless, dreary stuff'; 'What is the point of all this dreary stuff?'; 'awful stuff' a 'silly, blah!' Y mae sylwadau eraill yn y llyfr yn awgrymu'n gryf nad oedd ef yn gyfarwydd iawn â bywyd na gwaith Kafka. Teimlai Kafka mor ddirdynnol ynglŷn â'i arwahanrwydd nes iddo ddatgan unwaith ei fod wedi ei wahanu oddi wrth bopeth gan ofod gwag ac nad oedd hyd yn oed yn cyrraedd ei ffiniau. Adlewyrchodd y cyflwr hwn yn ei waith drwy ei bortreadu ei hun fel Gregor Samsa, prif gymeriad y stori, 'Metamorphosis'¹²⁶, a ddarganfu ei hun, un bore, wedi ei drawsffurfio i ryw fath o chwilen frown anferth. Swm a sylwedd y stori yw bod y prif gymeriad yn teimlo'n annigonol yn llygaid ei deulu oherwydd ei hylltra, ac o ganlyniad, y mae eisiau bod yn anweledig. Mantellodd yr awdur ei hun fel ci, epa a llygoden mewn gweithiau eraill ac fel creadur tebyg i

dwrch daear yn y stori, 'The Burrow'¹²⁷, lle y mae'n cael llonydd gan bawb i ysgrifennu'n greadigol a'i gynnal â chyflenwad o fwyd parod. Ond y mae gelynion yn llechu yn y tywyllwch, gelynion y mae'n credu ynddynt er nad yw wedi eu gweld erioed a chred nad oes unrhyw obaith iddo. Hefyd, yn ei lythyrau at ei gariad, Felice Bauer, gwêl ei hun fel pryf genwair yn hytrach nag fel dyn, er mwyn cyfleu ei fychander a'i annheilyngdod. Ymhellach, wrth sôn am ei dad (i Kafka, yr oedd ysgrifennu yn ddihangfa rhag ei dad ac yn ddialedd yn ei erbyn), dywedodd ei fod wedi gallu ymbellhau oddi wrtho er bod y profiad ychydig fel un pryf genwair sydd yn ymryddhau gyda'i ddarn blaen pan fo rhywun yn sathru ar ei gynffon.

Ystyriodd Parry-Williams yntau y pryf genwair, nad oedd yn 'deilwng i sôn amdano', fel cyfrwng addas i wyntyllu meddyliau dirgel. Yn ei ysgrif, 'Y Pryf Genwair', y mae'n trafod yr amser y newidiodd ei yrfa yn 1919, yr amser ingol pan ymddiswyddodd fel darlithydd yn Adran y Gymraeg Coleg Prifysgol Aberystwyth yn sgîl helyntion y Gadair a throi ei orwelion at feddygaeth drwy ymuno ag Adran Wyddoniaeth y Coleg fel glasfyfyrwr:

Meudwy pridd y ddaear ydyw'r pryf genwair, ac ni ellir peidio ag eiddigeddu wrtho. Yn y ddaear, nid ar y ddaear, y mae ei gartref. Llusg ei fwyd o ddail i'w dwnelau tanddaearol...Gwelir weithiau ei lwybrau ar y ffordd wedi glaw fel ôl rhywun ar gyfeiliorn wedi gado'i gynefin. Yswil iawn ydyw: nid yn aml y daw'r cwbl ohono allan. Glŷn wrth y pridd cyhyd ag y gallo. Ie, creadur unig ydyw, a di-asgwrn-cefn (ond pa waeth? nid yw'n anystwyth nac ystyfnig), yn cilio o olwg y byd ac yn gallu byw a bod a breuddwydio dan groen wyneb y tir. Ond druan ag efyntau! Y mae iddo'i elynion arnodd ac oddi tanodd, - dynion ac adar a thyrchod daear. Twyllir ef allan gan yr adar (megis y twyllir ef allan gan enweiriwr trwy guro pren i'r ddaear a'i dapio a gwneuthur i'r creadur feddwl bod gelyn gerllaw yn y pridd), a helir ef yn ddiarbed gan y twrch - sydd fwy nag ef. Er byw yn nhywyllwch y pridd, er peidio ag aflonyddu ar ei gydgreaduriaid, er llechu'n ddistaw heb dresmasu na gormesu, eto ni chaiff lonydd. I bawb ond ef ei hun nid yw ond bwyd neu abwydyn. Nid nefoedd i gyd mo'r ddaear. Nid yw'r pridd wedi'r cwbl mor llonydd a heddychlon ag y tybiwn gynt. Wrth eiddigeddu wrth y pryf, rhaid tosturio wrtho hefyd.¹²⁸

Ar ddechrau ei ysgrif, 'Y Flwyddyn Honno',¹²⁹ wrth drafod yr un flwyddyn, myn Parry-Williams iddi fod yn un ogoneddus pan ymddiddorai mewn dyn ac anifail, a gofynna beth oedd athroniaeth, llenyddiaeth ac ieitheg o'u cymharu â'r gwyddorau. Ond sylwir bod dwy ran i'r ysgrif, 'Y Pryf Genwair'. Y mae'r gyntaf yn trafod agweddau gwyddonol yr anifail, tra newidia'r cywair ar ganol yr ysgrif drwy gyflwyno ei ochr ddynol. A dyma'r pryd y dechreua'r awdur athronyddu

gan awgrymu'n gynnil y tebygrwydd rhyngddo ef a'r pryf genwair, o ran amgylchiadau a 'phersonoliaeth'. Sylwer ar y canlynol: 'ar gyfeiliorn wedi gado'i gynefin' (wedi gadael Rhyd-ddu); 'yswil'; 'nid yn aml y daw'r cwbl ohono allan' (trosiad materol am gyflwr meddyliol drwy gyfeirio at seicdreiddio?); 'creadur unig', 'di-asgwrn-cefn' (oherwydd ei safiad fel gwrthwynebydd cydwybodol?); 'cilio o olwg y byd' (ymddiswyddo fel darlithydd academaidd); 'gallu byw a bod a breuddwydio' (neu yn achos Parry-Williams, myfyrio a synfyfyrio); 'Y mae iddo'i elynion arnodd ac oddi tanodd, - dynion ac adar a thyrchod daear' a 'helir ef yn ddiarbed gan y twrch - sydd fwy nag ef' (y sefydliad academaidd a'r 'Comrades of the Great War' ac eraill a wrthwynebodd ei apwyntiad i'r Gadair?), 'ni chaiff lonydd' (wedi'r cyfan, dyna'r hyn yr oedd ar Parry-Williams ei eisiau yn awr, fel ag yn ddiweddarach yn ei soned, 'Ymbil': 'Ond am i mi, fel Tithau, ambell awr/Gael llonydd gan holl derfysgiadau'r llawr'.)¹³⁰ Yn wir, ni waeth pa mor ymarferol a gwyddonol yr hoffai Parry-Williams fod, y mae'n amlwg mai athronyddu oedd ei brif ddiddordeb, a 'threiddio i'r adnabyddiaeth' ohono ef ei hun er mwyn iddo ei ddeall ei hun yn well. Ni wyddys a ddarllenodd unrhyw weithau eraill gan Kafka ond efallai y byddai'n gallu uniaethu ag ef mewn un ffordd, sef bod nam corfforol ar

y ddau ohonynt – ei fys clec ef a bawd troed anffurfiedig Kafka! Yng nghyd–destun dirfodaeth, cystal dweud yn y fan hon nad oedd ganddo ddim i’w ddweud ychwaith am *Intimacy*,¹³¹ cyfrol o straeon byrion gan y dirfodwr, Jean Paul Sartre, gan nodi ar dudalen olaf y llyfr, ‘Blah! Useless rot’ ac ‘Existentialism!’ ar dudalen 88.

Y mae’n bur debyg i Parry–Williams deimlo’n wrthodedig wrth nesáu at ei gartref yn ystod y cyfnod argyfyngus y sonnir amdano uchod oherwydd y dystiolaeth ychwanegol a geir mewn cerddi Cymraeg a gyfansoddwyd yn 1919: ‘...arswyd gweld ôl tristâd/Ar wedd fy mam neu’n llygad llym fy nhad.’¹³² a ‘Gwelais dylluan, – a daeth braw i’m bron.’¹³³ Diddorol yw darganfod iddo ysgrifennu mewn un lle gyferbyn â’i soned, ‘Cydbwysedd’,¹³⁴ sydd yn sôn am ei fam yn rhoi cardod i ryw hen dramp, nad oedd hi’n rhoi dim iddo ef.¹³⁵ Hefyd, hepgorwyd rhan o draethawd ymchwil Dyfnallt Morgan ar Parry–Williams a oedd yn sail i’w lyfr, *Rhyw Hanner leuenctid*,¹³⁶ a hynny oherwydd bod Parry–Williams wedi ei adolygu’n fanwl cyn ei gyhoeddi. Yn ôl pob golwg, yr oedd y diweddar J. Ellis Williams, gweinidog M. C. Llanddewibrefi, a oedd yn ffrind i Parry–Williams, wedi dweud wrth Dyfnallt Morgan flynyddoedd ynghynt nad oedd yn hawdd gan y bardd i fynd adref i Ryd–ddu yn ystod

y rhyfel oherwydd nad oedd ei fam yn cydymdeimlo â'i safbwynt pasiffistaidd.¹³⁷ Dadlennol iawn yw darn arall a hepgorwyd hefyd, lle y mae Dyfnallt Morgan yn dweud nad oes yr un wefr yn perthyn i'r sonedau Saesneg a gyfansoddwyd yn 1919 ag i'r rhai Cymraeg: 'Gan i Parry-Williams wrthod cynifer o'i gerddi Cymraeg yng nghasgliad 1931, rhyfedd iddo benderfynu cyhoeddi'r sonedau Saesneg hyn...Y mae rhywbeth oer a di-nwyd yn y sonedau Saesneg, fel petaent yn ymarferiadau o ryw fath'.¹³⁸ Y mae'n amlwg nad oedd Parry-Williams eisiau datgelu yr hyn a allai fod yn anghydfod rhyngddo ef a'i fam i'r byd a'r betws ac, yn sicr, ni fynnai i neb gamddehongli'r hyn a'i hysgogodd i gyfansoddi'r sonedau, heb sôn am eu galw'n ddi-nwyd! Gwyddai nad ef oedd hoff fab ei fam, ac yr oedd ei dad yn disgwyl rhywbeth mawr oddi wrtho, fel y soniodd wrth Aneirin Talfan Davies yn ei sgwrs, 'Dylanwadau'.¹³⁹ Yr oedd ei dri brawd wedi ymuno â'r fyddin tra oedd ef wedi ennill ei achos fel gwrthwynebydd cydwybodol mewn tribiwnlys oherwydd pwysigrwydd ei swydd fel darlithydd, gan ddiodef dirmyg ac erledigaeth. Byddid yn disgwyl i'w dad gydymdeimlo ag ef yn y sefyllfa hon oherwydd dioddefodd yntau yn yr un modd pan gymerodd swydd disgybl-athro yn sgîl Deddf Addysg 1870:

Y pryd hwnw daeth cyfundrefn y Disgybl–Athrawon (Pupil Teachers) i fod. Cafodd amryw gynyg y swydd yn yr ysgol hono ond gwrthodant hi gyda dirmyg yn cyfateb i’w hadgasedd o’r swydd. Disgynodd y coelbren arnaf fi ac nid anghofiaf byth y pangfeydd, y dirmyg a’r erledigaeth ddiodefais am gyfnod o 5 mlynedd oherwydd i mi dderbyn swydd mor ysgymun. Nid oedd bod yn un o’r publicanod yng Nghanaan gynt yn ddim yn ymyl hyn i fachgen ieuanc a’i natur yn effro a thyner.¹⁴⁰

Ni wyddys beth oedd yr holl amgylchiadau a boenai Henry Parry–Williams pan oedd yn ifanc ond gwelir yma fod y tad yn llawn mor sensitif â’r mab, er iddo gael ei bortreadu fel dyn llym yn gyffredinol yng ngweithiau’r mab. Wele’r ail a’r trydydd pennill o gerdd Henry Parry–Williams, ‘My brother’ (sic), a gyfansoddwyd rywdro rhwng 1892 a 1903. Gyferbyn â’r tanlinellu, y mae wedi ysgrifennu ‘Literalily true’:

When tired on the mountain way,
And boys ignored me in their play,
Whose shoulders bore me! need I say
My brother’s.

When haunted in my bed at night,
And parents could not set me right,
Who put those phantoms grim to flight?
My brother.¹⁴¹

Ond ar y llaw arall, efallai nad oedd Henry Parry–Williams yn cytuno â heddychiaeth ei fab, oherwydd ceir cofnod ganddo sydd yn cyfeirio at

ryw ryfel lle y mae'n rhoi ei ffydd yng Nghrist ar faes y gad. Y mae'n sôn am filwr yn marw yn Sebastopol ac yn gofyn i'w gyfaill ganu 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonau (sic)/ Nid oes neb a ddeil fy mhen':

Mor werthfawr oedd medru yr hen emyn y pryd hwnnw!
Daw yn Sebastopol arnom ninnau cyn bo hir, a chawn ein hunain yn glwyfedig ar fron y maes. A fedrwn ninnau hefyd ganu y pryd hyny 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonau, Nid oes neb a ddeil fy mhen, Ond fy anwyl briod Iesu, A fu farw ar y pren'.¹⁴²

Er bod Dafydd Glyn Jones yn dweud bod beirniaid yn ymgroesi rhag trafod themâu preifat Parry-Williams o gwbl, cred nad oes fath o amheuaeth ynghylch agwedd Parry-Williams pan fo thema ei waith yn un fwy cyffredinol neu gyhoeddus, er enghraifft, pan fo'r bardd yn cael ei lethu gan wrthuni a diflastod bodolaeth.¹⁴³ Ond gellir yn hawdd wrthbrofi'r gosodiad hwn gan y gwyddai Parry-Williams yn burion nad adroddir hanes enaid neb oll-yn-oll, hyd yn oed gan athrylith llenor na chan fedr celfyddwr ychwaith, fel y mynegodd yn ei ysgrif, 'Ar Encil': 'yr oedd tu-mewn i'r tu-mewn, fel y mae bob amser',¹⁴⁴ meddai wrth geisio dal ysbrydion ac ysbrydoedd y Barwn Corvo a'r arlunydd Eric Gill er mwyn ceisio eu hadnabod yn well. Arllwysodd y cyntaf ei berfedd gan ddangos cyflwr drylliedig ei enaid mewn nifer o'i lyfrau trwy barodio ei

fywyd ei hun, yn enwedig yn *Hadrian the Seventh*. Yn *The Quest for Corvo*¹⁴⁵ gan A. J. A. Symons, llyfr poblogaidd a ystyridd yn glasur o gofiant arbrofol yn ei amser, dywedir i'r barwn rhyfedd hwn honni mai ei enw llawn oedd Frederick William Serafino Austin Lewis Mary Rolfe, ac ymhellach, iddo ennill y teitl, y Barwn Corvo, oddi wrth ryw Dduges o Babyddes, sef Carolina Sforza–Cesarani. Ystyriai ei hun yn alltud oherwydd i'r Eglwys Babyddol wrthod ei dderbyn yn offeiriad. Yn hyn o beth, gellid cymharu profiad Parry–Williams yn ystod ei erledigaeth yntau pan wrthodwyd y Gadair iddo. Diarddelwyd y Barwn Corvo fel pla gan gymdeithas wrth i sibrydion ledaenu ei fod yn dwyllwr, celwyddgi, methdalwr cyson a gwrywgydiwr ymhlith pethau eraill. Yn wir, bu ar y clwt am y rhan fwyaf o'i fywyd trist er iddo geisio ennill ei fywoliaeth fel hanesydd, awdur, arlunydd a thrwy lawer ffordd arall. Ymofyn cardod a lloches byth a beunydd oddi wrth y byd a'r betws fu ei ran druenus yn y byd. Oherwydd gwahanol sefyllfaoedd anffafriol, yn enwedig trafferthion ynglŷn â chyhoeddi ei waith, magodd gasineb diymod at rai a fu ar un amser yn gyfeillion mynwesol iddo, gan feithrin, yn ôl A. J. A. Symons, ryw fath o baranoia pan ystyriai fod yr holl fyd yn ei erbyn.

Dyma ddarn allan o lawysgrif anghyhoeddedig y Barwn, sef 'The Desire

and Pursuit of the Whole', lle y ceir yr hunanbortread olaf ohono, a hynny fel yr arwr, Nicholas Crabbe:

Nicholas Crabbe, being Nicholas Crabbe, was as hard as adamant – outside. He tolerated the most fearful revilings, humiliations, losses, without turning a hair. He had none. Even his enemies (which means all the men and women with whom he ever had been intimate) freely admit (in their less excited moments) that nothing, at any time, ruffled his cruel and pitiless and altogether abominably self-possessed serenity of gait and carriage; and they account it to him for natural naughtiness. Of course they are imbecile idiots. What is to be expected of a man cased, cap-à -pie, like a crustacean, in hard armour of proof? Such an (sic) one has no means of exhibiting his feelings, excepting with his crookedly-curving, ferociously-snapping claws, and (perhaps) with his bleak rigid glaring eyes. Crabbe was detested by people who habitually showed their feelings. He couldn't show his. He never showed his real ones for that very reason. But boobies thought that he did – thought that his breakable but unbendable shell was his expression, a horrible expression because it gave no information whatever; and then, when (quite unexpectedly) the hitherto stilly-folded claws snatched and pinched and tore and tossed presumption, with a violence sudden and frightful which manifested some appalling sensibility hidden unsuspected within, the said boobies were gravely shocked or displeased and (when clerical) much pained or even deeply grieved. Pained, indeed! What of the torments of Crabbe, which no one ever considered because no one ever saw them?¹⁴⁶

Gellir synhwyro mai'r un teimladau cudd a fyddai'n cwhwfan dan wynt

Parry-Williams yntau weithiau o ganlyniad iddo orfod wynebu adwaith

cyfeiliornus pobl i'w farn deg, fel y dangosodd yn ei ysgrif, 'Y Llyfr-
Lòg'¹⁴⁷. Ei ateb syml i hyn oedd ymwrthod ac ymatal rhag mynegi ei wir
farn am lawer peth a pherson ac ymgysuro mewn celu cyfrwys a
charedig. Taw biau hi, meddai, gan ddyfynnu'r hen ddihareb 'Pe
traethai tafod a wypai ceudod, ni byddai gymydog neb rhai.'¹⁴⁸ Y mae
sôn na fyddai fyth yn unochrog wrth drafod agweddau academyddion
mewn darlithoedd ychwaith; anymyrraeth lwyr fyddai ei ran bryd hynny
hefyd. Dyn croendenau iawn ydoedd. Y mae'n debyg fod agwedd
ryfeddach fyth ar ei bersonoliaeth wedi ei meithrin mor fuan â 1909.
Pwnc Cymdeithas Ddadlau Coleg Prifysgol Aberystwyth ym mis Mawrth
oedd y gred fod dihidrwydd yn wendid yr oes. Dyma gofnod o'i
gyfraniad:

...T. H. Parry Williams thought that indifference was not the
defect of the age but was not even a defect. Some
references made to indifference shewn by students in Coll.
were not very lucid.¹⁴⁹

Ond stori arall oedd yr un lle yr oedd yr iaith Gymraeg yn y cwestiwn.
Cafwyd dadl fyrfyfyr ynglŷn â'r syniad o gyfnewid y Gymraeg am y Lladin
fel pwnc gorfodol. Y mae'n werth dyfynnu'r cofnod:

...E. Cruickshank startled the house by uttering some bold
and daring remarks about the worthlessness of the Welsh

literature. These remarks brought down upon him the retorts of Wm. Davies and T. H. Parry-Williams who, by means of piled-up arguments and examples, succeeded in convincing those of us who had been listening that there was no language under the sun to be mentioned in the same breath as the Welsh...The negative was carried.¹⁵⁰

Dyna brofi yr hyn a ddywed Parry-Williams yn ei ysgrif, 'Y Llyfr Løg', bod dicter o sylweddoli anghyfiawnder yn cynhyrfu gormod arno, gorff ac ysbryd, nes peri i farn deg ymddangos yn rhagfarn i eraill.¹⁵¹ Nid rhyfedd, felly, iddo weld a theimlo'r Barwn Corvo ym mhobman ac iddo synfeddwl fod llygaid y dyn rhyfedd hwn arno yntau. Onid oedd Parry-Williams, yn ei gyfyng-gyngor wrth hel ysbrydion, am wneud cyfaill ohono drwy ei adnabod yn well a chydymdeimlo ag ef tra ar yr un pryd yn synhwyro natur ddiymddiried y trempyn o athrylith? Efallai mai'r hen syniad o geisio ei adnabod ei hun yn well sydd gan Parry-Williams yn y fan hon unwaith yn rhagor. Ai ei hunan arall yw Corvo?

Oherwydd yr holl ymguddio yng nghynnyrch llenyddol y bardd-lenor o Ryd-ddu, ynghyd â'i anymyrraeth ynglŷn â lleisio barn, sylweddolir na ellir yn rhwydd dreiddio i gysegr sancteiddiolaf ei fron. Yn yr ail bennod, ymhelaethir ar ei fanifesto personol ar lenyddia er mwyn canfod ymhellach sut y cyfiawnha y lled-guddio yn ei waith.

NODIADAU

PENNOD 1

'TREIDDIO I'R ADNABYDDIAETH'?

- 1 Meredydd Evans, *Dirgel Fyd*, (Pwyllgor Eisteddfod Bro Madog, 1987), 23.
- 2 Dyfnallt Morgan, 'T. H. Parry-Williams as a Poet', *Poetry Wales* (special edition), vi/1, 1975, 13.
- 3 R. Gerallt Jones, 'The Poetry of Thomas Parry-Williams', *Poetry Wales* (special edition), vi/1, 1975), 41.
- 4 D. Islwyn Edwards, 'Dieithriaid Ydym Oll – Eto Myfi', *Taliesin* 66, 1989, gol. R. Gerallt Jones a Bedwyr Lewis Jones, 66.
- 5 J. Gwyn Jones, 'Athroniaeth Cerddi'r Athro T. H. Parry-Williams, *Yr Efrdydd*, Cyf. viii, Rhif 2, Tachwedd 1931, 29-32.
- 6 LIGC, THPW, N 16, Y Brawd Llwyd, 'O Glawr i Glawr', *News Chronicle*, 28 November 1931, (toriad papur newydd).
- 7 Hywel Teifi Edwards, 'Y Gŵr Doeth', *Barn*, 63, Ionawr 1968, gol. Alwyn D. Rees, 75.
- 8 LIGC, THPW, FF 12.
- 9 Llythyr T. H. Parry-Williams at J. W. Jones; Llion Jones, *Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1993, 506.
- 10 John Morris-Jones, 'Swydd y Bardd', *Y Traethodydd*, 1912, LV11, 469.
- 11 LIGC, THPW, N 18.
- 12 *Olion* (Gwasg Aberystwyth, 1935; ail arg. 1959), 23-8.
- 13 T. S. Eliot, 'The Metaphysical Poets' yn *Selected Essays*; dyfynnir yn *Eight Metaphysical Poets*, gol. Jack Daglish, (Heinemann Educational Books Ltd., 1961, 15fed arg. 1983), 3.
- 14 LIGC, THPW, B 55.

- 15 John Donne, *Eight Metaphysical Poets*, 1–2.
- 16 *Olion*, 68.
- 17 *Ibid.* 30.
- 18 ‘Bwrn’, *Ibid.* 12.
- 19 ‘Aros’, *Ysgrifau* (Foyle’s Welsh Depôt, Llundain, 1928; arg. 1af, 1928), 49.
- 20 ‘The Hare’, *Sonnets (1919–20)*, (Cambrian News, [Aberystwyth], Ltd., 1932; argraffiad preifat), 9.
- 21 LIGC, G 7/4, ‘Hunangofiant Syr T. H. Parry Wms’, Papurau y Dr. Llewelyn Wyn Griffith (sgrïpt radio).
- 22 *Ysgrifau*, 49–51.
- 23 *Cerddi* (Gwasg Aberystwyth, 1931; 3ydd arg. 1954), 46.
- 24 Blaise Pascal, gol. Robert W. Gleason, *The Essential Pascal*, (The New American Library, New York and Toronto, 1966; first ed. 1966), 55, 58, 60–1.
- 25 *Lloffion* (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1942; ail arg. 1947) 59–62.
- 26 LIGC, THPW, B 59.
- 27 *Y Brython*, 15 Mai 1913; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 484–6.
- 28 *Myfyrdodau* (Gwasg Aberystwyth, 1957; arg. 1af, 1957), 44.
- 29 *Yr Ymwelydd Misol*, X, 11 Tachwedd 1912, 170.
- 30 R. Gerallt Jones, *T. H Parry–Williams*, cyfres ‘Dawn Dweud’ (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd 1999; arg. 1af 1999), 59.
- 31 *Cerddi*, 15.
- 32 *The Dragon*, XXXV, 1, Tachwedd 1912, 323.
- 33 LIGC, G 7/4.
- 34 *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Bangor* (1915), 19.
- 35 *Myfyrdodau*, 115.
- 36 LIGC, THPW, D 68 (iii).
- 37 LIGC, THPW, D 68 (v).
- 38 Margaret Roberts, ‘Capel Nant–y–Benglog’, *Oes o Fyw ar y Mynydd* (Gwasg Gwynedd, Caernarfon, 1979; ail arg. 1981), 27.
- 39 Llythyrau T. H. Parry–Williams at W. J. Gruffydd; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 502.

- 40 Walter Pater, ysgrif 'Leonardo da Vinci', *The Renaissance*, J. M. ac M. J. Cohen, *The Penguin Dictionary of Quotations* (Penguin Books Ltd., Middlesex, 1960; 8th ed. 1971), 278.
- 41 *Elfennau Barddoniaeth* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1935; ail arg. 1936), 3–4.
- 42 *Ymhél â Phrydyddu* (The British Broadcasting Corporation, London, 1958), 10.
- 43 'Antur Llen' (sic), *Y Traethodydd*, Medi 1915, 298–301; D. Islwyn Edwards, *Agweddau ar foderniaeth yng ngweithiau llenyddol T. H. Parry-Williams, gan fwrw golwg ar ei gefndir personol a llenyddol, ac ar foderniaeth fel mudiad*, traethawd M.A., Llanbedr-Pont-Steffan, 1982, 112–5.
- 44 Bobi Jones, *Beth yw Pwrpas Llenyddda?*, Darlith Flynyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Myrddin 1974, (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, Llandysul, 1974).
- 45 *Y Wawr*, Cyfrol 1, Rhif 1 Gaeaf 1913, 15; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 56.
- 46 Gwilly Davies a David Jones, *Criafol: Cyfrol o Ganeuon*, (Hughes a'i Fab, Wrecsam, 1928), 5; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 234.
- 47 *Ymhél â Phrydyddu*, 10–11.
- 48 Colofn Oxoniensis, *Y Brython*, 11 Mai 1911, 5.
- 49 *Y Wawr*, Cyfrol 1, Rhif 1, Gaeaf 1913, 16–17; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 57–8.
- 50 'Antur Llen' (sic), *Y Traethodydd*, Medi 1915, 301; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 115.
- 51 Aristoteles, 'Ars Poetica', yn *Aristotle Horace Longinus: Classical Literary Criticism*, cyfieithiad T. S. Dorsch, 1965, (Penguin Books Ltd., Middlesex), 5th ed. 1972, ed. Betty Radice and Robert Baldick, 35.
- 52 *Casgliad o Ysgrifau* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984, arg. 1af, 1984), 415.
- 53 *Lloffion*, 10.
- 54 Aristoteles, 'Ars Poetica', yn *Aristotle Horas Longinus: Classical Literary Criticism*, cyfieithiad T. S. Dorsch, 1965, (Penguin Books

- Ltd., Middlesex), 5th ed. 1972, ed. Betty Radice and Robert Baldick, 41.
- 55 *Elfennau Barddoniaeth*, 2.
- 56 *Synfyfyrion* (Gwasg Aberystwyth, 1937, arg. 1af, 1937), 15.
- 57 *Olion*, 71.
- 58 LIGC, THPW, A174; 'Moesgarwch' (Sylwedd anerchiad ar gyfer Cyfarfod Misol Arfon yng Nglasgoed, Ebrill 1910), 5.
- 59 LIGC, THPW, FF 12, 15.
- 60 James Logan, *Wordsworthian Criticism* (Ohio State University Press, Columbus, 1961, Second Impression), 65.
- 61 William Wordsworth, 'The Prelude' (Book 1), *The Works of William Wordsworth* (Wordsworth Editions Ltd., Ware, Hertfordshire, 1994), 638.
- 62 William Wordsworth, 'Tintern Abbey', *The Works of William Wordsworth* (Wordsworth Editions Ltd., Ware, Hertfordshire, 1994), 207.
- 63 Islwyn, 'Y Dylanwad', *Gwaith Barddonol Islwyn*, (Argraffwyd dros Owen M. Edwards gan Hughes a'i Fab, Gwrecsam, 1897), 810.
- 64 *The Dragon*, XXX, 5 May 1908, 228–30; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 11–12.
- 65 Theodore Watts–Dunton, *Aylwin*, (Oxford University Press, London, 1898, first impression in 'World's Classics', 1904, second impression, 1906), 382.
- 66 *Y Wawr*, Cyfrol II, Rhif 3, Haf 1915, 82; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 108.
- 67 Theodore Watts–Dunton, *Aylwin*, 382.
- 68 *The Dragon*, XXX, 5 May 1908, 228–30; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 8.
- 69 George Sampson (ed.), *Coleridge: Biographia Literaria, Chapters 1–1V*, XIV–XX11; *Wordsworth: Prefaces and Essays on Poetry, 1800–1815* (Cambridge University Press, London, 1920), 75–6.
- 70 William Wordsworth, 'The Prelude' (Book 14), *The Works of William Wordsworth* (Wordsworth Editions Ltd., Ware, Hertfordshire, 1994), 746.

- 71 William Wordsworth, 'The Prelude' (Book 14), *The Works of William Wordsworth*, 747.
- 72 'Snowdonia', *The Dragon*, XXX, 5 May 1908, 228–30; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 10.
- 73 *Lloffion*, 32–3, 35.
- 74 *Gwaith Barddonol Islwyn*, (argraffwyd dros Owen M. Edwards gan Hughes a'i Fab, Gwreccsam, 1897), 6.
- 75 *Myfyrdodau*, 71–2.
- 76 *Cerddi*, 17.
- 77 'Dylanwadau', (BBC Cymru 1960), LLGC, Casgliad Aneirin Talfan Davies; Llion Jones, *Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1993, 522–3.
- 78 *Synfyfyrion*, 57–62.
- 79 *Olion*, 43–47.
- 80 *Synfyfyrion*, 47–49.
- 81 W. B. Yeats, 'The Second Coming', 'Michael Robartes and the Dancer', *The Works of W. B. Yeats* (Wordsworth Editions Ltd., Ware, Hertfordshire, 1994), 158–59.
- 82 William S. Bunnell, *Ten Twentieth Century Poets*, (gen. ed. Norman T. Carrington), (James Brodie Ltd., Bath), dim dyddiad cyhoeddi, 67.
- 83 'The Poetry of W. B. Yeats', *The Dragon*, Vol. XXXVI 11, February 1916, 147; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 122.
- 84 William James, *The Varieties of Religious Experience* (Longmans, Green, and Co., 1902; 13th impression 1907), 400.
- 85 *Pensynnu* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1966, arg. 1af, 1966), 69–74.
- 86 LIGC, G 7/4.
- 87 *Olion*, 27.
- 88 Frieda Fordham, *An Introduction to Jung's Psychology* (Penguin Books, Baltimore, Maryland. First published in 1953, Reprinted 1954, Reprinted with revisions 1957; new edition 1959, Reprinted 1961, 1963, 1964), 23–24.
- 89 'Ar Chwâl', *Olion*, 27.
- 90 *The Oxford Companion to Philosophy*, ed. Ted Honderich (Oxford University Press, Oxford, 1995; arg. 1af, 1995), 257.

- 91 *The Works of William Wordsworth* (Wordsworth Editions Ltd., Ware, Hertfordshire, 1994; arg. 1af, 1994), 588.
- 92 *Gwaith Islwyn*, 'Cyfres y Fil', (Ab Owen, Llanuwchllyn, 1903. Argraffwyd i ab Owen gan R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy, 1903), 104.
- 93 *Synfyfyrion*, 84.
- 94 *Lloffion*, 27–29.
- 95 Gwilym Davies a David Jones, *Criafol: Cyfrol o Ganeuon* (Hughes a'i Fab, Wrecsam, 1928, 12–13; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 250–251).
- 96 Gweler Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn*, (Foyle's Welsh Depôt, Llundain, 1927).
- 97 Aristoteles, 'Ars Poetica', yn *Aristotle Horace Longinus: Classical Literary Criticism*, translated by T. S. Dorsch, 1965 (Penguin Books Ltd., Middlesex), 5th ed. 1972, ed. Betty Radice and Robert Baldick, 19.
- 98 LIGC, G 7/4.
- 99 'Dieithrwch', *Ysgrifau*, 65.
- 100 'Dau Le', *Synfyfyrion*, 23.
- 101 *Synfyfyrion*, 13.
- 102 *Y Winllan*, Mai 1924, 115–6; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 490.
- 103 Huw Llewelyn Williams, *Safonau Beirniadu Barddoniaeth yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cwmni Cymraeg Foyle, Cyf., Llundain, dim dyddiad cyhoeddi), 51–2.
- 104 *Y Traethodydd*, Medi 1915, 298–301; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 112–5.
- 105 *Coleridge Biographia Literaria Chapters 1–IV, XIV–XXII Wordsworth Prefaces and Essays on Poetry 1800–1815*, ed. George Sampson (Cambridge University Press, 1920), 52–3.
- 106 *Olion*, 55.
- 107 Dafydd Glyn Jones, 'Agweddau ar Waith T. H. Parry–Williams a Samuel Beckett', *Ysgrifau Beirniadol* II, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1966), 277.
- 108 LIGC, G 7/4.
- 109 *Sonnets*, (argraffiad preifat, 1932).

- 110 Llythyr T. H. Parry–Williams at Gwilym Rees Hughes; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 510.
- 111 ‘Return’, *Sonnets*, 19.
- 112 ‘Mother’, *ibid.* 43.
- 113 ‘Father’, *ibid.* 45.
- 114 ‘The Hare’, *ibid.* 9.
- 115 ‘The Wires’, *ibid.* 11.
- 116 ‘Change’, *ibid.* 13.
- 117 ‘Solace’, *ibid.* 15.
- 118 ‘Red’, *ibid.* 23.
- 119 ‘Bedrock’, *ibid.* 27.
- 120 ‘Estrangement’, *ibid.* 29.
- 121 ‘The Road End’, *ibid.* 31.
- 122 *Ysgrifau*, 64–7.
- 123 *Ibid.* 66–7.
- 124 Roy Pascal, “‘Kafka’s Parables’: Ways Out of the Dead End.’, *The World of Franz Kafka*, ed. J. P. Stern (Weidenfeld and Nicolson, London, 1980), 113–4.
- 125 Franz Kafka, *The Trial* (Penguin Books, 1953).
- 126 David Zane Mairowitz and Robert Crumb, *Kafka for Beginners* (Icon Books, Cambridge, 1993), 39–56.
- 127 *Ibid.* 57–74.
- 128 *Ysgrifau*, 17–18.
- 129 *O’r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casglilad o Ysgrifau* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984; arg. 1af, 1984), 219–21.
- 130 *Synfyfyrion*, 87.
- 131 Jean–Paul Sartre, *Intimacy* (Hamilton & Co., Stafford, 1961).
- 132 ‘Ofn’, *Cerddi*, 42.
- 133 ‘Tylluan’, *ibid.* 45.
- 134 *Ibid.* 44.
- 135 LIGC, oddi mewn i gyfrol bersonol T. H. Parry–Williams yn ei gasgliad llyfrau yn y Llyfrgell Genedlaethol.
- 136 Dyfnallt Morgan, *Rhyw Hanner Ieuencid* (Gwasg John Penry, Abertawe, 1971),

- 137 Ceir y darn a hepgorwyd o dudalen 78 yn y llyfr yn nhraethawd gwreiddiol Dyfnallt Morgan ar dudalen 67. Dyfnallt Morgan, *Casgliad o gerddi ac ysgrifau T. H. Parry-Williams rhwng 1907 a 1928, ac astudiaeth o deithi meddwl yr awdur yn y cyfnod hwnnw*, traethawd M.A., Bangor, 1969.
- 138 Ceir y darn a hepgorwyd o dudalen 132 yn y llyfr yn nhraethawd gwreiddiol Dyfnallt Morgan.
- 139 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 519-20.
- 140 LIGC, THPW, A 174.
- 141 LIGC, THPW, A 173 (ii).
- 142 LIGC, THPW, A 180.
- 143 Dafydd Glyn Jones, 'Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams a Samuel Beckett', *Ysgrifau Beirniadol* II, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1966), 277-8.
- 144 *Myfyrdodau*, 64.
- 145 A J. A. Symons, *The Quest for Corvo* (1934), (4th edition published in Penguin Books, Middlesex, 1940).
- 146 *Ibid.* 197.
- 147 *Lloffion*, 10.
- 148 *Ibid.* 10.
- 149 'College Societies' 'Literary and Debating Society', Debate: March 12th. 'That Indifference is the Defect of the Age', *The Dragon*, May 1909, Vol. XXX1, No. 5 ('Welsh Gazette' Printers, Bridge Street. 1909, 238.
- 150 *Ibid.* 'Impromptu Debates'. 1. 'That Welsh should be substituted for Latin as a compulsory subject in the Wales degree.' 239.
- 151 *Lloffion*, 10.

PENNOD 2

MALU A CHWALU

Treiddir i anwadalwch meddwl T. H. Parry-Williams yn y bennod hon, gan ddilyn ei faniffesto personol ar lenydd a er mwyn darganfod a yw'n bosibl, o gwbl, ddod i adnabod y dyn ei hun yn hytrach na'r bardd a'r llenor.

Yr hyn sydd mor syfrdanol wrth ddarllen gwaith Parry-Williams, ac eithrio ei ddarnau cynnar, yw darganfod ei fod, gan amlaf, yn defnyddio geiriau mor syml. Ond oherwydd eu bod yn orlwythog ag ystyr cudd arbennig y bardd a'r llenor ei hun, codir cwestiynau ym meddwl y darllenydd. Dyma eto gadarnhad o'r farn gyffredinol ynglŷn ag anhawster dehongli gwaith y bardd, gan ryw awdur a ysgrifennodd yn 'Y Ford Gron' ym mis Medi, 1931, o dan y pennawd 'Cerddi Dyn heb Sicrwydd : Iaith Seml ond Barddoniaeth Anodd' wrth drafod y gyfrol,

Cerddi.

Y mae iaith pob un o'r cerddi yn syml, ond na thybied neb fod hynny'n gwneuthur y farddoniaeth yn hawdd – i'r gwrthwyneb yn hytrach – po symlaf yr iaith anoddaf y farddoniaeth, ac yn aml nid ar funud awr y datguddir i'r darllenydd beth a orwedd ynghudd yn y geiriau. Hynny a

ddyry fin ar lawer o'r cerddi; nid trwy drais y mae
meddiannu eu trysor ond drwy berswâd ac ail-gynnig.¹

Enghraifft dda, ar antur, o'r dryswch hwn yw'r defnydd a wna'r bardd
o'r gair 'crefydd' yn ei gerdd, 'I'm Hynafiaid',² lle y mae'n datgan iddo
dderbyn crefydd y mynyddoedd oddi wrthynt. Yn y sgwrs radio,
'Dylanwadau', y cyfeiriwyd ati eisoes yn y bennod gyntaf, gofynnodd
Aneirin Talfan Davies i'r awdur pa beth oedd gwir ystyr y gair 'crefydd'
yn y cyd-destun hwn ac ymateb Parry-Williams oedd na ddylid aros
gormod uwchben y gair ei hun ond yn hytrach fynd heibio iddo yn
ddisymwth gan mai dyna'r ffordd iawn o ddehongli'r gair yn gywir;
hynny yw, wrth ei ddadansoddi a'i falu'n ddarnau, collir yr hyn y mae'r
gair yn ceisio ei gyfleu.³ Ond oni sylweddolai Parry-Williams mai methu
cael gafael ar ystyr y gair allweddol a'i osod yn ei gyd-destun honedig,
heb sôn am ei golli, oherwydd ei ddirgel ffyrdd o fynegi ei syniadau, yw
problem ei ddarllenwyr yn y lle cyntaf? Ai awgrym i ddarllen rhwng y
llinellau yw hyn? Os hynny, wrth beidio â malu gair yn ddarnau, y
drafferth fwyaf a gaiff y darlennydd yw ceisio dehongli ystyr y geiriau
syml eraill cyfochrog, sydd yn llawn mor amwys, er mwyn cael gafael ar
wir ystyr y gair allweddol! Yn y fan hon, dygir ar gof linellau olaf dwy o'i

sonedau enwog, sef 'I dwllwch diedifar y tu hwnt'⁴ ac 'Ond llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl'⁵ y dehonglwyd eu hystyr yn bur wahanol gan rai beirniaid. Fodd bynnag, aeth Parry-Williams ymlaen i esbonio mai'r hyn a olygai wrth ddefnyddio'r gair 'crefydd' yn ei gerdd, 'I'm Hynafiaid', oedd bod serch at ddaear fynyddig ei gynefin wedi ei blannu yn ei enaid am ei fod yn etifeddiaeth yn ei waed. Efallai, o ran hynny, mai dyna'r ystyr y dylid ei roi i'r un gair yn yr ymadrodd 'crefydd leol, frodorol, hen-bethau yw fy nghrefydd i' yn ei ysgrif, 'Moddion Gras'.⁶ Yn y sgwrs radio, y mae ei ddaliad yn crybwyll yn gryf mai synhwyro, yn hytrach na deall, barddoniaeth y dylid ei wneud, a dyma ei union sylw yn *Elfennau Barddoniaeth* lle y gwelir bod y syniad o beidio â malu gair yn ddarnau yn cyd-fynd â'r awgrym enwog a geir ganddo wrth drafod beirniadaeth lenyddol: 'Pan lunier creadigaeth lenyddol wir fawr ac athrylithgar, nid beirniadaeth a weddai iddi, ond distawrwydd.'⁷ Y mae'r sylw hwn yn debyg i un Wordsworth yn 'The Tables Turned', lle y cofleidia ofeddef yn hytrach na'r deall busneslyd wrth i'r galon wyllo a derbyn yr hyn y mae Natur yn ei gynnig iddo:

Sweet is the lore which nature brings;
Our meddling intellect
Mishapes the beautiful forms of things;

– We murder to dissect.

Enough of science and of Art;
Close up these barren leaves;
Come forth, and bring with you a heart
That watches and receives.⁸

Fel enghraifft o greadigaeth lenyddol wir fawr, y mae'n arwyddocaol i Parry-Williams ddewis darn o gerdd Hedd Wyn sydd yn athronyddu am 'hanes tu hwnt i synnwyr', oherwydd, flynyddoedd yn ddiweddarach yn ei ysgrif, 'Pendraphendod',⁹ fe gysyllta Parry-Williams drosgynoldeb y cymal hwn ag un pennill o'i gerdd fetaffisegol ef ei hun, sef 'Dwy Gerdd',¹⁰ sydd yn dechrau â'r llinell 'Mae'n chwerthin eto'n aros ar y ffordd'. Ond, yn union ar ôl ei ddyfynnu yn yr ysgrif, gofynna yn syfrdanol beth a ddaeth drosto i ddweud y fath beth.

Dyma un o'r mynych enghreifftiau yn ei waith sydd yn portreadu anwadalwch ei feddwl. Yn ei ysgrif, 'Caer a Charreg', gwelir iddo ei geryddu ei hun am ddilorni'r Rhufeiniaid mewn cerdd gynharach o'r un enw.¹¹ 'Rhyw ddweud od oedd hynny rywsut', meddai yn ei ysgrif, 'Priddgist',¹² wrth gyfeirio at ei linell 'Mae amryw byd ohonom yn fy nghlai' yn ei rigwm, 'Dryswch'.¹³ Yn ei ysgrif, 'Bro',¹⁴ fe'i ceir unwaith yn rhagor yn cyfaddef iddo ryfygu dychmygu yn ei rigwm o'r un enw y

byddai cryn gyffro yn ei ardal frodorol wedi iddo farw. Ac yn ei ysgrif, 'Gweld y Gwynt',¹⁵ y mae'n datgan yn ddigamsyniol i'w nain weld ysbryd a thylwyth teg a chlywed canu yn yr awyr. Ymhelaetha ar oblygiadau'r gynneddf hon yn ei ysgrif, 'Drws-y-Coed',¹⁶ gan gysylltu clywed canu yn yr awyr â'r byd ysbrydol. Fodd bynnag, ei farn swta yn ei ysgrif, 'Lleisiau (Stribed o Nodiadau)'¹⁷ sydd yn cynnwys darn o drafodaeth ar Bath-Côl, y llef o'r Tu Hwnt, yw mai rhamantu yr oedd yr hen wraig, efallai, wrth iddi honni ei bod wedi clywed canu gwirioneddol yn yr awyr. Y mae'n fwy na thebyg fod cysylltiad rhwng y canu hwnnw a Diwygiad 1904-05, er na cheir cofnod i'r perwyl hwn yng ngweithiau Parry-Williams. Dyma sylw Gomer M. Roberts:

Ceid llawer o brofiadau cyfriniol gan eraill yn ystod y Diwygiad. Honnai rhai iddynt glywed 'canu yn yr awyr' – un o brofiadau'r saint yn ystod Diwygiad Beddgelert. Edrydd John Evans, Abermeurig, am was i un o flaenoriaid yr ardal yn dychwelyd adref ar ôl bod ar ymweliad â'i fam. 'Tynnwyd ei sylw gan ryw ganu hyfryd. Arhosodd i wrando, ac er mwyn cael gweled beth ydoedd, ac ymha gyfeiriad yr oedd. Daeth i ddeall yn fuan mai uwch ei ben yr oedd y sŵn, a'i fod yn cael ei achosi gan filoedd o leisiau peraidd a llawn o felodedd tra hyfryd.'¹⁸

Diddorol yw sylwi ar ymddangosiad rhigwm cyd-destunol Parry-Williams, sef '1904', ychydig dudalennau o flaen y dyfyniad uchod yn y

gyfrol. Yn ei lyfr, *Credoau y Byd*, cyferbynna y Parchedig James Gardner

y Bath-Kol â'r lleisiau hyn gan ofyn:

Dywed Maimonides am y *Bath-Kol*, 'nad yw ond dychymmyg cryf, yn gwneud i ddyn glywed llais lle na byddo.' Onid rhyw beth tebyg i'r *Bath-Kol*, ydyw y '*canu awyrol*', neu '*ganu yn yr awyr*,' y credir ynddo, gan boblach yng Nghymru, yn amser y 'Diwygiadau?'¹⁹

Yn ddiau, adlais yw cwestiwn Parry-Williams, yn ei ysgrif

'Pendraphendod', o eiriau cyflwynol 'Dwy Gerdd' sydd yn esbonio ei bod

yn 'tywyll sôn am beth a ddaeth i'm dirnad unwaith, ac a aeth. Ni wn

beth ydoedd.– A pha waeth?' Ond chwedl Meredydd Evans, wrth gyfeirio

at y gerdd hon mewn llythyr at Parry-Williams, 'mae "waeth" gen i'.²⁰

Ymhellach, gellid malu'r gair 'dirnad' yn y fan hon a gofyn ai rhywbeth

yr oedd y bardd yn ei ddeall a'i ddehongli mewn profiad munud awr

ydoedd. Er mai geiriau digon syml sydd yma, synhwyrir unwaith yn

rhagor fod mwy i'r gerdd nag a geir ar yr wyneb, nid yn unig oherwydd

amwysedd y geiriau y tro hwn, ond oherwydd strwythur syniadol y

gerdd. Amlygir y cymhlethdod hwn yn groyw trwy ddefnydd y bardd o'r

cymal 'tywyll sôn'. Tybed a oes yma dinc chwareus o'r ddadl fawr a fu

rhwng Wordsworth a Coleridge ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng ystyr

ffansi a'r dychymmyg? Y mae'r ddadl yn un dra chymhleth ac y mae'n

treiddio fel niwl tew drwy *Biographia Literaria*.²¹ Ar ôl hir fyfyrion ar waith ei gymar, darganfu Coleridge fod gwahaniaeth rhwng ffansi a'r dychymyg tra credai Wordsworth fod agweddau cyffredin yn perthyn iddynt. Yn fras iawn, wele'r gwahaniaeth, yn ôl Coleridge: mae'r dychymyg, o dan reolaeth yr ewyllys a'r deall, yn datguddio ei hun yng nghydbwysedd neu gysoniad ansoddau gwrthgyferbyniol: tebygrwydd gyda gwahaniaeth; y cyffredinol gyda'r neilltuol; yr unigolyn gyda'r cynrychiolydd; synnwyr newydd-deb a ffresni gyda phethau hen a chyfarwydd; cyflwr mwy nag arfer o emosiwn gyda mwy nag arfer o drefn; barn fythol effro a hunan-bwyll cyson gyda brwdfrydedd a theimlad dwfn neu angerddol; a thra bod Coleridge yn cyfuno a chydgordio'r naturiol a'r ffug, y mae'n dal i osod celf yn ail i natur, y modd i'r mater; a'n hedmygedd ni o'r bardd i'n cydymdeimlad ni â barddoniaeth. Gwisg athrylith farddol yw ffansi ac enaid yw dychymyg.

Honna fod defnydd Wordsworth o ffansi yn rhy aneglur:

The *likeness* is occasionally too strange, or demands too peculiar a point of view, or is such as appears the creature of predetermined research, rather than spontaneous presentation. Indeed his fancy seldom displays itself, as mere and unmodified fancy.²²

Diffinia Coleridge gynneddf y dychymyg fel grym sydd yn ffurfio neu'n addasu, a'r gynneddf, ffansi, fel grym cyfansymiol a chysylltiol ond haera Wordsworth fod y cwbl o'r rhain yn perthyn i'r dychymyg.

Gadewir i Wordsworth ei hun ddiffinio 'ffansi':

Fancy depends upon the rapidity and profusion with which she scatters her thoughts and images; trusting that their number, and the felicity with which they are linked together, will make amends for the want of individual value; or she prides herself upon the curious subtilty and the successful elaboration with which she can detect their lurking affinities. If she can win you over to her purpose, and impart to you her feelings, she cares not how unstable or transitory may be her influence, knowing that it will not be out of her power to resume it upon an apt occasion.²³

Dyna'n union yw awyrgylch 'Dwy Gerdd' Parry-Williams, sydd yn sôn am bethau a ddaeth ac a aeth. Y mae nifer o benillion digyswllt, gyda brawddegau byrion a symudiad disymwth rhwng syniadau a delweddu, ond eto, y mae'r bardd yn cysylltu'r rhain drwy negyddu mewn modd deallus. Yr hyn sydd yn gwneud i rywun feddwl mai arbrawf yw'r gerdd hon yw'r ffaith iddo osod yr is-deitl, 'Ffansi'r funud', i'r rhigwm, 'Yr Esgyrn Hyn',²⁴ sydd yn ymddangos ar y tudalen nesaf o'r gyfrol, *Cerddi*. Rhaid cofio, hefyd, i Wordsworth wahaniaethu rhwng *Poems of the Fancy* a *Poems of the Imagination* yn ei waith. Y mae'n bur debyg y

byddai'r ffaith fod y darllenydd yn teimlo ias o ddirgelwch yn cwhwfan trwy'r gerdd wrth fodd calon Parry-Williams, gan gofio iddo gredu mai hud-ddenu oedd un o brif amcanion beirdd a llenorion. Yn ôl y sôn, ni fyddai'n trafod ei waith â neb, ond petai rhywun yn digwydd gofyn iddo am eglurhad ar ryw ddirgelwch neu'i gilydd yn ei waith, ei ymateb mwyaf cyson fyddai cellwair iddo ddweud peth digon rhyfedd yn y gwaith o dan sylw a'i gadael hi yn y fan honno!

Ond yn 1928, mewn llythyr at gymdeithas 'Y Ford Gron' ym Manceinion, soniodd Parry-Williams am ei waith ei hun, a hynny yn ei dyb ef, am y tro cyntaf. Yn y llythyr, cyfeddyf ei bod yn anodd trafod ei awdl gromatig, 'Eryri',²⁵ a enillodd iddo gadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Mangor yn 1915, gan iddo bron ag anghofio'n llwyr amdani! Er hynny, ychwanega rai nodweddion disgwylidig, bellach, parthed y weithred o gyfansoddi:

... ond mi wn hyn, – fod y cyfan sydd ynddi yn rhywbeth byw iawn a gwirioneddol i mi y pryd hwnnw. Anodd atgyfodi'r gorffennol ac ail ddal y first careless rapture, ond gallaf ddywedyd imi, pan gydiais yn y gorchwyl (ysgrifennu'r awdl) ymgolli yn y syniad (neu'r ymdeimlad, neu'r meddwdod – y mae'n anodd gennyf ddywedyd 'ecstasi' –) o liw ynglŷn â'r testun nes i mi fentro gwisgo'r testun ac Eryri mewn lliwiau, – a bu bron imi golli'r wobr oherwydd hynny ... Ni allaf ddwyn ar gof paham yr oedd

Iliw a lliwiau mor fyw i mi ynglŷn â hyn, ... Gan nad wyf wedi meddwl na chofio dim am yr awdl ers blynyddoedd, y mae'n anodd i mi, fel y dywedais o'r blaen, fynd yn ôl ac i mewn i'r mŵd neu'r meddwdod cynnar hwn, ... Eto, ni allaf yn fy myw beidio â theimlo rywfodd fod yr urge neu'r symbyliad oedd y tu ôl iddi yn gywir ac yn hollol ddiffuant, ac ni bydd arnaf byth gywilydd o bethau (a fu) felly, serch nad wyf yn awr, efallai, yn gallu dirnad beth ydoedd hynny yn iawn. (Siawns wael i neb arall, onide?)²⁶

Swm a sylwedd yr awdl yw'r hyn a esbonia mewn llinell ohoni: 'Pob loes gai einioes, ar liw y'i ganed.' Yn y llythyr, dangosodd y bardd gryn anfodlonrwydd ynghylch yr awdl, o ran ei chynllun, ei harddull, ac afradlonedd ei hiaith. Fe'i hystyriai yn anystwyth ac afrosgo ac yn ddieithr 'yn y dull aniawn' i rai a oedd am ei darllen. A chan fod arno gywilydd o'i gwisg od a'i lleferydd clogyrnog, nid ystyriodd erioed ei chynnwys mewn unrhyw gasgliad o'i weithiau, er y byddai modd iddo ei gwneud yn weddol barchus a dealladwy, ac yn llawer cywirach ac eglurach. Fe'i siomwyd yn ddirfawr gan y beirniaid a wfftiodd agwedd liw ar y testun, gan na wyddent hwy am y lle, meddai, nac am ysbryd neu enaid y lle, ac yntau, ar y pryd, yn teimlo nad oedd dim arall yn cyfrif ynglŷn â'r fan.

Rhyfedd iawn oedd iddo ddweud na chofiai ddim am yr awdl na'r cymhelliad y tu ôl i'r lliwiau, sef llwyd, coch a gwyn. Ni ellir llwyr gredu'r

gosodiadau hyn oherwydd tri rheswm. Y cyntaf yw pwysigrwydd y wobr, er iddo fod bron â'i cholli. Yn ail, dilornwyd dyfeisgarwch Parry-Williams am ddewis Rhyddwyn Llwyd fel ffugenw, a hynny gan John Morris-Jones, un o feirniaid yr awdl yn yr Eisteddfod. Yn drydydd, ddwy flynedd ar ôl ymddangosiad yr awdl, yn rhifyn gwanwyn 1917 o'r *Wawr*, bu'n chwarae ag ystyr lliwiau yn ei ysgrif, 'Y Trydydd', lle y trafoda ei feddyliau yn y trydydd person, gan gyfeirio at gyfaill y cyfarfu ag ef yr haf blaenorol. Fel y gwelir, y mae cryn ddwyyster a theimlad yn ei ymdriniaeth â'r syniadau:

Ond y diwedydd hwn agorodd y tân machlud fynwes cyfaill oedd a nwyd lliw wedi ei feddiannu'n ddidrugaredd, dyn ag yr oedd gwallgofrwydd rhin lliw wedi ei wneuthur yn un o broblemau'r natur ddynol, fel pob gwr o athrylith ... yr hydref ydyw tymor mwyaf ofnadwy y flwyddyn imi. Ganed fi'n yr hydref, ac oni byddaf farw yn yr hydref, ni byddaf farw yn fy ngwely. Ac yn y tymor hwn, onidê, y bydd y lliw rhyfedd hwnnw ar yr Wyddfa ambell hwyrddydd, pan fo pobman heb llewyrch (sic) yr haul ond hyhi? Ni wyr neb ond a'i gwelodd ddim am dano. Y lliw anghyffwrdd hwnnw, yn un peth, a gododd don yn fy ngwaed na ostegir mohonni ond gan yr hydref olaf o 'mywyd. Hydref a fydd hi bellach ar fy mywyd i, oherwydd gwn na ddaliaf byth i'r gaeaf ... yr oedd dychwelyd i'r mynydd a gweled gwyrddliw tynerach y ddaear yn peri rhyw gyffro diatal o'm mewn. A phan fyddai niwl hyd yr ucheldiroedd yno, byddwn yn myned yn freuddwydiwr er fy ngwaethaf, oherwydd byddai hwnnw fel rhyw len rhyngof a'r dyfodol ac yn cuddio'r presennol, a rhaid felly oedd troi i'r gorffennol, rhag i'r

ymenydd ddyrysu. Dyna'r gaenen eira wedyn. Cuddiai honno'r gorffennol a'r presennol, ac yng ngwydd yr eira nid oedd dim i'w wneuthur ond ceisio syllu i'r dyfodol i rywle. Ond yr oedd un cysur imi yn y lliw gwyn, – rhoddai wawr wen ar ymylon tywyll y dyddiau oedd i ddyfod. Byddaf yn methu coelio'n awr fod i'r lliwiau hyn unrhyw ddylanwad arnaf y pryd hwnnw, ond rhaid imi gredu, er mor anhygoel ydyw; oherwydd ym mha fôd bynnag y bwyf, bydd rhyw liw arbennig y tu cefn, a mwy na hynny, y lliwiau fel y gwelais hwynt yno yn y fan a'r lle yn nyddiau mebyd fydd y lliwiau, – gwyrdd tyner y ddaear, coch digymar yr Wyddfa, niwl llwyd yr ucheldir, a'r eira ar fynyddoedd Eryri. Yr oedd ton y cyffro, y nwyd, neu'r gwallgofrwydd, beth bynnag a roddir yn enw arno, wedi hen gychwyn cyn imi droi 'nghefn ar yr hen le'n y mynyddoedd ... Y lliw coch a wnaeth imi gyflawni'r anfadwaith y gorfu imi adael yr hen ardal o'r blegid ...²⁷

Ymhellach ymlaen yn yr ysgrif, sonia am ei arhosiad yn Luzern ychydig flynyddoedd ynghynt:

Fy amcan oedd sugno i'm henaid rin lliw claerwyn y mynyddoedd y tu allan i'r llyn a meddwl am ddyddiau gwell a phurach. Cyn diwedd yr wythnos yr oedd wyneb bonheddig rhyw eneth ddwyarbymtheg neu ddeunaw mlwydd oed yn chware rhyngof a gwynder y mynyddoedd o hyd. Un o enethod y dref oedd hi, yn crwydro gydag eraill yn rheolaidd bob hwyrddydd hyd y rhodfa. Ni allwn wahanu lliw gwyn y mynyddoedd a'i hwyneb hithau. Gorchfygodd lliw'r mynydd fi – lliw gwyn y tro hwn – am yr ail waith ... nid anghofiais byth mo'r wyneb hwnnw. Dywedais o'r blaen mai agor y dyfodol yr oedd lliw gwyn i mi, ac ni allaf byth er hynny edrych i'r dyfodol heb weld yr wyneb hwnnw, yn rhyw silhouette gwyn ar gefn du ... Ym Mharis, yn Vienna, ac yn San Francisco, coch a'm llywodraethai – lliw gwin a gwaed a gwanc; ond pan euthum i Alaska, aeth lliw gwyn y gogleddbarth yn drech

na mi ar unwaith, a gyrrodd fi'n ôl i'r hen wlad, lle y troes
yn goch ar unwaith, ysywaeth ...²⁸

Â ymlaen i ddarlunio sut yr adfywiwyd hen gyffroadau yn y capel bach,
gartref yn Rhyd-ddu un nos Sul, wrth i rywun sôn am 'y ddaear yn
datguddio'i gwaed' ac i Rosyn Saron gael ei ganu lle y ceir y geiriau
'gwyn a gwridog'. Erbyn hyn, yr oedd yr hen nwyd yn codi arswyd arno.
Yn ystod rhyw haf pan oedd yng Nghaernarfon, yr oedd wedi gweld
merch a edrychai'n debyg i'r un yn Luzern a phenderfynodd lunio cerdd
hiraethus a gofidus i'r ail: 'Gwn it dywallt rhyw sancteidrwydd/ Yn fy
nghalon, eneth wen'; ...// 'Ond, wrth gofio, cerddodd iasau/ Arswyd
drwy f'aelodau i,-/ Ofn fod rhywun erbyn heddyw'n/ Lleidr dy
forwyndod di.'...// 'Clywais f'anadl heno'n gofyn,-/ Wyt ti'n bur yn
ugain oed?'²⁹ Gwnaed y darllenydd yr hyn a fynno â'r datguddiadau
hyn, ond ymddengys fod cryn dyndra yn llechu ym mynwes Parry-
Williams yn y cyfnod hwn. Soniodd yn ei ysgrif, 'Criafol' (1914),³⁰ yn
ogystal, iddo fod yn gaethwas i liwiau'r ddaear erioed, gan esbonio fod
lliw coch y criafol ym mis Awst a mis Medi wedi ei droi yn blentyn gwaed
a tân (cyfeiriad at y Rhyfel Byd Cyntaf), ac yn ei gerdd, 'Lliw' (1919),³¹
ofnai'r 'llofrudd lliw â'r wyneb coch', gan awgrymu, efallai, ffawd y

bechgyn a gollwyd yn y rhyfel hwnnw: ‘... a gwelwn lafn ei bladur ef/ A dannedd ei beiriannau'n torri cawn/ Y blodau lliwgar o dan haul y nef.’

Yn wahanol i feirdd Symbolaidd Ffrainc yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a ddefnyddiai synesthesia yn eu gwaith, fel y gwnaeth Charles Baudelaire yn ei soned, ‘*Correspondances*’, wrth sôn am aroglau, lliw a sain, gwelir mai cymdeithasiad syniadau, cyfrwng tra chyfarwydd yng ngwaith Parry–Williams, a gysylltir â lliwiau yn ‘Y Trydydd’. Yr oedd damcaniaeth cymdeithasiad syniadau ar ei hanterth yn y ddeunawfed a’r bedwaredd ganrif ar bymtheg a’r gred oedd fod gwahaniaethau mewn syniadau ynghlwm wrth wahaniaethau mewn profiadau synwriadol.

Yr oeddid yn trafod yr ansicrwydd a wynebai Parry–Williams wrth geisio dwyn ar gof bwysigrwydd lliwiau wrth iddo gyfansoddi ‘Eryri’. Siomedig, hefyd, yn hyn o beth yw ei sylwadau yn ei araith, ‘*Dychymyg mewn Barddoniaeth*’,³² lle y mae’n honni na wŷr y bardd ei hun, efallai, sut na phaham y caiff ac y llunia ei ddefnydd. Ond efallai y gellir dyfalu weithiau o ble y deuai’r ‘pethau rhyfedd’ y credai iddo eu hadrodd yn ei waith. Er enghraifft, a ysbrydolwyd rhai o linellau ‘Dwy Gerdd’,³³ yn ddiarwybod iddo, gan waith arall hiraethus? Oherwydd, oni cheir rhyw

frith adlais o ‘Marwnad Lleucu Llwyd’³⁴ gan Llywelyn Goch ap Meirig Hen

ynddynt, o ran testun a mynegiant? Cymharer:

...Nid oes yng Ngwynedd heddiw

Na lloer, na llewyrch, na lliw, ... (‘Marwnad Lleucu Llwyd’)

...Nid oes yn Arfon heddiw i mi, sy ’mhell,

Fynydd na niwl na dim ond ffurfiau’n cadw oed... (‘Dwy Gerdd’)

...[Minnau sydd, ieithydd athrist,

Ar gelwydd tragywydd trist.]

Celwyddog wyf, cul weddi,

Celwyddlais a soniais i... (‘Marwnad Lleucu Llwyd’)

...Dy dwyllo’r ydwyf: twyllwr ydym oll

Heb eithro’r un. Fy ngyffes ger bron Duw

A ddygaf heddiw. Chwerddi di, mi wn.

Nid yw fy ngwir ond gau, a’ m bywyd nid yw fyw... (‘Dwy Gerdd’)

Y mae’n amlwg i’r bardd o Ryd-ddu ystyried mai un o ystrywiau

ysbrydoliaeth a’i cymhellai i gyfansoddi fel y gwnâi oherwydd disgrifir y

gynneddf honno ganddo yn *Elfennau Barddoniaeth* fel peth dirgel, na

ellir sôn amdano ond yn dywyll a damcaniaethol: ‘rhywbeth digymell gan

mwyaf ydyw yn ei burdeb eithaf, rhywbeth anniffiniol, di-ddal’,

meddai.³⁵ Yr oedd eisoes wedi traethu ar y pwnc annirnad hwn yn 1911

yn ei ysgrif, ‘Ysprydoliaeth’ (sic),³⁶ gan ddatgan na allai aml feirniad

talentog werthfawrogi’r fath beth oherwydd ei fod yn faterolwr. Disgrifir

ysbrydoliaeth gan Parry-Williams fel rhywbeth annelwig ac anghyffwrdd,

ond eto fel rhywbeth i'w deimlo. I ategu ei farn, dyfynna'r llinell
adnabyddus: 'There was a veil past which I could not see' (*The Rubáiyát
of Omar Khayyám*³⁷ gan Edward J. Fitzgerald) wrth gyfeirio at faterolwyr
ar y naill law. Ar y llaw arall, i bwysleisio rhan ysbrydoliaeth, dewisa'r
llinellau: 'a sonnet rushing to the brain'; 'This is not writing, it is
inspiration absolute'; 'When I wrote PARACELBUS', meddai Browning,
'only God and Robert Browning knew what it meant, but now only God
knows.'³⁸ Ystyria fod ysbrydoliaeth yn anhepgor i farddoniaeth, yn
gymaint â bod rhythm, fel gwisg i'r ysbrydoliaeth yn reddfól i feirdd
ysbrydoledig fel S. T. Coleridge. Yn wir, dywed Parry-Williams na ddaw
gwir wisg neu ffurf barddoniaeth ond trwy symbyliad yr ysbrydoliaeth ac
nad oes angen i fardd ddewis ei eiriau gan eu bod yno cyn iddo wybod
eu bod. Yn 'Yspsyrdoliaeth', y prif syniad unwaith yn rhagor yw mai i'r
unigolyn yr atelir ei anadl wrth ddarllen barddoniaeth yr ysgrifennir hi.
A phwysleisia mai hynny o nwyd neu o angerdd sydd yng ngwaith y
bardd, dyna'n union faint o farddoniaeth sydd ynddo. Fel y dywed
Coleridge yn *Biographia Literaria*:

It has been before observed that images, however
beautiful, though faithfully copied from nature, and as
accurately represented in words, do not of themselves

characterize the poet. They become original proofs of original genius only as far as they are modified by a predominant passion; or by associated thoughts or images awakened by that passion; or when they have the effect of reducing multitude to unity, or succession to an instant; or lastly, when a human and intellectual life is transferred to them from the poet's own spirit, 'Which shoots its being through earth, sea, and air.'³⁹

Tystia Parry-Williams mai dyfod a mynd, fel y mynno, y mae ysbrydoliaeth; er bod y gân ysbrydoledig yn ddirgelwch trwyadl i'r bardd, 'heb dad, heb fam, heb achau', cred nad oes ar ddyn eisiau deall yr ysbrydoliaeth i'w gynhyrfu ganddi. Fodd bynnag, ymdrecha'n deg i ymhelaethu ar y disgrifiad o ysbrydoliaeth yn *Elfennau Barddoniaeth*:

Gellid ei ystyried yn olwg ar ryw fyd ysbrydol oddi mewn neu oddi allan, fel gweledigaeth y cyfrinydd neu'r gwir athronydd; gellid edrych arno fel agwedd ar weithrediadau'r is-ymwybod; gellid ei gyfrif yn rhywbeth anianyddol pur, hollol annealltwriaethol, effaith rhyw ddirgel nodd a yrrir i rannau arbennig o gyfansoddiad dyn gan un o'r glandiau; gellid yn llai difrifol ac yn fwy gwamal ei alw'n ysfa nerfol i fynegi rhywbeth heb fod eto wedi cael gan yr ymennydd ddim i'w fynegi; gellid ei alw'n ysbryd drwg yn 'trwblo' dyn.⁴⁰

A'r un olygwedd gymhleth a geir ganddo yn ei ddarlith radio, sef *Ymhél*

â Phrydyddu, wrth sôn am ddeunydd crai ymenyddol llenor:

('Rwy'n cymryd y gair ymennydd yn derm am ffynhonnell neu offeryn yr holl ysgogiadau sy'n mynd i'w gynhyrfu, rhag cyfeirio gormod yn y fan yma at 'enaid' a 'chalon' ac

'ymwybod' a thermau cyffelyb, heb sôn am 'sistem nerfol',
'madruddyn y cefn', a 'chwarennau endocrin'.) ⁴¹

Y mae'r ansicrwydd a ddarlunnir uchod yn greiddiol i un o brif themâu
Parry-Williams yn ei waith, sef y ffin annelwig rhwng y corff a'r meddwl,
fel y gwelir maes o law, ym mhennod chwech. Sylweddola yn burion
hefyd ran ryfedd yr ymleferydd mewnol fel y profa yn ei araith,
'Dychymyg mewn Barddoniaeth', pan aeth ati ryw ben bore i roi rhwydd
hynt i'w feddyliau ar damaid o bapur:

Y mae fy enaid fel blwch-matsiys,
Yn llawn o fflamau na chyneuwyd,
Fflamau coeswynion, pengochion,
O bren a ffosforws solet ac oer,
Sydd eto heb wybod fod rhimyn o bapur-swnd-
Y swnd sy'n silicad budrfelyn-
Yn ei ddiniweidrwydd cemegol, disgwylgar,
Ar hyd asgwrn-cefn y bocs,
Ac yn aros nes dyfod y funud grafog,
Gyneuog,
Sydd yn hanes pob matsien,
Pan fo pob penglog yn ffrwydro'n fflam,
A phob coesyn yn crino'n golsyn.
Ydyw,
Y mae fy enaid fel bocs-matsiys
'Swan'.⁴²

Ymhellach, i atgyfnerthu'r honiad mai teui'n weddus sydd yn
gweddu i greadigaeth lenyddol wir fawr, dywed Parry-Williams mai
drwy'r clyw yr â barddoniaeth i mewn. Nid i'r ymennydd i'w deall yr



â, ond i ryw ymwybyddiaeth arbennig mewn dyn. Ei synhwyro a wneir, nid ei ddeall. Y mae'n dweud y dylid cofio, felly, nad 'ystyr' gyffredin gair, sydd iddo bob amser mewn barddoniaeth.⁴³ Wrth gwrs, pwysleisiodd bwysigrwydd awgrymusedd mewn llenyddiaeth sawl tro a dywedodd, hefyd, fod:

. . . dewis geiriau yn fanwl a'u gosod yn ofalus wrth ei gilydd yn anhepgor arbennig i rai mathau o lenyddiaeth – yn enwedig y ffurfiau byr ar y gelfyddyd – sef cân fer (neu delyneg), soned, ac ysgrif, i nodi dim ond tair. Felly ymhob un o'r ffurfiau hyn, dylem gymryd yn ganiataol bod y cyfansoddwr wedi pwysu a mesur pob gair i'r eithaf os ydyw wedi arfer ei gelfyddyd yn briodol (deg a phriodol)'.⁴⁴

Y broblem amlwg yn y fan hon, wrth gwrs, yw nad yw defnydd y bardd o awgrymusedd yn arwain gwahanol bobl i'r un canlyniad bob amser a chan hynny, weithiau, fe â ystyr gwreiddiol y bardd ar chwâl yn llwyr.

Adlewyrchir ei ymdrech deg i ddarganfod y gair cymwys wrth astudio rhai drafftiau o'i waith; er enghraifft, pan yw'n ceisio dewis y gair mwyaf addas i ddisgrifio'r cof yn ei ysgrif, 'Lleisiau',⁴⁵ y mae'n amlwg ei fod yn chwilota am eiriau i fynegi'r dirgelwch sydd yn bodoli ynglŷn â lleoliad y cof. Gwrthododd ei ddisgrifiad cyntaf, sef 'trysordy ysbrydol anchwiliadwy hwnnw sy'n rhan ohonom' gan ei newid i 'trysordy ysbrydol anchwiliadwy hwnnw sy'n eiddo i bobun.' Yn yr un modd,

gwellodd ar y disgrifiad ‘y guddfa honno/offeryn/storws’ gan dderbyn ‘yr ystorfa gudd.’⁴⁶ Ymddengys ei fod yn cael trafferth cyfannu neu wahanu yr ochr ysbrydol a’r ochr faterol i’r cof, (un o’r pynciau mwyaf cymhleth ac annatrys yn ei waith, sef problem ffiniau). Hynny yw, efallai iddo ystyried bod naws rhy faterol, benodol a gwyddonol i’r geiriau ‘rhan’ ac ‘offeryn’ yn y cyswllt hwn er iddo gadw cydbwysedd drwy ychwanegu’r ansoddair ‘cyfrifiadurol’ i ddisgrifio’r ystorfa. Enghraifft fach arall o amwysedd geiriau, a ymddengys yn ddiniwed ar yr wyneb, yw’r ffurf a gymer brawddegau agoriadol ei lawysgrif fras ar yr elfen bersonol mewn barddoniaeth a rhyddiaith y soniwyd amdani ym mhennod un:

A dyma fi heb erioed draethu ar ryddiaith yn fy mywyd, am fy mod i’n credu – ac yn gwybod – ei bod hi’n anos o lawer trafod rhyddiaith yn ddiddorol na thrafod barddoniaeth.⁴⁷

Sylwer ar ei ddefnydd o’r ddau air bach ‘credu’ a ‘gwybod’, geiriau a gawsai gryn sylw gan yr athronydd mawr Groegaidd, Plato, yn ei ddydd a chwedyn wrth drafod ‘y gwirionedd’. Atgoffir rhywun o’r hanesyn rhyfedd hwnnw pan ofynnwyd i Parry–Williams a oedd yn credu yn y tylwyth teg ac yntau’n ateb nad oedd yn credu ynddynt ond eu bod yn bodoli. Tebyg iawn oedd ymateb un Madame du Deffand (1697–1780)

pan ofynnwyd iddi hithau a oedd yn credu mewn ysbrydion. Ei hateb amwys hi oedd ‘ *Non, mais j’en ai peur*’ – ‘Na, ond y mae arnaf eu hofn.’⁴⁸ Y mae’n amlwg sut y gall tyndra godi rhwng dehongliad y darllenydd ac eiddo’r llenor ei hun oherwydd, er mwyn deall syniadau Parry–Williams yn gywir, y mae’n rhaid, yn gyntaf oll, gytuno ar union ystyr y geiriau y mae’n eu defnyddio. Hynny yw, a ydynt yn dal ystyr gyffredinol ai a ydynt yn symbolau o rywbeth arall? A oes mwy o symbolau yng ngwaith yr awdur hwn nag a gredir yn gyffredinol? Agwedd arall ar ei ddefnydd o eiriau yw’r modd y sylweddola y gall rhai ohonynt greu argraff ar ei gynulleidfa drwy swyngyfaredd. Dywed y gellir trydanu geiriau bach cynefin fel ‘hen’, ‘pell’ a ‘mawr’ a’u gloywi i ogoniant, gan ddefnyddio ymadrodd barddonol Robert Williams Parry, sef ‘uffern lonydd leddf’ fel enghraifft.⁴⁹

Hawdd yw cytuno â sylwadau John Rowlands ar ôl iddo ddangos bod John Gwilym Jones, yn ei ddarlith ef ar Parry–Williams, yn argyhoeddedig mai ‘unig ddyletswydd a rheidrwydd a chydwybod bardd yw bod yn gywir i’w weledigaeth beth bynnag fo honno.’ Dywed John Rowlands mai canlyniad hyn yw gosod y bardd fel unigolyn uwchraddol i’w gyd–

ddynion a'i ystyried yn weledydd oherwydd ei osgo ysbrydol.

Ymhelaetha John Rowlands:

Felly cawn ein mesmereiddio gan lenyddiaeth, a'n taro'n fud. 'Fedrwn ni ddim dadlau'n ôl â'r llenor, oherwydd nid yn libart ein hymresymu beunyddiol y mae llenyddiaeth yn bodoli. Pan awn allan o theatr, mae'n pennau'n y cymylau, a'n traed yn rhydio'r awyr. Yr un fath gyda barddoniaeth. Byd gwefr ac ias yw hwn, nid byd caled ffeithiau a dadleuon.⁵⁰

O synied fel hyn, try llenyddiaeth yn gyffur, meddai, gan ofyn tybed nad oes berygl i ddarllenwyr Parry-Williams drawsnewid ing ei gerddi yn bleser. Yn wir, o ddarllen rhai llythyrau o werthfawrogiad i Parry-Williams yn ei bapurau personol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ni ellir llai na sylwi mai elfen o bleser a mwynhad a brofid fel adwaith i'w waith yn aml. Dygir ar gof yn arbennig yr ymateb a gawsai gan nifer o academwyr a llenorion blaenllaw i'r sonedau Saesneg a gyfansoddodd yn 1919 ar awr anterth ei gyfnod cythryblus.

Dywedodd Parry-Williams hyn yn ei erthygl, 'Art and Genius', yn 1911, wrth geisio cyfiawnhau rhan ysbrydoliaeth mewn barddoniaeth:

I have heard it said that it does not really matter what the poet thinks; it is what the poet makes others think. What injustice to the poor poet! He can bear criticism of his art and style, but a misunderstanding of his thoughts and a misconception of his inspiration pain him.⁵¹

Ond fel y gwelwyd, tra gwahanol yw ei sylw flynyddoedd yn ddiweddarach pan ddywed nad yw'n waeth ryw lawer beth fo natur 'gwirionedd' deunydd llenyddiaeth. Ac wrth drafod beirniadaeth lenyddol yn benodol, pwysleisia, pe byddai'n bosibl gwahanu ysbrydoliaeth, sef ecstasi, angerdd, awen, gweledigaeth, symbyliad creadigol, oddi wrth y dull o fynegi gyda geiriau, yna dylid gadael y cyffro neu'r ysbrydoliaeth yn llonydd, ac o'r herwydd, feirniadu allanolion y grefft yn unig. Er hynny, synia y ceir gwir gelfyddyd pan fo modd ystyried y ddau beth yn un, ond bryd hynny hefyd, yr allanolion yn unig y dylid eu beirniadu. Dywedodd ynghynt fod y bardd ei hun, wrth geisio mynegi ei brofiad mewn iaith, wedi 'beirniadu' digon.⁵²

Fodd bynnag, er i'r bardd ddatgan yn rhywle iddo ystyried bod ei waith yn ddigon dealladwy, y mae rhai llythyrau oddi wrth y cyhoedd yn ei bapurau personol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn profi i'r gwrthwyneb. Ond, ysywaeth, ni ellir honni bod rhai o'r esboniadau a rydd ef yn taflu rhyw lawer o oleuni, os o gwbl, ar y dirgelion a oedd yn

poeni ei ddarllenwyr. Er enghraifft, ceir pytau o eglurhad ar ei gerdd

enwog, 'Moelni':

I ddyn wedi ei fagu mewn gwlad fel Eryri sydd yn foel a digoed, y mae'r moelni hwnnw yn raddol yn mynd yn rhan ohono megis ac os bydd rhywfaint o'r dyn yn aros ar ôl yn y diwedd wedi i'r cyfan arall ddiflannu, efallai mai amlinell y moelni hwn fydd hwnnw ac mae'n anodd cael dim mwy diddim ac eto'n bod nag amlinell moelni.⁵³

Y mae'r ail esboniad ychydig bach yn wahanol, gan iddo

ychwanegu bod elfen haniaethol i'r gerdd:

I ddyn wedi ei fagu yng nghanol moelni llwm a llinellau noeth mynyddoedd Eryri, y mae moelni'r mynyddoedd yn mynd yn rhan hanfodol ohono, megis. Ac os bydd rhywfaint o'r dyn yn aros yn yr hen ardal wedi i'r gweddill ohono ddiflannu'n llwyr, ni bydd hwnnw ond amlinell y moelni hwn – ac mae'n anodd cael dim mwy diddim nag amlinell moelni.⁵⁴

Gallai rhywun bendroni am amser maith iawn ynglŷn ag ystyr y fath

osodiadau. Sylwer ar y tanlinellu hefyd. Efallai na ddylid dwysfyfrio

dros y darn a cheisio ei ddadansoddi'n llythrennol ond y mae rhyw hen

ysfa yng nghyfansoddiad dyn sydd yn creu anniddigrwydd os nad yw'n

deall pethau yn iawn. A ydyw Parry-Williams wedi darganfod ystad

fetaffisegol hollol unigryw iddo ef ei hun ai yntau ffrwyth ysgolheictod

athronyddol sydd yn gyfrifol am y syniad? Hynny yw, efallai fod y syniad

yn gweddu i'r dim i ryw ddaliad athronyddol cydnabyddedig. Neu, efallai nad yw ef ei hun yn siŵr o gwbl beth a olyga wrth ddweud hyn, er na ellir derbyn hynny rywsut. Ai haniaethol ynteu diriaethol yw'r 'rhywfaint o'r dyn' sydd, efallai, yn aros ar ôl? Os haniaethol ydyw, ai yr ysbryd sydd o dan sylw? Ai dau ysbryd yn cyd-gyfarfod ym mrig yr hwyr fydd y bardd a'r 'cyfaill o gyffelyb fryd'? Pam 'o gyffelyb fryd'? Ai cyfeiriad at gyfaill yr effeithiodd moelni'r mynyddoedd arno yntau yn yr un modd sydd yma? Iaith ffigurol, gyfriniol a rhamantaidd sydd yn mynegi cydymdreiddiad yw hon pan yw'r bardd yn adrodd ei gred fod cyfathrach mor agos rhyngddo ef a moelni'r mynyddoedd nes eu bod wedi mynd yn un. Fel y dywed y bardd, y mae moelni'r mynyddoedd wedi mynd i mewn i'w hanfod ef. Yma, gellir ei gymharu â Wordsworth a ddywedodd fod y mynyddoedd yn pwysu arno. Ceir yr un argyhoeddiad yn erthygl Parry-Williams, 'Snowdonia,'⁵⁵ y cyfeiriwyd ati eisoes ym mhennod un, ond y mae'r rhyfedd sylweddoli yma fod llinell derfyn rhwng rhywbeth byw a rhywbeth difywyd:

How confined is the purview of the heart's affection! Yet, even here lines of demarcation must be drawn between the living and the inanimate. To a Venedotian, and above all to an Arvonian, there hovers above the soul some enchanting haze of affection for his native Eryri, and maybe this is but

a slight symptom of what is termed the love of fatherland. When, after a lapse of years, he gropes his way homewards in the dead of night, he feels the presence of his native mountain weighing upon him, though buried in the solid gloom.⁵⁶

Mewn geiriau eraill, neges y bardd yn y soned, 'Moelni', yw dangos ei fod yn ei uniaethu ei hun yn llwyr â'i gynefin. Ond, o dderbyn hynny a chanlyn ymlaen ag allanolion y syniad, gwelir Parry-Williams yn ymdroi, ar ôl trafod haniaethau fel moelni a hanfod, i ddrysu'r darllenydd wrth sôn am ddefnydd sydd heb ddiflannu'n llwyr, sydd yn atgoffa rhywun o ffosiliau wrth feddwl yn faterol ac am enaid wrth feddwl yn ysbrydol. Sut y gellir cael rhywbeth sydd yn 'ddiddim ac eto'n bod'? Defnydd o iaith baradocsaidd sydd yma – iaith a ddefnyddir yn fynych gan Parry-Williams i fynegi'r anfynegadwy. Os trafod y corff a'r enaid a wneir, gwelir bod yr awdur yn synied amdanynt fel pethau rhanadwy ac annibynnol ar ei gilydd, ond eto, y mae tanlinellu'r geiriau 'os' ac 'efallai' yn dangos mai ansicr iawn yw ei gred yn hyn o beth.

Ymhellach, y mae'r 'os' a geir yn fynych yng ngherddi Parry-Williams wedi achosi cryn dipyn o benbleth i feirniaid dros y blynyddoedd wrth geisio dehongli ei ddaliadau, oherwydd ymddengys fod y gair, weithiau, yn cyfleu naws fwy cadarnhaol nag amheuol. Er enghraifft, yn 'Tynfa',⁵⁷

goleddfir yr ‘os’ â ‘nid rhyfedd’ sydd yn awgrym cadarnhaol, ond yn ‘Ymwelydd’,⁵⁸ daw’r ‘os do’ i daflu amheuaeth ar yr ‘os’ cyntaf. Fodd bynnag, dibynna’r dehongliad i raddau helaeth ar feddylfryd neu farn y darllenyydd. Gyda llaw, y mae’n ddiddorol sylwi fod Henry Parry–Williams yn ddyn yr ‘os’, hefyd, ond yn wahanol i’w fab, esbonia ei feddwl drwy oleuo’r ystyr: ‘... ond os oes yn ein plith (ac os o amheuaeth cryf ydyw hwn)...’⁵⁹ Dyma’r hyn a ddywed Meredydd Evans pan sonia am y soned, ‘Ymwelydd’, wrth drafod rhai elfennau crefyddol yng ngwaith Parry–Williams: ‘“Os” o wylder yw geiryn cyntaf y gerdd; ‘os’ diymhongar, os mynnwch. ‘Os’ o gadarnhad, serch hynny’.⁶⁰ Ac o ganlyniad i’r dehongliad hwn, y mae’n ategu ei gred fod Parry–Williams yn honni bod peth o ddelw’r Crëwr ar y creadur; rhyw elfen ddwyfol wedi ei phlannu ynddo a fydd yn dychwelyd rywbryd at yr Hwn a’i rhoes. Y mae’r gair bach ‘os’ hwn yn greiddiol iawn i argyhoeddiadau Meredydd Evans. Oherwydd, wrth dderbyn yr ‘os’ fel un cadarnhaol, gall fynd rhagddo yn ddisymwth i gyplysu rhes o elfennau o’r grefydd Cristnogol wrth awgrymiadau llwythog Parry–Williams yn y soned. Nid ydys yn dadlau yn y fan hon nad cyfeiriadau Cristnogol sydd gan y bardd o dan sylw. Nid hynny sydd yn bwysig yn awr, ond y modd y defnyddir pob cam o’r

ddadl i wneud Parry–Williams yn grediniwr Cristnogol drwy seilio'r

argyhoeddiad hwnnw yn gyfan gwbl ar y gair bach, 'os'.

Fodd bynnag, ni ellir llai na dal i fyfyrion uwchben y syniadau sydd yn y soned, 'Moelni', yn enwedig pan geir awgrymiadau diddorol gan rai.

Atgoffir Gwyn Erfyl o *nowmena* yr athronydd Immanuel Kant wrth

ddyfynnu'r llinell 'Ni welir arno lun na chynllun chwaith' o'r soned. Ni

wyddys yn iawn a yw Gwyn Erfyl yn credu bod cysylltiad uniongyrchol

rhwng y *nowmena* a'r defnydd sydd heb ddiffannu'n llwyr ynteu ai yw'n

dal ar y cyfle i ddefnyddio'r geiriau allan o'u cyd-destun gwreiddiol er

mwyn trin dadl y *nowmena* yn y darn dilynol lle y cysylltir ef â

sythwelediad a ffydd.⁶¹ Gellid, o bosibl, gymhwyso'r *nowmena* at y

defnydd sydd heb lun na chynllun wrth ddefnyddio dadl Kant ynglŷn â

chyfyngiad gwybodaeth. Gwahaniaethai'r athronydd hwnnw rhwng

Ymddangosiad (byd y *ffenomena*) a Realiaeth (byd y *nowmena*) gan honni

nad oes modd adnabod y peth-ynddo-ei-hun, sef y *nowmenon*. Credai

y byddai ceisio mynd y tu hwnt i'r ffenomena, ceisio cymhwyso

cysyniadau y tu hwnt i'r ffin a osodwyd arnynt gan empeiriaeth, yn

arwain yn anochel at baradocsau, camsyniadau a chroesebau. Yn ôl

Kant, felly, dim ond ymddangosiad pethau sydd o fewn cyrraedd pobl.

Ond ar y llaw arall, sonia Gwyn Erfyl am sythwelediad ac efallai mai dyna yw'r cysylltiad a rydd ef rhwng y dyfyniad a'r *nowmenon*. Tybed a fyddai'n addas synied bod modd 'gweld' y tu hwnt i ymddangosiadau disgwylidig, sef llun a chynllun a chyrraedd realaeth ei hunan gan ddarganfod 'amlinell lom y moelni maith' fel adlewyrchiad o realaeth cydymdreiddiad fel y gwêl Parry-Williams ef? Yn ddiddorol, byddai hyn ar yr un pryd yn esbonio iaith baradocsaidd Parry-Williams o gofio yr hyn a ddywedodd Kant am benllanw pob ymchwil i'r *nowmena*.

Atgoffir rhywun o fonadau G. W. Leibniz (1646-1716) hefyd yn y cyswllt hwn fel rhyw sylwedd ansylweddol sylfaenol nad oes difa arno. Enw Leibniz ar sylwedd yw monad. Y mae'n uned elfennol, sengl ac anwahanadwy gyda nifer o nodweddion. Y mae'r monadau yn ddirifedi ond nid ydynt yn llenwi gofod. Dywed yr athronydd fod beth bynnag sydd yn gymhleth wedi ei wneud o'r hyn sydd yn syml ac mai cyfansoddion sengl gwaelodol y cymhleth yw gwir gyfansoddion y byd. Isgynhyrchion agreg (*aggregation*) y pethau syml yw'r cymhlethau. Y mae'r hyn sydd yn llenwi gofod yn estynedig, a chan hynny, yn rhanadwy ac felly yn gymhleth. Derbyniai Leibniz yn ddigwestiwn egwyddor Descartes fod popeth sydd yn bodoli un ai'n llenwi gofod neu

eu bod yn ymwybodol. Felly, yn ôl Leibniz, gan nad yw monadau yn llenwi gofod, y mae cyfansoddion gwaelodol y byd yn anestynedig, ac oherwydd hynny, nid ydynt yn faterol. Gan nad ydynt yn faterol, ystyria mai meddyliol ydynt, sef pwyntiau metaffisegol dirifedi. Fe'u gelwir yn eneidiau ganddo weithiau. Y mae monadau yn bopeth gan gynnwys Duw, y dibynna popeth arno, yr enaid dynol a'r cyfansoddion mwyaf gwaelodol yr ydym yn synied amdanynt, yn ddryslyd, fel mater. Credai fod gan y monadau ddirnadaeth o bethau ar wahân iddynt eu hunain, ond nad oeddynt yn hunanymwybodol. Ymhellach, credai Leibniz nad oeddynt yn gwybod eu bod yn ymwybodol o'r pethau sydd y tu allan iddynt eu hunain. Ni ddylanwedir ar fonad gan fonad arall ac ni ddylanwada ef ar unrhyw beth sydd y tu allan iddo. Esbonia Leibniz nad oes i'r monadau ffenestri y daw drwyddynt unrhyw beth i mewn ac yr â unrhyw beth allan ohonynt. Ni ddaw diwedd i'r monad drwy unrhyw fath o ymddatodiad, fel y daw i'r pethau cymhleth, ond yn unig drwy ei ddiddymu a'i ddifodi gan Dduw. Y dyddiau hyn, gellir cyferbynnu monadau Leibniz ag egni fel cyfansoddiad gwaelodol y bydysawd oherwydd tybiai'r athronydd fod holl fater wedi ei wneud o ogwyddiadau at weithredu nad ydynt, ynddynt eu hunain, yn faterol. Yr unig

wahaniaeth yw bod geirfa'r ail ganrif ar bymtheg yn cyfyngu'r disgrifiad o ganolfannau gweithredol difater i eiriau fel y meddwl, yr enaid a'r ysbryd, a chan hynny, dyna a ddefnyddiodd Leibniz. Iddo ef, yr oedd gweithgaredd yn gynhenid i gyfansoddion gwaelodol y byd.

Diddorol iawn yw darganfod rhai llythyrau ym mhapurau personol Parry-Williams gan wybodusion enwog, ymchwilgar. Dengys un llythyr gan Robert Williams Parry ei fod yntau yn ysu i rannu rhai o gyfrinachau ei gefnder:

...Hoffwn gael dy farn ar beth neu ddau yn Ysgrifau, e.e. beth yw'r 'Gwynt' yn 'Gweld y Gwynt'. Ni thybiaswn fod un anhawster nes i B. O. ddweud yn nosbarth y Penrhyn dy fod wedi amlygu'r gyfrinach iddo.⁶²

Gwelir, unwaith eto, nad yw pethau fel yr ymddangosant ar yr wyneb. Bum mlynedd yn ddiweddarch, cafwyd ymholiad pellach gan yr un llythyrwr. Wrth gynnal ei ddosbarth yn Llanyby y noson flaenorol, gofynnwyd iddo am eglurhad gan 'ffermwr cyfrifol a gŵr tra meddylgar', nad oedd yr un llinell arall yn holl waith Parry-Williams yn dywyll iddo heblaw am y darn o'i soned, 'Rhieni': 'Mae hiraeth yn heneiddio, ac angau'n mynd yn iau:'. Dywed R. Williams Parry iddo geisio ei esbonio orau y gallai, trwy ddweud bod y bardd, wrth fynd ymlaen mewn bywyd,

yn ymbellhau oddi wrth farwolaeth ei rieni ac yn agosau at ei farwolaeth ef ei hun. Ond gan nad oedd R. W. Parry yn dawel ei feddwl yn hyn o beth, addefasai anfon at ei gefnder am eglurhad.⁶³ Ar achlysur arall, anfonodd Meredydd Evans yntau lythyr at Parry–Williams gan grynhoi i’r dim y rhwystredigaeth a deimlir gan ambell ddarllenwr. Yn ei lythyr, datganodd y rhoddai’r byd am wybodaeth o lygad y ffynnon gan iddo gredu fod yna bethau yng ngwaith Parry–Williams y gwyddai yn sicr eu bod yn ferw o arwyddocâd ond ei fod yn methu cael gafael iawn arnynt. Gan hynny, atega ei fod yn cael ei gynddeiriogi bron oherwydd ei fod ar drothwy eu hamgyffred.⁶⁴ Ystyr y soned ,‘Tylluan’, sydd yn mynd â bryd Roy Bohana, pan ofynna i Parry–Williams ai dim ond profiad o ddychryn cyffredin sydd yn y soned ynteu a oes yma symbol o bechod amhurdeb ac aflendid y bywyd modern a’r pwerau a fydd yn difrodi a dinistrio heddwch a thangnefedd bro mebyd y bardd.⁶⁵

Heb eglurder a chysondeb yng ngwaith Parry–Williams, nid oes ond disgwyl iddo gael ei gamddechongli’n ddryslyd neu ei ddechongli’n hollol ddiamwys er yn hollol wahanol gan fyrdd o feirniaid a gwerthfawrogwyr annhebyg eu bryd. Yn ôl John Rowlands, y mae’n rhyw fath o lenor crefyddol i Meredydd Evans, y mae’n besimist i Bobi Jones ac yn

'agnostig crediniol' i Geraint Gruffydd; fe'i gwelir, hefyd, fel rhamantydd, modernydd, dyneiddiwr, lladmerydd yr abswrdd, ac fel Fictoriad.⁶⁶ Diau y gellid gwneud astudiaeth 'wyddonol' o agweddau'r bardd ar grefydd, gan bwysu a mesur ei brofiadau o'u cymryd fesul un yn ei waith ac o ganlyniad ddod i gasgliad gweddol gywir ynglŷn â'i ddaliadau yn gyffredinol. Ond y perygl wrth wneud hynny fyddai ynysu dywediad unigol a'i dderbyn fel prawf terfynol o'i safiad ar y grefydd Gristnogol. Gellid camddehongli agweddau eraill ar ei waith yn yr un modd. Canys, fel y gwelwyd eisoes, yr oedd ei ddaliadau yn ansafadwy, a dweud y lleiaf, gan y gallent newid a bod yn hollol wrthgyferbyniol o ddydd i ddydd fel y disgrifia ef ei hun:

... y mae'r grefydd Gristnogol yn brawf ar ddyn – a phan fo dyn dan brawf y mae o'n cael ei ddadansoddi, a chanlyniad ambell ddadansoddiad ydy hollti'n ddau ddarn, – 'rydach chi'n ddau ddarn ar wahân. Mi ddylan ni gofio hyn 'rwy'n meddwl, pan fyddwn ni'n sôn am bethau fel hyn – am brofiadau ac am gredoau ac yn y blaen. I mi, y mae 'na, fel y ceisiais i ddweud o'r blaen 'rwy'n meddwl, nid yn gymaint ddatblygiad, mewn ymdeimlad crefyddol fel hyn, ond moddau, – weithiau 'rydach chi fel hyn, dro arall, hynny yw 'dach chi'n Gristion gloyw heddiw dyweder, 'dach chi'n bagan yr un mor loyw yfory. Nid rhywbeth safadwy fel yna, yn aros fel rhyw haen ddisymud ar waelod eich cymeriad chi, ydi'r ymdeimlad crefyddol, ond rhywbeth sydd yn mynd lan a lawr, weithiau'n ddu weithiau'n wyn – a

dyna oedd profiad yr hen saint i gyd hyd y galla'i weld.

'Rwy'n waeth, 'rwy'n well bob dydd'.⁶⁷

Yn gynharach yn y sgwrs, esbonia Parry-Williams, wrth drafod ei soned,

'Nefoedd'⁶⁸, sydd yn honni iddo fod yn hanner yn hanner, mai methu

bod yn Gristion a methu bod yn bagan y mae.⁶⁹

Ymhellach, yn ôl Parry-Williams, gellir cael moddau meddwl ysbeidiol fel 'fflach o'r gwir', 'profiad munud awr' ac 'awr ddu', sef 'gwirionedd y funud' sydd yn cydfodoli ar yr un pryd â 'gwirionedd llenyddol'. Gwelir hyn yn ei ysgrif, 'Llenyddda':

Y mae pob gwir lenor felly, pa beth bynnag fo pen-draw neu gasgliad neu ffrwyth ei fyfyrion, yn argyhoeddedig ar y pryd ei fod wedi cael gafael ar wirionedd am y tro, wedi cael cyfrinach o rywle, wedi profi synhwriad sy'n newydd iddo ef, – ac yng ngrym yr argyhoeddiad hwnnw y mae'n ysu am ei fynegi, er iddo, rywdro wedyn, yn ddigon posibl anghytuno ag ef ei hun, oherwydd fe all yr un llenor gael ei arwain yn ei dro i fwy nag un o'r gwahanol gyflyrau y cyfeiriwyd atynt. Y mae'r fath beth, felly, a gwirionedd llenyddol, rhywbeth sydd, ar yr awr y profir ef, mor wir a gwirioneddol ag y gall dim fod i ddyn, heb orfod gofyn 'Beth yw gwirionedd?'⁷⁰

Y mae'n wir mai ceisio dangos defnydd dychymyg mewn llenyddiaeth a wna Parry-Williams yma, ond ychwanega, drwy gloi'r ysgrif, mai'r 'gwir beth hanfodol mewn llenyddda ydyw diffuantrwydd, cywirdeb ysbryd. Ni waeth ryw lawer beth fo natur 'gwirionedd' y deunydd, os cafodd y

llenor ef, ond cael gonestrwydd mynegiant. Hoced anesgusodol ydyw ffug-lenydda'. Ceir yr un meddylfryd ganddo ynglŷn â 'fflachiadau o wirionedd' yn ei erthygl, 'III. Modern Calls',:

A sentiment described in a poem is not necessarily abiding; all the better if not, and the more poetry there is in it. For poetry is not the vehicle of a creed, but rather the treasury of transient moods and passions of an hour. Inspiration is not lasting, and like fortune, must be taken at the flood ... Inspiration is a passion at white heat – and there is poetry in every passion, be it love, be it hate; be it grief, be it ecstasy; but only one passion can reign at a time.⁷¹

Y mae ei olygwedd yr un mor gadarn yn ei erthygl 'Y Fran, yr Eos, a'r Niwl' (sic)⁷² lle y dywed, wrth drafod llenyddiaeth, fod 'popeth a gred yr awdur yn wirionedd, hyd yn oed petai'r gred honno'n ddim amgen na ffrwyth rhyw fodd neu fŵd munud awr, – i ddiflannu gyda'r modd hwnnw.' Yr un driniaeth a gaiff y syniad eto yn ei ysgrif, 'Antur Llen' (sic),⁷³ wrth iddo ddatgan mai yn anghysondeb arwynebol y bardd y mae prawf o ddiffuantrwydd ei weledigaeth a beiddgarwch ei fynegiant ohoni.

Ymddengys fod problem ddiddatrys yn codi yn y sefyllfa hon oherwydd i Parry-Williams gredu'n ddiysgog fod y bardd a'r llenor oddi mewn i ddyn yn bodoli ar dir gwahanol ac mewn awyr deneuach. Yn ei ysgrif,

'Llenyddda', tystia fod dyn, yn llenyddol, yn byw ar fyfyrddod a hyn yn ei wneud 'yn ddeoledig ac wedi colli arno'i hun arferol'.⁷⁴ Tybed a yw'r olygwedd o gymorth i dderbyn y ffaith nad Parry-Williams, y dyn ei hun, sydd yn siarad trwy ei holl waith? Sut y mae modd i'r darllenydd ddioli'r 'gweledigaethau' oddi wrth ddigwyddiadau cyffredin? Hynny yw, pa bryd y mae i wybod mai siarad trwy ei ddychymyg a wna'r bardd-lenor? Y mae'n rhaid cyfaddef ei bod yn hawdd iawn gwneud hynny ar rai adegau. Er enghraifft, cymerer aderyn dychmygol yr ysgrifwr, 'Idoc', sydd yn un hollol ddilys iddo ef. Caiff Parry-Williams:

ddweud beth a fynnyf wrtho, a chaf fynd ag ef gyda mi i'r lle a ddewiswyf ... Hyn a wn i, - fe ymddangosodd yr aderyn, fe ddaeth yn eiddo i mi, ac mi ymhoffais ynddo. Pwy a wŷr na ddarfu i mi, ar ddamwain mewn chware, daro ar gyfrinach creadigaeth?⁷⁵

Tybed a yw'n siarad yn solipsaidd yn y fan hon? Hynny yw, a ydyw'n credu mai ef ei hun a'i brofiadau yn unig sydd yn bodoli? Dyma eglurhad yr athronydd F. H. Bradley ar solipsiaeth:

The argument in favour of Solipsism, put most simply, is as follows. 'I cannot transcend experience, and experience must be *my* experience. From this it follows that nothing beyond my self exists; for what is experience is its states.'⁷⁶

Y pwynt pwysig, fodd bynnag, yw nad oes unrhyw fodd dibynadwy i wahaniaethu rhwng y dyn pan yw'n llenyddu a'r dyn pan nad yw wrth y gorchwyl hwnnw. Ym mha fodd y gellir trosglwyddo syniadau'r dyn wrth drafod ei waith? Ai wrth ddweud bod T. H. Parry-Williams yn meddwl ynteu bod y bardd a'r llenor, T. H. Parry-Williams, yn meddwl? Pan geir ef yn crefu ar Grist yn ei soned, 'Gwahaniaeth',⁷⁷ ac ar Dduw mewn soned arall, 'Ymbil',⁷⁸ pwy, o ddifrif, sydd yn siarad? Dyma yw craidd yr holl broblem wrth astudio ei waith.

Ymdriniodd Euros Bowen â 'diffuantrwydd' y bardd hwn yn ei waith llenyddol wrth drafod yr astudiaeth a wnaeth Dyfnallt Morgan o Parry-Williams yn *Rhyw Hanner Ieuencid*.⁷⁹ Gwrthododd Euros Bowen awgrym Dyfnallt Morgan fod diffuantrwydd yn safon lenyddol:

Os yw diffuantrwydd yn safon lenyddol mae'r cwestiwn yn codi, ymhle y ceir y diffuantrwydd yma, ai yn y gerdd ai ynteu yn y dyn a luniodd y gerdd? Os yn y gerdd, ai yn nullwedd y gerdd y ceir hyn? Os felly, sut y mae modd barnu a ydi dull y gerdd yn ddiffuant? Os yn y dyn ei hun, pa fodd y gellir gwybod fod y gerdd yn codi o brofiad personol yr awdur a'i bod yn fynegiant diffuant o'i brofiad? A ydi Dafydd ap Gwilym yn barddoni'n ddiffuant? A oedd y gwayw a oedd beunydd yn difa Dafydd yn brofiad diffuant? I allu ateb byddai'n rhaid gwybod a yw ei gerddi'n cyfateb ym mhob dim i'w brofiadau personol. Ond wyddon ni ddim digon am ei hanes personol i allu datgan barn ar hyn. A yw gwaith Shakespeare yn

ddiffuant? Does dim modd barnu oherwydd wyddys ond y nesa peth i ddim amdano'n fywgraffiadol. Safon ddiwerth yw diffuantrwydd wrth werthfawrogi llenyddiaeth. Mae'n wir y gall llenor fod wrthi'n ddiffuant, ond dydi ei waith ddim yn well o achos hynny. Y gwir yw nad ydi diffuantrwydd yn safon lenyddol o gwbl.⁸⁰

Rhaid nodi mai cystwyo Dyfnallt Morgan oherwydd ei ddaliad ef mai ysgogiad profiadol personol yw gwir ddeunydd barddoniaeth a wna Euros Bowen. Felly, seiliau beirniadaeth lenyddol sydd o dan sylw. Gwelir bod dwy haen i'r ddadl, oherwydd yn y fan hon, ceisio darganfod a oes modd cysoni cynnwys gweithiau Parry-Williams â'i wir deimladau, daliadau a phrofiadau yr ydys, sef ceisio darganfod y dyn ei hun. Ar un lefel, ceir Parry-Williams yn dweud ei fod yn cael fflachiadau ysbeidiol o'r gwir fel bardd-lenor sydd yn hollol ddilys iddo ef a'i fod yn eu mynegi'n ddiffuant yn ei waith. Ar yr un pryd, y mae'n argyhoeddedig mai gonestrwydd mynegiant y gwirionedd hwnnw sydd yn bwysig mewn llenyddiaeth. Ar yr ail lefel, anghytuna Euros Bowen â Dyfnallt Morgan mai diffuantrwydd profiad personol yw gwir ddeunydd barddoniaeth. Y mae Euros Bowen yn barnu hefyd, yn groes i Parry-Williams, nad yw gwaith llenor yn fymryn gwell os yw'r llenor wedi ei lunio yn ddiffuant. Cesglir, felly, nad yw Euros Bowen yn ystyried bod dilysrwydd profiad

llenor yn bwysig wrth werthfawrogi ei waith. Sylwer, o ran hynny, nad yw ef yn gwir gredu gonestrwydd honedig llenorion. Â ymlaen i holi beth yw ystyr 'gwirionedd dros dro' Parry-Williams yn ei waith, gan ofyn ai gwirionedd dros dro, er enghraifft, yw rhyw wirionedd crefydd ac ai rhyw fath o solipsiaeth yw gwirionedd ysbeidiol, diflanedig? Ychwanega y byddai'n dda ganddo gael mwy o olau ar arwyddocâd y syniad hwn.

Dehonglodd Saunders Lewis y cymhlethdod hwn gan ganolbwyntio ar feddwl twyllodrus y bardd: 'And in his later poems Parry-Williams has made the insincerity of his own mind – and who of us is not insincere? – the very theme of his own verse',⁸¹ gan ymhelaethu fod y bardd yn dal rhyw dymer pan yw'n croesi ei ymwybyddiaeth, yn ei dadelfennu ac yn dinoethi ei hansicrwydd gwibiog, ac yn cael gafael ar ffieidd-dod y funud nesaf hefyd pan ddaw hwnnw, gan ei uniaethu ei hun ag ef yn yr un modd. Ychwanega fod yr anhawster a gaiff Parry-Williams o ddod o hyd i'w hunaniaeth ynghyd â dieithrwch ei feddwl a'i gorff yn greiddiol i'w gerddi, gan wneud ei farddoniaeth yn gywrain a dadansoddol gyda thinc myfyrgar sydd yn cyd-fynd yn llwyr ag ansawdd cyffrous ei feddwl. Dywed mai barddoniaeth sydd yn perthyn i feddwl gwyddonol yw barddoniaeth Parry-Williams. Heb os nac oni bai, y mae yn llygad ei le

wrth bwysleisio amlochredd hunaniaeth Parry–Williams. Oherwydd, oni thystiodd y bardd hwn yn ei rigwm, ‘Dryswch’,⁸² fod ‘amryw byd ohonom yn fy nghlai’ yn blithdraphlith oddi mewn iddo? Ond tybed a yw Saunders Lewis yn cyfeiliorni wrth sôn am anniffuantrwydd meddwl Parry–Williams, o gofio bod pob fflach o’r gwir a brofa’r bardd yn rhai hollol ddilys iddo ef ar y pryd, er iddo negyddu’r gwirioneddau hynny o bryd i’w gilydd? Y mae’n debyg mai gweld diffyg sadrwydd barn fel rhywbeth annymunol sydd yn tanseilio hunaniaeth gyson yr unigolyn a wna Saunders Lewis.

Pwysleisia John Rowlands mai y tu mewn i’w gerddi y dengys Parry–Williams o ddifrif ei fod yn ymateb gyda diffuantrwydd creulon, ond maddeugar, i gyflwr dyn ar y ddaear, er nad oes hollt rhwng y tu mewn a’r tu allan i’r cerddi, ychwaith, yn ôl y beirniad hwnnw.⁸³ Dangosodd Dafydd Glyn Jones, wrth gyfeirio at ‘anymyrraeth’ Parry–Williams, sef gair a ddefnyddiodd yr Athro T. J. Morgan wrth drafod gwaith y bardd hwnnw yn y gyfrol, *Gwŷr Llên*, ei bod yn llawn mor gymwys i dadogi’r gair ar Samuel Beckett yn ogystal ond pwysleisia mai sôn am eu gweledigaeth fel llenorion a wneir, am y weledigaeth a fodola yn unig o fewn terfynau eu celfyddyd, ac nid am eu hargyhoeddiadau ymarferol

pob-dydd. Hynny yw, cyfeirio at bwynt Parry-Williams ynglŷn â 'gwirionedd llenyddol' a wna Dafydd Glyn Jones.⁸⁴ Fel y gwelwyd, ceir golwg bur ddadlennol ar wir safiad Parry-Williams ynglŷn â dweud ei farn ar bethau pan ddatgela yn ei ysgrif, 'Y Llyfr-Lòg',⁸⁵ ei bod yn gas ganddo drafod pwnc dadleuol a gweinyddol, gan feio'r 'annhueddrwydd cynhenid' sydd yn perthyn iddo ar y posibilrwydd o'i allu i ddefnyddio grym ei emosiynau i'r eithaf wrth wyntyllu ei farn. Ei gysur mwyaf yw'r ffaith y gellir ymatal rhag mynegi gwir farn neu ragfarn am bethau a phobl. 'Beth petai'r "byd" yn gwybod ein gwir farn a'n syniad sobr am lawer o'r pethau a'r personau sydd o'n cwmpas ar y ddaear hon?' gofynna. Y mae'n dda sylwi, felly, fod gan Parry-Williams ddaliadau cryfion (a safadwy, hefyd, y mae'n rhaid mentro) ynglŷn â llawer pwnc a pherson. Ond, daw'r gwrthwyneb i'r fei unwaith eto wrth iddo ddatgan yn ddigamsyniol yn ei gerdd 'I'm Hynafiaid',⁸⁶ nad oes sadrwydd barn yn perthyn iddo, dim ond ymennydd sydd yn rhemp i gyd. Dyma'r modd y dadansodda'r cymhlethdod hwn yn ei erthygl ar waith W. B. Yeats:

I shall only record my own impressions, but I know that my views will be different in time to come. What does it matter? You will differ from me very likely in my estimation of his poetry, and I hope you will, because I do not mean to cling to these views. And why should I? They

are elusive things, always assuming shape and eternally changing. One takes photographs of them at a certain point in their formation and shape-taking, and that is all that a man can do, if he is to be sincere. They also depend a great deal on the mood in which they were written. This is to make myself seem less irresponsible than you may think me.⁸⁷

Ni ellir llai na chytuno â gosodiad John Rowlands fod pawb yn baglu ar draws ei gilydd i ddarganfod 'ego' Parry-Williams am ei fod yn ei guddio ei hun yn ei holl waith ac mai di-fudd braidd fyddai chwilio ei waith yn unig er mwyn darganfod sut un ydoedd a beth oedd ei argyhoeddiadau. Cred fod natur gyffredinol ei waith, y modd y mynega brofiad cenhedlaeth gyfan, yn cyfrif llawn cymaint ag y mae ei brofiadau ef ei hun. Dadl John Rowlands, felly, wrth werthfawrogi Parry-Williams, yw mai anghofio am geisio seicdreiddio'r dyn ei hun fyddai orau, a'i weld fel lladmerydd y gwirioneddau tragwyddol. Dylid gosod y bardd a'r llenor yn ei gyd-destun diwylliannol, meddai, a derbyn yr ing sydd yn ei waith fel adlewyrchiad o rai o agweddau syniadol a diwylliannol a danseiliodd ystyr bodolaeth yng Nghymru a'r byd yn ystod hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf.⁸⁸ Fodd bynnag, byddai'n fuddiol gwerthfawrogi'r ochr esthetig, yn ogystal, i waith Parry-Williams – gwedd dra chadarnhaol nad yw, hyd heddiw, wedi colli dim o'i hapêl at ei

gynulleidfa. Dyma ddarn o adolygiad Owain Tudur o'r gyfrol, *Ysgrifau*.

Mae'n wir nad pwnc John Locke yn ei draethawd anfarwol ar Human Understanding sydd gan yr Athro Parry Williams. Ond i ddyn sydd wedi blino ar ddarllen llyfrau er mwyn gwybod beth sydd ynddynt, brâf yw cael gorwedd yn yr haul a darllen heb boeni dim beth mae'r llyfr yn ei ddweud – dim ond mwynhau'r dull y'i dywedir. Ac wedi'r cwbl, nid yw nac yma nac acw beth a ddywedir am 'Geiliog-Pen-y-pas'; yr hyn sy'n bwysig yw fod yr ysgrif yn rhoi 'bodlonrwydd'. A dyna'n union a wna.⁸⁹

Yn ei erthygl ar W. B. Yeats, y cyfeiriwyd ati eisoes, honna Parry-Williams ei bod yn gyfeiliornus deall credo neu athroniaeth bardd heb yn gyntaf geisio deall ei farddoniaeth. Tystia nad oes a wnelo hwynt ddim oll â barddoniaeth. Yn ogystal, y mae'n argyhoeddedig na ddylai dyn ddefnyddio ei ddawn brydyddol fel cyfrwng i wyntyllu ei hoff athrawiaethau. Beia farddoniaeth dywyll Yeats am ei fod yn gorfod ychwanegu esboniadau at ei farddoniaeth. Er hynny, cred fod yn rhaid i farddoniaeth ddilys, yn aml, fod yn dywyll oherwydd ei byrhoedledd a hefyd am ei bod yn ceisio mynegi yr hyn na ellir byth ei wneud gan ryddiaith oer. Ond synia nad barddoniaeth dywyll fel eiddo rhai Rhamantwyr eraill sydd yn perthyn i Yeats, oherwydd fe geir gan y rheini ryw hanner goleuni ac awgrymusedd sydd yn fwy dealladwy i feddwl prydyddol na lluniau hollol eglur. Pwysleisiodd y byddai'n stori hollol

wahanol pe byddai rhywun yn casglu oddi wrth farddoniaeth Yeats ei fod yn fardd cyfriniol heb orfod ymgynghori â'i nodiadau â'i gyflwyniadau.

Fodd bynnag, ymddengys nad oedd y Gwyddel yn poeni rhyw lawer ynglŷn â rheidrwydd esboniadau oherwydd dyma'r cyfiawnhad a rydd ef: 'After all, one writes poetry for a few careful readers and for a few friends, who will not consider such detail unnecessary'.⁹⁰

Tynnwyd sylw sawl tro at y sefyllfa hon parthed ysgrifau Parry–Williams, gan honni mai ar gyfer darllenwyr gweddol ddeallus a gwybodus yr ysgrifennai ac yn wir gellir cytuno â hyn i raddau pan ystyrir mai mewn cylchgronau fel *Y Llenor* a'r *Gwyddonydd* yr ymddangosent. Ond, o gofio i Parry–Williams ddweud nad cyfrwng i draethu ffeithiau moel yw ysgrif, a ellir, gan hynny, gyfiawnhau lled–guddio ffeithiau yn fwriadol neu'n anfwriadol? Gellir, yn bendifaddau! Wrth gyfeirio at newydd–deb yr ysgrif fel ffurf lenyddol yng Nghymru, dywedodd John Gwilym Jones i Parry–Williams wneud yn Gymraeg yr hyn a wnaeth Montaigne yn Ffrangeg gan ddadansoddi gwahanol agweddau ar ei bersonoliaeth a'i brofiadau ei hun.⁹¹ Ond yr hyn sydd yn bwysig sylweddoli, fel yr esboniodd J. Breeze Davies, yw bod canllawiau safadwy ar gyfer cyfansoddi ysgrif, a rhydd ddiffiniad Maurice Hewlett i ddangos

hynny:

...myfyrdraith ysgrifenedig gŵr diwylliedig, bodlon, sydd o leiaf yn bump a deugain oed, ar ôl iddo gael cinio da. Nid yw blynyddoedd nac yma nac acw: ond y mae ysbryd y blynyddoedd yn fater pwysig iawn. Rhaid ichwi fod yn ddigon aeddfed i lefaru ag awdurdod Pab neu Archoffeiriad, ac yn ddigon call i wneuthur hynny gyda thact ... Ni ddylech fod yn rhy hir, ni ddylech fod yn rhy anodd; cewch grwydro tipyn ar draws ac ar hyd, ond ni chewch fod yn swta. Gellwch osgoi huawdledd a hwyl aflywodraethus; ond dylech beri i'r darllenydd chwerthin yn ei ddwrn weithiau. Cewch wlitho'r llygaid, ond nid eu boddi. Ni ddylech gymryd ochr, na rhoi anogaethau. Rhaid i'ch gwersi fod yn rhai wrth fynd heibio ... Chwi a fyddwch yn awgrymog, wrth gwrs – y mae pob dyn cyflawn felly; a chwi a ddyfynnwch yn rhydd, yn aml yn anghywir neu'n llac. Dylai stori fod yn halen gennych, ond ni thybiaf y dylai dyfyniad fod yn bupur gennych.⁹²

O sylwi ar y darn uchod yn fanwl, gellid taeru bod Parry–Williams wedi astudio ei gyfrwng i'r dim. I ddechrau, gwelir y modd y cymer yr awdur yn ganiataol fod y darllenydd yn gyfarwydd â'r bobl neu'r syniadau a'r profiadau y traetha amdanynt, er enghraifft: 'Gwyddom oll am nofel a soned a simffoni anorffenedig.'⁹³ 'Mi glywsoch am y Parchedig Joseph Leicester Lyne ...'⁹⁴ 'Gŵyr pawb hefyd nad oes dim mor drychinebus o ddigrif â chath wedi rhewi.'⁹⁵ Weithiau, ceir lledawgrymu ganddo gan beri i'r darllenydd ddyfalu am bwy neu am beth y mae'n sôn: 'Fe ddywedodd un gwyddonydd hefyd nad yw Amser yn ddim ond trefniant

rhag i bopeth ddigwydd ar unwaith.’⁹⁶ Y mae’n debyg mai’r gwyddonydd, John Archibald Wheeler, a ddywedodd hyn. ‘Gall y sinig, gyda chryn dipyn o gyfreithlonrwydd, honni mai amcan geiriau yw cuddio meddyliau; ond, er cyfrwysed ymadrodd felly, fel arall y mae’r gwir plaen.’⁹⁷ Efallai mai cyfeiriad sydd yma at y sinig o wleidydd Charles Maurice de Talleyrand–Perigord (1754–1838) a ddywedodd: ‘Speech was given to man to disguise his thoughts.’ (c. 1820).⁹⁸ Tadogir y dyfyniad hwn ar sawl un arall hefyd. Cafwyd yr un gred yn flaenorol gan y meddyliwr mawr, Voltaire, sef Francois Marie Arouet (1694–1778), yn ei waith, ‘*Dialogue du Chapon et de la Poularde*’: ‘[Men] use thought only to justify their wrong–doings, and words only to conceal their thoughts.’⁹⁹ Barn y bardd Shelley am y ddeupeth oedd: ‘He (the Deity) gave man speech, and speech created thought.’¹⁰⁰ Wele enghraifft o’r mynych ddefnydd a wna Parry–Williams o’r ffaith fod ‘rhywun’ wedi dweud rhywbeth: ‘Y mae cryn lawer o wir, o bosib, yn yr hyn a ddywedodd rhywun wrth adolygu llyfr Ruth Moore ar Niels Bohr ...’¹⁰¹ Efallai mai anghofrwydd llwyr yw’r rheswm am y niwlogrwydd yn y fath enghreifftiau ond, ar y llaw arall, fe’i ceir yn osgoi enwau pan yw’n gwbl gyfarwydd â hwynt: ‘Wrth ‘ymson ynghylch amser’, fe ebychodd bardd o

Gymro fel hyn ar ddiwedd soned, ...,’ meddai wrth sôn am gerdd Robert Williams Parry, sef ‘Ymson Ynghylch Amser’.¹⁰² Dyma enghraifft arall o ‘fardd o Gymro’ a oedd wedi mynegi gweledigaeth, er na chyfeirir at yr awdur Wil Ifan (William Evans) na’i gerdd, ‘Ym Mhorthcawl,’ yn uniongyrchol: ‘Cofiwn nad yw’r môr i un bardd o Gymro ond ‘y durtur llwyd a gaeodd Duw tu ôl i dwyni’r tywod mawr’, ...’¹⁰³ Modd arall o gyfeirio cyfrwys ganddo yw sôn am ddywediad ‘un hen sinig o Gymro gynt’, sef ‘Pe traethai tafod a wypai ceudod, ni byddai gymydog neb rhai.’¹⁰⁴ Hen ddihareb Gymraeg yw hon. Ceir ambell ddarnau o hen benillion ganddo hefyd yma ac acw yn yr ysgrifau heb iddo gydnabod hynny’n benodol. Eithr, nid yw eu hymddangosiad yn llwyr annisgwyl o gofio iddo ymchwilio i’r maes arbennig hwn a chyhoeddi casgliad swmpus ohonynt. Yn ogystal, defnyddia ddyfyniadau gwibiog yn ‘swyddogol’ ac yn ‘answyddogol’, fel petai; hynny yw, fe’u ceir weithiau oddi mewn i ddyfynodau a thro arall heb eu defnyddio o gwbl: ‘ ... a chan na roddwyd i minnau ychwaith “nwyd gwylanod llwyd y lli,” ni waeth i mi heb sôn rhagor am dywod.’¹⁰⁵ Dyfyniad o ‘Diddanwch’, sef soned Robert Williams Parry, sydd yma. Wele un heb ddyfynodau: ‘Byddai pawb a geisiai ar dro gymundeb ag ef, yn gwybod ei fod yno yn

rhywle yn barod o hyd i wrando cri, ...'¹⁰⁶ Daw'r darn 'o hyd i wrando cri' o linell o emyn David Jones, Treborth, sef 'Wrth law o hyd i wrando cri' (Emyn 61 yn *Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid Calфинаidd*).

Weithiau, y mae Parry-Williams yn camddyfynnu: 'Trigfa'r dreigiau a'u gorseddfa.'¹⁰⁷ Dyma'r hyn sydd yn y Beibl: 'Y crasdir hefyd fydd yn llyn, a'r tir sychedig yn ffynhonnau dyfroedd: yn nhrigfa y dreigiau, a'u gorweddfa y bydd cyfle corsennau a brwyn.' (Eseia 35:7). Ped ychwanegid at yr holl ystrywiau llenyddol hyn, y mynych ddefnydd a wna Parry-Williams o ddywediadau fel 'am a wn i', 'petai waeth am hynny', 'y mae arnaf ofn – petai arnaf ofn hefyd', byddid yn sylweddoli y collid cyfle i geisio gwneud ymgais deg a gonest i gyflawni astudiaeth gywir a chyfansawdd o waith y llenor. Diau fod defnydd crai rhai o'i syniadau yn llechu o dan yr holl led-gyfeirio a'r lled-awgrymu hyn. Nid oes, felly, ond ceisio 'darllen rhwng y llinellau' mewn rhai achosion er mwyn deall Parry-Williams yn well.

Gwelir, weithiau, fod mwy o'r sylwedydd na'r ysgrifwr ei hun ynghlwm wrth gasgliadau o'r fath, sydd yn ffaith weddol anorfod mewn beirniadaeth lenyddol, yn ddiâu. Sylwer ar y modd y cyfyd anawsterau dehongli wrth i Parry-Williams gyfaddef weithiau nad yw'n hollol sicr o'i

ffeithiau: 'Credaf mai gwaith Blake ydyw, er na stopiais eto i'w edrych yn iawn, – ond wedyn nid wyf yn ddigon cyfarwydd â phethau Blake.'¹⁰⁸

Trafod engrafiad a fu'n hongian mewn siop bapur papuro yn

Aberystwyth a wneir yn yr ysgrif hon a'r engrafiad yn amlwg yn

dylanwadu'n gryf arno. Fodd bynnag, o edrych trwy bapurau personol

Parry-Williams yn y Llyfrgell Genedlaethol, gwelir copi o dudalen o

gylchgrawn ac arno lun (o engrafiad, efallai) sydd yn gweddu i'r dim i'r

disgrifiad a geir yn yr ysgrif. Teitl y llun hwnnw yw 'The Weird Sisters in

"Macbeth" ' (After Fuseli).¹⁰⁹ Gyda llaw, y mae'n amlwg fod

diffuantrwydd y llenor yn hollol ddilys yn yr achos hwn oherwydd

ymddengys iddo gael ei boeni cymaint gan yr engrafiad nes iddo

ymchwilio i'r mater o ddifrif a derbyn y copi y soniwyd amdano gan ryw

Ddoctor George H. Green a oedd, efallai, yn aelod o staff Coleg y

Brifysgol Aberystwyth. Wrth gymryd yn ganiataol mai gwaith William

Blake oedd yr engrafiad, â Meredydd Evans rhagddo, gam wrth gam, i

ddarganfod cysylltiadau crefyddol yng ngwaith Parry-Williams.¹¹⁰ Wrth

drafod yr effaith a gaiff yr engrafiad ar yr ysgrifwr, eir ati i gysylltu'r

ymdeimlad â rhai o'r agweddau crefyddol a geir yng ngwaith Rudolf Otto

yn ei lyfr, *The Idea of the Holy*.¹¹¹ Gwêl Meredydd Evans i Parry-Williams

ddweud bod yr engrafiad yn denu ac yn gwrthnysu a chyplysir y syniad hwn wrth *fascinans* Otto, sef yr agwedd ddeniadol ar yr ymwybyddiaeth grefyddol a hefyd wrth *mysterium tremendum* Otto, sef yr agwedd ddychrynlyd, ddirgel ar yr ymwybyddiaeth honno. Ac yna, oherwydd i Parry-Williams ddweud ei bod yn rhaid mai'r un gwynt yw'r un sydd yn yr engrafiad â hwnnw sydd yn chwythu gwallt yr Hollalluog yn un o ddarluniau eraill William Blake, sef 'Space', synia Meredydd Evans fod yma fardd eithriadol o sensitif yn ymateb i symbolau crefyddol a grëwyd gan fardd-arlunydd a oedd yr un mor fyw ag yntau i ddirgelwch Bod. Y mae'n rhaid pwysleisio yma, fel yn flaenorol, nad gwrthod honiadau Meredydd Evans ar grefyddoldeb Parry-Williams yr ydys, ond yn hytrach, ddangos camau'r proses a arweinia at yr honiadau hynny.

Yr oedd Henry Fuseli (1741-1825) yn enwog am greu naws ddirgel, freuddwydiol, a hefyd hagr ac afiach ar adegau, yn ei luniau drwy ddefnyddio agweddau gwrthresymol breuddwydion. Nid yw'n rhyfedd i Parry-Williams gamgymryd mai gwaith Blake oedd y llun, oherwydd bu Fuseli a Blake yn gyfeillion am ryw hyd, ac yn wir, yr oedd Blake yn ddyledus iawn i'w ffrind am lawer o'i syniadau. Y mae cryn ddryswch ynglŷn â'r engrafiad sydd o dan sylw oherwydd i Fuseli greu mwy nag un

darlun i ddisgrifio'r un pwnc neu olygfa, gan gynnwys yr un y sonnir amdano. Hefyd, ymddengys i wahanol engrafwyr fynd ati i ailgynhyrchu yr un darlun.

Fodd bynnag, i daflu rhywfaint o oleuni ar y dirgelwch, wele rywfaint o'i hanes. Ei deitl cywir yw 'The Three Witches' (1783) a darlunia ran o Act 1, Golygfa 3 yn nrama *Macbeth* William Shakespeare. Yno, daw Macbeth a Banquo ar draws y tair gwraich ar y rhostir:

Banquo: ...What are these,
So wither'd and so wild in their attire,
That look not like th'inhabitants o' the earth,
And yet are on't? Live you? or are you aught
That man may question? You seem to understand me,
By each at once her choppy finger laying
Upon her skinny lips:— you should be women,
And yet your beards forbid me to interpret
That you are so.¹¹²

Ymddengys fod llun Fuesli yn un poblogaidd iawn a chafwyd parodi arno, sef 'Wierd Sisters; Minister's of Darkness; Minions of the Moon', gan y gwawdluniwr enwog, James Gillray, yn 1791. Y mae'n amlwg fod Parry-Williams wedi synhwyro naws dywyll y llun oherwydd iddo ddefnyddio'r geiriau, 'ystremp y gelfyddyd ddu' a 'nigromans annuwiol', ar ddiwedd yr ysgrif. Hefyd, diddorol yw danganfod cysylltiad rhwng y motiff yn y llun, y *Death's-head Hawk moth* (*Acherontia atropos*), neu,

chwedl Parry–Williams, ‘pryf ffaidd’...‘na phoenwyd erioed gan galon’, a’r ffaith i Fuseli ddefnyddio motiffau eraill yn ei luniau, fel incubi.

‘*Incubus*’¹¹³ oedd enw’r ysgrif wreiddiol yn Saesneg gan Parry–Williams, ac mae *incubus* a bwrn yn gyfystyr. Cwyn y bardd–lenor yw’r pwysau a roddir arno o hir hanner–ymgyfarwyddo â’r llun llonydd; *immote* ac *immortal* yw’r disgrifiad ohono yn yr ysgrif Saesneg.

Oherwydd ei fanifesto personol ar lenydd, ynghyd â’i anwadalwch, sylweddolir nad oes modd adnabod meddwl Parry–Williams fel bardd–lenor nac fel dyn. Y mae cân ysbrydoledig yn ddirgelwch llwyr i’r bardd ei hun – bodola ‘fflachiadau o’r gwir’ a ‘phrofiadau munud awr’ ochr yn ochr â ‘gwirionedd llenyddol’; y mae ddiffuantrwydd y rhain yn hanfodol i lenor; nid ystyr gyffredin sydd i eiriau bob amser mewn barddoniaeth; defnyddir geiriau yn fwriadol i swyno ac ni ddylid eu dadansoddi a’u malu yn ddarnau; ni ddylai dyn ddefnyddio barddoniaeth i wyntyllu ei athrawiaethau, ac atalia Parry–Williams rhag lleisio barn bersonol drwy arddel anymyrraeth. Ymhellach, cyfiawnha ei ymarfer o’i led–guddio ei hun fel ysgrifwr. Tybed a barhaodd ei gred ‘munud awr’ yn y syniad y dylai pobl ddeall meddyliau’r bardd? Ai tybed a fwynhâi chwarae mig ag ef ei hun a’i gynulleidfa?

Yn y bennod nesaf, ceir golwg ar ei anwadalwch unwaith yn rhagor
wrth iddo chwarae mig ag ef ei hun ar deithiau pell i America.

NODIADAU

PENNOD 2

MALU A CHWALU

- 1 LIGC, THPW, N 17.
- 2 *Olion* (Gwasg Aberystwyth, 1935; ail arg. 1959), 51–2.
- 3 ‘Dylanwadau’, (BBC Cymru 1960), LIGC, Casgliad Aneirin Talfan Davies; Llion Jones, *Agweddau ar Waith T. H. Parry–Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth 1993, 522.
- 4 ‘Ymwelydd’, *Cerddi* (Gwasg Aberystwyth, 1931; 3ydd arg. 1954), 55.
- 5 ‘Dychwelyd’, *ibid.* 57.
- 6 *Synfyfyrion* (Gwasg Aberystwyth, 1937; arg. 1af, 1937), 32.
- 7 *Elfennau Barddoniaeth* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1935; ail arg. 1936), 84.
- 8 William Wordsworth, ‘The Tables Turned’, *The Works of William Wordsworth* (Wordsworth Editions Ltd., Ware, Hertfordshire, 1994), 481.
- 9 *Pensynnu* (Gwasg Gomer, 1966; arg. 1af, 1966), 45.
- 10 *Cerddi*, 17.
- 11 *Pensynnu*, 81.
- 12 *Ibid.* 78.
- 13 *Olion*, 55.
- 14 *Pensynnu*, 89.
- 15 *Ysgrifau*, (Foyle’s Welsh Depôt, Llundain, 1928; arg. 1af, 1928), 77.
- 16 *Synfyfyrion*, 57.
- 17 *Pensynnu*, 20.
- 18 Gomer M. Roberts, ‘Rhai o Brofiadau’r Diwygiad’, *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904–1905*, gol. Sidney Evans a Gomer M. Roberts (Llyfrfa’r Methodistiaid Calfinaidd, Caernarfon, 1954), 64.

- 19 *Credoau y Byd*, gol. Y Parch R. E. Williams, Beaumaris (A. Fullarton a'i Gym., Edinburgh, dim dyddiad cyhoeddi), 271.
- 20 LIGC, THPW, CH 130.
- 21 *Coleridge Biographia Literaria Chapters 1–1V, XIV–XX11 Wordsworth Prefaces and Essays on Poetry 1800–1815*, ed. George Sampson (Cambridge University Press, 1920).
- 22 *Ibid.* 151.
- 23 *Ibid.* 215.
- 24 *Cerddi*, 18–20.
- 25 *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Bangor*, 1915, 14–26.
- 26 Llythyr T. H. Parry–Williams at y 'Ford Gron', Manceinion (1928); *Agweddau ar Waith T. H. Parry–Williams*, traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 497–8.
- 27 *Y Wawr*, Cyf. 1V, Rhif 2, 42–3; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 150–1.
- 28 *Ibid.* 43–4; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 151–2.
- 29 *Ibid.* 45; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 153.
- 30 *The Greal*, VI111, 23 Tachwedd 1914, 24.
- 31 *Cerddi*, 41.
- 32 'Dychymyg Mewn Barddoniaeth', *Efrydiau Athronyddol*, XV, 1952, 4.
- 33 *Cerddi*, 15–17.
- 34 *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (Evan Thomas, Bangor, 1914), 167–170.
- 35 *Elfennau Barddoniaeth*, 1.
- 36 *Y Brython*, 9 Tachwedd 1911; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 481–3.
- 37 *The Rubáiyát of Omar Khayyám*, translated by Edward J. Fitzgerald (Airmont Publishing Company, Inc., New York, 1970), 72.
- 38 Ceir cyfeiriad at y dywediad hwn ar y wefan, www.congregationalist.org./Archivesold/Jan-March_04/Bultman/prelude_to_100.html
- 39 George Sampson (ed.), *Coleridge Biographia Literaria, Chapters 1–1V, XIV–XX11; Wordsworth Prefaces and Essays on Poetry, 1800–1815*, (Cambridge University Press, London, 1920), 61.

- 40 *Elfennau Barddoniaeth*, 1–2.
- 41 *Ymhél â Phrydyddu* (The British Broadcasting Corporation, London, 1958), 9–10.
- 42 ‘Dychymyg Mewn Barddoniaeth’, *Efrydiau Athronyddol*, XV, 1952, 8.
- 43 *Elfennau Barddoniaeth*, 5–6.
- 44 LIGC, TPHW, N 16.
- 45 *Pensynnu*, 13–21.
- 46 LIGC, THPW, E 15/1.
- 47 LIGC, THPW, FF 12.
- 48 Am wybodaeth am Madame du Deffand, gweler gwefan www.infoplease.com/ce6/people/AO816234.html.
- 49 ‘Geiriau’, *Lloffion* (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1942; ail arg. 1947), 55–6.
- 50 John Rowlands, ‘Cipolwg ar Waith T. H. Parry-Williams’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1987, 157.
- 51 *The Grail*, V, 14 November 1911, 12.
- 52 *Elfennau Barddoniaeth*, 84.
- 53 LIGC, THPW, N 16.
- 54 *Ibid.*
- 55 ‘Snowdonia’, *The Dragon*, XXX, 5 May 1908, 228–30; D. Islwyn Edwards, *Agweddau ar foderniaeth yng ngweithiau T. H. Parry-Williams, gan fwrw golwg ar ei gefndir personol a llenyddol, ac ar foderniaeth fel mudiad*, traethawd M.A., Llanbedr-Pont-Steffan, 1982, 8–12.
- 56 *Ibid.* traethawd M.A. D. Islwyn Edwards, 1982, 10.
- 57 *Cerddi*, 56.
- 58 *Ibid.* 55.
- 59 LIGC, THPW, A 174.
- 60 Meredydd Evans, ‘Rhai Elfennau Crefyddol yng Ngwaith T.H. Parry-Williams’, *Ysgrifau Beirniadol* X1, gol. J. E. Caerwyn Williams, Dinbych, 1979, 230.
- 61 Gwyn Erfyl, ‘Gair am Syr Tomos’, *Taliesin* 34, Gorffennaf 1977, 71.
- 62 LIGC, THPW, CH 408.
- 63 LIGC, THPW, CH 411.
- 64 LIGC, THPW, CH 130.

- 65 LIGC, THPW, CH 42.
- 66 John Rowlands, 'Cipolwg ar Waith T. H. Parry-Williams', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1987, 155.
- 67 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 528.
- 68 *Lloffion*, 85.
- 69 'Dylanwadau', 525.
- 70 *Synfyfyrion*, 16-17.
- 71 'Here and There in Welsh Poetry' 'III. Modern Calls', *Wales*, 1 January 1913, 29; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 59.
- 72 'Y Fran, yr Eos, a'r Niwl' (sic), *Y Wawr*, Cyf. I, Rhif 1, Gaeaf 1913, 15; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 56.
- 73 'Antur Llen' (sic), *Y Traethodydd*, Hydref 1915, 300; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 114.
- 74 *Synfyfyrion*, 13.
- 75 *Lloffion*, 80-1.
- 76 F. H. Bradley, *Appearance and Reality* (1893) (10th impression 1946, Clarendon Press, Oxford), 218.
- 77 *Cerddi*, 39.
- 78 *Synfyfyrion*, 87.
- 79 Dyfnallt Morgan, *Rhyw Hanner Ieuencid* (Gwasg John Penry, Abertawe, 1971).
- 80 Euros Bowen, *Porfeydd*, Cyf. 4, Rhif 3, Mai/Mehefin, 1972, 67.
- 81 Saunders Lewis, *An Introduction to Contemporary Welsh Literature* (Hughes, Wrexham, 1926), 10-11.
- 82 *Olion*, 55.
- 83 John Rowlands, "'Wêr-an-Têr": Agwedd ar Waith T. H. Parry-Williams', *Ysgrifau Beirniadol* VII, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1972), 171.
- 84 Dafydd Glyn Jones, 'Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams a Samuel Beckett', *Ysgrifau Beirniadol* II, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1966), 278.
- 85 *Lloffion*, 9-10.
- 86 *Olion*, 51.
- 87 'The Poetry of W. B. Yeats', *The Dragon*, Vol. XXXVIII, February 1916, 137; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 118.

- 88 John Rowlands, 'Cipolwg ar Waith T. H. Parry-Williams', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1987, 153-175.
- 89 LIGC, THPW, N 3.
- 90 'The Poetry of W. B. Yeats', *The Dragon*, Vol. XXXVIII, February 1916, 138; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 119.
- 91 John Gwilym Jones, 'Yr Ysgrifau', *Cyfrol Deyrnged Syr Thomas Parry-Williams*, gol. Idris Foster, (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1967), 42.
- 92 J. Breese Davies, 'Yr Ysgrif', *Yr Eurgrawn*, cxxiii, 54.
- 93 'Darnau', *Olion*, 19.
- 94 'Ar Encil', *Myfyrdodau* (Gwasg Aberystwyth, 1957; arg. 1af, 1957), 61.
- 95 'Rhew', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau*, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984; arg. 1af, 1984), 197.
- 96 'Pendraphendod', *Pensynnu*, 45.
- 97 'Geiriau', *Lloffion*, 52.
- 98 *Who Said What* ed, John Daintith et al. (Chancellor Press, London, 1993), 176; first British edition published in 1988 by Bloomsbury Publishing Limited under the title *Who Said What When*.)
- 99 J. M. and M. J. Cohen, *The Penguin Dictionary of Quotations*, 1960, 8th edition, 1971, (Penguin Books Ltd., Middlesex, Ltd.), 407.
- 100 *Ibid.* 362.
- 101 'Mr. Tompkins a Minnau', *Casgliad o Ysgrifau*, 1984, 410-1.
- 102 'Dyddiau Ein Blynyddoedd', *ibid.* 415.
- 103 'Prynu Caneri', *Olion*, 41.
- 104 'Y Llyfr Lòg', *Lloffion*, 10.
- 105 'Tywod', *Ysgrifau*, 46.
- 106 'Archoffeiriad', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau*, (1984), 225.
- 107 'Yr Ias', *Ysgrifau*, 30.
- 108 'Bwrn', *Olion*, 13.
- 109 LIGC, THPW, N 20.
- 110 Meredydd Evans, 'Rhai Elfennau Crefyddol yng Ngwaith T. H. Parry-Williams', *Ysgrifau Beirniadol XI*, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych 1979), 236-238.

- ¹¹¹ Rudolf Otto, *The Idea of the Holy* (first published in 1917; published in Pelican/Penguin Books, 1959, translated by John W. Harvey).
- ¹¹² *The Illustrated Stratford Shakespeare* (Chancellor Press, 1982, reprinted 1983, 1984), 77.
- ¹¹³ Ceir yr ysgrif hon yn *The University of Wales Magazine*, 1928, Aberystwyth, ed. Maldwyn D. Davies and Muriel F. Jolliff (printed by The Cambrian News [Aberystwyth] Ltd.), 13-14.

PENNOD 3

'GWELD Y BYD'?

Yn y bennod hon, ceisir darlunio ymdrech Parry-Williams i ddod i delerau â'i natur bruddglwyfus gynhenid a'i anwadalwch meddwl gan wneud defnydd helaeth o'r dyddlyfr a ysgrifennodd ar ei fordaith i Dde America yn 1925¹ a thrwy gael cipolwg ar gynnwys ei ddyddlyfr am 1935 yn ystod ei fordaith i Ogledd America.² Hefyd, trafodir agweddau ar ei fywyd a effeithiodd fwyfwy ar ei bersonoliaeth hydeiml a theimladwy.

Amlygir sawl pwnc yn eglur yng ngwaith Parry-Williams gan gynnwys llenyddiaeth, crefydd, seicoleg, y byd ysbrydol, gwyddoniaeth ac ofergoeliaeth a chysylltiad agos rhwng rhai ohonynt a'i gilydd, o'u trafod yn llawn. Adlewyrchir y diddordebau hyn yn ei ddewis o lyfrau lle y ceir, ymhlith y cannoedd sydd yn ei gasgliad personol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ac ar wahân i lyfrau ieithyddol a llenyddol, rai llyfrau gan awduron megis Emanuel Swedenborg, y Parchedig R. J. Campbell, Thomas Henry Huxley, Ernst Haeckel, Oliver Lodge, Charles Darwin, Albert Einstein, Alfred North Whitehead, James

Jeans, Sigmund Freud a Julian Huxley. Buddiol fyddai rhestru rhai llyfrau gan awduron eraill, hefyd, megis *Traethawd ar Drefn Wyddonol* gan D. Miall Edwards, sef cyfieithiad o *Discours de la Methode* (1637) yr athronydd René Descartes; *St. Thomas Aquinas* gan G. K. Chesterton; *William Blake* gan J. Brownowski; *The Doors of Perception* gan Aldous Huxley; *Psycho-analysis* gan Ernest Jones; *The Evolution of the Idea of God* gan Grant Allen; *Ecce Homo* gan J. R. Seeley, sef hanes bywyd a gwaith Iesu Grist; *Limitations of Science* gan J. W. N. Sullivan; *Gweithiau Morgan Llwyd* gan Thomas C. Ellis; *An Agnostic's Apology* gan Leslie Stephen; *Williams Pantycelyn* gan Saunders Lewis ac *Existentialist Thought* gan Grimsley. Y mae'n ddiddorol, yn y fan hon, ychwanegu *Intimacy a Words* gan Jean Paul Sartre a *The Trial* gan Franz Kafka – dau awdur dirfodol y gwelodd rhai beirniaid gyffelybiaeth rhwng naws eu gwaith hwy a chynnyrch llenyddol Parry–Williams. Gellir gwerthfawrogi iddo sugno nifer helaeth o syniadau drwy ddarllen mor eang ac adlewyrchir hynny yn glir yn ei weithiau.

Natur ei bersonoliaeth

Gwelir, felly, mai Bywyd, gyda phrif lythyren, yn ei amryfal agweddau, oedd prif ddiddordeb y bardd–lenor o Ryd–ddu, yn enwedig cyflwr

truenus yr unigolyn ar y ddaear hon. Er mwyn ceisio deall ei waith yn well, buddiol fyddai dechrau trwy sylwi ar natur ei bersonoliaeth a'i agwedd gysefin waelodol. Oblegid, ar y cyfan, llenor pesimistaidd oedd Parry-Williams. Fodd bynnag, nid fel pesimist pur y'i disgrifiai ei hun, oherwydd fel hyn y disgrifiodd droeon ei yrfa mewn cyfweliad ag Aneirin

Talfan Davies:

... Llawer iawn o fwynhad, a llawer iawn o ofid hefyd.

Mae'r ddau erbyn hyn yn angerddoli'i gilydd ond ydyn nhw; bron na fedrwch chi ddweud na fedrwch chi ddim cael y melys heb y chwerw, ac mae'r naill yn rhoi blas, neu fin ar y llall. Ac 'rwy' i'n credu mai rhyw hanner yn hanner, felna, mae hi wedi bod, fel ym mywyd pawb arall, ac ar y cyfan, at ei gilydd mi fuaswn i'n dweud mod i wedi cael bywyd digon hyfryd, er waethaf llawer cnoc a ges i ar fy nhaith, ond 'rwy'n credu mod i wedi mwynhau bywyd yn bur drwyadl ar y cyfan.³

Yn ei ysgrif, 'Ar Gyfeiliorn', ceir un dyfyniad dadlennol iawn o'r athroniaeth bywyd y gellir tybied ei fod yn ei harddel: 'Y mae pob dyn dall yn *optimist*: gwyn ei fyd y *pessimist*.'⁴ Awgryma'r gosodiad yn gryf y gall y pesimist, o fyfyrion ddwys, weld a sylweddoli yr hyn na all yr optimist dall fyth mo'i weld. A pha un o lenorion mawr Cymru yn yr ugeinfed ganrif a ymroes gymaint i'r gorchwyl hwnnw â Parry-Williams? Ond sylweddoli beth? Sylweddoli mai 'gwagedd o wagedd' yw bywyd –

gweledigaeth a gafodd 'y llall', efallai, yn ôl Parry-Williams yn ei ysgrif, 'Y Naill a'r Llall': 'Neu a oedd ef, y gweledydd, o'r diwedd wedi ei lethu'n llwyr gan hunllef drom gofid y byd ac oferedd dybryd ymgais dyn?'⁵ Ac onid naws hollol seithug a geir ar ddiwedd yr ysgrif, 'Y Drefn', ganddo hefyd?:

Ac wedi'r holl fyfyrion a darllen a dadlau am 'gweryl y bydysawd' ac am ddyrys droeon dyn ar ei yrfa dywyll igamogam o'i grud i'w fedd, nid oes gennyf ddim doethach na dysgedicach i'w ddweud (pan na bo hi'n demtasiwn i ddweud 'Rhys Wiliam') na sylw'r wraig addfwyn a hirben honno, 'Trefn ydyw hi.'⁶

Yr un feddylfryd a berthynai i Omar Khayyâm, y bardd-seryddwr o Bersia (1000 O.C. i 1100 O.C.), ynglŷn â chweryl y bydysawd. Credai ef, fel Parry-Williams, mewn tynged ddiwrthdro, ond i Khayyâm, fel Epiciwriad, arddel pleser munud awr fel ateb:

But leave the Wise to wrangle, and with me
The Quarrel of the Universe let be:
And, in some corner of the Hubbub coucht,
Make Game of that which makes as much of Thee.⁷

Ymddengys, o ddarllen gwaith Parry-Williams, mai ychydig iawn o brofiadau munud awr a brofodd ar hyd ei oes; ceisio ail-fyw y rheini oedd ei orchwyl, boed hwy'n ddigwyddiadau pob dydd fel boddi cath: '...un waith y boddir cath. Unwaith. Nid oes eilwaith',⁸ neu'n bethau

mawr fel byw a marw. Ond er i Parry–Williams wynfydu gallu'r pesimist i durio at wirioneddau bywyd, ni ddaw ond gwae i'w ganlyn, yn ôl ei soned, 'Paradwys', ac felly, ymdroi at ddellni'r optimist fyddai orau, oherwydd: 'Nid oes paradwys fel paradwys ffŵl.'⁹ Dyna a ddywedodd y bardd, Thomas Gray, hefyd: *'Thought would destroy their paradise./ No more; where ignorance is bliss,/ 'Tis folly to be wise.'*¹⁰ A chafwyd yr un olygwedd gan y bardd, Matthew Prior: *'From ignorance our comfort flows' / The only wretched are the wise.'*¹¹ Dilyna 'Paradwys' yr un athrawiaeth ag a geir yn Llyfr Y Pregethwr yn y Beibl:

Ni roddes Duw i'r doeth ddim namyn gwae
O wybod dyrys ffyrdd ei arfaeth Ef
A dysgu canfod bywyd fel y mae –
Y gweld sy'n gwneuthur uffern o bob nef;
(‘Paradwys’)

Ac a roddais fy mryd ar geisio a chwilio trwy
ddoethineb, am bob peth a wnaed dan y nefoedd: y
llafur blin yma a roddes Duw ar feibion dynion i
ymguro ynddo.
(Preg. 1:13)

Mi a welais yr holl weithredoedd a wnaed dan
haul; ac wele, gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y
cwbl.
(Preg. 1:14)

Canys mewn llawer o ddoethineb y mae llawer o
ddig: a'r neb a chwanego wybodaeth, a chwanega

ofid.

(Preg. 1:18)

... nid oes diben ar wneuthur llyfrau lawer, a darllen llawer sydd flinder i'r cnawd.

(Preg. 12:12)

Yn ei ysgrif, 'Hafod Lwyfog', wele gyfaddefiad agored o'r ymwacâd iachus a gafodd Parry-Williams unwaith wrth iddo fwynhau bywyd awyr agored yn ei hen gynefin:

Mynd i Hafod Lwyfog a wneuthum yr adeg honno ...
i beidio â meddwl na myfyrio nac ysgrifennu ...Mi
anghofiais lyfrau ac ysgrifennu a phethau
'diwylliedig' felly; ... Byddwn yn dychryn wrth
feddwl i mi yn y blynyddoedd cyn hynny dreulio
cymaint o'm hamser yn mwydro fy mhen gydag
astudiaethau o bob math – o Sanscrit i seineg, ac
o 'ffiloleg' i ffiseg; a gwaeth hyd yn oed na
hynny, treulio blynyddoedd i fyfyrio ac i
lenyddu, i gasglu a pharatoi rhyw fath o stwff at
ei gyhoeddi'n llyfrau. Dyna ffŵl oeddwn wedi
bod.¹²

Yn ddiau, y mwydro pen 'gydag astudiaethau o bob math' oedd yn gyfrifol, i raddau helaeth iawn am yr anwadalwch meddwl a geir yn ei weithiau, ac nid yw'n rhyfedd o gwbl iddo lawenhau yn nychweliad ei enaid at ei briod anianawd cyntefig, pan gawsai ymollwng i weithio â'i gorff yn hytrach na chyda'i feddwl. Sylwer ar frathiad y gair, 'diwylliedig'. Er i John Rowlands, yn hollol gywir, briodoli meddylfryd

Parry–Williams i '(b)rofiad yr ugeinfed ganrif o edrych ar fodolaeth yn ei noethni, a hynny heb wybod o ba gyfeiriad i edrych, nes bod rhaid edrych o bob cyfeiriad ...'¹³, y mae'n rhaid ychwanegu i bersonoliaeth Parry–Williams gael ei hysgubo ymaith i bwl anobaith profiadau personol. Tebyg iawn yw casgliad Dafydd Glyn Jones yntau wrth iddo ddarganfod cyfochredd rhwng golygwedd besimistaidd Parry–Williams ar fywyd a chynnyrch llenyddol 'theatr yr abs wrd', sef seithugrwydd yn wyneb argyfwng gwacter ystyr yr oes fodern, fel y'i portreadir gan Samuel Beckett.¹⁴ A'r un modd eto, gwêl R. M. Jones rywbeth mwy na sinigrwydd munud awr yng ngweithiau'r bardd–lenor o Ryd–ddu oherwydd gesyd yntau Parry–Williams yn yr un cwch ag un pesimistaidd gwacter ystyr yr oes.¹⁵

Gellir dyfalu bod golygwedd dywyll T. H. Parry–Williams ar fywyd yn ffrwyth cyfuniad ei natur bruddglwyfus gynhenid ei hun, profiadau personol brawychus a hefyd ysbryd yr oes y magwyd ef ynddi.

Gan hynny, y mae'n arwyddocaol i'w bererindod fyfyrionol gychwyn ar nodyn nacaol:

...yr ysgytwad mawr aruthrol cynta' ges i yn fy mywyd oedd yr ymdeimlad o hiraeth aruthrol fel yna pan es i oddi cartref am y tro cyntaf.¹⁶

Ac eto:

Ni buaswn wedi mynd ymhell oddi cartref i'r ysgol, na than orthrech hiraeth wedi dechrau synfyfyrion a brydio yn rhy gynnar o lawer.¹⁷

Dyma gyfeiriad at y rhwyg ingol a ddaeth i'w ran yn ddeuddeg oed pan orfu iddo fynd o Ryd-ddu i'r ysgol fawr ym Mhorthmadog am chwe blynedd, gan letya mewn gwahanol dai lojin yn y dref honno drwy'r flwyddyn, ac eithrio amser gwyliau, pan ddychwelai adref. Parodd hyn iddo nefoleiddio ei hen fro fyth wedyn er iddo dystio nad oedd ynddi ddinas barhaus.

Fodd bynnag, serch iddo gyfaddef na roddai'r byd am ei hiraeth am gartref, y mae lle i gredu, o ddarllen rhwng y llinellau, mai perthynas chwerw-felys a fodolai rhyngddo ef ac aelwyd Tŷ'r Ysgol yn Rhyd-ddu ar adegau, a hynny'n bennaf oherwydd rhyw barchedig ofn at ei dad.

Synhwyrir mai personoliaeth rwystredig dawedog 'adyn ar gyfeiliorn' oedd un T. H. Parry-Williams a daw hyn i'r fei mewn amryfal ffyrdd. Er iddo feio penderfyniad ei dad o wrthod swydd mewn ardal wahanol ar 'Y Drefn'¹⁸ yn ei ysgrif o'r un enw, dywed na fyddai ef ei hun wedi gorfod mynd ymhell oddi cartref i'r ysgol pe na bai ei dad wedi gwrthod yr

apwyntiad a gynigiwyd iddo; gallasai cwrs bywyd y bachgen bach fod yn hollol wahanol. Ond, er i Parry–Williams ddweud wrth Aneirin Talfan Davies mai brawd arall oedd ffefryn ei fam, synia ei fod yn dipyn o ffefryn gan ei dad oherwydd mai ef oedd y mab hynaf, a hwnnw'n disgwyl pethau mawr oddi wrtho oherwydd hynny.¹⁹ Yr oedd ei dad am i Parry–Williams wneud yn fawr o unrhyw gyfle academaidd a gâi oherwydd nad oedd ef ei hun wedi bod mor ffodus: 'Ac 'roedd fy nhad yn naturiol iawn – fi oedd yr ail o chwech o blant – am i mi fod yn dipyn o 'sglaig, fel bydda nhw'n dweud.'²⁰ Gwelwyd, yn y bennod gyntaf, gymaint a aberthodd Henry Parry–Williams dros fyd addysg, a weddnewidiwyd o ganlyniad i Ddeddf Addysg 1870, gan ddioddef dirmyg ac erledigaeth.²¹ A sylwyd, hefyd, ar ei ochr dyner yn ei gerdd, 'My brother' (sic).²²

Gellid tybied mai trafodaeth ysgafn ar ei blentyndod yw cerdd Henry Parry–Williams²³ ond yr hyn sydd yn arwyddocaol yw'r ffaith iddo ysgrifennu '*literarily true*' ar ochr y ddalen lle y tanlinellodd y gair, '*parents*'. Beth a olyga hyn? A oedd wedi drysu rhwng ystyron '*literally*' (yn llythrennol) a '*literarily*' (yn llenyddol) ynteu a oedd yn lled–guddio ei wir feddyliau yn ei weithiau barddonol? Ymddengys mai pwnc sensitif

oedd rhieni iddo ef, fel i'w fab hynaf hefyd, o weld iddo ddatgan yn ddibetrus na châi sylw gan y bechgyn chwareus. Pwynt arall diddorol yw'r ffaith iddo, efallai, dymheru ei osodiadau os ystyr lythrennol, ac nid ystyr lenyddol, oedd i'r geiriau. Ond sut yr oedd ei ddarllenwyr i wybod hynny? Pe cyhoeddasid y gerdd, ni fyddai pwysleisio'r gair '*parents*' yn addas, rywfodd, ac felly, y mae'n rhaid wynebu'r posibilrwydd mai ystyr lythrennol sydd i'r gair! Efallai iddo yntau, fel ei fab, gael profiadau munud awr wrth lenyddu – profiadau a oedd yn wirionedd dros dro tra parhaent.

O ddarllen gwaith a phapurau personol T. H. Parry-Williams, y mae lle i gredu ei fod â'i fryd ar fod yn feddyg er pan oedd yn weddol ifanc.

Ymddengys i'w brifathro ym Mhorthmadog gredu'n llwyr mai astudio'r gwyddorau y byddai ar ôl gadael yr ysgol. Ond yr oedd llwybr bywyd Parry-Williams eisoes wedi ei benderfynu gan ei dad, gyda phob math o drefniadau wedi eu gwneud ar ei gyfer i sicrhau ei ofalaeth dan adain Edward Anwyl yn Aberystwyth, Rudolf Thurneysen yn Freiburg a Joseph Vendryes a Joseph Loth ym Mharis. Yn ôl dyddiadur T. H. Parry-Williams, yr oedd ef ac Edward Anwyl yn teithio yn yr un cerbyd trên o Borthmadog i Aberystwyth ar ei ddiwrnod cyntaf yn y Brifysgol yn y dref

honno,²⁴ a buont yn gyfeillion mynwesol hyd at farwolaeth annhymig Anwyl yn 1914. Teimlodd Parry–Williams y golled i'r byw, fel y tystia ei soned Saesneg, 'Anwyl'.²⁵ Sonia amdano, hefyd, yn ei ysgrif, 'Criafol', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd yr un flwyddyn. Cyfeiriad at y drin ar y Cyfandir ym mis Awst a phroffwydoliaeth Natur yw'r brif genadwri, ond cynrychiolai'r criafol ofid arall ym mron Parry–Williams:

Yr haf coch rhyfedd hwn profais hefyd unpeth arall i'r byw trwy liw'r criafol. Gwyddwn ddiflannu o'r ddaear ac i'r ddaear un a fu'n athro a chyfaill imi; ond er ei fod yn naear y Dehau, yn lliw'r grawn ar lechwedd un o fryniau Arfon y profais boen miniog sylweddoli'r gwir (nid du mo liw angau i mi). Gofid ennyd oedd, ond gofid enbyd. Nid bob dydd na phob mis y'i sylweddolir, ond gwae'r galon yr ennyd y daw. A gwyn ein byd, fyrred y gofid gwir!²⁶

Ond hirhoedlog fu'r galaru oherwydd bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ceir cofnod o fwriad Parry–Williams i ymweld â bedd ei gyfaill ym Mhontypridd.²⁷ Yr oedd y ddau ieithydd Ewropeaidd, Rudolph Thurneysen a Joseph Vendryes, yn ffrindiau agos i Henry Parry–Williams drwy eu hymweliadau ag Athrofa Geltaidd Rhyd-ddu yn Nhŷ'r Ysgol, lle y cynhaliai'r tad ddosbarthiadau Cymraeg hollgynhwysfawr. Y mae'n werth nodi, hefyd, i Parry–Williams deimlo'n wrthodedig pan wfftiodd ei

dad ei ymdrech farddonol a yrrodd adref o Borthmadog, gan ddweud wrtho beidio â chyboli â chynhyrchion o'r fel a'i annog i ddechrau astudio gweithiau'r beirdd mawr.²⁸ Yn ôl un aelod o deulu Parry-Williams, yr oedd Henry Parry-Williams eisiau i'w fab astudio'r clasuron. Cystal nodi yn y fan hon i Parry-Williams gynnig am ' "The Newdigate" English Verse Prize Competition' yn ystod sesiwn 1909-10 tra oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg yr Iesu Rydychen. Cyfansoddodd ei gerdd, 'Atlantis', a oedd bron yn 300 llinell, a'i chyflwyno o dan y ffugenw, Hesperus. Cerdd glasurol ydyw ac y mae'n llawn o gyfeiriadau hen chwedloniaeth Gwlad Groeg. Aflwyddiannus fu'r cynnig, gwaetha'r modd, ac ni chafodd y gerdd erioed ei chyhoeddi. Fodd bynnag, rhoddir darn bychan iawn ohoni yma er mwyn ei blasu:

O for a braver heart to end my tale,
A sterner spirit, that were loth to fail
An aged priest in his unpleasant task!
The mournful muse of Hellas' tragic mask,
Melpomene herself, would quail to tell
How this fair paradise was turned to hell.²⁹

Enillwyd y wobr hon gan Oscar Wilde yn 1878 gyda'i gerdd, 'Ravenna', tra oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg Magdalen Rhydychen.

Cyfrol o ganiadau Ceiriog, yr aeth T. H. Parry-Williams â hi gydag ef i Borthmadog, a barodd iddo ddechrau ymhél â phrydyddu. Datgelodd i'w hiraeth am gartref ennyn ynddo ryw gyffro awenyddol a barodd iddo ysgrifennu barddoniaeth ac i'r hiraeth ddatblygu i fod yn 'hiraeth mwy cyffredinol, yn gydymdeimlad, yn dosturi, yn rhyw gydymdeimlad â dyn a'i dynged yn gyffredinol.'³⁰ Dyma ddarganfod felly, yn ddigamsyniol, ffynhonnell ei gred mai drwy dreiddio i'r adnabyddiaeth ohono'i hun yr enynnwyd ei ymuniaethu â dynoliaeth yn gyffredinol, fel y trafodwyd yn y bennod gyntaf.³¹

Adlewyrcha'r gred hon argyfwng gwacter ystyr yr ugeinfed ganrif wrth i ddyn deimlo'n ddiwreiddiau yn y byd, a darganfod diffyg pwrpas yn ei fywyd. Gwelwyd cyffelybiaeth rhwng gwaith Parry-Williams a Kafka ym mhennod un lle y dangoswyd eu teimladau wrth ddychwelyd adref.

Ni wyddys sut dderbyniad a gafodd sylwadau Saunders Lewis gan Parry-Williams wrth grybwyll fod gwaith y llenor o Ryd-ddu yn debyg i un Kafka.³² Yn sicr, ceir yng ngwaith y ddau ohonynt elfen gref o ddieithrwch, ofn ac euogrwydd, yn enwedig ofn awdurdod, yn achos Kafka. Ymddengys mai prif achos niwrosis Kafka oedd ymddygiad creulon ei dad tuag ato ers pan oedd yn fachgen ifanc ond ni ellir

cymharu amgylchiadau bywyd Parry–Williams parthed hyn. Digon yw dweud mai cymysgedd o barchedig ofn ac anwyldeb oedd teimladau Parry–Williams tuag at ei dad, tra casâi Kafka ei dad ef yn ddiymwad. Yma, da fyddai sylwi ar sonedau y tad a'r mab i'w gilydd. Fe'u cyfansoddwyd, yn ôl pob tebyg, tua'r flwyddyn 1919 ac ymddangosodd 'Father' yn y gyfrol, *'Sonnets'*, mewn argraffiad preifat yn 1932. Cystal nodi mai ond mewn ychydig bach o gopiâu o'r un gyfrol y ceir 'Son (A response)'. Dyma gerdd y mab i'r tad:

FATHER

You called a halt to Time when your young son
Began to climb the gradient of years:
You gave him of the wisdom you had won,
Fire for his hopes and courage for his fears.
And as you lived a second youth with him,
Boy with your boy, a father in disguise,
He learned to love you as a friend whose whim
Of metamorphosis could make him wise.
Thus, father, did we scale each separate hill,
Falling but seldom, glad, for we could see
Each summit in a rarer light, until,
As we climbed higher, higher, suddenly
Night came upon us. Yet shall we remain
Upon our peak till daylight dawn again.³³

A dyma ymateb y tad:

SON (A response)

Blessed of the gods, – Ceridwen kissed thy brow;
Joy of my youth, pride of declining years;
Son, brother, friend, united in thee now,
Will brace my senile brain, dispel my fears.
My simple self in thee shall live again
A thousand times more brilliant and divine;
Cleansed of the dross, bred in my bones of pain,
Ascend to giddier heights whilst I decline.
Then from the blue serene turn to reflect
How knaves and pigmies wallow in the mire
Of wordly pomp, deceit, and cold neglect
Of honour, – source of every base desire.
Too flexible to break, too proud to bend,
Too dignified to fawn, – await the end.

FATHER.³⁴

Hefyd, yr oedd yn meddwl y byd o'i fam a fu farw yn 1926, flwyddyn ar ôl iddo golli ei dad. Ceir soned iddi hithau yn yr un gyfrol, lle y dywed wrthi: 'Regret not that you bare a gloomy boy/ Whose fond success brought failure in its train.'³⁵ Yr oedd y profiad o'i cholli yn dal i fod yn amrwd iddo dair blynedd yn ddiweddarach. Y tu mewn i glawr cefn un o'i lyfrau personol ac yn ei lawysgrifen ei hun, gyda'r dyddiad, Mawrth 1929, ceir bras gopi o'i gerdd, 'Y Babi Mawr', lle y mae'n arllwys ei deimladau am y golled ac yntau'n sâl ar y pryd, yn ôl pob golwg. Y mae rhai o'r geiriau yn annarllenadwy, ond er hynny, gellir ymdeimlo â'r hiraeth angerddol:

Mae arnaf eisiau gweled mam
ac felly
(marw?) a mynd
(Nid rown?) am fynd i'w gweld hi
Ei gweld yn dod â'i (brysiog gam?)
I'r stafell wely lle'r wyf
deuddydd
Ers tridiau bellach ar fy hyd
a
Yn (?) (braidd ?). Mae (sŵn?) y byd
Yn bell. (Rhag cywilydd am fod yn wan ?)
Mae'n twllu (braidd ?) – a'r wig heb fflam –
O, m'arna i isio gweled 'mam.³⁶

Daeth cyfle Parry-Williams i dorri'n rhydd o'i 'dynged' yn 'Y Flwyddyn Honno',³⁷ sef 1919, pan ddigiodd yn llwyr wrth awdurdodau Prifysgol Cymru Aberystwyth oherwydd iddynt wrthod Cadair iddo yn Adran y Gymraeg. Ymgofrestrodd yn y Gyfadran Wyddoniaeth i ddilyn cwrs a fyddai'n sylfaen iddo i astudio meddygaeth. Enillodd Wobr Tom Jones mewn llawfeddygaeth a chael ei dderbyn i astudio'r pwnc hwnnw yn Ysbyty Barts yn Llundain.

Dyma, yn fras iawn, hanes yr helyntion a brofodd rhwng 1914 ac 1920 yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth. Yn ystod sesiwn 1914-15, fe'i poenid gan y ffaith mai darlithydd cynorthwyol a oedd yn gweithio o dan gytundeb blynyddol ydoedd. Yr un fyddai ei sefyllfa yn ystod y flwyddyn ganlynol, yn ogystal. Gan ei fod yn anfodlon â'r sefyllfa, penderfynodd

newid cwrs ei fywyd a throi at feddygaeth ond fe'i hataliwyd rhag gwneud hynny gan y coleg. Achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf wewyr calon iddo ac fe'i herlidiwyd yn ddirugaredd gan y coleg a thrigolion Aberystwyth oherwydd ei heddychiaeth. Cofrestrodd fel gwrthwynebydd cydwybodol yn 1917 a chafodd ganiatâd, mewn triwlynlys, i barhau â'i waith academaidd. Oherwydd ei heddychiaeth, gwrthododd y coleg Gadair iddo yn Adran y Gymraeg yn ystod ei flynyddoedd cynnar yno fel darlithydd, ond ar ôl hir ddisgwyl ac erledigaeth ffyrnig, derbyniodd Gadair yn 1920, pan lenwodd Gadair Edward Anwyl a oedd wedi bod yn wag ers 1914.³⁸

Datguddiwyd hydeimledd Parry-Williams yn gynnar yn ei fywyd, yn ôl pob golwg. Codwyd cryn gywilydd arno pan oedd yn safon tri neu bedwar yn ysgol Rhyd-ddu, yn ôl drafft o'i ddarllediad radio, 'Yn yr Ysgol'³⁹ yn 1964, pan y'i bychanwyd gan arolygwr ysgolion a'r athro o flaen y dosbarth oherwydd iddo gyfieithu'r gair '*page*' fel 'tudal' gan mai dyna yr oedd wedi ei weld mewn llyfrau Cymraeg uwchben rhifau tudalennau!

Fodd bynnag, yr oedd un wedd arall ar ei bersonoliaeth ynghlwm wrth ei sensitifrwydd a oedd i liwio ei olygwedd arbennig ar fywyd. Fe'i

Ilethid gan unigrwydd byth a beunydd, ac ategodd mai aros ym Mhorthmadog oedd yn gyfrifol am hynny gan iddo fynegi, wrth sôn am y cyfnod hwnnw, iddo gael ei osod ar wahân yn ifanc iawn. Soniodd R. Geraint Gruffydd unwaith i Parry-Williams fethu penderfynu ai derbyn y gwahoddiad a gawsai i agor ysgol uwchradd Porthmadog a ddylai ai peidio gan mor anhapus oedd ei atgofion am y lle hwnnw.⁴⁰ Er i Parry-Williams ddweud yn ei raglen deledu hunangofiannol, 'Pan Oeddwn Fachgen',⁴¹ iddo wneud tipyn o ffrindiau ym Mhorthmadog ac i bobl y tai lojin fod yn hynod o garedig tuag ato, dwysawyd ei natur ofnus, unig ac encilgar ar un achlysur arbennig o fewn ychydig wythnosau iddo gyrraedd y dref wrth i fechgyn addo dial arno am iddo fod mor feiddgar â derbyn eu her i ymosod ar fachgen yng nghowrt capel y Tabernacl. Ceisio gwneud hwyl am ei ben fel hogyn bach o'r wlad yr oeddent, yn ôl Parry-Williams, a bu'n trigo o dan y bygythiad am flynyddoedd lawer; yn ei ysgrif, 'Myfyrio Ofn',⁴² esbonia i'r digwyddiad glwyfo ei enaid, neu ei *psyche*, am gryn amser. Rhyfedd, felly, yw gweld llythyr oddi wrth W. H. Gibbon yn 1920 at Parry-Williams yn dweud ei fod yn credu iddo gyfarfod â Parry-Williams pan oedd hwnnw yn darlithio i'r Gymdeithas Lenyddol yn y Tabernacl ym Mhorthmadog rywbryd!⁴³ Cofiai John O.

John o Borthmadog weld ffigwr y bachgen bach o'r wlad yn treiglo'n feudwyaidd lawer tro i gyfeiriad y Traeth Mawr a'i wyneb tua Bwlch Aberglaslyn neu'r Gymwynas, fel y'i gelwid, pan oedd yn mynychu Ysgol Ganolradd Porthmadog, gan gymaint oedd ei hiraeth am gartref.⁴⁴ Wrth sôn am y ddwy ysgol yr aeth iddynt, gorffenna Parry-Williams ei ddrafft ar gyfer 'Yn yr Ysgol' â'r geiriau dadlennol hyn:

...Ac y mae'n siŵr gen i fod y pellter a'r gwahaniaeth rhwng y ddau le, a hefyd y gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy ysgol, wedi effeithio cryn lawer ar fy mywyd cynnar bachgennaidd i yn y cyfnod hwnnw: ac y mae peth o ôl hynny yn aros yn fy nghyfansoddiad i o hyd, 'r wy'n siŵr bron, -- er gwell neu er gwaeth.⁴⁵

Dyddlyfr Taith 1925

Ond, ychydig yn hŷn, da o beth, efallai, yw gallu dyfeisio hunandriniaeth seicolegol gadarnhaol ar rai adegau tywyll i leddfu poen teithiwr hiraethus ac unig ar y diwrnod cyntaf o'i daith i wlad bell, fel y dengys geiriau agoriadol dyddlyfr taith Parry-Williams ar 9 Gorffennaf, 1925:

Wel! Dyma fi wedi cychwyn ar y daith i Ddeheudir America. Y mae'n syn mor ddigynnwrf ydwyf o ran fy meddwl a'm teimlad ... Syn eto fel yr wyf yn gallu peidio â themlo llawer o hiraeth. Nid wyf yn ymroi iddo ... Heddiw yr wyf yn unig iawn -- ond yr wyf wedi arfer bod yn unig erioed. Credaf fy mod yn giamstar ar fod yn unig. Y mae yna gryn

nifer ar y bwrdd ond nid wyf wedi taro ar neb eto. Cymeraf bwyll ... Weithiau daw rhyw fflach o feddwl am fy rhieni – ond nid wyf am adael i'm teimladau fy llethu os gallaf beidio. Nid wyf wedi gadael i'm meddwl na'm teimlad weithio rhyw lawer eto; rhyw feddwl a theimlo yr wyf fel petawn ar ryw siwrnai fer gartref ar y tir, a gwell hynny efallai. Gyda llaw, gellais ymadael â chartref yn weddol ddibrofedigaeth: nid oedd fy nhad a'm mam na minnau, efallai, yn gadael i ni ein hunain sylweddoli fy mod yn mynd ymhell nac am gyhyd o amser. Enghraifft arall o'r bod yn ddidaro rhyfedd hwn! Nid wyf wedi wylo deigr yn eto, am a wn i. Nid edrychais yn hir ar fynyddoedd Eryri chwaith – rhag ofn i'r meddwl a'r teimlad ddechrau gweithio. Credaf i'r teimlad ryw ddechrau cynhyrfu ryw unwaith wrth edrych drwy'r gwydrau ar yr hen fynyddoedd. Yr wyf am geisio (am dipyn beth bynnag) beidio â'm cynhyrfu fy hun. Rhaid immi ymadael ag ysgrifennu rhag ofn wrth sôn amdano iddo ddyfod.⁴⁶

Pwy sydd yn ceisio twyllo pwy yn y fan hon, tybed? Cymerai 'fflachiau o'r gwir' eithriadol o rymus i argyhoeddi rhywun ei fod 'ar ryw siwrnai fer gartref ar y tir' yn Rhyd-ddu pan ydoedd, mewn gwirionedd, yn sicr a chyflym gilio o olwg mynyddoedd Eryri ar y llong R. M. S. Oropesa. Ac oni sylweddolai ei fod, wrth geisio peidio â meddwl am ei hiraeth am gartref, yn gwneud yr union beth yr un pryd? Ond, drannoeth, cryfheir ychydig ar y cynllun. Gadewir y gorffennol ar ôl yn drefnus yn y gorffennol. Sylwer, hefyd, fel y mae'r ffrwyno yn atal ysbrydoliaeth:

Bûm yn gorwedd am oriau heddyw yn y caban am nad oeddwn yn rhyw dda iawn – a bûm yn pensesynnu mwy na

mwy, ni wn yn iawn am beth. Yr wyf yn ceisio mynd ymlaen o ran fy meddwl: dyna'r plan gorau dan yr amgylchiadau, peidio â gadael i'r meddwl orffwys yn hir ar ddim. Oherwydd hyn a'r ffrwyno hwn ar y meddwl a'r teimlad nid wyf eto wedi cael ias o nwyd farddoni neu brydyddu. Mae'r unigrwydd o'm cwmpas o hyd ...⁴⁷

Drennydd, atega ei fod yn ddihiraeth am ei fod yn gofalu cadw'r teimlad hwnnw draw gan geisio byw yn y presennol a thraw yn y dyfodol. Erbyn hyn, fodd bynnag, y mae'n amlwg nad yw'r holl ffrwyno ar y meddwl a'r teimlad wedi ei lwyr amddifadu o ysbrydoliaeth farddonol, ac nid yw'n anodd dyfalu testun ei fyfyrdod:

Heddyw – dridiau ar ol (sic) y ffarwél –
Yn llonydd tu allan i La Rochelle.

Heno – hanner nos – dan y sêr
Cychwyn eilwaith am Santander.

Mae'r growd ar y dec yn canu'n llw,
Minnau'n eu plith, y llanc o Ryd Ddu.
canol

Nid oes arnaf hiraeth, – O Dduw, paham?
Nid yw fy nghalon am roddi llam.

Nid oes farddoniaeth mewn sêr na môr. (sic)
I mi ar y llong.

A newidiodd yr lôr
Fyfi'n rhywun arall cyn mynd i'r môr?⁴⁸

Yr ateb i'r cwestiwn olaf yw 'naddo', wrth gwrs. Gwelir yn syth, o ddarllen y llinell gyntaf mai'r un person sensitif ydyw o hyd, a'i holl feddylfryd, fel ag erioed, wedi ei ganoli ar y gorffennol. Hefyd, y mae cynnwys nodiadau ei ddyddlyfr, ar y cyfan, yn dadbrofi yr hyn a ddywed ar ddechrau'r pedwerydd cwpled. Er cymaint y ceisia ei argyhoeddi ei hun, nid yw wedi ei lwyr ymddihatru o'i hiraeth. Ond ar y llaw arall, a derbyn mai gwirionedd y funud a geir yn llinell cerdd Parry-Williams, gwelir bod absenoldeb hiraeth yn achosi euogrwydd. Ategir hyn yn ei ysgrif, 'Gweld y Gwynt', pan ddywed fod mynyddoedd Arfon yn ymddangos fel petaent yn cilio gyda gwg a'u bod wedi digio am iddo ymadael â hwynt: ' ... yr oedd euogrwydd fel sarff yn fy mynwes innau', meddai.⁴⁹ Canys yr oedd yr hen fynyddoedd wedi bod fel seintwar iddo bob amser pan oeddent o fewn cyrraedd, fel y mynegodd, hefyd, yn ei gerdd, 'Tynfa',⁵⁰ gan ddefnyddio'r gair grymus 'gwarchaeant'.

Ymddengys fod Parry-Williams yn teimlo'n rhy ddyledus i dirlun bro ei fachgendod i'w anwybyddu'n llwyr, fel yr oedd, hefyd, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, yn teimlo'n rhy ddyledus i'r grefydd Gristnogol, gyfundrefnol, a oedd yn gefndir i'w flynyddoedd cynnar, i'w hanwybyddu. Ond, yn awr, y mae'r ddolen hud yn dechrau llacio a'r

mynyddoedd ar fin gollwng eu gafael arno. Dyma gnewyllyn y cysylltiad cryf a welir rhwng myfyrdod y bardd a'i orffennol sydd yn britho ei weithiau. Fel y dywedodd, yr oedd ei hen fro yn 'gefndir fy myfyrdod i er fy ngwaethaf.'⁵¹

Gwadu Gwirioneddau

Y mae ceisio gwadu rhai gwirioneddau, boed fach neu fawr, diriaethol neu haniaethol, yn cael lle amlwg gan Parry-Williams oherwydd eu bod yn faen tramgwydd iddo rywfodd neu'i gilydd. A dyma, yn wir, yw'r hyn sydd yn peri'r elfen gref o dyndra ac amheuaeth a welir mor gyson yn ei waith. Ceir enghreifftiau cymhleth iawn o hyn mewn ambell ysgrif arbennig, lle y treiddia'r llenor i waelodion goblygiadau yr hyn sydd yn ei boeni trwy ddefnyddio ei ben a'i galon. Yn gymaint â'i fod, ar y fordaith i Dde America, yn gwadu ei ymdeimlad ef ei hun o hiraeth, erys hiraeth, fel haniaeth, o hyd; y mae wedi 'gofalu cadw'r teimlad hwnnw draw.' Ond y mae ffordd symlach i ymgodymu â phroblem rhai teimladau. Efallai y gellir llwyr ymwarded â hwynt drwy wadu eu bodolaeth yn gyfan gwbl.

Ceir enghraifft ragorol o hyn yn ei ysgrif, 'Gwybedyn Marw'.⁵²

Dechreua ddadlau trwy ddweud mai ofer yw pob ochenaid, seithug yw

pob ofn ac afraid yw pob cryndod oherwydd na threwir nod ganddynt y tu hwnt i bellterau glas yr awyr. Ânt gyda'i gilydd yn ddieffaith i'r gagendor mawr, gan greu 'the awful wail of lone Eternity.'⁵³ Ond, amheua hyn yn syth drwy ofyn 'Tybed?' Seilia'r gred hon ar wyddoniaeth gan fod y cynnwrf a gychwynnir gan bob ochenaid, pob rheg a phob cryndod yn teithio i'r tu hwnt ac yn distewi a llonyddu yn y distawrwydd mawr oherwydd nad oes neb yno i glywed na theimlo. Sŵn anhyglyw a chryndod anwel sydd yno, meddai. Synia mai distawrwydd mawr i ni ydyw, am na allwn ni glywed y sŵn. Er hynny, ni ellir llai na theimlo bod yma ryw led-gyfeiriad crefyddol nad yw Duw 'wrth law o hyd i wrando cri.'

Cyhoeddwyd yr ysgrif hon yn 1924 ac efallai fod a wnelo rhai o'r syniadau hyn â chefnidir gwyddonol y cyfnod gyda thwff cyflym yn nefnydd y teleffon a'r di-wifr ar y naill law, a damcaniaeth 'y bydysawd ymledol' ar y llaw arall. Yn ei lyfr, *The Expanding Universe*, dywed yr astrolegwr, Arthur Eddington, i'r ddamcaniaeth hon weld golau dydd mewn papur a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, 1917, gan W. de Sitter ac iddi ddod i amlygrwydd ar ôl ymddangosiad diffyg cyflawn ar yr haul yn 1919 pan ddarganfuwyd bod golau yn gwyrô.⁵⁴ Buasai goblygiadau'r

paradocs ‘un cam ymlaen, dau gam yn ôl’ yn siŵr o apelio at feddylfryd gwyddonol Parry–Williams. Yn ei fraslun o nodiadau a baratowyd ar gyfer anerchiad llywyddol i Adran Athronyddol Urdd Graddedigion Cymru ym mis Medi, 1951, ac a ymddangosodd fel yr erthygl, ‘Dychymyg mewn Barddoniaeth’, yn *Efrydiau Athronyddol*, dyfynna’r bardd hwn enghraifft adnabyddus o ddelweddu cywrain a byw, wrth drafod addaster rhai geiriau fel delweddu barddonol:

Telephone to Glory, O Joy divine!
I see the current moving down the line,
Sent by God the Father to ourselves alone.
Telephone to Glory on the royal telephone.⁵⁵

Ymddengys nad syniad hollol ddieithr oedd cysylltu gwyddoniaeth a diwinyddiaeth yn y fath fodd, felly! Fodd bynnag, atega Parry–Williams: ‘Fe fyddai dewis delwedd radio yn gwneud hyn ychydig yn fwy “modern.”’⁵⁶ Y mae’n ddiddorol nodi yn y fan hon iddo recordio ei lais ei hun am y tro cyntaf ar silindr gwêr ffonograff hen–ffasiwn ym Mryn Eirian ar y ffordd tua Borth y Gest tra oedd yn Ysgol Ganolradd Porthmadog, yn ôl pob tebyg.⁵⁷

Ond, a dychwelyd at ‘Gwybedyn Marw’, newidia Parry–Williams ei feddwl yn ddisymwth ynglŷn ag ofn oherwydd iddo ddarganfod cudyll

coch llonydd yn yr awyr gan ddychmygu gweld cryndod ei adenydd a chryndod ysglyfaeth yr aderyn ar y ddaear oddi tano. Y mae hyn yn argyhoeddi Parry-Williams nad dychymyg gwag mo ofn. Tyf yr ofn hwn i beri iddo yntau ofni wrth synio am ofn y creadur ar y ddaear. Defnyddir rhesymeg wedyn i holi pam y mae'n rhaid i'r creadur ac yntau ofni, oherwydd, meddai, wrth feddwl yn ffisiolegol, nid yw calon ond cnawd ac felly nid oes dim na neb yn werth ei ofni. Ceir adlais yma o eiriau W. B. Yeats yn *The Wanderings of Oisín*: 'There's nothing in the world that's worth a fear' a ddyfynnwyd gan Parry-Williams yn un o'i erthyglau ar y bardd hwnnw yn 1916.⁵⁸ Ceir yr un agwedd yn un o ysgrifau cynharaf Parry-Williams, hefyd, sef 'Ar Gyfeiliorn' (1917), lle y sonia am rai o ddywediadau ei ffrind, Dafydd William/Wiliam (ceir y ddwy ffurf yn yr ysgrif), yr 'ynfytyr call' o Fôn: 'Does neb na dim ar wyneb y ddaear yn werth ei ofni.'⁵⁹ Cyfeiria at y cymeriad hwnnw unwaith yn rhagor yn ei ysgrif, 'Oedfa'r Pnawn'.⁶⁰ Dylid sylwi mai sôn amdano ef ei hun yn y trydydd person ac fel ffrind a wna Parry-Williams yn 'Ar Gyfeiliorn' fel y gwna mewn tair ysgrif arall o'r un cyfnod, sef 'Eiconoclastes',⁶¹ 'Yr Hen Ysfa'⁶² ac 'Y Trydydd'.⁶³ Y mae'n anodd dweud faint o ddywediadau Dafydd William y gellir eu priodoli yn wreiddiol i Parry-Williams ei hun,

oherwydd ailadroddir un ohonynt, sef 'Rhaid cael dau i wneud ffon, – dyn a'r Hollalluog',⁶⁴ yn ei ysgrif, 'Athro Methedig', lle y'i tadogir ar ryw Owen Ifan y Gelli: "Y ffon yma", meddai; "mae gwaith dau ar hon – gwaith dyn a gwaith yr Hollalluog."⁶⁵ Efallai y dylid crybwyll cerdd arall gan Yeats yma, sef 'To his Heart, bidding it to have no Fear' allan o'i waith, *The Wind among the Reeds*.⁶⁶

A diddorol, unwaith eto, yw darganfod cysylltiad pellach, penodol rhwng gwaith Parry-Williams a chynnyrch Yeats gan i Parry-Williams brynu copi o'r ddrama, *The Hour Glass* (1903) ym mis Ionawr, 1916. Dyma'r hyn a oedd ganddo i'w ddweud yn un o'i erthyglau ar Yeats y flwyddyn honno: 'Does he not believe, if we are to judge from his play, *The Hour Glass* – a morality, that there is often more wisdom in fools than in the wise men of the world?'⁶⁷ Y mae'n ddiau fod Dafydd William, yr ynfytn call, yn un ohonynt, yn ôl Parry-Williams!

Gwelwyd fel y cysylltwyd y teimladau a'r galon yn 'Gwybedyn Marw' ac â'r ysgrifwr ymlaen i drafod agweddau esblygiadol ar ofn gan dybied efallai mai mwynhad ydoedd yn wreiddiol ond ei fod wedi troi yn boen. Yna, ceir ymgais i esbonio'r dirgelwch yn ffisiolegol unwaith eto gan synied mai'r ymennydd sydd wedi gwahaniaethu rhwng mwynhad ac

ofn. Hyd yma, y mae'n cydnabod bod ofn yn bodoli ac atega mai'r

ymennydd sydd wedi creu dychryn ac wedi gwneud ffŵl o ddyn.

Cyplysa'r ofn hwnnw wrth wraidd holl wendid y ddynoliaeth. Cofir i

Parry-Williams drafod yr ymennydd yn ei ysgrif, 'Arcus Senilis', gan

ddatgan yn bendant mai:

Yn hwn – ac nid oes ymennydd ond o ymennydd arall – y
ganwyd pob dyhead ac y gwelwyd pob gweledigaeth;
ynddo ef y cychwynwyd pob cythreuldeb ac y deorwyd
pob dymunoldeb. Offeryn bendigedig, melltigedig. Ynddo
ef y mae nef; uffern hefyd.⁶⁸

Atgoffir rhywun o eiriau Milton yn *Paradise Lost*:

... A mind not to be changed by place or time.
The mind is its own place, and in itself
Can make a Heaven of Hell, a Hell of Heaven.⁶⁹

Ac eto:

Me miserable! which way shall I fly
Infinite wrath, and infinite despair?
Which way I fly is Hell; myself am Hell;
And in the lowest deep, a lower deep
Still threatening to devour me opens wide,
To which the Hell I suffer seems a Heaven.⁷⁰

Adlewyrchir yr un meddylfryd, hefyd, yn un o sonedau Parry-Williams,

'Nef', ond yma, y mae'r 'gwaelod isaf oll' yn nef iddo ef:

Am fod yr anghyfiawnder arna' i'n bwys,
Suddais yn drwm i'r gwaelod isaf oll,

Ac yn nhywyllwch y distawrwydd dwys
Arhosaf heddiw fel petawn ar goll,
Ym mhydedd du'r disberod, heb un ias
O ofid calon na chywilydd chwaith,
Wrth geisio gochel y cornelau cras
A chynefino â'r paradwydd llaith.
Ac eto nid oes gwenwyn yn fy ngwaed,
Ond rhyw farweidd-dra melys: nid oes cri
O'm genau'n galw am ddial fy sarhaed,
Na her anobaith yn fy safiad i,
Am fod mwynhad ymhell o gyrraedd llef
Mewn uffern ddigon dofn i fod yn nef.⁷¹

Yr un cywair sydd i'w soned, 'Crefft',⁷² hefyd, eithr ceir yn honno fwy o nodau seicolegol sydd yn crybwyll yr isymwybod. Yr oedd Omar Khayyâm yntau ar drywydd nef ac uffern yn un o'i benillion gan ddarganfod mai ei gyflwr seicolegol ef ei hun oedd nefoedd ac uffern.

Cyfieithwyd ei benillion gan John Morris Jones:

Chwiliais, tu hwnt i'r wybren bellaf un,
Am Bin a Llech, Nef, Uffern, cyn creu dyn:
F'Athro a'm dysgodd i – 'Mae'r Pin a'r Llech
A Nef ac Uffern ynot ti dy hun.'⁷³

Ond daw trobwynt eto yn 'Gwybedyn Marw' pan yw Parry Williams yn gwadu bodolaeth ofn am yr eildro: 'Eto dychymyg gwag ydyw: nid oes y fath beth. Ofn? Nac oes.' Y funud nesaf, wrth dybio gweld cryndod adenydd y cudyll coch unwaith yn rhagor, codir arswyd arno ac ychwanega: 'Ofn? Oes, ac nid oes dim sy'n fwy byw.' Daw esboniad, a

rhyddhad efallai, ar ddiwedd yr ysgrif wrth i'r bardd-lenor o Ryd-ddu ddarganfod mai gwybedyn marw a oedd wedi glynu wrth wydr y ffenestr er dydd ei dranc oedd y cudyll coch, a hwnnw yn ddim ond ffrwyth ei ddychymyg wedi'r cwbl. Rhyddhad, efallai, ac 'efallai' mawr, yn wir, oherwydd datganodd Yeats heb flewyn ar dafod yn *The Countess Cathleen*: 'And you and I are of no more account/Than flies upon a window-pane in the winter' a nododd Parry-Williams gyda llinell yn ei lyfr personol.⁷⁴ Pe byddai Parry-Williams wedi dechrau â'r argyhoeddiad hwnnw, tybed a fyddai wedi cyfansoddi drych-ddelwedd o ysgrif gan arwain y darllenydd ac ef ei hun, unwaith yn rhagor, ar gyfeiliorn? Bid a fo am hynny, o'i symleiddio, rhed y ddadl fel hyn: seithug yw ofni, am nad oes neb i gydymdeimlo, ond y mae'r fath beth ag ofn oherwydd nad dychymyg gwag mohono. Cnawd yw calon, a chan hynny, pam y mae'n rhaid i greadur a'r llenor ofni? Efallai fod ofn wedi esblygu o fwynhad wrth i'r ymennydd wahaniaethu rhwng y ddau. Yr ymennydd sydd wedi creu dychryn ac wedi gwneud ffŵl o ddyn. Ond eto, dychymyg gwag ydyw: nid oes y fath beth. Oes, y mae ofn. Y mae Parry-Williams yn ei brofi oherwydd iddo ddarganfod pethau allanol annymunol trwy gyfrwng ei synhwyrau a'i ddychymyg. Ar y llaw arall, y

mae'n llawn mor effro i'r modd y gellir teimlo ofn trwy feddwl amdano yn unig. Ceir esboniad yn ei ysgrif, 'Myfyrio Ofn', pan gyfeiria yn benodol at 'Gwybedyn Marw', mai 'ymdeimlad go ddi-ddal yw ofn yn aml, fel gobaith, a heb fod yn ddim amgenach nag ofn cael ofn.'⁷⁵ Ond, er hynny, onid yw'r gosodiad hwn eto yn cydnabod bodolaeth y teimlad arbennig hwnnw, er y dygn ymdrech amlochrog a wnaethpwyd i lwyrr ymwared ag ef?

Yn wir, darganfu'r llenor fod ofn yn gallu dod i'r wyneb yn hollol annisgwyl trwy gymdeithasiad yn y cof, gan beri iddo 'ailddechrau myfyrio ofn heb yn wybod i mi fy hun.'⁷⁶ Ni waeth faint o fyfyrion, ymresymu ac ymguddio rhag y gwir a geir yn ei waith, ymddengys mai peth arhosol iawn yw ofn i'r enaid clwyfus o Ryd-ddu. Yn ei ysgrif, 'Lilith', disgrifiodd Parry-Williams ei hun fel asyn Buridan, ac er mai methu penderfynu rhwng dau sypyn unfaint o wellt oedd gwendid yr anifail hwnnw, gan newynu i farwolaeth, mynegodd y llenor, wrth iddo yntau fethu penderfynu pa bwnc i'w drafod, fod yr un perygl yn ei amgylchynu ef, hefyd, oherwydd ei anwadalwch.⁷⁷ Ond, fel y gwelwyd, yr ysfa gref i herio rhai gwirioneddau cydnabyddedig sydd yn gyfrifol am hyn yn aml. Gwedd fach ddigon diniwed ar y tyndra hwn yw cyflwr ei

feddwl dryslyd pan y'i coronwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 1912; y mae fel petai'n siglo rhwng cred ac anghred pan elwir ffugenw'r bardd buddugol, fel y dangosodd yn ei ysgrif, 'Congrinero':

Ac yn sicr i chwi fy ffugenw i ydoedd, ac yr oedd yn rhaid i minnau gredu fy nghlustiau ... Wedi i'm cymdogion cyffrous orfod coelio mai myfi ydoedd, fe fu'n rhaid imi neidio dros y bar i blith y seddau drutach a chael f'arwain oddi yno wedyn trwy fysg yr urddasolion i'r llwyfan. Yr oedd y peth yn sioc i bawb yn ogystal ag i mi fy hun. Fe ddaeth ysgytiad mwy o lawer drannoeth, ddydd lau, diwrnod y cadeirio.⁷⁸

Ategir y darlun cywir hwn o'r sefyllfa mewn erthygl bapur newydd yn trafod y coroni:

...The adjudicators awarded the coveted honour to 'Llinnon', and from all parts of the building arose the cry 'Llinnon'. Elfed (the Rev. Elvet Lewis), and a brother bard found Llinnon, who pale-faced, boyish-looking and nervous, was escorted from the centre of the audience to the platform amidst enthusiastic applause, and to the strains of 'The Conquering Hero'.⁷⁹

Yr un sylw a geir drachefn mewn erthygl bapur newydd arall, pan ddarlunnir sefyllfa letchwith y coroni: 'As he was at the remotest corner of the hall he only obeyed with difficulty ... The young poet, who sat with pale, unmoved face throughout these scenes was Mr Parry Williams

...'⁸⁰

Ar rai adegau, ceir cyfaddefiad gonest iddo sylweddoli elfen fyw iawn o wasgfa feddyliol fel yr esboniodd yn ei ysgrif, 'Yr Hen Ysfa',⁸¹ wrth drafod ei hun yn y trydydd person. Er ei fod wedi magu'r ysfa i gyfrif a chyffwrdd â phethau yn drefnus a bod yn orofalus a thaclus gyda phopeth, nid yw hyn yn peri gormod o ofid iddo, oherwydd, ynddo ei hun, ffurf syml a diniwed ar yr ysfa yw hyn ac y mae'n hollol ddidramgwydd a diberygl. Ni all fyth gredu, ychwaith, iddo ddiffodd y nwy yn iawn y tro cyntaf, ac ymhellach, ni all gredu iddo wneud dim ambell dro, 'er gwybod hynny'n eithaf da.' Hefyd, y mae'n methu credu iddo gyfrif yn iawn er iddo wybod ei fod wedi gwneud hynny, ac o ganlyniad y mae'n amau rheolau dieithriad rhifyddeg. Sylwer ar y gwrthgyferbyniad unwaith eto rhwng y geiriau 'credu' a 'gwybod', fel a gafwyd yn ei lawysgrif fras ar yr elfen bersonol mewn barddoniaeth a rhyddiaith, pan oedd yn 'credu – ac yn gwybod'.⁸² Yn rhyfedd ddigon, atgyfnerthu 'credu' a wna 'gwybod' yn y fan hon, ond sylwer mai'r gwrthwyneb yw'r broblem yn 'Yr Hen Ysfa', sef methu credu er ei fod yn gwybod. Yn 'Yr Hen Ysfa', dywed i wendid yr ysfa gyffwrdd a chyfrif fynd i wraidd ei natur gan ddechrau cellwair â'r pethau mwyaf cysegredig:

Myn droi'r gwyn yn ddu, y sanctaidd yn halogedig, cariad yn gas. Gwna imi weithiau gashau'r (sic) rhai anwylaf gan fy nghalon fel gwenwyn, a dyheu am gyflawni'r pethau mwyaf gwallgof ar wyneb y ddaear.⁸³

Enw seicolegwyr ar yr ysfa obsesiynol hon yw '*obsessive compulsive disorder*' ac y mae'n gyflwr tra chyffredin pan yw rhywun o dan bwysau meddyliol dwys. Gwelir, felly, fod gwadu gwirioneddau yn rhan o gyfansoddiad Parry-Williams ar adegau ac eir ymlaen yn awr i drafod a yw'n parhau â'r arfer hwn wrth deithio i Dde America.

Dyddlyfr Taith 1925

Hawdd iawn yw deall pam na fedrai Parry-Williams sugno ysbrydoliaeth o'i amgylchfyd ar y daith o Gymru i Dde America, oherwydd, dro ar ôl tro yn ei ddyddlyfr, mynegodd ei ddiflastod a'i atgasedd at undonedd y môr, fel y gwnaeth yn ei ysgrif, 'Tywod', pan lefarodd, gan ddyfynnu geiriau Robert Williams Parry, na roddwyd iddo yntau 'nwyd gwylanod llwyd y lli'.⁸⁴ Y mae'n fwy na thebyg nad ei atgasedd at fôr, fel y cyfryw, a oedd yn gyfrifol am y dieithrio hwn, ond yn hytrach, y cymdeithasiad rhwng dŵr a Phorthmadog a'r cyferbyniad clir rhwng y môr yn y dref honno a mynydd-dir bro ei febyd. Dyma rigwm arall amrwd a gyfansoddodd ar 17 Gorffennaf 1925 ar ei daith i Ogledd America:

Undonedd

dwfn

Sŵn (mud) y peiriannau, ymchwydd a rhol

ar ei

Y llong ar y lli – a'i llwybr o'i hôl.

Symud undonog, symud o hyd,

Symud heb fyned i le'n y byd.

ir

Ni welaf na chlogwyn na phridd na phren

Dim ond dŵr o'n cwmpas a'r tân uwchben.

Onid oes dim yn dy gread, lôr, –

Dim ond môr a haul, dim ond haul a môr?

Gwn nad oes yng nghread yr lôr

Dim ond môr – a môr – a môr.⁸⁵

Gellir tybied mai gwadu hyderus yw'r cyfaddefiad a gafwyd ganddo ar 12 Gorffennaf na bu'n myfyrio llawer ar y fordaith. Dywed iddo geisio cadw rhag hynny orau y gallai 'rhag i bryderon a phethau annifyr ddigwydd dyfod i mewn i'r myfyrion.' Tystia ei fod yn byw ar yr wyneb gan gymryd pethau fel y deuant ac nad oes destun cân wedi ymgynnig iddo o'r herwydd. Y prynhawn hwnnw, cawsai amser difyr a doniol ymysg pobl Santander ac yr oedd wedi ei swyno gan eu gwisgoedd lliwgar. Hefyd, cymeradwyodd garedigrwydd y Sbaenwyr. Ond, yr un pryd, fe'i poenwyd gan agweddau negyddol y wlad honno, a gwaetha'r modd, dyna a geir yn ei sgerbwdd o rigwm a gyfansoddodd yr un noson lle na cheir arlliw o rialtwch y dydd, ond yn hytrach, fynegiant o'i ofid na

welodd Dduw y diwrnod hwnnw yn Sbaen. Efallai fod yr esboniad i'w ddarganfod yn ei nodyn dyddiadurol sydd yn datgan na welodd ddim o gwbl yno i ddangos ei bod yn ddydd Sul ar ôl iddo bwysleisio, ychydig yn flaenorol, fod ffair a chwaraeon wedi eu cynnal yno ar y Sul. Yn ogystal, sonia iddo weld mynyddoedd Cantabria a hafnau a dyffrynnoedd tebyg iawn i rai Sir Gaernarfon wrth edrych y tu cefn i Santander, ffaith a adlewyrchir ganddo yn nwy linell anorffenedig un o gwpledi'r rhigwm: 'Gwelais .../ Fynyddoedd Cantabria ...' Y mae'n debyg un ai fod ei deimladau wedi cael y gorau arno neu fod yr ysbrydoliaeth wedi pylu yn y fan a'r lle. Drannoeth, unwaith yn rhagor, dengys y ddau rigwm di-deitl canlynol, a gyfansoddwyd yn Vigo, ar y ffin rhwng Sbaen a Phortiwgal, yn union ym mha le y trig meddyliau y gwadwr dewr. Synhwyrir sefyllfa dra thosturus pan ymddengys fod Parry-Williams yn dal i geisio ei argyhoeddi ei hun ei fod 'ar ryw siwrnai fer gartref ar y tir':

Creigiau moelion Ysbaen, ger y lli,
Creigiau Arfon ydych i mi.
Galicia

Frynïau danheulog Cantabria draw,
Ni fedrwch i mi ddieithrwch braw;
Can's oni chanfyddaf ynoch chwi

Linellau cartrefol f'Eryri i?

Nid oes arnaf hiraeth am f'ardal fy hun –
Mae'r creigiau a'r bryniau ym mhobman yr un.

Nid wyf yn Ysbaen, – ni welaf i
Ond bryniau Arfon ar draws y lli.
Llŷn ac⁸⁶

Y mae'r wasgfa feddyliol yn druenus o eglur bellach i lygaid-dyst
gwrthrychol yn ogystal ag i Parry-Williams ei hun. Priodol iawn fyddai
addasu disgrifiad yr ysgrifwr o gyflwr ceiliog Pen-y-pàs at ei
ymarweddiad ef ei hun yn y sefyllfa hon: '...yr oedd ei gais i fod yn
ddifater yn dorcalonnus.'⁸⁷ Y mae'n destun trafod pa mor debyg oedd
bryniau'r ddwy wlad i'w gilydd, oherwydd gallasai'r creigiau a'r bryniau,
yn ddiau, atgoffa Parry-Williams o lawer o rai eraill a welsai yn ystod ei
deithiau blaenorol, gan gofio iddo dreulio cyfnodau fel myfyriwr yn
Rhydychen, Paris a Freiburg. Ond ni thycia hynny o gwbl canys fe'u
trawsffurfir yn ddisymwth yn fryniau (Llŷn ac) Arfon ganddo er mwyn
lleddfu ei hiraeth am gartref. Dyna a gafwyd yn ei awdl fuddugol, 'Y
Mynydd', hefyd, yn ôl E. Stanton Roberts pan ddatgelodd hwnnw mai
'wrth droed yr Alpau wyliau'r Pasg, y canodd Mr. Parry-Williams ei awdl
i'r mynydd. Mynyddoedd yr Alpau sydd yn ail ran ei gerdd, ond

mynyddoedd Cymru geir yn ei dechreu a'i diwedd.' Esbonia Dyfnallt
Morgan mai syniad sylfaenol yr awdl yw bod yn rhaid i'r bardd oresgyn
yr anniddigrwydd sydd yn ei boeni yn ei berthynas â'i fro enedigol trwy
fynd yn bell oddi wrthi.⁸⁸ Ond ar y daith i Dde America y mae'r cof yn
chwarae rhan allweddol unwaith eto er cymaint y ceisia'r bardd fyw 'ar
yr wyneb'. Y tro hwn, yn yr ail rigwm di-deitl a gyfansoddwyd ar 13
Gorffennaf, ceir iawndal dyfeisgar am absenoldeb y Gymraeg yn y
tiroedd pell, ac er mor chwithig yr ymddengys y syniad hwn i'r
darllenydd ar y dechrau, rhaid cofio bod yn rhaid 'dal y ddysgl yn wastad
rhwng du a gwyn' a chofio bod modd i unigolyn wneud nef o'i uffern.
Datgan ei hunaniaeth, yn ei ffordd ddiymhongar ei hun a wna'r bardd,
wrth gwrs, oherwydd yr oedd ei famiaith yn gymaint rhan ohono ag yr
oedd tirlun ei febyd:

Ond clywais acen llafar pêr
Fel a glywais yn Santander.

A chofiais am seiniau fy mamiaith fy hun
Sy'n fud ar fy ngwefus, – bob ac un.

A sylweddolais wrth hwylio ymlaen
Fod gennyf i rywbeth na fedd Ysbaen.⁸⁹

Ond, ddeuddydd yn ddiweddarach, er yr holl ymgysuro, daw ffit fer o hiraeth drosto gan gyfaddef fod arno eisiau mynd adref. Erbyn hyn, y mae'r frwydr yn dwysáu ac yn cymryd arni awyrgylch maes y gad wrth iddo ddatgan yn arwrol: 'Lleddais ef yn y fan.' Nid oedd wiw iddo ddechrau coleddu teimladau na meddyliau o'r fath, meddai. Er mor benderfynol yw'r prif gymeriad erbyn hyn, fe'i ceir, drannoeth, wedi ymollwng rhywfaint gan drafod ei deimladau yn fwy agored:

Dipyn yn undonog ydyw hi fel hyn – heb alw yn unlle na gweld dim newydd. Heblaw hynny, mynd ymhellach oddicartref yr wyf. Ni buasai'n undonog, y mae'n debyg, petawn yn mynd yn nes adref bob dydd ... Nid wyf yn credu fy mod yn siriol iawn heddyw. – wythnos i heddyw am 8 y bore y gadewais Ryd-ddu am Lerpwl, a dyma fi wedi bod ar y dŵr am agos i wythnos erbyn hyn...⁹⁰

Sylwer ar y modd y mae'n araf ymlithro i graidd y broblem, fel claf yn cyfaddef ei broblem annifyr wrth feddyg pan fo'r dioddefwr ar fin ymadael – ystryw yr oedd Parry-Williams yn dra chyfarwydd â hi yn ystod ei fachgendod yn y capel, yn ôl ei ysgrif, 'Myfyrio Ofn', pan fyddai bechgyn duwiol y Seiat yn arllwys eu tu mewn wrth y gweinidog drwy fynegi fflachiadau o brofiadau gwreiddiol ar ôl llefaru rhyw 'heblaw' bach ymesgusodol a fyddai'n dwyn cenadwri yn amlach na pheidio.⁹¹

Fel hyn y cyferbynnodd y bardd-lenor o Ryd-ddu y presennol a'r

gorffennol y diwrnod hwnnw, y tu allan i'r Asores:

Tir a Môr

Gynt yng nghyfnod fy mebyd gwyn
Trafaelïai'r dyddiau o fryn i fryn.

wrth alw'r

Wedyn, trafaelïent yn nwylo'r lôr
Hanner yn hanner – o fryn i fôr.

Ond erbyn hyn trwy niwl a nwy
O'r môr i'r môr y trafaelïant hwy.⁹²

Drannoeth, nid digon oedd darganfod cyfatebiaeth gyffredinol rhwng creigiau'r ddwy wlad, fel a gafwyd yn y rhigwm cyntaf di-deitl uchod oherwydd, yn awr, minioga'r bardd ei weledigaeth trwy baru rhamantaidd a dychmygu bod un o ynysoedd Yr Asores yn debyg i Enlli, a chraig ger ynys arall fel yr un a oedd gynt ger y Twll Twrw (*Mark's Cave*) yn Sir Aberteifi. Ac yn sydyn, fel swyngyfaredd amheuthun, a fyddai'n cwblhau triawd hudolus, ymddangosodd o'i flaen fynydd mawr pigfain fel Cnicht o ran llun gan godi uwchlaw'r niwl a'r cymylau a oedd o'i gwmpas. Dyma O Pica, y llosgfynydd y canodd Parry-Williams rigwm mor annwyl iddo ac y gwelodd yn dda i'w gyhoeddi yn ei gyfrol, *Cerddi*.⁹³ Ni ddarlunnir y mynydd hwn fel un o greigiau Arfon gan iddo

ennill ei ddyledus annibyniaeth drwy ei hawl ei hun: 'Ond gydag Eryri fe fyddi di/ Bellach yn un o'm mynyddoedd i.' Ond, er cymaint y mwynhaodd y diwrnod hwnnw, fe'i ceir yn ymdrybaeddu mewn hiraeth wrth ei atgoffa ei hun, unwaith yn rhagor, mai wythnos yn ôl y cychwynnodd ar y fordaith; dywed ei fod wedi gweld llawer, gan ychwanegu yn hyderus ei fod 'wedi cadw meddyliau, a theimladau'n enwedig, dan reolaeth chwynn - rhag ofn gormod cynnwrf yn y galon.'

Drwy gydol ei daith i Dde America, yr oedd cyflwr iechyd ei dad gartref yn ei boeni'n ddirfawr, a dylid nodi yn y fan hon iddo farw ar 25 Rhagfyr yr un flwyddyn. Ceir cofnodion yn nyddlyfr Parry-Williams iddo yrru llythyron a chardiau adref cyn 18 Gorffennaf, ac ar y diwrnod hwnnw, y mae'n derbyn nodyn yn dweud i Dr. Jones adrodd bod gwellhad mawr yng nghyflwr ei dad. Ymatebodd Parry-Williams yn syth drwy anfon neges fer adref, trwy'r llong, 'Mauretania'. Hefyd, y mae'n debyg fod Blodwen, ei chwaer, yn hwylio i America heddiw. Ar ôl iddo gael ei gyfareddu gan liwiau natur yn ystod machlud yr haul, y mae'n datgan syniad sydd yn ymddangos fel rhyw ddatguddiad newydd, ysgubol:

'Y mae'r môr a'r haul a phopeth yn natur fel hyn yn (awyr?) ac anialwch y môr yn peri i ddyn feddwl am ryw Grëwr iddynt. Anodd datgysylltu lôr a môr rywfodd o hyd.⁹⁴

Y diwrnod canlynol, mynychu Parry–Williams wasanaeth Eglwys Loegr ar y llong ac yn nes ymlaen yn y dydd, y mae'n darganfod y Capten yn eistedd wrth ei ochr wrth gael cinio. Fore Sul, 19 Gorffennaf, fe'i hysbrydolwyd gan ei feddyliau blaenorol o Dduw fel Creawdwr, gan lunio'r rhigwm dadleuol, 'Ar y Dec'.⁹⁵ Buddiol, felly, fyddai aros am ennyd i'w drafod ymhellach.

Ynndo, dywed Parry–Williams iddo weld lleian ar y dec gyda 'Y Crist' neu 'ei Christ' yn hongian ar groes ar Galfari a "Chrëwr y Môr" fel ninnau bob un/ Yn ysgwyd (siglo) ar ymchwydd ei gefnfor ei hun.' Efallai ei fod yn cyfeirio at y Drindod, yma, gan awgrymu nad oes gan Dduw reolaeth ar ei greadigaeth ei hun a'i fod yr un mor gaeth i'r un amodau â bodau meidrol. O ddarllen ei nodiadau dyddiadurol cynharach, lle y mae'n mynegi ansicrwydd, a yw geiriau'r rhigwm yn awgrymu na chredai ef yn Nuw ei Hun nac Ynndo fel Creawdwr y byd? Onid yw'r ffaith iddo awgrymu 'Y Crist' neu 'Ei Christ' yn hytrach na dweud 'Gwelais Grist' yn annaturiol, a hefyd, iddo gyfeirio at Grëwr y Môr mewn dyfynodau? Ymddengys fod pellter rhwng yr awdur a'r hyn a gyfleir yma. Y mae dau esboniad yn ymgynnig. Efallai mai gofynion

rhediad y gerdd sydd yn gyfrifol am osod un sill ychwanegol pan yw'n sôn am Grist. Ar y llaw arall, tybed mai gwawdio'r lleian a wna oherwydd iddi gredu mewn Crist a wnaethpwyd o fetel? Mewn geiriau eraill, ai dangos ei wrthwynebiad i symbolau crefyddol a wna yma? Byddai hyn yn cyd-fynd â'r ffaith nad yw symbolau yn gyfystyr â gallu Duw, o ddifrif, wrth geisio rheoli ymchwydd y môr. Gellir cymharu'r syniadau hyn â'i gerdd, 'Trindod',⁹⁶ sydd yn mynegi gwahanol ystyron am Dduw. Dylid cymharu'r gerdd hon â'r fersiwn gynharach ohoni, 'Duwiau Dyn',⁹⁷ lle y mae'r bardd yn awgrymu'n gryf mai ysbryd, yn hytrach na Iesu Grist a chelfyddyd, yw Duw iddo ef.

Y diwrnod canlynol, daw haul ar fryn wrth iddo gael sgwrs Gymraeg â saer coed y llong, gŵr o Gaergybi a oedd wedi ymsefydlu yn Lerpwl, ac meddai: 'Wedi cael sgwrs â'r Cymro aeth y cymylau a'r môr a phopeth yn fwy cartrefol. Y mae gennyf gefn yn awr ...' Ond rhaid nodi nad y creigiau a'r iaith Gymraeg yn unig a atgoffai Parry-Williams o'i famwlad, oherwydd, drannoeth y sgwrs, cryfheir y ddolen hud wrth iddo ddarganfod cyffelybiaeth rhwng rhai o'r teithwyr a'i gydnabod gartref: 'Mae rhywun tebyg iawn i W. J. Gruffydd ar y bwrdd (a'i wraig) ... y mae'r doctor yn debyg iawn i Dr. Ellis, Machynlleth.' Drennydd, fodd

bynag, ar ôl gosod ei draed ar dir cadarn Hamilton, Bermwda y diwrnod blaenorol, nid yw'r teithiwr hiraethus mor ysgafngalon ag arfer ond ni wŷyr paham er iddo ddweud ei fod wedi bod bythefnos ar y môr bellach a bod pobl wedi diflasu braidd ar yr Atlantig gan edrych ymlaen at gael glanio yn Hafana. Eithr, pwysleisia nad yw'n brudd o gwbl. Yr un yw'r feddyginiaeth o hyd: 'Ni waeth heb â dechrau myfyrio a phensynnu. Edrych ymlaen sydd oreu – a dal i gredu.' Pur gymysglyd yw ei deimladau drannoeth, a hynny, efallai, am iddo fod yn trafod trêen yr Wyddfa a ffyrdd gogledd Cymru gydag un o swyddogion y llong. Yn ei nodiadau ar gyfer 25 Gorffennaf, dywed y bardd fod ei ysbryd yn bur dda ond anodd yw cysoni'r gosodiad hwn ag un o linellau ei rigwm, 'Yng Ngwlff Mecsico',⁹⁸ a gyfansoddodd yr un diwrnod, lle y'i disgrifia ei hun yn sefyll yn hurt, ymhell o'i Ryd-ddu. Pwy a wŷyr nad rhagargoel o'r hyn yr oedd i'w brofi yn Hafana ymhen diwrnod a oedd yn gyfrifol am y sefyllfa hon? Yno, yn un o gorneli mynwent odidog, y gwelodd yr esgyrn moelion, llonydd ac arswydlon y ceir eu hanes yn ei ysgrifau, 'Boddi Cath'⁹⁹ a 'Colli Gwynt'.¹⁰⁰ Gyrrodd lythyr a brysneges adref ddoe a derbyniodd frysneges gan ei dad heddiw yn dweud bod popeth yn iawn. Mae Parry-Williams yn gyrru llythyr adref eto ar 29 Gorffennaf. Cloir

'Yng Ngwlff Meccico' â'r cyfaddefiad nad yw wedi sylweddoli eto mai hud enwau a phellter yw 'gweld y byd', hynny yw, yn ôl aralleiriad amrwd y bardd ei hun: 'Ond ni wŷyr y truain eto pa bryd/ Y dysg nad oes dysgu wrth "weld y byd"'. Y mae'n debyg ei fod yn taflu rhywfaint o oleuni ar y syniad hwn yn ei ysgrif, 'Drws-y-Coed',¹⁰¹ pan gytuna â'r unigolyn a ddywedodd mai un o'r ddwy ffordd o fynd adref yw aros gartref. Yn yr un modd, synia'r ysgrifwr mai un ffordd o weld y byd yw gweld ardal gynefin. Dyma enghraifft gyfatebol o 'garu Cymru'n well', oherwydd tystia Parry-Williams mai ar ôl iddo 'weld y byd' yr ailfywiocawyd ei gynneddf cudd i ymdeimlo ag ysbrydolrwydd ei hen fro. Dylid nodi ei fod eisoes wedi ymweld â Gogledd America yn 1935 pan gyhoeddwyd yr ysgrif hon. A'r un yw'r hanes yn ei ysgrif, 'Y Lôn Ucha',¹⁰² lle y dywed mai'r rheswm dros iddo annaeoroli ei hen gynefin, er nad oedd dim gogoniant ynddi, oedd oherwydd ei hiraeth amdani pan oedd yn yr ysgol ym Mhorthmadog. Ei hen fro oedd gwlad yr argraffiadau mwyaf iddo, er iddo weld rhai o brif ryfeddodau cydnabyddedig y blaned hon. Nid yw'n syndod darganfod fod allwedd ei agwedd 'negyddol' ar y daith i Dde America yn deillio o rai o'i gymhellion dros ymgymryd â'r gorchwyl, a'r rheini, yn ôl pob golwg, yn

adlewyrchu ymgais ganddo i'w ddadansoddi ei hun yn hytrach na dangos awydd ar ei ran i dderbyn y wlad a'i hamrywiol agweddau ar ei thelerau ei hun. Ategir hyn yn ei gyfaddefiad mai er mwyn cael bod wedi bod yr aeth ar y daith, ac esbonnir yr elfen 'arwynebol' hon mewn darn grymus, esgynebol o'i ysgrif, 'Llysywod':

Gwarchod pawb! dyna wallgofrwydd. A mynd fy hun. Ond mi euthum – do; y mae'n rhyfedd gennyf ddweud – ac yr wyf hyd heddiw yn methu coelio i mi wneud y fath beth anghredadwy. Dyn oedd yn cydio ym mhob cyfle i fod gartref yn ei ardal gysefin a chynefin, yn aberthu o'i wirfodd fisoedd o aros braf yno, heb sôn am dynnu am ei ben yr helyntion a helbulon diddiwedd sydd ynglŷn â theithio felly – a mentro i leoedd mor ddielflig o anystyriol a pheryglus. Nid ysbryd antur dyn ieuanc oedd yn cyfrif am y peth, yn sicr; ac nid y nwyd grwydro, fel y cyfryw. Am a wn i nad y diawledigrwydd hwnnw sy'n corddi dyn weithiau, a'm gyrrodd ar y daith ofnadwy honno. Mi wneuthum beth tebyg wedyn, fwy nag unwaith. Dyn yn mynnu creu ystorm yn ei enaid ei hun, efallai, i ddarganfod ei gynheddfau a'r hyn sy'n ffurfio'r peth a elwir yn 'bersonoliaeth'. Mynd i fod wedi bod.¹⁰³

Soniwyd uchod iddo gael ei ddenu gan hudoliaeth enwau lleoedd ac adleisir yr atyniad hwn yn ei ysgrif, 'Dau Le',¹⁰⁴ lle y dywed i'r enw Valparaiso ddyfod i fôn ei wallt rai blynyddoedd ynghynt ond iddo gael llonydd am yn hir wedyn gan enwau pell. Yn ddiddorol ddigon, yn ei nodiadau personol ar gyfer yr ysgrif, 'Lleisiau (Stribed o Nodiadau)',¹⁰⁵

cyferbynna Parry–Williams y lleisiau a drafodir yno â thri achlysur pan oedd yntau wedi cyfranogi o brofiad ysbrydol wrth glywed lleisiau. Cyfeiria'r cyntaf at ei rigwm, 'Grand Canyon',¹⁰⁶ gan ddyfynnu'r llinell 'Am i rywbeth o'm mewn heb lais na chri', ac ategu'r ochr ysbrydol drwy'r tanlinellu. Wedyn, ymholodd yn ddirgelaidd a oedd yn disgwyl clywed. Yr ail enghraifft yw'r un pan ddaeth enw Valparaiso i fôn ei wallt a'r trydydd yw'r gri ysbrydol, ryfedd honno y ceisiodd ei darlunio yn ei ysgrif, 'Y Gri'.¹⁰⁷ Cyplysa'r bardd–lenor yr islais cenadwrol, nefol, sef y 'Col' yn y 'Bath–Col' wrth 'lewyg llef' Gwilym ap Lleision, yn ei englyn, 'Ochenaïd'. Ceir y fersiwn cywir isod:

Ochenaïd

Ochenaïd, mud gloch ynom – llewyg llef,
Sill goll iaith pan waeddom;
Ing anadl, ddring ohonom
Dros gloeon drws calon drom.¹⁰⁸

Yn wir, tuedda rhywun i ofyn ai Parry–Williams ai ynteu rhyw bŵer anweledig goruwchnaturiol a'i hanfonodd i Dde America. Ar y llaw arall, ymetyb yn hollol wahanol i enwau lleoedd yn ei ysgrif, 'Ar Encil',¹⁰⁹ oherwydd, bryd hynny, odrwydd a hynodrwydd y bobl a oedd yn gysylltiedig â'r manau yr ymwelodd â hwy oedd un o'r atyniadau, yn

ogystal â'r ffaith nad oedd erioed wedi bod yn y lleoedd hynny o'r blaen.

Y prif orchwyl oedd dal ysbryd y bobl ddiddorol, wrth ddilyn ôl eu traed,

megis. Dau awdur arall a gyfareddwyd gan enwau lleoedd ac yr oedd

Parry-Williams yn gyfarwydd â'u gwaith oedd W. B. Yeats a Marcel

Proust. Dywed y bardd-lenor o Ryd-ddu mai ymserchu mewn lleoedd

am eu bod yn lleoedd a wna, yn hytrach nag am fod cysylltiad

rhyngddynt a gwŷr enwog neu ddigwyddiad nodedig a chyfeddyf mai'r

enw moel ei hun yw'r unig ogoniant iddo yn aml. Wedi mwynhau'r enw,

bydd wedi dal y swyn ac os nad yw'r lle fel y dychmygasai, synia mai'r lle

sydd wedi newid, neu fod dau le wedi ymddrysu ynddo. Y mae

dadrithiad yn thema eithaf cyson yn ei waith, a hynny, ar y cyfan,

oherwydd y gwrthgyferbyniad rhwng rhamantiaeth a realaeth, rhwng y

dychymyg a ffeithiau moel. Â ymlaen i delynegu bod galwad y Grand

Canyon wedi dyfod 'yn ddirybudd o rywle' gan ychwanegu, yn eironig,

fod yr enw yn treiddio trwy ei ymwybod yn gyson ar ei daith tuag yno

nes mynd yn orthrwm bron. Cyhoeddwyd yr ysgrif yn 1935, sef yr un

flwyddyn â'i ymweliad â Gogledd America. Y mae'n ddiddorol sylwi iddo

gredu nad oedd wedi rhoi cyfle teg iddo'i hun i ddal naws ogoneddus

Soar-y-Mynydd, a hynny oherwydd effaith galwad gref y Grand Canyon

arno. Ymddengys fod hyn yn enghraifft arall o deimlo grym dyletswydd at ei famwlad, yn niffyg tybiedig ei deyrngarwch iddi, yn ogystal â bod yn brawf o gyffyrddiad euogrwydd oherwydd ei hunanalltudiaeth. Fe gofir mai dyna oedd ei argyhoeddiad pan ddisgrifiodd ddieter mynyddoedd Eryri wrth iddo ymadael â hwynt ar ddechrau'r daith i Dde America. Ymhellach, gwelir bod ei gydwybod euog yn dal i bigo ar ddechrau 'Dau Le' pan ddatgela, wrth drafod lleoedd, nad yw wedi ymweld â hwy, fod manau bach diarffordd nes-i-gartref yn galw'n ddygn o hyd er bod galwadau'r manau pell yn gryfach ambell dro. Yn wir, ategir y gwrthdaro rhwng gorfodaeth ddyletswyddol ac ewyllys rydd yr unigolyn trwy ddawn dweud yr ysgrifwr: 'Nid wyf eto wedi mentro mynd i Fetws Gwerful Goch a Melin-y-Wig, er bod y postyn a'r enwau arno wedi gorchymyn hynny ganwaith; ...'¹¹⁰ Dywed y bydd yn rhaid iddo fynd i Soar-y-Mynydd am y tro cyntaf eto 'pan fwyf yn fyfi fy hun iawn a phan na bwyf dan hud unlle arall', er mwyn iddo gael 'profi o'r gwirionedd sy'n y grug.'¹¹¹ Gwelir, felly, ei bod yn bosibl, weithiau, drwy ymdrech ymwybodol yn unig, daro ar gyfaddawd rhwng hunaniaeth honedig yr unigolyn a'i gydwybod euog. Ond eto, rhyfedd yw ei gred na all ddal cyfaredd gweld-y-tro-cyntaf ambell le ar yr ail a'r trydydd

ymweliad, er iddo gael rhyw led-ias weithiau wrth geisio ei ail-ddal.

Oherwydd, oni thystiodd yn ei ysgrif, 'Drws-y-Coed', mai ar ôl 'gweld y

byd' y gallai wir ymdeimlo ag ysbrydolrwydd ei ardal gynefin, a hynny,

nid drwy ailymweld â'r lle yn gorfforol, ond yn hytrach, drwy geisio

treiddio yn ôl i'w orffennol a dal yr ysmudiadau angerddol cychwynnol,

nad oedd wedi llwyr sylweddoli iddynt fod pan oedd yn blentyn.¹¹²

Sylwir mai sicrwydd gweddol ddidramgwydd a geir ganddo wrth drafod

ei hunaniaeth yn ei rigwm, 'Cynefin', lle y cadarnha ei ddaliad diwro

mai mab y mynydd ydyw, yn anad dim:

Ni byddaf yn siŵr pwy ydwyf yn iawn

Mewn iseldiroedd bras a di-fawn.

– Mae cochni fy ngwaed ers canrifoedd hir

Yn gwybod fod rhagor rhwng tir a thir.

Ond gwn pwy wyf, os caf innau fryn

A mawndir a phabwyr a chraig a llyn.¹¹³

Ni chaniatâ Parry-Williams i unrhyw le na dim arall danseilio'r hawlfraint

y ganed ef iddi gan mor ofnus yw o'i cholli; y mae'n sicr iawn o'i ffiniau

ei hun.

Yn y cyswllt hwn, ni ellir llai na thynnu sylw at ei ddefnydd o eiriau

sydd yn cyfleu yr elfen o dresmasu dros ffiniau, digywilydd-dra,

ymwthio, ymyrryd neu orthrymu a geir mewn cyd-destunau tra gwahanol yn ei waith, a rhai o'r syniadau, o bosibl, yn wahanol sgîl-
effeithiau o'i gyfyng-gyngor ef ei hun parthed ei hunaniaeth: yr oedd adar y to yn disgyn yn ddigywilydd ar garreg drws ei dŷ¹¹⁴ a gronynnau'r tywod yn tresmasu ar ei aelwyd wrth iddo geisio eu hysgwyd o'i esgidiau¹¹⁵; teimlai fod yr allt yn ei dynnu yn erbyn ei ewyllys i lawr y dyffryn pan aethai oddi cartref¹¹⁶; y mae cloc yn peri iddo wneud llawer o bethau yn erbyn ei ewyllys¹¹⁷; y mae'r ysgythriad yn beth ymwthiol ac yn ymyriad annioddefol a digywilydd¹¹⁸; y mae'r enw, 'Grand Canyon', yn orthrwm bron¹¹⁹; ymwthia lefelau'r gwaith copr yn isel dan y ddaear¹²⁰; ymffurfia ac ymwthia Dafydd go anesboniadwy yn ei gof amdano, a gorchudd i gadw ei thresi melyn o olwg y byd ymyrgar hwn oedd yr hen gap-pig a oedd ar ben Jane¹²¹; casglodd lawer o wybodaeth a barnau am Ann Griffiths drwy orfod, megis, ac y mae'n cael ei yrru, yn erbyn ei ewyllys bron, i ymholi tybed mewn difrif a oes gormod o sylw yn cael ei roi iddi hi a'i gwaith, wrth eu dadansoddi a'u hesbonio¹²²; o stop i stop y symudir ar wyneb y ddaear ac o saib i saib yr ymwthir ymlaen trwy fywyd ¹²³; yr oedd eisiau gweld pa mor bell yr oedd y maro wedi tresmasu dros y ffin¹²⁴; dwrdiai aderyn-y-bwn y tresmaswyr dynol

a oedd yn beiddio ymwthio i'w deyrnas¹²⁵; gan fod heidiau o wylain, hwyaid gwylltion a phelicanod a phob math o adar yn dilyn Parry-Williams a'i gydymdeithion pan oedd yn cilio oddi wrth Mollendo, anodd oedd ymysgwyd â'r lle a'i bethau¹²⁶; yr oedd y llysywen wedi ymwthio trwy ryw gilfachau a oedd hyd ymylon llac y pwll, neu wedi codi'n blwmp ohono a mynd ymlaen ar ei thaith ymlusgol¹²⁷; yr oedd deiliaid ffermydd hen fro Parry-Williams yn barod i ymlid y tresmaswyr digywilydd, ac yntau ei hun yn un ohonynt, o'u tiroedd ond cafodd yr ymwthwyr lonydd yn y man a gofyn Parry-Williams iddo ei hun pa hawl a oedd gan y criw teledyddol i 'dresmasu.'¹²⁸

Ond, i'r gwrthwyneb, portreada'r ysgrifwr sefyllfaoedd a oedd yn amlwg wrth ei fodd, megis yr adeg pan geisiodd dreiddio i'r dirgelwch mor anymwthgar ag y gallai i ddarganfod yr hyn a oedd yn mynd â bryd y Cymro¹²⁹; ni ddaeth y grisial yn ôl yn ddigywilydd ac wynepgaled, ond yn swil a llednais¹³⁰; byddai Dafydd yn croesi'r ffordd fawr mor anymwthiol a llechwraidd ag y gallai, a byddai Parry-Williams yn tybied weithiau mai creadigaeth ei ddychymyg oedd Jane gan mor ddistaw ac anymwthiol ydoedd¹³¹, ac ymhellach, llifa afon Gwyrfaei drwy Lyn Cwellyn heb ymyrryd â gweddill dŵr y llyn.¹³²

Ymdeimlir â'r tyndra rhwng ymlyniad anochel Parry-Williams i'w fro a'i awydd cudd i'w ryddhau ei hun o'i gafael dirdynnol arno yn ei anterth yn ei rigwm enwog, 'Hon',¹³³ lle y mynega ar y dechrau mai damwain a hap ydyw ei fod yn byw yng Nghymru, a awgryma, efallai, y byddai'r agosatrwydd dirdynnol yn dal i fodoli rhyngddo ef a'i wlad enedigol hyd yn oed petai wedi ei eni yn rhywle heblaw Cymru, ond gan ei fod wedi ei eni a'i fagu yno, teimla fod ei ddyletswydd i garu ei famwlad yn mynd yn dreth arno. Nid oes ond rhaid nodi'r geiriau 'crafangau', 'dirdynnu' a 'dianc' i sylweddoli hyn. Egyr y rhigwm wrth i'r bardd ffugio difaterwch ynglŷn â'r wlad, ac yn wir, y mae'n ei dilorni ynghyd â'i phobl oherwydd eu teyrngarwch iddi. Ond, unwaith yn rhagor, nid yw hyn ond ystryw ddechreuol i finiogi'r agosatrwydd anochel a fodola rhwng y bardd a'r wlad. Dylid nodi, fodd bynnag, mai bychanfyd o Gymru yw Rhyd-ddu iddo, ac wrth iddo geisio dianc oddi wrth ei olygwedd resymegol, wrthrychol o Gymru a'i phobl 'ymhell o gyffro geiriau'r eithafwyr oll', dargenfydd, ar ei waethaf, fod y lleisiau a'r drychiolaethau yn arwain ei ddychymyg atynt yn ei hen fro yn fwy ysgytiol o'r hanner na geiriau diriaethol yr eithafwyr. Pan symudir yn ebrwydd o'r olygwedd wrthrychol i'r un oddrychol, yn enwedig drwy i'r bardd dynnu sylw at y

ffaith iddo gael ei eni yng Nghymru, yn hytrach na'i fod yn digwydd byw
yno, sydd yn gyferbyniad hollbwysig, sylwir bod yma enghraifft
gyhoeddedig amlwg ganddo mai ei galon, yn hytrach na'i ben, sydd yn
rheoli. Adwaith negyddol a brofa, bellach, drwy ddychmygu ei hen fro
fel y mae yn y presennol, a hynny oherwydd y gwrthgyferbyniad amlwg
rhwng ei atgofion hapus amdani pan oedd yn ifanc a sefyllfa drist y
presennol ar ôl y chwalfa fawr o golli llawer aelod o'i deulu.

Traetha Parry-Williams am y genedl Gymreig, yr iaith Gymraeg a
Chymru yn ei bryddest radio, 'Esgyrn y Gynnen',¹³⁴ yn 1951, ddwy
flynedd ar ôl cyfansoddi 'Hon'. Y mae ei ddaliadau mor gadarn yn y
bryddest ag y maent yn 'Hon' ac ni ellir peidio â sylwi ar y cyfochredd
cryf sydd rhwng y ddau waith:

Beth yw'r ots gennyf i am Gymru? Damwain a hap
Yw fy mod yn ei libart yn byw. Nid yw hon ar fap

Yn ddim byd ond cilcyn o ddaear mewn cilfach gefn,
Ac yn dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn.
(‘Hon’)

Nid yw gwlad ond megis patrwm ar fap,
Na chynefin yn ddim ond mater o hap.
(‘Esgyrn y Gynnen’)

Cymysg o siâp a sylwedd, er hynny, yn y bôn
Yw darn o dir fel Cymru neu ynys fel Sir Fôn.

(‘Esgyrn y Gynnen’)

A phwy sy’n trigo’n y fangre, dwedwch i mi,
Pwy ond gwehilion o boblach? (‘Hon’)

Mae gwehilion, O oes, yn ein mysg, a swrn o rai
Sy’n gywilydd i’r tylwyth, mi wn – ar bwy bynnag ’mae’r
bai. (‘Esgyrn y Gynnen’)

Hefyd, yr un yw ymdeimlad Parry–Williams o gydymdreiddio â daear
Cymru yn y ddau waith. Yn y bryddest, sydd yn ddadl rhwng dau
gymeriad croes eu daliadau, sef Jac a John, ynglŷn â hunaniaeth, dywed
John fod daear Cymru yn treiddio trwy ei wythi a bod y cymundeb yn
codi arswyd arno gan ysgwyd a siglo’r corff a’r enaid. Y mae grym ei
gariad at ddaear ei wlad ‘yn tynnu pridd i gyffyrddiad â gwaed’¹³⁵:

Nid wyf yn honni, cofiwch, fod hyn
Yn rhywbeth i’w feithrin; mae’n uffern o sioc

I’r cyfansoddiad, ac ar yr un pryd
Yn nefoleiddio’r sistem i gyd.¹³⁶

Dywed fod egni’r tir yn cydio ynddo â’i nerth eithaf ac yn ei ddal yn
rhwymyn daear o’i anfodd. Â ymlaen wedyn i esbonio mai ‘Daear fy
ngeni’n palfalu yw/ Tir fy magu’n crafangu i’r byw’,¹³⁷ fel y gwna Cymru
i Parry–Williams yn ‘Hon’ ar ôl iddo simsanu a theimlo ysictod:

Ac mi glywaf grafangau Cymru’n dirdynnu fy mron.

Duw am gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.

Y mae'n amlwg fod Jac a John yn y bryddest yn cynrychioli'r ddau feddylfryd groes a bortreadir gan Parry-Williams yn 'Hon'. Ymhellach, disgrifia'r un profiad o gydymdreiddiad yn ei ysgrif, 'Pen Bwlch', lle y disgrifia'r angerddoldeb o fod yn un â'r ddaear a chael ei ddychryn gan ddieithrwch y digwyddiad.¹³⁸ Gwelwyd yn y bennod ddiwethaf mai'r un yw'r hanes yn ei gerdd, 'Moelni', lle y dywed fod mynyddoedd Eryri wedi mynd i mewn i'w hanfod ef. Disgrifir hyn yn 'Esgyrn y Gynnen', pan yw'r 'wlad' (sydd yn cynrychioli Cymru) yn dweud bod sibrawd fod perthynas hanfod rhyngddi hi ac ambell ddyn.

Pan ofynnodd Aneirin Talfan Davies i Parry-Williams beth a wnaeth iddo fynd ar y daith i Dde America, cyflwynodd y bardd driawd destlus o resymau, gan osod yr un pennaf, gellir tybied, ar ddechrau'r ateb:

Wel mae hwnna'n gwestiwn go anodd i'w ateb rhywffordd, ac eto'n hawdd hefyd. 'Roeddwn wedi blino yn un peth ar sesiwn yn y Coleg, ac wedi penderfynu dianc. 'Roedd elfen o ddianc yn y peth. 'Roedd yr hen ysfa grwydro wedi ailafael ynof i, a'r hen enwau pell yma, fel y gwyddoch chi, yn galw, 'roedd hynny hefyd. A 'dwy' i'n meddwl mod i isio rhoi rhyw dreial arnaf fi fy hun, ymaberthiad megis, - rhyw gymysgedd fel yna a barodd i mi fentro â mynd am dri mis o olwg pawb a phob-peth, a bod ar fy mhen fy hun heb gwmni, ond cwmni y baswn i'n taro arno fo ar y daith.¹³⁹

Ond onid yw hyn, eto, yn gwrth-ddweud rhai o'r cymhellion a adroddodd yn ei ysgrif, 'Llysywod', lle y datgelodd nad y nwyd grwydro, fel y cyfryw, a oedd yn gyfrifol am iddo fynd i Dde America? Sylwir, uchod, mai eisiau dianc o olwg pawb a phopeth yr oedd. Nid rhyfedd, felly, iddo ymddiddori fwy yn ei deimladau pruddglwyfus nag yng nghyfoeth profiadau newydd, cyffrous (a pheryglus, y mae'n rhaid cyfaddef) a ddaethai i'w ran ar y daith ac y mae'r diawledigrwydd sydd yn perthyn iddo fel petai yn ei orfodi i wynebu'r broblem ar ei phen.

Manyla ar yr orchest hon yn ei ysgrif, 'Yr Ias', a ymddangosodd yn 1927, drwy herio goblygiadau pellter. Synia Parry-Williams fod ymdeimlo i'r byw â phellter yn un o'r elfennau sydd wrth wraidd yr ias sydd o dan sylw, sef rhyw gosfa losg, dreiddgar a ddaw i fôn ei ymennydd, gan bwysu ar feddalwch ac andwyo a drysu popeth yno am dro. Yn wir, darlunnir y diawledigrwydd drwy iddo gyfaddef ei fod wedi mynd ymhell rai blynyddoedd ynghynt 'yn unig (am a wn i) i brofi grym yr ymdeimlad hwn o fod neu fynd ymhell.'¹⁴⁰ Y mae'n debyg mai achos o hunandriniaeth seicolegol yw hyn, sydd yn cyfateb i therapi atgasedd (*aversion therapy*) y seicdreiddwyr lle y mae modd cael gwared ag ofnau

cleifion drwy iddynt hir a chyson ymgynabod â'r hyn sydd yn eu poeni.

O dderbyn mai cyfeirio at ei daith i Dde America a wna yn y dyfyniad uchod, sydd yn bur debygol, o ddarllen yr holl ysgrif, onid yw'r bardd yn llwyr wrthbrofi yr hyn a bwysleisiodd ar ddechrau ei ddyddlyfr, sef dim llai na'i fod yn ceisio meddwl a theimlo fel petai ar ryw siwrnai fer gartref ar y tir, ond yn bwysicach fyth, nad oedd ei dad, ei fam nac yntau wedi gadael iddynt eu hunain sylweddoli ei fod yn mynd ymhell nac am gyhyd o amser? Achos arall o bwy sydd yn twyllo pwy!

Oni fyddai'n addas gofyn, yn y fan hon, tybed nad oedd yn ddigon cyfarwydd â'i gyneddfau cyn cychwyn ar y daith arswydus? Ymddengys nad yw ond yn miniogi y rhai pwysicaf iddo, sef cofio a theimlo hiraeth, wrth ymroi i'r gorchwyl poenus hwn. Tybed a ddysgodd fwy am ymdopi â'i natur ar ôl bod? A benderfynodd pa un ai ceisio lleddfu ei hiraeth ynteu ei dderbyn yn ddigwestiwn a oedd orau? Y mae'n debyg mai ceisio cysur a wna wrth gofio am fro ei febyd, ond, ysywaeth, croes i hynny, yn aml, yw'r canlyniad, fel y dengys yn ei rigwm, 'Hon'. Ond er hynny – a dyma un o baradocsau annirnad Parry-Williams – ni roddai'r byd am ei hiraeth am ei hen fro.

Â Parry–Williams ymlaen i gofnodi ei feddyliau yn ei ddyddlyfr taith gan drafod Periw, Colon, iseldiroedd yr Andes, San Lorenzo, Callao, Lima a Mollendo lle y mae'n sarhau Callao, Lima a Mollendo a'u trigolion yn hollol agored. Sonia am yr anghydfod sydd rhwng Chile a Pheriw ynglŷn â'r terfyn sydd rhwng y ddwy wlad a'r ffaith fod y Periwiaid eisiau ailfeddiannu Arica, lle y mae Parry–Williams ar y pryd ynghanol pobl fudr. Caiff yr helynt ei ddatrys wrth gynnal gwerinbleidlais. Yn ôl ei arfer, y mae'n postio llawer o lythyron a chardiau, ac ar 7 Awst, derbynia frysneges dda oddi cartref yn dweud bod popeth yn iawn. Ar 8 Awst, cyrhaedda dref Iquique sydd wedi ei lleoli ar wastadedd yn union o dan fynyddoedd, ac sydd, yn ôl ei farn ef, fel Drws y Coed Gwaith draw yn ei ardal enedigol.

Y diwrnod canlynol, daw'r pethau rhyfeddaf i'w atgoffa unwaith yn rhagor o gartref, yn hollol annisgwyl. Oherwydd, ar 9 Awst, sylwodd ar hysbysiadau o bob math wedi eu paentio neu eu gwyngalchu ar ochrau bryniau uchel yn Antofagasta gan ddwyn i'w gof yr enw OERDDWR a wyngalchodd yntau ac un arall gynt ger y ffermdy hwnnw. Ceir rhan o'r hanes ym mrawddegau agoriadol ei ysgrif o'r un enw,¹⁴¹ ond dengys y

darn anghyhoeddedig canlynol, sydd yn ymddangos yn 'Llyfr Melyn
Oerddwr' (llyfr cofnodion personol teulu agos Parry-Williams a oedd yn
byw yn Oerddwr) o dan y teitl '1916 OERDDWR', yr ochr ffraeth, hwyliog
i'w gymeriad nad adlewyrchir ond yn brin yn ei weithiau cyhoeddedig:

O gadarn felltgedig – O wen, fawr,
O na fu mo'i thebyg;
Cain O ferf (??), heb dolc na phig,
O ddel lydan ddiawledig.

E gannaid ar glogwyni – E union
E anodd ei thorri.
E lanwaith fel goleuni,
Ni cheir haul i'w churo hi.

R iesin ac arhosol – R sadiaf,
Arswydus, aruthrol;
R lan, bert; R lawn ei bol
R a'i gwedd yn dragwyddol.

D. (gwel uchod)
D. (gwel uchod)

W Dydd miri'r oes, dydd mawr yr W – Wyr y Diawl
Na cheir dydd fel hwnnw.
W, miwn, tu hwnt i hwntw,
W nefol iawn mi wnaflw!

R (gwel uchod)

Nodyn (gan un o'r ddau oedd wrthi)

(Gan fod yn rhaid torri dwy d i wneuthur dd,
barnwyd yn ddoeth englynu i D yn hytrach nag i DD,

am fod un D ar ei phen ei hun yn werth y
drafferth – yn enwedig ag ystyried y drafferth a
gafwyd i dorri un D, hyd yn oed)

I'r D (ar y Llechen Ddu) a gwblhawyd Nos Sadwrn
y 29ain o Orffennaf 1916, mewn cawod o wybed.

D lawn ffres, D lân ei phryd, – na all diawl
Na llaw dyn ei syflyd;
D da a dihafal hefyd,
D fawr ei bol, D fwya'r byd.¹⁴²

Yn Valparaiso ar 12 Awst, y mae'n cael cryn drafferth gydag awdurdodau

diogelwch yn sgîl cyflwr cythryblus Chile. Drannoeth, y mae'n cyrraedd

Santiago a gwêl res o fynyddoedd sydd yn edrych yn debyg iawn i'r

'Wyddfa a'i chriw'. Yn ôl ei sylwadau yn ystod y deuddydd yr arhosodd

yn Santiago, yr oedd y dref yn odidog a'i phobl yn siriol a bywiog. Ar y

15fed, derbynia lythyr oddi wrth ei frawd, Wynne. Ar ôl taith dros yr

Andes, y mae'n cyrraedd Buenos Aires ar yr 17eg lle y mae'r strydoedd

dan eu sang oherwydd ymweliad Tywysog Cymru â'r ddinas.

Drannoeth, y mae'r ddolen gyswilt rhwng Parry-Williams a'i deulu yn

cryfhau wrth iddo dderbyn dau lythyr oddi wrth Oscar, ei frawd, un o

Queenstown gan ei chwaer, Blodwen, ac un gan ei dad hefyd, ond yn

anffodus, cwyd hyn hiraeth yn ei galon unwaith eto. Y mae trobwynt yn

dod ar y cam hwn o'r daith anturus wrth iddo ganiatáu tipyn o

hunandrugaredd:

Erbyn hyn yr wyf wedi ymollwng rhyw fymryn bach i feddwl neu'n hytrach fyfyrrio. Ni feiddiwn wneud hynny o'r blaen – yr oeddwn yn beryglus o bell – a llawer digwydd i fod cyn cael llong am gartref...Yr wyf wedi edrych ymlaen llawer– yn ddistaw bach–at gael bod ar fwrdd y llongau adref – ond nid wyf am lawenychu gormod yn rhy fuan. Dysgais yn ystod fy mywyd beidio â gorfoleddu...Bûm yn crwydro'n unig ar y dec heno– heb siarad gair â'r un o'r teithwyr hyd yn hyn...Af i'm gwely rwan. Aeth rhyw arswyd drosof wrth feddwl am y noson gyntaf honno o Lerpwl. Diolch nad oeddwn yn gadael i mi fy hun geisio sylweddoli 'enbydrwydd yr antur'.¹⁴³

Nid oedd yn rhyfedd iddo ddweud yn gynharach ar y daith mai edrych ymlaen a fyddai orau, oherwydd edrych ymlaen at gael bod ar ei ffordd adref yr oedd! Ar 19 Awst, sylwa fod Croes y Deau i'w gweld yn glir iawn ac y mae wedi dechrau darllen *Tales of the Long Bow* gan

G. K. Chesterton. Diwrnod digon digalon a gafodd heddiw ond nid oes dim esboniad am hynny. Y mae'n debyg i ran arbennig o'r llyfr uchod ei ysgogi i feddwl mwy fyth am bellter oherwydd fe'i ceir yn ei lawysgrifen ei hun ar bapur gwahanol, gan gyfeirio at dudalen 226 yn y llyfr:

But neither the American prairie nor the African veldt really looks any larger, or could look any larger, than a wide English vale seen from a low English hill. Nothing can be more distant than the distance; the horizon or the line

drawn by heaven across the vision of man. Nothing is so illimitable as that limit. Within our narrow island there is a whole series of such infinities; as if the island itself could contain the seven seas.¹⁴⁴

Sylw Parry-Williams yw: ‘felly hefyd am fynyddoedd?’ ac efallai i hyn

esgor ar feddyliau dyrys am amser yn nes ymlaen:

Ni bydd dim bellach – ond edrych ymlaen at Rio de Janeiro a Lisbon ac yna Cartref! [sylwer ar y brif lythyren]...Nid oedd gennyf fawr o ysbryd ddoe na bore heddyw – ond erbyn hyn yr wyf yn dyfod ataf fy hun yn raddol ac yn siriolach. Stat ddigydymaith sy’n cyfrif fwyaf am y pruddder – mi goeliaf. Weithiau daw rhyw falchder drosof wrth feddwl fyrred yr amser rhyngof a chael glanio gartref – wedyn ymddengys yr amser yn hir rywfodd. Ond fe â.¹⁴⁵

Pan yw yn Rio de Janeiro ar 25 Awst, derbynia lythyr dyddiedig Awst 4ydd oddi cartref ac y mae hynny’n codi ei ysbryd yn syth a datgana ei fod yn teimlo’n iawn. Yna, dywed fod ‘merch ieuanc ddigon digywilydd yn ffarwelio â phawb wrth i’r llong gychwyn o Rio de Janeiro heddyw. (sic) – a llygoden ffrenig wen ar ei hysgwydd.’ Y diwrnod hwnnw, cyfansoddodd un o’i gerddi mwyaf adnabyddus, ‘Y Ferch ar y Cei yn Rio’,¹⁴⁶ gan ddisgrifio nodweddion amrywiol ei phenwendid.

Tybed a fu Parry-Williams yn pori ar dudalennau’r papur newydd, *Y Glorian*, yn 1906? Ynddynt, fe fyddai wedi gweld stori hir, sef ‘Llio Plas y Nos’ sydd yn adrodd hynt a helynt Llio a garcharwyd yn erbyn ei

hewyllys yn ei chartref, Plas y Nos. Ymddengys iddi golli ei chof
oherwydd rhyw brofiad annymunol a gafodd yn y gorffennol. Ni wŷr
pwy ydyw, ac o ganlyniad, y mae hi'n ymddwyn yn dra anghyffredin, yn
ôl ei chariad, Ivor Bonnard:

Sylwodd ar unwaith ar ei llygaid mawrion disglair, a
theimlai fod rhywbeth dieithr, pell, trist, yn eu dyfnder ...
Beth, mewn difrif, oedd o'i flaen? Ai drychiolaeth brydferth
rhyw freuddwyd a angofiasai? Ai ynteu geneth fyw mewn
crawd, a'i synhwyrâu wedi hanner drysu, nes dwyn
diniweidrwydd y plentyn yn ôl i lywodraethu ei
symudiadau? Wedi edrych funud arni, gwelodd yn amlwg y
drem na allai ei chamgymryd, trem ryfedd, ddieithr, y
llygaid sydd â'r meddwl tu ôl iddynt wedi ei amharu ...
daeth pleser a llawenydd fel golau heulwen i dywynnu yn ei
hwyneb. Ond, yn gymysg â'r llawenydd, yr oedd elfen o
ansicrwydd, ...¹⁴⁷

Mi wyddan nhw pam rydw i o 'ngho; rydw i wedi anghofio!
Llawn o deimlad gwyllt, toredig oedd ei llais, ac ynddo ryw
dristwch mawr, pell, ac annirnadwy, yn hofran ar ymylon
tywyll ei chof, ond heb ddyfod i'r goleuni, am fyned o'r
goleuni'n dywyllwch.¹⁴⁸

Diddorol yw sylwi, hefyd, ar ddyfyniad a osodir ym mhennod 1 o'r stori:

'chwerthin ac wylo, llawenhau a thristáu'¹⁴⁹ sydd yn adlewyrchiad o'r
llinell 'Mewn cymysgiaith rhwng chwerthin a chrio' yng ngherdd Parry-
Williams. Y mae anallu Llio, Plas y Nos, i'w hamddiffyn ei hun, ei
hunigedd, a'i hymddiriedaeth lwyr yn Ivor yn ennyn ynddo natur sifalri

addolgar y Canol Oesoedd. Sylweddola nad gwallgofrwydd cyffredin yw afiechyd Llio, ond coll gof oherwydd i'w theimladau ddioddef ergyd drom. Ac ymhellach, gŵyr y gall cariad a thynnerwch ei hadfer i'w hiawn bwyll. (Cofir yma nad oedd neb yn difriö'r ferch ar y cei yn Rio nac yn ei gwawdio, yn ôl Parry-Williams; yn wir, teimlai ef drugaredd drosti).

Fodd bynnag, yn ddiweddarach, disgrifir ymddangosiad cythryblus Llio, Plas y Nos, fel hyn: 'Gwibiai ei llygaid yn wyllt i bob congl o'r ystafell.'¹⁵⁰

Ond, un noson, synia Ivor fod Llio wedi gwella:

Ciliasai'r drem grwydrol, wyllt, ddychrynedig, bron yn gyfan gwbl o'i llygaid, ac yn ei hymddiddan nid oedd yn rhuthro oddi wrth un pwnc at un arall yn sydyn a direswm.¹⁵¹

Yna, dywed Llio nad oes ganddi dad o gwbl na pherthynas yn unlle am nad yw hi'n cofio dim. Heb fynd i gymhlethdodau'r stori, da yw dweud bod cyflwr Llio yn gwella'n llwyr a bod popeth yn diweddu'n dda i'r ddau gariad gydag amser gan eu bod yn priodi a chael plentyn. Ac i gloi, da fyddai crybwyll un cyfochredd arall rhwng cerdd Parry-Williams a stori 'Llio Plas y Nos' oherwydd yr oedd y ddwy Lio yn byw yn hapus gyda llygoden Ffrengig! Dyma'r hyn a ddigwyddodd i Ivor Bonnard yn y stori:

Wedi ei feistroli ei hun unwaith eto, croesodd at y drws yn ddistaw, a thynnodd ef yn agored. Wrth iddo wneud

hynny, rhuthrodd rhywbeth yn chwim drwy'r fynedfa tu
allan – llygoden Ffreinig, fe ddichon – ond camu yn ôl a
wnaeth Bonnard, a'i galon yn ei wddf.¹⁵²

Efallai mai cyd-ddigwyddiad llwyr yw'r cyfochredd, ond yn sicr, yr oedd
y llyfr, *Llio Plas y Nos*, ym meddiant Parry-Williams oherwydd ceir
cofnod o'i enw a'r dyddiad, 20 Chwefror 1946, y tu mewn iddo. Cafwyd
o leiaf dau argraffiad o'r llyfr a hynny ym mis Rhagfyr 1945 ac ym mis
Mawrth 1948, a'r awdur oedd R. Silyn Roberts. Yn ôl geiriau David
Thomas yn y llyfr, cyhoeddodd yr awdur lawer o'i waith yn *Y Glorian*
rhwng 1905 a 1912 ac ymddangosodd y stori o dan sylw yn 1906 o dan
y ffugenw, 'Owen Glynn' ond y mae ei lythyrau yn profi'n eglur mai ef
oedd yr awdur. Y mae'n amlwg i'r llyfr greu argraff ddofn, ddryslyd ar
Parry-Williams oherwydd ei gwestiwn mawr ar ddiwedd y tudalennau
cefn yw: 'ond pwy oedd Llio?'

Ar 24 Awst, yn ystod ei daith i Dde America, y mae'n cyfansoddi ei
gerddi, 'Y Weddi' ac 'Ar y Bwrdd' (Chwiw Brudd). Ddeuddydd yn
ddiweddarach, teimla'n dda iawn a thrannoeth y mae'n falch iawn o
dderbyn brysneges o Lerpwl ac o Ryd-ddu yn dweud bod popeth yn
iawn a chofnoda mai saith wythnos i heddiw y cychwynnodd ar y daith o
Lerpwl. Y mae pethau'n dal i wella gan iddo ddweud ar y 28ain ei fod yn

teimlo'n dda iawn. Ar y 3ydd o Fedi, datgana mai deufis i heddiw yr hwyliodd o Lerpwl a deuddydd yn ddiweddarach, dywed ei fod yn falch iawn iddo dderbyn llythyr oddi wrth ei dad, Eurwen, ei chwaer, ac Oscar, ei frawd. Y mae'r ddolen gyswilt yn cryfhau wrth iddo yrru neges adref drannoeth.

Ar y 7fed, gwêl angladd hen wŷr ar y llong gan ei ysgogi i gyfansoddi ei gerdd, 'Angladd ar y Môr', a thrannoeth, y mae'r daith bron â dirwyn i'w phen wrth iddo deithio ar y trê'n i Waterloo, lle y mae Wyn (sic) yn cyfarfod ag ef. Unwaith yn rhagor, y mae unigrwydd yn ei daro: 'a dyma fi newydd ffarwelio â Wyn ac ar fy mhen fy hun unwaith eto yn y trê'n.'

Dyddlyfr Taith 1935

Teithiodd Parry-Williams i America unwaith yn rhagor yn 1935, a'r tro hwn, i'r Gogledd. Hwylodd o Southampton i Efrog Newydd ar 20 Awst a'r hyn a bwysai fwyaf ar ei feddwl oedd ei frawd, Willie, a fu farw yno yr un flwyddyn. Ddwy flynedd ynghynt, yr oedd wedi colli ei chwaer hynaf, Blodwen, a'i dad a'i fam, hwythau, wedi marw ers ei ymweliad blaenorol ag America.

Ar 25 Awst, y mae'n mynychu gwasanaeth Eglwys Loegr a dyma ei sylwadau ar y diwrnod hwnnw:

Rhyfedd mor ddisensation ydwyf ynglŷn â'r siwrnai – fel
petawn yn mynd i rywle yng Nghymru neu Loegr yn union –
yn hytrach na bod yn agos i le newydd sbon i mi – N.
York.¹⁵³

Cyrhaedda y fan honno ar 27 Awst, a thrannoeth y mae'n mynd i weld
bedd Willie yn Cypress Hills National Cemetery yn Brooklyn gan ddweud
ei fod yn lle braf. Hefyd, gwelodd siop fawr Marshall Field yn Chicago,
lle y bu Willie yn gweithio. Cyfansoddodd rigwm tyner amdano,
'Chicago'¹⁵⁴, lle yr awgryma ei fod yn asio dolen hud wrth droedio'r
llwybrau a gerddodd ei frawd. Cyfarfu â llawer o enwogion ar y daith, ac
yn eu plith yr oedd Malcolm Campbell a oedd yn ceisio torri ei record
'cyflymder ar dir' gyda'i fodur rasio, Bluebird. Yn ystod y daith, bu yng
nghwmni llawer iawn o'i deulu, gan gynnwys rhai o aelodau teulu
'Oerddwr'. Ond er hyn oll, ar 4 Medi, fe'i llethir gan yr un hen fwgan,
unigrwydd, unwaith eto. Lluniodd gerdd i'w gyflwr cynhenid ei hun, lle y
gwelir yr un tyndra yn y gwadwr dewr unwaith yn rhagor. Wele ddwy
linell o'r gerdd honno, 'Unigrwydd':

'R wyn dal i gredu'n y rhifol un,
Wrth gael cymaint o hwyl ynof i fy hun.¹⁵⁵

Y diwrnod canlynol, fe'i hatgoffir o Gymru wrth gymharu gyrrwr â rhyw ddynd modurdy yn Llanrhystyd. A'r fordaith drosodd, dychwela i Loegr ar 19 Medi gan benderfynu ffonio Wyn.

Ar dudalen gefn ei ddyddlyfr, y mae Parry-Williams wedi ysgrifennu a llofnodi'r dywediad canlynol: 'Nid ein bod yma sy'n rhyfedd, ond ein bod yn gwybod ein bod yma.' Cyfeiriad at hunanymwybyddiaeth yw hyn, wrth gwrs. A yw'r gwadwr dewr, bellach, wedi cydnabod iddo ef ei hun fod yn y lleoedd yr ymwelodd â hwy yn Ne a Gogledd America, yn hytrach na'i fod ar dir ei febyd? Cyfyd problem enfawr arall yn y fan hon oherwydd perthynai llawer 'hunan' iddo fel yr esbonia yn ei rigwm, 'Dryswch'.¹⁵⁶ Sylwyd iddo ofyn, ar ei fordaith flaenorol: 'A newidiodd yr lôr/ Fyfi'n rhywun arall cyn mynd i'r môr?'¹⁵⁷ A lwyddodd y bardd-lenor o Ryd-ddu ei hunanddadansoddi ar y mordeithiau hyn, gan mai dyna oedd un o'r cymhellion dros fynd? Do, efallai, oherwydd cyfansoddodd lawer o gerddi, rhigymanu gan amlaf, ac yr oedd hyn, fel y dywedodd ef, yn fodd iddo ddod i'w adnabod ei hun. Ond, yn sicr, 'gweld' bro ei febyd mewn golau newydd oedd y prif ganlyniad ar ôl ei ymdrechion poenus i 'weld y byd'.

NODIADAU

PENNOD 3

'GWELD Y BYD'?

- 1 LIGC, THPW, C 2.
- 2 LIGC, THPW, C 10.
- 3 'Dylanwadau', (BBC Cymru 1960), LIGC, Casgliad Aneirin Talfan Davies; Llion Jones, *Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth 1993, 531-32.
- 4 *Y Wawr*, 4/3 (Haf 1917) 114; D. Islwyn Edwards, *Agweddau ar foderniaeth yng ngweithiau llenyddol T. H. Parry-Williams, gan fwrw golwg ar ei gefndir personol a llenyddol, ac ar foderniaeth fel mudiad*, traethawd M.A., Llanbedr-Pont-Steffan, 1982, 179.
- 5 *Ysgrifau* (Foyle's Welsh Depôt, Llundain, 1928; arg. 1af, 1928), 72.
- 6 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984; arg. 1af, 1984), 177.
- 7 *The Rubáiyát of Omar Khayyám*, translated by Edward J. Fitzgerald, (Airmont Publishing Company, Inc., New York, 1970), 98.
- 8 'Boddi Cath', *Ysgrifau*, 60.
- 9 *Cerddi* (Gwasg Aberystwyth, 1931; 3ydd arg. 1954), 49.
- 10 J. M. and M. J. Cohen, *The Penguin Dictionary of Quotations*, 1960, 8th edition 1971, (Penguin Books Ltd., Middlesex, Ltd.), 178.
- 11 *Who Said What* ed. John Daintith et al. (Chancellor Press, London, 1993), 112; (first British edition published in 1988 by Bloomsbury Publishing Limited under the title *Who Said What When*.)
- 12 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 207.
- 13 John Rowlands, "'Wêr-an-Têr": Agwedd ar Waith T. H. Parry-Williams', *Ysgrifau Beirniadol* VII, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1972), 171.
- 14 Dafydd Glyn Jones, 'Agweddau ar Waith T.H. Parry-Williams a Samuel Beckett', *Ysgrifau Beirniadol* II, gol. J. E. Caerwyn Williams (Gwasg Gee, Dinbych, 1966), 271-303.

- 15 Bobi Jones, *I'r Arch*, (Llyfrau'r Dryw, 1959), 85–97.
- 16 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 521.
- 17 'Y Drefn', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 177.
- 18 *Ibid.* 177.
- 19 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 519–20.
- 20 *Ibid.* 524.
- 21 Gweler Pennod 1, nodyn ¹⁴⁰.
- 22 Gweler Pennod 1, nodyn ¹⁴¹.
- 23 LIGC, THPW, A 173 (ii).
- 24 R. Gerallt Jones, *T. H. Parry-Williams*, cyfres 'Dawn Dweud', (Gwasg Prifysgol Cymru, 1999; arg. 1af, 1999), 41.
- 25 *Sonnets* (cyhoeddiad preifat, 1932), 41.
- 26 *The Grail* VIII, 23 November 1914, 24–5.
- 27 LIGC, THPW, CH 229.
- 28 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 524.
- 29 Trwy ganiatâd caredig Bethan Lewis, nith T. H. Parry-Williams.
- 30 J. E. Caerwyn Williams, 'Syr Thomas Parry-Williams yn ateb cwestiynau'r golygydd', *Ysgrifau Beirniadol* VI 1, gol. J. E. Caerwyn Williams (Gwasg Gee, 1973) 146.
- 31 Gweler Pennod 1, nodyn ⁵⁶.
- 32 Saunders Lewis, 'Braslun Radio', *Cyfrol Deyrnged Syr Thomas Parry-Williams*, gol. Idris Foster, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1967), 101–2.
- 33 *Sonnets*, (cyhoeddiad preifat, 1932), 45.
- 34 *Sonnets*, (cyhoeddiad preifat gwahanol, 1932), 47. Ni chynhwyswyd y soned hon ond mewn ychydig bach o gopïau.
- 35 *Sonnets*, (cyhoeddiad preifat, 1932), 43.
- 36 Ceir y gerdd hon yn llawysgrifen T. H. Parry-Williams ar dudalen 80 o *Modern Problems in Biology* gan William J. Dakin, (Benn's Sixpenny Library No 64), (Ernest Benn Ltd., London, 1929).
- 37 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 219–221.
- 38 Gweler R. Gerallt Jones, *T. H. Parry-Williams* (cyfres 'Dawn Dweud'), 31–93.
- 39 LIGC, THPW, G 73/1.
- 40 R. Geraint Gruffydd, 'Syr T. H. Parry-Williams', (Araith Agoriadol Pabell Lân Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975), 294.

- 41 *Pan Oeddwn Fachgen*, rhaglen deledu a recordiwyd ar ganol y 1960au, cynhyrhydd Geraint Rees. Fe'i darlledwyd ar y teledu ar 22 Ebrill 1966.
- 42 *Pensynnu*, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1966; arg. 1af, 1966), 25.
- 43 LIGC, THPW, CH 141.
- 44 *Pan Oeddwn Fachgen*.
- 45 LIGC, THPW, G 73/1.
- 46 LIGC, THPW, C 2.
- 47 *Ibid.*
- 48 *Ibid.*
- 49 *Ysgrifau*, 79.
- 50 *Cerddi*, 56.
- 51 'Y Lôn Ucha', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 191.
- 52 *Ysgrifau*, 12–14.
- 53 Daw'r dyfyniad hwn o'r soned, 'A Sleepless Night' gan Alfred Austin (1835–1913). Gweler gwefan <http://www.sonnets.org/austin.htm>
- 54 Arthur Eddington, *The Expanding Universe* (Penguin Books Limited, Middlesex, 1940), 11.
- 55 'Dychymyg mewn Barddoniaeth', *Efrydiau Athronyddol* XV, 1952, 9.
- 56 *Ibid.* 9.
- 57 LIGC, THPW, G 73/2.
- 58 'The Poetry of W. B. Yeats', *The Dragon*, March 1916, 174; D. Islwyn Edwards, *Agweddau ar foderniaeth yng ngweithiau llenyddol T. H. Parry-Williams, gan fwrw golwg ar ei gefndir personol a llenyddol, ac ar foderniaeth fel mudiad*, traethawd M.A., Llanbedr-Pont-Steffan, 1982, 129.
- 59 'Ar Gyfeiliorn', *Y Wawr*, 4/3, Haf 1917, 115; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 180.
- 60 *Ysgrifau*, 21.
- 61 *Y Wawr*, 2/3, Haf 1915, 81–4; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 108–111.
- 62 *Y Wawr*, 3/3, Haf 1916, 88–92; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 134–8.
- 63 *Y Wawr*, 4/2, Gwanwyn 1917, 41–5; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 149–153.

- 64 'Ar Gyfeiliorn', 114.
- 65 *Myfyrdodau*, (Gwasg Aberystwyth, 1957, arg. 1af, 1957), 96.
- 66 *The Works of W. B. Yeats* (Wordsworth Editions Limited, Ware, Hertfordshire, 1994), 51.
- 67 'The Poetry of W. B. Yeats, 172; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 126.
- 68 *Lloffion*, (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1942; ail arg. 1947), 67.
- 69 John Milton, *Paradise Lost*, 1667, (Penguin Books Ltd., London. Published in Penguin Popular Classics), 1996, 14.
- 70 *Ibid.* 87.
- 71 *Cerddi*, 40.
- 72 *Synfyfyrion*, (Gwasg Aberystwyth, 1937; arg. 1af, 1937), 84.
- 73 John Morris-Jones, *Penillion Omar Khayyâm*, (Gwasg Gregynog, 1928), 17.
- 74 W. B. Yeats, *The Countess Cathleen* (T. Fisher Unwin, London, 1912), 53.
- 75 *Pensynnu*, 23.
- 76 *Ibid.* 25.
- 77 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 172.
- 78 *Myfyrdodau*, 43.
- 79 LIGC, THPW, D 7.
- 80 *Ibid.*
- 81 *Y Wawr*, Cyf. 3, Rhif 3, Haf 1916, 88-92; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 134-8.
- 82 LIGC, THPW, FF 12, 'Yr Eifen Bersonol ?mewn Barddoniaeth ?mewn Rhyddiaith'.
- 83 *Y Wawr*, Cyf. 3, Rhif 3, Haf 1916, 91; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 137.
- 84 *Ysgrifau*, 46.
- 85 LIGC, THPW, C 2.
- 86 *Ibid.*
- 87 *Ysgrifau*, 25.
- 88 Dyfnallt Morgan, *Rhyw Hanner Ieuencid* (Gwasg John Penry, Abertawe, 1971), 32.
- 89 LIGC, THPW, C 2.
- 90 *Ibid.*

- 91 *Pensynnu*, 23.
- 92 LIGC, THPW, C 2.
- 93 'O Pica', *Cerddi*, 25.
- 94 LIGC, THPW, C 2.
- 95 *Ibid.* Ceir y fersiwn cyhoeddedig o'r gerdd hon yn *Cerddi*, 26.
- 96 *Cerddi*, 13.
- 97 Annie Foulkes, *Telyn y Dydd* (William Lewis, Caerdydd, 4ydd arg. 1929), 36-7.
- 98 LIGC, THPW, C 2. Ceir y fersiwn cyhoeddedig o'r gerdd hon yn *Cerddi*, 27.
- 99 *Ysgrifau*, 56-60.
- 100 *Myfyrdodau*, 77-80.
- 101 *Synfyfyrion*, 57.
- 102 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 191.
- 103 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 182-3.
- 104 *Synfyfyrion*, 19.
- 105 LIGC, THPW, E 15-19.
- 106 *Synfyfyrion*, 69.
- 107 *Olion* (Gwasg Aberystwyth, 1935; ail arg. 1959), 43-7.
- 108 *Y Flodeugerdd Englynion*, gol. Alan Llwyd (Christopher Davies, Abertawe, 1978), 57.
- 109 *Myfyrdodau*, 57.
- 110 *Synfyfyrion*, 19.
- 111 *Ibid.* 23.
- 112 *Synfyfyrion*, 62.
- 113 *Olion*, 58.
- 114 'Adar y To', *Ysgrifau*, 34.
- 115 'Tywod', *Ysgrifau*, 45-6.
- 116 'Gweld y Gwynt', *Ysgrifau*, 78.
- 117 'Yr Hen Ysfa', *Y Wawr*, Cyf 3, Rhif 3, Haf 1916, 90-1; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 136-7.
- 118 'Bwrn', *Olion*, 13-14.
- 119 'Dau Le', *Synfyfyrion*, 22.
- 120 'Drws-y-Coed', *Synfyfyrion*, 60.
- 121 'Teulu'r Ffatri', *Myfyrdodau*, 19, 29.
- 122 'Ann', *Myfyrdodau*, 50-1.

- 123 'Dewis', *Olion*, 29.
- 124 'Hafod Lwyfog', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 207.
- 125 'Y Tri Llyn: II – Llyn y Gadair', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 237.
- 126 'Yr Ias', *Ysgrifau*, 30–1.
- 127 'Llysywod', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 181–2.
- 128 'Bro', *Pensynnu*, 87–8.
- 129 'Y Naill a'r Llall', *Ysgrifau*, 72.
- 130 'Grisial', *Synfyfyrion*, 28.
- 131 'Teulu'r Ffatri', *Myfyrdodau*, 20–1, 29.
- 132 'Y Tri Llyn: III – Llyn Cwellyn', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 240.
- 133 *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul 1972; arg. 1af, 1972), 88–9.
- 134 Pryddest Radio yn *Cerddi Hir*, gol. Islwyn Jones a Gwilym Rees Hughes, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1970), 33–45.
- 135 *Ibid.* 41.
- 136 *Ibid.*
- 137 *Ibid.* 42.
- 138 'Pen Bwlch', *Synfyfyrion*, 47–49.
- 139 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 530–1.
- 140 *Ysgrifau*, 28.
- 141 'Oerddwr', *Lloffion*, 31.
- 142 'Llyfr Melyn Oerddwr'. Trwy ganiatâd caredig teulu Oerddwr.
- 143 LIGC, THPW, C 2.
- 144 *Ibid.*
- 145 LIGC, THPW, C 2.
- 146 *Ibid.* Ceir fersiwn cyhoeddedig y gerdd hon yn *Cerddi*, 30.
- 147 R. Silyn Roberts, *Llio Plas y Nos* (Gwasg Gee, Dinbych, 1945; ail arg. 1948), 45–6.
- 148 *Ibid.* 48.
- 149 *Ibid.* 5.
- 150 *Ibid.* 66.
- 151 *Ibid.* 87.

152 *Ibid.* 42.

153 LIGC, THPW, C 10.

154 Ceir y fersiwn cyhoeddedig o'r rhigwm hwn yn *Synfyfyrion*, 67.

155 LIGC, THPW, C 10.

156 *Olion*, 55.

157 Gweler nodyn ⁴⁸ uchod.

PENNOD 4

MAWR A BACH

Magwyd T. H. Parry-Williams mewn oes gyffrous o ddarganfyddiadau gwyddonol chwyldroadol a chwalodd gredoau a oedd wedi bod yn safadwy ers canrifoedd, gan esgor ar oes o amheuaeth ac amhendrantrwydd. Adlewyrchir hyn yma a thraw yn ei weithiau lle y datguddir natur ddadansoddol ei feddwl ymchwilgar. Fel y gwelwyd, ymddiddorai'n fawr iawn mewn gwyddoniaeth, a chyda'i fryd ar fod yn feddyg, ceisiodd droi cwrs ei fywyd drwy astudio'r gwyddorau, gan gynnwys ffiseg, yn ystod 1919 pan wrthodwyd Cadair iddo yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth. Flynyddoedd yn ddiweddarach, penderfynodd roi ail gynnig arni drwy geisio bod yn fyfyrwr ail flwyddyn yn Ysgol Feddygol Cymru, Caerdydd yn 1935. Ar ôl i Parry-Williams yrru ei gais i'r Ysgol, dywedodd Gwilym Owen, Is-Brifathro Coleg y Brifysgol Aberystwyth, mewn llythyr at Bennaeth yr Ysgol Feddygol, A. W. Sheen, nad oedd diddordeb Parry-Williams mewn meddygaeth erioed wedi pylu a'i fod yn benderfynol o wireddu ei ddyhead.¹ Fodd bynnag, yr oedd Prifathro Coleg Prifysgol Aberystwyth yn erfyn ar Parry-Williams i

ailystyried ei benderfyniad. Achosodd hyn gryn dyndra gan fod yn rhaid i Parry–Williams benderfynu yn iawn erbyn diwedd mis Mehefin fel y gallai roi rhybudd o dri mis i'r Coleg. Ysgrifennodd A. W. Sheen yn ôl at Gwilym Owen yn cadarnhau bod cymwysterau Parry–Williams yn hollol foddhaol iddo gael ei dderbyn i'r ail flwyddyn ym mis Hydref, a'i fod yn edrych ymlaen at ei ddyfodiad.² Ar 11 Gorffennaf, 1935, derbyniwyd Parry–Williams yn swyddogol fel myfyriwr ail flwyddyn gan ddechrau ym mis Medi.³

Ond yn anffodus, yr oedd bawd 'ffawd' arno unwaith yn rhagor, fel ag yr oedd pan drefnwyd ei yrfa academaidd i raddau helaeth gan ei dad. Credai Parry–Williams fod ei dad yn 'disgwyl rhywbeth' oddi wrtho oherwydd mai ef oedd y mab hynaf, fel yr esbonia yn ei sgwrs ag Aneirin Talfan Davies.⁴ Ond penllanw ei ymdrechion i geisio rheoli ei dynged ei hun oedd gorfod gwrthod cynnig yr Ysgol Feddygol oherwydd pwysau ei amgylchiadau.⁵ Ni wyddys yn iawn beth oeddent ond bu colli ei frawd, Willie, yr un flwyddyn, cyn i Parry–Williams fynd i Ogledd America, yn boen calon iddo, yn enwedig ar ôl colli ei chwaer, Blodwen, yn 1933, a hefyd, yr oedd dyletswyddau colegol yn pwysu'n drwm arno. Er y siom a deimlai ynglŷn â'r cwrs meddygaeth, parhaodd ei ddiddordeb yn y

gwyddorau, ac yn enwedig mewn ffiseg, drwy gydol ei oes, fel y tystia ei gasgliad personol o lyfrau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a gynhwysa, ymhlith llyfrau eraill ar wyddoniaeth, *Easy Lessons in Einstein; The World as I see it* gan Albert Einstein, *The Stars; The Atom; Modern Scientific Ideas; Physics and Philosophy; Philosophy and the Physicists; Life and Matter; The Riddle of the Universe; The Size of the Universe; The Stars in their Courses; A Dictionary of Science; The Mysterious Universe; Science and the Modern World; Limitations of Science; Atomic Radiation and Life, a The Strange Story of the Quantum.*

Rhyfeddai at bopeth, o'r mawr i'r bach, o'r bydysawd i'r gronynnau lleiaf, fel y dengys y gerdd a luniodd ar gyfer *Mawr a Bach* (1936),⁶ llyfr ei gyfaill o wyddonydd, Yr Athro Gwilym Owen (1880–1940), y cyfeiriwyd ato uchod. Yr oedd ef yn athro ffiseg yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth rhwng 1919 a 1937 ac ysgrifennodd sawl llyfr ar wyddoniaeth a oedd yn canolbwyntio ar seryddiaeth. Rhai o'i lyfrau yw *Cwrr y Llen* (1914), *Rhyfeddodau'r Cread* (1933), a *Mawr a Bach, sef Sêr ac Electronau* (1936). Gellir dyfalu i Parry-Williams a Gwilym Owen dreulio llawer awr ddifyr yng nghwmni ei gilydd yn Aberystwyth yn trafod pob math o agweddau ar ffiseg. Pan fu farw Gwilym Owen, efallai

i golled Parry–Williams fod yn fwy na cholled bersonol, oherwydd awgryma yn ei ysgrif, ‘Pendraphendod’, na wŷyr ef ryw lawer am ffiseg, ond yn arbennig am ffiseg atomig.⁷ Erbyn yr amser yr ysgrifennwyd yr ysgrif, yr oedd Gwilym Owen wedi marw ers dros ugain mlynedd a chanfyddiadau newydd ym myd ffiseg a seryddiaeth wedi digwydd yn y cyfamser. Y mae’n weddol sicr mai Gwilym Owen yw un o’r ddau gyn athro ffiseg y cyfeirir atynt yn yr ysgrif o dan sylw. Tybed a ddylanwadodd ef o gwbl ar ddewis gyrfaol Parry–Williams yn 1935?

Y Creu

Yn y gerdd, ‘Mawr a Bach’, a luniodd Parry–Williams ar gyfer llyfr

Gwilym Owen o’r un enw, gwelir mai ‘cyfyngedig yw’n cyneddfau oll’:

Fe wŷyr yr hwn a wnaeth bob nefol rod,
Eithaf ehangder y nifylau tân;
A gŷyr a wnaeth bob distadl beth sy’n bod,
Eithaf bychandra’r electronau mân.
Gŷyr hefyd na all neb o gwbl ond ef,
Y pensaer pell, â’i fesuroniaeth rydd
Rychwantu’r bwch rhwng cylch anfertha’r nef
A throell y gronyn trydan lleiaf sydd.
Ninnau, sy’n tybied inni gael y gwir
Trwy rym ymennydd cywrain a di–goll,–
Nyni, sy’n gorfod sylweddoli’n glir
Mai cyfyngedig yw’n cyneddfau oll,–
Nyni, yr hanner duwiau, llwch y llawr,
Ni yddom sut i fesur bach na mawr.⁸

Y mae'r disgrifiad o'r 'hwn a wnaeth bob nefol rod' yn rhan gyntaf y gerdd yn atgoffa rhywun o ddarlun dyfrlliw enwog y gweledydd, William Blake, *The Ancient of Days* (1794). Cyfeiria Parry-Williams at y darlun yn 'Bwrn',⁹ ei ysgrif gyntaf yn y gyfrol, *Olion* (1935), er mai fersiwn Cymraeg o'r ysgrif, 'Incubus', a ymddangosodd yn *The University of Wales Magazine* yn 1928 ydyw.¹⁰ Yn 'Bwrn', y mae'n cymharu darlun arall â *The Ancient of Days (Space)*: 'Rhaid mai'r un gwynt ydyw â hwnnw sydd yn chwythu gwallt yr Hollalluog yn *Space* Blake, lle y'i darlunnir Ef yn mesur ehangder y gwagle â chwmpas mewn storm o greu.'¹¹

Dylid nodi yn y fan hon mai llun Urizen, y Deddf-osodwr, a geir yn *The Ancient of Days*, ac fe'i portreadir fel duw yn rhwymo'r annherfynol ar un o dudalennau blaen *Europe a Prophecy* (1794), un o lyfrau Blake. Cyfeiria'r llun at linell o *Preludium* yn y llyfr: '*And who shall bind the infinite with the eternal band?*' Ceir yr un syniad yn ei *First Book of Urizen* a gyhoeddwyd yn 1794:

And Urizen...
...formed golden compasses,
And began to explore the Abyss.¹²

Y mae'n debyg i Blake gael ei ysbrydoli gan linellau John Milton yn *Paradise Lost*.

He took the gold'n Compasses, prepar'd
In God's Eternal store, to circumscribe
This Universe, and all created things ...¹³

Synia Kathleen Raine fod *First Book of Urizen* yn perthyn i '*Bible of Hell*' Blake a addawodd i'r byd yn *The Marriage of Heaven and Hell*, cerdd sydd yn dychanu hanes y Creu yn *Paradise Lost* Milton. Fel yr esbonia Raine:

The poem itself is a sombre satire of Milton's account of the Creation; according to Blake, the Seven Days of Creation represent seven phases of the imprisonment and 'binding' of 'the cavernd man' within the limitations of a world experienced only through the five senses. Urizen, thus limited, becomes the self-deluded and anxious demiurge, engaged in the 'enormous labours' of imposing his 'ratio of the five senses' on rebellious life, whose nature he has not understood. Such, according to Blake, is 'human reason', the false God of the Enlightenment, and, in France, of Rousseau and Voltaire.¹⁴

Y mae'r teitl, *Heaven and Hell*, lle y priodir Angel â'r Diafol, yn gyfeiriad

dychanol, uniongyrchol at *A Treatise Concerning Heaven and Hell*

Emanuel Swedenborg oherwydd i Blake gael ei ddadrithio gan

ddaliadau'r gwyddonydd-weledydd hwnnw am bethau fel crefydd

gyfundrefnol, gormes, dynwarediad, camfeddiannu a chamddarllen. Y

mae'r agweddau a gynddeiriogai Blake yn ddyrys dros ben ac ni ellir

cynnal trafodaeth lawn yma. Fodd bynnag, dyma flas ar rai ohonynt:

cyhuddai Blake Swedenborg o arddel ystryw offeiriaid ac yr oedd Blake

yn argyhoeddedig fod gwrthdaro rhwng yr ‘Hen feirdd’ (*‘Ancient poets’*), y credai ef ynddynt, ac offeiriaid gan fod y beirdd yn fodau creadigol a ymgorfforai ‘Athrylith Barddol’ y tarddai crefydd pob cenedl ohono; cysylltai Blake hyn ag ‘Ysbryd Proffwydoliaeth’ a ‘Dychymyg’ ac yr oedd llygaid Swedenborg ar gau oherwydd iddo arddel rhagdybiaethau; yn ôl Blake, yr oedd Swedenborg yn camddarllen y Gair a’i broffwydi gan gamarwain pobl â’i syniadau gau; anghytunai Blake â chred Swedenborg mewn rhagordeiniad a byw yn ôl y Deg Gorchymyn; mynnai Blake mai dynwarediad o syniadau Plato a arddelai Swedenborg yn ei Eglwys Newydd (Eglwys Caersalem Newydd Swedenborgaidd a sefydlwyd yn 1788) er i hwnnw honni mai syniadau newydd oeddent; credai Blake na wynebai Swedenborg fywyd go iawn gan iddo seilio llawer iawn o’i waith ar ei gymdeithasiad ag angylion, gan gredu’r hyn a ddywedent wrtho – yr oedd Blake am i Swedenborg siarad â diafoliaid fel y gwnâi ef gan mai hwy oedd yn cynrychioli ‘athrylith barddol’; casâi Blake ‘ddoethineb’ angylion Swedenborg oherwydd iddynt ddibynnu ar reswm. Y mae’n rhaid ychwanegu i Blake ei hun gysylltu ag angylion ac ysbrydion ar adegau. Fel hyn y crynhoa Joseph Viscomi *The Marriage of Heaven and*

Hell Blake wrth sôn am y pedwerydd neu'r pumed cam o gynhyrchu'r

gwaith:

Blake appears to end it with a wink and a nod towards Swedenborg. Whereas the image of Nebuchadnezzar and the axiom 'One Law for the Lion & Ox is Oppression' end plates 21–24, expressing Blake's anger at church and state, plates 16–20 end less aggressively: 'Opposition is True Friendship.' Through the course of his composition – and, one could argue, by venting his wrath – Blake appears to move from the conviction that Swedenborg symbolizes religious and political oppression to something more like gratitude for his adversary's role in generating *Marriage*, and thus in revealing or clarifying Blake's views in his own mind. Blake sees what he has accomplished, and sees the creative import of passionate response. In the *Marriage* he not only expresses opposition but at the same time engages in the intellectual combat – or 'Mental Fight' (Milton 2:13) – that he believed essential.¹⁵

Sylwir ar gyffelybiaeth rhwng yr uchod a'r ffaith fod Parry–Williams yn 'treiddio i'r adnabyddiaeth' ohono'i hun wrth ysgrifennu, fel y dangoswyd ym mhennod un yn y traethawd hwn. Ymhellach, yr oedd *Heaven and its Wonders and Hell* Swedenborg ym meddiant Parry–Williams yn 1915, a *William Blake* J. Bronowski yn rhan o'i lyfrgell bersonol yn 1955.

Yr oedd Urizen, y Deddf–osodwr yn *The Ancient of Days* yn un o greaduriaid dychmygol, mytholegol Blake a gynrychiolai fateroliaeth a

rheswm oherwydd i'w ddeddfau gyfyngu ar egni a mygu'r dychymyg.

Ymddengys yn wyth o lyfrau Blake ac fe'i disgrifir yn un ohonynt fel hyn:

'*The Creator of men! mistaken Demon of heaven.*' Sonnir amdano yn

creu '*Direful Web of [deceitful] Religion*' ac ef yw Duw dialgar yr Hen

Destament, ym meddwl Blake.¹⁶ Yn ôl Raymond Lister, credai Blake mai

Camgymeriad neu Gwypmp oedd yr act o greu a dehongla ddarlun Blake,

Elohim creating Adam, fel hyn:

The subject of *Elohim creating Adam* is based on *Genesis* 1.27: 'So God created man in his own image, in the image of God created he him.' Elohim is one of several Hebrew names of God ... A literal translation (it is a respectful plural) is 'judges', and as such it alludes to God in his judicial (or in Blakean terms, Urizenic) aspect, as opposed to the name Jehovah or Yahveh, which alludes to him in his merciful aspect. Elohim was both creator and judge, and therefore represented the vengeful aspect of God; in Blake's view he created man in order to judge him. A somewhat strange aspect of this design is that Adam is not depicted as being made in the image of God, whereas in the colour-printed drawing *God judging Adam ...* his features are identical with the Creator's ...

Blake saw the act of Creation as Error, or Fall. Before the Creation there was unity and eternity, but the act of creation brought division: male and female, good and evil, body and soul, all of which must be reunited if eternity is to be regained. In 'A Vision of the Last Judgment' in his Notebook he wrote, 'Error is Created. Truth is Eternal. Error, or Creation, will be Burned up, & then, & not till Then, Truth or Eternity will appear. It is Burnt up the Moment Men cease to behold it.' ...¹⁷

Yr oedd obsesiwn Blake â'r Creu yn gysylltiedig â helbulon gwleidyddol yr oes. Cyfeiria ei lyfrau, *America a Prophecy* (1793) ac *Europe a Prophecy* (1794) at yr angen am drawsnewidiad moesol yn wyneb apocalyps agos yn sgîl Rhyfel Annibyniaeth America (1775–1783) a'r Chwyldro Ffrengig yn 1789. Pwysai Blake yn drwm ar Lyfr y Datguddiad yn y Beibl, gyda'i ddirmyg at rym bydol, bygythiad o ddinistr y ddaear a'r addewid o Gaersalem Newydd, er mwyn ceisio argyhoeddi ei ddarllenwyr fod diwedd y byd wrth law; yr oedd Pedwar Angel y Datguddiad, sef Goruchafiaeth, Rhyfel, Newyn a Marwolaeth, wedi cychwyn ar eu taith ers Rhyfel Cartref Lloegr (1642–1646) ac ni fyddent yn gorffwys tan i'r ddynoliaeth gael gwared ar y Gwrthgrist a Satan.¹⁸

Gwelir yr un meddylfryd parthed dyn, Y Gwrthgrist a Satan mewn cydestun tra thebyg yn un o gerddi Parry-Williams. Gwall oedd creu 'Yr Hen Ddyn' yn ôl ei soned o'r un enw:

Gwall oedd ei greu a rhoddi iddo'r had
A'r gennad i genhedlu hil ar hil
A dewis daear iddo'i hun yn stad
I lusgo'i lanastr iddi yn ei sgil.
Efô yw'r andras: ef sydd ar y top;
Gwae a'i gwrthsafo: ganddo ef 'mae'r gwn.
Felly, ysywaeth, ni all neb roi stop
Ar lid hwsmoniaeth yr hanerco' hwn.

Mae'n haeru weithiau fod angylion Duw
Yn hedeg ar eu hald o nef y nef
I hwylio'i helynt ac i buro'i ryw
Ar gyfer gwynfyd; ond na choelief ef.
Wedi i'r cna' fod yn llyffanta cyd,
Mae grifft o'i ôl yn llysnafeddu'r byd.¹⁹

Y mae'n bur debyg mai cyfeiriad at Adolf Hitler ('yr andras' neu'r
Gwrthgrist, Satan, neu'r Diafol) a Hitleriaeth yn ystod yr Ail Ryfel Byd
sydd yma gan fod yr unben ('Gwae a'i gwrthsafo') yn gorfodi Almaenwyr
'i genhedlu hil ar hil (Ariaidd) ... i buro'i ryw/ Ar gyfer gwynfyd'
(Caersalem Newydd). Adeiladodd Hitler y Drydedd Reich ar arferion
hudoliaeth ac esoteriaeth; addolai Lwsiffer, pennaeth yr Angylion
Syrthiedig a wthiwyd i lawr o'r nefoedd i uffern ar ôl colli brwydr yn
erbyn Duw wrth geisio ennill cymaint o rym ag Ef. Symbol ocwlt Lwsiffer
(neu Satan) yw bollt fellten, a defnyddiodd Hitler y bollt fellten ddwbl ar
wisg Heddlu Arbennig y Natsïaid (Yr SS) (' Mae'n haeru weithiau fod
Angylion Duw/ Yn hedeg ar eu hald o nef y nef/ I hwylio'i helynt ac i
buro'i ryw/...'). Hefyd, efallai fod yn y llinellau, 'Wedi i'r cna' fod yn
llyffanta cyd,/ Mae grifft o'i ôl yn llysnafeddu'r byd.' yn gyfeiriad at Lyfr
y Ddatguddiad 16:13 a 16:14 lle y mae'r ddraig yn cynrychioli Satan:

Ac mi a welais dri yspryd aflan tebyg i lyffaint yn dyfod
allan o safn y ddraig, ac allan o safn y bwystfil, ac allan o
enau y gau-broffwyd. (16:13)

Canys ysprydion cythreuliaid, yn gwneuthur gwyrthiau,
ydynt, y rhai sydd yn myned allan at frenhinoedd y ddaear,
a'r holl fyd, i'w casglu hwy i ryfel y dydd hwnnw, dydd
mawr Duw Hollalluog. (16:14)

Fel hyn y disgrifia John Evans ran Satan yn temptio Efa yng Ngardd Eden

yn ei gyfieithiad o waith Milton, *Coll Gwynfa*:

...A chaent ef megys llyffant yn ei grwm
Ar bwys clust Efa deg, yn gwneuthur cais
A'i ddieflig grefft i ddylanwadu ar
Beiriannau ei dychymyg, er rhoi bod
I rithion, hudion, a breuddwydion gwag,
Fel mynnai ef; neu os, drwy chwythu i fewn
Wenwynig naws, y gallai afiachau'r
Ysbrydoedd bywiol, darddant o waed pur
Fel chwäon tirion o afonydd ter,
Ac oddiyno, o leiaf, godi drwg
Fedlyliau, o anfoddog naws, a gau
Obeithion, brydiau gwag, trachwantau poeth,
Llawn ucheldybiau'n magu balchder coeg.²⁰

Cyfeiria'r darn o 'Yr Hen Ddyn', 'Ond na choelier ef' (Hitler) at y gau-
broffwyd yn Llyfr y Datguddiad a ddaeth i'r byd fel y Diafol i dwyllo'r
ddynoliaeth â'i gelwydd mewn modd carismatig. Ni ellir llai na theimlo
elfen o atgasedd tuag at ddynoliaeth yn gyffredinol, ac yn enwedig yn
ystod amseroedd rhyfel, wrth ddarllen 'Yr Hen Ddyn'. Gellir cyfeirio at

rai enghreifftiau eraill sydd yn cyfleu'r un darlun yn ei weithiau, megis
'Ac nid yw'r tymhorau yn malio draen/ Pa faint a wna dyn o stomp a
staen.'²¹; 'O'r gorau, frawd; ond fe hoffai ambell un/ Wybod beth ydyw
Hanes a phwy yw Dyn.'²²; 'Beth ydwyt ti a minnau, frawd,/ Ond swp o
esgyrn mewn gwisg o gnawd?'²³; 'Ni wnawn, wrth ffoi am byth o'n
ffwdan ffôl,/ Ond llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl.'²⁴ Ceir cyfeiriad
deifiol, anuniongyrchol at Hitler a'r llastr a achosodd yn 'Borshiloff'²⁵
ac yn y gerdd, 'Carchar'²⁶, y mae'r bardd yn ymbil ar Dduw i ganiatáu
iddo gasáu ei greadigaethau Ef, sef ciwed gymysglyd gwledydd De
America.

Yn 1795, paentiodd Blake y darlun, *Newton*, o Isaac Newton, lle y ceir y
gwyddonydd yn mesur ei fyd clocwaith mecanyddol ar ddarn o bapur,
sydd yn awgrymu un o'r 'hanner duwiau' yn 'Mawr a Bach', efallai. Yn ôl
Newton, crëodd Duw y bydysawd, gan roi cychwyn iddo a'i adael i ofalu
amdano'i hun ar ôl hynny. Ceir sawl cyfeiriad yng ngweithiau Parry-
Williams at fychander cyneddfau dyn a'r ffaith fod dyn yn ei ystyried ei
hun fel duw: 'Anturiwn weithiau ddywarded Duw,/ Ond snecian yr ydym
wrth geisio byw.'²⁷; 'Safwn, fel duw,...Gwydwn o'r gorau mai myfi fy
hun/ - Y duw, na b'ond ei grybwyll,.../ Ond sylweddolais, pan

ddiflannodd hi,/ Nad oeddwn dduw – mai'r garreg oeddwn i.'²⁸ Afraid dweud bod Blake yn anghytuno'n chwynr â golygwedd fathemategol, fecanyddol Newton a oedd yn gosod ffiniau cadarn ar bopeth yn y bydysawd ac yn diystyru byd yr ysbryd yn gyfan gwbl. Ceir ymdeimlad cryf o blaid daliadau Blake wrth ddarllen rhwng y llinellau yng ngweithiau Parry-Williams hefyd: yr oedd eisiau clywed rhyw wêr melyslais yn sôn am 'afonydd Babilon' a'r 'pethau nad adnabu'r byd.'²⁹; cytunai â bachgen bach chwech oed pan ddywedodd hwnnw "*Mae 'na bethau*" fel ag yr oedd Shakespeare wedi mynegi "*There are more things ...*" – gosodiad sy wedi tyfu'n ystrydeb afforistig erbyn hyn, fel pob "gwirionedd tragwyddol".³⁰; syniai y byddai ei wên du 'wedi casglu i'w wead swm o argraffiadau a phrofiadau "na wêr y byd amdanynt"...³¹; wrth drafod diflaniad y tylwyth teg o'i hen fro, mynega ei gred 'na wyddom ni feidrolion y dirgelion oll.'³²

Tri chwestiwn mawr sydd wedi poeni dyn ar hyd yr oesoedd yw Duw, Natur a Dyn. Sut y gwyddys fod Duw yn bodoli? Ac os yw'n bodoli, a oes berthynas arbennig rhyngddo Ef a Dyn? A oes elfen drosgynnol ym mywyd Dyn a'r bydysawd ynteu mater yn unig yw popeth? Yn sgîl damcaniaeth mecanyddiaeth, gwelwyd Natur fel peiriant Newtonaidd ac

fe'i tymherwyd â Darwiniaeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymhellach, o ganlyniad i ddarganfyddiadau chwyldroadol ym myd ffiseg yn ystod yr ugeinfed ganrif, yn enwedig damcaniaethau perthynoedd Einstein a damcaniaeth cwantwm, troes y darlun yn fwyfwy haniaethol a mathemategol, gan greu ymdeimlad o ddieithrwch mewn Dyn, a phellter rhyngddo ef a Natur a Duw. Gwelir bod Parry-Williams yn arddel ei olygwedd ramantaidd fel bardd yn ei erthygl, 'Ysprydoliaeth',³³ (sic) gan feirniadu beirniaid sydd yn diystyru ysbrydoliaeth yn gyfan gwbl oherwydd eu bod yn faterolwyr.

Y mae esbonio dechreuad y bydysawd wedi bod yn un o ddirgelion mwyaf yr oesau a chrefyddau gwahanol y byd gyda'u hesboniadau eu hunain amdano. Yn ôl y grefydd Iddewig/Gristnogol, crëwyd y nefoedd a'r ddaear gan Dduw mewn chwe diwrnod ond cred gyffredinol gwyddonwyr heddiw, yn ôl Damcaniaeth y Glec Fawr, yw i'r bydysawd ddod i fodolaeth tua 15 biliwn o flynyddoedd yn ôl gan ddechrau oeri yn raddol am gyfnodau hir ar ôl hynny. Ffurfiwyd gronynnau o fater ond diflannodd rhai ohonynt am byth. O dan rym disgyrchiant, daeth y gronynnau eraill at ei gilydd i ffurfio galaethau ac oddi mewn i'r rheini, ganwyd heuliau. Tua 4 ½ biliwn o flynyddoedd yn ôl, ffurfiwyd y ddaear,

a gynhwysai ddur, silicon, carbon, ocsigen a hydrogen, o lwch rhyngserol wrth gylchdroi o gwmpas seren fechan a ddaeth i'w hadnabod fel yr haul. Dechreuodd bywyd ymddangos ar y ddaear. Ond nid ymddangosai dim yn sefydlog oherwydd bod popeth yn newid drwy'r amser. Er hynny, sylwyd ar fodolaeth cylchoedd natur sefydlog yr oedd yr haul, y lleuad a'r sêr yn chwarae rhan hanfodol ynddynt. Felly, ystyriwyd egwyddorion sylfaenol neu ddeddfau sylfaenol posibl a oedd yn llywodraethu'r ffordd yr oedd y bydysawd yn gweithio. Ymhen amser, credai pobl fod y byd ar ganol y plât nefol ar ganol y bydysawd ac mai duwiau cylchdroeog oedd yr haul a'r lleuad. Daeth y syniad mai'r haul oedd ar ganol y gyfundrefn heulol yn adnabyddus drwy ddisgrifiad Nicholas Copernicus (1473–1543) o'i fodel 'heulganolog' o'r gyfundrefn heulol yn *Commentariolus* (1512). Nid oedd y syniad yn un newydd gan i'r seryddwr Groegaidd, Aristarchus (310 C.C.–230 C.C.) a hefyd, Nicholas o Cusa (1401–64), a ysgrifennodd tua phump ar hugain o weithiau athronyddol a chrefyddol, gyflwyno damcaniaethau tebyg yn flaenorol. Dywedodd Copernicus fod yr haul ar ganol y gyfundrefn heulol a bod yr holl blanedau yn symud mewn cylchdroeon. Y ganrif ddilynol, penderfynodd y mathemategydd a'r seryddwr Awstriaidd,

Johannes Kepler (1571–1630), fod yn rhaid i gylchdroeon y planedau fod yn hirgylchol ac nid yn gylchol. Fodd bynnag, aethai'r syniad o fydsawd heulganolog yn erbyn daliadau crefyddol dwfn am y bydysawd a safle dyn ynddo gan mai'r byd oedd canol y bydysawd, yn ôl y Beibl. Cynhyrfwyd y dyfroedd yn 1604, pan ddyfeisiodd y mathemategydd Eidalaid, Galileo Galilei (1564–1642), brawf o'r syniad heulganolog gan ddefnyddio dyfais newydd, y telesgop. Talodd yn ddrud am arddel y fath syniad hereticaidd pan y'i rhoddwyd ar brawf yn y Chwil–lys yn Rhufain a'i ddedfrydu i gael ei gyfyngu i'w dŷ am weddill ei oes.

Gellir ystyried mai Isaac Newton (1642–1727) oedd y gwyddonydd arbrofol cyntaf. Arsylwodd ar y modd yr oedd pethau'n gweithio mewn gwahanol fannau a pharthau yn y bydysawd. Yr oedd yn disgwyl canfod egwyddorion cyfanfydol yr oedd gwrthrychau yn ufuddhau iddynt, egwyddor sylfaenol a fyddai'n uno popeth. Darganfu'r rhain ym myd disgyrchiant oherwydd i bethau ddisgyn i'r ddaear ac i'r planedau symud o amgylch yr haul. Seiliodd ei olygwedd ar y bydysawd ar gysyniad inertia, hynny yw, y mae pob gwrthrych yn aros yn llonydd tan y'i symudir gan rywbeth arall, ac y mae pob gwrthrych sydd yn symud yn dal i symud tan iddo gael ei arallgyfeirio neu ei atal gan wrthrych arall.

O ganlyniad, gwelir na all gwrthrych symud ohono'i hun nac ychwaith ei atal ei hun. Yr oedd darganfyddiad Newton yn fantais fawr i'r modd y meddylid am y byd oherwydd gallai model mathemategol Newton o'r bydysawd clocwaith hyd yn oed ragweld safleoedd y planedau yn y dyfodol pell. Ymhellach, yr oedd goblygiadau athronyddol pellgyrhaeddol i'w ddaliadau oherwydd iddynt gyfrannu at danseilio'r gred yn ewyllys rydd yr unigolyn. Yr oedd popeth wedi ei benderfynu unwaith ac am byth yn y bydysawd clocwaith, mecanyddol, a thrwy gymorth mathemateg, gellid cadarnhau sefyllfa'r bydysawd ganrifoedd yn ôl yn y gorffennol, heb sôn am allu darogan sefyllfa'r dyfodol. Penderfyneg a materoliaeth oedd yn cario'r dydd o adeg Newton tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ni newidiodd y gred negyddol ynglŷn ag ewyllys rydd tan y cafwyd llygedyn o obaith yn sgîl Damcaniaeth Cwantwm yn yr ugeinfed ganrif, fel y gwelir maes o law.

Amser

Poenwyd dyn gan broblem amser ers gwawr dynoliaeth. A oes y fath beth ag amser ac os oes, a ydyw'n symud? A pha gyfeiriad a gymer saeth amser? Ai llinellol ynteu cylchol yw amser? Sut y mesurir amser a pha beth a olygir gan amser personol? A oedd dechrau i amser ac a

fydd diwedd iddo? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng amser a thragwyddoldeb?

Rhywbeth gweddol newydd yw defnyddio cloc i fesur amser. Mesurai hen wareiddiadau eu hamser gydag awrwydr a chlociau dŵr a hefyd yr oedd deial haul yn effeithiol wrth ddefnyddio cyfeiriad a hyd cysgod yr haul. Dyfeisiwyd y cloc pendil gan Christiaan Huygens (1629–95) er mai Galileo a ddarganfu ddeddf sylfaenol y pendil. Yn ddiweddarach, cafwyd cromomedr ar ganol y ddeunawfed ganrif gan John Harrison er mwyn penderfynu hydredd ar y môr i hwyluso teithiau morwyr.

Chwaraeodd amser ran fwy canolog yn sgîl twf gwareiddiad, yn enwedig y chwyldro diwydiannol, gyda dyfodiad trenau yn dibynnu yn fawr iawn ar amser. Gan fod gwahaniaeth o 25 munud rhwng lleoedd o hydredd o 1.5° (300 milltir yn yr un wlad), yr oedd yn rhaid creu amserlen trenau a fyddai'n addas ar gyfer pob taith drên oddi mewn i'r wlad. Yn 1840, cyflwynodd y 'Great Western Railway' 'amser Llundain' yn ei holl orsafoedd ac erbyn 1847, yr oedd cwmnïau rheilffordd eraill yn rhedeg yr hyn a elwir y dyddiau hyn yn 'Amser Greenwich'. Yn ei dro, mabwysiadwyd y syniad gan wledydd eraill. Erbyn heddiw, y mae amser

wedi dod yn bwysicach fyth bron ym mhob rhan o fywyd a'i ruthr yn rheoli bywydau'r ddynoliaeth i'r eithaf.³⁴

Er hynny, gofynnir a oes y fath beth ag amser. Nid yw amser yn cyfrif o gwbl yng ngofod-amser, fel y gwelir maes o law, ond ymddengys ein bod yn symud drwy amser neu gydag ef o'r gorffennol i'r dyfodol, hynny yw, gellir ystyried bod amser yn llinellol. Yn aml, cyfeirir at amser fel afon yn llifo mewn un cyfeiriad; cymer dŵr afon amser i symud o un rhan o wely'r afon i un arall ar ei thaith. Dyma oedd cred yr hen Roegwr, Heracleitos. Chwedl Parry-Williams yn 'Dyddiau Ein Blynyddoedd' lle y mae'n trafod mynd 'ymlaen mewn dyddiau':

Ac eto, edrych ymlaen ac edrych yn ôl yw'n hanes ni i gyd, gan fod popeth wedi digwydd neu i ddigwydd i bawb ohonom ... ar y llwybyr sy'n arwain o'r gorffennol yr ydym ni i gyd yn teithio. 'Does dim dileu ar hwnnw na difa ar yr hyn a fu. Y mae ddoe, hyd yn oed, yn orffennol, ac yn henffasiwn bellach ... ³⁵

Yn gynharach yn yr ysgrif, cyflwyno'r syniad o amser cylchol gan gyfeirio at soned R. Williams Parry, 'Ymson Ynghylch Amser':

Efallai mai pwynt yr ymadroddi dyddgar hwn oedd, ac yw, pwysleisio mai o ddydd i ddydd, o fesul hwb dyddiol, y mae dyn yn treulio'i einioes ... Wrth y dydd yr ydym yn adnabod yr ysgogiadau ysbryd hyn gan mwyaf, o bosibl. Ac y mae'n werth sylwi fod gennym ni yn Gymraeg yn arbennig eiriau'n dynodi cyfres go hir o ddyddiau – y

geiriau ‘echdoe’ a ‘ddoe’ a ‘heddiw’, ‘yfor’, ‘drennydd’ a ‘thradwy’. Mae rhywfaint o arwyddocâd ôl-ac-ymlaen yn hynny, efallai, heb sôn fod y rhes yn mynd yn ddi-fwlch gyda’i gilydd. Wrth ‘ymson ynghylch amser’, fe ebychodd bardd o Gymro fel hyn ar ddiwedd soned, wrth gyfeirio at y gadwyn dyddiau yma, neu at adran ohoni, fel rhes o geffylau bach yn mynd rownd-a-rownd yn chwrligwgan mewn sioe:

Ow! fory a ddilyn heddiw a ddilyn ddoe:

Pa hyd y pery echelydd chwil y sioe?³⁶

Neges R. Williams Parry yw fod Rhod Duw, neu sfferau Newton, pe mynnid, o dan rym disgyrchiant, yn gofalu am nodweddion y bydysawd, fel y lleuad a’r sêr, tra bo diwedd ar bethau’r byd, sydd yn ôl pob golwg, yn rhan o’r un Rhod. Darlunia’r gerdd chwerwder y bardd ynglŷn ag anhegwch sefyllfa dyn ar y ddaear, golygwedd sydd yn rhan o argyfwng gwacter ystyr yr oes. Gellir yma gymharu geiriau Rowland Vaughan yn *Yr Ymarfer o Dduwiol-deb* (1630) a adargraffwyd yn 1930: ‘hawdd y dichon vn dŷn ar a edrycho yn yr Histori Sanctaidd, ddeall fod holl yrfa a rhôd y byd ... megis mewn cadwyn o raglûniaeth Duw.’ Ceir awgrym o ‘Ddychweliad Tragwyddol’ Nietzsche yn y gerdd hefyd. Syniai ef fod dychweliadau cosmig yn amddifadu bywydau pobl o unrhyw ddiben terfynol; yr oedd seithugrwydd cylchoedd diddiwedd yn gwneud y bydysawd yn lle hurt. Gosodai ei nihiliaeth y syniad o gynnydd ar

waelod y domen a chan iddo feddwl y byddai'n rhaid i gynnydd fynd ar i lawr er mwyn i'r bydysawd gyrraedd ei gyflwr gwreiddiol, datgannodd fod Duw wedi marw. Daeth y cysyniad o ffurfiau cylchol yn ôl i'r amlwg ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn sgîl darganfyddiad 'dychweliadau' Poincaré, a sylweddolodd fod cyflwr nwy mewn arbrawf ar ddeddfau thermodynameg yn mynd drwy ddychweliadau.³⁷ Ymhellach, awgrymodd Ludwig Boltzmann y gallai fod yr holl fydysawd yn mynd drwy gylchoedd amser hirfaith.

Byddai'n bosibl gosod cerdd R. Williams Parry yng nghyd-destun rhyfel a'i holl oblygiadau hefyd gan iddi gael ei chyfansoddi yn 1938, flwyddyn cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd. Yn hyn o beth, y mae tebygrwydd agos iawn rhwng delwedd y chwrligwgan a darlun trawiadol a chythryblus y gwrthwynebydd cydwybodol, Mark Gertler (1891–1939), sef *Merry-Go-Round* (1916), a baentiwyd ar ôl Brwydr Y Somme i bortreadu erchyllterau rhyfel. Dengys y darlun grŵp o ffigurau milwrol a dinasyddol wedi eu dal ar gylch cythreulig chwrligwgan.³⁸

Darlunia Parry-Williams hurtrwydd y gwrthgyferbyniad rhwng amser cylchol mecanyddol ac amser llinellol mewn cerdd o'r enw 'Blwyddyn

Newydd' a gyfansoddodd ar 25 Tachwedd, 1942, yn ystod yr Ail Ryfel

Byd:

Nid yw'n planed fach ddigri' ni yn sownd
Wrth ddim yn ei mosiwn meri-go-rownd.

A gwaeth na hyn, – mae ei hechel ar sgiw,
A'i chylchdaith heb fod yn sercel driw.

Y mae nawcant nawdeg a naw y fil
Ohonom ni'r teithwyr yn hanner chwil.

Mae'r haul yn y canol, fel llygad noeth,
Yn gwylio dynoliaeth ynyfyd-ddoeth

Yn rowlio'n y cerbyd bric-a-brac
Ymlaen ar y siwrnai ddi-bwynt, ddi-drac,

Ac ar dro, wrth basio rhyw ledrith le,
Yn bloeddio 'Blwyddyn Newydd. – Hwrê!'³⁹

Wrth i fecanyddiaeth a phenderfyneg ddal eu tir, daeth athronydd
gwreiddiol, dylanwadol i ganol y llwyfan i ddatgan ei syniadau
chwyldroadol am amser, gan drafod amrywiol bethau fel canfyddiad, y
cof, y corff a'r enaid, rhyddid yr ewyllys, esblygiad, mewnwelediad,
gwleidyddiaeth, crefydd a diwinyddiaeth. Ni ellir tanbriso dylanwad
Henri Louis Bergson (1859–1941) a'r dadleuon di-rif am ei waith mewn
sawl gwlad, gan gynnwys Cymru. Ceir trafodaeth amdano yn *Y
Traethodydd*⁴⁰ gan James Evans yn 1912, ynghyd ag erthyglau gan D.

Miall Edwards yn *Y Beirniad* a gyhoeddwyd yn ei lyfr, *Crefydd a Bywyd*⁴¹, a llawer cyfeiriad ato mewn cylchgronau Cymraeg eraill. Dylanwadodd ar lawer o athronwyr a llenorion Ffrainc, a hefyd deilliodd nofelau llif yr ymwybod yn rhannol o'i syniadau ef, heb sôn am William James, a fathodd yr ymadrodd, 'llif yr ymwybod'. Y nofel fwyaf adnabyddus o'r fath, efallai, yw '*À La Recherche du Temps Perdu*' gan Marcel Proust, a grybwylla Parry-Williams yn ei ysgrif, 'El ac Er'.⁴² Sonia Parry-Williams am Bergson yn un o'i ysgrifau cynnar, 'Eiconoclastes'⁴³, yn 1915 ond yn anffodus yr unig eiriau a ddefnyddia yw 'rhai o gyfrolau Henri Bergson' ac felly nid oes sicrwydd at ba rai y cyfeiria. Cyfrol fwyaf enwog Bergson yw *L'Evolution Créatrice* (1907) a ymddangosodd yn Saesneg am y tro cyntaf fel *Creative Evolution* yn 1911. Erbyn 1918, cafwyd un argraffiad ar hugain o'r fersiwn Ffrangeg. Yr oedd anterth ei boblogrwydd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, a'i ddylanwad yn gryf dros Ewrop gyfan yn y 1920au a'r 1930au, gan ddiflannu bron yn gyfan gwbl ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Ymwelodd Bergson â Phrifysgol Rhydychen ym mis Mai, 1911 i draddodi '*La Perception du Changement*' tra oedd Parry-Williams yn fyfyrwr yno. Hefyd, yr oedd yn Athro Athroniaeth yn *Collège de France* tra oedd Parry-Williams yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Paris yn 1913. Dylanwadodd

Bergson yn fawr iawn ar fyfyrwyr Prifysgol Paris cyn y Rhyfel Byd Cyntaf gan iddo ddod â chwa o awyr iach i'r sefydliad drwy gyflwyno ei athroniaeth ar ewyllys rydd a mewnwleadiad, a gwrthwynebu gwyddoniaeth a materoliaeth yn chwynn. Prif gwyn myfyrwyr y celfyddydau oedd y modd gwyddonol y derbynient eu haddysg.⁴⁴ Yr oedd athroniaeth Bergson yn hollgynhwysfawr ac ni wneir yn y fan hon ond canolbwyntio ar ei ddiffiniad o Amser yn unig.

Neges fawr Bergson oedd fod Amser, neu *durée* (*duration* yw'r cyfieithiad Saesneg) yn real ac nad yw'r dyfodol yn bodoli. Y mae hyn yn groes i benderfyneg, lle y mae popeth wedi ei drefnu o flaen llaw fel peirianwaith. Gwrthwynebai'r athronydd amser y gwyddonwyr gan eu bod yn ei dorri i fyny; nid oes gan amser ddim a wnelo â gofod oherwydd y mae amser ynom ni ein hunain; gellir ei adnabod yn reddfol, o brofiad uniongyrchol. I Bergson, y mae bywyd yn broses creadigol gyda rhywbeth newydd o hyd rownd y gornel. Credai, hefyd, fod y gorffennol yn bodoli yn y presennol oherwydd y cof.

Gwrthwynebai baradocs saeth Zeno o Elea (495 BC–430 BC) a geisiodd ddangos bod gwrthrych sydd yn symud wastad yn llonydd. Nod Zeno oedd darganfod y cysylltiad rhwng gofod ac amser. Y mae milwr yn

dechrau rhedeg ar gyflymder cyson ar ôl i saeth gael ei hanelu ato.

Credai Zeno na fyddai'r saeth fyth yn goddiweddyd y rhedwr oherwydd,

wrth weithio allan y gwahaniaeth rhwng y rhedwr a'r saeth, byddai'n

rhaid rhannu amser yn fanach, fanach hyd dragwyddoldeb. Meddai

Parry-Williams yn 'Ffidlan':

Mi fyddaf i'n hoffi credu nad yw'r bwled wedi trafaelio o'r gwn i'r targed, ond ei fod yn y gwn ar un eiliad ac ar y targed yr eiliad nesaf – heb fod wedi bod yn unlle rhyngddynt. Bod mewn dau le, y naill ar ôl y llall, y mae'r bwled i mi, ac nid wedi bod yn *symud* o un lle i'r llall.⁴⁵

Y mae'n siŵr mai ceisio dangos cyflymder y bwled y mae'r ysgrifwr yn y

fan hon ond, ar y llaw arall, sylwir nad yw'n torri mudiant y bwled nac

ychwaith yn meddwl ei fod yn symud o gwbl. Dywedodd Bergson nad

oedd amser yn ddim os nad oedd hwnnw'n gwneud rhywbeth. Y mae

mecanyddiaeth yn ystyried y dyfodol a'r gorffennol fel gweithrediadau

mesuradwy o'r presennol a dywed i Pierre-Simon Laplace (1749–1827)

synied bod hyn yn wir. Gwelir bod Bergson yn gwahaniaethu rhwng

amser a sicrwydd mecanyddiaeth a gwyddoniaeth ynglŷn â safle'r

pethau mwyaf yn y bydysawd hyd at yr atom lleiaf yn y dyfodol, a'i gred

ef yn *durée*'r unigolyn:

Radical mechanism implies a metaphysic in which the totality of the real is postulated complete in eternity, and in which the apparent duration of things expresses merely the infirmity of a mind that cannot know everything at once. But duration is something very different from this for our consciousness, that is to say, for that which is most indisputable in our experience. We perceive duration as a stream against which we cannot go. It is the foundation of our being, and, as we feel, the very substance of the world in which we live. It is of no use to hold up before our eyes the dazzling prospect of a universal mathematic; we cannot sacrifice experience to the requirements of a system. That is why we reject radical mechanism.⁴⁶

Am yr un rheswm, ni chred mewn teleoleg nac mewn tyngedfennaeth, y sefyllfa lle y mae popeth wedi ei drefnu o flaen llaw, unwaith ac am byth.

Cafwyd syniad gwreiddiol ynglŷn ag amser gan John William Dunne yn ei lyfrau, *An Experiment with Time*, yn 1927 a *The Serial Universe* yn 1934. Defnyddiai un haen o amser i fesur amser cyffredin, ac un haen arall i fesur honno ac yn y blaen, ar ddimensiynau, lle y gellid gweld pob un drwy berspectif gwahanol o haenau gwahanol. ‘Bydysawd bloc’ ac ‘amser cyfres’ oedd sail y syniad. Gwelir ei ddylwanad ef a dylanwad yr ocwltydd, Peter Demianovich Ouspensky, ar rai o ddramâu ‘Amser’ J. B. Priestley, fel *Time and the Conways*. Tarddiad y ‘bydysawd bloc’ yw Damcaniaeth Arbennig Perthynoledd Albert Einstein.

Damcaniaeth Arbennig Perthynoledd Einstein (1905)

Newidiwyd y ffordd yr ystyriwyd amser a gofod yn gyfan gwbl ar ddechrau'r ugeinfed ganrif gan y mathemategwr Almaeneg, enwog, Albert Einstein (1879–1955). Hyd at Ddamcaniaeth Arbennig Perthynoledd Einstein, credid yn namcaniaeth Newton a ddatganodd fod gofod ac amser yn anhyblyg ac yn ddigyfnewid; yr oedd gofod, wrth ei natur ei hun, a heb berthynas ag unrhyw beth allanol, wastad yn aros yr un fath ac yn ddisymud, ac yr oedd amser cywir a mathemategol, ohono'i hun ac o'i natur ei hun, wastad yn llifo'n gyson heb berthynas i unrhyw beth allanol. Ond datguddiodd damcaniaeth Einstein fod graddfa llif amser a hyd pellterau ar draws y gofod yn amrywio, yn ôl cyflymderau perthynol y bobl a oedd yn eu mesur hwy.

Credai Newton fod sylwedd anweledig, digyfnewid yn hollbresennol yn y bydysawd, sef yr ether, a oedd yn air a ddefnyddiwyd gan yr hen athronwyr Groegaidd i ddisgrifio'r hyn a lenwai'r gofod i gyd a thu hwnt i'r atmosffer. Fodd bynnag, dechreuwyd amau hyn yn y 1670au pan ddarganfu Ole Christensen Roemer fod goleuni yn teithio ar gyflymder terfynol. Yr oedd trafodaethau mawr am yr hyn a elwid 'symudiad yr ether' pan gredid, i'r gwrthwyneb, mai'r byd oedd yn symud ac nid yr

ether. Fodd bynnag, daeth tro ar fyd gydag arbrawf Michelson–Morley (Albert Michelson ac Edward Morley) yn 1887. Defnyddiodd y ddau ohonynt ddau belydryn o oleuni a oedd yn teithio mewn cyfeiriadau gwahanol i geisio darganfod ether symudol a oedd yn cludo tonnau'r goleuni, a'r canlyniad oedd nad oedd symudiad o gwbl drwy'r ether. Yn sgîl hyn, darganfuwyd nad oedd yr ether yn bodoli, ac yn 1879, darganfu Michelson gyflymder goleuni. Yn 1892, rhoddwyd esboniad am benderfyniad Michelson a Morley nad oedd ether yn bodoli pan gynigiodd Heindrik Antoon Lorentz (1853–1928) fod hyd pethau yn crebachu yn y cyfeiriad y maent yn symud. Trawsnewidiodd ef gyfesuidd gofod ac amser a oedd yn sylfaen ar gyfer damcaniaeth perthynoledd Einstein. Hefyd, yr oedd Jules Henri Poincaré (1854–1912) yn ffigwr allweddol yn namcaniaeth perthynoledd, gan iddo roi ffurf fathemategol ar waith Lorentz a sôn am egwyddor perthynoledd a fyddai'n golygu na allai unrhyw beth oddiweddyd cyflymder goleuni.

Yr oedd y modd yr aeth Einstein ati i gyrraedd ei Ddamcaniaeth Arbennig Perthynoledd yn athrylithgar. Braenarwyd y tir iddo gan y datblygiadau uchod ac yr oedd y syniad o deithio ar belydryn goleuni wedi ei oglais er pan oedd yn fachgen ifanc. Yn ddiweddarach, yr oedd

wedi darllen disgrifiad James Clerk Maxwell (1831–1879) o ddamcaniaeth maes electromagnetig a oedd yn ddilyniant i waith arbrofol Michael Faraday (1791–1867). Yr oedd hwnnw wedi sefydlu bodolaeth meysydd trydanol a magnetig drwy ddarganfod bod trydan a magneteg yn cael eu trosglwyddo gan linellau anweledig o rym yn y gofod, hynny yw, gan feysydd. (Cofir i Parry–Williams gyffelybu'r modd y crisialai ei syniadau yn ei ben wrth lenyddu i fagned yn tynnu ysglodion haearn ato mewn rhyw fath o drefn neu batrwm).

Ysgrifennodd Maxwell ddisgrifiad rhifol o'r meysydd magnetig hyn ac yn 1864, dangosodd fod trydan a magneteg yn agweddau o un grym unigol; hefyd, datganodd fod goleuni ei hun yn faes electromagnetig. Sylweddolodd Einstein mai'r maes anweledig a lywodraethai nodwydd cwmpas oedd electromagneteg a syniodd fod hyn yn chwyldroadol oherwydd y trosglwyddiad o rymoedd o bellter i feysydd fel newidion sylfaenol (*fundamental variables*). O ganlyniad, nid oedd angen ether er mwyn trosglwyddo goleuni ar draws gofod mwyach oherwydd y gallai maes electromagnetig wneud hynny.

Er hynny, nid oedd hafaliadau Maxwell yn cytuno â gofod absoliwt Newton. Gan ddyfalu beth a fyddai'n digwydd iddo wrth geisio dal i fyny

â phelydryn goleuni wrth deithio ar gyflymder goleuni, penderfynodd Einstein y dylai, yn ôl ffiseg glasurol, weld maes electromagnetig siglog, llonydd. Yr oedd Maxwell wedi enwi goleuni fel maes electromagnetig, wedi'r cyfan. Ond pe byddem ni'n byw mewn gofod absoliwt, Newtonaidd, a oedd wedi ei ddiffinio gan yr ether, dylai fod yn bosibl dal i fyny â phelydryn goleuni a'i amddifadu o'i gyflymder. Yn y cyfamser, trôdd Einstein at weithiau'r ffisegydd a'r athronydd Awstraidd, Ernst Mach (1838–1916). Amheuai Mach fodolaeth yr ether yn fawr gan ddweud nad peth oedd gofod, ond mynegiant o gydberthnasau ymysg digwyddiadau. Dywedodd fod pob màs a phob cyflymder ac o ganlyniad, pob grym, yn berthynol. Gan gytuno â hyn, ceisiodd Einstein ysgrifennu damcaniaeth a fyddai'n adeiladu gofod ac amser ar sail digwyddiadau yn unig ond ni lwyddodd. Fodd bynnag, datrysodd broblem paradocs hafaliadau Maxwell a gofod absoliwt Newton gan benderfynu y byddai hafaliadau Maxwell yn anghywir pe byddai rhywun yn gallu rasio ar ôl pelydryn o oleuni ar gyflymder goleuni; ni fyddai neb yn gallu cyrraedd cyflymder goleuni oherwydd bod hwnnw yr un fath i bawb sydd yn ei weld, waeth beth fo eu mudiant perthynol. Er mwyn datrys y broblem, defnyddiodd Einstein 'Grebachiadau Lorentz'. Yr oedd

hafaliadau hwnnw, yn nwylo Einstein, yn dangos bod dimensiynau arsylwr, ynghyd â'i long ofod, yn crebachu ar hyd y llwybr y maent yn ei deithio wrth i'w cyflymder gynyddu. Crebachant yr union swm gofynnol er mwyn galluogi mesur cyflymder goleuni i fod wastad yr un fath. Dyna paham nad oedd Michelson a Morley wedi darganfod arlliw o symudiad yr ether. Yn ei bapur, *On the Electrodynamics of Moving Bodies*, dywedodd Einstein: 'To the concept of absolute rest there correspond no properties of the phenomena, neither in mechanics, nor in electrodynamics.' Yr hyn a oedd yn bwysig oedd na ellid arsylwi digwyddiadau tan i'r goleuni (neu donfeydd radio, neu ffurf arall ar ymbelydredd electromagnetig), a ddeuai â gwybodaeth ohonynt, gyrraedd yr arsylwr. Bellach, yr oedd gofod yn hyblyg o'i gyferbynnu â gofod absoliwt Newton a chyfiawnhawyd hafaliadau Maxwell.

Perthynoledd

Syniodd Einstein nad oedd pobl yn byw mewn gofod yn unig, ond mewn gofod ac amser. Yr hyn a olygai oedd bod gofod ac amser, rywsut, ynghlwm wrth ei gilydd. Dywedir iddo ofyn y cwestiwn tra afresymegol: 'What time does Oxford stop at this train?' Yn ôl y gwybodusion, y mae'n bur annhebyg iddo ofyn hyn ond pe byddai wedi

gwneud hynny, fe fyddai'r frawddeg yn hollol resymegol iddo ef.

Fersiwn arall o'r cwestiwn a dadogwyd ar Einstein sydd gan Parry-

Williams yn ei ysgrif, 'Pendraphendod': 'Does Crewe stop at this

train?'⁴⁷; nid oes ryfedd i Parry-Williams ychwanegu ei bod yn amlwg

nad oedd pobl yn siŵr o ddim yr adeg honno, gan gyfeirio at bryddest

Wil Ifan, 'Bro fy Mebyd'. Yr hyn a awgrymodd Einstein oedd na allai

rhywun ddweud ai'r trê'n oedd yn aros yn llonydd tra oedd y cledrau'n

symud oddi tano ynteu'r cledrau oedd yn aros yn llonydd tra oedd y trê'n

yn symud ar eu hyd. Yr oedd hyn i gyd yn berthynol. Nid oedd y syniad

hwn yn newydd o gwbl gan i Galileo wybod amdano, ac ymhellach, yr

oedd yn rhan o fecanegau Newton. Darganfyddiad pwysig Einstein oedd

y ffaith fod gofod ac amser, hefyd, yn berthynol.

Yr oedd Parry-Williams yn ddigon deallus i ddefnyddio perthynoledd yn

gelfydd yn ei ysgrif, 'Gweld y Gwynt', er mwyn lleddfu ei gydwybod euog

tra oedd yn gadael tir ei wlad mewn llong i gyfandir newydd; ceisiai ei

argyhoeddi ei hun mai'r mynyddoedd oedd yn ei adael ef, ond

gwyddai'n amgenach:

Yr oedd smwclaw yn llenwi'r awyr rhyngom a mynyddoedd

Arfon, y rhai a orwedda i ar y chwith yn llwyd a llonydd ar

eu hen sylfeini disymud, er ymddangos fel petaent yn cilio

gyda gwg, a minnau wedi lled-ddisgwyl gweld rhyfeddod machlud haul arnynt o'r môr am unwaith. Ond yr oeddynt megis wedi digio wrthyf am ymadael â hwynt, ac yr oedd euogrwydd fel sarff yn fy mynwes innau.⁴⁸

Ceir enghreifftiau eraill yn ei waith sydd yn perthyn i'r un cysyniad, er enghraifft, pan gaiff deimlad rhyfedd ar ben ei feic modur wrth weld peiriant arall yn ymddangos 'fel petai'n hollol lonydd er ei symud' wrth ddod i gyfarfod ag ef⁴⁹. Yn ychwanegol, disgrifia ei athroniaeth bywyd drwy ddefnyddio sylfeini Damcaniaeth Arbennig Perthynoledd yn ei ysgrif, 'Dewis':

Ffordd dyn o fynd 'tuag yno' ydyw gwir fyw, ac wrth fynd o hwb i hwb y ceir hwyl. Ac am a wn i nad yw edrych yn ôl, neu ar led-ochr, wrth fynd yn llawn difyrrach nag edrych ymlaen. Felly, beth bynnag, y ceir y synhwyriad gorau a mwyaf byw o symud, sef â'r cefn at y peiriant, fel petai. Y mae edrych ar bethau'n mynd felly ar yn ôl, ac, wedi mynd yn ddigon pell, yn rhyw arafu ac aros (i bob golwg) yn y pellter, yn gwefreiddio ac yn symbylu mwy na gweld pethau o'r tu blaen yn symud o'u llonyddwch pell ac yn rhuthro ymlaen ar wib tuag atoch.⁵⁰

Fe'i ceir yn edrych ar led-ochr, hefyd, yn awr ac yn y man, lle y mae'n awgrymu mai'r pethau y tu allan i'r trênn sydd yn symud iddo ef: 'Tynnid ysmotiau'r blodau gan y trênn/ Yn rhes llinynnau o bob lliw a hyd', a 'A syllwn innau'n swrth â golwg blin/ Ar ruthr y brodwaith lliw heb yngan gair.'⁵¹ Ac eto, yn 'Gwyllo'r Gwifrau' pan sonia am delyneg Wil Ifan, 'Yn

Well na Brawd', lle y mae seren yn aros yn ei hunfan a phopeth arall, hyd yn oed y mynydd ei hun, yn symud wrth edrych allan drwy ffenestr y trê. Yn nes ymlaen, dywed fod gwifrau yn agos i drê, pan fo'r polion a'r gwrychoedd, y mynyddoedd a'r sêr yn mynd heibio.⁵² Chwedl Paul Davies yn *About Time*: 'In 1905, the train was the fastest form of transport, and early discussions of relativistic time often referred to observers on trains.'⁵³ Yr un syniad sydd gan Parry-Williams eto wrth brofi pethau 'rhyfedd' ar gefn ei feic modur:

Ceir profiadau rhyfedd ar ei gefn. Y mae'r ffordd oddi tanodd a'r gwrychoedd o boptu yn troi'n rhwyllwaith dyrys o linellau lliwiog cyfochr: y mae'r mynyddoedd yn symud yn araf, y gwynt yn chwythu'n ei erbyn ei hun, a'r byd yn mynd heibio i rywle, a byd newydd yn dyfod rownd y gornel bob gafael.⁵⁴

Ceir eglurhad ynglŷn â pherthynoledd, hefyd, wrth i Parry-Williams gysylltu hynny â chanfyddiad: 'A phan fo cwmwl go lonydd yn ymddangos yn ei dro, a'r wifren fel petai'n ei dorri'n ddau, gallaf yn rhwydd symud ychydig, a'i gael yn gyflawn.'⁵⁵

Efallai i Ddamcaniaeth Arbennig Perthynoledd liwio llawer ar feddylfryd athronyddol Parry-Williams a chwarae rhan allweddol yn yr anwadalwch meddwl a berthynai iddo gan i lawer iawn o agweddau ar fywyd fod yn

berthynol. Fel yr esboniodd yn ei ysgrif, 'Y Naill a'r Llall': 'Yr oedd ar fwrdd y llong lawer o bobl òd, wrth gwrs; ac, yn wir, y mae pawb ym mhobman yn òd i rywun yn rhywle. Dibynna ar ein dull o edrych ar bethau.'⁵⁶ Ac eto, yn 'Dic Aberdaron': 'Nid yw mesur eu llathen hwy yr un hyd â llath', a 'Chwarae-teg i Dic – nid yw pawb yn gwirioni'r un fath.'⁵⁷ Oherwydd bod hyn yn elfen hollbwysig yn ei waith, a hefyd, am fod y broblem o ddiffyg ffiniau pendant yn sgîl-ffaith, y mae'n hanfodol treulio cryn amser yma i ymdrin â rhai enghreifftiau yn ei waith a adlewyrcha anwadalwch. Ar yr un pryd, er mwyn cael golwg gynhwysfawr ar y broblem, trafodir syniad gwyddonol arall a allai fod yn sail i'r un dryswch.

Paradocsau a chydbwysedd

Yn ôl Parry-Williams, gall pob 'ie' fod yn 'na' ac yn y blaen, fel y dengys ei gerdd, 'Gwahaniaeth':

Na alw monom, Grist, yn ddrwg a da,
Saint a phaganiaid, ffyddiog a di-ffydd,
Yn dduwiol ac annuwiol, caeth a rhydd,
Yn gyfiawn ac anghyfiawn.– Trugarha,
Canys nid oes un gaeaf nad yw'n ha',
Na chysgod nos nad yw'n oleuni dydd,
Nac un dedwyddwch chwaith nad ydyw'n brudd,
Ac nid oes unrhyw le nad yw'n Na...⁵⁸

Tybed a oedd Parry–Williams yn gyfarwydd â gwaith y mynach, Peter Abelard (1079–1142), a ail boblogeiddiodd y dilechdid, sef y ffaith fod gwrthosodiad i bob gosodiad? Ysgrifennodd hwnnw lyfr o'r enw *Sic et Non (Ie a Na)* yn 1123 yn awgrymu y gallai 'ie' fod yn llawn mor wir am bethau ag y mae 'na' amdanynt. Yr hyn a oedd yn nodweddiadol am y gŵr hwn oedd nad ymdrechai o gwbl i gyfuno dau wrthosodiad oherwydd ei fod eisiau i'w ddarllenwyr ddarganfod gwirioneddau crefyddol drostynt eu hunain. Cynigia'r cwestiynau a osodir yn ei lyfr esboniadau ysgrifenedig i'r atebion, 'ie' a 'na'.

Dyma'r union ffurf a gymer pryddest radio Parry–Williams, *Esgyrn y Gynnen*⁵⁹, lle y mae dau wryw, John a Jac, yn dadlau yn ddi-ben-draw am ystyr a goblygliadau hunaniaeth Gymreig, gan ofyn i'r gwrandawyr benderfynu drostynt eu hunain pa ochr i'r ddadl y maent hwy yn ei chefnogi. Meysydd eu hymchwiliad yw'r genedl, yr iaith Gymraeg a'r wlad ac y mae'r tri hyn yn sylwebu o'r neilltu ar yr holl 'gybôl'. Dadleua John yn ffyrnig dros y ffaith fod y genedl Gymreig yn bodoli a bod pob 'Cymro–o–waed–coch–cyfa' yn frodyr i'w gilydd. Ond mynna Jac fod 'llawer yn gweld yr ochr arall i'r pwnc.' Esbonia'r Genedl iddi wybod ei bod yn bodoli. Wedyn, datgana John ei fod yn argyhoeddedig fod yr

iaith yn rhan o'i fod, gan ganu ei chlodydd. Yn ôl Jac, y mae holl honiadau John yn ffug a dim mwy na dychymyg. Daw tro'r laith i siarad o'r neilltu, gan ddweud, 'Rhaid adde' fod peth synnwyr er hynny'n sgwrs y ddau', a chadarnha'r laith ei bodolaeth. Y wlad sydd o dan sylw nesaf a dechreua John esbonio ochr fympwyol y broblem gyda, 'Wel, frawd, pawb â'i ffansi – dyna yw'r drefn;/ A pha iws dadlau drachefn a thrachefn?' Mynna fod daear ei wlad yn mynd i'w waed a dywed fod y profiad a gaiff pan fo pridd yn dod i gyffyrddiad â'i waed yn peri 'uffern o sioc i'r cyfansoddiad.' Â ymlaen i greu cyfosodiad drwy gyfuno dau wrthosodiad:

Nid wyf yn honni, cofiwch, fod hyn
Yn rhywbeth i'w feithrin; mae'n uffern o sioc

I'r cyfansoddiad, ac ar yr un pryd
Yn nefoleiddio'r sistem i gyd...

A rywsut, diolch mai felly y mae,
Am fod ynddo gymysgu gwynfyd a gwae.⁶⁰

Ateba Jac unwaith yn rhagor mai dychymyg yw hyn i gyd, 'rhan o ofergoeledd yr hanner-pan.' ac y mae am i John 'ymwrthod â'r twyll.' Y mae'r Wlad yn cadarnhau ei bodolaeth oherwydd ei bod yn sylwedd a'i bod yn hollol ymwybodol fod cysylltiad hanfod rhyngddi hi a rhai pobl.

Canlyniad hyn oll yw bod John a Jac yn dechrau ffraeo â'i gilydd, yn ôl yr hyn a ddywed y Genedl, yr Iaith a'r Wlad o'r neilltu. Y mae gweddill y ddadl yn siarad drosto'i hun:

JOHN:

I setlo'r mater, 'rwy'n gwneud apêl
At bawb sydd yn gwrando, doed a ddêl,

I farnu pa un ohonom ni'n dau
Sy'n dywedyd y gwir neu'n dywedyd gau.

Chwychwi sy'n gwrando, a wnewch chwi ddweud
Ai ffug a ffalster a chariad-gwneud

Yw'r holl serchiadau a brofais i,
A'u cyffesu ar goedd fel hyn i chwi?

A'i gwir yw'r anwyldeb o bob rhyw
Ai ynteu gwagedd o wagedd yw?

JAC:

Wel, fotied gwrاندawyr y BBC,
Ac wedyn cawn weld pwy sy'n mynd â hi.

Y GENEDL, YR IAITH, Y WLAD (o'r neilltu):

Cyn rhoddi'r peth i bleidlais, yr ydym ni ein tair,
Sef esgyrn y gynnen, am ddwedyd pwt o air

Fel hyn, mai'n barn ni ydyw, ar ôl yr holl sarhau,
Fod rhywfaint o wirionedd yn sgwrs pob un o'r ddau.

Ni allwn dorri'r ddadl nac ochri gyda'r un:
Mae Nage am bob le ym myd-a-bywyd Dyn.⁶¹

Gwelir yn eglur, felly, fod John yn cynrychioli'r gosodiad a bod Jac yn cynrychioli'r gwrthosodiad, a bod y Genedl, yr Iaith a'r Wlad yn cynrychioli'r cyfosodiad. Felly, yn ôl y triawd hwn, y mae'r undod yn cynnwys dau wirionedd gwrthgyferbyniol, neu mewn geiriau eraill, y mae dau wirionedd gwrthgyferbyniol yn creu undod.

Canlyniad Parry-Williams yw bod dwy ochr i bethau mewn bywyd a chyfranna hyn yn fawr iawn at ei feddylfyd; ymddengys ei fod yn credu yng nghyfuniad neu gyfosodiad gwrthwynebau. Y mae'n hoff iawn o ddefnyddio'r geiriau 'du' a 'gwyn' i ddarlunio dwy ochr hollol wahanol ond sydd eto yn gydgyfnewidiol. Ceir enghraifft dda o hyn yn ei ysgrif, 'Bwrn', sydd yn trafod gwahanol ystadau meddwl y gellir llithro iddynt:

Rhwng modd normal, confensiynol dyn ac un o'r ystadau hyn y mae cyflwr arall, rhyw dŷ-hanner-ffordd, sefyllfa ganol, lle y gellir ymaros am ddyddiau a misoedd a hyd yn oed flynyddoedd. Ystad yw hon y gellir yn weddol hawdd gripian ohoni yn esmwyth i unrhyw un o'r lleill, cyflwr o barodrwydd, fel petai, at yr adeg pan rynger bodd i ddyn ymdrosglwyddo i un o'r moddau annormal, anghonfensiynol hynny. Yn yr ystad hon y mae popeth – ac nid oes dim ychwaith – o bwys; rhyw gyfnos ydyw lle y mae beiau'n rhinweddau, lle y llunnir diarhebion. Yno y mae pethau'n iawn ac yn aniawn, y mae dwy ochr i bopeth, hanner gwynfyd yw gofid a gwynfyd yn hanner gofid, a byw'n gymysgedd o ddu a gwyn, o ie a nage. Hiraethir cael a chaseir y cael. Yr ydys ar beidio â meddwl ac ar ddechrau pensynnu. Y mae oriau unig yn llawn o bobl, ac ni welir

neb mewn torf. Y mae'r un pethau a phersonau yn denu ac yn gwrthladd. Y mae dewrder a llyfrdra yn mynd law yn llaw. Ymdeimlir â rhyw hyder ofnus, herfeiddiwch dof, hiraeth diamcan, – dyhead y seren am y gwyfyn. Ymddengys pob ymdrech yn aneffeithiol, fel curo ystlumod â ffon neu wneuthur edafedd lastig o ddarn gwm-cnoi. I eraill, modd mympwyol, ystad anynad ydyw hon. Ymddangosir yn anodd, yn biwis, yn amhosibl. Try nodweddion yn hynodion, gwenu'n laswenu; gwneir y pethau na buasid yn disgwyl gan neb eu gwneud.⁶²

Y mae Parry-Williams yn argyhoeddedig fod ystad hanner-tu-chwithig-allan fel hon yn bodoli oherwydd bod yr engrafiad y sonia amdano yn yr ysgrif yn hud-ddenu'n annaeorol ac yn gwrthnysu yr un pryd. Dylid nodi yma mai cyfeirio at y llun a drafodir ar ddechrau'r bennod hon y mae Parry-Williams, sef yr un y mae'n ei gymharu â *Space (The Ancient of Days)* Blake. Yn y darn uchod, cyfeiria Parry-Williams at y stad hanner-ffordd hon fel un 'lle y llunnir diarhebion.' Yn ei erthygl, '*Art and Genius*', fe'i ceir yn beirniadu'r syniad cyfoes fod hyltra mewn celfyddyd yn harddwch gan rai a dechreua drafod 'gwirioneddau' drwy amau gwirionedd diarhebion:

That of the proverb-monger is among the riskiest of occupations: truth is so tenuous, and words are so wild. A proverb at its best is but diluted truth. Most proverbs are half-truths: a good many are untruths. For the rest, it all depends. They are all unreliable touchstones. It is astonishing how often the negative of the verbal

expression of truth is also truth; how often it turns red
litmus blue, and blue litmus red; how often, to be
Chestertonian, black is black,– and white.⁶³

Â Parry–Williams ymlaen i ddisgrifio sut y newidiodd G. K. Chesterton
linell enwog y bardd, John Keats, ‘A thing of beauty is a joy for ever’ i ‘A
thing of ugliness is a joy for ever’. Yn ei ysgrif, ‘Yr Hen Ysfa’, trafoda
ochr fwyaf difrifol ei ysfa o gyffwrdd a chyfrif; dechreuodd y gwendid
gellwair â’r pethau mwyaf cysegredig:

Myn droi’r gwyn yn ddu, y sanctaidd yn halogedig, cariad
yn gas. Gwna imi weithiau gashau’r rhai anwylaf gan fy
nghalon fel gwenwyn, a dyheu am gyflawni’r pethau mwyaf
gwallgof ar wyneb y ddaear.⁶⁴

Yn ‘Geiriau’, dywed i gynghanedd ddatgan yn derfynol y gwirionedd
sefydlog: ‘Ni bu ddigrifwch heb dagrau hefyd.’⁶⁵ Wrth sôn fod ei gar
yn dadfeilio, y mae’n dweud fod y ‘cyflwr iach–a–chlaf, iawn–a–pheidio
hwn yn peri i mi gofio am y gŵr hanner–yn–hanner hwnnw a ganodd y
llinellau, “ ’R wyf yn iach ac yn fy ieched. ’R wyf yn fyw, yn farw hefyd”.’

⁶⁶ Ceir yr un sylw gan Robert Williams Parry yn ei soned, ‘Gair o
Brofiad’: “Rwy’n wych, ’rwy’n wael, ’r wy’n gymysg oll i gyd;’⁶⁷ Ac yn
‘Darfod’,⁶⁸ y mae Parry–Williams yn pendroni dros y syniad o fod a
darfod yr un pryd. Wrth drafod ei natur ei hun yn ei gerdd, ‘Dau

Hanner', dywed: 'Rhyw hanner ieuentid a gefais gynt,/ A hanner
henaint fydd diwedd fy hynt-// Hanner yn hanner, heb ddim yn iawn,/
Heb ddim yn ei grynswth na dim yn llawn.'⁶⁹ Cymhlethir pethau yn y fan
hon oherwydd na ellir cyfuno dau hanner gwrthgyferbyniol i greu
cyfosodiad; nid oes dim yn llawn. Ond eto, y mae'n anodd deall ei
resymeg achos oni allai'r ddwy ran y cyfeiria atynt, er eu bod yn symud
yn gyfochrog ac yn groes i'w gilydd, greu undod yn y diwedd, o ystyried
ei fywyd cyfan? Y ffaith yw na allai brofi ieuentid na henaint i'r eithaf
yn annibynnol ar ei gilydd. Er hynny, heriodd ganol oed yn ei gerddi,
'Sialens'⁷⁰ ac 'Y Rheswm'⁷¹, ac felly, y mae'n anodd deall paham y
byddai eisiau profi henaint i'r eithaf. Paham na fodlonai ar gymysgedd o
ddu a gwyn, o ie a na? Y mae'r disgrifiad o'r ffaith na all brofi pethau yn
eu cyfanrwydd yn hollol amlwg yn y rhan gyntaf o'i rigwm, 'I'm
Hynafiaid', ond eto, y mae'n creu cydbwysedd yn y diwedd drwy
ddangos yn yr ail ran ei fod yn meddu ar bethau pwysicaf na'r rhai a
grybwyllir yn y rhan gyntaf, a chan hynny, nid yw'n 'dyheu am odid
ddim.'⁷² Fodd bynnag, dyma ei nodiadau bras iawn ef ei hun am
gynnwys ei gerdd, 'Dau Hanner':

Y syniad wedi ei fynegi braidd yn ysgafn, ydyw 'fod bywyd neu ysbryd dyn wedi ei hollti ar ei hyd – a bod y ddwy ran (un hen ac un ifanc) yn symud ochr yn ochr, ond i gyfeiriad croes i'w gilydd – un rhan ifanc yn heneiddio a'r llall (y rhan hên) yn iengeiddio. Ac y mae profiad o beth fel hyn yn dyfod i bawb weithiau, yn siwr.⁷³

Yr un athroniaeth sydd yn cynnal ei ddaliadau am grefydd, hefyd; yr

oedd gwyn yn gallu bod yn ddu ac ni allai benderfynu ai Cristion ynteu

Pagan ydoedd, fel yr esbonia i Aneirin Talfan Davies wrth drafod y

moddau y mae unigolyn yn gallu llithro iddynt, fel y disgrifia yn 'Bwrn'⁷⁴.

Hefyd, sylwir ar y geiriau 'hollt' a 'holtti' yn y darn isod a 'holtti' yn y

darn uchod:

Y grefydd Gristnogol sydd wedi peri'r hollt onide? Hynny yw, y mae'r grefydd Gristnogol yn brawf ar ddyn – a phan fo dyn dan brawf y mae o'n cael ei ddadansoddi, a chanlyniad ambell ddadansoddiad ydy holtti'n ddau ddarn, – rydach chi'n ddau ddarn ar wahân. Mi ddylan ni gofio hyn 'rwy'n meddwl, pan fyddwn ni'n sôn am bethau fel hyn – am brofiadau ac am gredoau ac yn y blaen. I mi, y mae 'na, fel y ceisiais i ddweud o'r blaen 'rwy'n meddwl, nid yn gymaint ddatblygiad, mewn ymdeimlad crefyddol fel hyn, ond moddau, – weithiau 'rydych chi fel hyn, dro arall, hynny yw 'dach chi'n Gristion gloyw heddiw dyweder, 'dach chi'n bagan yr un mor loyw yfory. Nid rhywbeth safadwy fel yna, yn aros fel rhyw haen ddisymud ar waelod eich cymeriad chi, ydi'r ymdeimlad crefyddol, ond rhywbeth sydd yn mynd lan a lawr, weithiau'n ddu weithiau'n wyn – a dyna oedd profiad yr hen saint i gyd hyd y galla' i weld. 'Rwy'n waeth, 'rwy'n well bob dydd.⁷⁵

Yr ochr arall i'r geiniog a geir yn ei gerdd fetaffisegol, astrus, 'Dwy Gerdd', lle y ceir anhawster mawr ynglŷn ag aros am eiliad mewn unrhyw fodd penodol:

Dau – deuliw'n unig sydd, y gwyn a'r du –
Tydi a minnau. Gwag ond hynny yw'r byd
Sy'n troi mewn gwagle; ac nid ydynt hwy
Ond dwbwl wegi – gwag yn troi mewn gwag o hyd.

Dy felltith ydyw'r ddawn a roed i ti
I lenwi'r gwagle â thydi dy hun.
Dysgaist i minnau lenwi a lliwio'r byd,
Nad yw ond gwag a deuliw, ag amllder lliw a llun.

A deuliw – du a gwyn. Nid gwyn yw du,
Fe wŷr y gwagle'n burion, ac ni ddaw
Dewin a'u huno hwy. Rhwng du a gwyn
Mae pellter, dyfnder, gwagle, gagendor di-ben-draw.⁷⁶

Yr hyn sydd yn amlwg yn yr enghreifftiau uchod yw'r ffaith fod bywyd yn gymysgedd o elfennau gwrthgyferbyniol sydd yn creu cydbwysedd, ond dylid tynnu sylw yn arbennig at y ffaith iddo benderfynu yn ddigamsyniol yn wythfed pennill 'Dwy Gerdd' na ellir fyth uno'r du a'r gwyn er iddo sôn yn gynharach i'r unigolyn y siarada ag ef ddysgu iddo liwio'r byd 'ag amllder lliw a llun'. Fodd bynnag, ar ddiwedd y gerdd, gwelir bod y bardd a'r unigolyn arall yn dod at ei gilydd o dan amgylchiadau arbennig iawn, a'r rheswm mwyaf tebygol am hyn yw eu

bod yn bodoli'n dragwyddol yn y pedwerydd dimensiwn. Gwelir bod y gerdd yn llawn o osodiadau a gwrthosodiadau lle y ceir esgynfa ar y diwedd glo a arweinia at gyfosodiad terfynol.

Ar y cyfan, felly, ei fanifesto mawr yw fod rhaid 'dal y ddysgl yn wastad rhwng Du a Gwyn' fel yr esbonia wrth drafod rhinweddau a gwendidau ieuencid, canol oed a henaint yn ei gerdd, 'Byw'.⁷⁷ Er hynny, o astudio'r enghreifftiau uchod, ymdeimlir ag anhawster mawr wrth geisio cadw unrhyw fath o gydbwysedd gan fod tyndra cyson yn codi rhwng gosodiadau a gwrthosodiadau, ac ni ellir llai na theimlo'r rhwystredigaeth amlwg a brofa wrth geisio cyfaddawdu. Ymddengys ei fod yn ceisio pwysu a mesur popeth i'r eithaf, o bob ongl, gan lanio rhwng dau gae; ei unig ddihangfa, felly, i dawelu ei enaid clwyfus, yw ceisio ymlonyddu drwy dderbyn cyfosodiad rhwng bodd ac anfodd.

Y Pedair Efen

Buddiol fyddai sylweddoli y gallasai Parry-Williams yn hawdd iawn seilio ei anwadalwch meddwl ar rai syniadau poblogaidd eraill heblaw perthynoledd, fel yr awgrymwyd uchod. Y mae'r syniad cyntaf yn dra hen ac yn deillio o alcemeg yn y Canol Oesoedd. Sefydlwyd alcemeg ar yr hen syniad Groegaidd fod yr holl sylweddau a geir yn rhan o un mater

sylyfaenol, ac felly, gellid puro, newid a hefyd greu sylweddau a fyddai'n meddu ar nodweddion newydd. Credai'r Groegwr, Empedocles (c.495–435 C. C.) fod popeth ar y ddaear yn gymysgedd o bedair elfen sylyfaenol, sef, daear, awyr, dŵr a thân. Y mae dau rym effro gwrthwynebol, cariad a chasineb, neu gydnawsedd a gwrthnawsedd, yn effeithio ar y pedair elfen hyn gan eu cyfuno a'u gwahanu i fân ffurfiau gwahanol. Sgîl-effaith hyn yw genedigaeth a marwolaeth wrth i bethau newid tra bo'r elfennau hanfodol yn aros yr un fath. Credai fod Cariad yn uno a Chasineb yn gwahanu. Yn ei dyb ef, yr oedd realaeth yn gylchol ac ar ddechrau'r cylch, yr oedd y pedair elfen wedi eu rhwymo wrth ei gilydd o dan egwyddor Cariad. Ond pan drwythir y cylch gan Gasineb, y mae'r elfennau'n dechrau gwahanu. Adunir popeth gan gariad drachefn, ond dechreuwa Casineb ymyrryd unwaith yn rhagor. Pan grëir undod drwy gyfaddawd, cred Empedocles fod popeth mewn Cytgord, mewn Sffêr crwn, troellog, llonydd.⁷⁸

Gwelwyd uchod i ysfa Parry-Williams i gyffwrdd a chyfrif greu tyndra a gwrthryfel cyffelyb i ddisgrifiad Empedocles, gan droi'r gwyn yn ddu a chariad yn gas. Yn 'Paradwys', y mae gwybod dyrys ffyrdd arfaeth Duw yn 'gwneuthur uffern o bob nef'⁷⁹, ac yn 'Nef', 'Ym mhydew du'r

disberod', y mae'r bardd 'Mewn uffern ddigon dofn i fod yn nef.'⁸⁰ Y

mae'r cyflwr meddwl hwn yn debyg iawn i'r hyn a oedd gan y seiciatrydd

a'r seicdreiddiwr, Carl Gustav Jung (1875–1961), i'w ddweud:

In accordance with the principle of compensation which runs through the whole of nature, every psychic development, whether individual or collective, possesses an optimum which, when exceeded, produces an enantiodromia, that is, turns into its opposite.⁸¹

A chwedl William Blake, yn 'Proverbs of Hell': 'Excess of sorrow laughs.

Excess of joy weeps.'⁸²

Dengys y darn canlynol o nodiadau llawysgrifen Parry–Williams ei fod yn gyfarwydd â rhan o'r drafodaeth uchod (gosodir geiriau y mae ansicrwydd ynglŷn â hwy mewn prif lythrennau):

The first step in the development of the idea of elements was to recognise that a single principle would not prove DIFFICULT to cover the manifoldness of facts. Empedocles therefore conceived a double or binary principle; and Aristotle developed the idea a stage further stating MODELS of binary antagonistic principles, namely 'dry-wet', and 'hot-cold'. The Aristotlian (sic) or peripatetic elements, which played such a part in the whole medieval philosophy, are the representatives of the several binary combinations of these fundamental properties, 'fire' being hot and dry, 'air' hot and wet, 'water' cold and wet, 'earth' cold and dry. According TO THE amount of these properties found in any body, these elements were regarded as having taken part in THE/THIS body.

Concerning the reason why only these BODIES were regarded as fundamental, we know nothing.⁸³

Ymddengys i wybodaeth am syniadau sylfaenol ynglŷn â chyfansoddiad y bydysawd, gan gynnwys y pedwar defnydd, daear, awyr, dŵr a thân, dreiddio i'r iaith Gymraeg drwy *Delw y Byd*, gwyddoniadur cyffredinol a oedd yn gyfieithiad o lyfr cyntaf yr *Imago Mundi* gan Honorius Augustodunensis, a ymddangosodd gyntaf yn 1110. Yn ôl Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen, yn *Drych yr Oesoedd Canol*, cyfieithwyd rhan o'r llyfr deirgwaith i'r Gymraeg ar dri achlysur gwahanol a gwelir bod sôn am y pedwar defnydd mewn enghraifft o waith beirdd y cyfnod canol gan John Morris-Jones a T. H. Parry-Williams: 'Crist uab meir am peir om pedwar defnyt'.⁸⁴ Dywed golygyddion *Drych yr Oesoedd Canol* fod rhan o'r *Imago Mundi* yn ddyledus i waith Isidorus o Seville (c.560–636), yr *Etymologiae*, un o lyfrau mwyaf dylanwadol yr Oesoedd Canol.⁸⁵ Diddorol, felly, yw darllen nodiadau bras Parry-Williams sydd yn sôn am Isidorus a'i ddylanwad yn y Canol Oesoedd⁸⁶; fe'u seiliwyd, yn ôl pob tebyg, ar drafodaeth Edward Anwyl ar *Lyfr Taliesin yn Y Geninen* ym mis Ebrill, 1913.

Rhai dylanwadau eraill

Ymhellach, efallai i Parry–Williams ddod o dan ddylanwad cerddi caru Horas a Chatwlws pan oedd yn astudio Lladin yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth gan iddo gyfeirio at y ddau fardd hyn yn ei gerdd, ‘Madrondod’.⁸⁷ Cerdd fwyaf Catwlws yw ‘Cerdd 85’, sef ‘Odi et Amo’ (‘Casâf a Charaf’): ‘Odi et amo. Quare id faciam, fortasse requiris nescio, sed fieri sentio et excrucior.’ (‘Casâf a charaf. Efallai y gofynnwch paham. Ni wn, ond fe’i teimlaf, ac fe’ m poenydir.’) Rhwygir Catwlws yn ddarnau oherwydd na wŷr paham y mae’n casáu ac yn caru yr un pryd ar ôl i’w garwriaeth â Lesbia chwalu.⁸⁸

Y mae’n amlwg i’r syniad o garu a chasáu apelio at Parry–Williams oherwydd fe’i gwelir yma a thraw yn ei weithiau. Yn un o’i erthyglau ar W. B. Yeats, y mae’n rhestru sawl hoff ddyfyniad o weithiau’r Gwyddel, gan gynnwys y canlynol: ‘...I too await/ The hour of thy great wind of love and hate.’ o ‘The Secret Rose’ yn ‘The Wind among the Reeds’.⁸⁹ Y mae gwaith Yeats yn gymhleth iawn ac yn llawn cymysgedd o symbolau, delweddau, metaffiseg a gwybodaeth ocwlt, heb sôn am fetaffiseg Fwdiaidd a Hindwâidd, mytholeg a llên gwerin. Symbol ocwlt o unoliaeth yw’r rhosyn yn y gerdd o dan sylw. Yr oedd gan Yeats yntau ddiddordeb mewn cyferbyniadau cyffredinol (‘*universal opposites*’) ac ar

ddiwedd y gerdd, y mae disgwyl gweld menyw oruwchnaturiol, sydd yn cynrychioli rhosyn, yn creu trafferthion mawr gan y bydd y naturiol a'r goruwchnaturiol, wrth greu undod, yn dinistrio'r holl fydysawd.⁹⁰ Yn ei ysgrif, 'Y Drefn', dywed Parry-Williams fod caru a chasáu yn un o'r pethau a dynghedwyd i ddynoliaeth gan 'y Drefn',⁹¹ ac yn 'Eiconoclastes', 'un rhyfedd' oedd gŵr a oedd ar brydiau yn caru anwybod a chasáu ceraint, a chofleidio cas a herio cariad, wrth chwilio am y gwirionedd.⁹² Yn 'Pendraphendod', dyfynna eiriau ffisegwr atomig:

Despite all paradox,...we are talking of what you and I are made of, and the trees and the stones and the stars; and, for all we know, we are talking of the material basis of love and hate and patriotism and treachery and religious ecstasy.⁹³

Yn 'Noethlymun (Profiad Munud Awr)', ceir ymosodiad gan Parry-Williams ar ddatguddiad hagrach bywyd, a chyferbynna ei sefyllfa ei hun ag un Keats, gan ddangos y tyndra meddyliol a brofir rhwng dau gae:

Soniai Keats druan am ryw gyfnod ar fywyd pan mae'r enaid yn ferw gan gythrwfl, a barn heb wybod ar ba fraich i'r glorian i bwysu. Hynny, hwyrach, ydyw ystyr hyn o sylwadau; ond nid oes gan ddyn help i'w gas a'i gariad, i'w orhoffedd a'i atgasedd.⁹⁴

Yr oedd y beirdd Rhamantaidd, Wordsworth, Shelley, Keats, Coleridge a Blake yn defnyddio paradocsau yn eu gwaith hwy er mwyn dod o hyd i

unoliaeth; credai Wordsworth fod rhyw 'dark inscrutable workmanship that reconciles discordant elements, makes them cling together in one society.' ('The Prelude'); yr oedd Shelley yn ystyried dychymyg fel grym sydd yn cydgordio a chredai fod barddoniaeth yn unoli pob anghysonder; i Keats, yr oedd celfyddyd yn gallu cael gwared ar anghytundebau oherwydd bod ganddynt gysylltiad agos â harddwch a'r gwirionedd drwy gelfyddyd, a hefyd, credai Coleridge fod y dychymyg yn gallu cadw cydbwysedd ac unoli nodweddion gwrthgyferbyniol.⁹⁵

Esbonia Blake yn *The Marriage of Heaven and Hell*:

Without Contraries is no progression. Attraction and Repulsion, Reason and Energy, Love and Hate, are necessary to Human existence. From these contraries spring what the religious call Good and Evil. Good is the passive that obeys Reason. Evil is the active springing from Energy. Good is Heaven. Evil is Hell.⁹⁶

Dychanu Swedenborg a wna Blake yn y darn hwn wrth ddangos y gwahaniaeth rhwng y ddau weledydd. Cynrychiolir Swedenborg gan 'Reswm' a Blake gan 'Egni'. Hefyd, yn *Milton*, dywed Blake: 'Contraries are Positives A Negation is not a Contrary'. 'There is a place where Contrarities are equally true/ This place is called Beulah ...'⁹⁷ (Dylid nodi yn y fan hon nad oedd Blake yn defnyddio atalnod llawn yn

rheolaidd yn ei waith). Manteisiai Blake yn fawr ar baradocsau yn ei weithiau ac efallai i Parry-Williams lunio 'Bwrn', gyda'r drafodaeth o agweddau gwrthgyferbyniol, lle y mae dwy ochr i bopeth, o dan y camargraff mai Blake a ddarluniodd yr engrafiad a oedd yn 'huddenu'n annaearyl' ac yn 'gwrthnysu' yr un pryd.⁹⁸ Fel y gwelwyd yn ail bennod y traethawd hwn, Henri Fuseli oedd gwir awdur y gwaith.⁹⁹ Yr oedd y gred ynglŷn â gwrthgyferbyniadau yn un dra phoblogaidd ar hyd y canrifoedd gan lenorion a diwinyddion. Dywed Hugh Bevan, wrth sôn am y ddau gyfrinydd, Morgan Llwyd (1619-59) a Jacob Boehme (1575-1624):

Diddorol yw sylwi hefyd cyn lleied o le a rydd Morgan Llwyd i egwyddor fetaffisegol Boehme mai ymryson rhwng elfennau gwrthwyneb yw sylfaen bywyd, ac y mae'r awyrgylch o wrthdaro ffyrnig sy'n gyfeiliant i'r egwyddor honno (awyrgylch y ceisiodd William Blake ei dwysáu yn ei farddoniaeth â ffiguraeth ffatri ac eingion) yn gwbl absennol o'i ryddiaith.¹⁰⁰

Trafoda E. Lewis Evans sylfeini dysg Boehme yn ei lyfr, *Morgan Llwyd*, gan sôn am Empedocles a'r pedair elfen. Ceir dyfyniad Boehme yn esbonio nad elfennau ydynt, ond yn hytrach, ansoddau yr un wir elfen.¹⁰¹

Hegel

Yr unigolyn a boblogeiddiodd y dilechdid yn fwy na neb yn yr oes fodern oedd Georg Wilhelm Friedrich Hegel (1770–1831). Newidiodd gwrs hanes y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif drwy ei ddylanwad ar Karl Heinrich Marx (1818–83) a seiliodd ei athroniaeth, materoliaeth ddilechdidol, ar syniadau'r Almaenwr. Gwir yw dweud, hefyd, iddo ddylanwadu'n gryf ar yr athronwyr, Friedrich Nietzsche (1844–1900) a Martin Heidegger (1889–1976). Treiddiodd ei ddylanwad i Gymru yn ogystal, gan fod y diwinydd, Lewis Edwards (1809–87), yn un o'i ddilynwyr. Credai ef fod 'yr iawn farn ar bob pwnc yn cynnwys dau wirionedd gwrthgyferbyniol.'¹⁰²

Ystyrir athroniaeth Hegel yn un eithriadol o astrus, ac yma, ni wneir mwy na darlunio'r sgerbwd. Y mae tri cham i'w system athronyddol, sef gosodiad, gwrthosodiad a chyfosodiad. Y mae'r gwrthosodiad yn gwrthddweud neu'n negyddu'r gosodiad, a'r cyfosodiad yn ymgorffori'r hyn sydd yn hanfodol ac yn orau yn y ddau gam blaenorol. Ymhellach, gellir esgyn yn derfynol at yr hyn a alwai Hegel yn Ysbryd neu Feddwl drwy gymryd y cyfosodiad fel gosodiad ac ailadrodd y proses. Parthed Hanes, prif ddyhead Hegel oedd gweld unigolion yn ennill eu rhyddid drwy ddefnyddio rheswm; gwelai gaethiwed unigolion ar hyd yr oesau

fel canlyniad dylanwadau allanol. Ei nod oedd cyfosod natur foesegol unigolyn, a ffurfir mewn cymuned benodol, â'i ochr resymol ef, gan gyfuno rhyddid unigolyn a gwerthoedd cymunedol o ganlyniad. Felly, byddai pobl yn eu bodloni eu hunain yn ogystal â bodloni pobl eraill, gyda'r grym i reoli cwrs hanes drwy reswm yn hytrach na chael eu rheoli gan hanes.¹⁰³ Efallai fod arlliw o'r syniad hwn yn rhigwm sur a choegyld

Parry Williams, 'Cân Gwerin':

Mae dynion, wrth gwrs, yn dal i ryw rygnu byw;
Ond Dyn sy'n cyfrif mewn Hanes, hwnnw yw

Eilun y greadigaeth; hwnnw yw'r cawr;
A ninnau'r unigolion yw llwch y llawr,

...Ond nyhi sy'n llunio Hanes, heb wybod dim,
Nyhi gyda'n gilydd, er gorfod byw ar sgim.

Cydlawenhawn, canys cawsom ninnau ffraint, –
Bydd ein hactau ni mewn Hanes fel actau saint.

'Cysurwch, cysurwch fy mhobl', medd proffwyd yr oes,
'Chwychwi sy'n gwneud Hanes Dyn. Cofleidiwch y groes'.

O'r gorau, frawd; ond fe hoffai ambell un
Wybod beth ydyw Hanes a phwy yw Dyn.¹⁰⁴

Ar un amser, perthynai Karl Marx i grŵp o ddilynwyr radicalaidd Hegel, 'Yr Hegeliaid Ieuainc', a dyma ei ddyfyniad enwog allan o *The Eighteenth Brumaire of Louis Bonaparte*, sydd yn cyd-fynd â'r sylwadau uchod:

Men make their own history, but they do not make it just as they please; they do not make it under circumstances chosen by themselves, but under circumstances directly encountered, given, and transmitted from the past.¹⁰⁵

Sail metaffisegol dilechdid Hegel yw rhywbeth a alwai yn ysbryd neu feddwl. Credai i Feddwl cyffredinol fod yn rym gweithredol drwy'r oesau a bod meddyliau unigolion yn rhan ohono. Oherwydd hynny, ceisiodd astudio Hanes i ddarganfod natur '*geist*' a ystyriodd fel rhywbeth rhesymegol. Yn ei lyfr, 'Ffenomenoleg Ysbryd' neu 'Ffenomenoleg Meddwl' (y mae dwy ystyr i'r gair gwreiddiol, '*geist*'), lle y mae'n ceisio esbonio mai'r Meddwl yn dechrau dod i'w adnabod ei hun yw datblygiad deallus y ddynoliaeth, y mae Hegel yn ymresymu'n ddilechdidol fel hyn: cymerer foeseq arferol yr hen wlad Groeg (y gosodiad); y mae hadau dinistr ynddi; gwneir i ffwrdd â'r foeseoldeb arferol ac fe'i disodlir yn ystod y Diwygiad Protestannaidd gan foeseoldeb wedi ei seilio ar gydwybod unigolyn yn unig (y gwrthosodiad). Ond y mae hyn yn unochrog ac yn anwastad hefyd ac felly y mae'n rhaid cael trydedd sefyllfa, sef y gymuned resymegol sydd yn cyfuno agweddau positif y ddwy sefyllfa flaenorol (y cyfosodiad).¹⁰⁶

Dyma olygwedd Parry–Williams ar y busnes hanerog a chyflawn hyn yn

ei ysgrif, ‘Ar ei Hanner’:

Ond, fel rheol, fe ystyrir y peth a adawyd ar ei hanner, yn anghyflawn, – ac felly y mae ar ryw olwg. Yn ein bywyd a’n gweithgareddau yn gyffredinol y mae llu o’r pethau ‘hanerog’ hyn, yn gyfansoddiadau llenyddol, yn dasgau a osodasom i ni ein hunain, yn weledigaethau o’r gwirionedd, ac yn bererindodau ysbrydol ... Y mae ambell bererindod yn arwain i fin dibyn, ac ambell weledigaeth yn ymgolli mewn niwl; ond gellir synied bod y gweddill ohonynt yn bod neu i fod yn rhywle ... Yn wir, o’r ochr arall, onid yw llawer iawn o’r pethau a ystyrir yn gyflawn, yn bethau ar eu hanner wedi’r cwbl, ond inni eu golygu’n gwmpasog ac yn ôl ac ymlaen? Parhad o rywbeth a fu yw popeth sydd. Ac onid hanerau ydyw llawer o unau ac unedau’r ddaear hon? ‘Mae brân i frân yn rhywle’, medd y gair, am fod un frân, fel y cyfryw, yn anghyflawn heb frân arall: hanner aderyn ydyw. Pâr ydyw’r uned, felly, ym myd y brain. Ac yn amlach na pheidio rhaid cael dau fynegi gwirionedd – a hynny weithiau yn groes i’w gilydd – i wneud un mynegiant cyflawn. Fe gydnabyddir mai gwirionedd ar ei hanner yw pob gwireb a dihareb, ac eto byddwn yn ystyried y swm o wirionedd a fo mewn un ohonynt, yn gyflawn – ar ac am y tro ... Wrth sôn am bâr priod, fe gyfeirir yn aml at yr ‘hanner orau’; ond y mae bywyd ambell hen–lanc ac ambell hen–ferch yn ddychryn o gyflawn.¹⁰⁷

Diddorol nodi yn y fan hon i’r gyfrol, *Olion*, sydd yn cynnwys ei rigwm,

‘Dau ac Un’, gael ei chyhoeddi yn 1935. Yn y rhigwm, y mae’n

gwrthwynebu’n chwynn ryw ‘goblyn di–ryw’ a osododd ‘i’r dewin dau

gael rheoli byw’ gan ddiystyru hawl yr ‘hudol un’.¹⁰⁸ Y mae Llyfr y

Pregethwr yn y Beibl yn un ffynhonnell sydd yn sôn bod dau yn well nag un: ‘Gwell yw dau nag un, o achos bod iddynt wobr da am eu llafur.’

(4:9) ‘Canys os syrthiant, y naill a gyfyd y llall: ond gwae yr unig; canys

pan syrthia efe, nid oes ail i’w gyfodi.’ (4:10) Tymherwyd cred Parry-

Williams rywfaint yn y man gan iddo gyfeirio at ‘hanner orau’ pâr priod

yn ‘Ar ei Hanner’, o’r gyfrol, *Lloffion*, a gyhoeddwyd yn 1942, sef

blwyddyn ei briodas.¹⁰⁹ Gwelir, hefyd, fod yn rhaid cael dau ddyn i

brofi’r ddau orchwyl o foddi cath a phrynu caneri er mwyn eu profi’n

debyg i gyflawn, fel yr esbonia yn ‘Prynu Caneri’.¹¹⁰ Yn ôl Parry-

Williams, yr oedd Eseia wedi cael gweledigaeth ddwbl neu ddwyochrog,

ac felly wedi cael cydbwysedd barddonol–artistig wrth gyferbynnu

darfodedigrwydd pethau â’r ffaith nad oes terfyn ar ‘bethau’ Duw.¹¹¹

Enghraifft arall a allai ddeillio o athroniaeth Hegel yng ngwaith Parry-

Williams yw’r darn canlynol o’i ysgrif, ‘Dewis’:

Y llwybrau a’r llwybro sy’n cyfrif. Y mae llawer math o ddewis a llawer o wahaniaeth yn aml rhwng y cyfeiriadau a ddewisir, – rhai fel petaent yn groes hollol i’w gilydd, ond yn arwain i’r un fan.¹¹²

Heracleitos

Cyn gorffen y drafodaeth benodol hon ar y defnydd o baradocsau a chydbwysedd yng ngwaith Parry-Williams a symud i drafodaeth arall berthnasol, dylid esbonio cyfraniad yr athronydd Groegaidd, Heraclitos (c. 500 C. C.) y sefydlodd Hegel ei Resymeg arno. Yr oedd Heraclitos yn hoff iawn o ddefnyddio paradocsau ac fe'i gelwid 'yr un tywyll' neu 'siaradwr damhegion'. Credai ef fod popeth yn y byd yn newid drwy'r amser ond bod sylfaen ddigyfnewid i'r holl newidiadau. Allan o'r sylfaen ddigyfnewid hon y deilliai popeth a'r sylfaen honno oedd tân.

Dywedodd, hefyd, fod y fath beth â'r cyflwr o Fod, ac ochr yn ochr â hwnnw, Ddod i Fod. Y mae fflamau tân yn newid yn gyson a phe na newidient, ni fyddai tân yn bodoli. Y mae'n bod a pheidio â bod a dyna'r modd y deuir i fodolaeth. Y pwynt pwysig i'w gofio yw bod pethau'n parhau i Fodoli wrth iddynt Ddod i Fod, hynny yw, y mae'r sylfaen wastad ynghlwm wrth y newidiadau. Mewn geiriau eraill, yr oedd popeth yn Un iddo ef. Neges ei ddyfyniad enwocaf yw'r ffaith na ellir troedio yn yr un afon ddwywaith a hynny oherwydd mai dŵr gwahanol sydd yn llifo ynddi drwy'r amser. Yr ydym yn camu ac nid ydym yn camu i'r un afon yr un pryd; bodolwn ac ni fodolwn. Y mae'n amlwg yn amhosibl sylwi ar unrhyw newid os nad oes rhywbeth sefydlog i'w gymharu ag ef. Felly,

credai yn unoliaeth gwrthgyferbyniadau, y mae Bod a Difod yn unoli Dod i Fod.

Y mae natur Bod a Difod yn mynd â sylw Parry-Williams yn 'Dyfed' wrth iddo draethu am faen bod-a-pheidio yng ngyd-destun epistemeg, sef hawl yr unigolyn i'w gredoau ei hun.¹¹³ Yn 'Darfod', bod a darfod yr un pryd a gaiff sylw, sef y syniad fod marwolaeth unigolyn yn rhan o'i fywyd o'r cychwyn cyntaf.¹¹⁴ Parthed daliad Heracleitos, gellir dyfynnu rhan o gerdd Parry-Williams, 'Tynfa', lle y darlunnir newid yn y bardd ei hun ac Afon Gwyrfai, a sefydlogrwydd ei ardal enedigol ef, sef man cychwyn y bardd a'r afon a sylfaen y newidiadau sydd yn cyd-deithio â'r bardd a'r afon:

Nid rhyfedd, canys y mae'r fan a roes
Ein cychwyn gyda'n gilydd, yn parhau
Ynglŷn wrth ein crwydriadau, ac nid oes
Dim a'u hysgaro, nes ein bod ein dau,
Er ymwahanu, yn trafaelio ynghyd,
Yn mynd, ac wedi mynd, ond yno o hyd.¹¹⁵

Yr un ddelwedd o'r gwrthgyferbyniad rhwng newid a sefydlogrwydd a ddefnyddir gan Robert Williams Parry yn ei soned, 'Ymson Ynghylch Amser', sydd yn adlewyrchu daliad Heracleitos yn hollol eglur: 'Hon ydyw'r afon, ond nid hwn yw'r dŵr/ A foddodd Ddafydd Ddu.'¹¹⁶ Yn ei

gerdd, ‘Y Rhufeiniaid’, dengys Parry–Williams yr un syniad eto o newid a sefydlogrwydd, gan ddefnyddio ‘man a lle’ unwaith yn rhagor i ddarlunio sefydlogrwydd:

Y ffyliaid gwirion, oni wyddent hwy
Fod pen ar bopeth ar y ddaear hon,
Fod pob hen garreg rywdro’n torri’n ddwy,
Mai byr barhad sydd i bob newydd–sbon?/
Heb hidio gronyn nad oes dan y ne’
Ddim byd a bery’n hir ond man a lle.¹¹⁷

Gwelir, felly, fod cysylltiad agos rhwng perthynoledd a oedd yn sylfaen i Ddamcaniaeth Arbennig Perthynoledd Einstein (1905) a meddylfryd y bardd–lenor o Ryd–ddu a bod hynny wedi cyfrannu at ei anwadalwch meddwl a’i anrwymedigaeth wrth lawer iawn o bethau. Yn ogystal, darganfuwyd fod hen syniadau gwyddonol ac athronyddol poblogaidd wedi dylanwadu’n gryf arno gan atgyfnerthu ei ddaliadau.

Damcaniaeth Arbennig Perthynoledd Einstein (1905)

Yn y fan hon, buddiol fyddai darganfod mwy am Ddamcaniaeth Berthynoledd Einstein, oherwydd gwelir ôl rhai goblygiadau eraill o’r ddamcaniaeth yng ngwaith y bardd a’r llenor. Yr oedd nifer o ganlyniadau i’r ddamcaniaeth oherwydd darganfuwyd bod cyflymder goleuni yn ddigyfnewid pa bryd bynnag a lle bynnag y’i mesurid tra nad

oedd hynny'n wir am ofod ac amser. Hefyd, ymddangosai fod cysylltiad agos rhwng mater ac egni. Y mae damcaniaeth Einstein yn cytuno â damcaniaeth Newton o dan bron bob amgylchiad ond ysgubodd Einstein holl gynllun cysyniadol Newton i ffwrdd. Cyn Einstein, rhan o athroniaeth oedd gofod ac amser ond ar ei ôl, yr oedd gofod ac amser yn rhan o ffiseg wrth i fusnes gofod ac amser wau gyda busnes mater. Hynny yw, yr oedd gofod ac amser wedi ei wau rywsut i batrwm y bydysawd.

Ond gofynnodd Einstein iddo'i hun sut yr oedd gofod ac amser yn chwarae rhan yn y bydysawd yn hytrach na bod yn llwyfan iddo. Oherwydd bod cyflymder goleuni yn gyson, yr oedd yn rhaid mynd ati i astudio mudiant. Beth petai llif amser yn anghyson? Roedd hyn yn syniad radical oherwydd bod amser yn absoliwt i Newton. I Einstein, yr oedd amser yn llifo ar raddfa wahanol ond yr oedd hyn yn anodd iawn i'w dderbyn. Golygai nad oedd amser yr un fath i bawb; y mae amser yn wahanol i rywun sydd yn teithio ac i rywun sydd yn sefyll yn llonydd.

A allai dau ddigwyddiad fod yn gydamserol pan ydynt yn digwydd yn union yr un pryd? Na allent, yn ôl Einstein. Meddyliodd am sefyllfa arbennig gan ddefnyddio cledrau rheilffordd a thrên fel sylfaen i'r

arbrwf. Gosododd ddau bolyn a mesurodd y pellter rhwng y ddau gan farcio'r man canol rhyngddynt. Gan ddefnyddio drych ongl sgwâr, y mae'n bosibl gweld y ddau bolyn. Dychmyger bod mellt yn taro'r ddau bolyn yr un pryd. Y mae arsylwr sydd yn sefyll yn llonydd yn y man canol gyda'i ddrych ongl sgwâr wrth ochr y cledrau yn gallu gweld y ddau ddigwyddiad yn digwydd yr un pryd. Yn ystod yr un digwyddiad, y mae arsylwr ar y trêen ac y mae ganddo yntau ddrych ongl sgwâr. Pan yw'r trêen yn union hanner ffordd rhwng y ddau bolyn, y mae mellt yn taro'r ddau bolyn ond nid yw'r arsylwr sydd yn symud yn gweld y digwyddiadau yr un pryd. Gwêl ef y fellten sydd yn taro'r polyn y mae ef yn symud tuag ato yn gyntaf. Y mae goleuni yn cymryd mwy o amser i deithio o'r polyn i'r drych ac yn ystod yr amser hwnnw, y mae'r trêen yn teithio tuag at y polyn sydd ar y blaen. Y mae gan y goleuni lai o ffordd i'w groesi i gyrraedd llygad yr edrychwyr. Felly, y mae'r ddau arsylwr, un yn symud a'r llall yn sefyll yn llonydd, yn methu cytuno pa bryd y mae'r mellt yn taro'r polion. Golyga hyn fod amser yn berthynol; y mae amser yn llifo ar raddfa wahanol i bawb ac y mae amser yn amrywio.

Disodlodd hyn ddamcaniaeth Isaac Newton yn llwyr gan iddo ef ddatgan bod amser yn ddigyfnewid. Dangosodd Damcaniaeth Arbennig

Perthynoledd Einstein y cyflymaf y mae rhywun yn teithio, yr arafaf y mae ei gloc yn tician o gymharu â rhywun sydd yn gwyllo wrth sefyll yn llonydd. Yr oedd Einstein wedi datgan yn ei bapur y byddai cloc a oedd yn symud yn berthynol i rywun yn ymddangos yn mynd yn arafach o'i olygwedd ef a hefyd dywedodd pe byddai rhywun yn mynd â chloc o amgylch y cyhydedd a chanddo gloc wrth begwn y byd, byddai'r un ar y cyhydedd yn mynd yn arafach na'r un wrth y pegwn. Golyga hyn fod amser yn mynd heibio yn arafach ar y daith i'r gwaith nag yw wrth eistedd wrth ddesg ond ni fyddai neb yn gwybod hyn oherwydd bod yn rhaid i'r cyflymder fod bron mor uchel â chyflymder goleuni i sylweddoli hynny. Hefyd, y mae hyd pethau yn crebachu. Pe byddai rhywun yn gyrru cerbyd ar gyflymder o 90% cyflymder goleuni, byddai'n crebachu i 44% ei hyd arferol o olygwedd rhywun a fyddai'n gwyllo o'r ochr. O ganlyniad i hyn, sylweddolodd Einstein na fyddai fyth yn gallu teithio ar belydryn goleuni oherwydd, ar gyflymder goleuni, y mae hyd yn crebachu i ddim ac amser yn sefyll yn llonydd. Dyna oedd darganfyddiad Damcaniaeth Arbennig Perthynoledd Einstein.

Gofod–Amser

Yr oedd goblygiadau athronyddol, pellgyrhaeddol i'r ddamcaniaeth hon. Yn 1908, rhoddodd hen athro mathemateg Einstein, Herman Minkowski, ffurf fathemategol iddi gan drin amser fel pedwerydd dimensiwn, o gymryd hyd, lled ac uchder fel y tri dimensiwn cydnabyddedig eraill o feintoniaeth Euclid. Esgorodd hyn ar gontinwrm gofod–amser, hynny yw, ystyriwyd y ddau ohonynt fel un endid mewn 'bydysawd bloc'. Un syniad poblogaidd a ddeilliodd o hyn oedd fod popeth yn digwydd ar unwaith neu fod popeth wedi digwydd ar unwaith a golygai hynny chwalu ffiniau pendant llawer o bethau mewn bywyd a oedd yn broblem gyson i Parry–Williams. Cyfeiria at y syniad yn ei ysgrif, 'Ar Chwâl', wrth drafod anghyflawnder pethau oherwydd gorgyffwrdd: 'Efallai mai'r rheswm am yr oferlapio tybiedig hwn ydyw bod popeth yn digwydd ar unwaith neu fod popeth wedi digwydd unwaith ac am byth, ac mai'r drefn yn unig sydd yn ein taro ni.'¹¹⁸

Hefyd, crybwylla'r un syniad yn ei ysgrif, 'Pendraphendod': 'Fe ddywedodd un gwyddonydd hefyd nad yw Amser yn ddim ond trefniant rhag i bopeth ddigwydd ar unwaith.'¹¹⁹ (tadogwyd y dyfyniad hwn ar John Archibald Wheeler (1911–), damcaniaethwr ffiseg Americanaidd.

Unwaith eto, sonnir am gymhlethdod gofod–amser yn ysgrif Parry–

Williams, ‘Y Drefn’: ‘Ac er bod cryn amau heddiw ar athrawiaeth achos–

ac–effaith, am na wyddom beth yw amser a lle (ac nid yw eu gwneud yn

un, a siarad am ofod–amser yn symleiddio’r broblem), y mae hi’n

gwneud y tro.’¹²⁰ Fel hyn y disgrifia’r broblem yn llawnach yn ‘Ar

Chwâl’:

Nid yw’r calendr yn cyfrif rhyw lawer wedi’r cwbl. Y mae popeth fel petai’n dyfod cyn amser ei ddigwydd, a phawb yn cyrraedd pen y daith cyn diwedd y siwrnai. Felly, i bob golwg, nid oes dim mewn bywyd yn cael ei orffen yn llwyr na’i gyflawni’n hollol: y mae rhyw ddarn yn ymddangos ar goll bob amser. Fe fethir un curiad ac fe ysgipir un gocosen er gwaethaf pob ymdrech, am fod y naill beth neu weithred yn rhan o’r nesaf ac yn oferlapio’i gilydd. Ac os oes ystyr o gwbl i wacter, dyna ydyw – yr ysgipio rhyfedd hwn; y mae’n ddwbl ei natur am fod y naill beth yn canslio’r (sic) llall wrth ei greu ... Nid ydyw’r haf nac unrhyw un o’r tymhorau byth yn cael siawns i orffen rhedeg ei yrfa, dywedded y calendr beth a fynno, oherwydd y gorgyffwrdd hwn rhwng dau gyfnod. Y mae celfyddyd yn nes iddi yn hyn o beth na natur a bywyd, a dyna paham y mae celfyddyd yn drech na natur... Mewn byw nid oes na phen na chynffon i ddim. Ni wŷr dyn pa bryd y bydd yn iach o glwyf nac yn dechrau clafychu eilwaith; nid yw’n sicr pa bryd y daw pen–llanw unrhyw brofiad mawr, boed drist neu lawen; ni wŷr pa bryd y mae’n peidio â bod yn dad i’w fab ac yn dechrau dyfod yn frawd iddo ... Efallai mai’r rheswm am yr oferlapio tybiedig hwn ydyw bod popeth yn digwydd ar unwaith neu fod popeth wedi digwydd unwaith ac am byth, ac mai’r drefn yn unig sydd yn ein taro ni. Syniad cyffredin ac ystrydebol, yn ddiâu. Y mae’r drefn

dybiedig fel petai'n drysu yn aml hefyd pan fo dyn mewn ystad o angerdd, – megis egni disgwyl dwys a dygn, er enghraifft, neu unrhyw gynnwrf nwydus ac ymdeimlad llethol ... Wrth ddyfod cyn eu tro fel hyn y mae'r profiadau miniog a'r 'amgylchiadau' cythryblus yn rhoddi cyfle i ddyn gael ei draed dano ac ymsefydlogi cyn iddynt ddigwydd. Ac y mae hynny'n drugaredd, oherwydd heb hyn ni allem ddal sioc y cynryfiadau mawr gystal ag y gwnawn. Wrth rhag-ddyfod ffurfir byffer o ryw fath, i ni allu taro'r pen cyn dyfod i'r pen yn hollol, ac felly osgoi'r gwrthdaro naturiol.¹²¹

O sylwi'n fanwl ar yr uchod, y mae cyfraniad perthynoedd yng nhydestun gofod-amser yn dangos nad oes ffiniau pendant i bethau gan ddadorchuddio'r rheswm am anwadalwch meddwl Parry-Williams. Er enghraifft, gwelir nad yw'n gallu penderfynu pa bryd y mae dyn yn peidio â bod yn dad i'w fab ac yn dechrau dyfod yn frawd iddo. Nid oes ffiniau amser yn athroniaeth Bergson ychwaith, fel y gwelwyd uchod, ac felly, ymddengys fod Parry-Williams yn ceisio datrys problem nad yw'n bodoli wrth geisio torri amser i fyny gan groesdynnu â daliadau cyffredinol, cryf yr oes. Meddai Bergson:

That the child can become a youth, ripen to maturity and decline to old age, we understand when we consider that vital evolution is here the reality itself. Infancy, adolescence, maturity, old age, are mere views of the mind, *possible stops* imagined by us, from without, along the continuity of a progress. On the contrary, let childhood, adolescence, maturity and old age be given as

integral parts of the evolution, they become *real stops*, and we can no longer conceive how evolution is possible, for rests placed beside rests will never be equivalent to a movement ... When we say 'The child becomes a man,' let us take care not to fathom too deeply the literal meaning of the expression, or we shall find that, when we posit the subject 'child,' the attribute 'man' does not yet apply to it, and that, when we express the attribute 'man,' it applies no more to the subject 'child.' The reality, which is the *transition* from childhood to manhood, has slipped between our fingers. We have only the imaginary stops 'child' and 'man,' and we are very near to saying that one of these stops *is* the other, just as the arrow of Zeno *is*, according to that philosopher, at all the points of the course. The truth is that if language here were moulded on reality, we should not say 'The child becomes the man,' but 'There is becoming from the child to the man.'¹²²

Efallai fod Parry-Williams, yn ei esboniad, yn nes at feddylfryd Bergson

yn ei gerdd, 'Dwy Hanner', a drafodwyd uchod, nag yr ydyw wrth

bendroni uwchben cymhlethdodau 'gofod-amser', gan iddo ddewis

bywyd ac ysbryd, yn hytrach nag ef ei hun, fel goddrych. Oherwydd, i

Bergson, Bywyd a Newid ac Esblygiad oedd yr elfennau sylfaenol.

Ymhelaetha ymhellach yn yr ysgrif am yr holl ddryswch a achosa gofod-

amser:

Os un fel hyn ydyw popeth ac os unwaith yn unig sydd, os agweddu sy'n cyfrif ac nid amserau, yna nid cyswllt achos ac effaith sydd rhwng pethau bywyd - y mae'r effaith yn gymaint o achos â'r achos ei hun; y mae yfory'n gymaint o ddoe â doe ei hun, a dau yn gymaint o un-ac-un ag ydyw

un-ac-un o ddau. Ac wrth sôn am ffigurau, onid gan y mathemategwyr yn unig y mae allwedd yr holl gyfrinach a datodiad yr holl ddryswch? Gallant hwy, heb golli eu pennau, unoli gofod ac amser (prif achos y tryblith) yn ddigyffro, a siwglô'n sobr gyda dim ac anfeidroldeb, a synied yn dawel am fesur y ddau. Yr ydym ninnau, weddill dynion, mewn penbleth, – ac felly y byddwn hefyd, heb fathemateg. Ni wyddom pa le'r ydym ar unrhyw achlysur: nid ydym yn sicr o'n cyfnodau na'n tymhorau na'n tymherau ein hunain. Pan ystyriom y pethau symlaf yn bwyllog, sigla'n pwyll; pan geisiom ddatrys cwlwm, gwnawn gwllwm gwaeth o'r newydd...Ni wyddom ni, – ac ni wŷr y mathemategwyr y cwbl ychwaith. Pwy a ddengys gyffin gorllewin a dwyrain? Pwy a all ddywedyd pa le y mae afon yn mynd i'r môr?¹²³

Adlewyrcha'r ddwy frawddeg olaf farn y gwyddonydd, James Jeans, yn ei lyfr enwog, *The Mysterious Universe*, am ansicrwydd gwyddonwyr eu hunain ynglŷn â chwestiynau mawr y cyfnod wrth eu cymharu ag arloeswyr:

At one moment the explorer says: 'I am going downstream, and, as I am going towards the west, the ocean which is reality seems most likely to lie in the westerly direction.' And later, when the river has turned east, he says: 'It now looks as though reality is in the east.' No scientist who has lived through the last thirty years is likely to be too dogmatic either as to the future course of the stream or as to the direction in which reality lies: he knows from his own experience how the river not only for ever broadens but also repeatedly winds, and, after many disappointments, he has given up thinking at every turn that he is at last in the presence of the

murmurs and scents of the infinite sea. (sic)¹²⁴

Yn y fan hon, buddiol fyddai ceisio esbonio sefyllfa unigolyn oddi
mewn i fydysawd bloc, lle y mae dim ond agweddau'n cyfrif. Dyma farn
bersonol Jeans am y dirgelwch. Cyfeiria at fodel o'r 'bydysawd bloc' ar
ddiagram yn ei lyfr. Cynrychiola 'world line' fater yn y bydysawd:

Your consciousness touches the picture only along your world line, mine along my world line, and so on. The effect produced by this contact is primarily one of the passage of time; we feel as if we were being dragged along our world line so as to experience the different points on it, which represent our states at the different instants of time, in turn.

It may be that time, from its beginning to the end of eternity, is spread before us in the picture, but we are in contact with only one instant, just as the bicycle-wheel is in contact with only one point of the road. Then, as Weyl puts it, events do not happen; we merely come across them. Or, as Plato expressed it twenty-three centuries earlier in the *Timaeus*:

The past and future are created species of time which we unconsciously but wrongly transfer to the eternal essence. We say 'was,' 'is,' 'will be,' but the truth is that 'is' can alone properly be used.¹²⁵

Ers canrifoedd maith cyn dechrau'r ugeinfed ganrif, yr oedd pobl wedi
sylwi bod rhai digwyddiadau naturiol, fel dyddiau a thymhorau,
cyfnodau'r lleuad a symudiadau'r sêr, yn rheolaidd a dibynadwy. Yn y
man, dechreuwyd ystyried ffenomena naturiol fel arwydd o anianawd yn
hytrach nag achosiaeth gan arwain pobl i gysylltu anianawd y wybrennau

nefol â'u hanianawd eu hunain. Cafwyd hanes y planedau a'r sygn gylch a'u heffeithiau ar ddyn yn yr un man â'r drafodaeth am bedwar defnydd y bydysawd yn yr *Imago Mundi*. Y gred oedd fod rhannau o'r bydysawd, sef y 'macrocosm' yn dylanwadu ar ddyn, sef y 'microcosm'. Dyma ran o'r syniad o nodiadau personol Parry-Williams yn ei lawysgrifen ei hun:

The belief of the ancients that the world or cosmos was animated or had a soul (see Anima Mundi) led to the notion that the parts and members of organic beings must have their counterparts in the members of the cosmos. Thus in a hymn ascribed to Orpheus, the Sun and Moon are looked upon as eyes of the animating godhead, the earth and mountains as his body, the ether as his intellect, the sky as his wings. The natural philosophers of the C16th – Paracelsus at their head – took up this notion anew in a somewhat modified shape, and considered the world as a human organisation on a large scale, and man as a world, or cosmos, in miniature; hence they called man a microcosm ('little world') and the universe itself the macrocosm ('great world'). With this was associated the belief that a vital movement of this microcōsm exactly corresponded to those of the macrocosm and represented them as it were in copy. From this it was an easy transition to the further assumption, that the movements of the stars exercise an influence on the temperament and fortune of men (see Astrology).¹²⁶

Hefyd, y mae darn arall o'i nodiadau ei hun yn sôn y ceir yr un syniad, sef 'y byd mawr' (y 'Macrocosmos') a'r 'byd bychan' (y Microcosmos), sef y greadigaeth a Dyn, yn *Llyfr Taliesin*.¹²⁷ Sonia Geraint H. Jenkins i'r

Cymry cyffredin, ofergoelus, yn yr ail ganrif ar bymtheg, ymddiddori'n fawr yn 'Sywedyddawl Farnedigaeth' Thomas Jones, yr Almanaciwr (1648–1713)¹²⁸, gan gyn lleied a wyddent am chwyldro seryddol Copernicus a Newton; dalient i gredu mai'r ddaear oedd canolbwynt y bydysawd a bod y planedau yn rheoli gwerthredoedd a thynged dyn. Sylwir i Parry–Williams ddweud: 'Ni wyddom pa le'r ydym ar unrhyw achlysur: nid ydym yn sicr o'n cyfnodau na'n tymhorau na'n tymherau ein hunain' yn 'Ar Chwâl' uchod.

Ymddengys fod dryswch gorgyffwrdd tymhorau, o ganlyniad i ofod–amser, wedi cael cryn afael ar ei ddychymyg, fel y dengys y cerddi canlynol. Yn 'Cŵn Ebrill'¹²⁹, y mae'r gwanwyn 'yn dyfod yn ei bryd' ac y mae yn ddau dymor sydd yn cwrdd a gorgyffwrdd yn y nef. Yn 'Y Rheswm'¹³⁰, mae dail coeden ir yn 'efelychu hydref yn yr haf' a haen o niwl yn 'esgus bod yn eira cyn ei bryd,/ A'i arian luwch ar hyd y geufron lefn/ Fel petai'r gaeaf eisoes dros y byd...' Â'r bardd ymlaen yn y gerdd i gysylltu dryswch y tymhorau â'i dymhorau ef ei hun, fel yr awgrymodd yn 'Ar Chwâl' uchod (ystyr 'dyddiau'r cŵn' yw diwedd Gorffennaf a dechrau Awst):

Nid am in weld fel hyn, yn nyddiau'r cŵn,

Ysmaldod cainc a niwl a'u hofer gais
I rusio'r haf i ffwrdd, y clywaist sŵn
Rhyw chwithdod oer annhymig yn fy llais,
Ond am fod ynof fis Gorffennaf ffôl
Yn ciprys gydag Ebrill na ddaw'n ôl.

Ceir yr un syniad yng nghyfieithiad John Morris Jones o waith Omar

Khayyâm:

Gwae fi fod llyfr fy mebyd wedi'i gau,
A chilio gwanwyn pêr fy mwynder mau;
Aderyn hoyw ifenctyd, ni chanfûm
Mohono'n dyfod nac yn ymbellhau.¹³¹

Yr un meddylfryd sydd gan Parry-Williams yn ei gerddi, 'Dau Hanner'¹³²

a 'Sialens'¹³³. Dwrda gelwydd tymhorau eto yn 'Celwydd'¹³⁴ gan

gysylltu celwydd a thriciau Haf Bach Mihangel â'i dwyllo ef ei hun wrth

iddo ddynewared yr 'Haf' hwnnw. Yn 'Anwadalwch'¹³⁵, dyhea am newid y

tymhorau, gan awgrymu'r dryswch ynglŷn â'i hunaniaeth a grëir gan

ofod-amser. Y mae hefyd fel petai'n benderfynol o wrthod twyll yr 'haf'

gan ddyheu am y gaeaf: 'Ac os bydd heulwen haf yn cynllwyn creu/Gwe

o hudolaeth melyn am fy mhen,/ Bydd y rhan honno eilwaith yn dyheu/

Am weld y gaeaf gyda'i fantell wen;// Nid wy'n byw/ Un amser nac yn

unlle'n gyfan oll:/ Mae darn o hyd ar grwydyr neu ar goll.' Y mae'n

debyg fod darn ohono 'ar goll' oherwydd y canslo a grëir gyda'r

gorgyffwrdd y sonnir amdano yn ei ysgrif, 'Ar Chwâl'. Sonnir yn dyner am fenyw a fu farw yn weddol ifanc yn ei gerdd, 'Cynharwch'¹³⁶, gan fod ei gwyrdd wedi dod i ben 'mewn hydref cynnar' 'cyn dyfod hydref hwyr ei halmanac.' Croes yw'r darlun yn 'Haf 1942'¹³⁷, gan nad oes orgyffwrdd tymhorau. Yn y gerdd hon, y mae 'cwrs y tymhorau o un i un/ yn dod yn ddiwrthdro, er gwaethaf dyn' oherwydd bod 'gogwydd yn echel y Ddaear hon/ Hyd at bedair gradd ar hugain ymron.' Y neges a gyfleir yma yw mai bydysawd mecanyddol, difater sydd yn bodoli yng nghanol erchyllterau yr Ail Ryfel Fyd. Ni wyddys ai cyfeiriad anuniongyrchol at yr hyn a oedd yn digwydd yn Auschwitz ar y pryd a geir yma.

Adlewyrchir y broblem o ddryswch amser a lle mewn sawl man yn ei waith. Y mae henwr a oedd yn cyd-deithio ag ef ar long wedi mynd 'i ddiwedd ei siwrnai cyn pen ei daith'¹³⁸ oherwydd iddo farw; yma defnyddir ffeithiau diriaethol i fynegi dryswch gofod-amser. Yn yr un modd, y mae'r bardd yn 'mynd yn rhywle, heb wybod ym mh'le' ar ei daith yng Ngogledd America¹³⁹. Yn ei gerdd, 'Oerddwr'¹⁴⁰, 'Y mae llwybrau'n arwain i leoedd a fu neu a ddaw.' Yr un darlun sydd ganddo pan yw yn y trê'n ac ar ben beic modur, fel y gwelwyd yn y bennod hon

wrth drafod perthynoledd; nid ef sydd yn symud; yn hytrach, pethau ac amser sydd yn dod i'w gyfarfod ac yn symud oddi wrtho.

Ewyllys Rydd

Gan fod popeth wedi digwydd ar unwaith yn y 'bydysawd bloc', ymddangosai nad oedd ewyllys rydd yn perthyn i unigolyn o gwbl. Treiddia'r sefyllfa dywyll hon yn gyson drwy waith Parry-Williams gan achosi iddo ymddangos fel dyn hollol ddiymadferth yn wyneb y fath hurtrwydd. Er hynny, fe'i gwelir yn ceisio herio tynged a'i rheoli mewn amryfal ffyrdd a graddau oherwydd pob math o amgylchiadau gwahanol. Un modd y gwna hyn yw trwy ei fynych ddefnydd o athrawiaeth y 'rhag ofn' ac ni ellir ond rhestru rhai enghreifftiau o rai o'i weithiau ynglŷn â thynged yn unig yn y fan hon: ' Gwell peidio ag aros yn rhy hir ar ben bwlich, nac ar ben banc, rhag ofn.'¹⁴¹; 'Yn wyneb y gwyrthiau sy'n digwydd weithiau ar y ffin rhwng Bywyd ac Angau nid oedd eu gwaith yn hollol ddi-alw-amdano, rhag ofn – ac y mae deuparth ein gweithgareddau gwerthfawrocaf wrth fyw yn seiliedig ar athrawiaeth y rhag-ofn ...' ¹⁴²; 'Gobeithio na bydd hi'n ddiwrnod ar ôl Ili Awst – rhag ofn.'¹⁴³; 'Antur go fawr a rhyfygus fyddai cydio'n y wifren, ac nid pawb a'i mentrai, rhag ofn i'r letrig ei daro'n gelain.'¹⁴⁴; 'Er bod yr Ystafell

Orffwys yn eich denu, yr ydych yn rhy swil i fynd i mewn iddi, megis rhywun llesg a gwan, a'i ffordd yn faith a phell, rhag ofn i un o'ch cydnabod busneslyd eich "dal" yno.¹⁴⁵; 'Mi stopiais y car rhag ofn fod rhywbeth o le a allai arwain i ddamwain.'¹⁴⁶; 'Ac wrth gwrs y mae ychydig o gatriss ar ôl i ffitio'r tri, rhag ofn i'r hen asgen ailfrydio yn fy mynwes rywdro.'¹⁴⁷; 'Dro arall mi fyddwn yn arswydo rhag ofn i ryw ysbryd annelwig a di-sut ymddangos yn y cerflun byw.'¹⁴⁸; '...ond ni thâl siarad yn anatomyddol fel hyn rhag ofn i lwnc rhywun godi.'¹⁴⁹ Mynnai adio ffigyrau bob ffordd rhag ofn na fyddai'r cyfanswm yr un.¹⁵⁰ Yn 'Darnau', awgryma iddo herio'r disgwylidig un tro wrth fod yn ddiotal â phaen mawr o wydr:

Gyda llaw, cof gennyf fod yn cyrchu paen o wydr ffenestr go fawr ryw dro, ac wrth geisio bod yn ofalus arbennig rhag ei dorri wrth ei gario, yn teimlo awydd cryf i fentro ymgellwair yn ddiotal ag ef, ac wedyn wanc anorchfygol bron yn f'annos i ollwng y gwydr a'i dorri, fel petawn yng ngafael rhyw reidrwydd gorthrechol. Yr oedd straen y gorofal wedi mynd yn drech na mi, a rhyw sbring ynof fel petai wedi colli ei afael ac yn ymgywasgu i eithaf ei ddirwasgiad, wedi bod ar ddirdyn yn rhy hir, a'r gorofal ystyriol wedi troi, yn ddisymwth hollol, yn ddiotalwch anystyriol. Fe wŷr pawb am y profiad hwn, effaith gorymdrech a gorofal.¹⁵¹

Bu tynged dyn yn bwnc trafod ers canrifoedd maith. Yn ôl diwinyddiaeth Gristnogol, y mae Duw wedi penderfynu pob digwyddiad o flaen llaw, gan gynnwys iachawdwriaeth neu ddamnedigaeth yr enaid. Wrth drafod pethau yn digwydd cyn iddynt gyrraedd yn ôl y 'drefn', dywed Parry-Williams: 'Fel hyn y ceid esboniad petai gofyn, ar "etholedigaeth", heb anwybyddu'r peth a'i alw'n "dyngedfeniaeth".'¹⁵² Ond y mae Calfiniaeth yn dal bod gan unigolyn ewyllys rydd yn ystod ei oes er bod ei gyflwr terfynol wedi ei bennu yn barod; fe dderbynia iachawdwriaeth drwy rodd Duw.

Gwelwyd na roddai bydysawd mecanistig, mathemategol Newton le i ewyllys rydd yr unigolyn o gwbl oherwydd i'w fydysawd clocwaith ymgorffori deddf achos ac effaith. Yr oedd yr athronydd, Thomas Hobbes (1588-1679), a gydoesai â Newton, yn faterolwr pybyr oherwydd dylanwad gwyddoniaeth benderfynedig ei oes, ac adeiladodd fodel llwyr fecanistig o'r bydysawd ar sail meintoniaeth Euclid.

Mecanistaidd oedd symudiad popeth gan gynnwys y corff dynol, gyda chymorth 'ymdrech' fel rheswm am fân symudiadau gwahanol. Gallai esbonio'r ffordd y gweithiai'r meddwl ac esbonio'r emosiynau yn nhermau symudiadau'r gwaed i'r galon ac oddi wrthi. Er ei ddaliadau

ynglŷn â phenderfyneg fateryddol, credai y byddai unigolyn yn rhydd pe byddai ei weithred yn dilyn o'i ewyllys; dim ond gwneud yr hyn a fynnai a oedd yn rhaid iddo er mwyn bod yn rhydd. Yr oedd yr amheuwyr, David Hume (1711–1776), yn argyhoeddedig na ellid dangos bod achos i bopeth nac ychwaith ddangos bod achos arbennig i ddigwyddiad neilltuol. Yn ei dyb ef, pobl sydd yn cymryd yn ganiataol bod cysylltiad rhwng pethau oherwydd iddynt arfer sylwi ar hynny. Yn gyffredinol, golyga penderfyneg fod ffawd yr unigolyn wedi ei seilio unwaith ac am byth ac na ellid newid y gorffennol gan fod pob digwyddiad yn y byd yn effaith digwyddiad blaenorol, neu ryw ddeddf natur wyddonol. Ni allasai'r presennol fod yn wahanol o gwbl i'r hyn ydyw. Chwedl y bardd a'r dramodydd, Christopher Marlowe (1564 – 1593):

It lies not in our power to love, or hate,
For will in us is over-rul'd by fate.

Hero and Leander 1

Dyma farn Parry-Williams am y sefyllfa yn ei ysgrif, 'Y Drefn':

Nid yw 'penderfyneg' na 'phatrwm digwyddiadau' na llawer eraill o dermau-ffansi'r meddylwyr modern dwfn a dyfnddysg yn curo'r hen ymadrodd 'y Drefn' am yr hyn sy'n ein gyrru ni a phopeth arall o bant i bentan trwy'r byd hwn a phob byd arall. Ym myd dynoliaeth, dyna a barodd i'n hynafiaid symud a sefyll, dioddef a mwynhau, caru a

chasáu, cael eu geni a marw, a'n bod ninnau hefyd i wneud yr un pethau. Gwell gan rai, efallai, sôn am Ffawd a Thynged a Hap-a-digwydd, a chan eraill ddoethinebu'n ysgafnfryd ac ymroddedig trwy ddweud, 'Fe ddaw rhywbeth ar ôl hyn. Os na ddaw tatws, fe ddaw chwyn.' Fel yna y mae hi i fod, medd pawb. Y mae'r Drefn yn rheswm ac yn esgus dros bopeth, er gwaethaf yr hyn a elwir yn ewyllys rydd. Nid oes dim dianc rhagddi: y mae hi wedi rhaglunio'r cyfan. Ac er bod cryn amau heddiw ar athrawiaeth achos-ac-effaith, am na wyddom beth yw amser a lle (ac nid yw eu gwneud yn un, a siarad am ofod-amser yn symleiddio'r broblem), y mae hi'n gwneud y tro. A phethau bach iawn sy'n 'achosion' (neu, i fod yn wanach, yn achlysuron) weithiau. Dywedir y byddai hanes y byd hwn yn wahanol iawn petasai trwyn Cleopatra, brenhines hudolus yr Aifft gynt, chwarter modfedd yn fyrrach. Ond wedyn, ni buasai trwyn Cleopatra fel yr oedd, y mae'n debyg, oni bai bod rhyw achos neu achlysur yn rhywle ... Y mae'r achosion uniongyrchol i rai trobwyntiau mawr mewn bywyd yn ddigon eglur weithiau ... Os digwydd i amgylchiad argyfyngol droi o'n plaid ni, fe alwn yr achos yn rhagluniaeth, a'r canlyniad ffafriol (i ni) yn rhagluniaethol ... Ond dro arall y mae'r achosion yn gudd ac anamlwg, yn enwedig pan fo pethau'n digwydd nid oherwydd amgylchiadau amlwg, fel y gellid tybio, ond oherwydd siawns, neu, efallai, fympwy yn y pen. (Ond wedyn, beth yw siawns a mympwy? Er eu bod yn swnio fel pethau y tu allan i sistem achos-ac-effaith, hawdd coelio nad felly y maent, ond i ni drafferthu i geisio olrhain eu tarddiad.)¹⁵³

Efallai ei fod yn cyfeirio at epiffenomeniaeth ar ddiwedd y darn, sef bod cyflwr meddyliol yn is-gynnyrch gweithgareddau'r ymennydd, hynny yw, ei fod yn gweithio drwy ddeddfau mecanyddol.

Dehongla effaith y Drefn ar ei fywyd, Trefn a oedd yn gweithio'n

'dyngedfennol' drwy weithrediad penderfyneg, pan wrthododd ei dad

swydd fel prifathro ysgol fawr:

Ni buaswn wedi mynd ymhell oddi cartref i'r ysgol, na than orthrech hiraeth wedi dechrau synfyfyrion a brydio yn rhy gynnar o lawer.¹⁵⁴

I gloi'r ysgrif, cyfeddyf nad oes ganddo ddim gwell i'w ddweud na 'Trefn ydyw hi' ar ôl yr holl fyfyrion a darllen a dadlau am 'gweryl y bydysawd'.

Brithir ei weithiau gan wahanol sylwadau am dynged ac ewyllys rydd.

Dyma rai enghreifftiau: wrth drafod Ann Griffiths, y mae'n cael ei yrru,

yn erbyn ei ewyllys bron, i ofyn a oes gormod o sylw yn cael ei roi i'r

emynyddes¹⁵⁵; y mae tipïadau cloc yn peri iddo wneud llawer peth yn

erbyn ei ewyllys oherwydd ei ysfa gyfrif¹⁵⁶; yr oedd yr allt yn ei dynnu

yn erbyn ei ewyllys pan aeth oddi cartref am y tro cyntaf i ysgol

newydd¹⁵⁷; y mae'n cael ei dynnu tuag at y ddaear a'i gofleidio ganddi

yn erbyn ei ewyllys¹⁵⁸; achoswyd ei fys clec ar adeg dyngedfennol gan

ogwyddo cwrs ei fywyd pan oedd ar fin mynd i ysgol newydd.

Newidiodd yr anaf ef yn gorfforol ac yn ysbrydol a hebdo, buasai cwrs

ei fywyd yn wahanol¹⁵⁹; hap a damwain yw'r ffaith ei fod yn byw yng

Nghymru¹⁶⁰; pennwyd ei natur gynhenid ddianwadal gan dynged, hynny

yw, gan natur ei rieni.¹⁶¹; y mae rhyw dynghedfen dywyll wedi rhoi sŵn di-sôn lli afon Gwyrfaï yn llais iddo¹⁶²; disgrifia benderfynege (achos ac effaith) yn dra effeithiol wrth ddarlunio cwrs y garreg a bowliodd i lawr o gopa'r Wyddfa, ynghyd â ffawd mân gerrig eraill, gan ddatgan mai ef oedd y garreg. Gwelir bod yma gyfeiriad at ddisgyrchiant hefyd.¹⁶³; tybia y gallasai atomau mewn darn o fetel a aeth i mewn i'w addwrn, ynghyd â grym disgyrchiannol o'r lled-sêr, fod wedi effeithio ar ei bersonoliaeth ac ar gwrs ei fywyd gan mai gronynnau atomau sydd, yn y pen-draw, yn rheoli'r holl fydysawd; y maent wedi bod yn chwarae mig â chynneddfau dyn 'o'r cynoesoedd anfeidrol bell.'¹⁶⁴. A oes awgrym o'r 'byd mawr' a'r 'byd bychan' yma, tybed?

Yn hyn o beth, gellir cymharu'r amheuaeth a deimla ynglŷn â dewisiadau bywyd unigolyn – ai'r unigolyn ei hun ynteu rhywbeth arall, rhyw bŵer na all wrtho, sydd yn dewis?¹⁶⁵. Yn 'Y Tri Llyn: 1 – Llyn y Dywarchen', gobeithia 'os bydd ffawd o'm tu', y bydd yn gweld y Tylwyth Teg¹⁶⁶; yn 'JC3636'¹⁶⁷, y mae am i Ragluniaeth roi taith iddo ef a'r modur eto; yr oedd tynged wedi gollwng ei dad yn Rhyd-ddu ¹⁶⁸. Gan gyffelybu Jane, un o deulu'r Ffatri, â'r Feinir o Sialot yng ngherdd Tennyson, esbonia Parry-Williams fod tynged wedi ei thyngu arni ¹⁶⁹; yr oedd 'rhyw dynged

anhrugarog' wedi achosi problem i chwarelwr oherwydd ymddangosiad annisgwyl y stiwart¹⁷⁰. Ar lefel ysgafnach, y mae'n trin a thrafod tynged pethau yn hytrach na phobl: dywed fod elfen dyngedfennol mewn carreg, crac neu bren a thynghedfen ddiwrthdro gan grac mewn llestr¹⁷¹; y mae rhai pethau wedi eu tynghedu i fod ar eu hanner¹⁷²; y mae haearn rheiliau lein y rheilffordd wedi ei dynghedu i newid ei le a'i bwrpas.¹⁷³ Dywed i ryw saer coed ddifetha ei waith llaw weithiau oherwydd iddo roi 'slap fawr olaf, dyngedfennol' iddo.¹⁷⁴ Yn 'Ogo Pogo'¹⁷⁵, cymherir tynged ei aderyn dychmygol â thynged dyn parthed diffyg cyfeiriad mewn bywyd ac awgryma nad oes ateb i'r broblem ar gyfer yr aderyn na Dyn am fod rhyw arfaeth wedi pennu hynny'n ddiwrthdro. Dywed i Robert Williams Parry ymdeimlo i'r byw â dyn a'i dynged, a byd a bywyd¹⁷⁶ ac y mae hyn yn sicr yn hollol wir am y bardd a'r llenor o Ryd-ddu hefyd. Darfodedigo yw tynged dyn a deunydd, fel y dywed yn 'Gynau Duon'.¹⁷⁷ Disgrifia farwolaeth fel 'awr dyngedfennol y croesi crynedig'¹⁷⁸ a darlunia'r ymdeimlad gorchfygol o ddiddymdra a darfodedigrwydd pethau sydd yn natur rhai pobl, gan gyfeirio at farwolaeth¹⁷⁹. Y mae marwolaeth yn 'setlo tynged dyn yn ddieithriad' ac nid oes diben hel dail yn wyneb Angau ei hun.¹⁸⁰

O sylwi ar y drafodaeth uchod, ni ellir llai na phenderfynu bod tynged yn chwarae rhan hanfodol, annealladwy ym mywyd dyn a bod yr hyn a ystyrir yn ewyllys rydd, efallai, yn rhan o fydysawd clocwaith Newton, oherwydd gweithgareddau mecanyddol yn yr ymennydd, fel yr awgryma Parry-Williams yn 'Y Drefn'.¹⁸¹ Ymdeimlir â'i argyhoeddiad iddo gael ei roi ar y byd di-fater hwn drwy hap a damwain. Felly, ceir darlun o fardd a llenor tra sensitif a rhwystredig a freuddwydiai y gallasai pethau fod yn wahanol. Yn 'Y Naill a'r Llall', gofynna a oedd y gweledydd 'wedi ei lethu'n llwyr gan hunllef drom gofid y byd ac oferedd dybryd ymgais dyn?'¹⁸² Gallai hyn fod yn ddisgrifiad digon addas ar gyfer Parry-Williams, hefyd, yn ôl pob golwg.

Ond y mae un darn cryf o'i eiddo sydd yn datgan y gellir codi uwchlaw tynged. Wrth drafod ei ysfa o gyfrif a chyfrif yn ofalus, meddylia y gallai rheswm y dyn ifanc o gyfrif neu gyffwrdd yn *Lavengro* George Borrow, sef ystryw i rwystro anffawd ac i droi cwrs tynged, fod yn gywir mewn rhai achosion, ond nid bob amser. Disgrifia Parry-Williams ei hun fel hyn, yn y trydydd person, gan ddatgan yn ddigamsyniol nad oes diben brwydro yn erbyn ffawd:

... ond ni faliai ronyn yn nhroeon Ffawd a Thynged. Yr oedd Tynged yn anorfod, ac nid oedd wiw gwingo. Dyna'r rheswm paham na allaf goelio mai i ddyrysu bwriadau tynged y dechreuodd ef ymroddi i'r ysfa. Eto credai y gallai dyn godi uwchlaw Tynged a bod yn Goncweriwr er gwaethaf Ffawd ddiwrthdro. Dyfynnai'n aml eiriau'r Athro Anwyl mewn anerchiad i fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin ar '*The Significance of Religion*':-'No one can produce a lasting effect upon the world if he be merely human. That which ever commands the admiration of humanity is the power given to some, of rising far above human weakness, and of following with stern resolution the dictates of principle and conscience, of giving expression in their lives to ends which look far beyond their personal selves.'
Na, nid un tila mohono.¹⁸³

Efallai fod y darn uchod yn cyfeirio at sefyllfa Parry-Williams fel gwrthwynebydd cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf pan ddaeth gorfodaeth filwrol i rym, gan i'r ysgrif gael ei chyhoeddi yn ystod haf 1916. Gwelwyd awgrym, eisoes, na chytunai ei fam â'i safbwynt pasiffistaidd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 'Llyfr Melyn Oerddwr', a gofnodai hanes a sylwadau teulu'r fferm, Oerddwr, yn Aberglaslyn, sef cartref 'Anti Betsi' Parry-Williams, un o fynych gyfraniadau'r bardd ar ei ymweliadau â'r lle yn ystod haf 1916 yw'r gerdd ganlynol; sylwer mai'r fam ddelfrydol yw'r datganwr:

Y Milwr Gorfod

(Cwyn y fam i'r plentyn a aned newydd basio'r Mesur Gorfod, 1916)

Gwae di pan dorrwyd
Y llwyn bach main
Y'th porthwyd di drwyddo
Cyn dyfod yn Gain.

Gwae'r chwant a gwae'r cariad
A'th greodd erioed;
Cain fyddi di yn bedair
Ar bymtheng mlwydd oed.

Ni wyddwn, ni choeliwn
Mai Cain fyddit ti,
Pan deimlwm di'n chwyddo
Fy mronnau balch i.

Gwae di pan gyrhaeddych
Awr anterth dy rawd,
Fe'th eilw gwladgarwch
I saethu dy frawd.

Gwae finnau na fentrwn
Roi planc ar dy grud
A'th gladdu di ynddo
Mewn bedd cyn dy bryd.

Hyn yw fy ngwallgofrwydd, –
Can's ni byddaf i
Yn fam nac yn famaeth
I lofrudd fel ti.¹⁸⁴

Entropi

Cyflwynwyd y gred mai llinellol oedd amser gan yr Iddewon ac yn ddiweddarach gan Gristnogion gan fod arfaeth Duw yn datblygu o'r gorffennol i'r dyfodol – o'r Creu hyd at farwolaeth a'r atgyfodiad, neu,

chwedl Parry–Williams, rhwng pechod ac angau.¹⁸⁵ Dadfeilio yw hanes popeth yn y bydysawd. Yn ôl y bardd, y mae amser, er nad yw'n ddim, yn 'gallu gwneud difrod a llanastr a gwae' ac y mae pawb yn ei dro yn dirywio a darfod a mynd o go.¹⁸⁶ Portreadir y drindod anegni fel difrod, llanastr a gwae. Y mae'n debyg mai cyfeiriad at 'yr hen gyfaill entropi'¹⁸⁷ sydd yma, sef y gred fod egni'r bydysawd yn lleihau. Ystyr gywir entropi yw'r raddfa o anhrefn mewn system. Darlunia'r bardd bryder ffisegwyr yr oes: 'Clywsom ddywedyd gan ffisegwyr diweddar fod y bydysawd i gyd yn "rhedeg i lawr" fel cloc ac eisiau ei weindio arno neu fatri trydan ac angen ei ailsiorsio arno.'¹⁸⁸ Ymddengys fod amser yn rhan o ddeddfau natur a bod pethau byw yn heneiddio ac yn marw, a phethau dianian yn rhydu, yn torri neu'n dadfeilio yn gyffredinol. Y mae saeth amser yn dangos cyfeiriad amser oherwydd bod anhrefn yn dilyn trefn; y mae entropi'n cynyddu fel yr â amser yn ei flaen.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gweithiwyd allan ddeddfau thermodynameg gan William Thomson (1824–1907). Tra dywed Deddf Gyntaf Thermodynameg na ellir creu na dinistrio egni, dengys Ail Ddeddf Thermodynameg fod pob system gaeëdig yn arwain at gyflwr o lanestr neu anhrefn lwyr ac na all entropi fyth leihau. Ymddengys fod y

bydysawd cyfan yn llithro tuag at yr anhrefn eithaf. Yn ychwanegol, sylweddolwyd bod yr haul yn llosgi ei ynni niwclear, ac y byddai, yn y pen draw, yn rhedeg allan o ynni ac yn gorffen disgleirio. Ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, creodd hyn ofid mawr oherwydd i'r ffaith ddadbrofi'r cysyniad o fydsawd clocwaith Newton a fyddai'n parhau am byth, a'r gred oedd bod y byd yn araf farw. Pan fyddai'r sêr yn colli eu gwres oherwydd entropi, a'r tymheredd yr un fath ym mhobman, byddai'r bydysawd yn y cyflwr eithaf o entropi ar ddiwedd amser. Tybed ai hyn sydd gan Parry-Williams o dan sylw yn ei gerdd, 'Haul a Lloer'?¹⁸⁹

Awgryma'r bardd ddechreuad y byd pan gafodd y planedau eu creu o'r haul, a'r amser pan fydd pawb yn cartrefu ar y lleuad. Ar y llaw arall, efallai mai'r ymgyrch i archwilio'r gofod mewn roced yw'r sylwadau. Yn ôl Eirwen Gwynn,¹⁹⁰ yr oedd cryn ymchwilio i natur y gofod ers dechrau'r ugeinfed ganrif yn Rwsia ac America. Yn 1919, cyhoeddodd Robert H. Goddard, gwyddonydd ifanc Americanaidd, lyfryn, *A Method of Reaching Extreme Altitudes*. Ei awgrym mwyaf poblogaidd ar y pryd oedd y dylid anfon roced fach yn cludo magnesiwm i daro'r lleuad. Ond ni ffurfiwyd Cymdeithas Gydblanedol ym Mhrydain tan 1933, sef dwy flynedd cyn cyhoeddi cerdd Parry-Williams:

'Gwrandewch y gwir,' meddai'r ynfyd call.
'Dwy belen sydd yn yr wybren ddall.
Byw ydyw'r naill, a marw yw'r llall.

'O'r naill y cyfododd pob cryf a gwan.
Yn y llall y cartrefa yn y man
Bob dwbl ddoeth a phob hanner pan.'¹⁹¹

Ychwanega canlyniadau entropi yn aruthrol at besimistiaeth Parry-

Williams, gan iddo ddatgan yn ddigamsyniol:

'Yn wir, yn wir, byrdwn beirdd mawr a baich gweledyddion
ysbrydoledig yr oesoedd yw'r darfodedigrwydd hwn sy'n
perthyn i ddur ac esgyrn, i ledr a chnawd, ac i bren a gïau.
Prin fod unrhyw weledigaeth arall bendant, gyffredinol,
wirioneddol ar y ddaear hon.'¹⁹²

Nid yw'n ymatal rhag tynnu sylw ei ddarllenwyr at y sefyllfa. Dyma rai
enghreiffiau: y mae polion wedi pydru¹⁹³; y mae ei gar yn dadfeilio gan
fod 'dirwyiad sistemol drwodd-a-thro', y mae dur yn blino ac yn
rhydu¹⁹⁴; 'byr barhad sydd i bopeth newydd-sbon'¹⁹⁵; sonia am
ddarfodedigaeth Cymru a Chymraeg ac aroglau marweidd-dra a
marwolaeth¹⁹⁶; trafoda ddiddymdra a darfodedigrwydd pethau¹⁹⁷; sonia
am y darfodedigo sydd yn dynged dyn a deunydd¹⁹⁸; daw ias o'r hen
ymdeimlad plagus o ddarfodedigrwydd dros y galon¹⁹⁹. Chwedl Parry-
Williams, yr unig beth nad yw'n darfod yw darfodedigrwydd.²⁰⁰

Damcaniaeth Gyffredinol Perthynoledd Einstein (1915)

Yn 1911, penderfynodd Einstein ailystyried effaith disgyrchiant ar oleuni ac amser a'r flwyddyn ganlynol, darganfu nad oedd disgyrchiant yn achosi camystum amser; camystum amser oedd disgyrchiant ac yr oedd yn rhaid bod amser a gofod wedi eu camystumio. Nid oedd maes disgyrchiant yn faes grym o gwbl, ond yn hytrach, rymedd yng ngeometreg gofod-amser. Y mae darn o fater yn y gofod yn creu tolc yng ngofod-amser. Tybed ai trosiad o'r syniad hwn sydd gan Parry-Williams yn ei gerdd, 'Dychwelyd'²⁰¹, pan ddywed nad yw ein byw 'Yn ddim ond crych dros dro neu gysgod craith/ Ar lyfnder esmwyth y mudandod mwyn,?' Cadarnhawyd damcaniaeth Einstein yn 1919 pan welwyd bod goleuni sêr yn cael ei blygu gan ddisgyrchiant yr haul yn ystod diffyg cyflawn ar yr haul. Os oedd syniadau newydd am amser a gofod wedi peri poen a thrafferth i Parry-Williams ynghynt, yr oedd ganddo broblem newydd i ymdopi â hi yn awr: 'Gwae ni ein doddi ar dipyn byd/ Ynghrog mewn ehangder sy'n gam i gyd,' ...²⁰². Hefyd, y mae camystum gofod-amser yn newid symudiadau'r pethau sydd ynddo; fel y dywed y bardd: 'A'n gosod i gerdded ar lwybrau nad yw/ Yn bosib eu cerdded – a cheisio byw;²⁰³. Cyfeiria Parry-Williams at y pwnc

gwyddonol hwn yn ei ysgrif, 'Mr. Tompkins a Minnau'.²⁰⁴ Wele ddarlun

o'r dryswch mewn stori fer gan lenor arall o Gymro:

'Beth yw'r *relativity* yma y sonnir cymaint amdano?'

meddwn, er mwyn troi ei sylw.

'*Relativity?*' A deffrôdd fel hen filwr wrth glywed

ymdeithgan y band. 'Y cwbl a olygir yw bod pob un yn gweld y gwir drwy'i sbectol ei hun, a sbectol pob un ychydig yn wahanol i un pawb arall.'

'Na, na,' meddwn; cyfeirio yr wyf at amcandyb Einstein.'

'O,' ebr yntau, 'nid agorais lyfr ar ôl y miri hwnnw yn Ysgotland heblaw'r llyfr sy'n cadw fy mhlu pysgota. Gwelais ysgrif neu ddwy arno yn y *Times*, a chyn belled ag y gwelaf, enghraifft arall yw Einstein o'r llyffant blwydd yn lladd y dwyflwydd. I bob golwg, yn ôl Einstein nid oes na gofod nac amser; y mae'r diweddar Euclid yn cyfeiliorni wrth sôn am linell berffaith unionsyth am fod y ddaear yn camu popeth; a Newton yn dallgeibio ynglŷn â deddf disgyrchiant: nid yr afal sy'n disgyn, ond y ddaear yn codi i'w daro.'

'Wel, a ydych chi'n credu hynny?'

Gwenodd. 'Gwn i'r ddaear fy nghamu i, ac nid unwaith chwaith y credais iddi godi nes taro fy nhalcen.'²⁰⁵

Gwamalrwydd yw'r gosodiad olaf, wrth gwrs. Ond ai disgyrchiant sydd

yn chwarae triciau â meddwl Parry-Williams, tybed, pan ddywed ei fod

yn cael yr 'ymdeimlad bod yn un â'r ddaear neu'n rhan o symud anferth

y bydysawd' wrth orwedd ar ben bwlch neu ambell fanc uchel rhwng dau

ddyffryn?²⁰⁶

Y Bydysawd Ymledol

Yn 1929, cafwyd darganfyddiad chwyldroadol arall a fyddai'n pentyrru gofidion ar ben Parry-Williams. Datganodd y seryddwr, Edwin Hubble, fod y bydysawd yn ymledu. Y gred ar y pryd oedd fod y bydysawd yn statig, gyda'r Llwybr Llaethog yn ganolbwynt iddo a'r nifylau yn israddol iddo. Ond yn 1924, amcangyfrifodd Hubble y pellter at nifylau Andromeda, sef miliwn o flynyddoedd-goleuni. Yn sgîl hyn, sylweddolwyd bod Andromeda y tu allan i'r Llwybr Llaethog a'i bod yn alaeth annibynnol. Yn 1912, gan ddefnyddio effaith Doppler, canfuasid bod Andromeda yn symud tuag at y ddaear ar gyflymder o dri chan cilomedr yr eiliad ac yn 1917, gwelwyd bod mwy o nifylau yn rhuthro oddi wrth y ddaear. Yn y man, darganfuwyd bod y nifylau pellaf oddi wrth y ddaear yn symud yn gyflymach oddi wrth y ddaear – yr oedd galaethau a oedd ddwywaith y pellter oddi wrth y ddaear yn symud i ffwrdd ddwywaith mor gyflym. Symudai galaethau oddi wrth ei gilydd yn ogystal â symud oddi wrth y Llwybr Llaethog. Yn bwysig iawn, canfuwyd nad oedd canolbwynt gwasgariad i'r galaethau ac felly, ni ellid datgan mai'r Llwybr Llaethog oedd canol y bydysawd. Yr oedd yn amlwg fod y bydysawd yn ymledu ar raddfa eithriadol o eang. A fyddai yn ehangu am byth ynteu a fyddai yna drobwynt pan ddechreuai grebachu

yn ôl i ddim? Y mae hyn oll yn cyflwyno Damcaniaeth y Glec Fawr gan i wyddonwyr synied fod dechreuad i'r bydysawd ac i amser rywdro yn y gorffennol anferthol bell, ond ni ddaethpwyd i'r canlyniad hwn tan flynyddoedd ar ôl y darganfyddiadau uchod. Os yw damcaniaeth Hubble yn wir (damcaniaeth ystadegol oedd y ffaith fod galaethau yn y pellter yn symud ddwywaith mor gyflym), ni fydd telesgop, fel yr un a ddefnyddiwyd yn Arsyllfa Mount Wilson, Califfornia ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn ddigon cryf yn y dyfodol i weld dim, er bod gwelliant wedi bod ym maint gwydrau telesgop ers yr un cyntaf. Ni fydd gan y ddynoliaeth gymydog yn y golwg, dim ond dŵch llwyr.

Y mae'n hawdd synied pa mor ddigalon y teimlai Parry-Williams ynglŷn â'r darganfyddiad hwn, a ddengys bychander dyn yn nhrefn natur. Fel y dywed yn ei ysgrif, '*Telegraph Poles*': 'In spite of his conceit, man everywhere appears to be merely a "speck of cosmic dust" intent on his own concerns . . . '207

Mater

Bu dyfalu ynglŷn â chyfansoddiad gwaelodol y bydysawd ers canrifoedd maith. Yr oedd syniadau'r hen Roegwyr yn amrywio'n fawr. Yn ôl Thales, dŵr ydoedd a chredai Empedocles i'r bydysawd gael ei

gyfansoddi o'r pedair elfen, sef daear, awyr, dŵr a thân. Yn

ddiweddarach, ychwanegodd Aristoteles yr ether at y rhain.

Damcaniaeth Leicippus oedd mai un math o fater yn unig a fodolai ac y

gellid ei dorri nes cyrraedd darn na ellid ei dorri ymhellach. Datblygodd

Democritus y ddamcaniaeth fod atomau'n bodoli ac unodd hyn â

damcaniaeth yr elfennau. Yn groes i ddaliadau ei ddydd, ni chredai fod

duwiau'n rheoli'r bydysawd oherwydd tybiai fod atomau'n symud o

gwmpas ar hap.

Parhaodd y syniadau hyn am gyfansoddiad mater a'r ffordd yr oedd yn

ymddwyn am ganrifoedd tan y chwyldro gwyddonol yn yr unfed ganrif ar

bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg pan ymchwiliwyd mwy i fater drwy

ddefnyddio meicrosgop a thelesgop. Cyn yr ail ganrif ar bymtheg, bu

alcemyddion yn ceisio newid metelau cyffredin i rai gwerthfawr, fel arian

ac aur. Yn ychwanegol, yr oeddent wedi bod yn ceisio chwilio am elicsir

bywyd er mwyn darganfod cyfrinach anfarwoldeb. Darganfuwyd y rhan

fwyaf o'r elfennau yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar

bymtheg a rhoddwyd trefn arnynt gan Dmitri Mendeleev yn 1869 drwy

eu gosod mewn tabl elfennau. Yr oedd John Dalton wedi cynnig bod

gan bob elfen ei hatom ei hun pan gyhoeddodd ei ddamcaniaeth am

atomau yn 1808 ond ni ellid torri'r atomau i fyny. Erbyn heddiw y mae tua chant o elfennau gwananol ond tri deg chwech a oedd ganddo ef ar y pryd. Gall atomau fodoli'n annibynnol ond weithiau ffurfiant grwpiau a elwir moleciwlau a chynhwysa rhai ohonynt filoedd o atomau. Hyd at flynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, credai gwyddonwyr fod rhyw 'egwyddor fywydol' yn rheoli mater byw ond rhoddwyd y syniad hwn o'r neilltu pan ddechreuodd gwyddonwyr esbonio rhan prosesau cemegol oddi mewn i greaduriaid byw. Yn y 1860au, darganfu Louis Pasteur (1822–95), mai o organeddau a fodolai eisoes yn unig y cyfyd bywyd. Erbyn 1900, darganfuwyd ymbelydredd, sef pelydriadau anweledig a ollyngid gan rai atomau. Y pelydriadau oedd alpha, beta, neu gamma.²⁰⁸

Damcaniaeth Cwantwm

Yn 1897, darganfu J. J. Thomson ronynnau a oedd yn llai nag atomau mewn pelydrau cathod (*cathode rays*). Daethant i'w hadnabod fel electronau ac yr oedd ganddynt drydaniad negyddol. Hefyd, darganfu Ernest Rutherford fod y trydaniad positif wedi ei leoli mewn niwclews bach, gan bortreadu'r atom fel Cyfundrefn yr Haul gyda'r haul yn niwclews a'r electronau'n blanedau. Ond ni ddeallwyd paham nad oedd

yr electronau'n troelli tuag at y nucleus. Daeth yr ateb pan ddywedodd Niels Bohr (1885–1962) mai dim ond hyn a hyn o egni a ganiateid i electronau. Darganfu mai'r electronau gyda'r egni isaf a ganiateid oedd yn cylchdroi nesaf at y niwclews, a'r electronau gyda'r egni uchaf a ganiateid oedd yn cylchdroi bellaf i ffwrdd. Esboniodd Niels Bohr y cysylltiad rhwng mater a goleuni yn 1913. Dywedodd fod electronau'n gollwng neu'n amsugno 'pacedi' o belydriadau ar ffurf goleuni pan font yn symud o un lefel egni i un arall. Gelwir y pacedi goleuni hyn yn ffotonau, neu 'cwanta'. Gall electron neidio i lefel uwch drwy amsugno egni. Gall hyn ddigwydd ar dymereddau uchel neu pan fo'r ffotonau gyda digon o egni yn taro'r atom. Os oes bwch mewn lefel is, gall electron ddisgyn i'r lefel honno, gan roi allan egni ar ffurf ymbelydredd. Yn 1919, profodd Ernest Rutherford fodolaeth protonau, sef gronynnau gwefredig (*positively charged particles*) oddi mewn i'r niwclews, ac yn 1932, darganfu James Chadwick (1891–1974) ronyn arall yn y niwclews, sef y niwtron a oedd yn ronyn di-wefr (*uncharged particle*). Y mae gan bob niwclews brotonau a niwtronau.

Disodlwyd bydysawd clocwaith Newton gan Ddamcaniaeth Cwantwm; yn lle sicrwydd, daeth amheuaeth yn ei sgîl, ond tipyn o obaith, er

hynny. Digwyddodd y chwyldro rhwng 1900 a 1930. Y mae byd cwantwm yn un o hap a damwain gan fod deddfau tebygolrwydd yn golygu anhrefn yn natur. Y mae mater ac egni yn ymddwyn mewn ffordd anrhagweladwy. Ac y mae amser a gofod, fel mater, yn dibynnu ar hap a damwain. Darganfuwyd ar droad yr ugeinfed ganrif nad yw atomau'n soled ac arweiniodd hyn at ddadansoddiad manylach o'r atom nes iddo ymddangos yn ddim. Darganfu Clinton Joseph Davisson batrymau rhyfedd ar ddechrau'r 1920au pan oedd yn gwneud arbrofion, ac yn y man, sylweddolodd fod miloedd o wahanol electronau'n teithio o A i B gan ddilyn miloedd o wahanol lwybrau. Y mae Damcaniaeth Cwantwm yn gallu gweithio allan y tebygolrwydd perthynol ynglŷn â'r llwybrau a gymer electron neu atom ond y mae stad o egni isaf yn bodoli o dan yr hwn nad oes tebygolrwydd o ddarganfod pa le y mae electron. Disgrifia Parry-Williams y sefyllfa hon yn 'Darnau':

Ac erbyn cofio, yn hyrddiau, o bosibl, y gweithreda pob egni ym man pellaf ei ddadansoddiad a dyfnaf ei hanfod; bob yn hwb, o fesur dogn, fel y ceisir profi trwy'r ddamcaniaeth *quantum* ... Ac o'r ochr arall, o ddarnio darn yn fanach fanach o hyd i'r pen eithaf, ni cheid dim darn sylweddol yn aros, – dim ond dim (neu lòg o ddim byd, fel y dywedem ni blant gynt yn gellweirus, ond yn gywirach nag y tybiem), neu, yn hytrach, ddim ond darn o egni. Ac

yn ôl y ddamcaniaeth, yn ddarnau neu'n ddogneau y bodola egni. Nid yw'r peth ei hun yn bod yn gyflawnder crynswth.

Rhyw hwb-cam-a-naid ydyw ein byw, felly, yn y bôn isaf, a dyna ydyw yn yr agwedd frasach arno, o ran hynny.

Hyrddiau unigol dros dro a bylchau wedyn ydyw gobaith a phryder a phob rhyw ddwysdeimlad, – cyffro a seibiant, cynnwrf a gosteg, terfysg a thawelwch.²⁰⁹

Adlewyrchir yr ymdeimlad o ddiddymdra ganddo yn 'Y Tu Mewn':

Y mae rhyw du mewn i bob tu mewn, fel y mae tu hwnt i bob tu hwnt. Ni ddeuir byth i ben â hi: ni threiddir byth i gysegr sancteiddiolaf y cread, yn ddyn na byd, ag offer y synhwyrâu sydd gennym, beth bynnag; oherwydd yr unig ateb y gall y rhai hynny ei roddi, os am roddi ateb a ddeil, ydyw nad oes yno ond dim – peth sy'n fwy annirnad na'r dirgelion oll. Cam ymhellach i mewn i'r diddymdra hwn ydyw canlyniad pob ymchwil. Seithug i gyd.²¹⁰

Y mae'n syndod cymaint o weithiau yr ymddengys y gair 'llonydd' yng

ngweithiau'r bardd. At hynny, y mae fel petai'n cysylltu egni (neu'r

hyrddiau unigol yn Namcaniaeth Cwantwm) â byw neu symyd:

Mynd a dod. Ac mi gofiais yn naturiol am enghreifftiau adnabyddus o ddefnyddio'r ymadrodd, 'Mynd a dod yw rhod a rhan yr einioes', a rhai tebyg. Fe fu bron i mi ymsynnu'n athronyddol ynghylch mynd-a-dodrwydd bywyd yr unigolyn dynol, a dwyn ar gof i mi fy hun mai rhywbeth i'n cadw ni'n symud yw hyn, a'n bod ni'n 'byw' os byddwn ni'n symud yn ôl ac ymlaen neu ymlaen ac yn ôl, gan mai gallu symud yn ddigymell rywffordd neu'i gilydd yw hanfod byw.²¹¹

Fel y dywed Paul Davies yn *Other Worlds*:

There is no scale of size above which quantum matter turns into the Newtonian conception of 'ordinary' matter. Billiard balls, people, planets, stars – the entire universe is ultimately a collection of quantum mechanical systems, which implies that the old Newtonian picture of a clockwork universe moving in absolute determinism is false.²¹²

Ceir enghreifftiau o symud o lonyddwch ac i'r gwrthwyneb yn y gerdd,

'Gorffwys'²¹³ ac yn yr ysgrifau canlynol: 'Dewis',²¹⁴ 'Pen yr Yrfa',²¹⁵

'Oedfa'r Pnawn',²¹⁶ 'Aros',²¹⁷ 'Tywod',²¹⁸ 'Dau Le',²¹⁹ 'Ar ei Hanner'²²⁰ ac

'Y Drefn'.²²¹

Cododd anhawster yn y byd is-atomig oherwydd na ellid darganfod union leoliad na momentwm gronynnau yr un pryd. Dim ond drwy ystadegau y gellid dyfalu pa le yr oeddent. Yn 1924, yr oedd Louis de Broglie wedi awgrymu y gallai fod llwybrau posibl electronau yn lledaenu ar ffurf ton. Ac yn 1927, profodd Davisson fod electronau'n ymddwyn fel tonnau ac fel gronynnau. Fodd bynnag, ni olygai hyn fod electron yn don, ond yn hytrach, ei fod yn symud fel ton ac y mae hyn yn creu pendraphendod i Parry-Williams:

Ond ystyriwch ddatganiadau difrifol fel hyn, mewn geiriau plaen ond 'afresymol', gan wyddonwyr:

Fe all un o ronynnau sylfaenol mater fod yn ronyn ac yn don ar yr un pryd.

Fe all gronyn felly symud i ddau gyfeiriad ar yr un pryd.
Fe all un o'r gronynnau hyn fynd drwy ddau dwll cyfagos
hollol wahanol ar yr un pryd.²²²

Nid ton o unrhyw sylwedd na defnydd yn hon, ond ton o debygolrwydd.

Gyda'r arbrawf dau-dwll, gall y bydysawd arall a allasai fodoli, ond na wnaeth hynny, ddal i ddylanwadu ar y bydysawd sydd yn bodoli. Yr oedd Einstein yn casáu'r syniad o amhendatrwydd a dywedodd nad oedd Duw yn chwarae dis â'r bydysawd. Rheolir y bydysawd o ddifrif gan hap a damwain. Rhydd hyn ein hewyllys rydd yn ôl i ni gan nad yw ein gweithrediadau wedi cael eu trefnu o flaen llaw.

Pan wynebir y bydysawd â dewisiadau, ar lefel sylfaenol, y mae'n penderfynu rhyngddynt ar hap a'r peth rhyfedda yw na wneir y dewis tan y mae rhywun yn gweld yr hyn sydd yn digwydd. Y mae pob dewis cwantwm yn real. Gan fod electron yn mynd drwy ddau dwll yn lle dewis un o'r ddau, y mae'r bydysawd yn gwahanu'n ddau. Â'r electron un ffordd mewn un bydysawd a ffordd arall drwy'r bydysawd arall. Er bod y ddau bydysawd yn real, un ohonynt yn unig yr ydym ni yn ei brofi.

Ceisiodd Erwin Schrödinger ddadbrofi Damcaniaeth Cwantwm gyda'i gath enwog ('Cath Schrödinger') drwy gloi ei gath ddychmygol mewn bocs a gynhwysai defnydd ymbelydrol. Dim ond siawns 50:50 sydd gan

y gath o oroesi. Dywedodd y ffisegydd bod y syniad fod y gath yn fyw ac yn farw yr un pryd cyn i rywun edrych arni yn hollol hurt. Arweinia hyn at Damcaniaeth Llawer Bydysawd pan fo'r holl fydysawdau gwahanol yn bodoli yr un pryd, sef bydysawdau cyfochrog.

Trafoda Parry–Williams amryw agwedd arall ar ddarganfyddiadau gwyddonol yr oes, fel gwrthfater yn ei ysgrif, 'Ffenomena Ffyrdd',²²³ a Plasma, neu 'Bedwerydd Stad Mater' yn 'Mr. Tompkins a Minnau'²²⁴ lle y dywed ei fod yn falch nad yw'r gwagle'n wag.

O ganlyniad i'r holl ddarganfyddiadau gwyddonol hyn yn ystod yr ugeinfed ganrif, nid oes ryfedd i Parry–Williams ddatgan ei fod yn ddioddef pendraphendod ac na wyddai pobl pa le yr oeddent ar unrhyw achlysur.

NODIADAU

PENNOD 4

MAWR A BACH

- 1 LIGC, THPW, CH 752.
- 2 LIGC, THPW, CH 753.
- 3 LIGC, THPW, CH 754.
- 4 'Dylanwadau' (BBC Cymru 1960), LIGC, Casgliad Aneirin Talfan Davies; Llion Jones, *Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1993, 519–20.
- 5 LIGC, THPW, CH 754.
- 6 Gwilym Owen, *Mawr a Bach* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1936), 10.
- 7 *Pensynnu* (Gwasg Gomer Gomer, Llandysul, 1966; arg. 1af, 1966), 42.
- 8 Gwilym Owen, *Mawr a Bach*, 10.
- 9 *Olion* (Gwasg Aberystwyth, 1935; ail arg. 1959), 11–14.
- 10 LIGC, THPW, O 57. Ceir yr ysgrif Saesneg hon yn *The University of Wales Magazine*, 1928, Aberystwyth. Printed by the Cambrian News (Aberystwyth) Ltd., ed. Maldwyn D. Davies and Muriel F. Jolliff, 13–14.
- 11 *Olion*, 13–14.
- 12 Raymond Lister, *The Paintings of William Blake* (Cambridge University Press, Cambridge, 1986; 3rd ed. 1994), Plate 75.
- 13 *Ibid.*
- 14 Kathleen Raine, *William Blake* (Thames and Hudson, London, 1993), 76.
- 15 Joseph Viscomi, sites.unc.edu/viscomi/caves.htm
- 16 Robin Hamlyn *et al.*, *William Blake* (Tate Gallery Publishing, London, 2000), 256.
- 17 Raymond Lister, *The Paintings of William Blake* (1994), Plate 12.

- 18 David Bindman, *William Blake: The Complete Illuminated Books* (Thames and Hudson Ltd., London, 2000), 9.
- 19 *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1972; arg. 1af, 1972), 101.
- 20 John Evans (I. D. Ffraid), *Coll Gwynfa* (Hughes a'i Fab, Wrexham, 19eg ganrif [dim dyddiad cyhoeddi]), 123–4.
- 21 'Haf 1942', *Lloffion*, (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1942; ail arg. 1947), 99.
- 22 'Cân Gwerin', *Ugain o Gerddi yn Casgliad o Gerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1987; arg. 1af, 1987); 128.
- 23 'Yr Esgyrn Hyn', *Cerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1931; 3ydd arg. 1954), 18.
- 24 'Dychwelyd', *ibid.* 57.
- 25 *Myfyrdodau* (Gwasg Aberystwyth, 1957; arg. 1af, 1957), 11.
- 26 *Cerddi*, 32.
- 27 'Celwydd', *ibid.* 21.
- 28 'Argyhoeddiad', *ibid.* 43.
- 29 'Oedfa'r Pnawn', *Ysgrifau* (Foyle's Welsh Depôt, Llundain, 1928; arg. 1af, 1928), 23.
- 30 'El ac Er', *Pensynnu*, 39.
- 31 'Gynau Duon', *Myfyrdodau*, 106.
- 32 'Y Tri Llyn: 1 – Llyn y Dywarchen', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984; arg. 1af, 1984), 230.
- 33 'Ysprydoliaeth', *Y Brython*, 9 Tachwedd 1911; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 481.
- 34 John and Mary Gribbin, *Time and Space* (Dorling Kindersley Limited, London, 1994), 16–19.
- 35 *Casgliad o Ysgrifau*, (1984), 417.
- 36 *ibid.* 415.
- 37 Paul Davies, *About Time: Einstein's Unfinished Revolution* (Penguin Books Ltd., London, 1995), 37–8.
- 38 Gweler gwefan www.spartacus.schoolnet.co.uk/ART/gertler.htm
- 39 LIGC, THPW, D 64.
- 40 James Evans, 'Henri Bergson', *Y Traethodydd*, Ionawr 1912, 1–11.
- 41 Miall Edwards, *Crefydd a Bywyd* (Hughes Brothers, Swyddfa'r Dysgedydd, Dolgellau, 1915), 58–107.

- 42 *Pensynnu*, 34–5.
- 43 *Y Wawr*, Cyf. II Rhif 3, Haf 1915, 81–4; D. Islwyn Edwards, *Agweddau ar foderniaeth yng ngweithiau T. H. Parry-Williams, gan fwrw golwg ar ei gefndir personol a llenyddol, ac ar foderniaeth fel mudiad*, traethawd M.A., Llanbedr-Pont-Steffan, 1982, 108–111.
- 44 Phyllis H. Stock, 'Students versus the University in Pre-World War Paris', *French Historical Studies*, Vol. 7, 1971–72, 90–110.
- 45 *Myfyrdodau*, 38–9.
- 46 Henri Bergson, *Creative Evolution*, translated by Arthur Mitchell (Macmillan and Co, Limited, London, 1928), 41.
- 47 *Pensynnu*, 42.
- 48 *Ysgrifau*, 79.
- 49 'KC 16', *ibid.* 10.
- 50 *Olion*, 31.
- 51 'Lliw', *Cerddi*, 41.
- 52 *Y Wawr*, Cyf. 2 Rhif 1, 18–19, traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 70–1.
- 53 Paul Davies, *About Time: Einstein's Unfinished Revolution*, 83.
- 54 'KC 16', *Ysgrifau*, 9.
- 55 'Ar ei Hanner', *Lloffion*, 39.
- 56 *Ysgrifau*, 68.
- 57 *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (1972), 94–5.
- 58 *Cerddi*, 39.
- 59 'Esgyrn y Gynnen', *Cerddi Hir*, gol. Islwyn Jones a Gwilym Rees Hughes (Gwasg Gomer, Llandysul, 1970), 33–45.
- 60 *Ibid.* 41.
- 61 *Ibid.* 45.
- 62 *Olion*, 11–12.
- 63 *The Grail*, V, 14 November 1911, 11.
- 64 *Y Wawr*, Cyf. 3 Rhif 3, Haf 1916, 91, traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 137.
- 65 *Lloffion*, 57.
- 66 'JC 3636', *Myfyrdodau*, 84.
- 67 R. Williams Parry, *Cerddi'r Gaeaf* (Gwasg Gee, Dinbych, 1952; ail arg. 1953), 71.
- 68 *Casgliad o Ysgrifau*, 1984, 402–5.
- 69 *Cerddi*, 35.

- 70 *Ibid.* 48.
- 71 *Ibid.* 50.
- 72 *Olion*, 51–2.
- 73 LIGC, THPW, N 16.
- 74 *Olion*, 11–14.
- 75 ‘Dylanwadau’; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 528.
- 76 *Cerddi*, 15–17.
- 77 *Ugain o Gerddi yn Casgliad o Gerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1987; arg. 1af, 1987), 127.
- 78 D. James Jones, *Hanes Athroniaeth* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1939), 28–32.
- 79 *Cerddi*, 49.
- 80 *Ibid.* 40.
- 81 Gweler gwefan [business.apex2000.net/dklb\(good\)ALCHEMICALIMAGINATIONINENGLISH](http://business.apex2000.net/dklb(good)ALCHEMICALIMAGINATIONINENGLISH)
- 82 *William Blake: The Complete Illuminated Books*, introduction by David Bindman (Thames and Hudson, London, 2000), 114.
- 83 LIGC, THPW, B 2 – papur rhydd y tu mewn i lyfr nodiadau Parry-Williams (1907–8) ar *Lyfr Du Caerfyrddin* pan oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth.
- 84 *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1986), 108.
- 85 *Ibid.* 106.
- 86 LIGC, THPW, B 2 – papur rhydd y tu mewn i lyfr nodiadau Parry-Williams (1907–8) ar *Lyfr Du Caerfyrddin*. Ymddangosodd trafodaeth Edward Anwyl yn *Y Geninen*, Cyf. XXX1 Rhif 2, Ebrill 1913.
- 87 *Lloffion*, 89.
- 88 Gweler y wefan <http://www.clas.ufl.edu/users/tjohnson/tj/notes.lyric.html>
- 89 The Poetry of W. B. Yeats, *The Dragon*, Vol. XXXVIII, February 1916, 140; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 121.
- 90 Nicholas Drake, *The Poetry of W. B. Yeats* (Penguin Books Ltd., London, 1991), 18–19.
- 91 *O’r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 174–5.
- 92 *Y Wawr*, Cyf. II Rhif 3, Haf 1915, 87; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 108.
- 93 *Pensynnu*, 43.

- 94 *Y Brython*, 15 Mai 1913; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 486.
- 95 Gweler gwefan [business.apex2000.net/dklb\(good\)](http://business.apex2000.net/dklb(good)) ALCHEMICAL IMAGINATION IN ENGLISH
- 96 *William Blake: The Complete Illuminated Books*, introduction by David Bindman (Thames and Hudson, London, 2000), 109.
- 97 *Ibid.* 441.
- 98 *Olion*, 12–13.
- 99 Gweler Pennod 2, nodyn ¹⁰⁹.
- 100 Hugh Bevan, *Morgan Llwyd y Llenor*, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1954), xv.
- 101 E. Lewis Evans, *Morgan Llwyd: Ymchwil i rai o'r Prif Ddylanwadau a fu arno* (Hugh Evans a'i Feibion, Lerpwl, 1930), 141.
- 102 Meic Stephens, gol., *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Yr Academi Gymreig, 1986; ail arg. Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1997), 217–8.
- 103 *The Oxford Companion to Philosophy*, ed. Ted Honderich (Oxford University Press, Oxford, 1995), 339–343.
- 104 *Ugain o Gerddi yn Casgliad o Gerddi*, 128.
- 105 Gweler y wefan www.spartacus.schoolnet.co.uk/TUmarx.htm
- 106 *The Oxford Companion to Philosophy*, ed. Ted Honderich (Oxford University Press, Oxford), 1995, 342.
- 107 *Lloffion*, 37–40.
- 108 *Olion*, 70.
- 109 *Lloffion*, 40.
- 110 *Olion*, 35.
- 111 'Darfod', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 403.
- 112 *Olion*, 32.
- 113 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 227–8.
- 114 *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 404.
- 115 *Cerddi*, 56.
- 116 R. Williams Parry, *Cerddi'r Gaeaf* (Gwasg Gee, Dinbych, 1952; ail arg. 1953), 64.
- 117 *Synfyfyrion*, 82.
- 118 *Olion*, 24.
- 119 *Pensynnu*, 45.
- 120 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 175.
- 121 *Olion*, 23–6.

- 122 Henri Bergson, *Creative Evolution*, translated by Arthur Mitchell (Macmillan and Co, Limited, London, 1928), 329–30.
- 123 *Olion*, 27–28.
- 124 James Jeans, *The Mysterious Universe* (Cambridge University Press, London, 1930; 2nd edition 1935), 136.
- 125 *Ibid.* 104.
- 126 LIGC, THPW, B 2 – papur rhydd y tu mewn i lyfr nodiadau Parry-Williams (1907–8) ar Lyfr Du Caerfyrddin.
- 127 *Ibid.*
- 128 Geraint H. Jenkins, *Thomas Jones yr Almanaciwr 1648–1713* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1980), 49.
- 129 *Olion*, 67.
- 130 *Cerddi*, 50.
- 131 John Morris–Jones, *Penillion Omar Khayyâm* (Gwasg y (sic) Gregynnog, 1928), 23.
- 132 *Cerddi*, 35.
- 133 *Ibid.* 48.
- 134 *Ibid.* 21.
- 135 *Ibid.* 54.
- 136 *Olion*, 53.
- 137 *Lloffion*, 99.
- 138 ‘Y Diwedd’, *Cerddi*, 34.
- 139 ‘Santa Fe’, *Synfyfyrion*, 68.
- 140 *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (1972), 91.
- 141 ‘Pen Bwlch’, *Synfyfyrion*, 48.
- 142 ‘Poteli Ffisig’, *O’r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 179.
- 143 ‘Y Lôn Ucha’, *O’r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 193.
- 144 ‘Y Coed Bach’, *O’r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 195.
- 145 ‘Cymro ar Wasgar’, *Myfyrdodau*, 47–8.
- 146 ‘Ar Encil’, *ibid.* 59.
- 147 ‘Nimrod’, *ibid.* 90.
- 148 ‘Priddgist’, *Pensynnu*, 78.
- 149 ‘Llyncu’, *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 393.

- 150 'Yr Hen Ysfa', *Y Wawr*, Cyf. 3 Rhif 3, Haf 1916, 90; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 136.
- 151 *Olion*, 17.
- 152 'Ar Chwâl', *ibid.* 26.
- 153 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 174-6.
- 154 *Ibid.* 177.
- 155 'Ann', *Myfyrdodau*, 51.
- 156 'Yr Hen Ysfa', *Y Wawr*, Cyf. 3 Rhif 3, Haf 1916, 90-1; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 136-7.
- 157 'Gweld y Gwynt', *Ysgrifau*, 78.
- 158 'Pen Bwlch', *Synfyfyrion*, 48.
- 159 'Y Bys Clec', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 184.
- 160 'Hon', *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (1972), 88-9.
- 161 'Gweddill', *Cerddi*, 58.
- 162 'Tynfa', *Ibid.* 56.
- 163 'Argyhoeddiad', *Ibid.* 43.
- 164 'Aur Drws-y-Coed', *Pensynnu*, 9-12.
- 165 'Dewis', *Olion*, 33.
- 166 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 235.
- 167 *Myfyrdodau*, 85.
- 168 'Y Llyfr Lòg', *Lloffion*, 11.
- 169 'Teulu'r Ffatri', *Myfyrdodau*, 30.
- 170 'Ymward', *Lloffion*, 43.
- 171 'Aros', *Ysgrifau*, 49-50.
- 172 'Ar ei Hanner', *Lloffion*, 37.
- 173 'Y Trên Bach', *ibid.* 77.
- 174 'Ffidlan', *Myfyrdodau*, 37-8.
- 175 *Ibid.* 102-105.
- 176 'Colli Robert Williams Parry', *ibid.* 65.
- 177 *Myfyrdodau*, 109.
- 178 'Pwt o Brofiad', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 422.
- 179 'Llenydd', *Synfyfyrion*, 15-6.
- 180 'Poteli Ffisig', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 179.
- 181 *Ibid.* 174-7.
- 182 *Ysgrifau*, 72.

- 183 'Yr Hen Ysfa', *Y Wawr*, Cyf. 3, Rhif 3, Haf 1916, 91–2; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 137–8.
- 184 'Llyfr Melyn Oerddwr'.
- 185 'Celwydd', *Cerddi*, 24.
- 186 'Amser', *Olion*, 64.
- 187 'Mr. Tompkins a Minnau', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 410.
- 188 'Darfod', *Ibid.* 403.
- 189 *Olion*, 69.
- 190 Eirwen Gwynn, *I'r Lleuad a Thu Hwnt* (Gwasg Gee, Dinbych, 1964), 17–20.
- 191 *Olion*, 69.
- 192 'JC 3636', *Myfyrdodau*, 84–5.
- 193 'Gwylio'r Gwifrau', *Y Wawr*, ll, 1, Gaeaf 1914, 18–20.
- 194 'JC 3636', *Myfyrdodau*, 83–4.
- 195 'Y Rhufeiniaid', *Synfyfyrion*, 82.
- 196 'Ar Encil', *Myfyrdodau*, 63.
- 197 'Llenyddda', *Synfyfyrion*, 15–16.
- 198 'Gynau Duon', *Myfyrdodau*, 109.
- 199 'Lincyn Loncyn', *Pensynnu*, 53.
- 200 'Darfod', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 404.
- 201 *Cerddi*, 57.
- 202 'Celwydd', *ibid.* 24.
- 203 *Ibid.*
- 204 *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 410.
- 205 R. G. Berry, 'Wyn, M.A. Oxon.', *Ystoriau Heddiw*, gol. T. H. Parry-Williams (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1938), 75–6.
- 206 'Pen Bwlch', *Synfyfyrion*, 48.
- 207 *The Dragon*, XLVIII, December 1925, 19; traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 237.
- 208 *Matter* ('Eyewitness Science' series, Dorling Kindersley Ltd., London, 1992).
- 209 *Olion*, 20–21.
- 210 *Lloffion*, 28–9.
- 211 'Ogo-pogo', *Myfyrdodau*, 103.
- 212 Paul Davies, *Other Worlds: Space, Superspace and the Quantum Universe* (Penguin Books, 1990), 74.
- 213 *Cerddi*, 46.

- 214 *Olion, 29–33.*
- 215 *Lloffion, 59–62.*
- 216 *Ysgrifau, 19–23.*
- 217 *Ibid. 47–51.*
- 218 *Ibid. 43–6.*
- 219 *Synfyfyrion, 19–23.*
- 220 *Lloffion, 37–40.*
- 221 *O'r Pedwar Gwynt yn Casgliad o Ysgrifau, 174–7.*
- 222 'Pendraphendod', *Pensynnu, 44.*
- 223 *Casgliad o Ysgrifau, 408.*
- 224 *Ibid. 412.*

PENNOD 5

DU A GWYN

Yn y bennod ddiwethaf, gwelwyd bod Parry–Williams yn disgrifio achos yr hollt yn ei gymeriad drwy ei briodoli i'r grefydd Gristnogol, ac yma, ceisir olrhain rhai dylanwadau a achosodd ei amhendantwydd ynglŷn â chrefydd yn gyffredinol.

Dywed mai moddau yw ymdeimlad crefyddol, rhywbeth sydd weithiau'n ddu ac weithau'n wyn sydd yn mynd 'lan a lawr' ac nid rhyw haen ddisymud ar waelod cymeriad unigolyn, a thybiai mai peth cyffelyb oedd profiad yr hen saint i gyd.

Ceisiodd y rhesymolydd, Sant Tomos Acwinas (1225–74), yr oedd Parry–Williams yn gyfarwydd â'i waith, gymodi rheswm a ffydd, neu fetaffiseg Aristoteles a'r meddylfryd Cristnogol gan fod rhai o weithiau Aristoteles newydd gael eu darganfod. Yn nyddiau Acwinas, bodolai damcaniaeth boblogaidd a ddywedai y gellid ystyried bod un gosodiad yn wir mewn athroniaeth seciwlar a oedd yn cael ei wrth-ddweud gan osodiad arall yng ngolau ffydd. Yr oedd Acwinas yn byw mewn oes o ddiwinyddion ac ysgolheigion ac felly yr oedd yn rhaid i Gristnogaeth

allu cyfathrebu â hen resymeg a mathemateg, athroniaeth a chyfraith, meddygaeth a gwyddoniaeth. Mewn darn ar deimladau, angerdd neu gyffro yn ei lyfr, *Summa Theologiae*, dywed Acwinas, gan gyfeirio at

Aristoteles:

Passions, says Aristotle, are changes of a sort. So antitheses between passions must be modelled on those between changes or movements. Now Aristotle distinguishes two sorts of antithesis between changes or movements: sometimes the antithesis is between moving towards or away from one state, as in changes of substance where birth moves to existence and death moves away; and sometimes the antithesis is between movements that lead towards antithetic states, as in changes of quality where getting whiter moves from black to white and getting blacker moves from white to black. In our animal passions too then we find these two sorts of antithesis: one due to antithetic objects, in this case good and bad, and another between tending towards or away from the same object. In our affections we see only the first sort of antithesis – the antithesis of object – but in aggressive feelings we see both sorts.¹

Siwglô'n ddi-bwynt â geiriau

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, y dylanwad mwyaf niweidiol ar greddau traddodiadol am Dduw oedd yr her 'semantig' neu 'ystyregol'.

Ymddengys fod rhai syniadau athronyddol a oedd mewn bri yn ystod oes Parry-Williams, fel dilechdid Hegel ac athroniaeth analytig wedi

dylanwadu ar weithiau Parry–Williams gan adlewyrchu dryswch ei feddwl a chyfrannu at anwadalwch ei gymeriad.

Gellid dweud bod llawer o bethau eraill wedi chwarae rhan yn ansicrwydd y bardd ynglŷn â chrefydd, fel materoliaeth, penderfyneg, gwyddoniaeth, Darwiniaeth, Uwchfeirniadaeth Feiblaidd, diwinyddiaeth gyfoes, a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn enwedig.

Yn ôl Harri Williams, athroniaeth Hegel oedd y prif ddylanwad ar ddiwinyddiaeth ym Mhrydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac un o gynrychiolwyr amlycaf yr Hegeliaid oedd Syr Henry Jones o Langernyw (1852–1922). Deisyfai hwnnw ar ddyn i chwilio am Dduw gyda'i reswm pur a choleddai optimistiaeth Hegel ynglŷn â dyn a'i ddyfodol ar y ddaear. Hefyd, credid bod Duw *yn* y cread, ac *mewn* dyn yn hytrach na bod *ar wahân* i'r cread. Tueddai system Hegel i wneud Duw a dyn, a Duw a'r cread, yn un â'i gilydd. O 1826 ymlaen, ceisiwyd datblygu athrawiaeth Hegel oddi mewn i gylch o feddylwyr yn yr Almaen. Gelwid rhai ohonynt 'Yr Hen Hegeliaid' yn ddiweddarach a'r 'asgell Dde' ar ôl hynny. Cytunai'r rheini fod Hegeliaeth yn hollol gyson â Christnogaeth Brotestannaidd gan i Hegel ei hun ddweud mai'r un gwirionedd yr oedd Cristnogaeth ac athroniaeth yn ei ddatgan. Ond dylid nodi yn y fan hon

nad yw perthynas Ysbryd a'r Duwdod yn glir o gwbl yn ei weithiau.

Lledaenwyd damcaniaethau athroniaeth Hegel gan Lewis Edwards yn *Y Traethodydd* yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gwelwyd dylanwad athronydd mawr yr Almaen ar y bardd–bregethwr, Islwyn, a'i ddilynwyd, 'Ysgol y Bardd Newydd', yn ystod yr un ganrif – beirdd a ganai i ddrychfeddyliau am amcan bodolaeth dyn a'r cyfanfyd. Gwelent uchafbwynt pob hanfod yn Nuw. Yn wahanol i Hegel, gwrthwynebai Ritschl athroniaeth fel cyfrwng i ddod i adnabod Duw. Nid drwy'r rheswm y gellid gwneud hynny, ond drwy i Dduw ddatguddio ei Hun yng Nghrist.²

Ymatebodd Saunders Lewis yn chwyrn i'r amhendrantrwydd a oedd ynghlwm wrth athroniaeth Hegel, gan ddweud bod diffyg diffinio yn elfen ddinistriol yng Nghymru'r 1920au.³ Yn hyn o beth, gellir ystyried 'Gwahaniaeth'⁴ Parry–Williams fel enghraifft wych o'r ie a'r na yng nghyd–destun crefydd. Fodd bynnag, adrodda Saunders Lewis hanesyn am flaenor a awgrymodd i Syr Henry Jones fod hwnnw'n amau dwyfoldeb Crist. Gan i Syr Henry roi'r ateb amwys nad amheuodd erioed ddwyfoldeb neb, dywed Saunders Lewis:

Peidio ag amau dwyfoldeb unrhyw un yw dileu dwyfoldeb Rhywun. A dyna wyrth Hegeliaeth, gwneud ie a nage yn un, dileu pob ffin a lladd deffinio ... Nid hwyrach y gellir dyddio dirywiad diwinyddiaeth ac athroniaeth yng Nghymru o'r pryd y cychwynnodd dylanwad Edward Caird ac athroniaeth Glasgow ledu drwy'r wlad.⁵

Yn ôl E. Gwynn Matthews,⁶ yr oedd bri Hegel wedi dechrau pylu yn yr Almaen erbyn canol y bedwaredd ganrif ar ar bymtheg ond daeth ei athroniaeth i'r amlwg yng ngwledydd Prydain drwy lyfrau D. F. Strauss (1808–74) ac L. A. Feuerbach (1804–72). Ymddangosodd cyfieithiad Saesneg o lyfr Strauss, *The Life of Jesus*, yn 1846 a'r cyfieithiad Saesneg, *The Essence of Christianity*, gan Marian Evans (George Eliot) yn 1854 a bu dylanwad y ddau lyfr hyn yn ysgubol ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafwyd *The Secret of Hegel* yn 1865 gan J. H. Sterling a adlewyrchodd safle'r olaf fel un o 'Hegeliaid y Dde' a goleddai amddiffyniad o Gristnogaeth. Poblogeiddiwyd Hegelaeth gan Edward Caird (1835–1908), aelod arall o asgell Dde yr ysgol Hegelaidd. Fe'i penodwyd i gadair Athroniaeth Foesol Prifysgol Glasgow yn 1866, a Syr Henry Jones (1852–1922) oedd ei olynydd. Ef, hefyd, oedd Athro cyntaf Adran Athroniaeth Coleg y Gogledd ym Mangor a thra bu yno, ceisiodd ef a'i gyfaill, Syr John Morris-Jones, gyfieithu *Athroniaeth Crefydd* Hegel

i'r Gymraeg ond ni welodd y llyfr olau dydd. Yr oedd Syr Henry yn nes at adain ganol Hegeliaeth.

Treiddiodd dylanwad Hegel (Idealaeth) i brifysgolion Lloegr, ac yn enwedig i Rydychen, drwy'r Hegelydd, T. H. Green (1836–82) gan fagu olynwyr fel F. H. Bradley (1846–1924), Bernard Bosanquet (1848–1923), a J. M. E. McTaggart (1866–1925). Gwrthodasant y ffordd gyffredin o feddwl am y byd, a'r modd y codid croesebau mewnol ym maes gwyddoniaeth. Nid gwybodaeth gywir a geid yn yr achos hwn. Nid drwy'r deall analytig y ceir gywir wybodaeth, ond yn hytrach, drwy'r athroniaeth reswm sydd yn cydnabod bod natur yn gynnrych y meddwl, neu ei bod yn cael ei ffurfio neu ei mynegi ganddo. Gwthiodd Bertrand Russell (1872–1970) a G. E. Moore (1873–1958) Idealaeth o'r neilltu, er bod cefnogwyr yr athroniaeth honno yn dal i dra-arglwyddiaethu ar broffesoriaethau athronyddol yn Ynysoedd Prydain. Ei phleidiwr olaf mwyaf amlwg oedd R. G. Collingwood.

Buasai Parry-Williams yn gyfarwydd iawn â'r holl faterion hyn oherwydd iddo dreulio'r blynyddoedd rhwng 1909 a 1911 yn Rhydychen fel myfyriwr (y mae un o lyfrau Collingwood yn ei lyfrgell bersonol), a hefyd ni ellir dychmygu na fyddai wedi dod ar draws syniadau Hegel ym

Mhrifysgol Freiburg pan oedd yn y fan honno fel myfyriwr rhwng 1911 a 1913. Ymhellach, ni fyddai'n syndod o gwbl darganfod ei fod yn weddol gyfarwydd â llawer iawn o syniadau athronyddol ar ôl dechrau fel myfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth yn 1905. Ac ar ben hynny, pwy â wŷr na chlywsai un neu ddau o enwau athronwyr a diwinyddion enwog ar ei hen aelwyd yn Rhyd-ddu gan gymaint o weithgareddau a gynhelid yno, gydag ysgolheigion o'r Cyfandir yn mynychu 'athrofa' ei dad, gan gynnwys Thurneysen o Freiburg. Gwelir, felly, fod Parry-Williams wedi ei ddal rhwng dwy athroniaeth gyfoes, gref, pan oedd yn ddyn ifanc, sef Idealaeth Hegelaidd Green a Bradley, a rhesymeg Bertrand Russell a G. E. Moore. Rhwng y ddau ryfel byd, yr oedd athroniaeth analytig Russell a Ludwig Wittgenstein (1889-1951) yn tra-arglwyddiaethu ar athroniaeth Brydeinig. Cyhoeddwyd gwaith mawr Ludwig Wittgenstein, *Tractatus Logico-Philosophicus*, yn 1921.

Dechreuodd mudiad Positifiaeth Resymegol o ddifrif yn Fienna yn y 1920au.⁷ Yr oedd Rudolf Carnap (1891-1970) yn aelod amlwg o 'Gylch Fienna' ac yn arweinydd blaenllaw Positifiaeth Resymegol. Astudiodd ym Mhrifysgol Freiburg a Jena o 1910 hyd at 1914 ac felly, efallai iddo fod yn fyfyrwr yn Freiburg yn un pryd â Parry-Williams, gan ei fod ef

yno o 1911 tan 1913. Un o athrawon Carnap oedd Gottlob Frege (1848–1925) a dylanwadodd ef a Bertrand Russell yn fwy na neb arall arno. Yr oedd egwyddor natur wiriadwy yn ganolog i athrawiaeth y mudiad, sef y syniad fod brawddegau unigol yn ennill eu hystyr drwy nodi yn fanwl y camre a gymerir i benderfynu eu gwirionedd neu eu hanwiredd. Os na lwydda brawddegau i gyrraedd gofynion prawf yr egwyddor natur wiriadwy, fe'u hystyrir yn ddiystyr; nid yw'r brawddegau hynny yn wir nac yn gau.⁸ Y mae'n debyg mai enghraifft o ryw adain o athroniaeth analytig, neu efallai, 'Paradocs Celwyddwr' ('*Liar Paradox*'), y mae Parry–Williams yn ceisio ymgodymu â hi yn ei gerdd, 'Dwy Gerdd' (1922).⁹ Diddorol, hefyd, yw 'damcaniaeth iaith breifat' Wittgenstein a gafodd lawer iawn o sylw gan iddi ymddangos sawl gwaith yn *Philosophical Investigations* (1953). A bod mor syml a chryno â phosibl, dadleuai Wittgenstein yn erbyn y ffaith mai'r unigolyn yw'r unig un sydd yn gallu bod yn siŵr o'i ystadau meddyliol a'i fod yn fwy siŵr o hynny nag am ystadau meddyliol pobl eraill. Pe byddai hynny'n wir, dadleua Wittgenstein, ni fyddai unigolion yn gallu cyfeirio at eu teimladau drwy gyfrwng geiriau dealladwy mewn iaith gyhoeddus. Oherwydd, y mae geiriau iaith gyhoeddus yn derbyn eu hystyr oddi wrth faes cyhoeddus.

Pe byddai hi fel arall, ni fyddai unrhyw air yn gallu cyfeirio at ystad feddyliol unigolyn. Tybed ai'r ddadl hon yw sail y geiriau canlynol yn 'Celwydd', rhigwm Parry-Williams, a gyfansoddwyd mor bell yn ôl â 1924, yn ôl pob golwg, lle y mae'r ddau unigolyn o dan sylw wedi defnyddio 'iaith breifat'? Efallai mai celwydd cyffredin a geir yma, ond gwelir bod ystyr ddyfnach iddo yn y pedwerydd pennill:

'Gwae nad oes gwir! Ni bu rhyngom ein dau
Ond cusanau celwyddog a geiriau gau.

'Anwiredd gloyw oedd y llygaid llyn,
A gwên dy ddannedd yn gelwydd gwyn.

'Ysmalio ddichelgar a thwylo ffri
Oedd chwerthin a chyffwrdd ein caru ni.'

Rhwng pob rhyw ddau a fu 'rioed yn y byd
Ni bu ond anwiredd, -dyna i gyd.¹⁰

Ceir cwestiwn digon addas gan edmygydd cryf Parry-Williams, G. O.

Roberts, a oedd wedi dechrau gohebu ag ef er mwyn ceisio deall ei

feddwl:

A dyna pam y mae dwy linell olaf eich emyn mor ddwfn eu harwyddocâd i mi. A dyna pam y byddai'n wych gennyf gael eich holi rywdro beth yn hollol y mae eich geiriau yn ei olygu i'ch meddwl chwi.¹¹

Fel y dywed Parry–Williams yn ‘Archoffeiriad’, pan godir y pwnc ynglŷn â diffinio yr un pryd: ‘Siw glo’n ddi–bwynt â geiriau yw llawer o’n hathronyddu a’n diwinydda.’¹² Ei gasgliad yw na wêl les ymboeni’n ofer i geisio dehongli ei brofiad ysbrydol gan nad yw iaith yn ddigonol i’w ddiffinio er ei fod, ar yr un gwynt, yn bwrw ymlaen i restru ei nodweddion. Ac yn ‘Borshiloff’, rhy enghraifft o ddiffyg diffinio pan ddywed nad yw’n ‘mynd i sôn am rai agweddau ar ddiwinyddiaeth rhyw gyfandirwr a gafodd dermau newydd ar hen athrawiaethau, neu am ryw athronydd estron a ddarganfu enw newydd ar yr Anwybod Mawr ...’¹³

Yn ôl Harri Williams, achosodd anawsterau diffinio broblem i sawl un, gan gynnwys Paul van Buren a ddatganodd yn ei lyfr, *The Secular Meaning of the Gospel*, mai gwell fyddai peidio â dweud gormod am Dduw oherwydd nad oedd pobl yn deall ystyr y gair; syniai mai sôn am Grist a fyddai orau gan ei fod Ef yn berson go iawn.¹⁴ Trafodir y pwynt hwn gan James Humphreys yn ei lyfr, *Yr Argyfwng Cred*, yng ngolau epistemoleg, drwy ddaliadau dadansoddwyr ieithyddol fel A. J. Ayer a Ludwig Wittgenstein. Ymwrthodent â metaffiseg gan goleddu empeiriaeth, sef y modd o ddarganfod gwybodaeth drwy’r synhwyrau naturiol y gall gwyddoniaeth ei hategu. Ond o dderbyn fod Duw y tu

allan i'r profiad hwn, y mae pob sôn am Dduw yn ddiystyr.¹⁵ Dyma

Parry-Williams yn ategu'r un gred ynglŷn â diffinio, gan feio rhesymeg:

Nid oes neb o bwys meddyliol yn barod i ddal i ddadlau â chwi y dyddiau hyn heb ofyn i chwi cyn bo hir ddiffinio'ch termau. Ond nid yw diffinio termau yn ddim ond defnyddio termau neu eiriau eraill i egluro'r termau hyn. A gwaeth na hynny, nid yr un ystyr a roddir gan bawb i'r termau sy'n egluro'r termau; felly dyna hi'n draed-moch. Ni cheir byth ddadl glir a therfynol ar ddim oherwydd hynny, a gwastraff amser yw dadlau – moeth academig. Y mae'n hysbys y gellir gyrru car-a-cheffyl trwy bob cyfraith bron, a phob ewyllys a gweithred-ymdiriedaeth. 'Gochelwch resymeg', meddai rhyw ddoethyn; a gwych o gyngor ydoedd, oherwydd y mae popeth, o'i wthio i'w derfyn neu i'w gasgliad rhesymegol, yn mynd yn wrthun. Gellwch 'brofi' unrhyw beth a gwneud ffolineb o gasgiadau unrhyw ddyn, yn rhesymegol, ond i chwi fod yn ddigon ffel â'ch geiriau a'ch ymadroddion. Nid wrth ddadlau felly y mae dyfod o hyd i'r gwirionedd – beth bynnag yw hwnnw.¹⁶

Dylid nodi yn y fan hon na chredai'r bardd y gellid fyth dreiddio i gysegr sancteiddiolaf y cread, yn ddyn na byd, ag offer y synhwyrâu oherwydd nad oes dim yno.¹⁷ O ganlyniad, gwelir nad yw rhesymeg na'r synhwyrâu yn ddigonol iddo fel athroniaethau i ganfod y gwirionedd. Y mae'n amlwg fod y broblem diffinio yn peri pryder iddo oherwydd fe'i ceir unwaith eto yn pwyso ar ei ddarllenwyr fod angen paratoi cyn sôn am unrhyw beth: 'Eithr cyn mynd ati-hi i drafod llyncu hyn a'r llall, gwell

i mi, efallai, fyddai ceisio diffinio'r term "llyncu". Petawn i'n dadlau â rhywun, byddai'n rhaid gwneud hynny y peth cyntaf oll.'¹⁸

Fe gofir iddo ddweud na ddylid torri geiriau i fyny wrth werthfawrogi barddoniaeth, a hefyd, sylwyd ar ei bendantrwydd ynglŷn ag ystyr y gair, 'crefydd', yng nghyd-destun 'crefydd y mynyddoedd' wrth geisio ateb cwestiwn Aneirin Talfan Davies; dywed y byddai ystyr y gair yn cael ei golli pe byddid yn ei ddadansoddi a'i dorri'n ddarnau. Y mae'n rhaid cofio bod awgrymusedd yn dra phwysig i Parry-Williams fel arf amddiffynnol wrth lenyddda, neu efallai fod y gair yn 'air preifat' na ellir ei lwyr esbonio i eraill.

Felly, a mynd yn groes i ddymuniad Parry-Williams, ym mha fodd y gellid dehongli'r llinell enwog o'i soned, 'Dychwelyd', 'Ond llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl.'?¹⁹ Wrth ateb Aneirin Talfan Davies, dywed y bardd fod hynny'n fwy ysbrydol a chrefyddol nag y byddai rhywun yn tybied, hynny yw, bod rhywun yn dod o ryw ehangder mawr a bod ei ysbryd yn mynd i ryw lonyddwch tragwyddol yn ôl.²⁰ Ond, beth a olyga wrth 'crefyddol' yn y fan hon, tybed? A beth yw 'ysbryd'? Oherwydd ymddengys na wŷr ef, ddim mwy na llawer o bobl eraill a fu'n pendroni am ganrifoedd maith, beth yw ystyr y gair, 'ysbryd', nac a oes y fath

beth yn bodoli. Dengys y bardd hyn yn glir cyn datgan mai siwglon

ddi-bwynt â geiriau yw llawer o athronyddu a diwinydda:

Efallai nad yw'r ystad yma yn ddim ond rhywbeth sy'n dibynnu ar rai o foddau peiriant y corff ei hun. (Ond y mae pwnc ffin enaid a chorff, a gweithgareddau'r ddau, heb ei setlo eto; felly gadaf lonydd iddo, er gorfod defnyddio'r geiriau enaid, ysbryd, meddwl a chorff, a rhai tebyg heb eu manwl ddiffinio ... Wedi pendroni uwchben datganiadau diweddaraf yr arbenigwyr, fe'n gyrrir i gredu na all neb ond mathemategydd cyfrwys a phrofiadol fentro ceisio deall nac esbonio dim o ddyn na'r cread yn drosglwyddadwy i eraill.)²¹

Dywed Roger Scruton i seiliau rhesymeg fodern gael eu gosod gan

Gottlob Frege (1848–1925) a Bertrand Russell wrth iddynt geisio

archwilio egwyddorion syniadau mathemategol. Cynigiodd Frege mai

analytig yn hytrach na synthetig, oedd gwirionedd rhifyddol. Dilynai

ddeddfau rhesymeg mor sylfaenol nad oedd modd eu gwadu heb iddynt

eu gwrth-ddweud eu hunain; yr oedd gwirionedd mathemategol yn

annibynnol ar allu unigolyn i ennill gwybodaeth ohono. Disodlodd Frege

resymeg Aristoteles a oedd wedi dominyddu ar athroniaeth y Gorllewin

ers canrifoedd a gosododd sylfeini ar gyfer athroniaeth fodern iaith; a

hefyd, dangosodd y berthynas agos a oedd rhwng rhesymeg a

mathemateg. Gan fod mathemateg yn analytig, tueddid i wthio

dyfaliadau metaffiseg o'r neilltu.²² Yr oedd gan Frege faen prawf i ddynodi rhifau a gwneid hyn drwy ddefnyddio cyd-destun, hynny yw, yr oedd yn rhai dweud beth oedd yn cael ei gyfrif.²³ Esbonir yr un pwynt gan Parry-Williams yn ei ysgrif, 'Y Drefn':

Nid yw ambell feddyliwr yn barod i dderbyn y 'gwirionedd' fod dau a dau yn bedwar. Fe ddywed wrthy ch na all dau a dau fod yn bedwar ond fel rhifolion yn unig, oherwydd nid yw dau afal a dau wy, neu ddau ddyn a dau dylwyth-teg, yn gwneud pedwar o ddim. A hyd yn oed pan fônt yn ddau a dau o'r un peth, nid yw'r casgliad mor sicr ychwaith. Nid yw dau ddiferyn a dau ddiferyn yn bedwar diferyn bob amser, yn enwedig os deuant i wrthdrawiad sydyn. Un diferyn mwy a geir. Felly, yn wir, nid yw dweud bod dau a dau yn bedwar yn meddwl dim mwy nac yn cyfleu dim mwy o wybodaeth na bod dau yn ddau (neu fod pedwar yn bedwar, os mynnwch). Confensiwn hwylus ydyw, oherwydd dynion sydd wedi cytuno â'i gilydd i alw dau a dau yn 'bedwar', yn lle yn 'ddau a dau'. Nid oes dim gweithrediad naturiol na gwirionedd cyfatebiaethol o gwbl yn y gosodiad . . .²⁴

O ddilyn y drafodaeth uchod, ymdeimlir ag anfodlonrwydd Parry-Williams i ddiffinio termau, a'i fod yn dibynnu mwy ar y galon nag ar y pen. Yn sicr, y mae'n argyhoeddedig nad drwy ddadlau y deuir o hyd i'r gwirionedd, a chofir iddo ddweud mai swyno yw prif amcan barddoniaeth. Y mae'n amlwg nad yw geiriau, yn y pen draw, yn ddigonol i gyfleu meddyliau. Felly yr ymddengys ar yr wyneb. Fodd

bynag, y mae'n anodd deall paham y byddai llenor, a ymhyfrydai gymaint mewn geiriau, yn anfodlon i'w malu a'u chwalu. Wedi'r cyfan, tystia rhigwm Parry-Williams iddo hoffi chwarae campau â hanfodion geiriau, eu trin a'u trafod a throi a throsi eu gogoniannau wrth ymyrryd â hwynt oll;²⁵ ymddengys mai dyna sut y daethai i'w adnabod ei hun yn well a chysylltu ag enaid Dyn yr un pryd. Tybed ai dyfais yw gwadu ystyr gyffredin geiriau er mwyn peidio â datguddio gormod amdano ef ei hun, rhag ofn na fyddai hynny wrth fodd calon ei ddarllenwyr?

Fodd bynnag, un cwestiwn y dylid ei ofyn yw: ai colli ei ffydd a wnaeth Parry-Williams ynteu dechrau sylweddoli beth oedd gwir ystyr crefydd wrth ddechrau ymsynied amdani o ddifrif? Fe'i magwyd ar aelwyd grefyddol dros ben, yn ôl yr hyn a ddywed, a gwyddys fod ganddo feddwl mawr o wrando ar bregethau. Sonia, hefyd, am 'gadw dyletswydd' ar aelwyd Tŷ'r Ysgol 'bob bore a hwyr ... yn rheolaidd a chyson.'²⁶ Ond pa ddarlun a rydd o'i blentyndod yn ei weithiau? Y teimlad a geir yw mai arsylwr goddefol ydoedd, bachgen a fagwyd oddi mewn i'r gyfundrefn Gristnogol draddodiadol a arferai gadw dyletswydd yn rheolaidd fel y byddai angen. Gwell sylwi ar rai darnau o'i waith i egluro hyn.

Un peth sydd yn amlwg yw ei fod yn cael ei swyno gan leisiau pregethwyr. Ar un achlysur, ni chofiai beth oedd cenadwri rhyw bregeth ond yr oedd llais swynol y pregethwr a'i stori wedi ei gyfareddu.²⁷ Ac yn yr un ysgrif, cyfeddyf y buasai ei feddwl yn crwydro'n ddifyr yn y gorffennol pan na wrandawai ar bregeth yn y capel. Yn 'Oedfa'r Pnawn', a Parry-Williams yn ei oed a'i amser, rhoddir yr holl bwyslais ar y modd y dymunai 'ryw wŵr mwynllais oedd bob amser yn gweddio yng ngeiriau'r Salmydd a'r Perganiedydd' i arwain y cyfarfod gweddi y noson honno. Cerdda adref gan fyfyrion ar 'dafodieithoedd' gweddïau Cymraeg a chofio am y gŵr melyslais, duwiol hwnnw.²⁸ Nid oes lawer o ddatguddio yma, dim ond rhamantu pur. Ac wrth sôn am y Pêr-ganiedydd, ceir tipyn bach o oleuni yn ei ysgrif, 'Emynau Williams Pantycelyn' (sgwrs radio).²⁹ Y mae wedi clywed cyfeiriadau cynnes, annwyl at Bantycelyn yn nyddïau ei blentyndod a daeth i feddwl amdano fel 'gŵr addfwyn a llednais'. Synia fod 'y Pêr-ganiedydd' yn deitl mwy parchus iddo ac yn un addas iawn. Ychydig iawn o'r gynhysgaeth emynyddol a ddaeth yn rhan o'i gyfansoddiad eneidïol; yr un emynau yr arferid eu canu, a hynny oherwydd eu hapêl. Yr oedd mab Pantycelyn wedi rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i ganu'r tonau rhag i bobl ganu 'Tôn Orfoleddus' ar 'Hymn

Alarus'. Unwaith eto, cyfeiria at ryw swyn hiraethus pan wrandawai ar eiriau fel 'anial dir' a 'tŷ fy Nhad'. Ond yr hyn sydd yn bwysig yma yw anwybodaeth y bachgen bach am ystyr y geiriau yr oedd yn eu canu gyda'r gynulleidfa: '...heb sylweddoli'n iawn rym ac ystyr y ffigur a'r ddelwedd.' Sonia, hefyd, am yr Iddewon wedi 'ceisio troi'r Anwylyd yn ffugur am y genedl ei hun, er mwyn rhoi rhywfaint o barchusrwydd i hen gerdd neu gerddi serch poblogaidd.' Â ymlaen i ddweud ei bod yn naturiol iawn i lanc ifanc ymdeimlo â swyn a hudoliaeth arbennig yn y cyfeiriadau at yr Anwylyd ac ati 'heb gysylltu hynny â dim byd cysegredig.' Os oedd canu emynau yn ei swyno'n ddi-ben-draw, teimlad hollol wahanol a gâi wrth feddwl am yr Ysbryd Glân:

Fe boenid Ann druan, medd hi ei hun, gan ofn 'tristáu'r Ysbryd Glân'. Mi wn innau am ofn tebyg, pwy bynnag a fu'n ddigon ffôl a chreulon i blannu syniad mor ddychrynlyd yn enaid bachgen. 'Y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân' – hwnnw oedd yr archbechod. Ni wyddai neb, ni wyddai'r tadau beth ydoedd yn iawn; a sut y gallai hogyn diniwed deg neu ddeuddeg oed wybod?³⁰

Yn 'El ac Er' dywed mai rhyw rygnu canu a wnaethai wrth 'gadw dyletswydd' ar ei hen aelwyd. 'Hen rin, hen ras', meddai.³¹ Dro arall, wrth gofio am ryw amser pan ymochelodd rhag y glaw mewn cyntedd capel, atgoffa naws y capel ac ymddygiad y gynulleidfa ef o'r hen amser:

Wedi distewi o'r canu, clywn yr ymysgwyd cyffredinol wrth i'r bobl eistedd, y sŵn parchus hwnnw y gwyddwn mor dda amdano. Ambell besychiad yma a thraw wedyn, gyda nodyn gwahanol i bob un yn ôl rhyw ac oed, a gwich ambell stôl droed anystywallt.³²

Darlunnir Parry-Williams fel carcharor ysgymun yn y cyntedd, sydd yn disgrifio ei bellhad o'r sicrwydd diniwed a oedd ganddo yn y gorffennol ynglŷn â chrefydd. Ar achlysur arall, fe'i ceir yn 'canu'n ddiniwed' gyda'r gynulleidfa cyn y bregeth – 'Duw! atal Di rwysg fy meddyliau ffôl.'³³ Disgrifir y sefyllfa hon gan ei dad sydd yn gofidio am gyflwr cynulleidfaoedd capeli yn ei ddydd mewn anerchiad ar gyfer Cymanfa Gerddorol. Sonia fod caniadaeth y cysegr yn dirywio i'r graddau y mae cerddoriaeth fel celfyddyd yn dod yn fwy cyffredinol:

Y rheswm am hyn ydyw fod ein cynulleidfaoedd y mae gennym le i gredu yn talu mwy o sylw i'r sŵn nac i'r sylwedd – sef y geiriau a genir. A phan y cymer hyn le y mae canu, fel addoliad – yn peidio a bod, oherwydd i'r graddau y mae y meddwl a'r galon yn y canu i'r graddau hyn y mae yn fawl i Dduw.³⁴

Â ymlaen i ddweud bod angen talu mwy o sylw i'r geiriau a genir, gan ychwanegu:

... a chofiwn nad ydyw y Gerddoriaeth wedi'r cwbl ond llawforwyn wasanaethgar i'r farddoniaeth a geir yn yr emynau.³⁵

Hefyd, datgana fod llawer gormod o ddal llyfr hymnïau o'u blaen; dylai'r

emynau fod ar gof fel y deuent yn sydyn i'r meddwl:

O'r côf daw ar brydiau ar wibdaith i'r myfyrdod, ac o'r myfyrdod efallai i'r galon, ac yno yn unig y (?) (?) yn faeth ysbrydol i'r enaid ... 'Posibl ydyw i ddyddiau blin ein cyfarfod 'pan y tywylla y rhai sydd yn edrych trwy ffenestri'.³⁶

Cyfeiriad sydd yma at Lyfr y Bregethwr (12:3) yn y Beibl:

Yr amser y cryna ceidwaid y tŷ, ac y crymma y gwŷr cryfion, ac y metha y rhai sydd yn malu, am eu bod yn ychydig, ac y tywylla y rhai sydd yn edrych trwy ffenestri:

Sylwir, hefyd, ar yr ansoddair yn 'capelwyr crefyddol' a ddefnyddia

Parry-Williams yn 'El ac Er';³⁷ paham ychwanegu 'crefyddol'? Unwaith

eto, y mae dyletswydd a pharch yn chwarae rhan fawr ar ôl iddo

ddechrau yn Ysgol Ganolradd Porthmadog yn 11 oed: 'Mi fyddwn, fel

bachgen da, yn "mynychu" pob math o gyfarfodydd yng nghapel y

Tabernacl (gweinidog, lolo Caernarfon) ar Sul, gŵyl a gwaith.'³⁸ Priodol

dweud yn y fan hon na osodai Parry-Williams lawer o fri ar farddoniaeth

lolo Caernarfon (y Pachedig J. J. Roberts) oherwydd i hwnnw fynd yn

athronydd diwinyddol er ei waethaf.³⁹

Yn ei ysgrif, 'Moddion Gras', cyfeddyf Parry-Williams mai crefydd hen

bethau a hen gysylltiadau yw ei grefydd ef. Gofynnodd Aneirin Talfan

Davies iddo beth a barodd iddo ymwrthod, fwy neu lai, â Christnogaeth fel cred.⁴⁰ Ar ôl dweud nad oedd hynny'n hollol wir, ac esbonio mai chwilio am ryw grefydd bersonol yr oedd, cyfeiria at y ffaith iddo ddweud unwaith mai crefydd hen bethau oedd ei grefydd ef. Ei sylw pellach yw: '...os galla' i ddod i gyffyrddiad ag unrhyw fyd ysbrydol drwy ystyried crefydd fy nhadau, y grefydd y'm magwyd i ynnddi, 'does gen i ddim byd yn erbyn hynny.' Nid yw'r gosodiad hwn yn taro deuddeg rywsut oherwydd iddo ddweud 'unrhyw fyd ysbrydol'. Gwelir yn 'Moddion Gras' iddo ddisgwyl cael 'profiad crefyddol o'r iawn ryw', neu fwynhad perffaith, er nad mwynhad ydyw i fod, hwyrach, meddai. Yr oedd y 'llwyfan' wedi ei gosod i esgor ar y profiad llesmeiriol hwn, gan fod y lle, yr amser, y person a thymer Parry-Williams ei hun yn creu'r sefyllfa ffafriol.

Ystyrir darn arall o'r sgwrs yn awr, ac yma, gellir ymdeimlo â chnewyllyn rhyw anniddigrwydd. Gofynna A. T. Davies i Parry-Williams a fyddai'n ystyried nad oes ganddo ddim i'w ddweud wrth 'grefydd gyfundrefnol, Gristnogol gyfundrefnol'. Ateba'r bardd nad oedd yn ystyried hynny, gan esbonio ei fod yn rhy ddyledus o lawer, lawer iawn i'r math yna o gefndir i anwybyddu'r peth. Ceisio cysoni ei dipyn enaid

ei hun a'r enaid a adlewyrchir yn y grefydd honno y mae: ymdrech ydyw, meddai, ac nid ymwrthod. Y cwestiwn nesaf yw a ydyw'n cymryd rhan mewn crefydd, a dengys yr ateb ei fod, weithiau: 'Mi â i wasanaeth crefyddol, neu rywbeth felly, 'does gen i ddim byd yn erbyn hynny, ac rydw' i'n cael blas a hefyd fendith 'rwy'n disgwyl o beth felly.'⁴¹ Digon simsan yw'r holl dystiolaethau uchod o grefydd gadarn Gristnogol.

Rhwyrstr arall iddo yw methu ag ymdeimlo â phrofiad crefyddol; rhoddai unrhyw beth am eneiniad y crefyddwyr, John ac Ann,⁴² ac ni welsai wreichionen yn llosgi yn y 'Burning Bush' y tu hwnt i Gapel-y-ffin, heb sôn am berth yn llosgi heb ei difa, er y buasai wedi rhoi unrhyw beth am weld un⁴³ (cyfeiriad at weledigaeth Moses pan siaradodd Duw ag ef o ganol perth a oedd yn llosgi heb ei difa. Exodus, 3). Ceisiwyd dangos uchod fod Parry-Williams yn awgrymu'n gynnil nad oedd pob un o'r capelwyr, ac yntau yn eu mysg, yn gwir ymdeimlo ag ystyr yr emynau yr oeddent yn eu canu. Dyma brawf eglurach ganddo ynglŷn â hynny:

Wrth astudio gwaith Ann Griffiths yn deg o'r safbwynt hwn a cheisio sylweddoli ei 'ystyr', rhaid gallu treiddio i ddirgelion cyfriniaeth grefyddol sydd yn ddieithr i'm hymwybod i, ac i hanfodion ysbrydoliaeth awenyddol o deip nad wyf i fy hun, ysywaeth, hyd yn hyn wedi sicr ymdeimlo ag ef, – er gallu, efallai, wir ymgynhyrfu ambell dro wrth geisio ymollwng i'r gorfoledd sy'n tonni drwy

emynau'r ferch ifanc nwydus, ryfedd honno o Sir
Drefaldwyn gynt.⁴⁴

Ceisio dal rhin emynau yr emynyddes yn ddistaw y dylid ei wneud, yn ôl
yr ysgrifwr. Awgryma y gellir ystyried bod pobl a gawsai dröedigaeth
neu ysgytwad crefyddol, heb fod yn gyfrinwyr, yn ymwybod â grym
ysbrydol y peth gan eu bod hwy'n defnyddio'r un delweddau a ffigurau-
ymadrodd crefyddol. Profiadau tebyg a gafodd llawer o ferched eraill,
gan ddefnyddio ffigurau'r Ysgrythur, yn ystod Diwygiad 1904-5,
meddai'r ysgrifwr, er nad oeddent hwy wedi ymenwogi yn sgîl hynny.

Ystyria Parry-Williams mai 'llwybyr cwblw groes i natur', yn wir, oedd
daliadau a chyffroadau Ann Griffiths ac ategir hynny yn ei sylwadau am
ei brofiad personol o Ddiwygiad 1904-5. Gwelir ei rigwm, '1904',
yn glŷn â'r Diwygiad yn *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905* a
gyhoeddwyd yn 1954⁴⁵ ac fe'i ceir, hefyd, yn ei gyfrol, *Myfyrdodau*.⁴⁶ Yn
ei sgwrs ag Aneirin Talfan Davies, dywed na chafodd yr un profiad â
phobl ifainc o'r un oedran ag ef - y baich pechod a oedd ar eu heneidiau
- ac felly, yr oedd tipyn o wahaniaeth rhyngddo ef a'r rheini o safbwynt
ymdeimlad crefyddol; rhywbeth sydd yn mynd i fyny ac i lawr yw'r
ymdeimlad hwnnw, meddai.⁴⁷ Synhwyrir, rywsut, na fyddai cymaint o

sôn am yr Ysbryd Glân wedi bod wrth fodd calon Parry–Williams ac ymddengys na dderbyniodd gynhysgaeth ei nain a oedd wedi clywed canu yn yr awyr yn ystod y Diwygiad, fel yr awgryma yn ‘Gweld y Gwynt’.⁴⁸ Yr oedd yr Ysbryd Glân a Pechod yn ganolog ym mhrofiadau’r pechaduriaid yn ystod y Diwygiad. Ceir un bregeth am dristáu yr Ysbryd Glân gan y Parchedig John Jones, Tal–y–Sarn, mewn cyfrol o’i bregethau a gyhoeddwyd yn 1869. Ni ellir llai na gofyn i ba raddau y deallai’r gynulleidfa y cwbl o’r bregeth, ond cynhwysir isod rai o’i sylwadau mwyaf dealladwy:

Goruchwyliaeth ar y meddwl ydyw gwaith yr Ysbryd; nid gweithredu ar hanfod yr enaid, ond dwyn sylw y meddwl at wrthddrychau ysbrydol, a’i ddwyn i deimlo yn briodol i’w pwys a’u mawredd.

Dyben holl oruchwyliaethau yr Ysbryd ar y meddwl ydyw planu tueddiadau newydd, sanctaidd, yn y galon; ffurfio egwyddor bywyd newydd; neu, yn iaith yr Ysgrythyrau yn fwy priodol, ‘rhoddi calon newydd,’ dwyn y galon i garu Duw, a sefydlu y cariad hwnw yn beth arosol.

Pa ham , gan hyny, y sonir cymmaint yn y Beibl am ‘wrthwynebu yr Ysbryd Glân,’ a’i ‘dristau,’ a’i ‘ddiffodd?’ Ai ymadroddion heb ystyr iddynt ydyw y rhai hyn? Dywedai Doctor Chalmers, fod cymmhelliadau yr Ysbryd dan lywodraeth y pechadur, i’w magu neu i’w diffodd yn ol fel y byddai ymddygiad y pechadur tuag atynt.

Nid ydym i ddeall y gair 'tristau' yn yr achos hwn yn ei ystyr priodol, ond yn gymmhariaethol. Nid yw Duw yn ddarostyngedig i boen a gofid; ac y mae uwch law teimlo tristwch yn briodol. Nid ydyw ei ddedwyddwch ef yn dibynnu ar ymddygiadau ei greaduriaid.

Y mae ymrysoniadau yr Ysbryd ar y meddwl, fel y dywedwyd, i ddyben caredig – yn tueddu at leshâd y pechadur.⁴⁹

Ym mhapurau y Dr. Llewelyn Wyn Griffith, ceir hanes Parry-Williams yn mynd gyda'i dad i Feddgelert i weld y diwygiwr, Evan Roberts, yn ystod haf 1904 pan oedd gartref ar wyliau. Ychydig iawn a gofiai am y cyffro diwygiadol rhyfedd, meddai, a chadarnha na chafodd ei 'ddal' ryw lawer gan y deffroad. Erbyn iddo ddechrau fel myfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth yn 1905, yr oedd pethau wedi tawelu ac ni welodd adwaith y myfyrwyr i'r Diwygiad, er iddo glywed llawer o hanesion gan rai a oedd yn y coleg ar y pryd. Flynyddoedd yn ddiweddarach, arfaethodd fynd i weld Evan Roberts yng Nghaerdydd yn ei henaint, ond oherwydd iddo golli'r cyfle, yr oedd wedi edifarhau fyth er hynny.⁵⁰ Pwy a wŷr y rheswm am y dymuniad hwn, bellach? Efallai ei fod yn dal i chwilio'n wirioneddol am 'elfen gnewyllynol' y grefydd Gristnogol.

Yn ei rigwm, '1904', cyfeiria 'golau Egryn', at ddigwyddiad enwog pan welodd Mary Jones, Islaw'r Ffordd, yn Ardudwy, olau yn yr awyr wrth

gerdded ar ei ffordd i gapel Egryn. Credai fod hyn yn arweiniad iddi dros bwy i weddio a chât sicrwydd fod rhai pobl wedi dod i'r seiat i'w cyflwyno eu hunain i Grist. Ymddengys fod pobl eraill wedi gweld y goleuni yn ddiweddarach. Dechreuodd Mrs. Jones gymryd cyfarfodydd a dywedid bod y golau yn hofran uwchben y lleoedd yr oedd yn gwasanaethu.⁵¹ Cadwyd toriadau papur newydd am yr hanes hwn gan Parry-Williams ac yn un ohonynt, sonia'r awdur, yn ôl y dystiolaeth a gafodd, mai llanciau'r ffermydd cyfagos oedd yn crwydro'r ffriddoedd gyda llusernau, ac yn twyllo'r saint druain.⁵² Yn y toriad arall, dywed awdur gwahanol iddo siarad â Mr. Hugh Edwards, ffermwr a chloddiwr aur o Gaerdeon Bont ddu, a oedd yn 83 oed ac a gofiai'r Diwygiad ar ddechrau'r ganrif. Ymddengys i Mary Jones fod yn pregethu i dorfeydd enfawr yn yr ardal, yn ôl ei dystiolaeth.⁵³

Cafwyd diwygiad mawr ym Meddgelert yn 1817, a ddechreuodd yng nghapel y Methodistiaid. Profiad yr athrawes Ysgol Sul mewn dosbarth o ferched ieuainc oedd y man cychwyn a cheir cyfrif da ohono yn *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau yng Nghymru* a gyhoeddwyd yn 1898.

Yn ei 'Ragdraeth', y mae'r Parchedig Edward Parry fel petai'n ewyllysio gweld dyfodiad Diwygiad 1904: 'Gobeithio hefyd y bydd darlleniad o'r

llyfr, o dan fendith Duw, yn foddion er creu awydd a hiraeth yn yr eglwysi am ddiwygiad crefyddol grymus a chyffredinol ar fyrder unwaith eto.’⁵⁴ Llesol iawn oedd Diwygiad 1904, yn ôl Henry Parry–Williams.

Credai i adran yr oedolion yn yr Ysgol Sul fod yn rhy geidwadol yn y gorffennol a bod llawer wedi blino ar undonedd sŵn yr Ysgol Sul ac yn cilio o’r herwydd. Meddai: ‘Yr oedd yr un peth yn wir am ein Seiadau, ond, diolch i’r Diwygiad, taflodd ni oll o’r hen rigolau tyllog.’⁵⁵

Dywed Parry–Williams yn ddigamsyniol wrth Aneirin Talfan Davies mai’r rhyfel oedd y rheswm pennaf am ei adwaith yn erbyn crefydd gyfundrefnol; hynny ysgytwodd grefydd pawb, yn ei dyb ef.⁵⁶ Pan ofynnwyd iddo beth oedd ystyr y grefydd Gristnogol yn ei olwg ef, atebodd:

Wel, mae cymaint; mae’n debyg iawn i’r hyn a glywais i’n cael ei ddweud yn adeg y rhyfel cyntaf – mi ofynnwyd i ryw ddyn yr adeg honno, mewn cyfarfod cyhoeddus, ydach chi, rydw i’n clywed ddim yn credu yn Nuw. ‘Duw pwy dach chi’n feddwl?’, medde hwnnw. ‘Duw hwn a hwn, ynte Duw hwn a hwn?’ Mae’n dibynnu ar ba agwedd ar y grefydd yr ydych yn ei derbyn, hynny yw, pa esboniad os mynnwch chi, neu ba, (dwn i ddim be’ ’di’r gair), pa arwyddocâd yn y grefydd yna sydd yn arwyddocâd gwirioneddol i chi. Mae ’na lawer o bethau ynglŷn â chrefydd gyfundrefnol wedi newid o oes i oes – ma’ nhw’n newid o flwyddyn i flwyddyn, ond ydyn. Chwilio am yr elfen gnewyllynol yna y mae dyn fel fi, i geisio cael gafael ar y gwir beth, yn

hytrach na'r ffrils sydd o gwmpas yr hyn a elwir yn grefydd gyfundrefnol.⁵⁷

Y mae'n debyg mai'r hyn sydd gan Parry-Williams o dan sylw wrth sôn am 'Dduw pwy?' yw'r ffaith fod gweinidogion a phregethwyr Cymru yn annog bechgyn a dynion y wlad i ymuno yn y frwydr yn ystod y rhyfel.

Yn ei erthygl yn *The Cambrian News*, y mae rhyw T. J. yn dyfynnu llythyr a gafodd gan Parry-Williams a dyma'r darn perthnasol o'r llythyr hwnnw:

Mi glywais stori am Niclas yn annerch cynulleidfa yn rhywle yn y De a rhywun yn gofyn iddo a oedd yn credu yn y bod o Dduw: yntau'n ateb drwy ofyn, 'Duw John Williams, Brynsiencyn ynteu Duw Puleston Jones'. Adeg y rhyfel byd cyntaf oedd hi.⁵⁸

Ymetyb T. J. yn yr erthygl fel hyn: 'Efallai fod y troed nodiad yna yn dweud rhywbeth am yr athro ac am ei ddiwinyddiaeth'. Yr oedd T. E. Nicholas neu 'Niclas y Glais', fel y'i gelwid, yn weinidog, bardd a gwrthwynebydd cydwybodol. Gwrthwynebai'n chwyrn ran y sefydliad milwrol, crefyddol yn ystod y rhyfel a chafodd ei gondemnio gan wrthwynebwyr gwleidyddol a chrefyddol oherwydd iddo siarad yn erbyn y rhyfel. Nid oedd neb mwy tanllyd na John Williams, Brynsiencyn, ar lwyfannau recriwtio gan iddo ystyried mai Rhyfel Sanctaidd oedd y rhyfel. Yr oedd yn rhaid amddiffyn y gwan, sef Gwlad Belg, a diogelu

dyfodol y werin Gymreig, yr iaith Gymraeg a chrefydd yng Nghymru.

Gweinidog a llenor oedd J. Puleston Jones, ac fel T. E. Nicholas, anerchai gyfarfodydd heddwch yn ystod y rhyfel er iddo ymuno â'r ymgyrch i gael bechgyn ifanc i ymladd dros eu gwlad.⁵⁹ Yn un o'i erthyglau yn *Y Brython* o dan y ffugenw, 'Oxoniensis', yn 1911, canmola Parry-Williams awdur *Salmau'r Werin*, sef T. E. Nicholas, oherwydd iddo ganu'n feiddgar a difloesgni, o'i gymharu â W. J. Gruffydd.⁶⁰

Dechreuodd Parry-Williams ar ei swydd fel darlithydd cynorthwyol yn Adran y Gymraeg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn 1914 a hynny'n bennaf oherwydd caredigrwydd ei fentor, Edward Anwyl, a fu farw ychydig ynghynt. Profasai'r bardd o Ryd-ddu ei allu ysgolheigaidd mewn llawer ffordd tra bu i ffwrdd fel myfyriwr yn Rhydychen, Freiburg a Pharis, ac yr oedd Anwyl wedi ceisio sicrhau swydd iddo yn yr Adran yn y cyfamser. I Parry-Williams, bu'r blynyddoedd rhwng 1914 a 1920 yn rhai tra gofidus ac yr oeddent i greithio ei bersonoliaeth yn ddyfnach fyth, o gofio'r rhwyg a brofodd pan aeth yn fachgen ifanc i ysgol Porthmadog. Achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf wewyr calon iddo oherwydd y lladd dianghenraid ac adlewyrchir hyn yn llawer iawn o'r cerddi a'r ysgrifau a gyfansoddodd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ychwanegol, fe'i

herlidiwyd yn ddirugaredd oherwydd ei heddychiaeth, ac yn 1917, cofrestrodd fel gwrthwynebydd cydwybodol a chael caniatâd mewn tribiwnlys i barhau â'i waith academaidd. Bu cryn drafferth, hefyd, ynglŷn â'r Gadair yn Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru Aberystwyth yr un pryd. T. Gwynn Jones, Timothy Lewis a T. H. Parry-Williams oedd yn gyfrifol am Adran y Gymraeg ar ddechrau'r rhyfel a Timothy Lewis wedi bod yno fel darlithydd cynorthwyol ers 1910. Pennaeth yr Adran Hanes, Edward Edwards, oedd yn gweithredu fel Pennaeth dros dro ar Adran y Gymraeg. Bu cadair Edward Anwyl yn wag o 1914 tan 1920 pan benodwyd Parry-Williams iddi ar ôl oediad blinderus.⁶¹

Aeth ei ddau frawd, Wynne ac Oscar, i ffwrdd i'r rhyfel ac ymunodd y brawd arall, Willie, yn y frwydr tra oedd yn byw yn America. Nid oes ddwywaith na fyddai eu tad wedi ymfalchio yn hynny gan iddo gredu y byddai crefydd yn gynhafiaeth i'r holl fechgyn a'r dynion a wynebai angau ar faes y gad. Sonia Henry Parry-Williams am filwr yn marw yn Sebastopol ac yn gofyn i'w gyfaill ganu 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonau (sic), Nid oes neb a ddeil fy mhen'. Meddai Henry Parry-Williams:

Mor werthfawr oedd medru yr hen emyn y pryd hwnw! ...
Daw yn Sebastopol arnom ninnau cyn bo hir, a chawn ein
hunain yn glwyfedig ar fron y maes. A fedrwn ninnau

hefyd ganu y pryd hyny 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonau, Nid oes neb a ddeil fy mhen, ond fy anwyl briod Iesu, A fu farw ar y pren'.⁶²

Yn 'Colofn Beddgelert' yn *Y Genedl Gymreig* ar 8 Rhagfyr 1914, ceir cofnod am fechgyn yn ymuno â'r fyddin yn dweud bod 60 o ddynion ifainc Beddgelert wedi ymuno, a'r sylw yw: 'Beth sydd i gyfrif fod dynion Nantmor, Nantgwynant a Rhyd-ddu mor ddi-gychwyn? Y mae amryw ohonynt yn ddynion cryfion, iach.' Cafwyd cywiriad yn yr un papur ar 15 Rhagfyr 1914 yn ymddiheuro gan ddweud mai 20 oedd y nifer a oedd wedi mynd i'r rhyfel a bod rhai o'r rheini eisoes wedi ymuno mewn manau eraill. Ar 18 Gorffennaf 1916, dywedir bod R. Wyn Parry (sic), Tŷ'r Ysgol, (brawd Parry-Williams), yn mynd i Barc Cinmel i ymuno â'r fyddin.⁶³ Ar 20 Chwefror 1917, ceir cofnod o farwolaeth llys-fam Henry Parry-Williams, Mrs M. Parry, Gwyndy, Carmel a oedd wedi bod yn dra charedig a gofalus o Henry Parry-Williams yn ei ieuenctid.⁶⁴ Ar 31 Gorffennaf 1917, dywedir bod Pte. W. Frances (sic) Hughes (Wil Oerddwr, cefnder Parry-Williams) wedi dod adref (o'r rhyfel) am ychydig o amser.⁶⁵ Gwelir ar 21 Ionawr 1919 fod disgwyl i'r Corpl. Richard Wynn Parry (sic) ddod adref o'r Almaen, ac yntau wedi bod yn garcharor ers cryn amser.⁶⁶ Ceir cofnod ar 6 Mai 1919 fod Mr William F. Parry Williams

(sic) (Willie, brawd arall Parry–Williams) wedi ymweld â'i hen gartref yr wythnos flaenorol ar ôl bod ym myd y Gorllewin am oddeutu naw mlynedd. Yr oedd wedi ymuno â Byddin America ac wedi bod yn aros yn Ffrainc am gryn amser.⁶⁷

Meddai'r gohebydd:

Clywais Parry Williams ers tro yn ol yn datgan ei ofnau na chai weled y plant gyda'u gilydd ar ei aelwyd byth mwy. Ond er llawenydd, da gennyf weled na sylweddolwyd ei ofnau. Cafodd eu gweled oll gyda'u gilydd yn eu hen gartref yr wythnos ddiwethaf; a mawr oedd ei lawenydd wrth gael tynu eu darluniau gyda'u gilydd ar lan Afon Gwyrfai, ger pont y Factory. Yr oedd yn llawen iawn eu (sic) ... weled William ac yn edrych mor dda a siriol. Deallwn ei fod bellach yn wr priod ers rhai blynyddoedd. Dymunwn ei lwydd yn fawr iawn yn y wlad bell.⁶⁸

Yn ôl Wynne, mewn llythyr dyddiedig 21 Mai 1918 at ei fam a'i dad, y mae un o'i glustiau yn dda i ddim a dywed nad oes diben dweud dim wrth y meddygon oni bai bod braich neu droed rhywun wedi torri neu fod rhywun wedi marw. Hefyd, gofynna ymhle y mae ei frawd, Oscar, ar y funud. Ymddengys fod Oscar wedi ymadael â'r Byddinoedd Prydeinig yn Ffrainc erbyn 5 Ebrill 1919 gan i'r Uwchgaptan, A. H Heslop, ysgrifennu geirda amdano ar y dyddiad hwnnw o Bencadlys y

Byddinoedd Prydeinig. Dyma ddechrau'r llythyr ac â'r llythyrwr rhagddo
i ganu clodydd Oscar:

Sir,

I would like to give you a slight appreciation of the excellent work done in this office by Mr J. O. PARRY-WILLIAMS late Private R. A. M. C.

Mr PARRY-WILLIAMS was a clerk in the office of the Director General Medical Services at General Headquarters, France for about six months, and during that time was serving directly under me. I cannot speak too highly of his work and I thought so much of him that I sent his name forward to be mentioned in Dispatches and this appreciation I hope, will be given him.⁶⁹

Tra oedd rhai o'i frodyr yn y rhyfel, treuliai Parry-Williams gryn amser ar fferm 'Oerddwr', cartref ei Anti Betsi, Elizabeth Hughes, chwaer ei fam, a Wil (William Francis Hughes), ei gefnder. Ceir cofnod o'i arhosiadau yno yn llyfr y teulu, 'Llyfr Melyn Oerddwr' ac ynddo, hefyd, gwelir llawer o gyfeiriadau at aelodau eraill o'i deulu, gan gynnwys ei chworydd, Blodwen ac Eurwen. Ymddengys mai yma y cyfansoddodd lawer o gerddi a gyhoeddwyd yn ddiweddarach, gan gynnwys 'I Gi', a 'To a Dog' (1917); 'Gweddi' (1918), sef 'Gwahaniaeth' yn ddiweddarach; 'Nadolig 1916' a'r fersiwn Saesneg ohoni; 'Cysur' (1917); 'Y Corff'; 'Marw'(1916); 'Y Pagan' (1916); 'Crist yn Ddeugain Mlwydd Oed' (1916), ac 'A bwrw Iesu' (1915). Hefyd, gwelir rhai cerddi eraill - '1916

Oerddwr' (1916); 'Y Milwr Gorfod' (1916) a 'Dagrau'. Yn ei wewyr dirdynnol, yr oedd wedi ysgrifennu cyfieithiad John Morris-Jones o benillion pruddglwyfus Omar Khayyâm ar un ddalen: 'Nid budd i'r rhod ...'; 'Yma ni ddaethwn ...' a 'Pe gallwn lunio'r nefoedd ...' Y mae'r rhan fwyaf o'r cerddi uchod yn deillio o ffynhonnell grefyddol, ac ynddynt, y mae Parry-Williams yn dangos ei agwedd tuag at y rhyfel ac yn ceisio dod i delerau â'i deimladau ei hun am grefydd. Ceir yma englyn ganddo i Anti Betsi, hefyd:

Yn ei hundŷ di-ddwndwr anwylyd
Sy'n neheulaw'r Crewr
A distaw iawn a di-stwr
Ydyw llwch harddwch Oerddwr.⁷⁰

Yr oedd Wil Oerddwr yn dipyn o fardd a bu ar grwydr yn America, Ffrainc a Lloegr. Gwelir llawer iawn o gerddi aelodau teulu Oerddwr a gwaith beirdd eraill yn y gyfrol ddiddorol, *Cerddi Eryri* (1927),⁷¹ sydd yn darlunio hynt a helynt trigolion yr ardal honno. Cyhoeddwyd *Cerddi William Oerddwr* yn 1954 gyda rhagair gan Parry-Williams, a dyma'r ing a brofodd y bardd pan aeth dros y môr i ymladd yn y rhyfel:

Bûm minnau tua Somme a thir Perôn
Yng nghanol brwydrau hyll a thywallt gwaed,
A hogiau Sir Gaernarfon a Sir Fôn
Yn sgyrion yn yr wtra dan fy nhraed.

Deisyfwn cyn fy nghychwyn am y drin,
P'run bynnag a ddown 'n ôl ai peidio'n fyw,
Am dynnu f'enw i ffwrdd o lyfrau crin
Y capel bach, rhag ofn insyltio Duw.
Ond Beibl hardd yn anrheg roed i mi,
Pan ddeuthum yn fy ôl o'r Rhyfel Mawr,
Gan eglwys anrhydeddus yr M. C.,
A'm henw wedi'i dorri ar ei glawr.
Syrffedais gymaint ar eu rhodd a'i thruth
Nes oedi agor clawr fy Meibl byth.⁷²

Ymddangosodd pedair o ysgrifau Parry-Williams yn *Y Wawr* rhwng

1915 a 1917 – 'Eiconoclastes' (1915)⁷³; 'Yr Hen Ysfa' (1916);⁷⁴ 'Y Trydydd' (1917),⁷⁵ ac 'Ar Gyfeiliorn' (1917),⁷⁶ lle y mae Parry-Williams yn traethu amdano'i hun yn y trydydd person. Yn 'Y Trydydd', dywedir iddo orfod gadael ei ardal oherwydd iddo gyflawni rhyw anfadwaith, ac mai'r lliw coch oedd yn gyfrifol am hynny. Cyfeirio at y rhyfel y mae'r lliw coch, fel y gwelir o ddarllen ei ysgrif, 'Criafol',⁷⁷ a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 1914. Sylwasai fod mwy nag erioed o griafol ym mis Awst y flwyddyn honno a chysyllta hwynt â'r gwaed a gollwyd yn y rhyfel. Yn 'Y Trydydd', efallai mai cyfeirio at y ffaith iddo symud o Ryddu i Oerddwr am gyfnodau yn ystod y rhyfel y mae, ond ni wyddys beth yw'r cyfeiriad at ryw anfadwaith, heblaw am y ffaith iddo gofrestru fel gwrthwynebydd cydwybodol. Fodd bynnag, gellir tybio mai'r ffaith iddo

ddechrau cyhoeddi ei waith, yn datgan iddo golli ei gred grefyddol, sydd yn cyfrif am hyn. Yr oedd wedi cyhoeddi'r gerdd, 'Ymliw', yn *The Grail*

ddwy flynedd cyn dechrau'r rhyfel:

Nac edliw imi f'anghred, – nid oes nos
Fel nos fy enaid.
Mae lamp mabolaeth heno yn y ffos,
A llaith yw'm llygaid.

Gan syllu am y seren glywsom gynt
Oleuai lwybrau
Dyrus ieuenctid, ar gyfeiliorn hynt
Y cynnar ddyddiau.

Nac edliw imi f'anghred, – nid oes nos
Fel nos fy enaid.
Medd llais, Daw'r wawrddydd fel anwylyd dlos
I olchi'th lygaid.⁷⁸

Efallai y gellid cysylltu'r gerdd hon â dwy linell olaf ei soned,
'Gwahaniaeth', sydd yn dangos bod rhywrai o hyd yn gweld sêr

Bethlehem ac eraill yn hollol ddall:

Yn hytrach, Arglwydd, cenfydd yma rai,
Ymysg trueiniaid daear, sydd â'u trem
Yn treiddio beunydd trwy baradwydd clai
I wyllo'r sêr o hyd ar Fethlehem;
Yn gweld y golau nad yw byth ar goll
Yng nghors y byd, – a'r lleill yn ddeillion oll.⁷⁹

Y mae'r cerddi a gyfansoddodd Parry-Williams yn ystod y rhyfel yn rhy niferus i'w trafod yn unigol ac yn fanwl yma, ac felly, ni wneir ond

rhestru rhai ohonynt ac ymdrin ag eraill yn fwy trylwyr; gosodir dyddiad cyhoeddi ar eu hôl. Ymddangosodd rhigwm di-deitl yn *Y Goleuad* ar 14 Tachwedd 1915 ond gellir ei adnabod fel 'A bwrw, Iesu'.⁸⁰ Dylid crybwyll yma mai hwn oedd rhigwm cyntaf Parry-Williams, yn ôl pob golwg. Swm a sylwedd y gerdd yw bod y bardd yn ystyried a fyddai Iesu Grist yn gallu goddef bywyd o dan ofid y cledd a'r gwn pe byddai ond yn ddyn cyffredin pan fu farw ar y groes. Pe byddai'r bardd yn gwybod hyn, efallai y byddai ef yn gallu byw yn y byd a chofio'r Iesu, 'A byw yn Grist yng ngwallgofrwydd oes/ A marw, o'r herwydd, ar ddeupren croes.' Yn 'Y Pagan' (1915),⁸¹ dywed Parry-Williams iddo gefnu yn gadarn ar gred ei dad 'O weled nad Duw mo dduw ei wlad.' Disgrifia ei hun fel pagan di-dduw yn chwilio am Grist yn ei ffordd ei hun. Wedyn, ceir 'Thirty-Three' (1916)⁸² pan yw'n gofyn paham y dylai ef ofni'r oed hwnnw. Yn 'Crist yn Ddeugain Oed' (1916),⁸³ dechreua'r bardd gan ddyfalu beth fyddai dyfodol Crist oherwydd ei fod yn herio ffawd fel ynfytyr wrth bledio'r gwir. Gofynna pa les a geid iddo o farw dros y gwir ar ddeupen croes wrth iddo feddwl am y peth yn ddeg ar hugain oed. Am fod dyn yn ddiddim, dywed ei bod yn well iddo fyw i'r pen yr hen addewid sydd yr yr Ysgrythur Lân na dilyn daliadau poeth ieuencid.

Swm a sylwedd y gerdd yw'r amheuaeth ynglŷn â gwerth Y Croeshoeliad. Beth a fyddai wedi digwydd pe na bai Crist wedi ildio yn dair ar ddeg ar hugain oed? Ymddangosodd 'Christmas, 1916' yn *The Dragon* ym mis Mawrth 1917. Yma, dywed y bardd fod rhyw ysbryd direidus yn dymuno tangnefedd ar y ddaear yn goeglyd drwy dwll y clo ar fore Nadolig. Yn 'Duw ar Fawrth' (1917),⁸⁴ dechreua'r bardd gyda dyfyniadau o'r Beibl, 'Yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd a chwardd' – cyfeiriad at Dduw yn chwerthin am ben brenhinoedd y ddaear, efallai (Llyfr y Salmau 2:4), a 'Iesu a wylodd' – cyfeiriad at yr Iesu yn wylo dros Gaersalem, efallai (Luc 19:41). Yn y gerdd, dywed Duw iddo roi 'darnau gloywon o Dduw' i Ddyn i orchfygu Natur ond bod Dyn wedi rhagori arni gyda'i harfau hi ei hun, sef creulondeb. Dywed ei fod Ef wedi rhoi mwy o Dduw mewn Un (Iesu Grist) nag yn y cwbl oll a bod Crist wedi mynd ar ddifancoll ar y ddaear. Dywed Duw, os crea eto fod fel Dyn, y bydd yn ei osod ef a'i dylwyth ar y blaned Mawrth i chwarae yng ngwaed ei gilydd; gŵyr Duw mai dim ond ychydig sydd yn gadwedig. Dywed Ef y byddai'n rhoi rhai bach ar Wener gydag ef pe byddai'r rhai bach hynny'n rhoi ffydd ar arfau cariad, a bydd Duw wedyn yn wylo ar Wener 'fel y Dyn oedd fwyaf Duw.'

Yn 'Jerusalem, Jerusalem' (1917),⁸⁵ y mae Parry-Williams yn ochain fod

Crist yn wawd a'i fod wedi marw yng Nghymru. Dywed iddo dyngu, pan oedd yn yr Almaen, y mynnai gasglu plant ei wlad dan ei adain fel y gwnaeth Crist yn heolydd Salem gynt.

Ceir darlun o'i brofiad yn yr Almaen yn ei ysgrif, 'Creithiau',⁸⁶ a gyhoeddwyd yng Ngwanwyn 1914. Ynddi, disgrifir y modd y byddai myfyrwyr Prifysgol yr Almaen (Freiburg, 1911–1913) yn ymladd yn anghyfreithlon â'i gilydd gyda chlefyddau, gan geisio ennill y nifer fwyaf o greithiau ar eu pen a'u hwynebau. Fe'i hatgoffwyd o hyn pan welodd Almaenwyr creithiog ym mwrlwm prifddinas gwlad arall (Paris, efallai) ar ôl hynny, gan beri iddo aroglu gwynt rhyfedd y lle y cynhelid yr ymladd. Cofiodd am yr awel groyw a ddeuai o Alpau'r De trwy bîn y Fforest Ddu yr un pryd. Ceir cyfrif o'r achlysuron hyn gan yr ysgrifwr yn 'Ar Fôr ac ar Dir' (1956)⁸⁷, hefyd, lle y dywed iddo syllu ar wir waed yn cael ei dywallt, a hynny heb neb yn dal dig. Bron ar ddiwedd yr ysgrif, datgana: 'Fe broffwydodd Eseia unwaith y byddai'r ddaear yn datguddio'i gwaed. Yr adeg honno, fe welir cryn dipyn o waed coch yn y Fforest Ddu.' Ceir islais, yma, o'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r tywallt gwaed didrugaredd a ddychrynodd yr holl fyd am amser maith i ddod.

Yn rhai o'r cerddi uchod, ymuniaetha'r bardd â phrofiadau Crist, a hefyd, ystyria ef yn Grist-ddyn. Yn ychwanegol, gellir dweud ei fod yn chwilio am Grist yn ei ffordd ei hun. Ysgrifennodd Dyfnallt Morgan y llyfr, *Rhyw Hanner Ieuencid*, (1971), am gynnyrch llenyddol cynnar Parry-Williams, ac yn ddiweddarach,⁸⁸ dywed i'w sylw gael ei dynnu at gerdd na wyddai amdani pan gyhoeddwyd ei lyfr. Awgryma fod y bardd o Ryd-ddu wedi 'gwrthgilio' ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd mai Crist sydd yn chwilio amdano ef ac nid i'r gwrthwyneb. Atgoffir Dyfnallt Morgan o'r gerdd enwog, 'The Hound of Heaven', gan Francis Thompson, bardd y cyfeiriodd Parry-Williams ato yn ei ysgrif, 'Eiconoclastes', fel y gwelir maes o law. Enw cerdd Parry-Williams yw 'Y Gwylwr' a'r dyddiad yw Mehefin 1919:

'Gwelais dydi'n fachgennyn byr dy gam
Yn gadael d'uchel fro a'r awyr iach
Am ysgol gwaelod gwlad, a Duw dy fam
Oedd awdur llyfryn yn dy becyn bach.

'Clywais dydi, a hiraeth yn dy lef,
Yn ychwanegu at dy bader fer,
Wrth addunedu cerdded ffordd y nef,-
A chwarddai'r fall wrth iti roddi'r her.

'Gwyliais dydi'n beirniadu barnau'r byd,
Yn pwysu ac yn mesur meddwl Duw,
A balchder gwybod yn d'ymffrosgar fryd,

Wrth wfftio marw a rhodresu byw.

'Deliais dydi ryw fore, pan oedd gwedd
Mynyddoedd allfro'n wyn gan risial rin,
Yn tynnu i'th enaid wyrth daearol hedd,
A mawl y ddaear ar dy feiddgar fin.

'Collais dydi flynyddoedd wedi hyn,
Ac nid adwaenai llwybrau'r nef mo'th droed,
Na llwybrau'r ddaear. Tybiais mai yng nglyn
Cysgod yr angau y cywirit oed.

'Ceisiais dydi ym mhob diarffordd fan,
Ond ni'th ganfûm, a mi o'th golli'n drist.
Ple'r oedd dy drig?' Atebais innau'n wan,
'Ni wn , ond wele fi, fy Arglwydd Grist.'⁸⁹

Yn 'Eiconoclastes', dywed Parry-Williams i'w athroniaeth bywyd fynd yn fwy gwirioneddol iddo ar ôl iddo grwydro'r byd. Ar ôl dychwelyd wedi tair blynedd, sylweddola ei fod yn casáu unrhyw len ar hanfod pethau oherwydd iddo weld noethni bywyd pan oedd i ffwrdd. Yr oedd wedi meiddio meddwl a mynegi ei feddyliau, yn groes i eraill a oedd yn cuddio eu rhai hwy â geiriau gwag, yn ddelwau a addolid. Dywed iddo ddod yn ddrylliwr delwau didrugaredd. Yma, hefyd, datgana heb flewyn ar dafod, ei fod yn ' wfftio cred ei dadau' ac yn 'cofleidio cas a herio cariad, wrth chwilio am y gwirionedd.' Dywed ei fod yn edrych ar bethau pwysig mewn byd a bywyd yn eu noethni dilen ' â llygaid heb eu pylu gan na thraddodiad gwerin na chredo cymdeithas.' Y darn mwyaf

arwyddocaol yw'r lle y dywed y canlynol, sydd yn cytuno â chynnwys ei

gerdd, 'Y Gwyliwr':

Dysgasid ef yn blentyn i barchu'r delwau hyn, a chadwodd
hwy heb eu dryllio'n hir, gan led-ofni hwyrach fod bywyd
ac enaid ynddynt wedi'r cwbl, ond clywais a gwelais ef yn
torri rhai o honynt fy hunan.⁹⁰

Yn nes ymlaen, datgana ei fod yn meddwl iddo lunio ei athroniaeth yn
rhy gynnar yn ei fywyd oherwydd bod yn rhaid iddo gael un o ryw fath.

Rhamantiaeth (fel 'mŵd teimladol, meddal a chyfriniol' y disgrifia'r
ysgrifwr ei feddylfryd) oedd ei athroniaeth yn ystod ei blentyndod, wrth
gwrs – y rhamantu hiraethus am ei gartref tra oedd ym Mhorthmadog a
hefyd ei ddewis o feirdd rhamantaidd fel Ceiriog, R. Silyn Roberts a W. J.
Gruffydd. 'Daeth yn offeiriad sanct ei grefydd gudd', meddai, gan
gyfeirio at linell o 'Cerdd y Gwanwyn' yn *Telynegion* y ddau fardd olaf).

Dengys hyn nad oedd Parry-Williams eisiau gwybod. Dyma'r pedair

llinell olaf o'r delyneg:

Boed yno deml ddistaw dan y gwŷdd,
Lledrithiol allor heb un fflam yn oleu,
A mi'n offeiriad sanct fy ngrefydd gudd
Heb wynfyd gwybod ac heb bennyd ameu.

Gellir cymharu'r uchod ag ysgrif Parry-Williams, 'Archoffeiriad', o ran ei
naws, lle y mae'n dyheu am gael Archoffeiriad yn byw yn un o gilfachau

tawel teml Eryri i wrando cri unigolyn a fyddai'n dioddef gwewyr
ysbrydol. Yn yr ysgrif, cyferbynna'r profiad ysbrydol a gaiff cyfrinydd
crefyddol â'i brofiad ysbrydol ef.⁹¹ Rhamantaidd oedd ei
gyfansoddiadau ef ei hun, tan yr ymddangosodd ei bryddest drawiadol,
'Y Ddinas',⁹² yn 1915 gyda'i darlun digamsyniol o hagrwch bywyd.

Fodd bynnag, yn 'Eiconoclastes', dywed Parry-Williams iddo dyfu allan
o'r dymer feddal gan ddechrau ei chasáu'n ddidrugaredd. Yn y dymer
honno, yr oedd wedi dechrau barddoni, ond llosgodd ei farddoniaeth
natur ar ôl i'w chwaer ddod i wybod amdani. Y mae'n rhaid cofio yma
iddo anfon cerdd at ei dad yn ystod y cyfnod a dreuliodd yn ysgol
Porthmadog ac i hwnnw ddweud wrtho am beidio â thrafferthu â'r math
yna o farddoniaeth. Teimla Parry-Williams na fu erioed yn fachgen yn y
cyfnod hwn ac mai ar ôl iddo ddyfod yn ugain oed yr oedd ysbryd
bachgen ynddo, os o gwbl; fodd bynnag, glynai ei ddynoliaeth wrtho o
hyd. Yr adeg honno yr oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol
Aberystwyth. Y teimlad a geir yw ei fod wedi ei fygu â syniadau hen
ffasiwn, ceidwadol cyn hyn, gan ei wneud yn ddyn cyn ei amser a bod y
Brifysgol wedi ei ryddhau i'w alluogi i feddwl drosto'i hun. Fodd
bynnag, gwaethygodd pethau yn ddiweddarach ac yr oedd pobl yn ei

alw'n oriog a di-hid. "Knowledge is Power", – knowledge is pain', meddai yn ei ysgrif, 'Noethlymun (Profiad Munud Awr)' (1913),⁹³ gan gyfeirio at y ffaith iddo ddyheu am wybod pethau rhag cywilydd, efallai. Syniai mai dyna paham y tyrrai pobl ieuainc i ddarlithoedd cyhoeddus rhai prifysgolion. Er bod ar Parry-Williams eisiau gwybod, chwerw yw'r gwybod, meddai. Y mae rhywbeth wedi peri dadrithiad llwyr iddo, yn ôl pob golwg, ar ôl iddo ddechrau ymgodymu â phethau mawrion. Ar y llaw arall, ymddengys i'r profiad hwn fod yn un gwerthfawr dros ben iddo, oherwydd dywed yn 'Eiconoclastes' na hoffai fynd yn ôl ryw ddwy flynedd neu dair yn ei oes. Y mae'r gair 'dysgasid' yn yr ysgrif honno yn ddadlennol iawn. Wedi'r cyfan, sylwir ar y ddwy frawddeg ganlynol yn 'Y Gwylwr': 'Wrth addunedu cerdded ffordd y nef,-/ A chwarddai'r fall wrth iti roddi'r her.' Yn 'Eiconoclastes', y mae naws grefyddol i'r geiriau 'addoli' a 'delwau'. Ac yn y gorffennol, a oedd y capelwyr yn meddwl yn ddiffuant neu a oeddent yn cuddio eu meddyliau â geiriau gwag wrth ganu'n 'ddiniwed' heb wir ddeall ystyr geiriau'r emynau? Ai delwau crefydd y mae wedi eu dryllio? – y delwau y dysgasid iddo eu parchu ar ei hen aelwyd yn Rhyd-ddu? Cofier iddo ddefnyddio'r geiriau 'parch' a 'parchus' sawl gwaith yng nghyd-destun crefydd. Y mae Parry-Williams

fel petai wedi derbyn darlun eglur o ddatguddiad sydd yn ei

argyhoeddi'n ddwfn; y mae wedi cael 'syniadau am bethau mawr'.

Oherwydd hyn, y mae arno ofn undonedd y dyfodol am nad yw'n

meddwl y caiff gynyrfiadau mawr eto wrth fynd i mewn i hanfod pethau,

fel a gafodd yn y rhewlif, yr *Unterer Gletscher*, yn yr Yswisdir.

Gellir, mewn un modd, gysylltu'r syniad o fynd i mewn i hanfod pethau â

meddygaeth, a hefyd, y mae cyfatebiaeth rhwng rhewlif a theatr

lawdriniaeth o ran glendid. Gwelwyd ym mhennod pedwar iddo ddilyn

cwrs gwyddonol yn 1919, a hefyd, iddo geisio rhoi ail gynnig ar ddilyn

cwrs meddygol yn 1935, ond gwir dweud ei fod â'i fryd ar yr un yrfa yn

1915. Daeth hynny i'r amlwg yn sgîl helynt ynglŷn â'i swydd yng

Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth.⁹⁴ Ymhellach, ceir hyn yn ei ysgrif, 'Ar

Gyfeiliorn':

'Pan oeddwn yn lashogyn, nid oedd arnaf eisiau mynd yn blismon, yn llongwr, nac yn sowldiwr, fel y rhelyw o fechgynnos yn gyffredin ... pederfynais yn weddol gynnar (ac yr wyf eto o'r un farn yn gymwys ar bwnc galwedigaeth) mai yn un o ddau beth y mynnwn i fod, pe cawn fy newis, sef yn ffarmwr neu'n feddyg. Trin pridd y ddaear y mae'r ddau, a dyma'r unig beth dan haul gwerth ei drin, a'r unig beth sydd ag angen ei drin. Teimlwn y dylai pawb a allai neu oedd a'r duedd ynddo fynd yn ffarmwr neu'n feddyg, neu'n well byth, yn dipyn o'r ddau ...

Ymhen rhyw dair neu bedair blynedd euthum i'r Coleg am gwrs mewn Amaethyddiaeth, a bum yno am bedair blynedd yn dysgu'r gwahanol ganghennau cysylltiedig o wyddoniaeth. Yr oedd yn fy mryd astudio meddyginiaeth a gadael i amaethyddiaeth, oherwydd tybiwn mai hi oedd yr alwedigaeth fwyaf Cristionogol ac anrhydeddus yn y byd ...

Y canlyniad fu i mi allu fforddio cychwyn i brifysgol arall am gwrs newydd a threulio blynyddoedd i astudio'r ffordd i drin pridd y ddaear mewn gwedd newydd. Ond nid ediferais byth imi wneuthur y fargen. Wedi yfed yn fwy aiddgar na neb wybodaeth am feddyginiaeth gyffredinol, dechreuais roddi sylw arbennig i'r ymennydd, a'm llwyddiant yn y gangen hon sy'n gyfrifol am y geiriau '*brain specialist*,' a gysylltir a'm henw heddyw. Dyn ydwyf sy'n ceisio dwyn dynion oddiar gyfeiliorn.⁹⁵

Tybed a oedd ei ddyhead am fod yn feddyg wedi dechrau egino yn bell cyn amser y rhyfel a'i fod wedi crybwyll hynny gartref o gwbl? Y mae'n amlwg sut y teimlai ei dad ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng y corff a'r enaid:

Ond meddylier am y gwaith sydd iw gyflawni. Pwysig a chywrain ydyw gwaith y meddyg, a gwerthfawr ydyw meddyg da bob amser. Ond y corff yn unig sydd ganddo iw ymgeleddu. Beth am yr athraw? Dyna gywreinwaith – bod yn ddigon cywrain i agor y meddwl ieuanc – y pelydryn dwyfol yna sydd yn y plentyn i heulwen gwybodaeth belydru i fewn iddo neu yn hytrach allan ohono.⁹⁶

Hawdd sylweddoli mai'r Rhyfel Byd Cyntaf a ysgogodd Parry-Williams i lunio'r pedair ysgrif, 'Eiconoclastes', 'Yr Hen Ysfa', 'Y Trydydd' ac 'Ar Gyfeiliorn'. Yn 'Ar Gyfeiliorn', ceir y gwahaniaeth rhwng amaethyddiaeth

a meddygaeth, dwy alwedigaeth hanfodol, yn enwedig yn ystod y rhyfel, i gynnal bywyd. Yn ychwanegol, sylwir nad oedd ar Parry–Williams eisiau bod yn ‘blismon, yn llongwr, nac yn sowldiwr’. Efallai mai’r rhain oedd yn cynrychioli’r ochr arall i’r ffens iddo parthed rhyfel – cyfraith gwlad yn mynnu anfon bechgyn i’r rhyfel yn sgîl Deddf Gorfodaeth Filwrol yn 1916, a milwyr a llongwyr wrth eu miloedd yn ‘gwneud eu rhan’ yn y frwydr fawr. Y mae cyferbyniad clir, hefyd, rhwng ynfytn call a dyn y synnwyr cyffredin yn yr ysgrif, sydd yn thema eithaf amlwg yng ngweithiau Parry–Williams yn ystod y rhyfel. Ystyriai Grist ac ef ei hun fel ynfytn call, hynny yw, eu bod yn ynfytn yng ngolwg y byd oherwydd eu daliadau ynglŷn â heddwch ar y ddaear a’r erledigaeth a brofasent, ond yn gall yn eu golwg eu hunain. Dall oedd ‘dyn y synnwyr cyffredin’, hynny yw, y rhai na feddylient o ddifrif am bethau mawr bywyd, fel awdurdodau ac unigolion a gofleidiai ryfel yn eiddgar. Yn yr ysgrif o dan sylw, ceir llawer o ddywediadau sydd yn gysylltiedig â marw neu ladd gan yr ynfytn call, Dafydd Wiliam, sydd weithiau yn ‘ymlid cythreuliaid’:

‘Y mae pob dyn byw yn ei ladd ei hun, a phob dyn marw wedi ei ladd ei hun.’

'Petai dyn yn gwybod sut i fyw, gallai fyw am gannoedd o flynyddoedd.'

'Prif ac unig amcan pob bywyd ydyw cadw bywyd yn fyw.'

'Gelyn mwyaf Cristionogaeth ydyw dyn y synnwyr cyffredin.'⁹⁷

Tra oedd Parry-Williams yn ymweld ag Oerddwr ac yn cynorthwyo gyda'r gwair yn awr ac yn y man, cafwyd cofnod yn *Y Genedl Gymreig* ar 9 Ionawr 1917, yn dweud bob amaethwyr yn paratoi at aredig mwy o dir nag erioed y flwyddyn honno. 'Boed llwyddiant i'w llafur ymroddgar', meddai'r gohebydd, gan ddatgan eu bod yn gwneud eu rhan i gyfarfod â gofynion y wlad.⁹⁸

Yn 'Eiconoclastes', â Parry-Williams ymlaen i feirniadu pobl ifainc a gymerai rywun fel ef mor ysgafn. Y mae ef yn meddwl am ei dynged a'i rawd yn y byd ac yn cyfaddef mai ffolineb yw meddwl a theimlo o ddifrif, ac nad oes fawr o heddwch na hapusrwydd mewn peth felly.

Wrth gwrs, gall 'mynd i mewn i hanfod pethau' olygu pendroni dros fywyd yn gyffredinol, yn enwedig dros yr ochr ysbrydol. Yn yr ysgrif, dyfynna un o linellau Wordsworth, '*The world is too much with us.*'

Crybwylla frawddeg arall o'r gerdd hon yn ei erthygl, 'Y Critig Newydd':

'I'd rather be/ A pagan suckl'd in a creed outworn'. Dywed y byddai

truan beiddgar a ysgrifennai hyn yn cael ei gollfarnu am nad oedd peth felly'n Gristnogol.⁹⁹ Ystyr geiriau Wordsworth yw nad oes digon o gymundeb rhwng unigolyn a Natur i'w llawn werthfawrogi oherwydd ei fod wedi dinistrio ei bwerau. Dylid ychwanegu yn y fan hon fod gan Wordsworth linell sydd yn disgrifio ei brofiad ysbrydol ei hun mewn cerdd arall lle y dywed: 'We see into the life of things'¹⁰⁰ a hawdd fyddai cymharu hyn â sythwelediad Henri Bergson.

Dengys yr ysgrif, 'Yr Hen Ysfa', yr un gwewyr meddwl ag a geir yn y tair ysgrif arall, a chyffwrdd a chyfrif popeth yw dihangfa'r prif gymeriad yma, er i hynny ei gaethiwo ymhellach.

Ceir uchafbwynt yn 'Eiconoclastes' wrth i'r drylliwr delwau esbonio bod arno eisiau 'ymgiprys â'r amhosibl, ceisio dirnad yr annirnad, coelio'r anhygoel a chlywed yr anhyglyw.' Ymddengys ei fod yn crefu am 'ddeall' rhyw fath o fyd ysbrydol gan iddo grybwyll llinell Wordsworth.

Teimlai weithiau y byddai'n hoffi dychwelyd at ei hen dymer feddal, gyfriniol cyn iddo ddewis setlo ei gred a thorri'r hen ddelwau oherwydd na allai eu haddoli. Dywedir mai'r ddelw olaf a dorrodd oedd ei ddelw ef ei hun. Y mae'r darn hwn yn astrus dros ben ac y mae dwy ffordd o leiaf i'w ddehongli. Efallai iddo ystyried y ddelw a gododd ohono'i hun fel

rhywbeth na allai wrthsefyll ei feddyliau cyfeiliornus am grefydd a chan hynny, ei fod wedi ei thorri a cheisio ailystyried crefydd. Awgrymir hyn o ddarllen y brawddegau:

‘Teg a’i goffadwriaeth ydyw dywedyd fod sail i’r tyb ei fod wedi newid yn ddiweddar. Hwyrach iddo geisio trwsio rhai o’r hen ddelweddau. Pwy a wŷyr?’

Wedi’r cyfan, dywed iddo gadw’r delwau heb eu dryllio’n hir, gan led-
ofni hwyrach fod bywyd ac enaid ynddynt. Ac yn sicr, y mae cysylltiad crefyddol i’r holl lyfrau a adawodd yn ei fyfyrgeir, ac eithrio un, efallai. Y llyfrau a gafwyd oedd rhai o gyfrolau Henri Bergson, gwaith Francis Thompson, *Llestri’r Trysor*, a chyfrol o farddoniaeth Keats yn agored lle y mae’r soned, ‘*When I have fears that I may cease to be.*’ Yn ychwanegol, yn ei ddyddlyfr dan y diwrnod hwnnw, yr oedd llinell Horas, ‘*Exegi monumentum aere perennius*, a’r gair ‘*exegi*’ wedi ei flotio ag inc. (‘Codais gofadaill mwy parhaol nag efydd’, a’r gair, ‘codais’, wedi ei flotio). Rhaid cofio i Parry-Williams astudio gweithiau Horas yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth fel myfyriwr. Neges Horas oedd bod marwolaeth yn anochel; ni ddeuir yn ôl o Annwn. Ond y mae rhywbeth yn goroesi, sef yr enwogrwydd a enillodd dyn yn ystod ei oes ei hun.

Mewn geiriau eraill, y mae enwogrwydd yn dod ag anfarwoldeb yn ei sgîl.

Fel y dywedodd John Morris-Jones, wrth grybwyll gwaith Goronwy Owen:

A mynnai Gronwy (ar ôl Horas) fod cerdd dda'n well a mwy anfarwol na delw gerfiedig:

Pond gwell llên ac awenydd?
Gwell llun na'r eilun a rydd ...
Cerdd ddifai i rai a roes
Ynnill tragwydd einioes.¹⁰¹

Efallai, ar y llaw arall, i'r drylliwr delwau gyflawni hunanladdiad oherwydd na chawsai ateb i'w gwestiynau yn y llyfrau. Ymdeimlir â hyn o ddarllen y geiriau, 'coffadwriaeth' a 'llyfrau a gafwyd ar y bwrdd'. Y mae'n ddiddorol, hefyd, sylwi ar y tebygrwydd sydd rhwng naws yr ysgrif a'r hunanladdiad a bortreadir ym mhryddest Parry-Williams, 'Y Ddinas', a enillodd Goron Yr Eisteddfod Genedlaethol iddo ym Mangor yn 1915. Ynnddi, ceir cerflunydd sydd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd na all wireddu ei freuddwyd o weld enaid byw mewn marmor oer. Y mae ef ei hun yn tybio y byddai ei enaid ef yn rhydd petai'n cael gwared ar y clai (ei gorff), gan sicrhau anfarwoldeb. Meddai:

... Gwallgof yw
Pob enaid sydd a'i drem tuhwnt i'r llenn
Ar anfeidroldeb. Ynfyd yw a draidd

Drwy bared clai â'i law i deimlo ffurf

Anfarwol berffaith ...

... Safai'r pinacl pell

Yn syth a'i fys i'r nefoedd; ond 'roedd delw

Farmor yn yfflon ar yr aelwyd oer,

Ac allor heb offeiriad yno mwy.

Fel y gwelwyd, ysgrifennodd y Ffrancwr Iddewig, Henri Bergson, lawer iawn o gyfrolau, ac felly anodd yw dweud pa rai a ddarganfuwyd ym myfyrgell y drylliwr delwau nac ym mha iaith y'u cyhoeddwyd. Yr oedd tair cyfrol eithaf enwog yn Saesneg cyn i'r ysgrif hon gael ei chyhoeddi, sef *Time and Free Will* (1910); *Matter and Memory* (1911), a *Creative Evolution* (1911), ei gyfrol enwocaf. Credai Bergson mewn esblygiad creadigol gyda rhywbeth a alwai yn 'grym bywyd' ('*élan vital*') ('*life force*') wastad yn creu. Gwrthwynebai deleoleg yn chwyrn, hynny yw, ni chredai mai esblygu mewn amser oddi mewn i derfynau caeth amser gosodedig a ddigwyddai; nid oedd popeth wedi ei drefnu unwaith ac am byth. O gofio bod Parry-Williams yn ystyried ei dynged a'i rawd yn y byd, y mae'n debyg i'r drylliwr delwau ddarllen rhywbeth am ewyllys rydd, a fyddai'n ei alluogi i ddianc o'r rhigol y gwelwyd ef ynddi o dan ddylanwad penderfyneq. Ni chredai Bergson mewn amser mecanyddol cloc oherwydd mai amser cywir oedd y '*durée*', yr amser a deimlir gan

unigolyn, neu amser personol a oedd wastad yn llifo'n ddi-dor. Credai fod y cof yn nhiriogaeth yr ysbryd a'i fod yn rhywbeth hollol ar wahân i fater. Y mae'n ddiddorol gweld cyfeiriadau yng ngwaith Parry-Williams at yr hyn a elwir yn Saesneg yn '*involuntary memory*' a ddefnyddir gan Marcel Proust yn ei waith, *À La Recherche du Temps Perdu*, sydd yn cydfynd â syniadau Bergson am y cof. Ar yr adegau hyn, disgrifia Parry-Williams fod rhywbeth wedi dod i'w gof yn hollol annisgwyl. Arddelai Bergson ryddid gan roi blaenoriaeth i'r Ysbryd dros Fater a chredai yng ngoroesiad yr enaid. Y mae sythwelediad yn oruwch na'r deall. Nid yw'r deall yn gallu cael gafael ar realaeth Newid; y mae'r enaid ei hun yn gallu 'deall' Amser yn well. Wrth archwilio Esblygiad Greddf a'r Deall, deellir bod gan Reddf, er ei bod yn ddeallusol ddall, elfen unigryw o uniongyrchedd neu dreiddgarwch uniongyrchol. Dyma a ddywed Bergson: 'By Intuition is meant the kind of *intellectual* sympathy by which one places oneself within an object in order to coincide with what is unique in it and consequently inexpressible.' Fel y dywed Parry-Williams yn 'Eiconoclastes':

Y mae rhyw ysfa mynd i hanfod pethau ynof, gweld peth o'r tu mewn ac nid o'r tu allan, a chael felly'r ias

anorchfygol a gefais pan euthum i mewn i'r *Unterer Gletscher* yn yr Yswisdir.

Gwaith Francis Thompson (1859–1907) oedd un o'r llyfrau eraill ac y mae'n bennaf enwog am ei gerdd, 'The Hound of Heaven', sydd yn disgrifio ymgais Duw i ddod o hyd i'r bardd am fod hwnnw'n troi ei gefn Arno. Golygwyd i Thompson fod yn offeriad ond barnwyd nad oedd wedi derbyn yr alwad. Methodd ennill cymhwyster meddyg, hefyd, er mai hyn oedd galwedigaeth ei dad, ac yr oedd y ffaith iddo siomi hwnnw yn pwyso'n drwm arno. Trodd at lenyddiaeth er i'w dad gredu na allai ennill bywoliaeth o hynny. Yr oedd yn fathwr geiriau, hefyd, fel Parry-Williams ei hun. Nid rhyfedd i gyfrol Francis Thompson apelio at Parry-Williams, gan gymaint a oedd gan y ddau yn gyffredin, ac y mae'n siŵr y gallai'r bardd o Ryd-ddu lwyr ymuniaethu â bywyd truenus yr amheuwrist. Gadawodd Thompson ei gartref yn 1885 a threuliodd dair blynedd ar strydoedd Llundain gan ddod yn gryf tan ddylanwad opiwm. Enillodd enwogrwydd ar ôl hynny ond bu farw'n ifanc o'r diciâu a dylanwad opiwm.

Uwchfeirniadaeth Feiblaidd

Llyfr am Feirniadaeth Feiblaidd, o dan olygiaeth D. Tecwyn Evans ac E. Tegla Davies yw *Llestri'r Trysor* a gyhoeddwyd yn 1914.¹⁰² Y mae'n trafod sylwadau Beirniaid diweddar, sylwadau a oedd yn weddol gyffredin yr adeg honno. Ceisir argyhoeddi'r darllenwyr nad yw'r syniadau hynny yn lleihau dim ar wirionedd y Beibl, ond yn hytrach, i'r gwrthwyneb. Dywed y golygyddion fod llyfr cyffelyb wedi ei gyhoeddi gan y Parchedig J. Puleston Jones, *Until the Day Dawn*, a'u bod ill tri o'r un farn ynglŷn â'u daliadau. Crybwyllant lyfr yr Athro A. S. Peake, hefyd, *The Bible, Its Origin, Its Significance, and its Abiding Worth*, a oedd yn adlewyrchu'r un safiad. Y mae *Llestri'r Trysor* yn orlawn o ffeithiau a thrafodaethau am y dadleuon ynglŷn â dilysrwydd yr hyn a ysgrifennir yn y Beibl. Ymddengys nad oedd llawer o lyfrau Cymraeg ar gael ar y pryd a oedd yn trafod y pwnc er bod Beirniadaeth Feiblaidd wedi lledaenu'n gyflym yn y blynyddoedd diweddar. Anaml y cyfeiriwyd at Uwchfeirniadaeth mewn cyhoeddiadau crefyddol, a'r adeg honno, ymosod arni a wneid. Rhesymolwyr oedd llawer o uwchfeirniaid amlycaf y Cyfandir flynyddoedd ynghynt a dywed y golygyddion fod pleidwyr Uwchfeirniadaeth yn gyffredin oddi mewn i'r Eglwys Gristnogol a bod Athrofeydd Protestannaidd yn ei dysgu i'w disgyblion. Cafodd y Dr.

Rowland Williams, seren fore Beirniadaeth Feiblaidd yng Nghymru, ei erlid oherwydd iddo groesawu tybiaethau am y Beibl ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfieitha'r golygyddion ddarn o *The Bible and Criticism* gan Bennett ac Adeney er mwyn rhoi crynodeb o syniadau llawer o ysgolheigion Beiblaidd Eglwysi Efengylaidd y dydd am werth ymarferol Beirniadaeth Ddiweddar:

Ysgrifennwyd y llyfryn hwn ar bwys y gred mai rhodd Duw i'r Eglwys ydyw'r wybodaeth helaethach a gafwyd yn ystod y ganrif a hanner diweddaf ynghylch natur a hanes y Beibl – rhodd sy'n cynysgaeddu'r Cristion â goleuni cliriach a sicrwydd cadarnach er mantais i'w fywyd ysbrydol ei hun, ac ar yr un pryd yn ei wisgo ag arfogaeth newydd ar gyfer ei ymdrech yn erbyn pechod ac anghrediniaeth.¹⁰³

Dengys y golygyddion fod beirniadu'r Beibl wedi bod yn broses a ddechreuodd cyn ymddangosiad yr Hen Destament, parthed teilyngdod Llyfr y Pregethwr a Chaniad Solomon. Yn ddiweddarach, cafwyd 'uwchfeirniadaeth' ar ii. Pedr a'r Datguddiad cyn eu rhoi yn y Canon fel llyfrau a ystyrir yn ysbrydoledig. Yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, dechreuodd Luther a Calfin amau dilysrwydd rhai pethau yn y Beibl ond dechreuodd yr ymchwiliad 'diweddar' tua chanol y ddeunawfed ganrif pan ddechreuwyd ymwrthod â thraddodiad fel awdurdod. Y mae'n debyg mai'r Pabydd, Jean Astruc, o Frwsel a ddechreuodd

Uwchfeirniadaeth yn 1753. Dywedodd fod Moses wedi cyfuno'r adrannau Elohistaid a Jehofistaidd yn Genesis. Yn dilyn arweiniad ysgolheigion Almaenaid yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, dechreuodd beirniaid Beiblaidd yn y wlad hon astudio'r un maes tua chanol y ganrif. Strauss a Baur, ym Mhrifysgol Tubigen, a ddechreuodd feirniadaeth ym maes y Testament Newydd a hynny'n gynnar yn y ddeunawfed ganrif. Ceisiasant ddinistrio cred yn y goruwchnaturiol a dywed y golygyddion i ddamcaniaeth Strauss am Iesu Grist ddiflannu bellach.

Ar y llaw arall, dywed golygyddion *Llestri'r Trysor* fod rhai eglwysi yn parhau i ystyried y feirniadaeth hon fel rhywbeth a oedd yn tanseilio sail y Beibl fel datguddiad dwyfol.

Eglura'r golygyddion ystyr Uwchfeirniadaeth, a buddiol yma fyddai atgynhyrchu'r esboniad yn ei grynswth:

I'r gofyniad – Beth ydyw'r Uwchfeirniadaeth? – gellir ateb nad yw'n amgen nag ymchwiliad i amseriad, awduraeth, tarddiad, a neilltuolion gwahanol lyfrau'r Beibl. Ymganghenna i ddau gyfeiriad – y *llenyddol* a'r *hanesiol*. Fel *Beirniadaeth Lenyddol* delia â nodweddion llenyddol pob llyfr er mwyn ceisio gwybod pwy a'i hysgrifennodd – ai un ai amryw; pa ddefnyddiau a'i gwasanaethai; ym mha oes y'i cyfansoddwyd, a beth oedd nodweddion oes a chylchfyd meddyliol y sawl a'i hysgrifennodd. Fel *Beirniadaeth*

Hanesiol amcana at wahanu'r hanes sydd ynddo oddiwrth bob math arall ar lenyddiaeth, ac ymrydd i geisio canfod perthynas neges y llyfr â neges llyfrau eraill y Beibl er mwyn dangos ei le yn hanes datblygiad crefydd. Yr Almaenwr Eichhorn, Athro yn Jena, ac wedi hynny yn Gottingen, a roes i'r feirniadaeth hon yr enw 'Uwchfeirniadaeth' – enw a'i olwg yn honiadol ddigon pan gyfarfyddir ag ef gyntaf. Ond unig bwrpas y blaenddod *uwch* yn yr enw ydyw, nid cyfleu y syniad fod y feirniadaeth hon yn rhagori ar feirniadaeth arall, eithr yn hytrach ei gwahaniaethu oddiwrth feirniadaeth destynol (*textual criticism*), y rhoddir iddi'r enw 'Isfeirniadaeth'. Pan rydd yr Isfeirniad sylw i un o lyfrau'r Beibl, ei amcan ef yw ein cynysgaeddu â chyn gywired copi ag y mae modd o eiriau neu destyn (*text*) y llyfr hwnnw, fel y daeth o law ei awdur, trwy gymharu gwahanol ddarlleniadau a llawysgrifau hynafol a chyfieithiadau bore â'i gilydd. Nid oes a fynno ef ond â chywirdeb geiriau'r llyfr. Ond wedi cael testun cywir i'w law, delia'r Uwchfeirniad ag ef fel y mae'n llenyddiaeth. Daw ato '*at a point higher up in the stream of its existence*' (chwedl Lake yn *The Text of the New Testament*), trwy chwilio'i gynnwys i geisio gwybod popeth a all am ei darddiad a'i ffurfiad a'i bwrpas, a gwna hynny'n gyson â'r canonau a berchir ym myd llên a hanes.¹⁰⁴

Rhoddir llawer o bwys ar Ddatguddiad ac Ysbrydoliaeth gan J Maelor

Hughes a drafoda'r ffaith nad ystyriai amheuwyr a diwinyddwyr

ceidwadol fod datguddiad dwyfol yn y Beibl a chrybwylla enw Renan, yr

amheuwyr, a benderfynodd nad oedd y Beibl yn llyfr dwyfol. Cred

amheuwyr nad Gair Duw yw'r Beibl oherwydd y gwrthddywediadau sydd

ynddo. Sonnir am yr hyn a ystyrid yn fythau gan rai, hynny yw, Llyfr

Genesis, Llyfr Job, a Llyfr Jona. Dywedodd Origen mor bell yn ôl â'r drydedd ganrif na ellid cymryd penodau cyntaf Llyfr Genesis fel hanes llythrennol. Dywedir nad Moses yw awdur yr holl ddeddf a briodolir iddo, nad Dafydd yw awdur yr holl salmau a briodolir iddo, nad Solomon yw awdur yr holl Ddiarhebion, ac nad Ezeia yw awdur yr holl lyfr sydd o dan ei enw. Gwedir awdurdod Crist gan rai am Iddo gyfeirio at y Pum Llyfr cyntaf fel eiddo Moses, ac at Salm cx. fel Salm Dafydd ac am Iddo ddweud bod Llyfr Jona yn llythrennol wir. Dywedir i Renan wrthod Cristnogaeth yn gyfan gwbl oherwydd na allai dderbyn pob llinell o'r Beibl fel Gair anffaeledig Duw. Dywed J. Maelor Hughes fod yn rhaid apelio at y Beibl i ddarganfod beth yw Cristnogaeth; datguddiad o Dduw yng Nhrisť yw'r Beibl, meddai. Fel y soniwyd, y mae'r llyfr, *Llestri'r Trysor*, yn llawn o ddadleuon ynglŷn â dilysrwydd y Beibl fel gair Duw a buddiol fyddai darganfod, yn awr, a ddylanwadodd yr holl wrthdaro ar feddwl Parry-Williams.

Cystal dweud bod tystiolaeth fechan ar gael sydd yn trafod y pwnc hwn yn llawlyfr ei dad, Henry Parry-Williams, wrth draethu am 'Y moddion mwyaf effeithiol i gyfrannu addysg yn ein Hysgolion Sabbothol'

(traddodwyd o flaen Cynhadledd Dosbarth Ysgolion Sabbothol

Beddgelert – Ebrill 1af 1915.):

Y mae y diwygiad presennol wedi lloffa y rhan fwyaf o'r rhai hyny o aelodau ein Hysgolion Sabbothol nad oeddynt broffeswyr fel nad oes ond gweddill bychan yn aros, fel mai y rhan bwysicaf o waith yr athraw rhagllaw, am gyfnod, a dywedyd y lleiaf, fydd 'adeiladu yng Nghrist' 'Goleuo'r deall' a 'meithrin y galon' – dau lwybr i'w dilyn.

Dywed fod adran yr oedolion yn yr Ysgol Sul wedi bod yn rhy geidwadol

ac â ymlaen i gynghori athrawon wrth drafod yr holi:

(a) Gocheler gwestiynau amherthynasol difydd ac anatebadwy.

Nid ydyw yn gweled cyfeiriad ym mhob adnod, at 'y cwymp', 'etholedigaeth gras', neu 'alwedigaeth gyffredinol' megis y mae arfer rhai. Nid yr athro hwn ofynodd 'Pwy oedd y postman tybed?' yn amser y deisyfodd Pawl lythyrau i Damascus gan yr Archoffeiriad (Act. lx 2), nac ychwaith 'Pa mor bell?' pan yn holi ar yr adnod 'Ti a adweini fy meddwl o bell?'

Crybwyllir enw Paul, hefyd, yn *Llestri'r Trysor*.

Ceir darlun cryf o Feirniadaeth Feiblaidd yn 'Ar Gyfeiliorn' Parry-Williams. Yr oedd Dafydd Wiliam/William, yr ynfyd call, ar gyfeiliorn. Yr oedd ganddo gannoedd o ganeuon wedi eu gwnïo wrth ei gilydd (cyfeiriad at y modd y mae darnau o'r Beibl wedi eu rhoi at ei gilydd gan wahanol awduron). Yr oedd ganddo gannoedd o ddiarhebion Cymraeg

ar ei gof, hefyd. Yn *Llestri'r Trysor*, ceir ymdriniaeth ar Lyfr y Diarhebion yn y Beibl, lle y mae llawer o groesgyfeirio. Dywedir nad Solomon yw awdur rhai o'r diarhebion, ac mai llefaru 3000 ohonynt a wnaeth, ac nid eu hysgrifennu. Mae Moeseg y Llyfr wedi ei seilio ar ddau beth mawr, sef Doethineb ac Ynfydrwydd; hyn, meddir, sydd yn gwahanu dynion oddi wrth ei gilydd, ac yn penderfynu eu tynged gerbron Duw a'r byd. 'Addysg' yw disgyblaeth foesol, a dyna'r wers gyntaf i bob un a fynno fod yn ddoeth ei dysgu. Nod sicraf yr ynfytyr yw casáu'r addysg hon. Yr oedd Dafydd Wiliam yn hyddysg iawn yn y Beibl, neu'r Hen Air: 'Byddai ymadroddion digyffelyb yr Hen Air fyth a hefyd ar ei wefusau, nes bod ei iaith yn gymysgedd rhyfedd o ddulliau cryno'r diarhebion ac arddull ysbrydoledig y Doctor Morgan.' Hoff oedd ganddo yr ailadroddiadau Hebreig, fel, 'Mynydd Duw sydd fel mynydd Basan; yn fynydd cribog fel mynydd Basan.' (Salm 68:15), a'r enwau, 'Seion', 'Saron', 'Hermon', 'Ascalon', a 'Babilon'. Yr oedd ymadroddion fel y rhain wrth ei fodd, hefyd, – 'Dinas y Brenin Mawr', 'Tad Tragwyddoldeb', 'Tywysog Tangnefedd', 'Mynydd dy Sancteiddrwydd', 'y breichiau tragwyddol', 'porfeydd gwelltog', 'cymanfa anffyddloniaid', 'llety'r fforddolion', 'dyfnder yn galw ar ddyfnder' ac 'yr Hwn sy'n preswyllo yn

y Nefoedd a chwardd.’ Hoffai adrodd Salm neu ambell ‘air yr Arglwydd’ gan Ezeiel, hefyd. Byddai’n adrodd Salm 137 yn aml, a ‘Gwyn ei fyd a gymero ac a darawo dy rai bach wrth y meini.’, gan bwysleisio ochr ddialgar y geiriau.

Buddiol fyddai trafod ychydig rannau o’r uchod yr ymdrinnir â hwy yn *Llestri’r Trysor*. Yn y Salmau, ceir dylanwad gwahanol gasglwyr gan y defnyddir Jehofa ac Elohim fel enwau dwyfol. Y mae prawf fod gwahanol awduron wedi ysgrifennu’r Salmau. Ni ellir tadogi’r holl Salmau ar Dafydd y mae ei enw ef uwch eu pennau. Er bod cryn ddadlau ymysg gwybodusion, tuedda rhyw Dr. Davison i feddwl mai Dafydd a ysgrifennodd Salm 23, lle y ceir y geiriau ‘porfeydd gwelltog’. Dywedir na chaiff athrawiaeth anfarwoldeb yr enaid ei dysgu yn y Salmau oherwydd bod eneidiau da a drwg yn bodoli mewn lle o’r enw ‘Sheol’ mewn ffurf annelwig ac anymwybodol. Ond er hynny, credent mewn anfarwoldeb oherwydd eu tystiolaeth o gymundeb dwfn a gwirioneddol â

Duw:

Paratodd profiad angherddol y Salmwyr hyn o Dduw y ffordd i’r gred mewn anfarwoldeb, oherwydd ni all angau ddifa’r fath gyfeillgarwch â Duw heb i angau’i hun fod yn gryfach nag Awdur Bywyd.¹⁰⁵

Ceir ymdriniaeth yn y bennod am ddialedd ar elynion yn y Salmau, yr un sylw ag a geir gan Dafydd Wiliam am Salm 137, a chyferbynnir dialedd ag addoliad Cristnogol yn y llyfr gan ddweud na fyddai hynny'n briodol. Fodd bynnag, cadarnha Charles Jones, awdur y bennod, i felltithion y Salmau gilio o flaen Gwynfydau Crist (y Bregeth ar y Mynydd) fel y nos o flaen y wawr. Dywed fod llawer o'r Salmau yn anghyson â'r Testament Newydd. Ar y llaw arall, gwêl werth dywediadau fel 'Dyfnider a eilw ar ddyfnider, wrth sŵn dy bistyloedd Di.' (Salm 42:7). Y mae o leiaf chwe dyfyniad o'r Salmau yn y Bregeth ar y Mynydd yn ôl Charles Jones ac un ohonynt yw 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gwrthodaist,'. Beirniadau Dafydd Wiliam yr Hen Air fel llenyddiaeth ac y mae'n sôn am wyrthiau. Bu'r pwnc yma o dan gwmwl, hefyd, yng nghyd-destun Beirniadaeth Feiblaidd. Ystyriai 'Weddi'r Arglwydd' fel clytwaith o eiddo rhywun diweddarach a llai ysbrydoledig. Trafoda'r Croeshoeliad, gan ddweud bod y ffaith i Grist ddefnyddio iaith ei febyd yn Matthew (27:46) fod yn brawf fod y digwyddiad yn ffaith hanesyddol ddiymwad. Ni ellir amcanu at drafodaeth lawn yma, ond digon yw dweud bod Dafydd William yn wir ddiolchgar i Parry-Williams am iddo ei droi oddi wrth gyfeiliorni, a dengys hynny iddo gan addasu yr adnod a geir yn lingo

5:19. Dylid ychwanegu bod llawer o ddywediadau yr ynfytn call ei hun yn rhai a ddefnyddir gan Parry-Williams yn ei weithiau.

Fel y gwelir, ceir y du a'r gwyn yn rhai o hoff ymadroddion Dafydd Wiliam –'Tywysog Tangnefedd', Mynydd dy Sancteiddrwydd, a 'cymanfa anffyddloniaid', 'llety'r fforddolion'. Nid oes ddwywaith na buasai Parry-Williams yn gyfarwydd â llawer o agweddau ar Feirniadaeth Feiblaidd cyn iddo brynu *Llestri'r Trysor* oherwydd nad peth newydd ydoedd o gwbl, ond y mae'r ffaith iddo ymbalfalu cymaint yn yr ysgrif yn arwydd sicr o'i gyfyng-gyngor ynglŷn â chrefydd yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

A dychwelyd at 'Eiconoclastes', y brif ysgrif o dan ystyriaeth, gwelwyd mai'r pedwerydd llyfr a oedd gan y drylliwr delwau ar ei fwrdd oedd cyfrol o farddoniaeth John Keats (1795–1821), yn agored lle y mae'r gerdd sydd yn dechrau, 'When I have fears that I may cease to be,'. Enw'r gerdd yw 'The Terror of Death' ac fe'i hysgrifennwyd ym mis Ionawr, 1818. Ynddi, poenir Keats na fydd yn fyw yn ddigon hir i wneud neu i brofi'r pethau y dymuna eu gwneud, ond sylweddola fod y pethau hynny, fel cariad ac enwogrwydd, yn hollol ddibwys, wyneb yn wyneb â marwolaeth. Enillodd gymhwyster fel prentis i lawfeddyg yn 1816, ond

trodd at lenyddiaeth, fel y gwnaeth Francis Thompson. Yr oedd wedi gofalu am ei fam, a oedd yn dioddef o'r diciâu, yn ystod ei dyddiau olaf. Hefyd, yr oedd yn gofalu am ei frawd, Tom, ac yntau'n dioddef o'r un salwch. Torrodd iechyd John Keats ei hun yn ystod haf 1818, a bu farw ei frawd yn ddiweddarach. Yr oedd Keats wedi darogan y byddai ef ei hun farw mewn tua thair blynedd ac felly y bu. Y diciâu a'i lladdodd ef, hefyd. Yn y cyfamser, yr oedd wedi dioddef beirniadaeth lem gan adolygwyr ei waith ond daeth 1819 yn flwyddyn gynhyrchol a llwyddiannus iddo. Ar ei fedd, ysgrifennwyd ei feddagraff, 'Here lies one whose name was writ in water', fel y cyfarwyddodd. Fodd bynnag, yr oedd wedi dweud, mewn modd herfeiddiol, wrth ei adolygwyr, 'I think I shall be among the English poets after my death.' Gwelir bod yr un cyd-destun i osodiad Keats a llinell Horas.

Y mae'n amlwg i Parry-Williams gydymdeimo â chyflwr Keats yn ôl yr hyn a ddywedwyd ym mhedwaredd bennod y traethawd hwn. Gwyddys mai yn 1914 y cyfansoddodd Parry-Williams 'Y Ddinas' ac mai yn 1915 y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor a dyna'r pryd yr ymddangosodd 'Eiconoclastes', hefyd. A oes gysylltiad rhwng ei ysgrif, y bryddest a cherdd Keats, a hefyd, linell Horas? Hynny yw, y maent i

gyd yn trafod anfarwoldeb. A oedd Parry–Williams yn poeni am ei farwolaeth ei hun yr adeg y cyfansoddwyd ei ysgrif? A boenai am orfod mynd i'r rhyfel rywbyrd er nad oedd mesur Gorfodaeth Filwrol wedi dod i rym eto? Neu efallai ei fod yn poeni am ei frodyr, fel yr oedd Keats yn poeni am ei frawd. Yn wir, y mae'n debyg iddo boeni am yr holl ddynoliaeth yn ystod y rhyfel.

Yr oedd y ddadl ynglŷn â chrefydd a bodolaeth yr enaid yn gryf ar droad yr ugeinfed ganrif ac y mae'n ddiddorol gweld i Parry–Williams brynu llawer iawn o lyfrau y *Rationalist Press Association*. Un o'r llyfrau hynny oedd llyfr enwog Ernst Haeckel, *The Riddle of the Universe*, a brynodd ar 31 Mai 1911. Datganodd Haeckel fod angen diystyru unrhyw sôn am Dduw, yr enaid ac ewyllys rydd. Gwadaï'r biolegydd a'r materolwr hwn anfarwoldeb yn chwyn. Ar y llaw arall, yr oedd llyfrau pobl fel Oliver Lodge ym meddiant Parry–Williams, pobl a oedd yn argyhoeddedig fod enaid dyn yn goroesi. Ymhellach, yr oedd ganddo lyfr ar grefydd ryddfrydol gan y Parchedig R. J. Campbell a wadaï rai athrawiaethau sefydlog ynglŷn â chrefydd. Yn sicr, byddai darllen am y fath farnau gwrthgyferbyniol wedi arwain at anwadalwch meddwl Parry–Williams parthed cwestiynau mawr bywyd.

Cystal nodi rhai agweddau eraill ar grefydd a ddengys na chredai Parry-Williams yn rhai o athrawiaethau cydnabyddedig y grefydd Gristnogol. Ni chredai yn Yr Atgyfodiad. Y mae'n debyg na chredai yn ystori'r Creu yn y Beibl, ychwaith, gan iddo led-gyfeirio at brotoplasm yn ei ysgrif, 'Poteli Ffisig'.¹⁰⁶ Hefyd, awgryma ei gred mewn Darwiniaeth yn 'Ogopogo'.¹⁰⁷ Nid ymddengys iddo deimlo baich pechod, fel rhai pobl ifainc, yn ystod Diwygiad 1904-05, ychwaith. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gwelwyd iddo synied am Iesu Grist fel dyn cyffredin, ac felly, y mae awgrym yn y fan hon na chredai yn y Drindod. Ymhellach, yn bwysicach fyth, ni synhwyrir iddo gael perthynas agos, barhaol â Duw; ymddengys mai ymdrech oedd ceisio gwneud hynny iddo ar hyd ei fywyd. Ond eto, y mae'n rhaid cydnabod iddo ymdrechu'n deg i gyrraedd y nod mewn oes a oedd yn prysur ymwrthod â'r grefydd Gristnogol.

NODIADAU

PENNOD 5

DU A GWYN

- ¹ Timothy McDermot ed., *Aquinas: Selected Philosophical Writings* (Oxford University Press, Oxford, 1993), 165.
- ² Harri Williams, *Y Crist Cyfoes (Astudiaeth o saith Diwinydd diweddar)* (Llyfrfa'r Methodistiaid Calфинаidd, Caernarfon, 1967), 27–8.
- ³ John Emyr, *Dadl Grefyddol Saunders Lewis ac W. J. Gruffydd* (Llyfrgell Efengylaidd Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, 1986), 14.
- ⁴ *Cerddi* (Gwasg Aberystwyth, 1931; 3ydd arg. 1954), 39.
- ⁵ John Emyr, *Dadl Grefyddol Saunders Lewis ac W. J. Gruffydd*, 15.
- ⁶ E. Gwynn Matthews, *Hegel* (cyfres 'Y Meddwl Modern'), gol. D. Glyn Jones a W. Gareth Jones (Gwasg Gee, Dinbych, 1984), 79–90.
- ⁷ Roger Scruton, *A Short History of Modern Philosophy: From Descartes to Wittgenstein* (1981; 6th edition, Routledge, London, 1992), 241–54.
- ⁸ *The Oxford Companion to Philosophy*, ed. Ted Honderich (Oxford University Press, Oxford), 1995, 507.
- ⁹ *Cerddi*, 15–17.
- ¹⁰ *Ibid.* 21–3.
- ¹¹ LIGC, THPW, CH 496.
- ¹² *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984; arg. 1af, 1984), 224.
- ¹³ *Myfyrdodau* (Gwasg Aberystwyth, 1957, arg. 1af, 1957), 11.
- ¹⁴ Harri Williams, *Y Crist Cyfoes*, 77.
- ¹⁵ James Humphreys, *Yr Argyfwng Cred* (Tŷ John Penry, Abertawe, 1976), 23.
- ¹⁶ 'Y Drefn', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 174.
- ¹⁷ 'Y Tu Mewn', *Lloffion* (Y Clwb Llyfrau Cymreig 1942; ail arg. 1947), 28–9.

- 18 'Llyncu', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 393.
- 19 *Cerddi*, 57.
- 20 'Dylanwadau', (BBC Cymru 1960) LIGC, *Casgliad Aneirin Talfan Davies*; Llion Jones, *Agweddu ar Waith T. H. Parry-Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth 1993, 526.
- 21 'Archoffeiriad', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 224.
- 22 Roger Scruton, *A Short History of Modern Philosophy: From Descartes to Wittgenstein* (1981; 6th edition, Routledge, London, 1992), 241–254.
- 23 *Ibid.* 246.
- 24 *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 174.
- 25 'Geiriau', *Olion* (Gwasg Aberystwyth, 1935; ail arg. 1959), 71.
- 26 'El ac Er', *Pensynnu* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1966; arg. 1af, 1966), 34.
- 27 'Moddion Gras', *Synfyfyrion* (Gwasg Aberystwyth, 1937; arg. 1af, 1937), 31–5.
- 28 *Ysgrifau* (Foyle's Welsh Depôt, Llundain, 1928; arg. 1af, 1928), 23.
- 29 *Pensynnu*, 55–68.
- 30 'Ann', *Myfyrdodau*, 54.
- 31 *Pensynnu*, 36.
- 32 'Glaw', *Ysgrifau*, 53.
- 33 'Oedfa'r Pnawn', *ibid.* 20.
- 34 LIGC, THPW, A 180.
- 35 *Ibid.*
- 36 *Ibid.*
- 37 *Pensynnu*, 34.
- 38 'Myfyrio Ofn', *ibid.* 23–4.
- 39 'Y Critig Newydd' (Colofn Oxoniensis), *Y Brython*, 11 Mai 1911.
- 40 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 525.
- 41 *Ibid.* 527.
- 42 'John ac Ann', *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1972; arg 1af, 1972), 97.
- 43 'Ar Encil', *Myfyrdodau*, 62.
- 44 'Ann', *ibid.* 50.

- 45 *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904–1905*, gol. Sydney Evans a Gomer M. Roberts (Llyfrfa'r Methodistiaid Calфинаidd, Caernarfon, 1954), 60.
- 46 *Myfyrdodau*, 118.
- 47 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 529.
- 48 *Ysgrifau*, 77.
- 49 *Pregethau y Parch. John Jones Tal-y-Sarn*, gol. Y Parch. Griffith Parry (Thomas Gee, Dinbych, 1869), 254–65.
- 50 LIGC, G 7/4, 'Hunangofiant Syr T. H. Parry Wms', Papurau y Dr. Llewelyn Wyn Griffith (sgript radio).
- 51 *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904–05*, gol. Sidney Evans a Gomer M. Roberts (Llyfrfa'r Methodistiaid Calфинаidd, Caernarfon, 1954) 70–1.
- 52 LIGC, THPW, N 72.
- 53 *Ibid.*
- 54 Edward Parry, 'Rhagdraeth', *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau yng Nghymru* (Cwmni Argraffu Corwen, 1898).
- 55 LIGC, THPW, A 180.
- 56 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 527.
- 57 *Ibid.* 527–8.
- 58 LIGC, THPW, Y 10.
- 59 Gweler Dewi Eurig Davies, *Byddin y Brenin* (Tŷ John Penry, Abertawe, 1988; arg. 1af 1988).
- 60 'Yr Awen Gudd', *Y Brython*, 25 Chwefror 1911.
- 61 R. Gerallt Jones, *T. H. Parry-Williams*, cyfres 'Dawn Dweud', (Gwasg Prifysgol Cymru, 1999; arg. 1af, 1999), 31–93.
- 62 LIGC, THPW, A 180.
- 63 LIGC, THPW, Y 5.
- 64 *Ibid.*
- 65 *Ibid.*
- 66 *Ibid.*
- 67 *Ibid.*
- 68 *Ibid.*
- 69 LIGC, THPW, CH 169.
- 70 Y mae 'Llyfr Melyn Oerddwr' yng ngofal teulu Oerddwr.
- 71 Carneddog, *Cerddi Eryri* (Gee a'i Fab, Cyf., Dinbych, 1927).
- 72 'Syrffedu', *Cerddi William Oerddwr* (Gwasg Gee, Dinbych, 1954), 48.
- 73 *Y Wawr* II, 3, Haf 1915, 81–4.

- 74 Y Wawr, III, 3, Haf 1916, 88–92.
- 75 Y Wawr, IV, 2, Gwanwyn 1917, 41–5.
- 76 Y Wawr, IV, 3, Haf 1917, 110–17.
- 77 *The Grail*, VIII, 23 November, 1914, 24–5.
- 78 *The Grail*, June 1912.
- 79 *Cerddi*, 39.
- 80 *Y Goleuad*, 19 Tachwedd 1915, 4.
- 81 *Y Wawr*, III, 1, Gaeaf 1915, 9.
- 82 *The Dragon*, XXXIX, December 1916, 12.
- 83 *Y Deyrnas*, Rhif 2, Tachwedd 1916, 9.
- 84 *Y Deyrnas*, II, 1 Hydref 1917, 9.
- 85 *Y Deyrnas*, Rhif 6, Mawrth 1917, 1.
- 86 *Y Wawr*, I, 2, Gwanwyn 1914, 6–8.
- 87 *Myfyrdodau*, 75–6.
- 88 Dyfnallt Morgan, 'Atgofion Myfyriwr', *Y Traethodydd* 130, Hydref 1975, 278–284.
- 89 *Ibid.* 279.
- 90 *Y Wawr* II, Rhif 3, Haf 1915, 83.
- 91 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 224–5.
- 92 *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Bangor* (1915), 51–65.
- 93 *Y Brython*, 15 Mai 1913; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 484.
- 94 R. Gerallt Jones, *T. H. Parry-Williams*, cyfres 'Dawn Dweud', 81.
- 95 'Ar Gyfeiliorn', 110–17.
- 96 LIGC, THPW, A 174.
- 97 'Ar Gyfeiliorn', 114.
- 98 LIGC, THPW, 'Y Genedl Gymreig', 9 Ionawr 1917.
- 99 Colofn Oxoniensis, *Y Brython*, 11 Mai 1911.
- 100 'Tintern Abbey', *The Works of William Wordsworth* (Wordsworth Editions Ltd., 1994), 206.
- 101 John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Gwasg Clarendon, Rhydychen, 1925), 2.
- 102 *Llestri'r Trysor*, gol. D. Tecwyn Evans ac E. Tegla Davies (Evan Thomas, Bangor, 1914).
- 103 *Ibid.* xiii–xiv.
- 104 *Ibid.* xiv–xv.

¹⁰⁵ *Ibid.* 75.

¹⁰⁶ *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 179–80.

¹⁰⁷ *Myfyrdodau*, 103.

PENNOD 6

RHWNG NEF A LLAWR

Yn y bennod hon, trafodir yr anwadalwch a geir yng ngwaith Parry-Williams ynglŷn â'r gred mewn byd ysbrydol, gan osod ei syniadau a'i ddaliadau yng nghyd-destun cefndir ei oes. Canolbwyntir yn bennaf ar seicoleg yn gyffredinol gan gynnwys y ddadl ynglŷn â bodolaeth yr enaid; animistiaeth; llên gwerin ac ofergeoliaeth; ysbrydegaeth ac agweddau eraill goruwchnaturiol. Haedda'r holl faterion hyn draethawd cyfan cynhwysfawr, ond yma, canolbwyntir ar rai agweddau ar yr uchod yn unig.

Dengys Parry-Williams anhawster yr ymdrech o dreiddio i'r byd ysbrydol yn ei ysgrif, 'Gweld y Gwynt', gan ddweud mai mewn dwyster llesmeiriol y gwelir y gwynt, sydd yn gyfystyr â gweld y byd ysbrydol; cyflwr seicolegol, felly, sydd yn agor y drws i'r byd hwnnw:

Rhaid bod yn oruwchnaturiol am dro i gyflawni gorchest o unrhyw fath, a rhaid teimlo angerddoldeb nad yw o bethau'r byd hwn i weled yr anweledig. Ond wrth ymgyrraedd at hyn, rhyw ar-fin neu ond-y-dim neu gael-a-chael fydd hi gan amlaf gyda dyn, a'r methu'n gymaint â'r cael am mai cael-a-chael ydyw. Dyma fydd yr hanes, gydag eithriad, wrth geisio gweled yr anweledig.¹

Disgrifia'r ystad feddyliol, a eilw'n 'ystad eneidiol', sydd yn arwain at berlewyg, yn ei ysgrif, 'Archoffeiriad'.² Y mae'n debyg mai cyflwr tebyg yw un o'r cyflyrau a ddarlunia yn 'Bwrn':

Gellir ymgodi'n foethus i gyflwr ecstatig dyrchafedig, lle'r ymddengys yr hyn sy'n amhosibl yn fwy posibl na'r hyn sy'n debygol, lle y daw breuddwydion yn wir, lle y mae ieithwedd farddonol yr unig un naturiol, hynny yw, lle nad yw gosodiad fel 'Ynom 'mae y sêr' yn swnio'n ddigrif, heb sôn am chwerthinllyd.³

Ceisio ymgiprys â'r dirgel fyd a phroblemau annatrys bod a bywyd oedd gorchest fawr Parry-Williams ar hyd ei oes, gan gadw at ei ddyhead i chwilio am y gwirionedd. Fel yr esboniodd yn 'Eiconoclastes', yr oedd yn well ganddo ymdrechu â pethau mawr a dieithr na byw mewn syrthni meddwl a theimlad. Credai ei bod yn ardderchog ymgiprys â'r amhosibl, ceisio dirnad yr annirnad, coelio'r anhygoel a chlywed yr anhyglyw; wffftiai'r bobl a oedd yn teimlo'n anesmwyth pan sonniodd wrthynt am yr anweledig.⁴

Tystia ei waith iddo dalu cryn sylw i'r goruwchnaturiol, o sylwi ar ei fynych ddefnydd o eiriau ac idiomau perthnasol amlwg fel annaeorol, anweledig, arallfydedd, anfarwoldeb, breuddwyd, byd-a-ddaw, cyfriniaeth, cof, crefydd, *déjà vu*, dychymyg, dirgelwch, drychiolaeth,

enaid, eneiniedig, yr ego a chyflyrau gwahanol y meddwl, *ESP*, gweddi, gweledigaeth, gweledydd, hud-a-lledrith, hupnotig, ias, meddwl, nef, pethau nad adnabu'r byd, rhith, lledrith, rhin, seicoleg, synhwyrâu, treiddio trwy'r paradwydd, ymwybyddiaeth, ysbryd, ysbrydol, ysbrydoliaeth, ysbrydolrwydd ac ysgrifennu awtomatig. Gwelir, uchod, mai ymdrech oedd ceisio amgyffred y byd ysbrydol iddo, ac felly, hefyd, geisio cysoni ei enaid ei hun â'r enaid a adlewyrchir yn y grefydd Gristnogol gyfundrefnol, fel y dywedodd wrth Aneirin Talfan Davies.⁵

Ffiniau

Yr hyn sydd yn achosi'r pendraphendod mwyaf i Parry-Williams parthed y byd ysbrydol yw problem tiriogaeth y ffin rhwng y materol a'r ysbrydol. Fel y dywed yn 'Ar Encil':

Mynd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr ... Ffin - goror - lle am drwbwl bob amser. Annelwigrwydd, anwadalwch, annibendod. Rhyw anniffinioldeb fel yna sydd hefyd ar y ffin rhwng cnawd ac ysbryd, rhwng corff ac enaid, rhwng pwyll ac amwyll, rhwng barddoniaeth a rhyddiaith, rhwng byw a marw.⁶

Afraid crybwyll yn y fan hon y cysylltiad amlwg rhwng ffiniau a'r Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd a phob rhyfel arall parthed y gair, 'trwbwl', yn y dyfyniad. Er hynny, ceir llawer o gyfeiriadau at ffiniau o bob math

yn ei waith, yn enwedig y ffin rhwng dau le daearyddol; ystyria'r ffin

hon, yn aml, fel mangre ysbrydol neu oruwchnaturiol:

Cyn cyrraedd ffin y dref, ar ddarn union a gwastad o'r ffordd fawr, fe sgidiodd y cerbyd yn ddisymwth hollol heb ddim rheswm materol o gwbl dros hynny, hyd y gallwn ganfod.⁷

A chyn cysgu yn sŵn hymiog olwynion cerbydau'r 'Santa Fe', mi ddechreuais sylweddoli, yn y nos ar ffiniau talaith Colorado, fod John John yntau wedi ymadael â Kansas City am byth.⁸

A mynd, er mwyn bod wedi troedio'r tir, a cheisio synhwyro rhywfaint ar awyrgylch y lle rhyfedd hwn sydd ym mhlwyf Llangurig, Sir Drefaldwyn, ar ffin Sir Aberteifi.⁹

Ond nid ffin llawr gwlad yn unig a gaiff sylw oherwydd y mae

uchelfannau a bylchau'n bwysig, hefyd:

Ar y top, wedi mynd trwy'r twnnel, y mae'r ffin rhwng y ddwywlad, Chile ac Argentina ... Fe godwyd y Christus efydd hwn yno yn yr uchelderai rai blynyddoedd yn ôl i goffáu setlo'r ffrwngwd a'r anghydfod ynglŷn â'r ffin rhwng y ddwy wlad, ac i fod yn simbol am byth o gyfeillgarwch a chymod rhyngddynt ... Y mae'n odiach fyth ymsynio ei fod ef, y Galilead gwelw gynt, yno mor bell o'i hen gartref yn solet syllu dros ehangder o rew a chreigiau ac eira ger llinell-ffin anweledig ond anfeidrol ac anhygoel bwysig i'r ddwy bobl fach 'ysbrydol' hynny, a'r groes yn ei law aswy a'i ddeheulaw tua'r nefoedd, yn gwneud ei waith cymodlawn yn ei anialwch newydd, ond heb fod yn gweld fawr neb nac yn dweud dim.¹⁰

Fe ddewiswyd tri llecyn arbennig yno gan y rhai a oedd yn gwybod beth–oedd–beth gyda’r busnes hwn – godre tomen hen chwarel, bwlch ar ffin y fro, a phont dros afon.¹¹

Dyma a awgryma Parry–Williams am y dirgelwch yn ‘Pen Bwlch’:

Tybed a oes rhin neilltuol mewn daear bylchau ac uchelfannau tebyg, am eu bod yn ffiniau, yn ymylon, nid yn unig rhwng ardal ac ardal ond, rywsut, rhwng daear ac awyr mewn modd eithriadol.¹²

Ffiniau. llên gwerin a’r byd ysbrydol

Dylid nodi yn y fan hon i W. Y. Evans–Wentz, yn ei lyfr cynhwysfawr, *The Fairy–Faith in Celtic Countries* (1911)¹³, ystyried na fu erioed lwyth na hil anwaraidd nac ychwaith genedl o ddynion gwaraidd na fu ganddynt ryw fath o gred mewn byd anweledig â bodau anweledig ynddo. Galwai’r Cyndadau y trigolion hyn yn *genii* neu ysbrydion, daeamaoniaid, a chysgodion neu rithiau; fe’u hadwaenir gan Gristnogion fel angylion a seintiau, ac fel demoniaid, cythreuliaid, diafoliaid neu ellyllon, ac fel eneidiau’r meirw. I ‘lwythi gwareiddiedig duwiau bach’, duwiau, demoniaid, ac ysbrydion hynafiaid ydynt, a meddylia’r Celtaid amdanynt fel duwiau a llawer math gwahanol ar y Tylwyth Teg. Dywed mai’r hyn a olyga wrth ‘Fairy–Faith’ Celtaidd yw’r ffurf arbenigol ar gred mewn tiriogaeth ysbrydol lle y trig bodau ysbrydol, a seilia ei astudiaeth

ar draddodiadau gwerin Celtaidd byw a'r rhai hen a geir mewn llenyddiaeth. Dywed, hefyd, fod pobl sydd yn gwadu anfarwoldeb dynol, ynghyd â dynion sydd yn meddu ar ffydd grefyddol, ond nad ydynt wedi newid y ffydd honno i ffaith drwy brofiadau seicig personol, yn galw ymdrechion i esbonio ffeithiau seicig yn gyfriniaeth. Ymddengys nad yw hyn wrth fodd calon yr awdur ac ymddiheura os byddir yn ei gyhuddo ef o fod yn gyfriniol.

Felly, o gadw hyn mewn golwg, ceisir, yma, drafod rhywfaint o ddylanwad llên gwerin frodorol a Cheltaidd, ynghyd â choelion yr hen Geltaid yng ngwaith Parry-Williams, o gofio iddo gael ei fagu mewn ardal â chyfoeth o lên gwerin yn perthyn iddi, ac mewn oes a oedd yn prysur daflu mantell ofergoelion o'r neilltu yn sgîl materoliaeth a darganfyddiadau gwyddonol cyfoes.

Anodd yw deall obsesiwn Parry-Williams â ffiniau ond efallai i gnewyllyn y broblem ddechrau yn ei fro gynhenid yn Rhyd-ddu yn ystod ei blentyndod, gan greu effaith fawr ar gyflwr ei feddwl. Y mae'n bwysig pwysleisio hyn oherwydd ei ymlyniad wrth 'grefydd y mynyddoedd', fel y gwelir maes o law. Yn ei ysgrif, 'Mynwent', dywed:

I ni, a oedd yn byw ar ochr gartrefol, gyfarwydd yr Wyddfa, yr ochr orllewinol, yr oedd rhyw ddirgelwch a dieithrwch ynglŷn â'r ochr arall, yn enwedig wedi cael cip arni ar ôl dringo droeon i'r top. Rhyw le tywyll, anghyfarwydd, tu-hwnt-i'r-llen ydoedd i ni ... ochr argoelus o hyd ydyw'r ochr hon, yr ochr ddwyreiniol ... Ond at hyn yr wyf yn ymgyrraedd, – peth sydd, i'm bryd i, yn ategu'r syniad a fagwyd ynom ni, blant yr ochr orllewinol, am arallfydedd a thu-hwnt-i'r-llenwydd yr ochr arall.¹⁴

Ac wrth drafod Y Lôn Ucha' yn Rhyd-ddu, dywed mai lle gwaharddedig, i raddau, oedd hi a'i chyffiniau gan rieni ei ardal ef. Yn nes ymlaen ar y lôn, yr oeddid ar dir y Tylwyth Teg, bwganod a bodau ysbrydol bydarall.¹⁵ Disgrifia arallfydedd Drws-y-Coed, lle 'cynryfiadau'r ffin', yn fanwl gan ddweud iddo ef a'i dad gerdded y tir yn rheolaidd a bod gan hwnnw ystori am bob un o'r pethau ysbrydol a oedd yno, gan gynnwys pendro pen y bwlch.¹⁶ Er hynny, y mae'n debyg mai rhamanteiddio y mae Parry-Williams, oherwydd synia mai ar ôl mynd trwy'r profiadau ysbrydol yn ddjarwybod a cheisio treiddio yn ôl amdanynt y llwyr sylweddolir iddynt fod.¹⁷ Ond eto, cytuna'r hyn a ddywed â'r gred yn Arallfyd y Celtiaid, pan fyddai unigolion yn dychwelyd oddi yno gan feddwl iddynt aros am ysbaid fer yn unig tra oeddent wedi bod yno, o ddifrif, am gyfnod hwy o lawer. Hefyd, ni fyddai rhai o'r unigolion hyn yn gwybod iddynt fod yno, sydd yn cyd-fynd â'r hyn a ddywed Parry-

Williams yn 'Drws-y-Coed' na fyddai unigolyn yn ymgynabod â'r byd ysbrydol pe byddai yno. Fel y gwelwyd, cyflwr seicolegol yw hyn, sydd yn debyg i rai o ystadau'r meddwl pan yw unigolyn yn syrthio i berlewyg neu pan yw'n cysgu. Tybed ai hyn sydd ganddo o dan sylw pan ddywed: 'Weithiau-mewn breuddwyd-daw fflach o'r gwir,/ Ond wedyn anwiredd a thwylllo hir.'¹⁸ Hynny yw, y byd ysbrydol yw'r byd iawn a'r byd hwn yn ffug. Darlunia'r cysylltiad rhwng meddyliau aruchel a llif amser yn ei ysgrif, 'KC 16'.¹⁹

Gofynnodd Aneirin Talfan Davies iddo a oedd yr ystorïau a adroddodd ei dad wrtho yn peri iddo gredu, neu'n peri iddo gredu iddo gredu, mewn rhyw fath o goelion arallfydol a phwerau goruwchnaturiol a phethau tebyg. Atebodd Parry-Williams i'w nain ddweud mwy wrtho na'i dad am y pethau hyn gan nad oedd hwnnw eisïau creu coelion felly ym mhen dyn. Er bod digon o chwedlau tylwyth teg ei ardal mewn llyfrau, meddai, ychydig iawn a glywodd am yr hanesion hynny tra oedd yn byw yno, a hynny efallai, am iddo fynd oddi cartref mor ifanc.²⁰ Yn 'Y Lôn Ucha', cyfeddyf iddo ystyried ei hen ardal fel 'gwlad hanner-lledrithiol yn y pen a'r galon' fyth er iddo ei gadael i fynd oddi cartref i'r ysgol am y tro cyntaf.²¹ Gellir tybied yn gryf fod hyn, hefyd, yn rheswm digonol

iddo ymhél â syniadau am ffiniau, o gofio iddo symud o uchelderau cartrefol y mynyddoedd i ddiethrwch llawr gwlad yn nhref glan môr Porthmadog.

Gwelwyd mai un o'r llyfrau a ddarllenodd ym Mhorthmadog oedd *Aylwin*,²² llyfr llawn sentiment am lôn gwerin ac arallfydedd Eryri.

Cafwyd argraffiad cyntaf y llyfr yn 1898, ryw flwyddyn ar ôl i Parry-Williams fynd i Borthmadog. Ymddangosodd y pedwerydd argraffiad ar hugain ohono yn 1906, ac yn ddiweddarach, fe'i hailgyhoeddwyd yn y gyfres, 'World's Classics'. O'r llyfr hwn y daw'r dyfyniad, 'Eryri fynyddig i mi'²³ a gynhwysodd Parry-Williams yn ei ysgrif ramantus, 'Snowdonia', a drafodwyd eisoes. Ceir y gerdd o dan sylw, 'Bugeiles y Wyddfa', ynghyd ag enw ei hawdur, John Jones ('Eos Bradwen) (1833-1899), yn *O Oes i Oes*,²⁴ a olygwyd gan T. Gwynn Jones. Un o'r materion arallfydol y sonnir amdanynt yn *Aylwin* yw byd ysbrydol ardal y gwaith copr a adlewyrchir yn 'Drws-y-Coed'²⁵ gan Parry-Williams.

Nid oes rhaid ond dyfynnu rhan o ysgrif y bardd a'r llenor o Ryd-ddu, 'Bro', i ddangos ei safiad ar diriogaeth a hunaniaeth, sydd yn dibynnu ar ffiniau. Teimlai fel tresmaswr ac ymwthiwr yn ei hen ardal ei hun pan ddychwelodd iddi flynyddoedd yn ddiweddarach i recordio rhaglen

deledu amdano'i hun. Fe'i hatgoffir o'r sefyllfa yn ystod ei blentyndod

yno:

Nyni oedd biau'r cyfan: ein bro ni oedd hi ... Pwy bynnag oedd deiliaid neu berchenogion y tir, pwy bynnag oedd ag awdurdod ar ddŵr a physgod mewn llyn ac afon, nyni oedd *biau*'r cyfan. Nyni oedd y brofeddianwyr. 'Roedd gennym ni hawl i fynd i'r fan a fynnem. Dyna'n cred ddiysgog ni yn ein diniweidrwydd brodorol. Ac yr oeddem ni'n iawn. 'Rwy'n dal i gredu hynny, 'tresmasu' neu beidio. 'Roeddem ni'n gynefin â'r fro ac yn gwybod ei ffiniau i'r dim. Ein bro ni ydoedd hi. Nyni oedd y brodorion. Nyni.²⁶

A hyd yn oed pan yw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, llithro gan

'chwarae triwant' a wnâi – 'rhyw ddianc heb ganiatâd.', meddai.²⁷ Ceir

yr enghraifft fwyaf trawiadol parthed ei ymlyniad diysgog wrth Gymru,

ac yn enwedig wrth ei hen gynefin, yn ei gerdd enwog, 'Hon',²⁸ lle y gwêl

ddrychiolaethau yn ei fro gynhenid a chrafangau Cymru yn dirdynnu ei

fron, gan beri iddo sylweddoli na all ddianc rhagddi. Teimlai ei dad yr

un mor sicr am ei bethynas yntau â'r mynyddoedd, yn ei gerdd, 'Y

Blodyn ar y Wyddfa':

Fe'm denwyd innau, lawer tro,
I ado y mynyddau,
Ond gwasgai'm calon yn fwy tyn
Pryd hyn am eu hysgwyddau.²⁹

Dengys 'I'm Hynafiaid' fod 'cof yr hil' yn rhan annatod o bersonoliaeth

T. H. Parry-Williams parthed 'crefydd y mynyddoedd' a fagodd yn ei hen fro:

Na. Chwarae teg i chwithau, cefais i
Hen grefydd y mynyddoedd gennych chwi.

Mi gefais gennych greigiau dan fy nhraed,
A'u holl ddoethineb bagan yn fy ngwaed.³⁰

Y mae digonedd o dystiolaeth yn ei waith i gadarnhau fod perthynas mor glos rhyngddo ef a'r ddaear i sylweddoli bod elfen gref o baganiaeth yn ei waed, gan iddo ddisgrifio nodweddion cydymdreiddiad â'r Fam Ddaear; yr un enaid sydd yn perthyn i'r ddau, er enghraifft, yn ei soned, 'Moelni'³¹, a dywed y tynnir pridd i gyffyrddiad â gwaed yn ei bryddest radio, 'Esgyrn y Gynnen'.³²

Heblaw am y cysylltiad rhwng ffiniau a hunaniaeth, fel y'i ceir yma a thraw yng ngweithiau Parry-Williams, cysylltiad arall ag annelwigrwydd ffiniau ac arallfydedd yw byd yr hen Geltiaid a geir yn llên gwerin Cymru, fel *Y Mabinogi*:

The Celts were fascinated by magical 'in-between' places, such as shorelines, fords, doorways, etc. These places were neither in one state or another ...thus they were places of power. The shore is neither dry land, nor is it the sea, yet it is the meeting place of both. If one were to view

the land as representative of our solid, material world, and the sea as representative of the spirit world, we can see that the shore is a meeting place between one world and another ... The same is true of the 'in-between' times, or the portal holidays (holy-days) that were neither one season or another – waxing or waning.³³

Yn 'Y Tri Llyn: I – Llyn y Dywarchen',³⁴ adlewyrcha Parry-Williams y gred ysbrydol hon wrth gadarnhau mai glannau'r llynnoedd oedd cyrchfan y Tylwyth Teg. Dywed, hefyd, iddo sylweddoli mai am gwmpasoedd ac amgylchoedd Llyn y Dywarchen y mae'n sôn, gan ychwanegu bod glannau llyn yn rhan ohono oherwydd mai hwy sydd yn gwneud y llyn. Ac mae'r '“in-between” times' yn y dyfyniad uchod, y 'portal holidays', nad oeddynt naill ai'n un tymor na'r llall, yn cyd-fynd â dryswch tymhorau ym meddwl Parry-Williams, a drafodwyd eisoes, ym mhennod pedwar. Wele ddechrau ystori gŵr ifanc ac ymddangosiad y Tylwyth Teg ar lannau Llyn y Dywarchen:

In the north-west corner of the parish of Beddgelert there is a place which used to be called by the old inhabitants the Land of the Fairies, and it reaches from Cwm Hafod Ruffydd along the slope of the mountain of Drws y Coed as far as Llyn y Dywarchen. The old people of former times used to find much pleasure and amusement in this district in listening every moonlight night to the charming music of the fair family, and in looking at their dancing and their mirthful sports. Once on a time, a long while ago, there

lived at upper Drws y Coed a youth, who was joyous and active, brave and determined of heart. This young man amused himself every night by looking on and listening to them. One night they had come to a field near the house, near the shore of Llyn y Dywarchen, to pass a merry night.³⁵

Ar ôl hir ymbil ar un o'r Tylwyth Teg i'w briodi, daeth hi'n wraig iddo.

Ond torrwyd y swyn pan ddiplannodd wrth iddo ei tharo â darn o haearn.

Adrodda John Rhys fod disgynyddion y pâr priod yn dal i fyw yn yr ardal, yn ôl y sôn.

Yn yr oes a fu, yr oedd y Derwyddon yn adnabyddus fel pobl a fyddai'n gwarchod ffiniau tiriogaeth y Celtiaid yn ffyrnig. Bodolai'r Celtiaid mewn llwythi gyda'u tir a'u ffiniau penodol eu hunain. Yr oedd ganddynt hawliau a dyletswyddau neilltuol hefyd, a byddid yn datrys unrhyw anghydfod ynglŷn â thiroedd mewn cynulliad blynyddol. Adlewyrchir hyn yn yr ysgrif uchod³⁶ wrth i Parry-Williams adrodd hanes hen ddyn o'r cyffiniau yn gorfod mynd i'r Uchel Lys yn Llundain fel tyst ynglŷn â rhyw ffiniau neu derfynau oherwydd ffrwgwd gyfreithiol am hawliau tir.

Ar droad yr ugeinfed ganrif, cafwyd adfywiad mewn materion Celtaidd gan gynnwys llên gwerin, a'r gred yn y Tylwyth Teg yn hawlio cryn sylw. Gwyddys i Parry-Williams ddarlithio ar *Y Mabinogi*, *Llyfr Du Caerfyrddin*

ac agweddau eraill ar lôn gwerin yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth tra bu yno, a hefyd, cyhoeddodd ddiweddariad o *Bedair Cainc y Mabinogi* yn 1937.³⁷ Ymhellach, ymddengys iddo gael ei ystyried fel awdurdod gan un o wybodusion y byd academiaidd Cymraeg. Oherwydd ei fod eisiau rhoi darlith i'r Cymry yn Nebraska, anfonodd John Morris-Jones lythyr at Parry-Williams o'r dalaith honno yn 1924 yn gofyn iddo am wybodaeth am y pwnc oherwydd i'r bardd a'r llenor o Ryd-ddu roi anerchiad i'r Gymdeithas Geltaidd yn ystod 1917-18 ar 'Folklore and Superstitions of Wales'.³⁸

Nid rhyfedd i Parry-Williams ddatgan nad oedd yn credu yn y Tylwyth Teg ond eu bod yn bodoli, oherwydd cynhwysai llawer o'r llyfrau a gyhoeddwyd am lôn gwerin Geltaidd nifer helaeth o dystiolaethau llafar gan bobl a oedd wedi eu gweld. Fel y dywedodd un tyst:

The belief in the *Tylwyth Teg* was quite general fifty or sixty years ago, and as sincere as any religious belief is now.³⁹

Dyma farn rhyw weinidog anhysbys am y Tylwyth Teg:

Ultimately there is a substance of truth in the fairy-belief, but it is wrongly accounted for in the folk-lore: I once asked Samuel Roberts of Llanbryn-mair, who was quite a noted Welsh scholar, what he thought of the *Tylwyth Teg*, of hobgoblins, spirits, and so forth; and he said that he

believed such things existed, and that God allowed them to appear in times of great ignorance to convince people of the existence of an invisible world.⁴⁰

Yr oedd yr 'Arallfyd' yn diriogaeth Duwiau Celtaidd a bodolion goruwchnaturiol fel y Tylwyth Teg ond ni allai llygaid dyn meidrol eu gweld oherwydd hud y lle hwnnw. Byddai twyni, ynysoedd, coedwigoedd, afonydd, llynnoedd ac ogofeydd yn Arallfydoedd a gallai un ohonynt, hyd yn oed, fod yn gastell a fyddai'n diflannu dros nos.

Ceir sawl cyfeiriad at lôn gwerin yng ngweithiau Parry-Williams a defnyddia'r geiriau, 'arallfydedd' ac 'annae-arol', yn aml yn ei ysgrifau i ddisgrifio'r diriogaeth ysbrydol. Dyma rai ohonynt – sonia am naws hud-a-lledrith Dyfed sydd yn deillio o *Bedair Cainc y Mabinogi*⁴¹; cyfeiria at lyffant Cors Fochno o chwedl 'Culhwch ac Olwen'⁴², ac at Gulhwch ei hun yn 'Gweld y Gwynt'.⁴³ Rhy gryn sylw i'r Tylwyth Teg yn ei ysgrif, 'Drws-y-Coed',⁴⁴ a manau eraill yn ei waith; cymhara ei aderyn dychmygol yn anffafriol ag Adar Rhiannon o *Bedair Cainc y Mabinogi*.⁴⁵ Yr oedd 'ysbrydion Annwn' yng nghyffiniau'r gwaith copr⁴⁶ a chyfeirir at gŵn Brenin Annwn yn ei gerdd, 'Y Gigfran',⁴⁷ lle y torrai'r aderyn ar yr heddwch rhwng 'nef a daear lawr'. Yr oedd mochyn yn

gallu gweld y gwynt, meddai.⁴⁸ Ystyrid mochyn yn anifail tra gwerthfawr a phwysig ym *Mhedair Cainc y Mabinogi*.

Ar y naill law, teimlir mai eisiau aros ar ryw ffin annelwig y mae'r bardd a'r llenor o Ryd-ddu, oherwydd, fel y dywed, y mae synhwyrâu'r ffin yn fyw ynddo i bethau arallfydol; synhwyrir yr hoffai i ddirgelwch aros yn ddirgelwch oherwydd bod gwybodaeth yn lladd swyn. Diddorol yw sylwi mai ond hanner-cip unwaith yn y pedwar amser i rywbeth tebyg i fyd ysbrydol a gaiff, fel yr esbonia yn 'Teulu'r Ffatri'.⁴⁹ Adlewyrcha hyn ei athroniaeth 'rhyw ar-fin neu ond-y-dim', o sylwi ar y geiriau, 'hanner-cip' ac 'i rywbeth tebyg'. Enghraifft fach ddiniwed, efallai, o'i gred fod gwybodaeth yn boen yw'r ffaith iddo ddarganfod sut yr oedd pryfed yn gallu cerdded i fyny ac i lawr gwydr heb syrthio:

A pheth arall go od i mi y pryd hwnnw oedd gweld ambell bryf glasddu adeiniog yn gallu cerdded yn hamddenol i fyny ac i lawr hyd y gwydr heb syrthio. Dysgaswn yn y cyfamser y rheswm am hyn, ac o ganlyniad diflanasai peth o'r swyn.⁵⁰

Tybia mai hawdd iawn yw creu syniad rhamantus yn y dychymyg, gan ychwanegu mai siom a dadrithio yw'r canlyniad arferol,⁵¹ ac atega hyn wrth iddo drafod bodolaeth yn y byd ysbrydol, y tu hwnt i'r ffin faterol:

Y tu hwnt i'r ffin, pe gallem fyned yno, ni byddai ymwybod i ni â'r ysbrydolion bethau hyn, gan eu bod o gyrraedd y rhan honno o'r byd ysbrydol sydd o'n mewn, ac o afael pegynau'r synhwyrâu sy'n gallu ymestyn hyd y ffin.⁵²

Ar y llaw arall, dengys yn amlwg ei fod yn dyheu am gysylltiad â'r byd ysbrydol a'i fod yn credu ynddo. Aeth ar bererindod i geisio dal 'ysbrydion ac ysbrydoedd' Y Barwn Corvo ac Eric Gill, a oedd wedi 'croesi'r ffin' bellach, ac ymddengys iddo lwyddo yn achos Corvo, i raddau. Oni ddywed iddo ei weld a'i deimlo ym mhobman gan feddwl iddo yntau fod yn edrych arno ef? Ond y gwir amdani yw mai cael-a-chael oedd hi y tro hwn, eto, oherwydd gwyddai na ellid adrodd ystori enaid neb yn llawn. Credai y buasai, ar un amser, yn meddu ar ddigon o ysbrydolrwydd am eiliad i weld y berth yn llosgi, hefyd, a digon o ddychymyg i weld y llygad gwydr yn fflachio, ond sylweddola fod y dyddiau hynny ar ben.⁵³ Dyna ddarlunio'r ymdrech rwystredig seicolegol i gymuno â'r byd ysbrydol a chrefyddol a ddaeth i'w ran. Ac yn ei ysgrif, 'Archoffeiriad', rhybuddia ei bod yn bosibl ymsiomi a cholli ffydd yn y byd ysbrydol os nad oes gan unigolyn ysbrydol neb arall i gydymdeimlo â'i sefyllfa.⁵⁴

Ysbrydegaeth ac agweddau eraill paranormal

Cystal nodi yn y fan hon i ddiddordeb mewn ysbrydegaeth a thelepathi gynyddu yn ystod y 1920au oherwydd y profedigaethau a brofwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gyda'r ymdrech i gysylltu â'r meirw yn ennill tir trwy gymorth cyfryngwyr, er i allu y rhan fwyaf ohonynt gael ei brofi'n ffug. Darlunnir gwir ddyhead Parry-Williams am gysylltu â'r byd ysbrydol yn ei gerdd fach dyner, ingol, 'Y Babi Mawr',⁵⁵ pan yw'n ymbil am gael gweld ei fam, fel y trafodwyd eisoes. Yr un dymuniad sydd yn ei rigwm, 'Bargen', lle yr esbonia nad yw'n llwyr gredu yn y Tylwyth Teg mwyach:

Pe bawn, fel unwaith yn fachgen deg,
Yn gallu llwyr-gredu mewn Tylwyth Teg

Sy'n agor dorau byd uwch neu is
Na'r fuchedd hon, ond in dalu'r pris,

Mi fentrwn beth wmbredd, er gwell er gwaeth,
Am eiliad o weled rhywrai a aeth.⁵⁶

Y mae'n arwyddocaol i'r gerdd uchod ymddangos yn y gyfrol, *Olion*, yn 1935 oherwydd collodd Parry Williams ei chwaer, Blodwen, yn 1933, a hefyd, bu Willie, ei frawd, farw yn 1935. Yr oedd hyn yn ysgytwad creulon iddo, yn ddiau, ar ôl colli ei dad yn 1925 a'i fam yn 1926. 'I goffadwriaeth fy rhieni a'm chwaer' a geir oddi mewn i'r gyfrol hon ond

yn ei gyfrol, *Synfyfyrion* (1937), ymddengys 'I Oscar a Wyn ac Eurwen ac i goffadwriaeth Blodwen a Willie'. Gwelir bod llawer o'r cerddi yn *Olion* yn trafod marwolaeth, gan gynnwys 'Chwaer'⁵⁷ sydd yn deyrnged i Blodwen; 'Cynharwch'⁵⁸ sydd yn amlwg yn sôn am farwolaeth rhywun; 'Y Diwedd',⁵⁹ sydd yn argyhoeddi bod marw yn rhan o fyw; 'Gwynt y Dwyrain'⁶⁰ a adwaenir fel 'gwynt traed y meirw'; y mae 'Amser',⁶¹ yntau, yn lladd; 'Gwaed',⁶² sydd yn disgwyl i farwolaeth gydio ynddo, a hefyd, 'Nid Drychiolaeth',⁶³ sydd yn trafod y rhagargoel fod angau i ddod. Tâl y bardd deyrnged uniongyrchol i'w gyndadau yn 'I'm Hynafiaid'⁶⁴ ac erbyn hyn, yn y gerdd, 'Hyfrydwch',⁶⁵ oherwydd yr holl farwolaethau, gellir tybio, y mae wedi penderfynu bod ganddo dduw hollol iddo ef ei hun, sef ef ei hun, yn fwy na thebyg, o ddarllen 'Gwaed', lle y dywed fod defnydd ei annwn a'i nef yn ei waed ef.

Tybed ai cysylltu annwn, lle hapus y Celtiaid, â nef y Celtiaid a wna yn y fan hon, neu a yw'n ystyried annwn fel uffern y Cristion? Drwy Gristnogaeth y daeth annwn, neu annwfn, i olygu uffern; cyn hynny, lle hapus ydoedd i'r Celtiaid. Sylweddolir, felly, mai ei gyflwr seicolegol ef ei hun yw'r 'lloedd' hyn; y mae'n gallu aros yn fodlon 'Mewn uffern ddigon dofn i fod yn nef.'⁶⁶

Yn 'Bargen' ac 'Nid Drychiolaeth', try'r bardd at fyd ysbrydol llên gwerin ac ofergoeliaeth i fynegi ei ddyheadau a'i ofnau. Efallai fod arlliw o goelion y Celtiaid yn ei gerdd, 'Haul a Lloer',⁶⁷ hefyd. Trafodwyd rhai esboniadau arni eisoes.⁶⁸

Yn 'Bargen', yr ydys yn nhiriogaeth y Tylwyth Teg a ffiniau gan fod dorau'r Tylwyth Teg yn ffin rhwng y byd hwn a'r nefoedd neu uffern. Credid bod eneidau meidrolion yn cael eu meddiannu gan y Tylwyth Teg pan fyddent yn marw, a dyna paham y dyhea Parry-Williams am agor y dorau i weld rhywrai a aeth, yr ymadawedig.

Yn ogystal, dechreuwyd astudio *ESP* a thelepathi, y gallu i gysylltu â meddyliau, teimladau a phresenoldeb rhywun, o hirbell, heb ddefnyddio'r pum synnwyr cydnabyddedig. Lled-gyffyrdda Parry-Williams â hyn yma acw yn ei waith:

Os ar ei chlaf wely yr oedd hi y diwrnod galw-nyrs hwnnw,
'rwy'n dirfawr obeithio i ryw saeth-weddi a esgynnodd o'm
calon innau, beri iddi brofi ias fach gynnes na-wyddai-hi-
o-b'le i leddfu peth ar ofn awr dyngedfennol y croesi
crynedig, 'canys hen yw'r cwch' yntau.⁶⁹

Ceir yr un syniad ganddo yn y gerdd, 'Y Weddi'.⁷⁰ Ymddengys i hyn ddeillio o grefydd gyfundrefnol ei fagwraeth:

Fe luniodd yr hen ddiwinyddion a chapelwyr crefyddol ymadroddion seinfawr a chyforiog o ystyr ynglŷn â chred a buchedd; megis, er enghraifft, un rhychwantus aruchel fel 'Cyffredinolrwydd Prynedigaeth', ac ambell un awenyddol o dwt fel 'Saeth Weddi', a rhwng eithafion y ddau yna un cartrefol fel 'Cadw Dyletswydd' am ddefosiwn yr aelwyd.⁷¹

Darlunia Parry-Williams enghraifft arall o synnwyr ychwanegol yn ei ysgrif, 'Oerddwr'.⁷² Byddai ei fodryb yn gwybod hyd sicrwydd i'w fam fod ar ei ffordd i 'Oerddwr' er mai di-rybudd fyddai'r ymweliadau ar y cyfan. Esbonia ef hyn drwy awgrymu mai 'angerdd' y teulu a oedd yn gyfrifol am y sefyllfa. Cyfyd syniad gweddol debyg yn ei ysgrif, 'Ar Chwâl', lle y mae 'angerdd' yn gweithio gwyrthiau:

Y mae'r fam a fu'n disgwyl ei phlentyn adref, wedi ei glywed wrth y drws ac yn gwybod ynddi ei hun yn sicr ei fod yno, ac yntau, i bawb arall (ond iddo'i hun, o bosibl) eto'n bell o gyrraedd, yn yr ystyr ymddangosiadol. Dyna'r pryd y mae dyn yn gweld rownd y gornel ac yn 'treiddio trwy'r paradwydd'.⁷³

Y mae synhwyrâu coll, synhwyrâu wedi hanner pylu, a hefyd, 'synhwyrâu dros-ben' (*ESP*) yn mynnu sylw Parry-Williams. Ni ellir amcanu at drafodaeth lawn yma ond dyma ddwy enghraifft. Ymddengys mai synnwyr coll sydd yn gyfrifol am atal mynediad i'r byd ysbrydol. Meddai, yn ei ysgrif, 'Gweld y Gwynt':

Dywedir bod mochyn yn gallu gweld y gwynt, – Pwy a wŷr amgen? Yr oedd fy nain wedi gweld ysbryd a thylwyth teg, ac wedi clywed canu yn yr awyr. Nis gwelais ac nis clywais i, hyd y gwn. Eto rhaid imi roddi coel ar ei geiriau hi. Onid oes synhwyrau coll a rhai wedi hanner pylu?⁷⁴

Angerddoldeb yw'r gyfrinach a'r cyfrwng i gymuno â'r byd ysbrydol, yn ôl Parry-Williams, fel y gwelwyd ar ddechrau'r bennod hon. Yn yr ysgrif uchod, ceir awgrym go gryf y bydd yn ymgysylltu â'r byd ysbrydol pan fydd farw. Datblyga'r camau o'i anallu i weld y gwynt hyd at ei sicrwydd y bydd yn ei weld. Yn gyntaf, bu bron iddo ei weld; yn ail, yn angerdd sylweddoli, tybiai am ennyd iddo ei weld; yn drydydd, yn ing yr hwyr, yr oedd yn sicr braidd iddo ei weld. Ac yn olaf, yr adeg y gwêl y gwynt am ennyd, yn ôl yr hyn a ddywed, yw pan fydd hwnnw'n chwythu i gyfeiriad ei gartref wrth iddo gyrchu at Feddgelert yn ei angladd. Tybed a oes awgrym yn y fan hon, y bydd 'y dall distaw, yn ei unigrwydd gorweiddiog', yn gweld neu'n teimlo ei enaid, yn y byd ysbrydol, yn dychwelyd i fynyddoedd bro ei febyd, yn ôl at y Fam Ddaear, fel yr awgrymir yn 'Moelni'? Yn sicr, dyna'r darlun digamsyniol a geir yn ei gerdd, 'Bro';⁷⁵ rhaid cofio mai'r un yw ei enaid ef ag enaid y mynyddoedd, lle y ceir cydymdreiddiad llwyr. Ceir gwell awgrym o'r

sefyllfa hon ar ddiwedd '*Telegraph Poles*', ei fersiwn Saesneg o 'Polion

Teligraff':⁷⁶

Some day a small cortege will pass downhill to a hamlet in a glen. The poles I know so well will not then need to change. Their cheerful gloom of friendly black will suit that occasion as every other. Blind and senseless, I shall see and feel the momentary presence of each pole as I pass, and shall gladly return the last motionless salute of old understanding friends robed richly in the raven black of tar.⁷⁷

laith baradocsaidd a ddefnyddir yma, fel yn ei gerdd, 'Moelni'. Sylwir, hefyd, ei fod yn gallu cymuno â'r polion ar ôl iddo farw. Dywed fod gan y polion hyn enaid – enaid gosodedig, gorffenedig, ar ôl iddynt farw; y maent wedi cyrraedd perffeithrwydd angau ac y mae eu hymddangosiad unigol rheolaidd yn symbolau o ryw egwyddor unoliaethol; terfynoldeb sydd yn debyg i dragwyddoldeb.

Ymddengys, felly, y gellir cymuno â'r byd ysbrydol yr ochr hwn a'r ochr draw i farwolaeth. Fodd bynnag, cofir iddo ddweud na fyddid yn ymgydnabod â'r byd ysbrydol pe byddai rhywun yno. Ond, fel y trafodwyd eisoes, y mae'n rhaid cadw mewn cof anwadalwch cynhenid y bardd a'r llenor o Ryd-ddu. Cofir iddo ddweud mai dychmygu clywed 'canu yn yr awyr' yr oedd ei nain,⁷⁸ ac ymhellach, diystyrodd gynnwys ei

gerdd, 'Bro', yn ddigon swta.⁷⁹ Dengys hyn mai cyflwr seicolegol cydnabyddedig a fyddai'n gyfrifol am y gred gamarweiniol parthed clywed lleisiau go iawn.

Ar y llaw arall, y mae'n debyg iddo gredu mai 'synnwyr dros-ben' sydd yn gyfrifol am yr ysfa lenydd:

Peth y mae dyn wedi ei etifeddu, peth sydd ynddo wrth natur a greddf, ydyw hyn, rhywbeth cyntefig, cyn-wareiddiad, o bosibl; synnwyr dros-ben; mesurdeb newydd
...⁸⁰

Dechreuwyd astudio ffenomena paranormal neu oruwchnaturiol yn wyddonol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oherwydd poblogrwydd 'ysbrydegaeth fodern'. Ac ar ôl 1930, datblygodd yn baraseicoleg oherwydd arbrofion J. B. Rhine.

Deillia'r gred fodern mewn ofergoeliaeth o oes Newton oherwydd na chredai pobl mai mecanyddiaeth yn unig oedd sail bywyd.

Damcaniaethodd y Neo-Blatonydd, Henry More, fod ysbrydion yn bodoli mewn gofod pedwerydd dimensiwn yn y byd hwn. Yr oedd cyrff dynol tri dimensiwn yn ymestyn i bedwerydd dimensiwn y tu hwnt i'r synhwyrau cyffredin. Daeth y syniad hwn yn boblogaidd iawn yn ystod y

bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ymddengys fod hyn yn cytuno â syniad

Parry-Williams yn ei ysgrif, 'Drws-y-Coed':

Gan nad amlinell weledig y corff ydyw ffin y corff, anodd dirnad pa le y mae'r ffin (a bwrw bod un) rhwng y rhan allanol (o'n safbwynt ni) o'r byd ysbrydol hwn a'r rhan fewnol.⁸¹

Yn ei lyfr, *The Reach of the Mind* (1948),⁸² dywed Rhine nad yw gwyddoniaeth yn gallu esbonio beth yw'r meddwl dynol a sut y gweithreda â'r ymennydd. A datgana nad oes neb yn esgus ei fod yn gwybod sut y cynhyrchir ymwybyddiaeth. Dim ond ar y Sul ac mewn angladdau y defnyddid y gair, 'enaid', bellach, meddai; y gair, 'meddwl', a ddefnyddid yn ystod yr wythnos. Cynhwysa'r llyfr drafodaethau ar y goruwchnaturiol, fel telepathi, *ESP* a mater, cyrhaeddiad y meddwl mewn gofod, proffwydoliaeth, grym mesuradwy y meddwl a màs y meddwl, gyda llawer o sôn am arbrofion. Dyma'r hyn a ddywed am rôl *ESP* mewn gweddi:

... both in the field of religion and out of it, people are asking about the role of ESP in prayer. An interesting answer to this question, probably all that can now be said on it, is presented by Gerald Heard in his book, *A Preface to Prayer*. Heard assigns to ESP a large positive role in one of the three types of prayer which he designates and discusses. Dr. Frank C. Laubach, too, talks of the relation in his recent volume, *Prayer*. In a more general way,

Aldous Huxley carries the findings of para-psychology straight to the core of some of these great issues in religious thought in *The Perennial Philosophy*.⁸³

Esbonia'r awdur fod y gallu sydd ynghlwm wrth *ESP* yn fodd i drosgynnu'r materol ac nad yw'n cael ei effeithio gan ofod ac amser, a chadarha nad yw'n dibynnu ar unrhyw egwyddor ffisegol y gwyddys amdani. Yn ychwanegol, ni chred fod ffiseg gofod-amser y dyddiau hynny yn gyfrifol amdano, ychwaith. Casgliad Rhine yw bod yn rhaid debyn deuoliaeth mater ac ysbryd oherwydd bod y meddwl yn rhyngweithio â gwrthrychau allanol.

Fel hyn y dehongla'r broblem sydd yn poeni Parry-Williams gymaint ynglŷn â gorgyffyrddiad y meddwl a mater:

Yet by their very interaction *the mind and the object functionally become one system* and qualify the dualism that exists. The mind and the brain too must be integrated as they act upon each other in the normal processes of experience. Presumably the interoperation of what we call mind and matter occurs because of common properties. Psycho-physical action requires a basic common ground, the presence of which we can as yet only infer. It may be a sort of 'submerged continent' of causality, requiring for its discovery sounding techniques not yet available to science. At any rate it is but common sense to suppose there is necessarily some basis existing for psycho-physical interaction, since such action does occur.⁸⁴

Ychwanega ei gred fod y meddwl yn wahanol i'r ymennydd:

The establishment of the mind as different from the brain in some fundamental respect supports the psychocentric view of man. This means that the mind is a factor in its own right in the total scheme of personality. The personal world of the individual is therefore not centred completely in the organic functions of the material brain.⁸⁵

Cystal aros gyda Rhine am funud i ddarganfod yr hyn a ddywed am

faterion eraill ynglŷn â chrefydd:

The research in para-psychology even now touches other great issues of religion. If the mind of man is non-physical, is it possible to formulate a hypothetical picture of a non-physical system or world made up of all such minds existing in some sort of relationship to each other. This leads to speculative views of a kind of psychical oversoul, or reservoir, or continuum, or universe, having its own system of laws and properties and potentialities. One can conceive of this great total pattern as having a transcendent uniqueness over and above the nature of its parts that some might call its divinity.⁸⁶

Yr hyn sydd ganddo o dan sylw, yn ôl pob tebyg, yw'r *Anima Mundi*, y

World Soul neu'r *Universal Mind* a drafodwyd eisoes parthed syniadau

Parry-Williams.

Dychwelir at y gyfrol, *Olion*, yn awr, i drafod y ddwy gerdd arall o dan sylw. Seilir 'Nid Drychiolaeth'⁸⁷ ar yr hen ragargoel, 'toili', sef drychiolaeth angladd lle y cychwynna'r orymdaith o dŷ'r ymadawedig hyd at y bedd, gan ddiplannu ar ôl y gladdedigaeth. Credid i'r hwn a

welsai'r ddrychiolaeth ragweld ei angladd ei hun, ac fe gysurir goddrych y gerdd gan y ffaith fod ei fab wedi ei gweld, hefyd. Esbonia John Rhys mai ystyr y gair, 'toili', yw 'teulu' ac fe'i cysyllta â'r Tylwyth Teg:

I may add that when I was a child in the neighbourhood of Ponterwyd, on the upper course of the Rheidiol, hardly a year used to pass by without somebody or other meeting a phantom funeral. Sometimes one got entangled in the procession, and ran the risk of being carried off one's feet by the throng. There is, however, one serious difference between our phantom funerals and the Dementian *toeli*, namely, that we recognize our neighbours' ghosts as making up the processions, and we have no trouble understanding their talk. At this point a question of some difficulty presents itself as to the *toeli*, namely, what family does it mean?—is it the family and friends of the departed on his way to the grave, or does it mean the family in the sense of the *Tylwyth Teg*, 'Fair Family,' as applied to the fairies? I am inclined to the latter view, but I prefer thinking that the distinction itself does not penetrate very deeply, seeing that a certain species of the *Tylwyth Teg*, or fairies, may, in point of origin, be regarded as deceased friends and ancestors of the *tylwyth*, in the ordinary sense of the word.⁸⁸

Y mae cyfarth 'Cŵn Annwn', hefyd, yn darogan marwolaeth ac yn hela eneidiau'r meirw, a defnyddia Parry-Williams hyn yn ei gerdd, 'Y Gigfran', fel y gwelwyd uchod. Gwyn ap Nudd yw'r Brenin Annwn y cyfeirir ato yn y gerdd, brenin y Tylwyth Teg ac Annwn, yn hen lôn gwerin Cymru. Uffern y Cristion yw Annwn yn y cyd-destun hwn a

demoniaid yw trigolion y lle. Yr un defnydd a wneir o'r robin goch yng ngwaith Parry-Williams sydd yn darogan marwolaeth ei fam yn 'Adar y To'.⁸⁹ Credid i bob math o adar ddarogan marwolaeth, yn enwedig y dylluan wen.

Ymddengys rhigwm Parry-Williams, 'Haul a Lloer'⁹⁰ yn un dyrys iawn ond ceir ynddo ryw led-gysylltiad â chredoau'r Celtiaid gan iddo gynnwys trafodaeth ar y 'ddwy belen' ac o ble y daeth dyn ac i ble yr â. Yn ei bennod ar athrawiaeth ailenedigaeth, trafoda W. Y. Evans-Wentz gred y Derwyddon yn nhrawsnewidiad yr enaid o un bod dynol i'r llall, gan gynnwys llawer iawn o dystiolaeth gan bobl a oedd yn credu hynny.⁹¹ Esbonia'r awdur i'r Parchedig T. M. Morgan, ficer plwyf Newchurch, ger Caerfyrddin, gyfrannu'r wybodaeth ganlynol, a gafodd gan ei dad. Ar y lloer yr oedd pob bod dynol yn bodoli yn flaenorol ac os oeddent wedi byw bywyd cyfiawn yno, cawsent eu geni drachefn ar yr haul gan fynd, wedyn, i'r nefoedd uchaf. Tynged y rhai anghyfiawn ar y lloer oedd cael eu geni drachefn ar y byd hwn o ddioddefaint a phechod. Fodd bynnag, drwy fyw bywyd cyfiawn ar y ddaear gallai eneidiau ddychwelyd i'r lloer gan esgyn i'r haul a'r nef uchaf. Ond trwy fyw yn annilys ar y ddaear, gennid eneidiau yn y trydydd cyflwr, un o dywyllwch

llwyr, a dioddefaint a phechod yn waeth fyth nag y mae ein byd ni yn ei gynnig. Ond er hynny, gall yr enaid weithio i fyny at y gogoniant uchaf os ydynt yn brwydo yn llwyddiannus yn erbyn drygioni.

Ymhelaetha'r awdur wrth esbonio'r gair, 'lloerig', gan ddweud bod yr eneidiau a anfonir o'r lleuad, sydd yn anaddas i'w geni ar yr haul, yn cael eu gosod ar y ddaear a chan fod gormod o eneidiau yn chwilio am gyrff, y maent yn brwydro ei gilydd er mwyn darganfod un. Wrth geisio gwthio enaid o gorff er mwyn ei feddiannu, y mae dynion yn y byd hwn yn arddangos ynfydrwydd a châi'r cymeriad hwnnw ei alw'n 'lloerig' neu un sydd yn '*moon-torn*' neu '*lunatic*', hynny yw, '*moon-struck*'. Y mae'n amheus a yw hyn yn gywir. Un peth arall cyfeiliornus, efallai, yw'r ffaith i Evans-Wentz ddweud bod 'Cylch y Gwynfyd' yr un fath â 'Nirfana' Bwdiaeth, lle y ceir gwybodaeth absoliwt a hapusrwydd lle y mae dyn yn dod yn fod dwyfol, gwir dduw. A hefyd, dywed David Williams, Ustus Heddwch o Gaerfyrddin, wrtho na chollir unigolrwydd yng Nghylch y Gwynfyd oherwydd bod hwnnw yr un fath â Nirfana metaffiseg Indiaidd, sef ystad o hunan ymwybyddiaeth perffaith, diderfyn. Dywed, hefyd, bod dymuniadau'r enaid yn cael eu diwallu a bod cysylltiad â Duw. Ystyr 'Nirfana' y dyddiau hyn yw diffodd fflam yr hunan, a thrwy hynny,

ddiweddu pob poen; nid oes aileni. Er iddo gael ei adnabod yn gyffredinol yn llwyr ddifodiant, fe'i disgrifir gan rai ysgrythurau Bwdiaidd fel ystad bositif o heddwch tragwyddol, gyda'r hunan yn llwyr ymgolli yn yr annherfynol.

Ond nid oes dystiolaeth amlwg yng ngwaith Parry–Williams ei fod ef yn credu mewn ailenedigaeth, o un bod dynol i'r llall, er iddo grybwyll 'profiad hynafiaid gynt' yn ei ysgrif, 'Ar Chwâl',⁹² sydd yn cytuno â 'chof yr hil' Gustav Jung. Fodd bynnag, datgana fod ganddo yntau ran o'i dad a'i fam, yn ôl ei gerdd, 'Gweddill',⁹³ a hynny oherwydd etifeddeg, yn ôl pob golwg. Yn yr un bennod, cymhara Evans–Wentz argyhoeddiad mam feichiog ynglŷn â'r math o blentyn a gaiff â datblygiadau cyfoes ei oes ef:

I take this to mean, somewhat as in the similar case of Dechtire, the mother of Cuchulainn ..., that the kind of soul or character which will be reincarnated in the child is determined by the psychic prenatal conditions which a mother consciously or unconsciously may set up. If this interpretation, as it seems to be, is correct, we have in this Welsh belief a surprising comprehension of scientific laws on the part of the ancient Welsh Druids – from whom the doctrine comes – which equals, and surpasses in its subtlety, the latest discoveries of our own psychological embryology, criminology, and so-called laws of heredity.⁹⁴

Yn ôl soned Parry–Williams, ‘Dychwelyd’,⁹⁵ y mae ei enaid yn dychwelyd i ryw ehangder mawr o’r lle y daeth, ac yn ‘Ymwelydd’,⁹⁶ os oes ysbryd neu enaid yn perthyn iddo, yna, ffoi adref i ‘dwillwch diedifar y tu hwnt’ a wna.

Animistiaeth

Agwedd arall a gysylltir â llên gwerin yw animistiaeth, sef y gred fod popeth, gan gynnwys anifeiliaid, y byd llysieuol a phethau difywyd, yn meddu ar ysbryd neu enaid, ac y mae hyn mor hen â’r Oes Baleolithig neu Hen Oes y Cerrig. Mewn geiriau eraill, bodola ysbryd cyffredinol ym mhobman. Diddorol sylwi i Parry–Williams danlinellu ac ychwanegu sêr i bwysleisio’r frawddeg, ‘To the savage, all is spirit,’ yn un o’i lyfrau, *Essays of a Biologist*.

Ymddengys mai Edward Burnett Tylor a ail–boblogeiddiodd animistiaeth yn yr oes ddiweddar, drwy ei lyfr, *Primitive Culture* (1871). Credid bod eneidiau, tarthau neu gysgodion, yn symud rhwng bodau dynol ac i mewn i blanhigion, anifeiliaid a phethau difywyd. Syniai Tylor i’r Cyntefigion ddod i’r casgliad hwn er mwyn esbonio cwsg, breuddwydion a marwolaeth. Addolid coed a phlanhigion fel totemau, a chredid bod enaid unigolyn yn gallu crwydro oddi wrth ei gorff byw.

Adlewyrcha Neo–Baganiaeth yr hen syniad hwn gan nad oes wahaniaeth rhwng y materol a'r ysbrydol. Fel y dywedodd Parry–Williams wrth Aneirin Talfan Davies: 'y mae'r mater yn ysbrydol.' Cyfeiriad at y darganfyddiad fod mater ac egni yn un endid, sef mater–egni, sydd yma, y mae'n siŵr.⁹⁷ Ymddengys ei fod wrth ei fodd bod y byd materol a'r byd ysbrydol yn nesáu at ei gilydd. Cofir, iddo drafod 'yr ysbryd cyffredinol', hefyd, fel y soniwyd eisoes. Cystal nodi fod *Totem and Taboo* Freud a *Psychopathology of Everyday Life* yr un awdur yn ei gasgliad personol o lyfrau. Triniaeth ar seicoleg hiliau yw'r llyfr cyntaf a dywed y cyfieithydd fod arwyddion fod plentyndod unigolyn yn debyg iawn i hanes cyntefig neu blentyndod hiliau. Y mae'r wybodaeth a enillwyd drwy ddadansoddi breuddwydion a ffantasiau, wrth gael eu cymhwyso at gynhyrchion ffantasiau hiliau, fel mythau a straeon tylwyth teg, yn tueddu i ddangos bod yr ysgogiad cyntaf i ffurfio mythau yn ganlyniad yr un brwydrau emosiynol â'r rhai sydd yn cynhyrchu breuddwydion, ffantasiau a symptomau.⁹⁸ Cytuna Parry–Williams â hyn pan ddywed:

Onid swyn a syniad plentyn ydyw'r pethau melysaf trwy gydol oes, ac onid holion plentyn ydyw holion mwyaf athroniaeth hefyd?⁹⁹

Yn ei bennod, 'Animism, Magic, and the Omnipotence of Thought' yn *Totem and Taboo*, dywed Freud fod hiliau cyntefig yn tadogi ar y byd nifer fawr o fodau ysbrydol sydd yn dda neu'n ddrwg iddynt, gan feddwl mai ysbrydion a demoniaid sydd yn achosi gweithrediadau naturiol.¹⁰⁰

Nid oes raid chwilio yn fanwl iawn yng ngwaith Parry-Williams i sylweddoli bod rhyw rym tywyll, drwg yn gyfrifol am lawer peth anesboniadwy. Y mae'r holl enghreifftiau yn rhy niferus o lawer i'w rhestru yn y fan hon, ac felly, ni wneir ond crybwyll rhai ohonynt. Y mae rhyw ddieflyn direidus yn gallu chwarae mig â dyn¹⁰¹; y mae rhyw ddeddf anorthrech yn peri gwasgfeydd¹⁰²; y mae'r ysgrifwr fel petai yng ngafael rhyw reidrwydd gorthrechol¹⁰³; bu rhyw goblyn gwamal o fewn yr ysgrifwr¹⁰⁴; efallai mai rhyw bŵer, na all wrtho, sydd yn dewis camau bywyd dyn¹⁰⁵; y mae'r ddaear yn meddu ar bŵer ansylweddol¹⁰⁶; 'Y mae rhyw allu daemonig ar waith yn y greadigaeth hon sy'n oferu pob dyhead diddanus ac yn seithugo pob synhwyriad sgilgar.' Bydd y daemon anfeidrol, y seithugwr mawr, yn dal i drefnu pethau a chael hwyl am ben meidrolion¹⁰⁷. Ac i orffen, y mae cryn angen ymchwilio i ddaemoniaid daear¹⁰⁸.

Unwaith eto, ni ellir, yn y fan hon, ond talu ychydig o sylw i'r defnydd o animistiaeth yng ngwaith y bardd a'r llenor o Ryd-ddu. Rhag ofn creu'r syniad mai rhamantiaeth bur yw hyn ganddo, cystal nodi'r hyn a ysgrifennodd ar ochr tudalen un o'i lyfrau. Y mae'n rhaid cofio iddo gwestiynu a oes ffin rhwng rhan ysbrydol yr enaid oddi mewn i unigolyn a'r byd ysbrydol, y tu allan i'w gorff gweledig, fel y dadleuodd yn 'Drws-y-Coed'.¹⁰⁹ Dyma'r pwynt 'ysbrydol' yn y llyfr, *The Miraculous Birth of Language*, a wrthwynebodd:

The tree, as noted above, has an organized and self-contained individuality with an active power of selecting sensuous material from its environment, synthesizing this into its own individual form, and actively maintaining it in that synthesis. But its individuality does not extend, as we might say, beyond its own bark. It is contained within its own physical dimensions and stands confined to its own particular physical point in space and time. There is no perceptible power of the tree of reaching beyond its own physical boundaries, so that it does not differ significantly in that respect from any inorganic material object. It has, in other words, no actualized mind.¹¹⁰

Y mae Parry-Williams wedi marcio ar ochr y dudalen, 'beyond its own bark', ac wedi gofyn: 'Who knows?' am y rhan o 'There is no perceptible power' hyd at 'actualized mind'. Parha Parry-Williams i amddiffyn ei

ddaliadau ynglŷn â bywyd 'ysbrydol' y byd naturiol. Dyma'r hyn a ddywed awdur y llyfr:

This rudi-language of the animals is the natural accompaniment of mind and locomotion. The three appear as being teleologically related. With the individualized mind which holds an expanse of space beyond the body's limits, and with the power of self-movement to take, in a given time, successive physical possession of this larger expanse, the animals have vocal organs by which they can produce these significant sounds for purpose of intercommunication within the larger expanse of their mental world, and for mutual physical co-operation within it. The plant, having no mind nor locomotion, has no language. The three things merge together.¹¹¹

Anghytuna Parry-Williams gan ddatgan: 'but certain plants have definite locomotion!! And what about the organisms that cannot be differentiated!'

Gellir rhestru llawer iawn o enghreifftiau o animistiaeth yn ei waith a chynhwysir rhai ohonynt yn fras yma: addola goed¹¹²; gwarchoda'r mynyddoedd ei yrfa¹¹³; gesyd ddarn o'i enaid ar ôl yn rhywle¹¹⁴; y mae darnau ohono ar chwâl ar hyd y fro¹¹⁵; murmura polion telegraff eu paderau pell¹¹⁶; treiddia miwsig milain y mellt trwy wifrau telegraff¹¹⁷; gwrandawa ar y garreg wen yn traethu ystori¹¹⁸; try'r olwyn ddŵr heb esboniad digonol¹¹⁹. Yn ei dair ysgrif o dan yr enw, 'Y Tri Llyn', y mae

tai fel petaent am warchod Llyn y Dywarchen ac yr oedd dŵr y llyn yn gysegredig i'r ysgrifwr; yr oedd yn ddŵr swyn. Gorwedda Llyn y Gadair ar ei wely mawnog crwn, gwarchoda dau glogwyn lannau'r llyn ac yr oedd i hwnnw ei dymherau a'i dymhorau. Hela Parry-Williams ei hun a oes rhyw fath o ymwybyddiaeth synhwyrus gan y llyn ei hunan a bod hwnnw'n ymwybodol fod yr ysgrifwr yn sôn amdano. Â ymlaen i drafod yr hyn y gallai'r llyn, yn ei neilltuedd a'i dawelwch, feddwl amdano. Daeth i deimlo'n fwy cartrefol yng nghwmni Llyn Cwellyn wrth ymgynabod mwy ag ef.¹²⁰ Defnyddia Parry-Williams y geiriau, 'cymdeithasiad' a 'chymundeb' yn aml i ddisgrifio ei berthynas â phethau. Sylwir bod perthynas dra agos rhyngddo ef a'i feic modur, hefyd! Yn yr ysgrif hon y ceir, o dan fantell, efallai, ei gred mewn animistiaeth:

Ym myd pethau meirwon – a bywyd yn eu plith – nid yw cynefindra'n magu dirmyg ... Er gwell ac er gwaeth, y mae fy motor beic a minnau wedi ymgynefino gymaint â dyfod ohonom yn ben ffrindiau. Cas o beth bellach fyddai'n hysgaru. Siawns na byddwn yn gyfeillion yrhawg.¹²¹

Rhaid nodi, unwaith eto, i Parry-Williams ddweud ei fod yn blentynnaidd oherwydd ei fod yn sôn am bethau plentynnaidd.¹²²

Efallai i dotemiaeth chwarae rhan ym mywyd yr ysgrifwr, o ddarllen 'Pagan Glân'. Goddrych naturiol sydd yn meddu ar ystyr ysbrydol yw totem ac fe'i defnyddiwyd fel emblem, yn enwedig gan grwpiau o bobl neu deuluoedd. Credai rhai Cyntefigion fod ganddynt fwy nag un enaid a chadwent un neu rai ohonynt oddi mewn i'r Totem. Ymddengys mai dyna a olyga Parry-Williams pan gyfeiria at garreg a phostyn yn y darn canlynol, lle y mae'n amgyffred â rhan o'i enaid fel anadliad:

Petawn i'n mynd yno i grwydro eto, y cwbl a ddeuai i'm rhan fyddai teimlo ambell anadliad awelog o rywle wrth fynd heibio i glwt o garreg, neu glywed cyffro cynnil wrth roi fy llaw ar ambell bostyn – argoelion ac adalwadau o'r hen gymundeb a fu gynt rhyngof a rhyw anian ysbrydol sy'n mewnfodoli yn naear a cherrig y fangre honno.¹²³

Y mae llawer o eiriau yng ngwaith Parry-Williams yn adlewyrchu elfennau o lôn gwerin ac ofergoeliaeth. Gellir rhestru rhai ohonynt ar hap – ellyll, drychiolaeth, crisial, daemoniaid, gallu daemonig, bwganod, coblyn, dewin, daemon, codi cythreuliaid, nigromans, croesffyrdd, tylluan ac adar.

Yn ôl W. Y. Evans-Wentz yn y llyfr y cyfeiriwyd ato uchod, perthyna'r '*Fairy-Faith*' i ddysgeidiaeth yr enaid. Y mae gwlad y Tylwyth Teg yn ystad neu gyflwr, bro neu le, yn debyg iawn, os nad yn hollol debyg, y

mae pobl waraidd ac anwaraidd yn gosod eneidiau y meirw yng
nghwmni bodau anweledig eraill fel duwiau, daemoniaid, a phob math o
ysbrydion da a drwg. Felly yr ystyria gweledyddion Celtaidd wlad y
Tylwyth Teg, ac ymhellach, dywedant fod y wlad honno yn bodoli o
ddifrif fel byd anweledig y mae'r byd gweledig wedi ei dansuddo ynddi,
fel ynys ar gefnfor nas chwiliwyd gan neb. Yno, y mae mwy o
rywiogaethau o fodau byw nag sydd yn y byd hwn oherwydd ei bod yn
anghymarol fwy eang ac amrywiol yn ei phosibiliadau. Fel y dangoswyd
uchod, ymdrech seicolegol yw amgyffred â'r byd ysbrydol i Parry-
Williams.

Yr oedd rhai o'i hynafiaid, gan gynnwys ei nain, fel llawer o bobl eraill,
yn honni iddynt weld y Tylwyth Teg, ond nid yw ef yn sicr a yw wedi eu
gweld neu eu clywed ai peidio; hoffai wybod o ddifrif. Er hynny, dyhea
am y digwyddiad:

Erbyn hyn yr wyf i fy hun wedi anobeithio bron ddyfod i
gysylltiad clust na llygad na chyffyrddiad â'r bobl fach
hoenus hyn, er ymdrechu'n deg; ...¹²⁴

Ni wn yn sicr sut y mae pethau yno'n awr; ni wn a ydyw'r
llyn bach wedi ei 'osod' i rywun yn ddiweddar ai peidio. Y
mae'n bosibl nad ydyw, a bod felly siawns i'r Tylwyth Teg
ddyfod yn ôl i'w cynefin ac i'w hetifeddiaeth. Felly, er hir
led-anobeithio, yr wyf yn ailddechrau byw mewn gobaith

gwynfydedig drachefn y rhuthra rhywun rhamantus hyd ataf yn sydyn ryw fore, a'i wynt yn ei ddwrn, gan haeru'n orfoleddus iddo weld neu glywed y Tylwyth Teg o gwmpas y fan unwaith eto. Ac mi godaf innau ac mi anelaf yn union syth am Lyn y Dywarchen, yn uchelder Eryri, yn falch o'r cyfle ac yn llawn hyder ffydd, i fynnu gweld a chlywed drosof fy hun. Ac os bydd ffawd o'm tu, mi ddychwelaf yn gynhyrfus ddigon, mi wn, gan y byddaf wedi cael, ar lannau'r hen lyn, beth brofiad, o leiaf, o'r 'bywyd na wŷr ein byd ni.'¹²⁵

Cymysgfa o amheuaeth, amhendantwydd a gobaith a geir yma, o sylwi ar y geiriau canlynol: 'anobeithio'; 'ymdrechu'n deg'; 'siawns'; 'hir led-anobeithio'; 'byw mewn gobaith gwynfydedig'; 'rhywun rhamantus'; 'haeru'n orfoleddus'; 'cyfle'; 'llawn hyder ffydd'; 'i fynnu gweld a chlywed drostof fy hun', ac 'os bydd ffawd o'm tu'. Gwelir sut y mae'n codi ei obeithion wrth fynd rhagddo nes iddo bron ag ildio, ond yr hen stori ydyw eto oherwydd bod yn rhaid iddo feddu ar ddogn go sylweddol o ffydd a bod yn rhaid i ffawd fod o'i blaid. Ond yr amod bwysicaf yw ei fod yn mynnu gweld a chlywed y Tylwyth Teg drosto'i hun. Ni all dderbyn eu bodolaeth heb gymorth empeiriaeth. Yn yr un modd, synia mai'r rheswm y mae pobl yn credu yn y byd ysbrydol yw diffyg esboniad hollol foddhaol ar bethau.¹²⁶ Y mae hyn yn nodweddiadol ohono ef a dyna pam y ceir y tyndra yn ei waith; y mae arno eisiau gwybod, ond ar

ôl gwybod, diflanna'r swyn yn gyfan gwbl. Eir ymlaen, yn awr, i drafod y broblem benodol o fodolaeth yr enaid.

Y Corff a'r Enaid

Yn 'Archoffeiriad', wrth drafod profiad ysbrydol, awgryma Parry-Williams nad yw ystad eneidol ond yn rhywbeth sydd yn dibynnu ar rai o foddau peiriant y corff. Ac am nad yw ffin enaid a chorff a gweithgareddau'r ddau wedi ei setlo, meddai, y mae'n osgoi'r dryswch er iddo orfod defnyddio'r geiriau enaid, ysbryd, meddwl a chorff a rhai tebyg, heb eu manwl ddisgrifio.¹²⁷ Yr un amhendantrwydd sydd yn 'Ymhél â Phrydyddu':

'Rwy'n cymryd y gair ymennydd yn derm am ffynhonnell neu offeryn yr holl ysgogiadau sy'n mynd i'w gynhyrfu, rhag cyfeirio gormod yn y fan yma at 'enaid' a 'chalon' ac 'ymwybod' a themau cyffelyb, heb sôn am 'sistem nerfol', madruddyn y cefn', a 'chwarennau endocrin'.¹²⁸

Fodd bynnag, ymddengys y cred Parry-Williams bod mwy i'w gyfansoddiad na'r corff yn unig oherwydd ei fod yn defnyddio'r gair, enaid, fel rhywbeth ar wahân i'r corff. Ceir enghraifft amlwg o'r agwedd ysbrydol hon yn ei ysgrif, 'Pagan Glân' '...gadael rhyw ran o'ch ysbryd neu'ch enaid, rhyw ebychiad ohonoch chwi eich hun, mewn lle yr oeddech wedi cyrchu ato.'¹²⁹

Felly, ni ellir ond dilyn y ddadl am fodolaeth yr enaid yn y bennod hon, gan gyfeirio at feddyliau anwadal Parry–Williams a’r oes ynglŷn â’r pwnc, a defnyddio’r geiriau, cof, enaid, dychymyg, meddwl, synhwyrâu, ymennydd, ysbryd ac ymwybyddiaeth. Y mae’n hollbwysig cofio bod cred yn anfarwoldeb yr enaid yn greiddiol i’r grefydd Gristnogol, a hefyd, bod yr ‘enaid’ yn chwarae rhan allweddol yn ymdrech y bardd a’r llenor o Ryd–ddu wrth geisio treiddio i’r adnabyddiaeth ohono’i hun drwy ei hunan ddadansoddi.

Adlewyrchir y ddeuoliaeth rhwng y corff a’r enaid yn gryf yn ei weithiau, ond sylwir bod y ddau yn ddiwahân yn ei rigwm, ‘Rhigwm’:

Mae dau ohonom, yn siŵr i chwi,
A’r ddau’n ddiwahân – Myfi a Myfi.

Dau efell ydym, yr un yw ein hoed,
Yn cymuno â’n gilydd er erioed.

Nid oes unigrwydd yn bod i ni,
Na distawrwydd chwaith i Myfi a Myfi.

Chwi synnwch wybod y sgwrs ddi–ball
A fydd pan fo’r naill yn annerch y llall:

Ond ni chaiff neb ein cyfrinach ni –
Nyni ein dau, sef Myfi a Myfi.¹³⁰

Yr un argyhoeddiad a geir yn ei soned, 'Un a Dau',¹³¹ lle y dywed nad oes terfyn rhwng corff ac enaid dyn; gorgyffwrdd y maent, yn ei dyb ef. Dywed eu bod mor agos i'w gilydd â'r undod tynnaf a geir, ac ategir hyn yn ei ysgrif, 'Drws y Coed'.¹³² Awgryma hyn mai am un, yn hytrach nag am ddau beth, y cyfeirir ato. Ymhellach, da o beth fyddai cofio bod Parry-Williams yn cofleidio'r hen goel, animistiaeth, sydd yn golygu mai ysbryd yw'r cyfan.

Ond eto, wrth drafod ei waith, yr ydys yn ymdrin ag unigolyn â phegynau eithafol i'w farn ynglŷn â'r enaid, oherwydd ar y naill law, yn ei rigwm, 'Yr Esgyrn Hyn',¹³³ dywed mai dim ond esgyrn yw unigolyn. Ar y llaw arall, eglura fod diwedd glo ei soned, 'Dychwelyd', yn ysbrydol a chrefyddol oherwydd bod ysbryd unigolyn yn dychwelyd i ryw lonyddwch tragwyddol ar ôl dod o ryw ehangder mawr; nid yw hynny'n syniad materol iawn, yn ei dyb ef.¹³⁴

Atega Parry-Williams fod corff ac enaid yn rhan o'i gyfansoddiad yn ei rigwm, 'Marw', lle y mae'n ei led-uniaethu ei hun â phrofiad Crist yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf:

Yn hwyr y nos, a'r corff ar ddihun,
Wrth synio marwolaeth, bum (sic) farw fy hun.

Teimplais yr iasau rhyfedd sydd
Yn cosi'r ymennydd, a'r enaid yn rhydd.

Gwelais oferedd uchelgais oes
A rhinwedd anfarwol gwaed a chroes.

Gwelais ffolineb dyn a rydd fryd
Ei enaid ar lynu'n ei dipyn byd.

.

Pan fyddwn farw, ein dau, ryw ddydd,
-Fy nghorff a minnau, mor hyfryd fydd

Cofio'r marw dihun a diloes
Wnaeth ofni marw yn chwerthin f'oes;

Y marw a droes fy uchelgais i
Yn gariad at groes a Chalfari.¹³⁵

Yr oedd sylwedd yn fwgan iddo, ac ysbryd yn anwylyd, fel y datganodd yn 'Noethlymun (Profiad Munud Awr)'.¹³⁶ Yn 'Y Corff', cerdd arall a gyhoeddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, fe'i syfrdanir, ar un wedd, gan bresenoldeb caled, materol esgyrn ei gorff 'yn llonydd fyw' a'r galon yn cyflawni'r wyrth o gadw'r corff yn fyw, gan beri iddo deimlo'n ddryslyd ynglŷn â'i hunaniaeth; syniai mai rhywun arall ydoedd neu fod dau ohono, ef a'i gorff. Yn y gerdd hon, gwelir, felly, mai ei gred naturiol yw ei fod yn rhywbeth ar wahân i'r corff gan nad yw'n

ymddangos iddo ymuniaethu â hwnnw, a chanlyniad y profiad yw'r penderfyniad fod pob cnawd yn wellt, hynny yw, nad oes barhad iddo.

Neithiwr teimplais i

Fod gennyf gorff, ond gwyddwn i o'r blaen
Fod gwaed a chnawd yn eu priodas boeth
O amgylch f'esgyrn, yn eu clymu hwy,
Ond neithiwr yn fy ngwely y teimplais i.

Ofnais fy nghnawd fel petai estron im,
A chlywais fiwsig rhyfedd llif fy ngwaed
Yn gwatwar fy meddyliau. Teimplais rym
Caled fy esgyrn yn eu meddal wisg
Yn llonydd fyw, – ac ofnais i fy nghnawd.
Meddyliais mai un arall oeddwn i,
Neu fod rhyw ddau ohonom, fi a'm corff.
Gafaelais yn fy mraich a theimplais ruthr
Y gwaed yn torri dan y pedwar bys,
Ac ofnais waed y galon. Pwysais fwy,
A theimplais asgwrn caled yn fy llaw,
Ac ofnais hwnnw hefyd. Clywais sŵn
Y peiriant cynnes wrth ei wyrthiol waith
Yn symud yn ei unfan. Yn fy ofn
Mi gredais fod fy nghorff yn fwy na gwellt.
Cysgais heb freuddwyd. Yn y bore bach
Deffroais ac anghofiais ofn y corff,
A llefais gyda'r llu, "Pob cnawd sydd wellt".¹³⁷

Cyfyd dadl arall yn y fan hon oherwydd, o ddarllen rhwng y llinellau, synhwyrir rhyw atgasedd tuag at y corff yng ngweithiau Parry-Williams. Yn ystod ei gyfnod tra rhamantaidd, dywedodd fod sylwedd yn wrthun ganddo. Yn 'Yr Esgyrn Hyn', darlunia 'anfarwoldeb' tybiedig unigolyn

drwy gymharu'r corff dynol ag ysgerbwd noeth dafad heb fath o hunaniaeth yn perthyn iddi. Pan dderfydd y corff, terfyna nwyd, yr emosiynau, synhwyro a theimlo hefyd. Tybed ai oherwydd ei fyr barhad yn y byd hwn ac anghred y bardd a'r llenor yn atgyfodiad y corff y teimla hyn? Ai'r gwir yw yr hoffai feddu ar ddigon o argyhoeddiad i gredu yn anfarwoldeb y corff? Rhigwm arall sydd yn adlewyrchu yr un argyhoeddiad â'r hyn a geir yn 'Yr Esgyrn Hyn' yw 'Y Tramp':

Cerdded yr ydwyf o dan bwn
Cnawd ac esgyrn y corffyn hwn.

Symudwn beth eto, siawns, yn gytûn,
Y tipyn pac a myfi fy hun.

Ond pan deflir y baich oddi arnaf i
Ni bydd dim ar ôl ond lle buom ni.¹³⁸

Ar y llaw arall, a ddymunai fyw heb y corff ac a oes awgrym yn ei waith iddo gredu bod hynny'n bosibl? Hynny yw, a yw'r enaid yn gallu bodoli ar wahân i'r corff yn y byd hwn? Yn 'Celwydd', y mae chwerthin y cnawd am ei ben ei hun yn dristach na holl ddinodedd dyn, ac yma eto, gwacter llwyr yw unigolyn yn y bôn oherwydd bod angau yn traflyncu serch, pechod ac ofn, materion teimladol yr ymhela'r unigolyn â hwy yn ystod ei fywyd. Yma, hefyd, ceir ganddo'r gosodiad uniongyrchol nad oes

ystyr i fywyd, gan adlewyrchu 'argyfwng gwacter ystyr' yr oes: 'A'n gadael i hercian i gam o gam/ Rhwng pechod ac angau heb wybod paham;'. Er bod llawer o'i waith yn adlewyrchu ofnadwyaeth marwolaeth, fe'i cysurir weithiau nad yw mor ofnadwy â hynny, wedi'r cwbl. Ond yn 'Pen yr Yrfa', y mae ei feddwl yn gadarn ynglŷn â marwolaeth unigolyn: 'Ni all dim mwy dychrynlyd o ddiriaethol ddigwydd i neb ar y ddaear hon.'¹³⁹

Dywedodd wrth Aneirin Talfan Davies fod yna fater ac ysbryd o hyd ac yn wir bod y mater yn un ysbrydol. Hefyd, gwyddai am y darganfyddiad gwyddonol fod mater ac egni yn un endid a hwnnw'n tueddu i ddiflannu o fodolaeth neu ymdoddi'n ddiddim, fel yr eglurodd yn 'Pendraphendod'. Y mae darganfyddiadau yn myd ffiseg yn galonddid mawr iddo parthed ymchwil am unrhyw wybodaeth bendant am fater ac ysbryd. Cred eu bod yn tynnu byd Natur a byd yr Ysbryd yn nes at ei gilydd nes eu gwneud yn un bron. Dyfynna eiriau ffisegwr niwclear atomig blaengar:

Despite all paradox, ... we are talking of what you and I are made of, and the trees and the stones and the stars; and, for all we know, we are talking of the material basis of love and hate and patriotism and treachery and religious ecstasy.¹⁴⁰

Dyna odidog o beth fyddai i'r gŵr hwn a'i gymheiriaid gwyddonol allu setlo unwaith ac am byth beth yw *basis* yr holl gyfres yma o bethau materol, ansylweddol, cyfriniol ac emosiynol.

Ystyria Parry-Williams beth yw ymateb athronwyr, diwinyddion, cyfrinwyr a chelfyddydwyr i'r damcaniaethau hyn gan fod rhyw fath o debygrwydd rhwng eu syniadau hwy a dyfaliadau'r gwyddonwyr. Yn yr ysgrif hon, ymddiheura am natur drosgynnol ei gerdd, 'Dwy Gerdd', a chan mai trafodaeth am y ddadl ynglŷn â'r byd materol a'r byd ysbrydol sydd yn yr ysgrif, tybed ai ymson rhwng y corff a'r enaid sydd yn y gerdd y cyfeirir ati, gan i Parry-Williams ddweud bod un o'r ddau 'gymeriad' ynddi yn dal i lenwi'r gwagle 'a thydi dy hun'? Y mae yma gadarnhad mai sylwedd oedd cnawd llaw y 'cymeriad' hwnnw – yr oedd yn gymeriad o 'gig a gwaed'. Dengys ei gerdd uchod, 'Rhigwm', fod dau ohono, sef 'Myfi' a 'Myfi', sydd yn sgwrsio yn ddi-ball, a hefyd, dywed na chaiff neb eu cyfrinach hwy. Y mae'r 'ddau' sydd yn 'Dwy Gerdd' yn chwerthin a thristáu, ac ymhellach, y mae eu 'distawrwydd o'r naill du dan glo/ Yng nghoffrau creigiau Arfon heb na siw na miw.' sydd yn cydfynd â'r ffaith na chaiff neb gyfrinach y ddau Myfi yn 'Rhigwm'. Yr hyn sydd yn gwneud i rywun amau bod arlliw o'r syniad hwn yn 'Dwy Gerdd'

yw'r ffaith i Parry-Williams newid y dyfyniad o 'Dwy Gerdd' sydd yn ymddangos yn yr ysgrif, 'Pendraphendod', wrth iddo ei drafftio. Yn y fersiwn cyntaf, ysgrifennodd: 'Mae'm chwerthin eto'n aros ar y ffordd/ A'm prudd-der eto 'nghadw ar y rhiw,' ond newidiodd 'Mae'm' i 'Mae'n' ac 'A'm' i 'A'n' drwy dynnu llinell ar draws y ddwy 'm' a gosod dwy 'n' yn eu lle uwch eu pennau.¹⁴¹ Efallai fod eglurhad syml, gwahanol am y cywiriad hwn ond y mae'n werth sylwi arno. Fodd bynnag, gallai 'Dwy Gerdd' fod yn hanes dau gymeriad go iawn yn dal i fod yn Arfon, a hynny oherwydd cof y bardd neu o ganlyniad i oblygiadau y 'pedwerydd dimensiwn' fel y soniwyd yn gynharach yn y traethawd hwn. Gall realaeth y gorffennol fyw yn y presennol drwy gyfrwng y cof; gall wneud 'gwyrthiau' drwy achosi i bob gwagle ymddangos fel pe na bai felly, fel yr awgryma Parry-Williams yn y gerdd. Mewn geiriau eraill, y mae pwy bynnag a oedd o ddifrif yn Arfon yn y gorffennol yn dal i fod yno o ddifrif a hynny oherwydd y cof.

Yn y fan hon, gwell cyflwyno braslun o ddatblygiadau pwysig ynglŷn â bodolaeth yr enaid, a thrafod ystyr y gair, er mwyn deall yn well ysbryd yr oes y magwyd Parry-Williams ynddi.

Y ddadl gyfoes am y corff a'r enaid

Gyda'r enaid yr ydys yn meddwl, yn teimlo emosiynau ac yn ewyllsio.

Y mae'r ffaith fod unigolyn yn breuddwydio, yn dychmygu ac yn cofio yn rhai o'r rhesymau am y gred ym modolaeth yr enaid. Hefyd, ceir y gwahaniaeth amlwg o gorff byw a chorff marw. Ac os oes y fath beth ag anfarwoldeb, yna, y mae'n rhaid derbyn bod yr enaid yn gallu bodoli ar wahân i'r corff. Ond wrth ddweud hyn, cystal nodi nad yw pawb wedi credu ym modolaeth yr enaid, a phobl wedi gwadu ei fodolaeth yn ddigamsyniol ar hyd yr oesoedd.

Cred rhai fod eu henaid wastad wedi bodoli a bod enaid yn trawsnewid o un unigolyn i'r llall, o unigolyn i anifail, neu o anifail i unigolyn, neu hyd yn oed bod eu henaid yn mynd i mewn i bethau difywyd. Synia rhai fod eu henaid yn rhan o enaid y bydysawd. Yn yr oes gyntefig, yr oedd y bobloedd yn argyhoeddedig fod enaid yn perthyn iddynt, ac ymhellach, fod yr enaid yn gallu gadael y corff tra bo rhywun yn cysgu a'i fod yn hofran o gwmpas corff yr ymadawedig. Yn aml iawn, cyfeirir at enaid fel anadl a dyma a geir gan y bardd a'r llenor o Ryd-ddu yn ei ysgrif, 'Pagan Glân'. Nid oes dim yn anghyffredin yn hyn oherwydd tarddiad y gair Lladin amdano, '*amima*', sydd yn golygu 'anadl'. Y mae'r syniad fod y

bydysawd yn meddu ar enaid yn hen iawn, fel y trafodwyd eisoes.

Ystyriwyd yr enaid fel tân, atomau mân, neu fel rhyw fath o wrthrych ansylweddol. Afraid ychwanegu at y rhestr hon yma. Nid yn y pen yn unig y tybid i'r enaid fodoli ond mewn llawer lle arall oddi mewn i'r corff dynol.

Heblaw am y chwilfrydedd ynglŷn â lleoliad yr enaid, os oes un, gellir tybio i'r gobaith am anfarwoldeb chwarae rhan fawr iawn, o'r oes a fu hyd heddiw.

Oherwydd na fu'n bosibl gwybod dim penodol am yr enaid, heblaw am argyhoeddiad y bobl sydd yn ffyddiog ei fod yn bodoli, y mae'n rhaid seilio'r ddadl gyfoes, i raddau helaeth, ar y newidiadau a ddigwyddodd ym myd Materoliaeth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Golyga

Materoliaeth mai mecanyddol yw popeth ac nad oes unrhyw rym allanol, ysbryd, meddwl, Duw nac unrhyw beth arall y tu ôl i'r cyfan. Daliasai

Materoliaeth ei thir ers i fydysawd clocwaith Newton gael ei dderbyn yn

yr ail ganrif am bymtheg ac fe'i hatgyfnerthwyd yn sgîl yr ateb a

roddwyd gan Charles Darwin yn yr ail ganrif ar bymtheg i esbonio

amrywiadau rhywiogaethau ym myd anifeiliaid. Yr ateb hwnnw oedd

'hap a damwain'. O ganlyniad, ymddangosai nad oedd gynllun penodol

yn bodoli na phwrpas, ychwaith, i esbonio hanes bywyd ar y ddaear.

Deddfau natur a esboniai bopeth. Fodd bynnag, credai Jean-Baptiste Lamarck fod yr amrywiadau yn deillio o ymdrech ymwybodol yr unigolyn i addasu i amgylchedd newidiol.

Esblygodd y meddwl oherwydd yr amrywiadau hyn, ond y cwestiwn y dylid ei ofyn yw ai'r amgylchedd sydd yn rheoli'r meddwl ynteu a all y meddwl reoli'r amgylchedd? Fel y gwelwyd, y mae perthynas glos iawn rhwng y corff a'r meddwl. Ar y naill law, gall y corff effeithio ar y meddwl, ac ar y llaw arall, gall y meddwl effeithio ar y corff. Y mae'r corff yn faterol ac fe'i rheolir gan ffiseg, ond peth ansylweddol yw'r meddwl. Y broblem yw gwybod sut y mae'r meddwl yn gweithio a beth sydd yn cynhyrchu pethau fel teimladau, emosiynau ac ysbrydoliaeth.

Derbyniwyd y rheolid y corff gan ddeddfau gosodedig a golygai hyn nad oedd y meddwl yn rhydd o'u gafael, ychwaith.

Yn yr oes fodern, René Descartes (1596–1650) oedd yn gyfrifol am y syniad o geisio rhyddhau'r meddwl oddi wrth y corff, gan ei wneud yn annibynol, lle na chawsai ei reoli gan y corff. Cyd-deithiai'r meddwl a'r corff ar hyd linellau cyfochrog a'r naill yn adlewyrchu digwyddiad y llall i'r dim, ond heb i'r un ohonynt reoli'r llall. Yr oedd y ddau fel dau gloc

yn cadw amser â'i gilydd o dan ofal Duw. Gelwir y math hwn o syniad yn 'gyfochredd seicoffisegol'.

Penderfynwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg nad oedd hyn yn syniad boddhaol gan nad oedd gwyddonwyr a rhesymolwyr yn gallu credu yng ngweithgaredd Duw parthed y syniad, a hefyd, sylweddolwyd bod y broblem yn annatrys. O'r herwydd, penderfynodd gwyddonwyr mai materol oedd y meddwl am mai materol oedd y corff. Datganwyd bod y meddwl, ar ôl esblygu am amser hirfaith, wedi dod yn ymwybodol ohono'i hun. Gelwir ymwybyddiaeth o fater ganddo'i hun yn feddwl. Ystyriwyd y meddwl fel rhyw fath o dywyn o amgylch yr ymennydd a adlewyrchai ddigwyddiadau yn hwnnw, gan achosi 'digwyddiadau meddyliol' a gynhyrchwyd gan nerfau'r corff. Oherwydd hyn, credid na allai unrhyw beth ddigwydd yn y meddwl heb iddo ddigwydd yn gyntaf yn yr ymennydd. Dyma'r hyn a elwir 'epiffenomeniaeth'. Canlyniad pwysig y syniad hwn oedd gwneud i ffwrdd ag ewyllys rydd. Efallai mai dyna'r hyn a adlewyrchir yn rhigwm Parry-Williams, 'Daear'.¹⁴²

Atgyfnerthwyd materoliaeth yn sgîl arbrofion Ivan Petrovich Pavlov ar ymddygiad cŵn, parthed 'ymatebion cyflyrol' o dan ysgol Ymddygiadaeth a ddeilliodd o 'gyfochredd seicoffisegol'. Yn yr achos

hwn, y mae'r modd yr adweithia'r ymennydd yn penderfynu'r ffordd y mae unigolyn yn meddwl. Nid yw'r hyn a feddylir ond yn symudiadau'r ymennydd ac ymddengys nad yw natur unigolyn ond yn ganlyniad 'ymatebion cyflyrol' awtomatig. Canlyniad arall Ymddygiadaeth yw'r ffaith na rydd yr ysgol sylw i'r meddwl, neu ymwybyddiaeth, er nad oedd yn gwadu'r fath bethau. Felly, oherwydd amhwysigrwydd y meddwl, ni chredent mewn hunanholiad na defnyddio termau seicoleg. Y mae'r meddwl yn breifat i'r unigolyn ei hun, ac felly, ni ellir darllen meddyliau pobl eraill. Yr unig beth y gellir ei wneud yw ceisio deall pobl drwy sylwi ar symudiadau eu cyrff. Ymddengys sawl enghraifft o Parry-Williams yn ceisio darllen meddyliau pobl eraill gan seilio'r astudiaeth ar Ymddygiadaeth; rhoir un enghraifft isod:

Cynneddf anniddan ydyw honno sy'n galluogi i ddyn weld trwy ei gyd-ddyn, canfod triciau ei feddwl ac ystyr ystumiau ei ymarweddiad, a gwybod beth sydd y tu ôl i'w ben o hyd, ac yntau'n meddwl ei fod yn diniwed dwyllo ac yn ymguddio trwy'r adeg.¹⁴³

Yn ddiau, gwerthfawroga Parry-Williams waith yr ymennydd.

Fodd bynnag, collodd materoliaeth gryn dipyn o dir yn ystod yr ugeinfed ganrif yn sgîl darganfyddiadau gwyddonol a dechreuwyd cofleidio Idealaeth yn fwyfwy oherwydd i fater ei hun gael ei weld mewn golau

newydd. Gallai gronynnau ymddwyn fel tonnau gan roi diwedd ar ystyried mater fel rhywbeth soled yn unig. Gellid dweud bod gronyn yn mynd allan o fodolaeth rhwng neidio o un lle i'r llall. Yn y byd is-atomig, nid oedd gofod ac amser nac achos ac effaith yn cyfrif o gwbl. Seiliwyd gwyddoniaeth ar symbolau a mathemateg nad oeddent yn gwir esbonio natur realaeth a pharodd hyn i wyddonwyr fel James Jeans ac Arthur Eddington synied bod ffiseg yn awgrymu bod realaeth pethau yn y meddwl neu ei fod yn ysbrydol. Yr oedd y meddwl yn sylfaenol a mater yn tarddu ohono, a chytunai'r gwyddonwyr adnabyddus eraill, Albert Einstein, Erwin Schrödinger a Max Planck â hyn. Troes pethau'n fwy haniaethol. Syniodd Jeans mai meddwl mathemategydd oedd realaeth; i Henri Bergson, llif grym bywyd ydoedd, ac '*universal mind-stuff*' ydoedd i Eddington.

Arhosir gyda'r '*mind-stuff*' hwn am funud. Cofir i Parry-Williams athronyddu am ryw stwff cosmig sydd o gwmpas unigolion fel defnydd ar gyfer ysbrydolaeth. Awgrymwyd mai'r hyn a olygai oedd yr 'Ysbryd Cyffredinol', 'Ysbryd Dynoliaeth' ac 'Enaid Dyn' neu, efallai, yr hen, hen, gred yn yr *anima mundi* neu'r *spiritus mundi*, sef ysbryd y bydysawd. Atgyfodwyd yr un fath o syniad gan William Clifford (1845–1929) gyda'i

ddamcaniaeth, '*mind-stuff*', lle y credai fod atom o'r stwff hwn yn bodoli, sef elfennau gwaelodol ymwybyddiaeth. Credai mai'r meddwl oedd y realaeth eithaf a dyma a ddywed am yr hyn a ymddengys fel tarddiad ysbrydoliaeth:

There is no scientific discoverer, no poet, no painter, no musician, who will not tell you that he found ready made his discovery or poem or picture – that it came to him from outside, and that he did not consciously create it from within.

Tybed a oedd Parry-Williams yn gyfarwydd â'r syniad hwn? Gwelir bod rhyw fath o debygrwydd rhwng ei syniadau ef a'r hyn a geir uchod.

Seicoleg

Ym mhennod gyntaf y traethawd hwn, ceisiwyd dangos nad yw'n bosibl llwyr adnabod Parry-Williams fel dyn yn hytrach nag fel bardd a llenor yn ei waith oherwydd iddo guddio ei feddyliau o ganlyniad i'w ddaliadau ynglŷn â chreffft ysgrifwr, ei ddefnydd o awgrymusedd geiriau a'r ffaith iddo gredu nad yw neb yn datgelu popeth amdano'i hun. Ond y rheswm pennaf, yn ddiau, yw ei annhuedd ymddangosiadol a'i anwadalwch, yn enwedig ynglŷn â chwestiynau mawr bywyd. Fodd bynnag, datganodd iddo gael cip ar ei anian ei hun wrth ymyrraeth â geiriau. Hefyd, fel y

gwelwyd yn yr ail bennod, dywedodd iddo ddod i'w adnabod ei hun yn well ar ôl ei fordeithiau i America.

Cofir mai cymeriad unig a fu Parry-Williams erioed, yn ôl yr hyn a ddywed yn un o'i ddyddiaduron taith ac ni ellir llai na synhwyro iddo ystyried ei hun fel allanolyn. Er i'w fywyd ymddangos yn un tra physur a llawn ar yr wyneb, y mae'r ymdeimlad o argyfwng gwacter bywyd yn hollol amlwg yn ei waith; gellid cysylltu'r sefyllfa hon ag un o'r ystadau meddwl a ddisgrifir ganddo yn 'Bwrn': 'Y mae oriau unig yn llawn o bobl, ac ni welir neb mewn torf.'¹⁴⁴ Yr oedd yn ddyn tra hydeiml a dengys ei weithiau fod elfen o hunan dosturi yn perthyn i'w gymeriad oherwydd ei fod yn teimlo iddo gael cam. Synhwyrir, hefyd, ddymuniad am sylw a chydymdeimlad. Yn ogystal, y mae'n rhaid cofio iddo gael profiad ysgytwol pan adawodd ei gartref mor ifanc i fynychu ysgol ganolradd Porthmadog lle y dechreuodd fyfyrto yn rhy gynnar o lawer yn ei fywyd. Ymchwil y Rhamantydd unig am ystyr bywyd yw ei feddyliau, a chan hynny, un modd hwylus, heblaw am y rhai eraill a enwir uchod, i ddod i'w adnabod ei hun yn well yw hunan ddadansoddi. Nid yw hyn yn fater mor hunanol ag yr ymddengys yn achos Parry-Williams oherwydd credai y gellid uniaethu â dynoliaeth wrth ei ddeall ei hun yn well. Nid

oes amheuaeth i'w ddyhead o fod yn feddyg gynnwys ei chwilfrydedd ynglŷn â pheirianwaith y corff (ffisioleg) heblaw am y rheswm amlwg o wella cleifion ac achub bywyd. Yn ogystal, dengys llawer o'i ysgrifau fod ganddo ddiddordeb ysol ym mhwsigrwydd yr ymennydd.

Yn ei erthygl, 'Ysgrifau, 1928',¹⁴⁵ gofynnodd Saunders Lewis tybed a fu Parry-Williams ar gwrs seicolegol yn Freiburg, gan ddweud bod y bardd o Ryd-ddu yn sicr yn gwybod ei Jung a'i Freud (bu Parry-Williams yn fyfyrwr yn Freiburg rhwng 1911 a 1913). Geilw Saunders Lewis awdur *Ysgrifau* yn seicolegydd ac yn un o'r genhedlaeth gyntaf o ddisgyblion Freud a Jung. Diau y byddai Parry-Williams wedi clywed sôn am y ddau seicolegydd uchod ac y byddai'n gyfarwydd â'u gwaith gan mor boblogaidd yr oeddent ar y pryd oherwydd eu syniadau chwyldroadol am y meddwl dynol. Fel y gwelwyd, yr oedd *Totem and Taboo* Freud a'i *Psychopathology of Everyday Life*, yn ei feddiant, ynghyd ag un llyfr arall ar seicoleg, sef *Psycho-Analysis* Ernest Jones. Cyhoeddwyd *Psychopathology of Everyday Life* Freud am y tro cyntaf yn 1901 a *Psycho-Analysis* Jones yn 1913, ac un o lyfrau eraill dylanwadol Freud, *The Interpretation of Dreams*, yn 1900.

Yn ôl J. A. C. Brown,¹⁴⁶ daeth trobwynt yn 1902 pan ymunodd grŵp o feddygon o Fienna â Freud i astudio seicdreiddio, ac mewn amser byr, yr oedd seicdreiddio wedi tyfu i fod yn fudiad ar raddfa fyd eang er gwaethaf y ffaith i Freud ymosod ar ddiniweidrwydd plentyndod yn ei weithiau a'i obsesiwn â rhyw fel sail niwrosis. Gwahanodd Alfred Adler oddi wrth y mudiad yn 1910 i ffurfio cyfundrefn a seiliwyd ar ymddygiadaeth ac ymadawodd Jung â'r grŵp gwreiddiol, hefyd, yn 1913.

Cystal nodi bod dylanwad Freud a Jung ar waith Parry-Williams yn y fan hon, ond ni ellir amcanu at drafod hyn. Ceir llawer o gyfeiriadau at cyflyrau'r meddwl yn ei waith, *Ymhél â Phrydyddu*.

Ymddengys fod Parry-Williams yn crefu am wybodaeth ynglŷn â'r byd ysbrydol ond rhywsut neu'i gilydd, teimlir na lwyddodd yn y diwedd i'w argyhoeddi ei hun o hyn, er iddo grybwyll wrth Aneirin Talfan Davies fod enaid unigolyn yn dychwelyd i ryw ehangder mawr pan yw'n marw.

NODIADAU

PENNOD 6

RHWNG NEF A LLAWR

- 1 *Ysgrifau* (Foyle's Welsh Depôt, Llundain, 1928; arg. 1af, 1928), 77.
- 2 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984; arg. 1af, 1984), 224.
- 3 *Olion*, (Gwasg Aberystwyth, 1935; ail arg. 1959), 11.
- 4 *Y Wawr*, Cyfrol II, Rhif 3, Haf, 1915, 84, D. Islwyn Edwards, *Agweddau ar foderniaeth yng ngweithiau T. H. Parry-Williams, gan fwrw golwg ar ei gefndir personol a llenyddol, ac ar foderniaeth fel mudiad*, traethawd M.A., Llanbedr-Pont-Steffan, 1982, 111.
- 5 'Dylanwadau' (BBC Cymru 1960), LIGC, *Casgliad Aneirin Talfan Davies*; Llion Jones, *Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1993, 527.
- 6 *Myfyrdodau* (Gwasg Aberystwyth, 1957; arg. 1af, 1957), 62-3.
- 7 'Yr Efe', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 190.
- 8 'Ar y "Santa Fe"', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 218.
- 9 'Caer a Charreg', *Pensynnu* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1966; arg. 1af, 1966), 83.
- 10 'Crist yr Andes', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 200-1.
- 11 'Bro', *Pensynnu*, 87.
- 12 *Synfyfyron*, (Gwasg Aberystwyth, 1937; arg. 1af, 1937), 48.
- 13 W. Y. Evans-Wentz, *The Fairy-Faith in Celtic Countries* (1911); gweler gwefan <http://www.sacred-texts.com/neu/celt/ffcc/ffcc002.htm>
- 14 *Synfyfyron*, 43-4.
- 15 'Y Lôn Ucha', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 191-4.
- 16 'Drws-y-Coed', *Synfyfyron*, 57-62.

- 17 *Ibid.* 62.
- 18 'Celwydd', *Cerddi* (Gwasg Aberystwyth, 1931; 3ydd arg. 1954), 21.
- 19 *Ysgrifau*, 10–11.
- 20 'Dylanwadau'; traethawd Ph.D. Llion Jones, 1993, 522.
- 21 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 191.
- 22 Gweler Pennod 1, nodyn ⁶⁵.
- 23 Theodore Watts-Dunton, *Aylwin*, 382.
- 24 *O Oes i Oes*, gol. T. Gwynn Jones (Hughes a'i Fab, Gwrecsam, 1928 [ail arg.]), 89–90.
- 25 *Synfyfyrion*, 60–1.
- 26 *Pensynnu*, 88–9.
- 27 'Ar Encil', *Myfyrdodau*, 60.
- 28 *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1972; arg. 1af, 1972), 88–9.
- 29 LIGC, THPW, A 171.
- 30 *Olion*, 52.
- 31 *Cerddi*, 52.
- 32 *Cerddi Hir*, gol. Islwyn Jones a Gwilym Rees Hughes (Gwasg Gomer, Llandysul, 1970), 41.
- 33 <http://www.sacredfire.net/cosmology.html>
- 34 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 234.
- 35 John Rhys, *Celtic Folklore: Welsh and Manx* (Clarendon Press, Oxford, 1901), 86–9.
- 36 'Y Tri Llyn: I – Llyn y Dywarchen' *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 233.
- 37 T. H. Parry-Williams, *Pedair Cainc y Mabinogi* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1937).
- 38 LIGC, THPW, CH 267.
- 39 W. Y. Evans-Wentz, *The Fairy-Faith in Celtic Countries* (1911).
- 40 *Ibid.*
- 41 'Dyfed', *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 226–9.
- 42 'Dau Lyffant', *Myfyrdodau*, 99–101.
- 43 *Ysgrifau*, 78.
- 44 *Synfyfyrion*, 57–62.
- 45 'Idoc', *Lloffion* (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1942; ail arg. 1947), 80–1.

- 46 'Drws-y-Coed', *Synfyfyrion*, 60-61.
- 47 *Ugain o Gerddi* (1949) yn *Detholiad o Gerddi* (1972), 98.
- 48 'Gweld y Gwynt', *Ysgrifau*, 77.
- 49 *Myfyrdodau*, 22.
- 50 'Oedfa'r Pnawn', *Ysgrifau*, 19-20.
- 51 'Ar Fôr ac ar Dir', *Myfyrdodau*, 74.
- 52 'Drws-y-Coed', *Synfyfyrion*, 58.
- 53 'Ar Encil', *Myfyrdodau*, 57-64.
- 54 *O'r Pedwar Gwynt* (1946) yn *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 225.
- 55 Gweler Pennod 3, nodyn ³⁶.
- 56 *Olion*, 59.
- 57 *Ibid.* 56.
- 58 *Ibid.* 53.
- 59 *Ibid.* 60.
- 60 *Ibid.* 63.
- 61 *Ibid.* 64.
- 62 *Ibid.* 66.
- 63 *Ibid.* 62.
- 64 *Ibid.* 51-2.
- 65 *Ibid.* 54.
- 66 'Nef', *Cerddi*, 40.
- 67 *Olion*, 69.
- 68 Gweler Pennod 4, nodyn ¹⁸⁹.
- 69 'Pwt o Brofiad', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 422.
- 70 *Cerddi*, 31.
- 71 'El ac Er', *Pensynnu*, 34.
- 72 *Lloffion*, 33-4.
- 73 *Olion*, 25.
- 74 *Ysgrifau*, 77.
- 75 *Myfyrdodau*, 120.
- 76 'Polion Teligraff', *Ysgrifau*, 61-3.
- 77 'Telegraph Poles', *The Dragon*, XLVIII, December 1925, 20;
traethawd M.A., D. Islwyn Edwards, 1982, 238.
- 78 Gweler Pennod 2, nodyn ¹⁵.
- 79 Gweler Pennod 2, nodyn ¹⁴.
- 80 'Llenyddda', *Synfyfyrion*, 12.

- 81 *Synfyfyrion*, 57.
- 82 J. B. Rhine, *The Reach of the Mind* (Faber and Faber Limited, London, 1948).
- 83 *Ibid.* 169.
- 84 *Ibid.* 165.
- 85 *Ibid.*
- 86 *The Reach of the Mind*, 169.
- 87 *Olion*, 62.
- 88 www.sacred-texts.com/neu/cfwm
- 89 *Ysgrifau*, 35.
- 90 *Olion*, 69.
- 91 *The Fairy-Faith in Celtic Countries*.
- 92 *Olion*, 27.
- 93 *Cerddi*, 58.
- 94 *The Fairy-Faith in Celtic Countries*.
- 95 *Cerddi*, 57.
- 96 *Ibid.* 55.
- 97 Gweler 'Pendraphendod', *Pensynnu*, 42-4.
- 98 A. A. Brill yn *Totem and Taboo* (Penguin Books Limited, Middlesex, 1938), 13-4.
- 99 Gwylio'r Gwifrau, *Y Wawr*, II, 1, Gaeaf 1914, 18-20.
- 100 *Totem and Taboo*, 123.
- 101 'Yr Ias', *Ysgrifau*, 31.
- 102 'Aros', *Ysgrifau*, 49.
- 103 'Darnau', *Olion*, 17.
- 104 'Gollyngdod', *Lloffion*, 47.
- 105 'Dewis', *Olion*, 33.
- 106 'Pen Bwlch', *Synfyfyrion*, 49.
- 107 'Dau Lyffant', *Myfyrdodau*, 100-101.
- 108 'Ffenomena Ffyrdd', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 406.
- 109 *Synfyfyrion*, 57.
- 110 LIGC, THPW, nodiadau ar ddalennau llyfr Parry-Williams, *The Miraculous Birth of Language* (Richard Albert Wilson; publishers J. M. Dent and Sons Ltd., London, 1941).
- 111 *Ibid.*

- 112 'Y Coed Bach', *O'r Pedwar Gwynt* (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1944, arg. 1af, 1944), 34-5.
- 113 'Tynfa', *Cerddi*, 56.
- 114 'Pagan Glân', *Myfyrdodau*, 69-72.
- 115 'Bro', *Myfyrdodau*, 120.
- 116 'Polion Teligraff', *Ysgrifau*, 61-3.
- 117 'Gwyllo'r Gwifrau', *Y Wawr* II, I Gaeaf 1914.
- 118 'Dieithrwch', *Ysgrifau*, 64-7.
- 119 'Troad y Rhod', *Lloffion*, 63-6.
- 120 'Y Tri Llyn', *O'r Pedwar Gwynt*, 69-84.
- 121 'KC 16', *Ysgrifau*, 7.
- 122 'Y Tri Llyn', *O'r Pedwar Gwynt*, 78.
- 123 'Pagan Glân', *Myfyrdodau*, 72.
- 124 'Y Tri Llyn', *O'r Pedwar Gwynt*, 69-70.
- 125 *Ibid.* 74.
- 126 'Troad y Rhod', *Lloffion*, 65.
- 127 *O'r Pedwar Gwynt*, 63.
- 128 Ymhél â Phrydyddu (The British Broadcasting Corporation, London, 1958), 9-10.
- 129 *Myfyrdodau*, 71-2.
- 130 *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Tachwedd 1945, 1.
- 131 *Lloffion yn Detholiad o Gerddi* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1972), 76.
- 132 *Synfyfyrion*, 57-62.
- 133 *Cerddi*, 18-20.
- 134 'Dylanwadau', (BBC Cymru 1960), LIGC, Casgliad Aneurin Talfan Davies; Llion Jones, *Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams*, traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru Aberystwyth 1993, 526.
- 135 *Y Traethodydd*, LXXI 1916, 286.
- 136 *Y Brython*, 15 Mai 1913; traethawd Ph.D. Llion Jones 1993, 484-6.
- 137 *Y Wawr*, IV, 2, Gwanwyn 1917, 77.
- 138 *Lloffion*, 96.
- 139 *Ibid.* 62.
- 140 *Pensynnu*, 43.
- 141 LIGC, THPW, E6-E12.
- 142 *Olion*, 57.
- 143 'Cydwbybod', *Casgliad o Ysgrifau* (1984), 24.

¹⁴⁴ *Olion*, 12.

¹⁴⁵ Saunders Lewis, *Meistri a'u Crefft* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd 1981), 22–27.

¹⁴⁶ J. A. C. Brown, *Freud and the Post-Freudians* (Penguin Books, Middlesex, 1963).

Diwedd glo

Fel y gwelir, adlewyrcha gwaith T. H. Parry-Williams ddatblygiadau chwyldroadol ei oes ym myd crefydd, gwyddoniaeth a seicoleg gan liwio anwadalwch ei feddwl. Ni phallodd ei ddiddordeb mewn athronyddu am gwestiynau mawr bywyd er iddo sylweddoli mai di-fudd oedd yr holl ymholi am 'Gweryl y Bydysawd'. Ar ôl ceisio 'ymgiprys â'r amhosibl, dirnad yr annirnad, coelio'r anhygoel a chlywed yr anhyglyw,' troes gwybod yn boen iddo ar sawl achlysur. Esgorodd hyn ar lenyddiaeth besimistaidd a wawdiai gyflwr truenus dyn ar y ddaear; darganfuwyd mai'r llwybro sydd yn bwysig mewn bywyd, oherwydd ni chanfyddir dim o gwbl ar ben y daith.

Er i'w waith ymddangos yn syml ar yr wyneb, sylweddolir bod mwy i'r bardd-lenor o Ryd-ddu nag a ddatgela amdano'i hun ynddo. Cyfyd y cymhlethdod, y dirgelwch a'r anwadalwch a geir yn ei waith oherwydd iddo ei led-guddio ei hun yn fwriadol ynddo. Nid oes modd darganfod y dyn ei hun oherwydd bod llenor yn ddyn deoledig pan fo wrth ei orchwyl. Cyfiawnha y lled-ymguddio drwy arddel maniffesto penodol ar lenyddia; gellir dweud unrhyw beth mewn barddoniaeth ac ni ddylid dangos myfiaeth noeth mewn ysgrif. Y prif ddylanwad ar ei anwadalwch oedd ei argyhoeddiad fod dwy ochr i bopeth, ac ymddengys i hyn liwio pob agwedd ar fywyd. Fel llenor, pwysai'n drwm ar y ffaith fod diffuantrwydd yn elfen hanfodol, hyd yn oed yn ystod 'profiadau munud awr'. Yn wir, credai fod anwadalwch llenor yn brawf o'i ddiffuantrwydd. Ymhellach, yr oedd yn argyhoeddedig na ddylid deall barddoniaeth, ond yn hytrach, ei theimlo; dwysddiddanu, swyno a hud-ddenu yw prif amcan llenor ac nid diwygio.

Y mae ochr seicolegol i lenyddia oherwydd y mae llenor yn ceisio cael gafael ar y 'dyn oddi mewn' bryd hynny, a'r un y gall gael gafael orau arno yw ef ei hun a'i gymhlethdodau. Mewn geiriau eraill, ymdrecha i'w hunanddadansoddi. Fodd bynnag, creir cydbwysedd pan fo wrth y gorchwyl hwnnw oherwydd, ar yr un pryd, dargenfydd a datguddia bethau am Enaid Dyn, Ysbryd Dynoliaeth, yr Ysbryd Cyffredinol neu'r Ymwybod Cosmig, a dyna'r adeg y try neilltuolion yn gyffredinolion. Cymhlethir y darlun o anwadalwch drwy ei ddatganiad, ar y naill law, fod annhueddrwydd yn rhan o'i gyfansoddiad, ond, ar y llaw arall, gwelwyd

na fynnai wyntyllu ei farn am bethau oherwydd fod ganddo farn mor gref am bobl a phethau.

Y mae'n amlwg i'r hollt a grëwyd pan aeth oddi cartref i'r ysgol ym Mhorthmadog greithio ei gymeriad yn ddwfn, gan effeithio yn ddirfawr ar ei natur bruddglwyfus. Wynebodd yr her o fynd ymhell oddi cartref i geisio ymgodymu â'r golled a brofodd pan rwygwyd ei berthynas ddiriaethol â'i fro enedigol, ond gwelwyd i hyn beri i'r berthynas honno ddwysáu yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Darganfyddwyd iddo geisio brwydro yn erbyn ei anwadalwch meddwl parthed y broblem enfawr hon, ond ofer fu'r ymdrechu.

Ymdriniwyd ymhellach ag anwadalwch meddwl Parry-Williams wrth drafod sut yr effeithiodd darganfyddiadau chwyldroadol ym myd ffiseg arno. Ceisiodd goelio'r anhygoel wrth drin a thrafod materion a ddisodlodd y ffordd yr edrychwyd ar y bydysawd ers oes Isaac Newton. Troes amser a gofod sefydlog yn hyblyg o ganlyniad i Ddamcaniaethau Perthynoledd Albert Einstein gan beri i bobl deimlo ar goll mewn amser a lle. Hefyd, cyfrannodd y darganfyddiad am y bydysawd ymledol fwyfwy at fychander dyn yn y bydysawd o'i gymharu â'i safiad pwysig yn y gorffennol. Codwyd ansicrwydd ynglŷn â defnydd sylfaenol y bydysawd pan ddarganfuwyd bod mater ac egni yn ymddwyn fel un endid. Ymhellach, dechreuwyd disodli damcaniaeth bydysawd mecanyddol, clocwaith Newton gan esgor ar y gred mai ysbrydol oedd seiliau sylfaenol y bydysawd. Y mae'n debyg i hyn liwio daliadau Parry-Williams yn y byd ysbrydol, ond teimlir nad argyhoeddwyd y bardd-lenor yn gyfan gwbl ynglŷn â hyn. Cyflwynodd damcaniaeth amhendrantrwydd ym myd ffiseg rywfaint o obaith ynglŷn ag ewyllys rydd yr unigolyn ond ymddengys nad effeithiodd hyn ar olygwedd dywyll Parry-Williams; y drefn, neu benderfyneg a reolai, yn ôl ei farn ef.

Yr oedd sawl sail i anwadalwch meddwl Parry-Williams parthed crefydd oherwydd datblygiadau a digwyddiadau yn y maes hwnnw yn ystod yr ugeinfed ganrif. Cefnodd ar y grefydd gyfundrefnol Gristnogol oherwydd ei safiad fel gwrthwynebydd cydwybodol a'r erledigaeth a brofodd yn sgîl hynny. O ganlyniad, ceisiodd chwilio am gnewyllyn y grefydd honno ond teimlir na fu'n llwyddiannus yn hynny o beth oherwydd na feddai'r eneniad priodol i'w alluogi i wneud hynny. Troes at fyd seicoleg er cysur drwy ei hunanddadansoddi gan ddatgan fod ganddo Dduw iddo'i hun.

Troes Parry-Williams at y byd ysbrydol i'w gysuro ei hun ond unwaith eto cyfyd anwadalwch ynglŷn â hyn; 'cael-a-chael' oedd ei brofiad, yn ôl pob golwg. Dibynnai ar gyflyrau'r meddwl a synhwyrâu coll, a hefyd y ffin, er mwyn amgyffred â'r dirgel fyd honedig. Troes, hefyd, at lêngwerin ei fro enedigol er mwyn cysur lle y credai yn y tylwyth teg pan oedd yn ifanc. Chwaraeodd Paganiaeth a Rhamantiaeth ran sylweddol yn ei fywyd. Efallai iddo ennill rhywfaint o hapusrwydd drwy hyn oll, ond, yn y pen draw, synhwyrir mai diddymdra llwyr oedd bywyd iddo.

LLYFRYDDIAETH

(i) Llyfrau T. H. Parry-Williams.

Casgliad o Gerddi, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1987; arg. 1af 1987).

Casgliad o Ysgrifau, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984; arg. 1af 1984).

Cerddi, (Gwasg Aberystwyth, 1931; 3ydd arg. Gwasg Gomer, Llandysul, 1954).

Detholiad o Gerddi, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1972; arg. 1af 1972).

Elfennau Barddoniaeth, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1935; ail arg. 1936).

Lloffion, (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1942, ail arg. 1947).

Myfyrdodau, (Gwasg Aberystwyth 1957, arg. 1af 1957).

Olion, (Gwasg Aberystwyth, 1935; ail arg. 1959).

Pedair Cainc y Mabinogi, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1937).

Pensynnu, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1966; arg. 1af 1966).

Sonnets (1919-20), (*Cambrian News, [Aberystwyth], Ltd., 1932; argraffiad preifat*).

Synfyfyrion, (Gwasg Aberystwyth, 1937, arg. 1af 1937).

Ymhél â Phrydyddu, (The British Broadcasting Corporation, London, 1958).

Ysgrifau, (Foyle's Welsh Dépôt, Llundain, 1928; arg. 1af, 1928).

(ii) Llyfryddiaeth ynghylch T. H. Parry-Williams.

Bowen, Euros, 'Golwg ar waith T. H. Parry-Williams', (*Porfeydd*, IV, 3, Mai/Meh. 1972), 65-9.

- Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Bangor* (1915), 14–26.
- Davies, J. Breese, 'Yr Ysgrif', *Yr Eurgrawn*, cxxiii, 53–7.
- Edwards, D. Islwyn, 'Dieithriaid Ydym Oll – Eto Myfi', (*Taliesin* 66, gol. R. Gerallt Jones a Bedwyr Lewis Jones, 1989), 66–71.
- Edwards, Hywel Teifi, 'Y Gŵr Doeth', (*Barn*, 63, gol. Alwyn D. Rees, Ionawr 1968), 75–6.
- Erfyl, Gwyn, 'Gair am Syr Tomos', (*Taliesin*, 34, Gorffennaf 1977), 60–73.
- Evans, Meredydd, *Dirgel Fyd*, (Pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog, 1987), 7–24.
- Evans, Meredydd, 'Rhai Elfennau Crefyddol yng Ngwaith T. H. Parry–Williams', *Ysgrifau Beirniadol XI*, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1979), 227–255.
- Foster, Idris, gol., *Cyfrol Deyrnged Syr Thomas Parry–Williams* (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1967).
- Gruffydd, R. Geraint, "Dwy Gerdd" Syr Thomas Parry–Williams', *Ysgrifau Beirniadol VII*, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1972), 160–6.
- Gruffydd, R. Geraint, *Syr T. H. Parry–Williams*, (Araith Agoriadol Pabell Lân Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor 1975).
- Jones, Bobi (R. M. Jones), *I'r Arch*, (Llyfrau'r Dryw, Llandybie, 1959), 85–97.
- Jones, Dafydd Glyn, 'Agweddau ar Waith T.H. Parry–Williams a Samuel Beckett', *Ysgrifau Beirniadol II*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Gwasg Gee, Dinbych, 1966), 271–303.
- Jones, John Gwilym, 'Yr Ysgrifau', *Cyfrol Deyrnged Syr Thomas Parry–Williams*, gol. Idris Foster, (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1967), 42–.
- Jones, J. Gwyn, 'Athroniaeth Cerddi'r Athro T. H. Parry–Williams, *Yr Efrdydd*, Cyf. VIII, Rhif 2, Tachwedd 1931, 29–32.

Jones, R. Gerallt, 'The Poetry of Thomas Parry-Williams', *Poetry Wales* (special edition), vi/1, (1975). 41-62.

Jones, R. Gerallt, *T. H Parry-Williams*, cyfres 'Dawn Dweud', (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd 1999; arg. 1af 1999).

Lewis, Saunders, *An Introduction to Contemporary Welsh Literature*, (Hughes, Wrexham, 1926), 10-11.

Llyfr Melyn Oerddwr, (llyfr teulu Oerddwr).

Morgan, Dyfnallt, *Rhyw Hanner Ieuencid*, (Gwasg John Penry, Abertawe, 1971).

Morgan, Dyfnallt, 'T. H. Parry-Williams as a Poet', *Poetry Wales* (special edition), vi/1, (1975), 3-14.

Morgan, Dyfnallt, 'Atgofion Myfyriwr', (*Y Traethodydd* 130, Hydref 1975), 278-284.

Rowlands, John, "'Wêr-an-Têr": Agwedd ar Waith T. H. Parry-Williams', *Ysgrifau Beirniadol VII*, gol. J. E. Caerwyn Williams, (Dinbych, 1972), 167-183.

Rowlands, John, 'Cipolwg ar waith T. H. Parry-Williams', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, (1987), 153-175.

Williams, J. E. Caerwyn, 'Syr Thomas Parry-Williams yn ateb cwestiynau'r golygydd', *Ysgrifau Beirniadol VI* 11, gol. J. E. Caerwyn Williams (Gwasg Gee, 1973), 145-159.

(iii) Traethodau Ymchwil ar T. H. Parry-Williams

Ar gyfer derbyn ffotogopiau o waith T. H. Parry-Williams yn unig y defnyddiwyd traethodau D. Islwyn Edwards a Llion Jones.

Edwards, D. Islwyn, *Agweddau ar foderniaeth yng ngweithiau llenyddol T. H. Parry-Williams, gan fwrw golwg ar ei gefndir personol a llenyddol, ac ar foderniaeth fel mudiad*, (M.A. Cymru: Llanbedr-Pont-Steffan, 1982).

Jones, Llion, *Agweddau ar Waith T. H. Parry-Williams*, (Ph.D. Cymru: Aberystwyth 1993).

Morgan, Dyfnallt, *Casgliad o gerddi ac ysgrifau T. H. Parry-Williams rhwng 1907 a 1928, ac astudiaeth o deithi meddwl yr awdur yn y cyfnod hwnnw*. (M. A. Cymru: Bangor, 1969).

(iv) Llyfryddiaeth Gyffredinol

Aaron, R. I., *Hanes Athroniaeth*, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1932) – (gwybodaeth am Leibniz).

Bergson, Henri, *Creative Evolution*, translated by Arthur Mitchell, (Macmillan and Co. Limited, London, 1928).

Bevan, Hugh, *Morgan Llwyd y Llenor*, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1954).

Bindman, David, *William Blake: The Complete Illuminated Books*, (Thames and Hudson, London, 2000).

Bradley, F. H., *Appearance and Reality*, (1893; Clarendon Press, Oxford, 10th edition 1946).

Brown, J. A. C., *Freud and the Post-Freudians*, (Penguin Books Ltd., Middlesex, 1961, Reprinted 1963).

Bunnell, William S., *Ten Twentieth Century Poets*, gen. ed. Norman T. Carrington, (James Brodie Ltd., Bath), no date of publication.

Carneddog, gol., *Cerddi Eryri*, (Dinbych, 1927).

Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam (1912).

Cohen, J.M. and M.J., *The Penguin Dictionary of Quotations*, (Penguin, Middlesex, 1960; 8th edition 1971).

Daglish, Jack, editor, *Eight Metaphysical Poets*, (Heinemann, London, 1961; 15th edition 1983).

Daintith, John et al., editors, *Who Said What*, (Chancellor Press, London, 1993).

Davies, Dewi Eirug, *Byddin y Brenin*, (Abertawe, 1988).

Davies, Paul, *About Time: Einstein's Unfinished Revolution*, (Penguin Books Ltd., London, 1995).

Davies, Paul, *Other Worlds: Space, Superspace and the Quantum Universe*, (Dent & Sons, 1980; Penguin Books, London, 1990).

Drake, Nicholas, *The Poetry of W. B. Yeats*, (Penguin Books Ltd., London, 1991).

Eddington, Arthur, *The Expanding Universe* (Penguin Books Limited, Middlesex, 1940).

Edwards, Miall, *Crefydd a Bywyd*, (Hughes Brothers, Swyddfa'r Dysgedydd, Dolgellau, 1915).

Emyr, John, *Dadl Grefyddol Saunders Lewis ac W. J. Gruffydd*, (Llyfrgell Efengylaidd Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, 1986).

Evans, E. Lewis, *Morgan Llwyd: Ymchwil i Rai o'r Prif Ddylanwadau a Fu Arno*, (Hugh Evans a'i Feibion, Lerpwl, 1930).

Evans, John, (I. D. Ffraid), *Coll Gwynfa*, (Hughes a'i Fab, Wrexham, 19eg ganrif [dim dyddiad cyhoeddi]).

Evans, Sidney a Roberts, Gomer M., gol. *Cyfrol Goffa Diwygiad 1904-1905*, (Llyfrfa'r Methodistiaid Calфинаidd, Caernarfon, 1954).

Fitzgerald, Edward J., translator, *The Rubáiyát of Omar Khayyám*, (Airmont Publishing Company, Inc., New York, 1970).

Fordham, Frieda, *An Introduction to Jung's Psychology*, (Penguin Books, Baltimore, Maryland, 1953; 1964 edition).

Ffoulkes, Annie gol., *Telyn y Dydd*, (William Lewis, Caerdydd, 1918; 4ydd arg. 1929).

Freud, Sigmund, *Totem and Taboo*, (Penguin Books Ltd., Middlesex, 1919, 1938).

Gleason, Robert W., *The Essential Pascal*, (The New American Library, New York and Toronto, 1966; 1st edition 1966).

Gribbin, John and Mary, *Time and Space*, (Dorling Kindersley Limited, London, 1994).

Gwynn, Eirwen, *I'r Lleuad a Thu Hwnt*, (Gwasg Gee, Dinbych, 1964).

Hamlyn, Robin et. al., *William Blake*, (Tate Gallery Publishing, London, 2000).

Honderich, Ted, editor, *The Oxford Companion to Philosophy*, (Oxford University Press, Oxford, 1995; 1st edition 1995).

Hughes, William Francis, *Cerddi William Oerddwr*, (Gwasg Gee, Dinbych, 1954).

Humphreys, James, *Yr Argyfwng Cred*, (Tŷ John Penry, Abertawe, 1976).

Islwyn, *Gwaith Barddonol Islwyn*, (Argraffwyd dros Owen M. Edwards gan Hughes a'i Fab, Gwrecsam, 1897).

Islwyn, *Gwaith Islwyn (Cyfres y Fil)*, (Ab Owen, Llanuwchllyn, 1903; arg. 1af 1903).

James, William, *The Varieties of Religious Experience*, (Longmans, Green, and Co., 1902; 13th edition 1907).

Jeans, James, *The Mysterious Universe*, (Cambridge University Press, London, 1930; 2nd edition 1935).

Jenkins, Geraint H., *Thomas Jones yr Almanaciwr 1648-1713*, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1980).

Jones, Bobi, *Beth yw Pwrpas Llenyddda?*, Darlith Flynyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Myrddin 1974, (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, Llandysul, 1974).

- Jones, D. James, *Hanes Athroniaeth*, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1939).
- Jones, Islwyn a Hughes, Gwilym Rees, gol., *Cerddi Hir*, (Gwasg Gomer, Llandysul, 1970).
- Jones, T. Gwynn, gol., *O Oes i Oes*, (Hughes a'i Fab, Gwrecsam, ail arg. 1928).
- Kafka, Franz, *The Trial*, (Penguin Books, London, 1953).
- Lister, Raymond, *The Paintings of William Blake*, (Cambridge University Press, Cambridge, 1986; 3rd edition 1994).
- Lloyd, Nesta ac Owen, Morfydd E., gol., *Drych yr Oesoedd Canol*, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1986).
- Logan, James, *Wordsworthian Criticism*, (Ohio State University Press, Columbus, 1961; 2nd edition 1961).
- Llwyd, Alan, gol., *Y Flodeugerdd Englynion*, (Christopher Davies, Abertawe, 1978).
- Mairowitz, David Zane and Crumb, Robert, *Kafka for Beginners*, (Icon Books, Cambridge, 1993; 1st edition 1993).
- Mathews, E. Gwynn, *Hegel* (Cyfres 'Y Meddwl Modern'), gol. D. Glyn Jones a W. Gareth Jones (Gwasg Gee, Dinbych, 1984), 79–90.
- McDermot, Timothy, ed., *Aquinas: Selected Philosophical Writings*, (Oxford University Press, Oxford, 1993).
- Milton, John, *Paradise Lost*, (1667; Penguin Books Ltd., London, 1996).
- Morris–Jones, John, *Penillion Omar Khayyâm*, (Gwasg Gregynog, 1928).
- Morris–Jones, John, 'Swydd y Bardd', (*Y Traethodydd*, 1912, LV11), 464–471.
- Otto, Rudolf, (Harvey, John W., translator), *The Idea of the Holy*, (1st edition 1917; Pelican Books, Middlesex, 1959).
- Owen, Gwilym, *Mawr a Bach*, (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1936).

- Parry, Edward, 'Rhagdraeth', *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau yng Nghymru*, (Cwmni Argraffu Corwen, 1898).
- Parry, Y Parch. Griffith, gol., *Pregethau y Parch. John Jones Tal-y-Sarn*, (Thomas Gee, Dinbych, 1869), 254–65.
- Parry, Thomas, 'Y Bardd Newydd Newydd', (*Y Traethodydd*, 1939), 169–178.
- Parry, R. Williams, *Cerddi'r Gaeaf*, (Gwasg Gee, Dinbych, 1952; ail arg. 1953).
- Parry-Williams, T. H., gol., *Ystoriau Heddiw*, (Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1938).
- Radice, Betty and Baldick, Robert, editors, *Aristotle Horace Longinus: Classical Literary Criticism*, (Penguin, Middlesex, 1965; 5th edition 1972).
- Raine, Kathleen, *William Blake*, (Thames and Hudson, London, 1993).
- Rhys, John, *Celtic Fokelore: Welsh and Manx*, (Clarendon Press, Oxford, 1901).
- Roberts, Margaret, *Oes o Fyw ar y Mynydd*, (Gwasg Gwynedd, Caernarfon, 1979; ail arg. 1981).
- Roberts, R. Silyn, *Llio Plas y Nos*, (Gwasg Gee, Dinbych, 1945; ail arg. 1948).
- Sampson, George, editor, *Coleridge: Biographia Literaria, Chapters I–IV, XIV–XXII; Wordsworth: Prefaces and Essays on Poetry, 1800–1815*, (Cambridge University Press, London, 1920).
- Sartre, Jean-Paul, *Intimacy*, (Hamilton & Co., Stafford, 1961).
- Scruton, Roger, *A Short History of Modern Philosophy: From Descartes to Wittgenstein*, (1981; 6th edition Routledge, London, 1992).
- Shakespeare, William, *The Illustrated Stratford Shakespeare*, (Chancellor Press, London, 1982; 3rd edition 1984).